

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

BYWYD AC AMSERAU YR ESGOB MORGAN

C. ASHTON

Bywyd ac Amserau
yr
Esgob Morgan.

BYWYD AC AMSERAU

YR

Esgob Morgan,

Cyfieithydd cyntaf y Beibl Cymraeg;

GAN

CHARLES ASHTON,

DINAS MAWDDWY.

"BEIBL I BAWB O BOBL Y BYD."

TREHERBERT:

ARGRAFFWYD, DROS YR AWDWR, GAN ISAAC JONES;

AC AR WERTH GAN YR AWDWR.

MDCCCXCI.

[*All Rights Reserved.*]

1057. e. 10.

BODLEIAN LIBRARY
27.APR.52
OXFORD

RHAGYMADRODD.

Y MAE tri chant ac un o flynyddoedd wedi myned heibio er pan gafwyd y gyfrol gyflawn gyntaf o'r Ysgrythyrau yn argraffedig yn yr iaith Gymraeg. Ac, hyd y flwyddyn ddiweddaf, ychydig a fu yr ymdrech i wneuthur dim tuag at gael dathliad *cenedlaethol* o'r amgylchiad pwysig hwnw. Hysbysir ni fod symmudiad ar droed yn y flwyddyn 1833 i gael cof-golofn yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy i'r Esgobion Morgan a Parry; ac i'r perwyl cafwyd amryw addewidion am danysgrifiadau.* Ond o herwydd rhyw reswm—diffyg cefnogaeth ddigonol, mae'n debyg—ni chariwyd y cynllun allan. Yn 1860, pan yn ail-adeiladu Eglwys Penmachno, gosodwyd ffenestr liwiedig hardd yn yr allor. Yr oedd y gwydr yn unig yn werth £120, a thalwyd y costau trwy gyfraniadau prif lenorion a dysgedigion y genedl. Ar y rhan uchaf o honi y mae darlun o "Esgyniad Crist"; ac o dano, ddarlun o St. Pedr ar yr ochr aswy, Ioan Fedyddiwr yn y canol, ac o St. Paul ar yr ochr ddeheuol. Ac ar waelod y ffenestr y mae yn argraffedig:—"In Memory of Wm. Morgan, D.D., Bishop of St. Asaph, born in this parish, died Sept. 10th, 1604." Ac, hyd y gwyddom, hon ydyw yr unig gof-arwydd a godwyd iddo.

Yn 1881, ar y 4ydd o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod yn y Tŷ Mawr, Wybernant,—lle y ganwyd y Dr. Morgan — i'r amcan o gynhyrfu meddwl y genedl i danysgrifio £1000 i godi cof-golofn genedlaethol i'r Esgob. Ym mhlith y rhai a gefnogent y symmudiad, y rhai hefyd a gymmerasant ran yn y cyfarfod, yr oedd y Parch. John Jenkyns, rheithor y plwyf; y Parch. Thomas Levi, Aberystwyth; y Parch. John Evans *(Eglwys Bach)*; a'r diweddar Mr. Owen Gethin Jones, yr hynafiaethydd a'r bardd o Benmachno. Cafwyd areithiau rhagorol yn y cyfarfod hwn; a phenderfynwyd ar y cynllun i ofyn ceiniog gan bob un o ddarllenwyr y Beibl Cymraeg. Ond er mor fychan oedd y cais, ac er mor haeddiannol oedd y gwrthddrych, rhaid dyweyd, a hyny er cywilydd i Gymru, na lwyddwyd i gario y cynllun allan!

Yn nechreu y flwyddyn 1888, ysgrifenwyd amryw o lythyrau i'r newyddiaduron i alw sylw at y priodoldeb o ddathlu "Tri chan'mlwyddiant y Beibl Cymraeg." Y cyntaf a dynodd ein sylw oedd

* Bye-Gones, 14th January, 1885.

llythyr gan y Parch. E. T. Davies, B.A., ficer Aberdyfi, yn y *Liverpool Courier;* dilynwyd hwn gan lythyr oddi wrth yr un gŵr parchedig yn y *Gwalia* am Ionawr 4ydd, 1888; a chafwyd erthygl sylweddol o'i eiddo ar y pwnc yn yr *Haul* am yr un mis. Yn *Baner ac Amserau Cymru*, 1af Chwefror, ymddangosodd y llythyr canlynol:—

Y Deondy, Llanelwy, *Ionawr*, 1888.

Foneddigion,

Y mae y flwyddyn newydd sydd wedi gwawrio arnom yn dri chan'mlwyddiant y cyfieithiad o'r holl Feibl i'r iaith Gymraeg, gan yr Esgob William Morgan; ac y mae teimlad cyffredin yn y Dywysogaeth na ddylai y cyfryw amgylchiad fyned heibio heb rhyw goffhâd cenedlaethol o'r gŵr a fu yn foddion i ddodi y fath fendith annhraethol ar ein gwlad. Awgrymwyd i mi, fel deon yr eglwys gadeiriol lle y gorwedd ei weddillion, y dylwn ymdrechu rhoddi y cyfryw ddymuniad mewn gweithrediad. Yn ganlynol, yr wyf yn erfyn eich caniatâd i ddyweyd fy mod yn bwriadu ar fyrder alw cyfarfod o Gymry, ac eraill sy'n cymmeryd dyddordeb yn y symmudiad, yn yr Amwythig—y lle canolog mwyaf cyrhaeddadwy o Ogledd a Deheudir Cymru. Bwriadaf yn gyntaf oll ymohebu âg Eglwyswyr blaenllaw, ac arweinwyr prif gyrph Anghydffurfiol Cymru. Ac ar ol hyn, gwneir yn hysbys y lle a'r amser y cyferfir mor ddiymaros ag y bydd bossibl. Bydd ffurf y coffhâd yn fater ymdrafodaeth yn y cyfarfod. Yn y cyfamser, câ pob awgrymiad a gyfeirir ataf fy sylw; ond nis gallaf ymrwymo i atteb pob llythyr.

Ydwyf, Foneddigion,
Yr Eiddoch yn ffyddlawn,
HERBERT A. JAMES.

Yn unol â'r llythyr uchod cynhaliwyd cyfarfod o gefnogwyr y symmudiad yn yr Amwythig ar y 24ain o Chwefror, yn yr un flwyddyn. Ym mhlith eraill yr oedd yn bresennol, Deon Llanelwy (yn y gadair); Archddiacon Thomas, Meifod; y Prif-Athraw Edwards, D.D., Aberystwyth; Canon Howell, Gwrecsam; y Dr. James, Pontrobert; y Dr. Dickens Lewis, Amwythig; y Parchedigion David Jones, ficer Llanrhaiadr ym Mochnant; W. Hughes, Llanuwchllyn; Thomas Levi, Aberystwyth; a J. Charles, Croesoswallt. Penodwyd Deon Llanelwy yn llywydd, y Prif-Athraw Edwards yn is-lywydd, y Dr. Dickens Lewis a'r Parch. William Hughes, Llanuwchllyn, yn ysgrifenyddion, y symmudiad. Penderfynwyd hefyd, os caniatai cyllid y gronfa, fod y gofeb i gynnwys: (1) Cof-golofn i gael ei chodi ym mynwent Eglwys Gadeiriol Llanelwy: (2) Ysgoloriaeth neu wobr yn cael ei chynnyg am ragoriaeth mewn dysgeidiaeth Ysgrythyrol: ac yn (3) Gwobr o ddim mwy na chan' punt am y Traethawd goreu ar "Fywyd ac Amserau yr Esgob Morgan."

Y mae amryw o gyfarfodydd dylanwadol o blaid y symmudiad wedi cael eu cynnal ar ol hyny; a hysbysir ni fod cyfraniadau helaeth eisoes

wedi dyfod i law. Y swm mwyaf, hyd y clywsom, a danysgrifiwyd gan yr un person, ydoedd un am £100 gan G. W. Taylor, Ysw., Melbourne. Ac y mae y swm hwnw i gael ei roddi i'r ymgeisydd llwyddiannus yn y gystadleuaeth i ba un yr anfonir y Traethawd hwn.

Y mae yr ammodau yn gyfryw fel yr ydym at ein rhyddid i ysgrifenu yr un fynom a'i Cymraeg ai Saesoneg. Dewisiasom yr iaith flaenaf, am y credem nad ydyw amryw o'r Cymry eu hunain yn gwybod cymmaint o hanes eu Beibl ag a fuasai yn ddymunol.

Nid oes angen i ni nodi y ffynnonellau o ba rai y cawsom ein defnyddiau yn y fan hon, am y rheswm ein bod yn cyfeirio yn barhaus at ein hawdurdodau yng nghorff y gwaith ac ar waelod y tudalenau, wrth fyned ym mlaen. Nid ydym yn gyfrifol am yr amrywiaeth orgraff a geir yn y dyfyniadau a wneir o lyfrau *Cymraeg*, gan y tybiwn nad ein lle ni oedd cyfnewid dim ar weithiau pobl eraill, hyd yn oed pan y maent yn anghywir, neu yn anghysson â hwynt eu hunain—pa un bynag ai o ddamwain neu o fwriad.

Os dyfernir y Traethawd hwn yn oreu, ac os tybia y beirniaid ei fod yn deilwng o'r wobr, bydd yr ysgrifenydd yn barod i wneuthur unrhyw welliantau a awgrymant. Nid oes bellach ond ei anfon ymaith. A gwneir hyn gyda gradd o brudd-der, am ein bod wedi cael y Dr. Morgan yn gydymaith diddan, a'i "Amserau" y rhai mwyaf dyddorol yn hanes ein gwlad.

GLYNTREFNANT.

Medi 27ain, 1889.

Fel y gwelir uchod yr oedd y Rhagymadrodd *cyn* i ni anfon y Traethawd hwn i'r gystadleuaeth. Fe ddichon y gweddai i ni yn awr ychwanegu ychydig *ar ol* ei ddychweliad. Y beirniaid oeddynt y Parch. T. C. Edwards, D.D., Aberystwyth; y Proffeswr John Rhys, M.A., Rhydychain; a'r Parch. Canon Silvan Evans, B.D., rheithor Llanwrin; ac ni chafodd neb erioed feirniaid mwy cymhwys a galluog. Gwnaed dyfarniad y beirniaid yn hysbys i'r awdwr ar y 14 Mehefin, 1890, pryd y deallwyd mai Thomas Evan Jacob, Ysw., M.A., 26, Sterne Street, Shepherd's Bush, Llundain, a gafodd y wobr. Ac ni theimlwn unrhyw gywilydd o gael ein curo gan lenor mor alluog a dysgedig. Dywedid yn y feirniadaeth fod saith o gyfansoddiadau wedi eu hanfon i mewn, ac fod tri o'r saith yn "*deilwng o ganmoliaeth arbenig*," ac na fuasai y beirniaid yn teimlo "*dim petrusder i ddyfarnu y wobr i unrhyw un o'r tri hyn.*" Eiddo Mr. Jacob oedd un, a thraethawd yn dwyn y

ffug-enw "Cynfelyn" oedd y llall, a deallwn mai yn yr iaith SAESONEG yr ysgrifenwyd y ddau. Y traethawd canlynol oedd yr arall o'r tri a gafodd y ganmoliaeth a nodwyd. Ac mewn llythyr at yr Awdwr, dyddiedig Mehefin 16, 1890, dywed y Dr. Dickens Lewis, un o Ysgrifenyddion y symmudiad yng nglŷn â "Thri Chan'-mlwyddiant y Beibl Cymraeg," fel y canlyn :—

"Your Essay is highly spoken of by the three adjudicators, and I only wish some means could be found to admit of your publishing it. It is really a pity that Wales should not have the opportunity of reading the result of your laborious research in the matter."

Hefyd, awdurdodwyd yr Awdwr gan y Canon Silvan Evans i ddyweyd ei fod ef yn ystyried y traethawd yn wir werth ei gyhoeddi. Oherwydd y canmoliaethau a grybwyllwyd, yng nghyda'r ffaith *mai hwn oedd yr unig draethawd* CYMRAEG a ystyrid yn deilwng o'r wobr, a chan mai y BEIBL CYMRAEG ydyw cnewullyn yr ymdrafodaeth, tueddwyd yr Awdwr i'w gyhoeddi. Ac yn awr, cyflwynir ef I BAWB A DDARLLENANT Y LLYFR HWNW YM MHOB MAN.

Y mae yr Awdwr o dan rwymau i gyflwyno ei ddiolchgarwch i luaws o lenorion ac eraill a fuant mor garedig a gohebu ag ef yn ystod ei ymchwiliad. Y mae eu nifer yn rhy luosog i'w henwi. Ond dylid nodi yn arbenig y cynnorthwy a gafwyd gan R. R. Roberts, Ysw., Bryn Helen, Caernarfon, a'r diweddar E. G. Salisbury, Ysw., Llundain, am y wybodaeth a roddwyd ganddynt yng nghylch achau yr Esgob Morgan; a derbynied Arthur E. Hughes, Ysw., M.A., *The County School*, Bedford, ein diolchgarwch gwresocaf am y cynnorthwy a roddodd yng nghyfeithiad Llythyrau Cyflwynol Morgan a Parry. Ac nid ydym, ychwaith, yn anghofio caredigrwydd y rhai hyny a hyrwyddasant gyhoeddiad y gyfrol fechan hon trwy anfon eu tanysgrifiadau. Teg yw hysbysu hefyd, ag eithrio 62 o'r tudalenau dechreuol yn Nhraethawd Mr. Jacob, mai yr un a ganlyn ydyw y *cyntaf* a gyhoeddwyd o gynnyrchion y gystadleuaeth a nodwyd. Gan hyderu y bydd y darllenwyr mor garedig ag edrych yn dyner ar ba ffaeleddau bynag a ganfyddant yn y gyfrol, y terfyna,

Yr Eiddont yn Ostyngedig,

CHAS. ASHTON.

DINAS MAWDDWY,
Ebrill 23ain, 1891.

CYNNWYSIAD.

———o———

RHAGYMADRODD ... ... tud. v.

PENNOD I.

SEFYLLFA DDEALLOL A CHREFYDDOL Y CYMRY CYN CYHOEDDIAD BEIBL MORGAN ... ... tud. 13

Cnewullyn y testyn yw'r Beibl Cymraeg—Haeriadau fod yr iaith Gymraeg ar farw allan yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg—Sefyllfa wleidyddol Cymru yn yr un cyfnod—Y Cymry o dan y Tuduriaid—Deddf Uniad Cymru â Lloegr—Cyfnewidiadau gwleidyddol yn dirywio yr iaith Gymraeg—Yr iaith, er yn llygru, yn eang ei therfynau—Hyny yn galw am Feibl i'r genedl yn ei hiaith ei hun—Y Saeson yn cael y Beibl o flaen y Cymry—Mai ychydig o effaith a gafodd y Beibl Seisonig yng Nghymru—Yr ysgriflyfrau Cymreig o'r Ysgrythyrau wedi myned ar goll cyn y Diwygiad Protestanaidd—Anwybodaeth, anfoesoldeb, ac ofergoeledd yng Nghymru yn y cyfnod hwnw—Y Cymry yn fwy Pabyddol na'r Saeson—Y Cryn-odeb a'r Casgliad.

PENNOD II.

NODIADAU AR LENYDDIAETH ARGRAFFEDIG Y CYMRY YN FLAENOROL I GYHOEDDIAD BEIBL MORGAN ... ... tud. 47

Y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd—Gruffydd Hiraethog a Syr John Price yn eu cyssylltiad â llenyddiaeth argraffedig y Cymry—William Salesbury—Nodiadau ar ei dras a'i fonedd, ei weithiau llenyddol, &c.—Y Ddeddf Seneddol er cyfieithu ac argraffu yr Ysgrythyrau, &c., i'r Gymraeg—John Scory, esgob Henffordd—Anthony Kitchin, esgob Llandaf—Rowland Meyric, esgob Bangor—Thomas Davies, esgob Llanelwy—Richard Davies, esgob Tŷ Ddewi—Thomas Huet—Y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Testament Newydd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg am y tro cyntaf yn 1567—Nodiadau ar y Testament Newydd—Llythyr Cyflwyn William Salesbury i'r Frenhines Elizabeth—Salesbury a Davies wrth y gorchwyl o gyfieithu yr Hen Destament, a'r anghydwelediad rhyngddynt—Llyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar y Cyfandir—Gruffydd Roberts—Morys Clynog—Rhosier Smyth—Y Catecism a llyfrau Cymraeg eraill.

PENNOD III.

NODIADAU AR FYWYD Y DR. MORGAN HYD EI DDYRCHAFIAD I'R FAINC ESGOBOL ... ... tud. 88

Màn ei enedigaeth—Dysgrifiad o'r Tŷ Mawr, yn Wybernant—Ei rieni, a'i achau—Traddodiadau yn ei gylch—Y dybiaeth iddo dderbyn ei addysg foreuol gan fynach fföedig—Ei fynediad i Goleg St. Ioan, Caergrawnt—Sefyllfa y prif-ysgolion yn yr amser hwnw—Ei benodiadau i fywoliaethau'r Trallwm, Llanrhaiadr ym Mochnant, Llanfyllin, Pennant Melangell, a Dinbych—Awgrymiadau am dano fel offeiriad—Crybwylliadau am ei briodas ddirgelaidd ag Ellen Salesbury, cyn ei fynediad i Gaergrawnt—Mai ei ail wraig oedd Catherine, ferch George ap Richard ap John—Achau ei wraig gyntaf—Evan Morgan, ei olynydd yn Llanrhaiadr, yn fab iddo—Achres o'i ddisgynyddion hyd yr amser presennol, &c., &c.

PENNOD IV.

NODIADAU AR EI WAITH YN CYFIEITHU A CHYHOEDDI Y BEIBL; A'R AMGYLCHIADAU CYSSYLLTIEDIG ... ... tud. 118

Morgan yn ymgymmeryd â'r gwaith o gyfieithu'r Beibl yn wirfoddol—Dyfaliadau yng nghylch yr amser y dechreuodd ar y gorchwyl—Yn cael ei wysio o flaen yr Arch-esgob Whitgift mewn canlyniad i amrafael rhyngddo a'i blwyfolion—Natur yr amrafael—Yn cael ei annog gan yr Arch-esgob i fyned ym mlaen gyda'r gwaith—Y traddodiad mai mewn hafdŷ yn sir Drefaldwyn y cyfieithodd yr Ysgrythyrau yn cael ei ammeu—Morgan yn cyhoeddi y Beibl yn gyflawn yn 1588—Ychydig o nodiadau ar y gwaith—Cyfieithiad o Lythyr Lladin Morgan—Cyfrol o'r Psalmau "o'r un cyfieithiad a'r Beibl Cyffredin" yn cael ei chyhoeddi yn yr un flwyddyn—Morgan yn cyhoeddi pregeth a draddododd yn angladd Syr Yevan Llwyd—Y dybiaeth iddo ddiwygio y Testament Newydd ym mhellach—Yr haeriad iddo ysgrifenu Geirlyfr Cymraeg—Cyfeiriad ato fel bardd—Dau Gywydd iddo—&c., &c.

PENNOD V.

CYNNORTHWYWYR, NEU GEFNOGWYR, MORGAN YNG NGHYFIEITHIAD YR YSGRYTHYRAU ... ... tud. 151

Sylwadau ar yr Arch-esgob Whitgift; yr Esgob Hughes o Lanelwy; Robinson a Bellot, esgobion l'angor; a'r Dr. Gabriel Goodman—Y gwasanaeth a wnaethant i Morgan—Y Dr. David Powel, Rhiwabon—Edmwnd Prŷs—Sylwadau ar ei Salmau Cân, gyda chyfeiriadau, wrth fyned heibio, at Edward Kyffin, Gwilym Ganoldref, ac eraill—Y Dr. Richard Vaughan—Y cynnorthwy a gafodd Morgan yn cael ei ystyried; &c., &c.

PENNOD VI.

NODIADAU AR MORGAN FEL ESGOB ... ... tud. 187

Yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei llywyddu gan esgobion Seisonig cyn y Diwygiad—Dyrchafiad Morgan i Esgobaeth Llandaf—Tlodi yr Esgobaeth—Prinder ei hanes yno—Ei drosglwyddiad i Lanelwy —Nodiadau ar gyflwr yr Esgobaeth ac aelodau y Glwysgor—Rhestr o'r clerigwyr a gyflwynwyd gan Morgan yn Esgobaeth Llanelwy—Morgan yn ychwanegu at nifer y pregethau yn yr Eglwys Gadeiriol, &c.—Yr anghydwelediad a fu rhyngddo a John Wynn o Wydir—Sylw byr ar John Wynn—Yr ohebiaeth a gymmerodd le rhwng Morgan a Wynn, a rhwng y ddau a Mr. Martyn—Marwolaeth Morgan, a'i gladdedigaeth—Sylw ar gladdedigaethau yr oes hòno—Awgrymiadau mewn perthynas i gymmeriad Morgan, &c., &c.

PENNOD VII.

SALESBURY A MORGAN FEL CYFIEITHWYR ... ... tud. 225

Adran I. — Nodweddion Ieithyddol Testament Salesbury a Beibl Morgan ; yn yr hon y ceir ymdriniaeth ar orgraff ac arddull y naill a'r llall, gydag enghreifftiau. *Adran II.*—Ffynnonellau, neu Ddefnyddiau, y ddau Gyfieithiad ; ym mha un y ceisir dangos pa Destamentau Groeg a Lladin a ddefnyddiasant, ac i ba raddau y dilynasant y Cyfieithiadau Seisonig. *Adran III.*—Teilyngdod cymhariaethol Salesbury a Morgan fel Cyfieithwyr ; pryd y rhoddir y flaenoriaeth i Salesbury can belled ag y mae gwreiddioldeb yn y cwestiwn, ac i Morgan o ran arddull ac ieithwedd.

PENNOD VIII.

MORGAN A PARRY FEL CYFIEITHWYR ... ... tud. 269

Yr Esgob Parry yn dwyn allan argraffiad diwygiedig o Feibl Morgan yn 1620—Nodiadau ar yr Esgob Parry ; ac ar ei gynnorthwywr, y Dr. John Davies, o Fallwyd—Llythyr Cyflwyn Parry i'r Brenin Iago I.—Y ffynnonellau o ba rai y tybir fod Morgan a Parry yn cyfieithu—Enghreifftiau i ddangos nad yw yr oll o gyfnewidiadau Parry er gwell—Rhai o ddiwygiadau Parry yn cael eu nodi.

PENNOD IX.

SYLWADAU AR LEDAENIAD YR YSGRYTHYRAU YNG NGHYMRU, A'U DYLANWAD AR Y GENEDL ... ... tud. 298

Adran I.—Y Derbyniad a gafodd y Beibl Cymraeg gan y Genedl. *Adran II.* — Ei Ddylanwad ar Iaith a Llenyddiaeth y Genedl. *Adran III.*—Ei Ddylanwad ar Foesau a Chrefydd y Genedl.

ATTODIAD,

Yn cynnwys Rhestr o rai o Berchenogion presennol cyfargraffiadau o Destament Salesbury, 1567; Beibl Morgan, 1588; a Beibl Parry, 1620 ... ... tud. 319

PENNOD I.

SEFYLLFA DDEALLOL A CHREFYDDOL Y CYMRY CYN CYHOEDDIAD BEIBL MORGAN.

Cnewullyn y testyn yw'r Beibl Cymraeg—Haeriadau fod yr iaith Gymraeg ar farw allan yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg — Sefyllfa wleidyddol Cymru yn yr un cyfnod—Y Cymry o dan y Tuduriaid—Deddf Uniad Cymru â Lloegr — Cyfnewidiadau gwleidyddol yn dirywio yr iaith Gymraeg—Yr iaith, er yn llygru, yn eang ei therfynau—Hyny yn galw am Feibl i'r genedl yn ei hiaith ei hun—Y Saeson yn cael y Beibl o flaen y Cymry—Mai ychydig o effaith a gafodd y Beibl Seisonig yng Nghymru—Yr ysgrifllyfrau Cymreig o'r Ysgrythyrau wedi myned ar goll cyn y Diwygiad Protestanaidd—Anwybodaeth, anfoesoldeb, ac ofergoeledd yng Nghymru yn y cyfnod hwnw — Y Cymry yn fwy Pabyddol na'r Saeson—Y Crynodeb a'r Casgliad.

Cnewullyn ein testyn ydyw y Beibl Cymraeg a gyfieithwyd gan y Dr. William Morgan, ac a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1588. Oni buasai am y gorchwyl hwn o'i eiddo, ni fuasai Morgan yn haeddu mwy o sylw na miloedd o offeiriaid eraill oedd yn byw yn ei amser, nac ychwaith amgenach cofiant nag ugeiniau o'r rhai a eisteddasant o bryd i bryd yng Nghadeiriau Esgobol Llandaf a Llanelwy. Yr hyn sydd yn gosod arbenigrwydd ar unrhyw ddyn ydyw y gwaith a gyflawna; a gwaith mawr y Dr. Morgan oedd troi yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg. Ac nis gellir gwerthfawrogi ei lafur yn briodol heb sylwi ar yr angenrheidrwydd oedd am y fath orchwyl, a'r anhawsderau a'i hamgylchynent yn y cyflawniad o hono. Cyn ymdrin ar Morgan a'i lafur, credwn y dylid cymmeryd golwg gyffredinol ar sefyllfa gymdeithasol, ddeallol, a chrefyddol y genedl yn flaenorol i ymddangosiad ffrwyth ei lafur. Hyn a gaiff fod yn fater y bennod hon. I'r un perwyl, hefyd, ystyriwn y dylid rhoddi crynodeb o hanes a llafur y rhai a'i rhagflaenodd yn y gorchwyl daionus o oleuo meddyliau y werin Gymreig mewn materion crefyddol. Hyny fydd cynnwysiad ein pennod nesaf.

Yr ydym wedi cyfarfod ag amryw haeriadau yn ddiweddar i'r perwyl "fod yr iaith Gymraeg ei hun i fesur mawr wedi marw allan" yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg a'r eilfed-ar-bymtheg. Os ydym yn deall yn iawn, hyn ydyw y casgliad y daw Mr. Ivor James iddo mewn dwy ysgrif alluog o'i eiddo yn "Y Traethodydd," 1887; ac os nad ydym yn camgymmeryd, hyn oedd sylwedd anerchiad o eiddo Mr. Gladstone pan yn llywyddu un o gyfarfodydd Eisteddfod Genedlaethol Gwrecsam, 1888. Y

mae o bwys i ni gael allan i ba raddau y mae hyn yn wirionedd. Ond dylem sylwi cyn myned ym mhellach, nad ydym yn deall fod neb yn dal allan fod y Gymraeg wedi myned yn iaith *hollol* farw y pryd hwnw. Pe felly, ni fuasai angen am gyfieithu yr Ysgrythyrau iddi o gwbl. Yr oedd yr angenrheidrwydd am hyny yn ymddibynu, i raddau helaeth beth bynag, nid am fod llawer o'r Cymry yn deall Cymraeg, ond am fod nifer luosog o honynt heb fedru yr un iaith arall. Os oedd "corff mawr pobl Cymru," fel y dywed Mr. James, "wedi cyrhaedd adnabyddiaeth ddigonol o'r Saesoneg," gallasent, ni a dybiwn, ddefnyddio y Beiblau oeddynt eisoes wedi eu cyhoeddi yn yr iaith hòno. Ai nid gwell a fuasai cymmeryd y drafferth angenrheidiol i ddysgu ychydig o Saesoneg i'r eithriadau anaml na myned i'r boen a'r gost o ddwyn allan gyfieithiad o'r holl Ysgrythyrau ar eu cyfer? Y mae yn wir y buasai y cyfryw orchwyl o ryw gymmaint o werth llenyddol. Diammeu y teimlasai y llyfryddwyr a'r dysgedigion Celtaidd ddyddordeb mewn cyfrol yn cynnwys geiriau olaf y Gymraeg wrth farw. Ond os nad oedd darllenwyr Cymraeg, nis gellir edrych ar Morgan ond fel awdwr gorchest-waith i dynu sylw y byd dysgedig, yn hytrach nag fel dyngarwr duwiolfrydig yn ceisio achub eneidiau ei gyd-ddynion. Ond hyderwn y gallwn brofi mai nid fel hyn yr oedd.

Dylid sylwi yn gyntaf fod y Cymry hyd deyrnasiad Edward I. mewn rhyfel parhaus â'r Saeson. Ac o deyrnasiad y penadur hwnw hyd y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII., yr oeddynt, er wedi eu gorchfygu, yn bobl ar wahan; yn cael eu llywodraethu mewn rhan yn unol â'u hen gyfreithiau eu hunain, ac mewn rhan o dan gyfreithiau o eiddo brenhinoedd Lloegr. Yr oeddynt wedi colli y rhan fwyaf o'u breintiau cyntefig, ond heb dderbyn ond ychydig mewn ad-daliad. O'r flwyddyn 1823,* pryd y pasiwyd *Cyfraith Rhuddlan*, hyd amser Harri VII., dywed Carnhuanawc† na phasiwyd llai na phymtheg o ddeddfau Seneddol ag oeddynt yn cwtogi ar eu rhyddid. Nid oedd y pethau hyn a'r duedd leiaf ynddynt tuag at ddwyn y Cymry i fabwysiadu iaith eu gorchfygwyr. Ond i'r gwrthwyneb. Gellir tybied oddi wrth y ffaith fod y cyfenw "Sais" yn cael ei gyssylltu ag enwau rhai Cymry, mai eithriadau oedd y rhai a siaradent Saesoneg yn y Canol Oesoedd. Yr ydym, er enghraifft, yn cyfarfod ag enwau Elidyr Sais,‡ Llywelyn Sais,§ Einion Sais,‖ Rhys Sais,¶ Cynwrig Sais,** ac Iorwerth Sais,†† y rhai yn

* Amserir *Cyfraith Rhuddlan* yn gyffredin yn 1284. Ond ei dyddiad yn ol copïau Ellis Owen, yr hyn a gadarnheir gan Rymer, ydyw y 7fed o Fawrth, 1283. (*Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, cyf. ii., tud. 152.)

† Hanes Cymru, tud. 784. ‡ Myv. Arch., pp. 240-45.

§ Hist. Powys Fadog, vol. ii., p. 170. ‖ Ibid. vol. iii., p. 34; vol. v., pp. 58, 113.

¶ Ibid. vol. iv., p. 154; vol. v., p. 49. ** Ibid. vol. iv., pp. 15, 331. †† Ibid. vol. iv., p. 163.

ddiammeu oeddynt Gymry wedi dysgu Saesoneg. Enwau Cymreig sydd iddynt, ac mewn ach-restrau Cymreig y cyfarfyddir â hwynt; ac y mae yn anhawdd esbonio paham y cawsant y cyfenw hwn onid ar y dybiaeth eu bod ym mhlith yr eithriadau anaml oedd wedi dysgu rhywfaint o Saesoneg. Drachefn, yr ydym yn casglu oddi wrth "*Drioedd y Sais*,"* y rhai a "gânwyd" ger bron Cadair Tir Iarll gan Hopgin Twm Philip o'r Gelli Vîd, yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth (1572), beth oedd syniad y beirdd Cymreig, geneuau cyhoeddus y werin bobl, am y Saeson. Nid ydyw y triad canlynol ond megys y tyneraf o ddeuddeg a deugain:—"Tri pheth goreu pa bellav y bônt: cwn cyndeirogion, melldith Duw, a Sais." O eiddo yr un bardd y mae "Trioedd y Cymro";† a gellir ystyried yr un canlynol fel darnodiad o gyffes ffydd y nifer luosocaf o'r genedl yn yr unfedganrif-ar-bymtheg:—"Tri pheth y dylai Gymro eu caru o vlaen dim: cenedl y Cymry, devodau a moesau y Cymry, ac iaith y Cymry."

Ond rhaid addef wedi'r cyfan fod y llanw Seisonig yn rhedeg i fewn i'r Dywysogaeth yn gryf a sefydlog er ys llawer blwyddyn cyn i Hopgin Twm Philip "ganu" ei Drioedd. Llareiddiodd y teimlad digofus a goleddid gan y Cymry tuag at y Saeson i raddau helaeth yn nheyrnasiad Harri VII. Ac y mae yn ddiammeu fod rhai ysmotiau o Gymru wedi eu Seisnigeiddio ym mhell cyn hyny. Cynllun Edward I. i gadw y Cymry mewn trefn ar ol eu gorchfygu oedd adeiladu cestyll yma a thraw, a gosod milwyr Seisonig i'w cadw. Rhoddodd freintiau bwrdeisiol hefyd i amryw o'r prif drefydd, a Saeson gan y mwyaf a benodid yn fwrdeisiaid. Ac y mae yn naturiol casglu fod y Cymry oedd yn dyfod i gyssylltiadau masnachol a chymdeithasol â'r Saeson hyny yn derbyn llawer o'u dylanwad. Ond credwn mai ar esgyniad Harri VII. y dechreuodd llid y genedl lleddfu tuag at eu gorchfygwyr. Ar ei esgyniad ef, cawsant frenin a rhyw gymmaint o waed Cymreig yn ei wythienau; yr hwn a roddodd iddynt freinlenau a symmudasant rai o'u gorthrymderau. Yn ystod teyrnasiad ei fab, Harri VIII., cymmerodd cyfnewidiad pwysig le yn eu sefyllfa wleidyddol. Yr oedd y Cymry yn awyddus am gael mwynhau yr un breintiau a chael eu llywodraethu gan yr un deddfau a'r deiliaid Seisonig. I'r perwyl hwn anfonasant ddeiseb‡ at y Brenin, wedi ei geirio gan Syr John Price, o'r Prior-dŷ, Aberhonddu. Mewn canlyniad i'r ddeiseb hon pasiwyd deddf seneddol yn y flwyddyn 1536, trwy yr hon y cwbl unwyd Cymru

* Myv. Arch., p. 903. † Ibid. p. 902.

‡ Ceir y Ddeiseb yn argraffedig yn Warrington's Hist. of Wales (Fourth Edition, 1823), vol. ii., pp. 351-9.

â Lloegr, ac o hyny hyd yn awr y mae y ddwy genedl mewn ystyr wleidyddol yn un.*

Rhoddodd *Deddf yr Uniad* freintiau pwysig i'r Cymry; er nad ydyw pawb, fe allai, yn cytuno o barthed i'r oll o'i darpariaethau. Trefnwyd fod y tiroedd yng Nghymru i gael eu meddiannu gan y mab hynaf; rhanwyd cyfran o'r Dywysogaeth yn siroedd, sef y rhanau hyny nad oeddynt wedi eu gwneuthur felly yn flaenorol; a darparwyd fod i bob sir Gymreig gael yr awdurdod i anfon marchogion i'w cynnrychioli yn y Senedd Seisonig,—am fuddioldeb yr olaf nid oes neb yn anghytuno. Ond y mae y Rhagarweiniad i'r ddeddf hon, yn gystal ag un adran o honi, yn hawlio ein sylw wrth fyned heibio. Cwynir fod y Cymry, trwy arfer iaith wahanol i'r Saeson, yn achlysur i rai dynion anfoesgar ac anwybodus greu anghydwelediad ac anghydfod ym mhlith deiliaid y brenin. Dywedir:—

And also because that the people of the same domynion haue and do dailly vse a speech nothinge like nor consonant to the natural mother tongue vsed within this realme, some rude and ignorant people haue made distinction and diuersitie betwixte the K.'s subjects of this realme and those of the said dominion and principalitie of Wales, whareby great discord, variaunce, debate, diuision, murmur and sedition hath growne betwixte his saide subjects.†

Ac er mwyn rhoddi pob anghefnogaeth a allesid i'r rhai a arferent yr iaith Gymraeg, ac er mwyn ei diwreiddio yn y Dywysogaeth, os yn bosibl, gosodwyd yn y ddeddf yr adran ganlynol:—

That all Justices, com'issioners, sherifs, coroners, escheators, stewards, and their lieutenaunts, and all other officers and ministers of the lawe, shall proclaime and kepe the sessions, courtes, hundreds, leates, sherifs courtes, and all other courtes, in the English tongue. And all oathes of officers, juries, and enquests, and all affidauits, verdicts, and wagers of lawe, to be geuen and donne in the English tongue.

And also that from henceforth no parson or persons that vse the Welsh speech or language shall haue or enjoye any manner, office, or fees within this Realme of England, Wales, or other the K.'s dominion, vpon payne of forfeictinge the same offices or fees, vnless he or they vse and exercise the speech or language of English.‡

Er mwyn y Cymro un-ieithog, gallwn ddyweyd mai swm a sylwedd yr adran uchod ydyw, fod holl weithrediadau pob llys cyfreithiol yng Nghymru i gael eu cario ym mlaen yn yr iaith Seisonig; ac nad oedd yr un Cymro—na neb arall, wrth gwrs—i arfer yr iaith Gymraeg yng nghyflawniad unrhyw swydd yn y llysoedd cyfreithiol, o dan boen fforffediad ei gyflog fel y cyfryw. A gellir ychwanegu fod yr adran hon, er nad ydyw yn cael ei chario allan, mewn grym hyd heddyw.

* 27 Hen. VIII., c. 26.—Gwel Hist. Powys Fadog, vol. ii., pp. 53-59.
† Hist. Powys Fadog, vol. ii., p. 53. ‡ Ibid. p. 56.

Nid oes dadl na effeithiodd *Deddf yr Uniad* ar yr iaith Gymraeg. Yr oedd y cyfoethogion yn awyddus am foddhau y brenin; ac yr oedd anghefnogi y Gymraeg yn ei foddhau. Yr oedd siarad Saesoneg yn dyfod yn beth parchus ym mysg tir-feddiannwyr y Dywysogaeth; ac ystyrid hyny yn arwydd o goethder a dysgeidiaeth gan lawer. Credwn hefyd fod ymddygiad hynaws teyrnlinach y Tuduriaid at y genedl wedi effeithio llawn cymmaint er ei Seisnigeiddio ag a wnaeth y ddeddf Seneddol. Llywodraethid y Cymry gan y Tuduriaid fel y dylasid llywodraethu pobl ryddion, ac yr oeddynt hwythau yn teimlo fod y rhai a eisteddent ar yr orsedd o'r un gwaed a hwy eu hunain. Y mae genym enghreifftiau o'r penaduriaid yn y cyfnod hwn yn ymostwng i gydnabod un o'r sefydliadau hynaf a hoffaf a feddai y Cymry—yr Eisteddfod. Cafodd llawer o'r Cymry eu penodi i swyddau pwysig yng nglŷn â'r llys, y fyddin, a'r llynges. Yr oedd pob gweithred o dynerwch o eiddo y llywodraeth at y genedl yn ei dwyn yn nes at y Saeson. Y mae yn wir fod masnach yn cael ei chario ym mlaen rhwng y ddwy genedl yn flaenorol, ac fod boneddigion Cymru yn anfon eu meibion i'r prif-ysgolion Seisonig; ond daeth y naill a'r llall yn llawer mwy cyffredin yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg na chynt. Yr ydym yn cael hefyd fod llawer o Gymry yn preswylio yn Llundain, yn gystal ag yn amryw o brif drefydd Lloegr; rhai yn fasnachwyr, eraill yn grefftwyr, ac eraill mewn galwedigaethau mewn cyssylltiad â llàn a llys. Trwy yr ymgymmysgiad hwn, yr oedd hadau yr iaith Saesoneg yn cael eu hau yn gyflym yng Nghymru. Nid yw o un dyben ceisio cuddio y ffaith fod y wlad yn cael ei Seisnigeiddio. Mewn llythyr o eiddo William Salesbury at Gruffydd Hiraethog,* dywed Salesbury fod G. Hiraethog "yn ceisiaw ymhell oddi yma ag oddi accw am bob Cwrach o lyfyr brycheulud i'w ddarllain ag i'w chwilio drostaw er cael peth comorth tuag at gynal yr Iaith sydd yn cychwyn ar dramgwydd. . . . ."

Y mae genym dystiolaeth bendant o eiddo y Dr. Gruffydd Roberts fod nifer luosog o'r Cymry yn esgeuluso y Gymraeg bron yn hollol, a'u bod yn awyddus am gael eu hystyried yn Saeson. Yn ei *Ramadeg*, a argraffwyd yn 1567, gwna i'r "Iaith Gambr y annerch yr hygar darleyd," pryd y dywed, ym mhlith pethau eraill, yr hyn a ganlyn:—

E fyd uethian'n dostur fynghalon urth veled lauer a anuyd ag a faguyd, im doedyd, yn diystr genthynt amdanaf, tann geissio ymurthod a mi, ac ymgystlung ag estroniaeth cyn adnabod dim o honi. Canys

* Y Traethodydd, 1876, tudal. 35; dyfynedig o Ysgrifyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig' rhif 15,034, tudal. 1.

chui a geuch rai yn gyttrym ag y guelant afon Hafren, ne glochdai, ymuithig, a chloued sais yn doedyd uniaith good morou, a dechreuant olung i cymraeg tros gof, ai doedyd yn faur i lediaeth. i cymraeg a fyd. seisnigaid, ai saisneg (dwu a uyr) yn rhy gymreigaid. A hyn sy'n dyfod nail ai uir pholder, yntau o goeg falchder a goruagruyd.*

Ond nid profi y mae'r dyfyniad uchod fod y Cymry wedi dysgu Saesoneg; ond fod dosparth o honynt yn awyddus i eraill feddwl hyny. Yr un dosparth oedd hwn a'r un a ffrëwyllwyd mor haeddiannol gan John Jones o Glan-y-Gors, o dan yr enw "Dic Sion Dafydd." Ond, ysywaeth, y mae amryw o'r hilogaeth eto yn fyw. Gwna y dosparth hwn gryn ystŵr gyda'r Gymraeg yn adeg etholiad, neu pan yn ceisio am swydd. Y mae yn wir hefyd fod rhai o honynt yn ffurfio Cymdeithasau Cymreig, ac yn cario'r gweithrediadau ym mlaen yn yr iaith Saesoneg. Mewn areithiau Seisonig y canmolir y Gymraeg ar lwyfan yr Eisteddfod. A thrwy brynu llyfrau Seisonig y cefnogir llenyddiaeth Gymreig. Yn ei lythyr "Att y Cymru" a argraffwyd o flaen "Y Drych Christianogawl," yn 1584, rhydd Gruffydd Roberts esboniad paham yr oedd y Gymraeg yn dirywio. Priodola hyny i ddibrisdod ac esgeulusdra boneddigion y genedl. Dywed:—

Tybygent y gwnnai boneddigion Cymreig o bris arni, nag y maent yn i wneythur. Hefyd chwi a gewch rai o'r Cymru mor ddiflas ac mor ddibris ddigwilidd, ac iddynt ar ol bod un flwyddyn yn lloegr, gymeryd arnynt ollwng ei Cymraeg dros gof, cyn dysgu Saesneg ddim cyful da. Y coegni ar mursendod hyn yn y Cymru sy yn peri i'r Saeson dybied na thal yr Iaith ddim, am fod ar y Cymru gwilydd yn dywedyd eu Iaith i hunain. A hyny a wnaeth i'r Iaith golli, a bod wedi ei chymysgu a'i llygru a Saesneg. . . . . pe bae'r Boneddigion cymreig yn ymroi i ddarllen, ac i ysgrifenu eu hiaith, hyny a wnae i'r cyffredin hefyd fawrhau a hoffi i hiaith.†

I'r un cyfeiriad y mae yr hyn a ysgrifenodd John Penry am sefyllfa yr iaith Gymraeg yn y flwyddyn 1587:—

Nid oes un dref farchnad yng Nghymru lle nad ydyw Saesoneg mor gyffredin a'r Gymraeg. O Chepstow i Gaer, holl amgylchedd y wlad gyda glan y môr, y maent oll yn deall Saesoneg. Lle y mae Mynwy a Maesyfed yn ffinio ar y Gororau, y maent oll yn siarad Saesoneg. Yn sir Benfro, nid oes nemawr ystôr o Gymraeg.‡

Dyna ddigon o brawf fod yr iaith Gymraeg mewn argyfwng pwysig yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Yn yr iaith Saesoneg y ceir hyny sydd ar gael o ohebiaethau Syr John Wynn o Wydir, yr Esgob Morgan, yr Esgob Parry, y Dr. John Davies o Fallwyd, ac

* Y Traethodydd, 1872, tud. 97. † Ibid. tud. 92.

‡ A Treatise containing the Equity of an Humble Supplication which is to be exhibited to Her Gracious Majesty, and the High Court of Parliament, in the behalf of the country of Wales, &c. Oxford, 1587.

eraill. Ac yr oedd y bobl gyffredin yn defnyddio nifer luosog o eiriau wedi eu benthyca o'r Saesoneg yn eu hymddyddanion cyffredin. Hyn ydyw y rheswm a rydd Gruffydd Roberts yn ei lythyr "Att y Cymru," o flaen "Y Drych Christianogawl," dros ddefnyddio "o eirie Anghyfiaith, megys o eiriau Seisonig ac o eraill ni pherthynant i'r Iaith Gymraeg, heb law bagad o'r sawl nid ydynt Gymraeg rowiog"; sef, "am fod yr Iaith Gyffredin wedi i chymyscu â llawer o eiriau anghyfiaith sathredig ymhlith y bobl, a bod yr hen eiriau ar wir gymraeg wedi myned ar gyfyrgoll ai hebergofi." Y mae Mr. Ivor James yn rhoddi "rhestr o eiriau o darddiad estronol (gan y mwyaf Saesoneg) a gymmerwyd i'r Gymraeg, ac a gynnwysir yng Ngeiriadur Salesbury, 1547."* Cymmerasom y drafferth i'w cyfrif, a chawsom fod eu nifer oddeutu 1,526. Nid ydym yn hòni gwybodaeth ddigonol i benderfynu eu tarddiad, ond yr oedd rhai o honynt yn cael eu hystyried yn burion Cymraeg rai cannoedd o flynyddoedd cyn geni Salesbury. Yn ol Mr. James, nid oedd y *gwynt* yn perthyn i'r Gymraeg, ac nid oedd ganddi na *milwr* na *sawdwr*. Ceir ganddo restr gyffelyb o eiriau wedi eu codi o ganiadau y Ficer Prichard,† yr hon sydd yn cynnwys 564; ac y mae yn nodi 40 o honynt nad ydynt i'w cael yng Ngeiriadur Salesbury. Y mae y cymmysgedd hwn ar yr iaith yn profi i ba gyfeiriad yr oedd yn myned. Ac hwyrach y cawn gyfleusdra cyn gorphen ein hysgrif i ddangos fod llenyddiaeth y genedl, ac yn enwedig y Beibl Cymraeg, wedi gwrth-weithio y dylanwad Seisonig i raddau pell.

Ond ni ddylem ystyried fod y cymmysgedd hwn yn profi mai iaith bron a marw allan oedd y Gymraeg. Y mae yn profi ei bod wedi llygru a dirywio yn enbyd er amser Cynddelw Brydydd Mawr; ac yr oedd mor wahanol i iaith y *Gododin* a phe buasai yn iaith arall; ond ni thybiai cyd-oeswyr Salesbury a Ficer Llanymddyfri eu bod yn siarad Saesoneg mwy nag y gwnai cyd-oeswyr Aneurin Gwawdrydd a Llywarch Hen. Y mae "Dafydd Morganwg" yn nodi 128 o eiriau Seisonig ag y dywed Dr. Johnson yn ei *Eiriadur* eu bod o darddiad Cymraeg.‡ Ac wrth edrych dros y rhestr, cawn fod Mr. Ivor James yn priodoli tarddiad Seisonig i amryw ag yr oedd Dr. Johnson yn eu priodoli i'r Gymraeg. Nid ein gorchwyl ni ydyw penderfynu y ddadl. Ond nid ydyw fod Cymry yr unfed-ganrif-ar-bymtheg yn mabwysiadu geiriau Saesoneg yn profi mai iaith farw oedd y Gymraeg, mwy nag ydyw fod Saeson y ddeunawfed ganrif, wrth ddefnyddio geiriau Cymraeg (os gwir a ddywedai Johnson), yn profi fod y Saesoneg bron a marw allan.

* Y Traethodydd, 1887, tud. 306. † Ibid. tud. 310. ‡ Cyvaill yr Aelwyd, 1888, tud. 197

Ond, o'r ochr arall, y mae genym brofion digonol dros fod yr iaith Gymraeg yn arferedig yn amser y Tuduriaid mewn lleoedd nad ydyw felly heddyw. Ac y mae genym brofion hefyd mai hi oedd yr unig iaith a ddeallid gan y rhan luosocaf o breswylwyr Cymru. Os y Saesoneg oedd iaith y tir-feddiannwyr, Cymraeg oedd iaith y tenantiaid. Y mae *Deddf yr Uniad* y cyfeiriasom ati yn dangos mai Cymraeg oedd yr iaith gyffredin yn 1536. Ac y mae genym dystiolaeth Harri VIII. ei hun o anwybodaeth trigolion rhan o Ddeheubarth Cymru yn yr iaith Saesoneg mor ddiweddar a'r flwyddyn 1542. Mewn breinlen o'i eiddo, dyddiedig y flwyddyn hòno, er symmud Coleg Abergwili i Aberhonddu, ac er sefydlu *Christ College* yn y dref olaf, dywed :—

Yn gymmaint a bod Coleg Abergwili yn lle anghyfaddas, lle nad oes cyfleusdra i wŷr y coleg weinyddu llettygarwch er budd i'n deiliaid yn yr ardaloedd cylchynol. Ac yn gymmaint hefyd a bod ein deiliaid a breswyliant barthau deheuol Cymru, gan eu bod yn ddarostyngedig i dlodi mawr, yn analluog i gyfranu addysg i'w meibion, ac nad oes ganddynt ysgolion gramadegol; yr hyn sy'n achosi fod clerigwyr a lleygwyr, o bob oed a sefyllfa, nid yn unig yn anfoesgar ac anwybodus yng nghyflawniad eu dyledswyddau tuag at Dduw ond hefyd yn eu hufuddodd tuag atom ni, ac mor anhyddysg yn iaith gyffredin Lloegr, fel nad ydynt alluog i gadw ein cyfreithiau yn y cyfryw achosion a ddarperir; y rhai a ddylent ac ydynt yn rhwym i'w cyflawni, ond nid ydynt yn eu deall o herwydd eu hanwybodaeth o'r iaith Saesoneg.*

Os oedd y *clerigwyr* yn anhyddysg yn yr iaith Saesoneg, fel y dywedir yn y freinlen, gallwn gredu yn hawdd fod y *lleygwyr* felly. A gallwn gasglu oddi wrth "lythyr cyflwyn" William Salesbury i Harri VIII., yr hwn sydd yn argraffedig o flaen ei *Eiriadur*, fod y Cymry heb ddysgu Saesoneg yn 1547. Ar ol cyfeirio at y gwahaniaeth iaith a ffynai yn y deyrnas, ac at ymdrechion y Brenin i Seisnigeiddio y Cymry, dywed :—

Minnau . . . yn ol fy nhalent fechan, a dybiais yn ddyledswydd arnaf geisio ym mhob ffordd a allwn, er yn ychydig, er yn fychan, eto roddi rhyw gynnorthwy o leiaf tuag at ddwyn oddi amgylch eich amcan graslonaf. Am hyny, gan weled fod llawer o ddeiliaid eich Graslonrwydd yng Nghymru yn darllen yn berffaith yn yr iaith Gymraeg, y rhai, pe caent Saesoneg wedi ei hegluro iddynt yn yr iaith Gymraeg, a allent fod yn ysgolfeistri iddynt eu hunain, ac i eraill hefyd, ac felly yn y modd cyflymaf gael gwybodaeth o'r iaith Saesoneg trwy yr oll o'r wlad.

Y mae y darllenydd yn ddigon hysbys mai *rhyw fath o Saesoneg* a siaredir heddyw yng nghymmydogaethau'r Trallwm a Threfaldwyn. Ond y mae genym dystiolaeth Edward Herbert, arglwydd cyntaf Cherbury, mai nid felly yr oedd tua diwedd yr

* Phillips's *Wales*, p. 370.

unfed-ganrif-ar-bymtheg :—" Ar ol i mi," meddai, " gyrhaedd yr oedran o naw mlwydd, yn ystod yr oll o'r amser hwnw y bum yn nhŷ fy nain yn Eyton, barnodd fy rhieni yn ddoeth fy anfon i le y gallaswn ddysgu yr iaith Gymraeg, gan y tybient y dylaswn ymdrafod yn bersonol gyda'm cyfeillion a'm tenantiaid, y rhai ni ddeallent yr un iaith arall. Mewn canlyniad, cyflwynwyd fi i ofal Mr. Edward Thelwall, Plâs y Ward, sir Ddinbych."* Ganwyd yr Arglwydd Herbert o Cherbury yn y flwyddyn 1581, felly yn 1590 y cafodd ei anfon dan ofal Mr. Thelwall i ddysgu Cymraeg. Ni ennillodd Edward Herbert, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, fawr o enwogrwydd fel ieithyddwr tra yn aros yn Plâs y Ward; ac ni ddysgodd Gymraeg. Ond yr oedd ei rieni yn gweled mwy o debygolrwydd iddo ef ddysgu Cymraeg nag i amaethwyr Powys ddysgu Saesoneg, er fod William Salesbury wedi cyhoeddi "*A Dictionary in Englyshe and Welshe*" er ys dros ddeugain mlynedd.

Y mae genym brofion, hefyd, fod yr iaith Gymraeg yn arferedig yn rhanau o siroedd Henffordd a'r Amwythig yn y cyfnod dan sylw. Yr oedd y Ddeddf a basiwyd yn y bummed flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth yn gorchymmyn cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg yn nodi Esgob Henffordd, ym mysg eraill, i ofalu am y gwaith. Ac y mae yn anhawdd dyfalu paham y gwnaed hyn os nad oedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn rhyw ran o'i esgobaeth. Y mae yn wir fod rhyw ddarnau o siroedd Maesyfed a Threfaldwyn yn Esgobaeth Henffordd. Ond dywed y Dr. T. C. Edwards, ar awdurdod y Parch. John Davies, F.S.A., Pandy, Abergavenny, fod y Gymraeg yn cael ei siarad yn ochr orllewinol sir Henffordd, hyd yn oed o fewn cof pobl ag y bu Mr. Davies yn ymddyddan â hwynt. Dylem sylwi hefyd i Mr. Davies ymweled â llawer o eglwysi yn y sir hòno ym mha rai y gwelodd Feiblau Cymraeg, y rhai oeddynt yn dwyn arwyddion amlwg eu bod rywbryd wedi cael eu defnyddio yn y Gwasanaeth.†

Yn sir Amwythig y mae Whittington. Yn 1585, daeth bywoliaeth y plwyf hwnw yn wâg trwy farwolaeth rheithor o'r enw Kyffin. Mynai noddwr y fywoliaeth benodi J. Bagshaw, ond gan y gwrthodai Esgob Llanelwy (y Dr. William Hughes) ei gyflwyno, aed a'r achos i'w benderfynu i'r llys. Dadl gyntaf yr Esgob oedd mai yn ei law ef yr oedd y penodiad; ond pan welodd yr achos yn troi yn ei erbyn, dygodd ddadl arall ym mlaen, sef nad oedd Bagshaw yn medru Cymraeg fel ag i allu cyflawni ei ddyledswyddau yn yr iaith hòno, ac fod llawer o'r plwyfolion heb ddeall

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), pp. 81, 82, nodyn.

† Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 52, note (First Session).

yr un iaith arall. Dyfarnodd y llys yn erbyn yr Esgob, er y cydnabyddid fod y ddadl olaf o'i eiddo yn ddigon o reswm dros beidio cyflwyno Bagshaw, ond nis gellid ei derbyn am nad oedd wedi rhoddi y rhybudd gofynol mewn perthynas iddi.* Ac yn wir yr ydym yn cael fod y Gymraeg yn arferedig ym mhlwyf Whittington mor ddiweddar a'r ddeunawfed ganrif. Yn 1718, anfonodd y plwyfolion ddeiseb at yr Esgob, yn yr hon y mynegid fod y rheithoriaid er cyn cof yn cadw curadiaid Cymreig i weinyddu y Gwasanaeth ac i ymweled â'r cleifion ym mhlith Cymry y plwyf; a deisyfent am i'r drefn hòno barhau, yr hyn a ganiatäwyd. Ac y mae adroddiadau y Deoniaid Gwledig yn dangos mai felly yr oedd mor ddiweddar a 1732 ac 1749.† Dywedir wrthym hefyd fod siarad Saesoneg yn beth mor anghyffredin ar hyd heolydd Croesoswallt dri ugain mlynedd yn ol ag ydyw siarad Cymraeg yno yn bresennol. Pa fodd bynag am hyny, y mae ar glawr mai yn y flwyddyn 1814 y rhoddwyd heibio gynnal Gwasanaeth Cymraeg yn Eglwys Croesoswallt;‡ a cheir fod yr Ysgoldy Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnw mor ddiweddar a 1824.§ Dywedai Gwallter Mechain, yn 1828, fod llinell derfyn y ddwy iaith yn sir Drefaldwyn yn rhedeg o uniad y Tanad â'r Fyrnwy, uwch law Llanymynech, i gyfeiriad y dehau, gan adael ar yr aswy, neu yr ochr Seisonig, y Capel Newydd, Guilsfield, Trallwm, Berriew, Tregynon, ac Aberhavesp, ac yna yn rhedeg ar hyd lànau yr Hafren hyd Pumlumon; er mai y Gymraeg oedd yr iaith gyffredin ar ddwy ochr yr afon am lawer o filltiroedd oddi wrth ei tharddiad.‖ Ond, fel y gwyddom, nid hon yw y llinell derfyn heddyw. Y mae yr ysgolion dyddiol, y rheilffyrdd, ac achosion eraill, wedi ei symmud lawer o filltiroedd o'r lle y rhedai pan yr olrheinid hi gan Gwallter Mechain.

Os oedd y Gymraeg mor gryf ar y gororau mor ddiweddar, pa faint mwy yr oedd dri chan' mlynedd yn ol? Ac os siaredid Cymraeg yn siroedd yr Amwythig a Henffordd yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, ai nid ynfydrwydd fyddai meddwl ei bod bron a marw allan yng Nghymru? Felly, nid ychydig o amaethwyr a drigent yng nghymoedd neillduedig Cymru, nac ambell i fugail a dreuliai ei oes ar hyd lechweddau Cadair Idris neu'r Wyddfa, oedd yr unig rai a siaradent Gymraeg. Y hi oedd iaith y lluaws; ac yr oedd y lluaws heb Feibl yn eu hiaith. Mewn canlyniad, yr oedd Cymru ar dir ieithyddol yn galw yn uchel am ryw un i gyfieithu iddi yr Ysgrythyrau.

* Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, pp. 92-3; 674-5. † Ibid. p. 675.
‡ Bye-Gones, May 8th, 1872. § Ibid. January 8th, 1873.
‖ Gwaith Gwallter Mechain, vol. 3, p. 440.

Cafodd y Saeson gryn flaenoriaeth ar y Cymry mewn cael Beiblau yn argraffedig yn eu hiaith. Ac yr ydym yn cael fod ganddynt luaws o ysgriflyfrau o amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau mewn oesau tra boreuol. Enwir yr Esgob Aldhelm (706), Bede (735), y Brenin Egbert (827-839), y Brenin Alfred (901), Ælfric, Arch-esgob Caergaint, yn y ddegfed ganrif, ac eraill, fel rhai a gyfieithasant ranau o'r Ysgrythyrau i'r Anglo-Sacsoneg.* Y mae amryw ysgriflyfrau o'r natur yma ar gael. Ceir copi o'r Salmau yn y Lladin, gyda chyfieithiad Sacsoneg, yn Llyfrgell Cotton, yn yr Amgueddfa Brydeinig, yr hwn a adnabyddir wrth yr enw, "Vespasian A.i." Ceir un arall o'r Efengylau yn yr un Llyfrgell yn myned o dan yr enw "Nero D. iv." Y mae copi arall o'r Efengylau yn yr Anglo-Sacsoneg yn Rhydychain, yn myned o dan yr enw "Rushworth Gloss."† A gellid nodi amryw eraill. Y cyfieithiad *Seisonig* cyntaf a wnaed, hyd y gwyddys, ydyw yr un a grybwyllir gan Usher. Gwnaed ef, fel y tybir, oddeutu 1290; ac y mae tri chopi o hono yn awr ar gael.‡ Cyfieithodd John Wicliffe (1324-84) yr oll o'r Beibl i'r Saesoneg. Neu fe gasglodd yng nghyd, yn ol fel y dywed rhai, wahanol gyfieithiadau er mwyn gwneyd un Beibl cyflawn, oddeutu 1380.§ Ond ni argraffwyd unrhyw ran o'r Ysgrythyrau yn yr iaith Seisonig hyd 1525, pryd y cyhoeddodd William Tyndal ddau argraffiad o'i gyfieithiad o'r Testament Newydd, un yn Antwerp a'r llall yn Cologne; ond yr oeddynt yn cael eu prynu trwy orchymmyn Tonstal, Esgob Llundain, a Syr Thomas More, a'u dwyn i Lundain i'w llosgi can gynted bron ag y deuent o'r wâsg. Ond galluogodd gwerthiant yr argraffiadau hyny i Tyndal ddwyn allan argraffiadau diwygiedig, y rhai a barhaodd i ddwyn allan hyd y flwyddyn 1536, pryd y rhoddwyd ef i farwolaeth yn Villefort, ar ol iddo yn brin orphen y pum' llyfr cyntaf o'r Hen Destament.‖

Yr oedd yr offeiriaid yn Lloegr yn dra gwrthwynebol i gylchrediad cyfieithiad Tyndal. Dywedent nad oedd yn gywir, a'i fod yn cynnwys rhagdreithau heresïaidd ac yn goganu yr Esgobion. Gorchymmynodd y brenin, Harri VIII., iddynt, yn 1531, geisio cynnorthwy gwŷr dysgedig er mwyn gwneuthur cyfieithiad

* Bible Lore (J. Comper Gray), p. 64. † Penny Cyclop., vol. iv., p. 373.

‡ Gwyddoniadur Cymreig, cyf. i., tud. 650.—Gresyn na ddywedir ym mha le y maent.

§ Er yr ymddengys i Wicliffe ysgrifenu amryw o gopïau o'i gyfieithiad i'w lledaenu ar hyd y wlad, ni chyhoeddwyd yr un rhan o hono hyd yn lled ddiweddar. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i Destament Newydd gan y Parch. John Lewis, o Margate, yn 1731, mewn cyfrol unplyg. Dygwyd ail argraffiad o hono allan yn 1810, gan y Parch. Henry Hervey Baber, mewn cyfrol bedwar-plyg. A chyhoeddwyd trydydd argraffiad yn Bagster's *Hexapla*, 1841-46. Ni argraffwyd cyfieithiad Wicliffe o'r Hen Destament hyd 1850, pryd y cyhoeddwyd ef yn bedair cyfrol, pedwar-plyg, gan y Parch. J. Forshall a Syr Frederick Madden.

‖ Bible Lore, p. 71.

newydd; ond gan nad oedd hyn yn gymmeradwy yng ngolwg yr Esgobion, ni roddwyd ef mewn gweithrediad. Ond yn 1535, cyhoeddodd Miles Coverdale ei Feibl yn Zurich, a hyny ar gais y brenin. O'r *Vulgate* y cyfieithodd Wicliffe; seiliodd Tyndal ei gyfieithiad ef ar yr ysgriflyfrau Groeg; a defnyddiodd Coverdale y Lladin a'r Ellmynaeg. Cyflwynodd ei argraffiad i'r brenin, ac yn y flwyddyn ganlynol rhoddodd Thomas Cromwell orchymmyn ar fod i gyfargraff o'r Beibl hwn, y Beibl cyflawn cyntaf a argraffwyd yn y Saesoneg, gael ei osod ym mhob eglwys yn Lloegr.* Pa un a gafodd Cymru gymmaint ag un o'r Beiblau hyn, nis gwyddom.

Yn y flwyddyn 1537, cyhoeddwyd argraffiad arall o'r Beibl yn Hamburg, gan Grafton a Whitchurch. Gelwid hwn yn "Feibl Matthew," am fod ei olygydd, enw priodol yr hwn oedd John Rogers, yn galw ei hun yn Thomas Matthew.† Nid oedd hwn ond cyfuniad o gyfieithiadau Tyndal a Choverdale. Cafodd yr argraffiad yma, yr hwn oedd yn cynnwys 1500 o gopïau, ffafr y brenin. Gorchymmynwyd ei roddi ym mhob eglwys lle nad oedd Beibl yn flaenorol; ac yr oedd yn rhaid i bob curad wneyd datganiad ffurfiol y byddai iddo ei ddwyn i sylw y bobl.‡ Ymddengys oddi wrth lythyr a anfonwyd gan Richard Grafton, un o'r argraffwyr, at yr Arch-esgob Cranmer, fod eraill yn bwriadu ymgymmeryd â'r gorchwyl o argraffu yr Ysgrythyrau, ac y byddai i hyny, trwy gyflenwi y galwad, ddrygu gwerthiant ei argraffiad ef. Ac erfynai ar yr Arch-esgob gynghori y brenin i wahardd pawb rhag argraffu y Beibl hyd nes y gwerthai ef yr oll oedd ar law, yr hyn, yn ol ei gyfrifiad ef, ni chymmerai le am y tair blynedd dilynol.§ Gellir meddwl oddi wrth hyn fod y galwad am Feiblau yn Lloegr yn cynnyddu. Ni buasai argraffwyr eraill yn barod i ddwyn argraffiadau allan oddigerth fod galw am danynt. Ond o bosibl fod Grafton a Whitchurch yn codi prisiau rhy uchel am danynt i oddef gwerthiant buan; gan y dywed y Parch. J. Comper Gray fod swm cyfartal i saith bunt o'n harian ni yn cael ei ofyn ganddynt am un copi.‖ Yn sicr yr oedd hwn allan o gyrhaedd y cyffredin. Yn 1539, dygwyd argraffiad arall o "Feibl Matthew" allan o dan olygiaeth Richard Taverner, yr hwn a adnabyddid wrth yr enw "Beibl Taverner." Ac y mae y golygydd yn awgrymu yn ei rag-draeth mai trwy gyd-weithrediad amryw o wŷr dysgedig yn unig y gallesid dysgwyl cyfieithiad cywir.

* Penny Cyclop., vol. iv., p. 374; Bible Lore, p. 73.

† Dywedir mai y John Rogers (Thomas Matthew) hwn oedd y merthyr Protestanaidd cyntaf a losgwyd ar ol esgyniad y Frenhines Mary (Spalding's *History of English Literature*, p. 163).

‡ Strype's Memorial of Cranmer, vol. ii., pp. 289-90. § Ibid. vol. ii., pp. 285-87.

‖ Bible Lore, p. 74.

Yr argraffiad Seisonig nesaf o'r Beibl a ddygwyd allan oedd yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1540,* ac a alwyd yn "Feibl Mawr," o herwydd ei faintioli; ac yn "Feibl Cranmer," am i'r Arch-esgob ysgrifenu rhagdraeth iddo. Y mae Cranmer yn y rhagdraeth hwn yn galw sylw at y pwysigrwydd o ddwyn y Beibl i gyrhaedd y werin, ac yn cynghori y cyfryw i'w ddarllen yn astud.† Ond yr oedd rhan fawr o'r clerigwyr yn wrthwynebol i'r bobl gael y Beibl yn eu hiaith eu hunain, rhag iddynt, trwy ei ddarllen, droi yn hereticiaid. Pa fodd bynag, anfonodd Harri VIII. orchymmyn allan ar fod i'r curadiaid a'r plwyfolion brynu cyfargraff o hono i'w osod yn yr eglwysi o dan boen dirwyiad o ddwy bunt am bob mis yr esgeulusid y cyfryw orchymmyn. Yr oedd y gorchymmyn brenhinol hwn, hefyd, yn penodi fod pris Beiblau heb eu rhwymo i fod yn ddeg swllt yr un, a'r rhai rhwymedig i beidio bod uwchlaw deuddeg swllt yr un.‡ Ond er gwaethaf gorchymmyn y brenin, parhau yn wrthwynebol i roddi y Beibl i'r bobl yr oedd y blaid Babyddol. Dywed Strype i ynad heddwch o'r enw Vincent Ingeam, ar ddydd Llun y Pasc, 1540, orchymmyn nad oedd neb i ddarllen y Beibl, na gwrando arno yn cael ei ddarllen, o dan boen carchariad; ac iddo garcharu dau, un am ei hyfdra yn dadleu ag ef ar y mater, a'r llall am ddangos iddo awdurdod y brenin dros hyny.§ A thrwy geisiadau parhaus clerigwyr Pabyddol, darbwyllwyd y brenin, yn 1543, i basio deddf|| yn darparu nad oedd y Beibl mwyach i gael ei werthu, nad oedd unrhyw lyfrau i gael eu darllen ag oeddynt yn cynnwys unrhyw beth yn erbyn Sacrament yr Allor, nad oedd y Beibl i gael ei ddarllen yn yr eglwysi, ac nad oedd dim i gael ei ddysgu yn groes i orchymmyn y brenin.¶ Nid oedd y ddeddf hon yn gwahardd y Beibl ond i'r lleygwyr yn unig; ystyrid fod cynnwysiad Llyfr y Brenin (*The King's Book*), yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn hon, yn ddigon o fwyd ysprydol iddynt hwy; tra y gorchymmynid yr offeiriaid barhau i "chwilio yr Ysgrythyrau." Ac o hyn i ddiwedd teyrnasiad Harri VIII. cadwyd y Beibl, gymmaint ag a allai cyfraith wneyd, oddi wrth y bobl gyffredin.

Ar esgyniad Edward VI., yn 1547, un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd anfon ymwelwyr i holl eglwysi Lloegr a Chymru, y rhai oeddynt i orchymmyn i'r offeiriaid, yn enw y brenin, osod Beiblau yn eu heglwysi, ac i'w darllen i'r bobl; i symmud ymaith yr holl ddelwau a phethau coelgrefyddol eraill; i roddi y gwin gyda'r bara yn Swper yr Arglwydd; i roddi esiamplau da i'w

* Yn 1540, yn ol Strype, ond dywed eraill mai yn 1539, y cyhoeddwyd ef.
† Strype's Memorials of Cranmer, vol. ii., pp. 483-92. ‡ Ibid. vol. i., p. 122.
§ Ibid. vol. i., p. 145. || 34 Hen. VIII., c. 1.
¶ Strype's Memorials of Cranmer, vol. i., pp. 122, 123.

plwyfolion, ac i'w hannog i gadw y Sabbath; ac i fod yn helaeth mewn pob gweithred dda.* O bosibl na chafodd amryw o eglwysi Cymru y Beibl y pryd hwnw. Oblegid fe'n hysbysir na chyhoeddwyd llai nag un-ar-ddeg o argraffiadau o hono yn ystod teyrnasiad Edward VI.

Pan ddaeth Mary i'r orsedd, yn 1553, derbyniodd y Diwygiad, ac mewn canlyniad y Beibl, bob anghefnogaeth a allasai y frenhines Babyddol hòno ei arfer. Gorfodwyd amryw o'r Diwygwyr i ffoi i'r Cyfandir. Yn eu plith yr oedd William Whittingham, yr hwn a aned yn 1524, a addysgwyd yng Ngholeg Brasenose, Rhydychain, ac a wnaed yn gymmrawd o Goleg *All Souls* yn 1545. Ymsefydlodd Whittingham yn Geneva, lle y dewiswyd ef i gymmeryd gofal eglwys yno. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, a threuliodd ei amser i gyfieithu y Testament Newydd i'r Saesoneg. Cyhoeddwyd y Testament hwn yn 1557, ac y mae iddo Rhagymadrodd galluog o waith John Calvin, chwaer yr hwn oedd wedi priodi Whittingham. Gelwir hwn "Testament Geneva," a hwn oedd y rhan gyntaf o'r Ysgrythyrau Saesoneg a ranwyd yn adnodau. Dechreuodd Whittingham drachefn, gyda chynnorthwy eraill, yn eu plith Thomas Sampson ac Antony Gilby, ar y gorchwyl o ddiwygio y Testament hwn, yn gystal a chyfieithu yr Hen Destament yn ychwanegol. A chyhoeddwyd y Beibl hwn—"Beibl Geneva"—yn 1560. Y mae yn deilwng o'n sylw mai yr un a ddygodd fwyaf o'r gost yng nglŷn â dygiad allan yr argraffiad hwn ydoedd John Bodley, tad Thomas Bodley, sefydlydd y *Bodleian Library* yn Rhydychain. Daeth Beibl Geneva yn uchel yn ffafr y blaid ddiwygiadol yn Lloegr, oblegid dywedir na chyhoeddwyd llai na 130 o argraffiadau o Feiblau a Thestamentau Seisonig rhwng 1560 a 1603; ac yr oedd 90 o honynt yn ad-argraffiadau o gyfieithiad Geneva. Dywedir, hefyd, iddo barhau i gael ei gyhoeddi a'i ledaenu hyd mor ddiweddar a 1644.†

Yr oedd Elizabeth yn teyrnasu er ys oddeutu dwy flynedd cyn i argraffiad cyflawn o "Feibl Geneva" wneyd ei ymddangosiad. Ond gan ei fod yn cynnwys rhagymadrodd a nodiadau ag oeddynt yn dysgu athrawiaethau Calvin, nid oedd y Frenhines nag Archesgob Parker yn bleidiol iddo. Y mae yn wir i'r Frenhines roddi breinteb am saith mlynedd i John Bodley i'w argraffu; ond yr oedd ammodau caethion yn gyssylltiedig. Ac er mwyn anghefnogi ei ledaeniad, gorchymmynodd i'r Arch-esgob Parker ddwyn cyfieithiad newydd o'r Beibl allan. Rhanodd Parker y gwaith rhwng nifer o wŷr dysgedig, wyth o ba rai oeddynt esgobion; am

* Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 418.
† Bible Lore, p. 76; Our English Bible, 127 *et seq.*

y rheswm hwnw galwyd eu cyfieithiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1568, yn "Feibl yr Esgobion." A hwn oedd y Beibl a ddefnyddiwyd yn yr eglwysi hyd gyhoeddiad Beibl y Brenin Iago, yn 1611. Gyda'r eithriad o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn Rheims yn 1582, gan y Pabyddion, y mae Beibl 1611 yn terfynu ein rhestr o'r cyfieithiadau Seisonig o'r Ysgrythyrau a gyhoeddwyd yng nghyfnod ein testyn.

Y mae yn naturiol gofyn pa faint o ddylanwad a gafodd y Beibl Seisonig ar Gymru o gyhoeddiad Testament Tyndal yn 1525 hyd gyhoeddiad Testament Salesbury yn 1567. Nid oes ammheuaeth yn ein meddwl na chafodd ryw gymmaint o ddylanwad. Y mae yn dra thebyg fod y rhan fwyaf, beth bynag, o eglwysi Cymru wedi cael cyfargraff o un neu arall o'r argraffiadau a nodwyd. Credwn fod hyn yn wir o leiaf am y trefydd a'r rhanau mwyaf Seisonig o'r Dywysogaeth. Ond odid hefyd nad oedd llawer o gopïau yn cael eu prynu yng Nghymru gan y werin. Ond nid oes genym brofion o hyn. Yr unig brawf ag sydd yn ymgynnyg i'n cof ar hyn o bryd ydyw yr hwn a geir yn hanes Rawlins White, y pysgotwr, a ferthyrwyd yng Nghaerdydd yn 1555. Yr hyn a barodd i White droi yn Brotestant oedd gwrando ar un o'r diwygwyr yn pregethu. Y canlyniad a fu iddo, gan ei fod yn anllythyrenog ei hunan, anfon "ei fab bach i'r ysgol, i ddysgu darllen Saesneg, fel y gallasai efe glywed y Bibl yn cael ei ddarllen ganddo." Ac ychwanegir fod y tad, ar ol i'r bachgen ddyfod yn alluog i hyny, yn gwneuthur "iddo ddarllen y Bibl yn y teulu bob nos yn ol swper."* Ac y mae yn fwy na thebyg nad oedd Rawlins White ond un o lawer a gadwai Feibl yn ei dŷ. Ond wedi'r cyfan, nis gallasai y cyfieithiadau Seisonig ddylanwadu ond ychydig, o leiaf yn uniongyrchol a digyfrwng, ar genedl un-ieithog. Ac un-ieithog oedd y mwyafrif o'r Cymry, fel yr ydym eisoes wedi profi.

Ond ai nid oedd gan y Cymry gyfieithiadau o'r Ysgrythyrau mewn ysgriflyfrau cyn iddynt gael y cyfryw yn argraffedig? Y mae y cwestiwn hwn yn cael ei ateb, gan bawb ag sydd wedi ysgrifenu ar y pwnc, yn gadarnhäol. Y mae amryw o'r farn fod rhanau o'r Ysgrythyrau gan y Cymry yn eu hiaith eu hunain er pan ddygwyd Cristionogaeth gyntaf i'r wlad. Hyn oedd barn y Parch. D. Peter:—"Gan mai Israeliaid," meddai ef, "oedd Ilid a Chyndaf, yr oeddynt yn hyddysg yn ysgrythyrau yr hen Destament; a chan iddynt ddyfod yma yn genhadu dros Grist, i gyhoeddi yr efengyl i'r Cymry, y mae yn sicr iddynt ddyfod â'r

* Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 432-3.

hen Destament gyda hwynt; a chymmaint o'r Testament newydd, hefyd, ag oedd y pryd hyny gwedi ei dderbyn gan Eglwys Crist, ag oedd yn Rhufain. Ac fel ag yr oedd yr apostolion yn neilltuol ofalus na chai un gynnulleidfa Gristionogol fod yn amddifad o'r Ysgrythyrau; a chynniwair rheolaidd rhwng Rhufain a Brydain, y dyddiau hyny, nid allasai y Cymry fod yn hir, heb gael holl ysgrythyrau yr hen Destament a'r newydd yn gyflawn."* Ond ni ddywed Peter wrthym pa un ai'r cenhadau neu'r Cymry eu hunain oedd y cyfieithwyr. Os y cenhadau, rhaid eu bod yn medru Cymraeg; ac os y Cymry, rhaid eu bod eisoes wedi eu dwyn i deimlo eu hangenion ysprydol. Hyn hefyd oedd barn Carnhuanawc. Tybiai ef "ei bod yn ddichonadwy, ac hefyd nid yn annhebygol fod rhyw rannau o'r Ysgrythyrau yn gyfieithiedig yn y Gymraeg, at wasanaeth yr Eglwys, yn y cynoesoedd." "Onite," meddai, "nis gwn pa fodd y gallasai Eglwys Prydain gynnal y gwasanaeth cyffredinol, oddieithr ei bod yn fwy difreiniawg na'r Eglwysi eraill; canys dangoswyd eisioes fod darlleniad yr Ysgrythyrau, yn ffurfio rhan o'r addoliad cyhoeddus yn mhob Eglwys, am ba un y mae genym hanesiad."† Cyfeiria Carnhuanawc at dystiolaeth Eusebius, yn y bedwaredd ganrif, yr hwn a ddywed fod yr Ysgrythyrau wedi eu cyfieithu i bob iaith trwy'r byd; ac at dystiolaeth gyffelyb o eiddo Theodoret, yr hwn a ysgrifenai yn y bummed ganrif. Y mae Carnhuanawc yn cael ei ddilyn yn yr un cyfeiriad gan y Parch. David Evans, M.A., Abermaw (gynt o Gelligaer), yr hwn a sylfaena ei dybiaeth nid yn unig ar ddywediadau Eusebius a Theodoret, ond cyfeiria hefyd at waith Cystenyn yn gorchymmyn i'r Beibl gael ei gopïo a'i anfon i bob rhan o'i amherodraeth, ar ol i'r Ysgrythyrau gael eu dinystrio yn ystod erlidigaethau Diocletian. Ac y mae hyny, yn ei farn ef, yn ein harwain i'r casgliad naturiol na adawodd Cystenyn ei gydwladwyr—y Brytaniaid—yn amddifad o'r llyfr.‡ Ond y mae Carnhuanawc a Mr. Evans yn addef y dichon mai "dull cyffredinol o ymadroddi" oedd yr hwn a ddefnyddir gan yr haneswyr eglwysig yn y lleoedd a nodir; ac nad ydym, fe allai, i ddeall eu geiriau yn llythyrenol. Ac os felly, nid ydyw yr ymadroddion "trwy'r byd," a "phob cenedl dan y nef," o angenrheidrwydd yn profi fod yr haneswyr yn golygu fod yr Ysgrythyrau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Pa fodd bynag, credwn fod yn ammhosibl penderfynu y cwestiwn y naill ffordd na'r llall.

Dywed Gwilym Lleyn yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, a dywed eraill§ ar ei ol, i Taliesin gyfieithu "rhanau o'r Beibl i'r Iaith

* Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 61. † Hanes Cymru, tud. 216.
‡ The Sunday Schools of Wales, pp. 11, 12.
§ Hanes y Bibl Cymraeg (gan y Parch. Thomas Levi), tud. 8; Yr Haul, 1883, tud. 2.

Gymraeg."* Ond dywed golygydd y gwaith hwnw nad "oes prawf ddarfod i Daliesin gyfieithu cymmaint a llinell o'r Ysgrythyr Lân i'r Gymraeg, nac i un iaith arall. Am y cerddi a elwir 'Llath Foesen,' 'Pläu yr Aipht,' 'Gwawd Gwŷr Israel,' a.r.c., cyfansoddiadau ydynt llawer diweddarach nag oes Taliesin."† A gesyd Thomas Stephens y cerddi uchod, yng nghydag eraill a briodolir i Taliesin, fel yn perthyn i'r ddeuddegfed ganrif ac i waered.‡ Ond pwy bynag oedd eu hawdwr, nis gellir yn brin eu galw yn *arall-eiriad*, heb son am *gyfieithiad*, o un rhan o'r Beibl. Er y cydnabyddwn yn rhwydd eu bod yn waith rhyw un ag oedd yn meddu gwybodaeth led gyflawn yn hanes Moses a'i amserau.

Y mae amryw, hefyd, yn cyfeirio at ysgriflyfr o'r Efengylau, yr hwn y dywedir oedd gynt yn Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Llanelwy. A chymmerir yn ganiataol mai Cymraeg ydoedd, yr hyn nis gellir ei brofi; ac nid ydyw hyny ychwaith yn debygol, fel y cawn ddangos eto. Gelwir yr ysgriflyfr yn *Evengulthen, Euaggultheu, Evenegyllthеu, Evenegilthes*, ac o dan amryw o ffurfiau eraill.§ Yr oedd yn cael ei ystyried yn dra chyssegredig yn y drydedd-ganrif-ar-ddeg, fel y gwelir oddi wrth y llythyr canlynol o eiddo yr Arch-esgob Peckham, o Gaergaint :—

Y Brawd Ioan, &c. [yn dymuno] i'r holl offeiriaid a gwyr lleyg trwy esgobaethau Coventry, Lichfield, Henffordd, a Chymru, iechyd a thangnefedd tragywyddol yn yr Arglwydd. Llyfr neu destyn yr Efengylau, eiddo Eglwys Llanelwy, a elwir yn gyffredin "Euaggultheu," yr hwn fel y deallasom, a berchir yn fawr gan bawb ym mharthau Cymru a'r Cyffiniau, ac am amrywiol achosion a ddygir ar brydiau yn anrhydeddus o amgylch y wlad, fel llyfr cyssegredig, gan rai o offeiriaid yr Eglwys rag-ddywededig, a dybiasom yn wiw ei gyflwyno, yng nghyda'r personau a ddygant y cyfryw lyfr, i'ch nawdd chwi oll drwy y llythyr hwn; gan ddeisyf arnoch o barch i Grist, yr hwn yw awdwr yr Efengylau, ganiatau i'r offeiriaid crybwylledig ar eu hymdaith drwy eich ardaloedd gyda'r llyfr rhagddywededig, yn eu mynediad, eu harosiad, a'u dychweliad, fwynhau diogelwch a llonyddwch. Rhoddwyd yn Rhuddlan, y pedwerydd dydd ar bymtheg o Fai, ym mlwyddyn ein Harglwydd 1284.‖

Y geiriau a ddefnyddir yn y llythyr Lladin ydynt, "*Librum seu textum Evangeliorum.*" Ac y mae *Textus* yn dynodi, medd y

*Llyfr y Cymry, tud. 10. † Ibid, tud. 10, nodyn. ‡ Literature of the Kymry, pp. 273-4
§ Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 21, note; Yr Haul, 1883, tud. 4; The Sunday Schools of Wales, p. 12.

‖ Ceir y llythyr Lladin o'r hwn y mae yr uchod yn gyfieithiad yn Browne Willis's *St. Asaph* (Edwards' Edit.), vol. ii., pp. 54, 55; ac yn Haddan and Stubbs' *Councils and Eccles. Documents*, vol. i., p. 554. Ceir cyfieithiad Cymraeg o hono yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, tud. 14; ac yn *Y Lladmerydd*, 1889, tud. 12, o'r hwn y dyfynasom ni yr uchod. O Browne Willis y cyfieithiai Tegid, yr hwn a ddyfynir yn *Llyfr. y Cymry*; tra y cyfieithia Powel o Haddan a Stubbs. Ac nid ydyw y ddau yn cytuno.

Proffeswr Powel, "ysgrifau o'r Efengylau, nodedig am eu cywirdeb neu brydferthwch yr ysgrifen a gorwychder eu haddurniadau." Ac ychwanega, "Os cyfrol o'r fath oedd llyfr Llanelwy, fel y gellir casglu oddiwrth y gair *Textus*, y tebygrwydd yw nad Cymraeg oedd ei chynwysiad."* Ac y mae yn hawddach genym gredu mai copi o'r Testyn gwreiddiol (= *Textus*) oedd yr "Eueggultheu," ac nid cyfieithiad i'r Gymraeg nac unrhyw iaith arall. Yr amcan o'i gludio oddi amgylch, hefyd, oedd, nid i'w ddarllen, ond i'w ddangos am arian. Yr oedd Edward I. ai fryd ar symmud yr Eglwys Gadeiriol o Lanelwy i Ruddlan; ac i'r dyben o gael arian i'r pwrpas hwnw yr annogai yr Arch-esgob yr esgobion i groesawi y rhai a garient y llyfr. Dengys cofnodiad yn *Llyfr Coch Asaph*, o dan y flwyddyn 1293, fod y swm a gasglwyd yn y dull hwn am y tair blynedd blaenorol yn P.95 6s. 10¼c.; yr hwn oedd gyfartal agos i P.3,000 yn bresennol.† Pa beth a ddaeth o'r llyfr hwn wedi hyny, nis gwyddom. Y farn gyffredin ydyw iddo gael ei gymmeryd i Rufain gan yr Esgob Goldwell pan gollodd ei swydd ar esgyniad Elizabeth,‡ ond y mae hyn yn cael ei ammeu gan Browne Willis mewn llythyr o'i eiddo, dyddiedig 14 Ebrill, 1747, at Dr. Lisle, Esgob Llanelwy.§ Ond os nad oedd yn Gymraeg, nid yw ei dynged yn effeithio ond ychydig ar ein hymchwiliad presennol.

Cyfeirir, gan Gwallter Mechain, at ysgriflyfr yn cynnwys rhan o Efengyl Ioan, yr hwn oedd ym meddiant J. Llwyd, Ysw., o Hafod Unos. Yr oedd yn ysgrifenedig "ar femrwn, mewn llaw deg, y fath ag oedd mewn arferiad o'r ddeuddegfed i'r drydyddganrif-ar-ddeg." Yr enw a roddwyd i'r ysgriflyfr hwn yn Wicwar, meddai Gwallter Mechain, oedd "Gwaith Ioan Efengylystor."‖

Ysgriflyfr arall y sonir am dano gan yr hanesydd parchedig oedd yr hwn a gynnwysai gyfieithiad, neu arall-eiriad talfyredig, o'r tair pennod gyntaf yn llyfr Genesis. Ymddengys fod copïau o'r ysgriflyfr hwn gan Miss Angharad Llwyd, a chan Gwallter Mechain ei hun. A dywed yr olaf ei fod ryw dri chan' mlynedd yn ddiweddarach na "Gwaith Ioan Efengylystor."¶

Rhan fechan arall o'r Ysgrythyrau—Efengyl Matthew XXVI. 2, hyd XXVIII. 7—a geir mewn ysgriflyfr yn Llyfrgell Peniarth, yr hwn a gyhoeddwyd gan y diweddar Ganon Robert Williams, yn ei *Selections from the Hengwrt MSS.*, Part V., pp. 250-8. "Y Groglith" y gelwir y dernyn hwn; ac wele engraifft o hono:—

"Gwdawch chwi heb yr iessu wrth y disgyblonn y byd pasc penn y

* Y Lladmerydd, 1889, tud. 13. † Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 189.
‡ Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 14. § Browne Willis's St. Asaph (Edwards' Ed.) vol i., p. 7
‖ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud. 190. ¶ Ibid, tudalenau 188-90.

deudyd. ac y rhoddir un mab duw y grogy. Yna yd ymgynnullassant tywyssogyon yr offeireit. a hynnafyeit y bobyl hyt yn llys tywyssawc yr offeireit. Cayphas y enw. ac ymgygor ar ddaly iessu o vrat ae lad. Ac yna y dywedassant na wedei hyny yn dyd gwyl. rac tyfu kynhwfryd yn y bobyl."*

Yn y *Myvyrian Archaiology* ceir rhanau o'r Ysgrythyr wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg o dan yr enw *Officium Beatae Mariæ*, neu "Wasanaeth Mair." Cynnwysa, ym mhlith rhanau eraill, gyfieithiad o chwech-ar-hugain o'r Salmau, yn gyfan neu mewn rhan, sef, 8, 19, 24, 63, 67, 93, 95, 100, 110, 113, 121, 122, 124—130, 132—134, a 147—150, rhai ar gân, eraill mewn rhyddiaith, er nad yn y drefn a nodir yma. Ceir yng "Ngwasanaeth Mair," hefyd, ychydig adnodau o'r Ecclesiasticus mewn rhyddiaith, a rhanau o Luc i. mewn mydr a rhyddiaith.† Priodolir cyfieithiad "Gwasanaeth Mair" i'r Gymraeg i Dafydd Ddu o Hiraddug. Dywed y Canon Williams mai ei enw priodol oedd Dafydd ab Roderic ab Madog, genedigol o sir Fflint, a'i fod yn ficer Dymeirchion, ac hefyd ei fod yn blodeuo oddeutu'r flwyddyn 1340. Dywed Williams ym mhellach fod cofadail iddo eto yn aros yn Eglwys Dymeirchion yn dwyn yr argraff:—"Hic Jacet David ap Roderic ap Madoc."‡ Ceir tadogaeth wahanol iddo gan Edward Jones (Bardd y Brenin). Yn y rhan gyntaf o'i lyfr ceir darlun "Cofadail Bardd yn Eglwys Dymeirchion, Sir Fflint." Ac o dan y darlun, ceir y geiriau:—"Hic Jacet David Filius Howeli Filii Madoci." Ac yna dilyna y sylwadau hyn:—"Beddrod Dafydd Ddu, o Hiraddug, Archddiacon Diserth, a Ficer Tremeirchion, Sir Fflint, yr hwn oedd fardd dysgedig, ac yn ei flodeu rhwng B.A. 1310 ac 1380. Ysgrifenodd Rammadeg Brytanaidd, Cywydd dysgedig, a dyfeisiodd dri o fesurau Prydyddiaeth Gymreig. Hefyd, yr oedd yn awdwr Awdl Sanctaidd; a gwnaeth gyfieithiad prydyddol prydferth o'r *Te Deum*, ac amryw o'r Psalmau, y rhai sydd yn y *Myvyrian Archaiology*, tudalenau 353 a 367. Yr oedd yn dra gwybodus mewn philosophyddiaeth naturiol, fferylliaeth, a gwyddoniaeth, yr hyn a barodd i'r anwybodus ei alw yn gonsuriwr; a dywedir llawer o chwedlau rhyfedd am dano yng Nghymru hyd y dydd hwn."§ Ond y mae Gweirydd ap Rhys yn dyfynu o hen ysgriflyfr a welodd, lle dywedir:—"Llyma y llyfr cynta o Gadwedigaeth y Gerdd Dafod o waith Dafydd ap Robert Morus, Yswain, yr hwn a gyfenwyd Dafydd Ddu o Hiraddug, neu yr Athraw Du. Hugh Roberts a'i sgrifenodd o Lyfr Mr. Vychan iddo ei hun, Blwyddyn 1772." Rhydd Gweirydd ym mhellach ddyfyniad o lythyr a dderbyniodd

* Matthew, XXVI., 2-5. † Myv. Arch. (Argraff. Dinbych), pp. 367-77.
‡ Williams' Eminent Welshmen, p. 117. § Jones's Mus. and Poet. Relics, vol. i., p. 16

oddi wrth y diweddar Barch. W. Hicks Owen, ebrwyad Tremeirchion, yn yr hwn y dywedir mai "HIC JACET RODERIC" ydyw yr holl ddarlleniad ar y gofadail yn yr Eglwys hòno can belled ag y gellir dyfalu; ac nad oes dim yn y cerfiad yn rhoddi un math o awgrym at "David ap . . . . ap Madoc," na "David filius . . . . . filii Madoci." "Ac y mae yn anhawdd," medd Mr. Owen, "gwybod beth a wnaeth i neb feddwl am 'Dafydd Ddu o Hiraddug' oddi wrth yr hen gerfiad dan sylw."* Ond pwy bynag oedd Dafydd Ddu o Hiraddug, a pha un bynag a gladdwyd ef yn Dymeirchion neu Tremeirchion, ai peidio; ceir y geiriau a ganlyn o flaen "Gwasanaeth Mair" yn y *Myvyrian Archaiology*:—"Gwasanaeth Mair wedi ei dynnu o'r Lladin Ynghymraeg y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug hyd mae pawb yn tybiaid ac a gopiwyd yma er mwyn cael gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfieithu."† Tebyg mai eiddo y Dr. John Davies o Fallwyd ydyw y nodiad hwn, yn gystal a'r un a geir ar ddiwedd y "Gwasanaeth":—"Y Copi yr ysgrifenwyd hwn allan o honaw a ysgrifenwyd yn Llanharri ym Morganwg, ynghylch y 30 o Harri 8, ynghylch y flwyddyn 1537. Ac a ysgrifenwyd yma (medd Dr. Davies, h. y. ym Mallwyd) yn Y flwyddyn 1631."‡ Ond pwy bynag oedd y cyfieithydd, y mae yn amlwg y tybiai y Dr. Davies yr ysgrif yn hen yn ei amser ef, neu ni fuasai yn ei hadysgrifenu "er mwyn gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfieithu."

Dywed golygydd y *Cambrian Register*—y Dr. William Owen Pughe—fod cyfieithiad o'r Beibl i'r Gymraeg yn Celydd Evan, yn Betws, ger llaw Bridgend, yn perthyn i Mrs. Evans o Ystrad Hafodwg; ac iddo gael ei ysgrifenu oddeutu'r flwyddyn 1480.§ Yn gyffelyb y dywed y Dr. Owen Pughe yn ei *Eiriadur*:—"Celydd Ieuan, enw ty ym Morganwg, treftadaeth teulu sydd mewn meddiant o ysgriflyfr Cymraeg o'r Ysgrythyrau (Bibl) wedi ei gyfieithu gan un o'u hynaif, o gylch canrif cyn y cyfieithiad argraffedig." Ond ni ddywedir pa ranau o'r Ysgrythyrau a gynnwysai yr ysgriflyfr hwn. Gellid meddwl oddi wrth nodiadau y Dr. Owen Pughe ei fod yn cynnwys yr oll o honynt; yr hyn sydd yn dra annhebygol. Dywed y Parch. Thomas Phillips, am yr un ysgriflyfr, yn *Llyfr y Jubili;* yr hwn a gyhoeddwyd yn 1854:—"Yr oedd cyfieithiad Cymreig o'r Bibl mewn ysgrifen yn *Nghelydd Ifan*, yn agos i Ben y bont, yn sir Forganwg. Ymddengys ei fod wedi cael ei wneyd o'r Lladin, gan un o hynafiaid y teulu oedd yn byw yn y fan hòno, oddeutu y flwyddyn 1470.

* Hanes Llenyddiaeth Gymreig, tud. 156-8. † Myv. Arch., p. 367. ‡ Ibid, p. 377.
§ Cambr. Reg., vol. i., p. 444.

Yr oedd cyfran helaeth o'r gyfrol hon ar gael ychydig flynyddau yn ol, ac yn ol pob tebyg, gall fod eto. Dichon mai ysgrif o bum llyfr Moses ydoedd, at yr hon y mae y Dr. Davies yn cyfeirio. Gallwn, hefyd, grybwyll ei fod yn cael ei ddyweyd mai cyfieithiad Seisonig o bum llyfr Moses, a wnaed gan William Tyndal, oedd yr un y gwnaed y cyfieithiad Cymreig o hono."* Nodyn lled ddyrys ydyw hwn i ni. Os ysgriflyfr *Celydd Ifan* a wnaed o gyfieithiad Tyndal, nis gallasai fod wedi ei gyfieithu o'r Lladin, fel y dywedir yn flaenorol. Ac os gwnaed ef yn 1470, neu 1480, nis gallasai fod wedi ei gyfieithu o gyfieithiad Tyndal, gan na chyhoeddwyd hwnw hyd 1525. Ond hwyrach mai yr hyn a olygir yn y rhan olaf o'r dyfyniad ydyw, mai cyfieithiad Tyndal oedd yr hwn a ddefnyddiwyd gan y Dr. Morgan i wneuthur ei gyfieithiad ef. Os hyny a feddylir, bydd genym air i ddywedyd am yr haeriad mewn man arall. Yn yr erthygl ar y "Beibl Cymraeg" a ymddangosodd yn y *Gwyddoniadur*, ceir nodyn, gydag ond ychydig iawn o wahaniaeth, yr un fath ag eiddo Mr. Phillips. Y gwahaniaeth pwysicaf ydyw y mynegiad nad oedd hanes am ysgriflyfr Celydd Ifan yw gael "er pob ymchwiliad."† Nid oes ond gobeithio y bydd i'r dyfodol ei ddwyn i'r golwg.

Ceir crybwylliad lled helaeth am gyfieithiad arall o'r Ysgrythyrau, neu ranau o honynt, a drowyd i'r Gymraeg gan Thomas Llywelyn o Regoes, yn *Scenery, Antiquities and Biography of South Wales*,‡ gan y Dr. Malkin. Yn yr argraffiad cyntaf o'r gwaith uchod, nid ydyw Malkin yn son gair am Thomas Llywelyn na'i gyfieithiad; ond yn ei ail-argraffiad, ceir y crybwylliad canlynol, a hyny, mae'n debyg, ar awdurdod Iolo Morganwg. Dywedir fel hyn:—"Mewn tŷ a elwir Glyn Eithinog, ym mhlwyf Ystrad Dyfodwg,§ ym Morganwg, yn amser Edward VI. ac Elizabeth, yr oedd yn anneddu fardd wrth fraint, a elwid Thomas Llywelyn, ac y mai amrai o'i gyfansoddiadau cywrain hyd heddyw ar gof a chadw. Yr oedd efe yn Brotestant gwresog, ac yn wladwr moesol a charuaidd. Efe a drodd y Beibl Seisoneg, o gyfieithiad Tyndal, i Gymraeg di-lediaith, o gylch y flwyddyn 1540, yr hyn oedd fwy na deugain mlynedd o flaen y cyfieithiad Cymraeg a argraffwyd gan y Dr. William Morgan. Yr oedd cyfieithiad T. Llywelyn yn ddiweddar iawn, os nad yw eto, mewn bod."‖ Y mae Malkin, hefyd, yn mwy nag awgrymu ddarfod i

* Llyfr y Jubili, tud. 30, nodyn. † Gwyddoniadur Cymreig, cyf. i., tud. 634, nodyn.

‡ Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o *Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* yn un gyfrol bedwar-plyg, yn 1804; a dygwyd yr ail-argraffiad allan, yn ddwy gyfrol wyth-plyg, yn 1807.

§ A oes rhyw gyssylltiad rhwng yr Ystrad Hafodwg a grybwyllir gan y Dr Owen Pughe fel cartrefle Mrs. Evans, perchennog ysgriflyfr Celydd Ifan, â phlwyf Ystrad Dyfodwg? Ai nid yr un a feddylir, ac mai yr olaf sydd gywir?

‖ Malkin's Scenery, Antiquities and Biography of South Wales, vol. i, p. 297.

William Salesbury a'r Esgob Richard Davies ddefnyddio cyfieithiad Llywelyn pan yr ymgymmerasant â'r gorchwyl o gyfieithu y Testament Newydd. Ond rhaid i ni adael hyn heb geisio ei brofi na'i wrthbrofi hyd nes y deuwn i sylwi yn feirniadol ar Destament Salesbury. Y farn gyffredin am gyfieithiad Thomas Llywelyn ydyw, y byddai yn cynnal gwasanaeth crefyddol mewn tai annedd; ac, er mwyn hwylusdod, ei fod yn cyfieithu rhanau o'r Ysgrythyrau i'w darllen yn y cyfarfodydd.* Ac nid annhebygol mai felly yr oedd. Pa fodd bynag, nid oes un adysgrif o'i gyfieithiad yn awr yn adnabyddus. Ac hyd y gwyddom, Malkin oedd y cyntaf i roddi hysbysrwydd yn ei gylch.

Cyfeiriad arall, yr olaf hyd y gwyddom, at gyfieithiad ysgrifenedig o ranau o'r Beibl i'r Gymraeg ydyw yr hwn a geir gan yr Esgob Richard Davies yn ei "Epistol at y Cembru" a argraffwyd o flaen Testament Salesbury. Fel hyn y dywed yr Esgob: "Ti ond antur, dierth yw cenyt glowet fot dy hen ffydd di ay hanes o'r Testament, a' gair Duw: can ys ni welaist irioed y Bibl neu'r Testament yn Gymraeg nac mewn scrifen, nac mewn print. Yn lle gwir ni ffynnodd cenyfi irioet gael gwelet y Bibl yn gymraeg: eithr pan oeddwn fachcen cof yw cenyf welet pump llyfr Moysen yn Gymraeg, o fewn tuy ewythr ym' oedd wr dyscedic: ond ni doedd neb yn ystyr y llyfr, nac yn prisio arno. Peth amheus ydiw (ir a wnn i) a ellit gwelet yn oll Cymru vn hen Bibl yn Gymraeg ir penn golledwyt ac i speliwyt y Cymru oi oll lyfray, mal i doydais or blaen." Felly un ysgriflyfr, a hyny o Bum' Llyfr Moses yn unig, oedd gymmaint o'r Ysgrythyrau yn Gymraeg a welodd yr Esgob Davies erioed. Dywedir mewn nodyn ar ymyl y ddalen, gan William Salesbury, maen'n debyg, fel hyn:—"Cyffelip mae Gruff. ap Ieuan ap Lln. Vachan y mae ef yn ei veddwl," gan gyfeirio at yr "ewythyr" y soniai yr Esgob Davies am dano. Dywedir wrthym gan y Canon Williams fod y Gruffydd ap Ieuan hwn yn fardd enwog, ac yn ŵr bonheddig, yn byw yn Llanerch, sir Ddinbych; ei fod yn ei flodeu oddeutu 1470, a'i fod yn un o brif hyrwyddwyr Eisteddfod Caerwys yn 1513.† Dywed Canon Williams ym mhellach fod amryw o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael mewn ysgriflyfrau, y rhai sydd yn profi iddo ymwrthod â'r grefydd Babaidd a throi yn

* Beirniad, 1864, tud. 219; Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 13.

† Camgymmeriad yn ddiammeu am 1523. Oblegid y mae Gruffydd ap Ifan ap Llewelyn Fychan yn cael ei enwi yn "llythyr cynnwys" Harri VIII. mewn perthynas a chynnaliad Eisteddfod Caerwys, 1523. Yr ydym yn casglu oddi wrth Ysgriflyfr Cae Cyriog (Hist. Powys Fadog, vol. v., p. 94) fod Janet, mam yr Esgob Davies, yn ferch i Nest, yr hon oedd ferch Llewellyn Fychan. Mewn canlyniad, yr oedd Gruffydd ap Ieuan ap Llewelyn Fychan yn ewythr i'r Esgob Davies o gefnder ei fam.

Brotestant.* Ond pa fodd bynag, os at Gruffydd ap Ieuan y cyfeiria, ymddengys nad oedd hwnw yn rhoddi nemawr bris ar Bum' Llyfr Moses pan yr oedd Richard Davies yn "fachcen."

Y mae tystiolaeth yr Esgob Davies yn ddigon pendant nad oedd gan y Cymry unrhyw ysgriflyfrau Cymreig o'r Ysgrythyrau pan oedd yn ysgrifenu ei Epistol amgen na'r llyfrau y dywed iddynt gael eu cyhoeddi gan Syr John Price a William Salesbury. Ond y mae yn cymmeryd cryn drafferth i ddangos i'w gydoeswyr mai nid felly yr oedd wedi bod gynt. Dywed wrth Gymru fod ei "Escopion trwy gymhorthwy William Salsbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yscrythyr 'lan, (*dy genefin gynt*) a gynhwisir ofewn corph y Bibl cysegredic." Y ni sy'n *italeiddio*, yn gystal ag yn y rhai canlynol :—"*Eithr diammay yw cenyf fot cyn hynny*"—sef, cyn i'r Cymry gael eu hyspeilio o'u llyfrau ar ol y Goresgyniad Normanaidd—"*y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg.*" Ac un o'i brofion ydyw, fod "*cenym ni yn Gymraeg amryw ymadroddion a' diarhebion yn aros fyth mewn arfer a' dynnwyt o berfedd yr scrythyr 'lan, ac o ganol Efengil Christ.*" Ac yna y mae yn myned ym mlaen i ddal amryw o ddiarhebion y Cymry ac adnodau o'r Beibl yng ngoleuni eu gilydd; a thrwy eu cymharu, yn profi fod yr Ysgrythyrau wedi bod unwaith yn ddigon hysbys ym mysg y genedl.

Gallasai yr Esgob Davies, hefyd, pe yr ewyllysiasai, gael profion yng ngweithiau beirdd y Canol Oesoedd fod y Cymry yn dra hyddysg yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Y mae amryw o awdlau y cyfryw "i Dduw," neu "i'r Drindod," yn argraffedig yn y *Myvyrian Archaiology*. Ym mhlith eraill, y mae genym ddwy gan Cuhelyn (770—800), un gan Cynddelw (1150—1200), un gan Llywarch ab Llywelyn (1160—1220), wyth gan Meilyr ab Gwalchmai (1170—1220), tair gan Einiawn ab Gwalchmai (1170—1220), chwech gan Elidyr Sais (1160—1220), un gan Llywelyn Fardd (1230—1280), saith gan Gruffydd ab yr Ynad Coch (1260—1300), tair gan Madawg ab Gwallter (1250—1300), un gan Casnodyn (1290—1340), tair gan Gruffydd ab Meredydd (1310—1360), un gan Dafydd y Coed (1300—1340), un gan Iorwerth ab Cyriawg (1320—1360), un gan Llywelyn Goch ab Meurig (1330—1370), ac un gan Gruffydd Gryg (1330—1370). A gellir ychwanegu, hefyd, fod amryw ymadroddion yng nghaniadau eraill o eiddo rhai o'r beirdd uchod yn dangos eu cydnabyddiaeth â'r Ysgrythyrau. Ac hyd y gwyddom, un yn unig o'r rhai a nodwyd, sef Madawg ab Gwallter, oedd ŵr Eglwysig; yr oedd y lleill gan y mwyaf yn llanw y swydd o "Fardd

‡ Williams' Eminent Welshmen, p. 185.

Teulu" i ryw dywysog neu bendefig. Pe buasent oll yn ŵyr llên, buasem yn dyfod i'r casgliad naturiol eu bod yn derbyn eu gwybodaeth Ysgrythyrol yn uniongyrchol o'r cyfieithiadau Lladin. Ond gan mai lleygwyr oeddynt, rhaid naill a chymmeryd yn ganiatäol fod beirdd Cymru yn y Canol Oesoedd yn Lladinwyr da, neu ynte fod rhanau o'r Ysgrythyrau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Gellir casglu, hefyd, oddi wrth y Rhaglith sydd yn blaenori Cyfreithiau Hywel Dda fod y Cymry yn coleddu parch dwfn at yr Ysgrythyrau. Pan yr ymgymmerodd Hywel â rhoddi deddfau newyddion i'w ddeiliaid, galwodd ato bedwar o leygwyr a dau o glerigwyr o bob cwmmwd yng Nghymru; a'r rheswm dros alw y rhai olaf ydoedd rhag na fyddai dim yn y deddfau bwriadedig yn groes i'r Ysgrythyr Lân. Neu, yn ol geiriau y Rhaglith :—"Sev acaꝺs y dyvynꝺyd yr yscolêigion rac gosaꝺd o'r lleygion dim a bai yn erpyn yr yscrytyr glân."* Dywedir wrthym, hefyd, yn yr un Cyfreithiau, fod y Bardd Teulu, yr hwn a restrid ym mhlith swyddogion y brenin, i ganu tair o ganeuon ar y gwyliau arbenig; ac yr oedd y cyntaf o'r tair i fod yn grefyddol—Cân i Dduw.† A chredwn mai nid *datganu* a olynid, ond *cyfansoddi* caneuon newyddion, ar yr achlysuron hyn. Os felly, yr oedd yn ofynol i'r bardd llawryfog fod yn gwybod rhywbeth am y testyn. Ac yr oedd yn anhawdd iddo ddyfod i'r wybodaeth angenrheidiol heb feddu ar ryw gymmaint o'r Ysgrythyrau yn ei iaith ei hun. Gellir casglu, hefyd, oddi wrth un o "Drioedd Doethineb Beirdd Ynys Prydain" fod "y dengair deddv, ac evengyl Ieuan, a'r groes vendigaid,"‡ wedi eu hychwanegu at y creiriau ag y byddid yn arferol o gymmeryd llwon arnynt yn y llysoedd cyfreithiol. Rhaid mewn canlyniad, fod y "dengair deddv, ac evengyl Ieuan" ym meddiant y Cymry. Yr unig anhawsder ydyw dangos pa un ai yn y Lladin ai yn Gymraeg yr oeddynt.§ Ond pan gymharer y gwahanol gyfeiriadau â'u gilydd, pan gofir yr awgrymiadau a geir yng ngweithiau y Beirdd Cymreig, a phan delir sylw priodol i'r hyn a ddywedir gan yr Esgob Davies, y mae yn anhawdd peidio a dyfod i'r penderfyniad fod rhanau helaeth o'r Ysgrythyrau ym meddiant y Cymry yn eu hiaith eu hunain. Ond y mae yr un mor amlwg, yn ol tystiolaeth yr unrhyw Esgob, eu bod wedi myned yn lled anghyffredin yn ei amser ef.

Rhydd yr amddifadrwydd hwn o Air Duw ym mhlith y genedl Gymreig gyfrif am yr anwybodaeth a'r ofergoeledd oeddynt yn gordoi y wlad ar ddechreuad y Diwygiad Protestanaidd, ac am

* Myv. Arch., p. 964. † Ibid, p. 968. ‡ Ibid, p. 936.

§ Dywed Iago ab Dewi i Meuryg, trysorydd Llandaf, yn y drydedd-ganrif-ar-ddeg, gyfieithu Efengyl Ieuan o'r Lladin i'r Gymraeg, gydag Esboniad; a bod y llyfr hwnw yn Abermarlais yn yr 17eg ganrif. (*Iolo MSS. p.* 222.)

gryn amser wedi hyny. Credwn mai hwn oedd y cyfnod tywyllaf yn hanesiaeth grefyddol Cymru. Yr oedd y Cymry yn llawer mwy hwyrfrydig a chyndyn i gydnabod awdurdod y Pab na'r Saeson. Ond erbyn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, yr oedd eu diffyg manteision, eu pellder o ganol-bwynt gwareiddiad, a'u cyssylltiadau gwleidyddol, wedi eu dwyn i gofleidio Pabyddiaeth i fwy o eithafoedd na'r Saeson eu hunain. Mewn llythyr at Thomas Cromwell, y prif-weinidog, dyddiedig Hydref 1535, rhydd William Barlow, Esgob Ty Ddewi, olwg bruddaidd ar sefylfa grefyddol Cymru :—

Ym mhellach, er sicrhau i'ch meistroniaeth yn ddiffuant ym mha gyflwr truenus a gresynus yr ymddygir at ddeiliaid ffyddlawn y brenin, sef trigolion tlodion esgobaeth Tŷ Ddewi, gan y clerigwyr, gofynir trafodaeth helaethach nag a ellir yn gyflëus ei osod ger eich bron yn y ffurf hon ; oblegid er fod genym, yn debyg i esgobaethau eraill mewn ymddangosiad allanol, ac mewn awdurdod a seremoniau ffurfiol, esgob, rhagesgob, archddeoniaid, deoniaid, dirprwywyr, a swyddogion esgobol eraill, gyda theitlau ac enwau ysprydol, ac hefyd luaws o fynachod, canoniaid, brodyr ffydd, ac offeiriaid bydol, eto yn eu plith hwynt oll, er eu bod mor lluosog mewn rhifedi ac mewn esgobaeth mor eang, nid oes yno un yn pregethu Gair Duw yn ddifrifol, na braidd neb ag sydd o'i galon yn bleidiol iddo, ond y maent oll yn elynion hollol yn ei erbyn. . . . . Ac mewn perthynas i'r llygredigaethau dychrynllyd, y gorthrym-drethi twyllodrus, y bywyd annhrefnus, a'r ddelw-addoliaeth baganaidd, a gefnogir yn y modd mwyaf gwarthus dan lywodraeth yr Eglwyswyr, ac a ddilynant yn naturiol eu hanwybodaeth beiadwy, nid wyf yn tybio fod unrhyw esgobaeth yn fwy llygredig, nac un wedi syrthio i'r fath annhrefn, heb obaith diwygiad oni bydd i'ch meistroniaeth weled ffordd i'w gwella. . . . .*

Ysgrifenodd Barlow lythyr arall at Cromwell, dyddiedig Mawrth, 1538, yn yr hwn y mae yn dysgrifio creiriau coelgrefyddol a delwau yn Hwlffordd ac Aberteifi. Ac ym mis Ebrill o'r un flwyddyn, ysgrifenodd lythyr drachefn at y prif-weinidog i gwyno ar rai o'i ganoniaid. Noda un, Gruffydd ab Owen, ei fod yn cadw benyw, o'r hon y cafodd amrai blant ; yr hon wedi hyny a roddodd yn wraig i un o'i weision. Ac hyd yn oed ar ol hyny, ei bod yn mynychu ei dŷ yn ddyddiol gyda Chanon arall am ddwy flynedd yn olynol, o'r hwn yr oedd ganddi un plentyn eisoes, ac yn barod i roddi genedigaeth i un arall.

Ar ddadgorfforiad y mynachlogydd, awdurdodwyd Ellis Price, o Blas Iolyn—y Dr. Coch fel ei gelwid—i symmud y creiriau a'r delwau o fewn i esgobaeth Llanelwy. Ac y mae ei lythyrau at Cromwell yn dangos truenusrwydd ofergoeledd trigolion yr

* Three Chapters of Letters relating to the Suppression of Monasteries, (Camden Society, London, 1843), p. 77.

esgobaeth hòno. A ganlyn sydd ddyfyniad o lythyr o'i eiddo, dyddiedig 6 Ebrill, 1538:—

Er hyny, y mae yma ddelw o Dderfel Gadarn o fewn y ddywededig esgobaeth, yn yr hon y dyry y bobl y fath ymddiried, gobaith, a ffydd, fel y deuant yn feunyddiol ar bererindod ati, rhai gyda gwartheg, eraill ag ychain neu geffylau, a'r gweddill gydag arian: fel ag yr oedd yno gynnifer a phump neu chwe' chant o bererinion, yn ol y cyfrif cyffredin, yn offrymu i'r ddelw ddywededig y pummed dydd o'r mis hwn, Ebrill. Y mae y bobl ddiniwed wedi eu twyllo yn greulawn a'u hudo i addoli y ddelw hòno, fel y mae yn ddywediad cyffredin yn eu plith, i bydd i bwy bynag a offrymo felly i'r ddywededig ddelw o Dderfel Gadarn, fod ganddi allu i'w nol ef neu hwy, sef y neb a offrymo, allan o uffern ar ol eu damnio.*

Mewn llythyr arall o eiddo y Dr. Coch at Cromwell, dyddiedig 28ain o'r un mis, dywed ei fod wedi tynu y ddelw hon i lawr. Ond nid heb lawer o wrthwynebiad ar ran pobl coelgrefyddol Llandderfel. "Fe gynnygiodd person a phlwyfolion yr Eglwys yn yr hon y safai y ddelw ddywededig o Dderfel i mi," meddai ef, "ddeugain punt os peidiwn ag anfon y gyfryw ddelw i Lundain; a chan nad oeddwn yn dueddol mewn un modd i wrando ar eu cynnygion a'u deisyfiadau, y mae y person ei hunan, gydag eraill, yn dyfod at eich arglwyddiaeth, nid yn unig i ddwyn cynghaws ac i ymdrechu yn yr achos, ond hefyd i wnethur awgrymiadau gau ac achwynion arnaf fi. Felly bwriadaf, os Duw a'i myn, ddyfod i ymweled a'ch arglwyddiaeth o fewn cylch pymthegnos, fel y gallwyf ateb y cyfryw gwynion a roddant yn fy erbyn."†

Ac ar ol i'r Diwygiad, trwy ddylanwad y tramorwyr a wahoddwyd i'r deyrnas gan Cranmer yn nheyrnasiad Edward VI., effeithio yn fawr ar feddyliau y Saeson, parhau yn yr hen grefydd a wnai y Cymry. Cafodd y Saeson y fantais o gymdeithasu â Martin Bucer, John Alasco, Peter Martyr, Paulus Fagius, Peter Alexander, Bernardine Ochin, Matthew Negelinus, ac eraill o gyffelyb anianawd. Cafodd Martyr ei benodi i'r swydd o ddarllenydd yn Rhydychain, a gwnaed Bucer a Fagius yn athrawon yng Nghaergrawnt. Pan y gwelwyd yn angenrheidiol diwygio Gwasanaeth-lyfr Edward VI., ymgynghorwyd â Martyr a Bucer gyda golwg ar y casgliad, ac yn yr argraffiad a ddygwyd allan yn 1552, derbyniwyd rhai o'r gwelliantau a awgrymasent.‡ Y mae yn wir fod yr yspryd diwygiadol yn cael ei deimlo yn y prif ysgolion, ac yn cael ei drosglwyddo i ambell fyfyriwr o Gymru.

* Three Chapters of Letters relating to the Suppression of Monasteries, p. 190; Archæologia Cambrensis, 1874, p. 152.

† Ibid, p. 153.

‡ Strype's Memorials of Cranmer, vol. i., pp. 282, 302, 384; Penny Cyclop., vol. xiv. p.57; Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 419.

Ond nid oedd yng Nghymru na Chranmer, na Knox, na Latimer. Nid oedd y genedl wedi codi yr un arweinydd galluog—yr un *Geist*—i ddwyn y bobl oddi wrth Babyddiaeth. Y mae Strype yn rhoddi dysgrifiad mor dywyll o Gymru yn 1550 ag a wna Barlow o honi yn 1535 :—

Mewn perthynas i lwyddiant y Diwygiad, nid oedd ond arafaidd yn ei fynediad yn y parthau pellaf o Lundain. Yr oedd y bobl yng Nghymru yn cario eu gleiniau gyda hwynt i'r Eglwys ac yn eu defnyddio wrth weddio. Ac hyd yn oed yn Eglwys Caerfyrddin, pan yr oedd yr Esgob wrth fwrdd y cymmundeb yn ben noeth yn myned trwy ei ddefosiynau, penliniau y bobl gan guro eu bronau yn yr olwg ar y cymmun, a defnyddient yr un seremoniau coelgrefyddol a wnaent o flaen yr offeren yn yr amserau a aethent heibio. Yr oeddynt yn dwyn y cyrff i'w claddu gyda chaniadau a chanwyllau goleuedig. A phan yr oedd un Dr. Hughes yn gweinyddu y cymmun yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, torodd yr afrlladen yn dri o ddarnau, gan rhoddi un o'r darnau yn y cwpan, rhoddodd deisen gyfan i'r cymmunwyr heb ei thori. Hefyd yr oedd y wlad hon yn dra gwarthus mewn trythyllwch, godineb, ac ymlosgach. Cadwai rai bedair o ordderchwragedd yng nghyd. Byddai gwŷr priod yn cadw gordderchwragedd yn aml. Yr oedd gan un ddau o blant o'i chwaer ei hun. Cadwai un ddwy chwaer, o'r rhai yr oedd un yn briod â dyn. Cadwai un ei chwaer eu hun. Ac yr oedd llawer o'r pechaduriaid hyn yn offeiriaid.*

Y mae y ffeithiau uchod yn siarad drostynt eu hunain. Ac y mae genym dystiolaethau eraill o'r un natur. Mewn cylch-lythyr a anfonwyd gan y Dr. Rowland Meyric, Esgob Bangor, at glerigwyr ei esgobaeth, yn 1560, gwna yr holiadau a ganlyn :—

1. Pa un a ydynt un ac oll yn pregethu yn eu plwyfau yn ol y drefn osodedig yn ol y drydedd a'r bedwaredd erthygl yn ordeiniadau'r Frenhines.

2. Pa un a oedd ganddynt un ac oll y Testament Newydd yn y Saesoneg ac yn y Lladin (gydag arall-eiriad Erasmus o'r unrhyw) yn eu meddiant eu hunain, ac at eu gwasanaeth priodol eu hunain.

3. Pa nifer o bennodau o'r Testament Newydd yn y Saesoneg neu yn y Lladin oeddynt wedi eu dysgu ar eu cof er ymweliad y Frenhines; ac fod i un ac oll o honynt i gael eu arholi yn hyny.

4. Pa nifer o honynt oedd yn byw yn eu plwyfau ac yn cadw tai, a pha le yr oedd y rhai absennol yn aros.

5. Pa nifer o honynt oedd yn cadw gordderch-wragedd, neu yn cael eu hammeu o hyny, trwy dderbyn merched o gymmeriad ammhëus i'w tai; a pha nifer o honynt oedd yn cael eu hystyried yn wŷr priod.

6. Pa un a ydoedd y personiaid a'r ficeriaid yn gweinyddu yn eu plwyfau eu hunain neu yn cadw curadiaid, a beth oedd enwau y cyfryw guradiaid.†

Y mae hyd yn oed y cwestiynau eu hunain yn awgrymu nad

* Strype's Eccles. Memorials (Edit. 1822), vol. ii., p. 357.
† Archæologia Cambrensis, 3rd series, vol. ix., p. 281.

oedd pethau fel y dylasent fod yn esgobaeth Bangor. Dywed yr Esgob Meyric nad oedd ond dau bregethwr yn y flwyddyn hòno o fewn i'w esgobaeth. Ac y mae Strype, o dan y flwyddyn 1565, yn rhoddi cymmeriad anffafriol i esgobaethau Llandaf a Bangor. "Yr oedd y flaenaf o'r cyfryw," meddai, "wedi bod, mewn effaith, yn wâg am ddwy neu dair blynedd, ac yr oedd yn angenrheidiol cael esgob gwyliadwrus i arolygu yr esgobaeth hòno." Ac am yr esgobaeth olaf, dywed nad oedd pregethu yn cael ei arfer ynddi, fod y clerigwyr yn cael caniatad i gadw gordderchadon trwy dalu swm o arian, er fod yn oddefol iddynt briodi.*

Mewn llythyr a anfonwyd gan y Dr. Richard Davies, Esgob Llanelwy, yn 1560, at yr Arch-esgob Parker, ceir golwg ar sefyllfa clerigwyr yr esgobaeth hòno. Yn y rhestr ar ddiwedd y llythyr, gwelwn fod tri oedd yn dal bywoliaethau ynddi o dan oed (*ad huc pueri*). Y tri hyn oeddynt, Robert Whettels, corfudd Llannefydd; David Clapham, corfudd Llanfairtalhaiarn; a Robert Evans, rheithor Caerwys. Nodir dau fel rhai heb eu hordeinio (*nondum in sacris ordinibus initiati*), sef,—Dr. Ellis, rheithor segur-swyddol Llandrillo yn Rhos; a Hugh Whiteford, LL.B., rheithor segur-swyddol Whitford. Yr oedd tri o dan addysg yn Rhydychain:— Edward Meyric, rheithor segur-swyddol Corwen; Henry ap Hoel [Hywel], rheithor segur-swyddol Llandrillo yn Edeyrnion; a Hugh Sonlley, rheithor Marchwiail. Ni chynnwysa y rhestr ond pump o bregethwyr cyfaddas (*concionatores evangelici*), sef, — Hugh Evans, M.A., Deon Llanelwy; John Price, LL.B., rheithor Whittington, ficer Croesoswallt, a Changhellwr Llanelwy; Thomas Jenkins, M.A., rheithor Drefnewydd; Griffith Lloyd, LL.B., rheithor Llanfyllin; a David Lloyd, B.A., rheithor Llangwm a Bettws Gwerfilgoch. Y mae saith-ar-hugain o'r rhai sydd ar y rhestr yn cael eu dysgrifio fel yn gyfarosol a llettygar (*residens et hospitalis*); saith-a-thri-ugain yn gyfarosol (*in residens*), ond ni ddywedir eu bod yn llettygar; un yn gyfarosol, ond heb fod yn llettygar (*in residens, sed non hospitalis*); ac un-ar-bymtheg yn absennol o'u bywoliaethau, y rhai, gydag ychydig eithriadau, oeddynt reithoriaid segur-swyddol, Pedwar yn unig a nodir fel wedi eu graddio yn M.A.; wyth yn LL.B.; ac un yn D.C.L. Ac y mae llawer o honynt wedi eu gadael heb eu dysgrifio o gwbl mewn perthynas i'w dysgeidiaeth na'u presennoldeb yn eu bywoliaethau.†

Rhaid addef fod rhai ymdrechion clodwiw i ddwyn pethau i well trefn yn cael eu cofnodi. Yr ydym yn cael i'r Dr. Thomas

* Strype's Life of Archbishop Parker (Edit. 1821), vol. i., p. 404.
† Browne Willis's St. Asaph (Edwards' Edit.), vol. ii., pp. 137-147.

Davies, olynydd y Dr. Richard Davies yng nghadair Esgobol Llanelwy, weithredu yn dra chanmoladwy. Mewn Cymmanfa Eglwysig a gynnaliwyd yn Llanelwy, y 12fed o Dachwedd, 1561, rhoddodd y gorchymmynion canlynol i glerigwyr ei esgobaeth:—

Fod i bob un o honynt ofalu am i'r Catecism yn Gymraeg gael ei ddarllen yn gyhoeddus yn eu heglwysi bob Sabbath, yng nghyda'r atebion i'r unrhyw, ac yn yr iaith Saesoneg . . . ar y Suliau a'r gwyliau.

Fod i bob un o honynt yn ddioedi ymadael â, symmud a rhoddi heibio, neu achosi i roddi heibio, bob creiriau ac ofergoel-bethau eraill o fewn i'w heglwysi, a difodi yr allorau *(auters)* yn y cyfryw, o fewn wyth diwrnod.

Fod i bob person, ficer neu gurad, ac offeiriad cyflogedig, o dan y gradd o Athraw yn y Celfyddydau, brynu, a chadw yn ei feddiant i'w ddefnyddio, y Testament Newydd yn y Lladin a'r Saesoneg, gydag arall-eiriad Erasmus o'r unrhyw, ac i ddysgu dwy bennod o hono ar dafod-leferydd, sef y gyntaf o'r Rhufeiniaid a'r chwechfed o Ioan.

Fod y Litani i'w chanu ne'i hadrodd ar ddyddiau Mercher a Gwener.

Fod i'r Epistol a'r Efengyl ar ol iddynt gael eu darllen yn y Saesoneg, i'w darllen hefyd yn Gymraeg.*

Ond y mae y ganmoliaeth yn llawer prinach na'r condemniad. Yn y flwyddyn 1587, cyhuddwyd y Dr. William Hughes, Esgob Llanelwy, o gam-reoli ei esgobaeth a goddef aflywodraeth gwarthus. Dywed Strype fod yr Esgob yn dal un-ar-bymtheg o'r bywoliaethau cyfoethocaf yn ei law ei hun (*in commendam*); fod y rhan fwyaf o'r bywoliaethau goreu yn cael eu dal gan bersonau yn byw allan o'r wlad; fod un person, yr hwn oedd yn dal dwy o'r bywoliaethau mwyaf, yn llettya mewn tafarndŷ; ac nad oedd ond tri phregethwr yn byw o fewn eu plwyfau eu hunain, sef,—y Dr. David Powel, Rhiwabon; y Dr. William Morgan, Llanrhaiadr ym Mochnant; ac offeiriad Llanfechain, hen ŵr oddeutu pedwar ugain oed.† Nid ydym yn cael, fodd bynag, fod pethau mor ddrwg ag y dywed Strype, yn enwedig mewn perthynas a bod yr Esgob Hughes yn cadw cynnifer o blwyfau yn ei law ei hun. Ond ni a gawn ddychwelyd at yr Esgob eto mewn lle arall. Pa fodd bynag, y mae yn ddigon amlwg fod cryn annhrefn ac afreoleidd-dra yng nglyn â'r Eglwys yng Nghymru yn y cyfnod dan sylw. Yr oedd aml-blwyfiaeth yn gyffredin, a phenodid rhai ieuainc a diddysg yn fynych i blwyfau pwysig. Heb law y rhai yr ydym wedi nodi eisoes, gallwn enwi Thomas Banks; wedi hyny Deon Llanelwy, a benodwyd, pan rhwng deunaw ac ugain oed, yn olynol i fywoliaethau segur-swyddol Caerwys a Llangwm, 1582—84. A chafodd Ddeoniaeth Llanelwy pan nad oedd uwch law tair-ar-hugain mlwydd oed.‡

* Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, pp. 86, 87; quoted from Wilkins' Concilia, iv., 228.
† Strype's Annals of the Reformation (Ed.1725), vol.iv., p.293; Arch. Cambr., 1884, pp.54-8
‡ Ibid, p. 56.

Os oedd y clerigwyr mor ddiffygiol gyda golwg ar addysgu y werin, nid rhyfedd eu bod, fel y dywed y Ddeddf Seneddol a orchymmynai gyfieithu y Beibl yn Gymraeg, "yn aros yn y cyffelyb, neu yn hytrach mewn mwy tywyllwch ac anwybodaeth nag yr oeddynt yn amser y grefydd Babaidd." Ac yn wir, y mae genym bob lle i gasglu fod y rhan fwyaf o'r bobl gyffredin yng Nghymru naill ai yn Babyddion eu hunain, neu ynte yn ammhleidiol i'r grefydd Brotestanaidd. Ychydig o Gymry a ddiangasant i'r Cyfandir yn amser Mary, yr enwocaf o'r rhai oedd Richard Davies, wedi hyny Esgob Llanelwy a Thŷ Ddewi. Ond yr ydym yn cael i lawer o honynt fyned ymaith yn amser Elizabeth. Y mae genym luaws o enwau Cymreig ym mhlith y Protestaniaid a ddyoddefasant ferthyrdod yn Lloegr o dan Mary, megys John ab Rhys, Philip Humphrey, John David, Henry David, Robert Samuel, John Floyd, John Gwynne, James Harris, Robert Williams, &c.* Ond, yn yr un cyfnod, ni ferthyrwyd ond tri yng Nghymru, a'r rhai hyny yn Saeson; sef—Robert Farrar, Esgob Tŷ Ddewi, yng Nghaerfyrddin; Rawlins White, y pysgotwr, yng Nghaerdydd; a William Nichol, yn Hwlffordd, sir Benfro.† Rhaid addef, fodd bynag, nad ydyw hyn yn profi mai ychydig oedd nifer y Protestaniaid yng Nghymru yn amser Mary mwy nag mae y ffaith mai un Pabydd a ferthyrwyd yn amser Elizabeth yn profi anamlder y Pabyddion.

Gair am y merthyr Pabyddol Richard White wrth fyned heibio; yn enwedig gan nad oes yr un hanesydd Cymreig wedi sylwi arno. Brodor o Llanidloes, sir Drefaldwyn, ydoedd; ac yr oedd yn disgyn o deulu hynafol y Gwynniaid o'r dref hòno. Derbyniodd ei addysg yn gyntaf yn Rhydychain, lle galwyd ef yn White yn lle Gwynn, ac wedi hyny yng Ngholeg St. Ioan, yng Nghaergrawnt. Ar ol hyny, aeth i gadw ysgol i Wrecsam a'r cymmydogaethau cylchynol. Wedi iddo ymsefydlu yn Overton, dechreuwyd aflonyddu arno am nad äi i gymmuno i'r Eglwys Sefydledig. Bu gorfod arno ffoi o'r ardal am na chydffurfiai. Ond yn 1580, daliwyd ef, a chafodd ei brofi mewn llys ar ol llys am bedair blynedd. Dygwyd ei achos i derfyniad mewn brawdlys a gynnaliwyd yng Ngwrecsam, 9fed o Hydref, 1584, pryd y cyhoeddwyd y ddedfryd ganlynol:—"Fod iddo gael ei gymmeryd i'r carchar yn ol, a'i lusgo oddi yno at y crogbren; lle y crogir ef hyd nes yn hanner marw, ac ar ol ei dori i lawr yn fyw, fod ei aelodau i gael eu taflu i'r tân; fod iddo gael ei agor hyd at ei frest; ei ymysgaroedd, ei ïafu, ei ysgyfaint, a'i galon, i gael eu

* Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 441. † Ibid, tud. 429-436, 440.

llosgi; fod i'w ben gael ei dori ymaith, ei gorff i'w ranu yn bedwar darn, ac fod y pen a'r darnau hyny i gael eu gosod yn y cyfryw leoedd a nodir gan y Frenhines." Ac ychwanegai Mr. Simon Thelwall, yr hwn a draddododd y ddedfryd yn absennoldeb y barnwr, George Bromley:—"Y mae y ddedfryd hon i gael ei rhoddi mewn gweithrediad ddydd Iau; yr ydym yn penodi y diwrnod cyn ymadael. Ac felly yr Arglwydd a gymmero drugaredd arno." Cyhoeddwyd y ddedfryd hon ar y 15fed o Hydref, a chariwyd hi allan i'r llythyren. Dywedir iddo ddyfod yn ymwybodol pan yr oedd y dienyddwr yn tori ei ymysgaroedd ac yn eu taflu i'r tân, ac iddo ofyn mewn braw, "O Dduw gwyn! pa beth yw hyn?" Ac i'r dienyddwr ei ateb mai cario allan y ddedfryd ar ran y Frenhines yr oeddynt. Ei eiriau olaf, cyn tori ei ben, oeddynt:—"Iesu, cymmer drugaredd arnaf."

Adroddir yr hanes hwn gan gyd-oeswyr Richard White, y rhai oeddynt Babyddion selog. Ac y mae y gwyrthiau a'r barnedigaethau a adroddir ganddynt yn profi eu hofergoeledd. Ond ar yr un pryd, y mae yr anhawsderau a gafodd yr awdurdodau i gario allan y ddedfryd yn profi fod teimlad y bobl gyffredin ym Maelor o blaid y carcharor a'r hen grefydd. Gorfu i'r dienyddwr ymguddio o fewn y carchar. Cafodd ceidwad y carchar drafferth anarferol i gael y pethau angenrheidiol. Bu raid iddo ladrata ysgol o gefn tŷ cymmydog yn y nôs, gan na roddai neb fenthyg un iddo; bu raid i'w weision ef gario glô ddwy filldir o ffordd ar eu cefnau i wneyd coelcerth; methai a chael yr un gôf i wneuthur bwyall iddo; a mawr fu'r helynt i gael y pethau angenrheidiol eraill.*

Ym mhlith y rhai a gymmerasant ran yn erbyn White fel swyddogion, cyhuddwyr, a thystion, yr oedd y Barnwr George Bromley; Simon Thelwall, Plâs-y-ward; Owen Brereton, o Borasham; Syr Ievan Llwyd, o Yale; Piers Owen, Garth-y-Medd; Dr. David Powel, Ficer Rhiwabon, Syr Hugh Sonlley, Ficer Gwrecsam, Roger Puleston, o Emral; Dr. Ellis; Lewis Gronow, Edward Erles, Howel David, ac eraill. Nid oes dadl nad oedd rhan luosog o'r cyfoethogion a'r tir-feddianwyr yn Brotestaniaid yn amser Elizabeth. Yr oedd y cyfoethogion yn fwy chwannog i fabwysiadu y grefydd a broffesau y penadur, tra yr oedd y werin yn fwy ceidwadol. Yr ydym yn ofni fod llawer o'r rhai a gofleidient—pe cofleidio hefyd—Brotestaniaeth yng Nghymru yn meddu ar gydwybodau hynod o ystwyth. Llwyddodd

* Ceir adroddiad cyflawn o ferthyrdod Richard White yn *Hist. Powys Fadog, vol. iii., pp.* 128-164, wedi ei gymmeryd o ysgrifyfr a gafwyd er ys ychydig flynyddoedd yn ol yng Nghapel Pabyddol, Wyddgrug.

Anthony Kitchin, esgob Llandaf, i gydffurfio â'r holl gyfnewidiadau eglwysig a gymmerasant le o Harri VIII. hyd Elizabeth. A chawn i'r Dr. Bulkeley, esgob Bangor, gadw ei sedd yn ystod y rhan olaf o deyrnasiad hanner-Babyddol Harri VIII., trwy yr oll o deyrnasiad Brotestanaidd Edward VI., ac am y rhan flaenaf o deyrnasiad Babyddol Mary. A gellir dyweyd yn gyffelyb am Robert Warton, esgob Llanelwy.* Ac nid oedd y lleygwyr cyfoethog ond lled hannerog. Yr oedd y Mostyniaid o Fostyn yn Brotestaniaid er amser Harri VIII.; tra yr oedd Mostyniaid Talacre, gyda'r eithriad, fe allai, o Dr. Henry Mostyn, Canghellwr Bangor, yn aros wrth yr hen grefydd. Yr oedd Priciaid Plâs Iolyn yn Brotestaniaid; yr un modd Wynniaid Gwydir. Yr oedd llawer o Salesbriaid, Lleweni, Rûg, Bachymbyd, Plas Isaf, a Bachegraig, yn Brotestaniaid, er ein bod yn cael rhai o'r gwehelyth hwn yn Babyddion aiddgar. Y mae yn hysbys i Thomas Salesbury o'r Lleweni, mab hynaf Catherine o'r Berain o'i gŵr cyntaf, gael ei ddienyddio gydag Edward Jones o'r Cadogan, sir Ddinbych, ac eraill, yn 1586, am gymmeryd rhan yng nghydfradwriaeth Anthony Babington. Ond yr oedd brawd i'r dywededig Thomas Salesbury, Sir John Salesbury, yn Brotestant selog, ac yn un o ysweiniaid y Frenhines Elizabeth. Yr oedd sefyllfa gymdeithasol y tir-feddianwyr yn eu gwneuthur hwy yn fwy gofalus rhag anghydffurfio â'r grefydd sefydledig. Ond eto y mae lle i feddwl fod llawer o honynt yn garedigion dirgelaidd i Babyddiaeth. Yn y *Cwtta Cyfarwydd*, yr hwn sydd yn dechreu cofnodi oddeutu 1607, ceir crybwylliadau am rai yn cael eu claddu yn y nôs, am y rheswm eu bod yn ymwrthodwyr (*recusants*). Ym mhlith eraill a gofnodir felly ceir enw Mrs. Margaret Conway, gweddw John Conway, Ysw., a mam Syr John Conway, yr hon a fu farw yn Rutland (Rhuddlan?).†

Y mae yr hyn a ddywed Macaulay am gyfartaledd y Pabyddion a'r Protestaniaid yn Lloegr yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg yn werth ei gofnodi. Ar ol nodi gwahanol farnau ar y pwnc, dywed:—

Y mae yr adroddiad a rydd Cardinal Bentivoglio o sefyllfa crefydd yn Lloegr yn teilyngu ystyriaeth. Cyfrifa y Pabyddion selog fel yn rhifo un ran o ddeg-ar-hugain o'r genedl. A chyfrifa y bobl a fuasent yn troi yn Babyddion heb y petrusder lleiaf, pe buasai y grefydd Babaidd yn cael ei sefydlu, fel yn ffurfio pedair rhan o bump o'r genedl. Yr ydym yn credu fod y cyfrifiad hwn yn dra chywir. Credwn fod y bobl ag oeddynt wedi gwneuthur eu meddyliau i fyny ar y naill ochr neu'r llall, y rhai oeddynt yn barod i wneuthur unrhyw aberth neu i fyned i unrhyw berygl ar ran y naill grefydd neu'r llall, yn lled ychydig. Yr

* Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 425. † Cwtta Cyfarwydd, p. 118.

oedd gan bob ochr ychydig o arweinwyr gwrol ac ychydig o ferthyron calonog; ond yr oedd y genedl, yn ansefydlog yn ei hopiniynau a'i theimladau, yn gollwng ei hunan yn hollol i arweiniad y llywodraeth, ac yn rhoddi i'r penadur ar y pryd gynnorthwy parod a chyfartal yn erbyn unrhyw un o'r pleidiau gwrthwynebol.*

Lloegr oedd gan Macaulay dan sylw yn y dyfyniad uchod. Ac os dyna oedd sefyllfa Lloegr, y mae yn deg casglu fod Cymru yn myned i eithafoedd pellach. Os oedd cyfartaledd poblogaeth Lloegr yn cynnwys pedwar o bob pump o Babyddion mewn barn a theimlad, gallwn fod yn dra sicr fod y cyfartaledd yng Nghymru oddeutu pump o bob chwech, neu chwech o bob saith, o'r boblogaeth, a dyweyd y lleiaf. Yn Lloegr, yr oedd y blaid Buritanaidd wedi magu cryn nerth a dylanwad. Yn y *Zurich Letters*† nid oes llai na 288 o lythyrau yn argraffedig, y rhai, gydag ychydig eithriadau, a gynnwysant ohebiaeth frawdol a charedig a gymmerodd le yn nheyrnasiad Elizabeth rhwng amryw o'r esgobion Seisonig â'r Diwygwyr Helvetaidd. Ac y mae llawer o'r llythyrau yn profi fod rhai o'r esgobion yn awyddus am ddwyn y diwygiad ym mlaen ar sylfeini llydain a pharhaol. Ond nid oes enw un clerigwr nac esgob Cymreig wrth yr un o'r llythyrau hyn. A chredwn nad ydym yn camgymmeryd wrth ddyweyd mai John Penry oedd yr unig Gymro yn ystod yr unfed-ganrif-ar-bymtheg a ddangosodd y duedd leiaf i fabwysiadu golygiadau Puritanaidd. A gellir meddwl mai ychydig groesaw a roddid i'w olygiadau yn sir Frycheiniog, gan mai ym mhlith y Saeson y treuliodd yr oes a ddiweddwyd mor echrydus ar y 29ain o Fai, 1593. Yr oedd Penry yn coleddu syniadau isel am foesoldeb, gwybodaeth, a chrefydd ei gyd-wladwyr, fel y dengys ei ysgrifeniadau. Yn 1587, dywedir iddo gyhoeddi "*A Treatise containing the Equity of an Humple Suplication which is to be exibited to Her Gracious Majesty, and the High Court of Parliament, in the behalf of the country of Wales, that some order may be taken for the preaching of the Gosbel among those people; wherein is also set down as much of the estate of our people as without offence could be made known to the end (if it please God) may be pitied by them who are not of this assembly, and so they also may be drawn to labour in our behalf.*"‡ Priodolir dau lyfryn arall iddo, a gyhoeddwyd yn 1588. Un ydyw, "*A viewe of some Part of such publick Wants and Disorders as are in the service of God within her Majestie's Countrie of Wales, together with an humble Petition to the High Court of Parliament for*

* Macaulay's Essay on "Burleigh and his Times."

† "The Zurich Letters, comprising the Correspondence of several English Bishops and others, with some of the Helvetian Reformers, during the early part of Queen Elizabeth." (Parker Society Publication, Cambridge, 1842-5), 2 vols.

‡ Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 39.

their speedy Redresse" ;* y llall ydyw, "*Exhortations unto the Governors and people of Wales to labor earnestly to have the preaching of the Gospel planted among them.*"† Y mae llawer wedi ei ysgrifenu yn erbyn ac o blaid John Penry, ond ni pherthyn i ni fyned i mewn i'r ddadl yma. Ac nid ein gwaith ni ydyw penderfynu pa un ai efe ai rhywun arall a ysgrifenodd y llythyrau oedd yn dwyn yr enw "Martin Mar-Prelate." Ond fel yr awgrymasom eisoes, er ei fod yn gweled yr angen yr oedd Cymru ynddi am bregethu, yn Ysgotland a Lloegr y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser. A hyny, y mae yn ddigon posibl, am fod ei syniadau yn llawer rhy wrth-Babyddol iddo gael ei oddef yng ngwlad ei enedigaeth. Pa fodd bynag, nid oes genym hanes am neb yn y Dywysogaeth yn tueddu at yr hyn a elwid yn Buritaniaeth neu Anghydffurfiaeth hyd nes y cododd William Wroth, William Erbury, Walter Cradoc, ac eraill, oddeutu canol yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg. Ond yr un pryd, y mae yn ddiammeu genym fod Cymru ym mhell cyn hyny wedi graddol gilio oddi wrth Babyddiaeth.

Ond i derfynu hyn o sylwadau mewn perthynas i sefylla ddeallol a chrefyddol Cymru yn amser Elizabeth, ni a roddwn grynodeb byr o'r hyn a geisiasom brofi :—

1. Mai yr iaith Gymraeg, er ei bod wedi llygru trwy ymgymmysgiad â'r Saesoneg, oedd yr hon a ddeallid gan y rhan luosocaf o lawer o'r bobl gyffredin yng Nghymru ; ac fod llawer yn analluog i ddeall yr un iaith arall.

2. Er y tybir yn bosibl fod y gwahanol argraffiadau o'r Beibl Seisonig, o gyfieithiad William Tyndal yn 1525 i waered, wedi effeithio rhyw gymmaint o ddaioni yng Nghymru ; eto, gan fod y genedl gan y mwyaf yn un-ieithog, nis gallasai ei ddylanwad arni fod ond ychydig.

3. Fod unrhyw gyfieithiadau o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg a allasai fod ym mhlith y genedl unwaith, wedi myned ar goll cyn y Diwygiad Protestanaidd.

4. Fod y genedl Gymreig o herwydd y rhesymau uchod mewn sefyllfa o ddygn anwybodaeth, anfoesoldeb, ac ofergoeledd ; ac yn glynu yn dynach wrth Babyddiaeth na'r Saeson.

5. Y casgliad naturiol oddi wrth y nodiadau uchod ydyw fod cenedl y Cymry mewn dirfawr angen am yr Ysgrythyrau a llyfrau crefyddol eraill wedi eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn ei hiaith ei hunan.

‡ Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 50. § Ibid.

PENNOD II.

NODIADAU AR LENYDDIAETH ARGRAFFEDIG Y CYMRY YN FLAENOROL I GYHOEDDIAD BEIBL MORGAN.

Y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd—Gruffydd Hiraethog a Syr John Price yn eu cyssylltiad â llenyddiaeth argraffedig y Cymry — William Salesbury—Nodiadau ar ei dras a'i fonedd, ei weithiau llenyddol, &c.— Y Ddeddf Seneddol er cyfieithu ac argraffu yr Ysgrythyrau, &c., i'r Gymraeg—John Scory, esgob Henffordd — Anthony Kitchin, esgob Llandaf — Rowland Meyric, esgob Bangor — Thomas Davies, esgob Llanelwy—Richard Davies, esgob Tŷ Ddewi—Thomas Huet—Y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Testament Newydd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg am y tro cyntaf yn 1567—Nodiadau ar y Testament Newydd —Llythyr Cyflwyn William Salesbury i'r Frenhines Elizabeth — Salesbury a Davies wrth y gorchwyl o gyfieithu yr Hen Destament, a'r anghydwelediad rhyngddynt—Llyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar y Cyfandir—Gruffydd Roberts—Morys Clynog — Rhosier Smyth — Y Catecism, a llyfrau Cymraeg eraill.

Fel y sylwasom yn nechreu y bennod flaenorol, y mae yn ammhosibl gwneuthur cyfiawnder â bywyd a llafur y Dr. William Morgan heb ymdrin ychydig ar y rhai a'i rhagflaenodd fel cyhoeddwyr llyfrau Cymraeg. Yr oedd llyfrau Lladin a Seisonig wedi cael eu hargraffu er ys oddeutu can' mlynedd neu ragor cyn i'r argraff-wasg droi allan yr un llyfr Cymraeg. Dywedir mai Beibl Lladin oedd y llyfr cyntaf a argraffwyd erioed â llythyrenau symmudadwy (*movable type*). Gelwir hwnw "Beibl Mazarine," ac argraffwyd ef gan John Gutenberg, yn Mentz, rhwng 1450 ac 1456. Dywed y Dr. Adam Clarke mai y llyfr cyntaf a argraffwyd yn Lloegr oedd, "*The Game and Playe of the Chesse*,"* ond hysbysir ni gan Mr. Bernard Quaritch mai nid yn Lloegr, ond yn Bruges, yr argraffwyd hwnw; ac mai y cyntaf a ddygwyd allan yn Lloegr oedd, "*Dictes and Sayings of the Philosophers*," yn 1477.† Ac ar ol i'r Cymry ymgymmeryd ag argraffu eu cynnyrchion, ni chafwyd neb am dros ddau cant a hanner o flynyddoedd ar ol dechreu argraffu yn Ewrop yn ddigon anturiaethus i sefydlu argraff-wasg yng Nghymru. O leiaf nid ydym yn cael hanes am un llyfr wedi ei argraffu yn y Dywysogaeth

* Bibliographical Miscellany, ii., p. 130; Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 1, nodyn.

† Catalogue of Books from the Hopetown & Buccleuch Libraries, April, 1889.

hyd y rhan gyntaf o'r ganrif ddiweddaf. Dywed y Canon D. Silvan Evans y teimlai "yn hynod ddiolchgar i unrhyw un a ddwg dystiolaeth foddhaol o fodolaeth gwâsg yn y Dywysogaeth yn flaenorol i'r hon a sefydlwyd yn Trefhedyn, sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1719."* Yr oedd pwy bynag a ymgymmerai a chyhoeddi llyfrau Cymraeg, felly, o dan rwymedigaeth i osod ei lafur yn nwylaw y Saeson. Yr oedd hyn nid yn unig yn anghyfleusdra ac yn gostus, ond gan nad oedd yr argraffwyr yn deall iaith yr ysgrifenydd, yr oedd camgymmeriadau yn cymmeryd lle o angenrheidrwydd. Rhydd yr ystyriaeth hon gyfrif am ran fawr o'r cam-sillebiaeth ag sydd i'w ganfod yn ein llenyddiaeth argraffedig foreuaf. Ac ond odid, na rydd gyfrif hefyd am fod nifer y llyfrau Cymraeg mor ychydig am gymmaint o amser wedi dechreuad ein hanesiaeth lyfryddol.

Credir yn gyffredin mai y llyfr a gofnoda Gwilym Lleyn dan y flwyddyn 1546 oedd yr ymgais gyntaf i gyfranu unrhyw fath o wybodaeth i'r Cymry trwy gyfrwng y wâsg. Pa fodd bynag, yr ydym wedi cael lle yn ddiweddar i ammeu hyn. Perthyna i lyfrgell Shirburn Castle, palas-dŷ Iarll Macclesfield, lyfr bychan, o'r hwn y bwriada Mr. Gwenogfryn Evans ddwyn ail-argraffiad allan, yn cael ei flaenori gan y wyneb-ddalen ganlynol:—

Oll
Synwyr
pen
Kembero
y gyd
Wedyr gynnull, ei gynnwys ae
gyfanſoddi mewn crynodeb ddoſ-
parthus athrefnodidawc drwy
ddyual yſtryw
Gruffyd Hi-
raethoc prydydd o wy-
nedd
Is Conwy.†

Nid ydyw ein llyfryddwyr yn crybwyll hwn; a'r cyfargraff yn Shirburn Castle ydyw yr unig un sydd yn adnabyddus. Ar gefn y wyneb-ddalen ceir "Barn ſynwyr pen Cambero am ddyſc doethineb a ſynwyr," sef naw o ddiarhebion, megys—"Lle ni bo dyſc ni bydd dawn," ac felly ym mlaen. Yn nesaf y mae rhagarweiniad gyda'r penawd—"William Salesbury wrth y darlleydd Camberaec-gar," yr hwn sydd yn cymmeryd 11 o dudalenau, yn cael ei ddilyn gan gorff y llyfr, yr hwn sydd gasgliad o Ddiarheb-

* Bye-Gones, 24th September, 1875.
† Nid oes angen, feddyliem, am osod y darllenydd ar ei wyliadwriaeth rhag camgymmeryd yr *s* hen ffasiwn (ſ) am *f*, yn y dyſyniad uchod.

ion Cymreig, ac yn llanw 51 o dudalenau ; yna y diweddawd (*colophon*) :—

Teruyn
Imprynted at London in Saynt
Johns Strete by Nycholas
Hyll.

Nid oes yr un dyddiad wrth y llyfr yn un man. Ond fe'n hysbysir gan Mr. Gwenogfryn Evans, yr hwn sydd wedi talu sylw arbenig i'r mater, fod y llyfr amseredig cyntaf a argraffwyd gan Nycholas Hyll yn dwyn y dyddiad 1546, a'r olaf 1553 ; ac y mae ef yn barnu oddi wrth hyny i "Oll Synwyr pen Kembero" gael ei argraffu *cyn* i Nycholas Hyll ddechreu gosod dyddiadau wrth ei lyfrau. Os felly, y mae yn dra thebyg fod hwn wedi cael ei gyhoeddi o flaen y llyfr a osodir yn gyntaf gan Rowlands ; ac hyd nes y gwneir darganfyddiad pellach, hwyrach y dylid ei ystyried y gwaith Cymreig cyntaf a gyhoeddwyd. O leiaf, y mae yn dra thebygol iddo gael ei gyhoeddi yr un flwyddyn a'r cyntaf. Am gasglydd y gwaith, Gruffydd Hiraethog, ni wyddom ond ychydig amgen nag iddo gael ei eni yn agos i fynydd Hiraethog, yn sir Ddinbych, ei fod yn fardd o gryn enwogrwydd, fod amryw o ddernynau o'i eiddo ar gael, ei fod yn ei flodeu rhwng 1520 a 1550, ac iddo gael ei gladdu yng nghangell Eglwys Llangollen. Fe welir mai William Salesbury a ysgrifenodd y rhag-arweiniad i'r llyfr dywededig ; a gellid meddwl mai efe a ysgrifenodd y wyneb-ddalen. Oblegid nid priodol a fuasai i Gruffydd Hiraethog ddyweyd am dano ei hun ei fod wedi cynnull y diarhebion "mewn crynodeb ddosparthus a threfn odidawc."

Y llyfr Cymraeg cyntaf a gofnoda Gwilym Lleyn ydyw yr hwn sydd yn dwyn y teitl a ganlyn :—

Beibl. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a'r Gweddiau Gocheladwy ac Keingeu. [Llundain, 1546, 4 plyg.]*

Nid oes yr un cyfargraff adnabydds o'r gwaith hwn, ac y mae cryn ammheuaeth mewn perthynas i'w awduriaeth. Ym mhlith y rhai sydd yn priodoli ei awduriaeth i William Salesbury, ceir enwau y Dr. Lewis Edwards,† y Canon Silvan Evans,‡ a Gwallter Mechain.§ A rhaid addef fod orgraff y wyneb-ddalen yn dwyn tebygolrwydd mawr i eiddo Salesbury. Yn ol Ioan Pedr, Syr John Price o Aberhonddu oedd ei awdwr,‖ ond nid

* Llyfr. y Cymru, tud. 3. † Traethodau Llenyddol, tud. 89.
‡ Llyfr. y Cymry, Rhagdraith, xxvi., nodyn. § Gwaith Gwallter Mechain, ii., p. 199.
‖ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 45.

ydyw yn rhoddi ei resymau dros y dybîaeth. Y mae yn ymddangos i ni, fodd bynag, fod grym y dystiolaeth yn troi i ochr Syr John Price. Y mae yr Esgob Richard Davies yn ei "Epistol at y Cembru" yn sylwi na "allodd y print ddwyn ffrwyth yn y byt yw gyfri i'r Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydic cyn hyn i gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r epystelay, a arferit yn yr Eglwys tros y flwyddyn, yn Gymraeg yn print, a Syr Ihon Prys yntau y Pader, y Credo, a'r . . X Gorchymyn." Dywed yr Esgob Humphreys, mewn un lle, i Syr John gyhoeddi y gwaith hwn yn 1555;* ond mewn lle arall, dywed i Almanac Cymraeg gael ei gyhoeddi yn amser Harri VIII.; ond nad oedd yn sicr pa un ai William Salesbury ai Syr John Price oedd y cyhoeddwr.† Ymddengys i ni fod yr Esgob Humphreys wedi cael ei arwain i osod "y Pader, y Credo, a'r . . X Gorchymyn" yn 1555, gan nodiad ar ymyl y ddalen gogyfer a chrybwylliad yr Esgob Davies, sef, "Marchog Vrddol, 1555." Ond y mai yn debycach genym mai cyfeirio at farwolaeth Syr John y mai y dyddiad hwn; oblegid dywedir i'w fab gyhoeddi ei "*Historiæ Britannicæ Defensio*" yn 1573, ym mhen *oddeutu* ugain mlynedd ar ol marwolaeth ei dad. Pa fodd bynag, ymddengys i ni fod y llyfr a gyhoeddodd Syr John Price yn cyfateb, can belled ag y dysgrifir ei gynnwysiad, i'r "Beibl"‡ a argraffwyd yn 1546. Os nad yr un a'r "Beibl" ydyw "y Pader, y Credo, a'r Deg Gorchymyn," rhaid na chofnodir llyfr Price yn *Llyfryddiaeth y Cymry* o gwbl. Y mae Gweirydd ap Rhys, drachefn, mewn un man yn priodoli ei awduriaeth i Salesbury,§ ac mewn man arall i Syr John Price.‖

Mab oedd Syr John i Rhys ab Gwilym Gwyn, ac nid ydys yn sicr pa un ai yn sir Henffordd neu sir Frycheiniog y ganwyd ef. Gorphenodd ei addysg yn Broadgate Hall (Coleg Penfro), Rhydychain, lle graddiodd yn LL.D., a D.C.L. Aeth wedi hyny i Lundain i efrydu y gyfraith, a gwnaed ef yn far-gyfreithwr. Ennillodd sylw Harri VIII., ac urddwyd ef yn farchog. Cafodd ei benodi yn un o Gynghorwyr Llys y Cyffiniau, ac fel y crybwyllasom, cymmerodd ran flaenllaw yn uniad Cymru a Lloegr; ac

* Humphreys' Add. to Wood's Athenæ Oxon, p. 74. † Ibid, p. 120.

‡ Afreidiol yw dyweyd mai nid Beibl oedd y gwaith hwn. "Dodwyd 'Beibl,'" medd Gwilym Lleyn, "mewn llythyrenau breision ar ben uchaf y ddalen gyntaf i dynu sylw, mae'n debyg, gan fod rhanau o'r Beibl ynddo, yr hwn oedd yn lled ddyeithr yng Nghymru yn y dyddiau hyny." (Llyfr. y Cymry, tud. 4.)

§ Hanes y Brytaniaid a'r Cymry, cyf. ii., tud. 430.

‖ Hanes Llenyddiaeth Gymreig, tud. 348.

ar ddadgorfforiad y mynachlogydd, efe a benodwyd i'r gwaith hwnw yn sir Frycheiniog, pryd yr arhosai yn y Prior-dŷ, Aberhonddu, yn yr hwn le y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Bu yn sirydd sir Frycheiniog yn 1541, a sirydd sir Henfordd yn 1553. Ei wraig oedd Joan, merch John Williamson, o Southwark, o'r hon y cafodd ddeg o blant, sef Gregory, Richard, John, William, Bartholomew, Elenor, Joan, Jane, ac Ursula. Mewn ysgriflyfr yn Rhydychain, ceir y cofnodiad canlynol yn ei lawysgrif ef ei hun :—

Y trydydd dydd ar ddec o whefrawr ym mlwyddyn yr arglwydd Jeſsu 1538 mil a phymp cant ar wyth ar ugaint [sic] y ganeit ymi Sion ap Rhys y bioedd y llyfyr hwnn verch a elwit Elenor om gwraic a elwit Siwan Vch y Sion Williamson ac i Siwan ei wraig ef a oed chwaer i wraic Thomas Arglwyd Crumwel mam Gregori Crumwel a briodes chwaer brenhines Siaen mam br[enin] Edward. ac y bu mameu bedyd yddi hi Elenor gwraic Gristophor Barker a elwit Garther. a Darothe gwreic Latham oed Sargeant or Caten yr brenin Harri viiith a . . . . J. Pale archiagon Lincoln in dad bedydd yddi.*

Yr oedd Syr John Price yn llenor galluog ac yn hynafiaethydd cyfarwydd. Ysgrifenodd ei "*Historiæ Britannicæ Defensio*" i amddiffyn hanesiaeth Gymreig yng ngwyneb ymosodiadau Polydor Vergil, yr hwn a gyhoeddwyd gan ei fab Richard, yn 1573. Yr oedd yn gyfaill mawr i Leland, yr hwn a gynnorthwyodd i gyfansoddi ei "*Assertio Arturii.*" Efe hefyd oedd awdwr y "*Description of Wales,*" yr hwn a helaethwyd ac a gyhoeddwyd yn olynol, gan Humphrey Llwyd, ac wedi hyny gan y Dr. David Powel. Ac ysgrifenodd hefyd draethawd Lladin ar y Sacrament.† Ymddengys hefyd ei fod yn fardd, oblegid y mae rhai englynion o'i eiddo mewn ysgriflyfr yn Rhydychain (*Ball. MSS.* 353, fol. 13); ond nid ydynt yn siarad yn uchel am ei chwaeth dda, nac am eiddo yr oes oedd yn byw ynddi. Ac hyd y gwyddom, yr unig waith llenyddol Cymreig a gyfansoddodd oedd yr hwn y cyfeiria yr Esgob Richard Davies ato, pa un bynag ai yn 1546, ai ar ryw adeg arall, y cyhoeddwyd ef.

Yr ydym yn awr yn dyfod yn naturiol at William Salesbury, yr ail mewn pwysigrwydd o fewn cylch ein hymdrafodaeth bresennol. Gan ei fod ef yn dyfod i fewn i "Amserau" y testyn, a bod ei lafur yn dal y fath gyssylltiad agos ag eiddo ei olynydd, y Dr. William Morgan, tybiwn mai diangenrhaid ydyw unrhyw ymddiheuriad dros fyned i'w hanes gyda gradd o fanylrwydd. Yr

* Balliol MSS. 353, fol. 6. † Williams' Eminent Welshmen, p. 416.

oedd y rhan a gymmerodd ef tuag at oleuo meddyliau ei gydwladwyr yn un dra phwysig, yn enwedig gan nad oedd dim o bwys, a dyweyd y lleiaf, wedi cael ei wneuthur yn y ffordd hon yn flaenorol.

Ymddengys fod gwahanol farnau mewn perthynas i'r man lle ganwyd ef. Dywedir yn gyffredin mai yn y Plas Isaf, Llanrwst;* ond y mae Ioan Pedr, ar sail llysieulyfr o eiddo Salesbury oedd yn ei feddiant, yn dyweyd mai yn y Cae Du, ger Llansannan, y cymmerodd ei enedigaeth le. Fel hyn y dywedir yn yr ysgrifllyfr ar lysieuaeth :—"Tir ffraeth y tyf y rhyw hwn o'r hokys : mi a'i gwelais yn tyfu yn y ddol dan blas Meredydd ab Gronow yn Llansannan, sef y plwyf y ganed fi."† Ac y mae yn dra thebyg y gwyddai Salesbury yn llawer gwell na neb o'i ol-oeswyr am le ei enedigaeth. Noda Ioan Pedr, hefyd, ddwy ffaith ag ydynt yn cadarnhau tystiolaeth Salesbury, sef fod Meredydd ab Gronow yn byw yr amser hwnw yn Nyffryn Aled; ac fod yr hocys yn tyfu mewn cyflawnder ym mhlwyf Llansannan hyd y dydd hwn.

Ei dad oedd Ffowc Salesbury, yr hwn oedd etifedd a thrigiannydd y Plas Isaf, Llanrwst; a'i fam oedd Elen, ferch John Puleston, o Hafod y Wern, ym Maelor Gymraeg.‡ Priodol gofyn os yn y Plas Isaf y preswyliai ei rieni, pa fodd y cafodd ei eni yn y Cae Du? Mewn atebiad, dywedwn fod y ddwy etifeddiaeth yn eu meddiant; ac y mae yn dra thebygol eu bod yn aros rai prydiau yn y naill a phrydiau eraill yn y llall. Yr oedd William Salesbury o du ei dad a'i fam yn disgyn o'r teuluoedd mwyaf urddasol yn y Dywysogaeth; ac yr oedd gwaed Cymreig a Normanaidd yn ei wythienau. Normaniaid oedd y Salesbr̈iaid; y cyntaf o'r enw oedd Adam de Salzburg, ŵyr i Eberhard, Duc diorseddedig Bavaria Ddwyreiniol, yr hwn a ddaeth i Loegr gyda William y Gorchfygwr. Pwy oedd, ac o ba le y daeth, y Pulestoniaid, nis gwyddom, ond yr ydym yn cael fod rhai o'r enw hwn yn dal swyddau pwysig yng Nghymru yn nheyrnasiad Edward I., un o'r rhai hyn oedd Syr Roger de Puleston, sirydd Mon, yr hwn a grogwyd gan y Cymry yng Nghaernarfon yn 1294. A gellir tybied wrth yr enw mai Normaniad ydoedd. Bydd i'r casgliad canlynol o daflenau achyddol Ioan Pedr§ a'r Chevalier Lloyd‖ yn gymmorth i ddeall disgyniad William Salesbury :—

* Traethodau Llenyddol Dr. Edwards, tud. 85; Gwyddoniadur Cymreig, cyf. ix., tud. 162.

† Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 43.

‡ Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 332. Dywedir gan rai mai merch, heb roddi ei henw, i . . . . Puleston, o Fon, ydoedd mam Salesbury (Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud. 195; Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 42). Ond diammeu mai yr un a feddylir.

§ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 42. ‖ Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 330, *et seq.*


Adam de Salzburg =
Adam (neu Abraham) = Joyce, m. Syr William de Pontrefact.
Alexander =
Thomas =
Syr Harri Ddu Salesbury = Nest, m. ac aeres Cynwrig Sais, ac wyres Ithel Fychan.
Syr John Salesbury, sylfaenydd y fynachlog yn Ninbych (Marw yn 1289.) = Catherine, m. arg. Gemer.
William =
Rowling =
Henry Salesbury o Lawesog. =
Thomas Salesbury Hen, 1451. = Elizabeth, m. Jenkyn Don.
1 2 3 4
1. Syr Thomas, a briododd Jane, m. ac aeres W. Fychan, Ystafellydd Gwynedd.
2. Harri, a briododd Marged, merch Gruffydd ab Rhys ab Gruffydd ab Madog Gloddaeth.
3. Ffowc, Deon Llanelwy, 1511-1543. Protestant.
4. John, a briododd Lowri, o Bachymbyd.
Hywel y Fwyall o Collwyn ab Tangno.
Meredydd (1533) o Cefn y Fan a Chesail Gyfarch, hynaif Syr John Wynn o Wydir.
Dafydd = (Hen Blas Llanrwst.)
Robyn Vychan = Angharad, m. Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Ednyfed Vychan.
Catrin = Rhys ab Einion Vychan, o Lanrwst, o'r Penwyn o Melai.
5
Robert = Gwenhwyfar, aeres y Plas Isaf.
Ffowc = Elen, m. John Puleston, o Hafod y Wern.
Rhys
Robert.
Robert = Lowri, m. Syr Robert ab Rhys o'r Yspytty, a chwaer i'r Dr. Coch o Blas Iolyn.
WILLIAM SALESBURY. = Catherine Llwyd, chwaer arall i'r Dr. Coch, o Blas Iolyn. (History of Powys Fadog, iv., p. 104)
Elen, gwraig Roger ab John Wynn o Bryn Tangor yn Iâl.
Gwen = Gruffydd Wynn o Wydir.
Elen = (Ei gwr cyntaf) Elis Llwyd, o'r Rhiwgoch, hynaif Syr John Wynn o Wynnstay.
(Ei hail wr) = Owen Wynn, o Wydir, ei chyd-frawd yng nghyfraith.
John = Mary Salesbury o Stour, yn Kent.
Sion Wynn Owen.
Mab, yn byw yn y Plas Isaf yn 1612.
Mab, a fu farw yn y Cae Du yn 1630.

Fe welir oddi wrth y daflen uchod fod y Salesbriaid yn ymgyfathrachu â'r teuluoedd mwyaf anrhydeddus yng Ngogledd Cymru. Ond nid yw yn hysbys ym mha flwyddyn y ganwyd yr enwocaf o honynt, sef William Salesbury, yr awdwr a'r cyfieithydd. Y mae yn sicr iddo gael ei eni yn gynnar yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. "A chymmeryd ei fod yn ddeg-ar-hugain," medd Ioan Pedr, "pan gyhoeddodd ei waith cyntaf yn 1547, fe gychwynodd ei yrfa yn 1517; ond haws genym gredu ei fod wedi dechreu ar waith mawr ei oes, sef cynnyrchu a chyhoeddi llyfrau at wasanaeth ei gyd-genedl yn ieuangach na deg-ar-hugain, ac felly ei fod wedi ei eni o gymaint a hyny yn ddiweddarach; o ganlyniad, credwn nas gallwn fod yn mhell o'n lle pe dywedem iddo ddechreu ei fywyd tua 1520."* Gorphenodd ei addysg yn Rhydychain, "naill ai yn St. Alban neu yn Broadgate Hall," medd Anthony Wood. Y prif athrawon yn y Coleg olaf rhwng 1540 a 1550 oedd John Williams a John ap Harry;† ac y mae yn debyg mai Cymry oeddynt. Pa bryd yr aeth Salesbury i'r brif ysgol sydd anhysbys. Ond dywedir iddo fyned oddi yno i Lundain i fyfyrio y gyfraith, yn gyntaf yn Thavies Inn, ac wedi hyny, yn ol rhai, yn Lincoln's Inn;‡ ond nid oes prawf iddo ddilyn yr alwedigaeth gyfreithiol o gwbl. A thybia y Dr. T. C. Edwards iddo fyned i Lundain yn 1547.§ Pa fodd bynag, gellir meddwl ei fod yn aelod o Thavies Inn yn 1550, oblegid y mae yn dyddio ei Ragdraeth i'w "Baterie": "At Thavies Inne in Holbourne, more hastily than speedily, 1550."

Y mae yr amser y dychwelodd Salesbury o Lundain i Gymru yn ddirgelwch hefyd. Ond tybir mai ar farwolaeth Robert ei frawd, pa bryd bynag y bu hyny; ac iddo ymsefydlu yn y Plas Isaf. A chyhuddir ef gan John Gruffydd, o Gae Cyriog, o drawsfeddiannu y Plas Isaf oddi ar Gwen ac Elen, merched ei frawd; ac ychwanega y "buasai yn dal mwy oddi arnynt oni buasai i'r Dr. Elis Prys, o Blas Iolyn, ei luddias." Amddiffynir Salesbury gan amryw o ysgrifenwyr Cymreig yn lled frwdfrydig. "Ped gwir yr haeriad uchod," medd Gwallter Mechain, "ni roddasai Syr John Wynn o Wydir, gwr o ddoniau anianawl mwy na chyffredin, y fath eirda digymmysg i'r 'ysgolhaig digymhar o'r Plas Isaf.'"|| Ond er nas gwyddom pa fath gymmeriad a roddasai Syr John i ryw un arall am wneuthur y fath beth, nid ydym yn ammeu na fuasai efe yn un o'r rhai cyntaf i'w chyflawni ei

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 40.
† Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 56, note. (First Session.)
‡ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud.198.
§ Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 57. (First Session.)
|| Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud. 196.

hun. Y mae y Dr. Edwards, o'r Bala, yn ei amddiffyn ar y tir fod yr etifeddiaethau yng Nghymru yn cael ei rhanu yn gyfartal rhwng y meibion ar farwolaeth y tad; ac os byddai i un o honynt farw heb adael meibion ar ei ol, fod yr etifeddiaeth, yn lle myned i'w ferched, yn myned yn eiddo i'w frodyr. Ond cydnebydd fod cyfnewidiad wedi cymmeryd lle ychydig cyn hyn.* Ac y mae yn ymddangos i ni fod yr eglurhad hwn yn lled foddhaol. Diddymwyd yr arfer Gymreig a elwir gan y Saeson yn *Gavelkind* trwy Ddeddf Seneddol a basiwyd yn 1543. A gallwn fod yn dra sicr mai yn lled raddol y dygwyd y drefn newydd i mewn. Yr oedd y Cymry yn glynu gymmaint ag a allent wrth yr hen ddefodau, ac nid annhebyg ydyw fod i Salesbury amryw o'i gyffelyb. Erbyn amser John Gruffydd, o'r Cae Cyriog, yr hwn a anwyd yn 1654, yr oedd y teimlad cyhoeddus wedi newid o blaid y dull Seisonig. Ond pa un bynag ai hyn neu arall ydyw yr eglurhad cywir, ymddengys i ni fod rhyw gymmaint o anghyssondeb yn adroddiad yr hynafiaethydd o Gae Cyriog, gan, os gallodd y Dr. Coch luddias Salesbury i gymmeryd rhan o etifeddiaeth ei nithoedd, paham na lwyddasai gyda'r oll, os nad oedd rhesymau digonol yn erbyn hyny?

Pa fodd bynag, yn y Plas Isaf yr ymsefydlodd Salesbury ar ol ei ddychweliad o Lundain. Ond ymddengys ei fod wedi cyhoeddi rhai o'i weithiau llenyddol cyn hyny. Y gwaith cyntaf a gyhoeddodd, hyd sicrwydd, oedd ei Eirlyfr,† yn 1547. Y mae ei wyneb-ddalen yn dwyn yr argraff a ganlyn:—

A Dictionary
in Englyshe and Welshe moche necessary to all suche Welshemen as wil spedly learne the englyshe tôgue thought vnto the kynges maiestie very mete to be sette forthe to the vse of his graces subiectes in Wales: Whe revnto is p'fixed a litle treatyse of the englyshe pronûcia cion of the letters, by
Wyllyam Salesbury.

Y mae y wyneb-ddalen yn gam-arweiniol; nid Geirlyfr Saes-

* Traethodau Llenyddol Dr. Edwards, tud. 87.

† Llyfr. y Cymry, tud. 5. Y mae dau gyfargraff o'r Geirlyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig, un yn gyflawn, y llall yn ddiffygiol o'r ddwy ddalen gyntaf a'r pedair olaf, a rhai yng nghanol y gwaith. Y mae cyfargraff cyflawn o hono yn Llyfrgell Peniarth; ac un arall cyflawn ym meddiant y Canon D. Silvan Evans, Llanwrin. Dygodd y Cymmrodorion ail argraffiad o hono allan yn 1877.

oneg a Chymraeg ydyw, ond Cymraeg a Saesoneg. Ar gefn y wyneb-ddalen y mae y cyflwyniad i Harri VIII.; yna—'Wyllyam Salesburi wrth y darlleawdr,' tair dalen; yna, 'Natur a sain y llythyreu vchod yn Saesnec,' chwe' dalen; yna y Geiriadur ei hun. Rhenir pob tudalen yn bedair colofn, ac anaml y mae mwy nag un gair mewn colofn. Wele enghraifft o hono:—

Kamberaec.	*Sacsonaec.*	*Welshe.*	*Englyshe.*
Llid	Wroth	Lliosdyblygy	Multiplie
Llidiaw	Angre	Llith gwers	A lesson
Llidiaw	Angry	Llith	
Llif Llifeiriant	A floude	Llithio	Allure

Y mae Salesbury yn aml yn gosod gair Cymraeg i mewn, fel y "Llith" uchod, heb osod yr un gair Saesoneg ar ei ol. Ond yr ydym yn tybied mai brys yn hytrach nag anwybodaeth oedd yr achos. Yr argraffydd oedd John Waley, yr hwn, yn y tudalen olaf sydd "yn danfon anerch ar pobol Kymry; ac o dan hyny ceir a ganlyn:—

Imprynted at London in Foster lane, by me
John Waley,
(1547)
Cum priuilegio ad imprimendum solum.

Y Geirlyfr uchod, yr hwn ni a ddylasem ddyweyd a argraffwyd mewn llythyren ddu (Black Letter), ydyw y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd i'r dyben o egluro geiriau Cymraeg ag y mae genym unrhyw olion o hono yn aros; ac y mae yn fwy na thebyg mai efe ydoedd y cyntaf o'r cyfryw a argraffwyd.

Yn y flwyddyn 1550, cyhoeddodd Salesbury lyfryn bychan i ddysgu Saeson i ddarllen Cymraeg, ac argraffwyd ef gan Robert Crowley, yn Llundain. Dygwyd ail argraffiad o hwn allan yn 1567, yn dwyn y wyneb-ddalen ganlynol:—

A playne and a familiar Introductiô, teaching how to pronounce the letters in the Brytishe tongue, now commonly called Welshe, whereby an Englysh man shall not onely wyth ease reade the sayde tonge rightly: but marking the same wel, it shal be a meane for hym wyth one labour to attayne to the true pronounciation of other expedient and most excellent languages. Set forth by VV. Salesbury, 1550. And now 1567, pervsed and augmêted by the same.

This Treatise is most requisite for any man, yea though he can indifferently well reade the tongue, who wyl be thorowly acquainted with anie piece of translation, wherein the sayd Salesbury hath dealed.

Imprinted at London by Henry Denham, for Humfrey Toy, dwellyng at the sygne of the Helmet in Paules churche yarde. The XVII. of May, 1567.*

* Gwel Llyfr. y Cymry. tud. 7, 23. Y mae copi o argraffiad 1567 yn yr Amgueddfa Brydeinig. Cynnwysa saith-ar-hugain o ddalenau pedwar-plyg bychan; ac y mae wedi ei argraffu mewn llythyren ddu.

Yr hyn sydd yn syndod i ni ydyw fod Salesbury yn ysgrifenu llyfrau er cynnorthwyo Saeson i ddysgu Cymraeg. Gellid meddwl oddi wrth ei lythyr cyflwyn i Harri VIII., o flaen ei *Eiriadur*, ei fod yn dra awyddus i'r Cymry ddysgu Saesoneg, ac mae i'r amcan hwnw y cyhoeddodd y gwaith. Ac yn wir, y mae y *Geiriadur*, gan mai Cymraeg a geir gyntaf ynddo, yn ateb yr dyben hwnw, yn hytrach nag fel cynnorthwy i Sais ddysgu Cymraeg. Ond bwriadwyd 'A playne and a familiar Introductiô' i amcan gwahanol.

Yn y flwyddyn 1550, yr ydym yn cael Salesbury yn cyhoeddi llyfr Seisonig o natur wahanol i'r rhai a nodwyd. Hyd yn hyn geiriadaeth ac ieithyddiaeth oedd wedi llanw ei feddwl. Ond yn y flwyddyn hon dygodd allan, o argraffwasg Robert Crowley, lyfr wyth-plyg bychan, yn cynnwys tua 108 o dudalenau heb eu rhifnodi, yn dwyn yr enw :—

The baterie
of the Popes Botereulx, commonlye called the high Altare. Compiled by W.S. in the yere
of oure Lorde.
1550.*

Ymosodiad ydyw hwn ar ragfur y Babaeth, ac yn erbyn ofergoelion y grefydd hòno. Y mae amryw o awgrymiadau yn y llyfr hwn mai Pabydd oedd Salesbury ei hun ar ddechreuad ei oes. Dywed :—

Canys yr oedd gyda hwy (yr Iuddewon) y pryd hyny, fel y bu gyda minnau pan yr oeddwn yn Babydd santaidd, pryd yr oedd fy mherthynas â Duw yn debyg i hyn : sef, os gwrandawn offeren ar Sul a gwyl, os dywedwn fy ngweddi yn blygeiniol i Mair, neu Sallwyr y Forwyn, os cusanwn ac y llyfwn yn ddefosiynol draed eu saint (canys felly y galwant eu delwau), ac os taenellwn fy hun â dwfr rheibiedig *(conjured)*, ac os dygwn y penyd ofergoelus a osodid arnaf gan fy—pa'r un a ddywedaf, gelyn ynte tad ?—ysbrydol ; yna, meddaf, yr oeddwn ar y fath delerau â Duw fel y tybiwn ac y credwn yn gadarn fy mod wedi cyflawni fy nyledswydd yn llawn tuag ato, er na alwaswn unwaith i gof haeddiannau marwolaeth Crist i foddloni a dyhuddo cyfiawnder, am yr holl droseddau a phechodau a gyflawnaswn a'm buchedd ddrygionus drwy fy mywyd yn flaenorol.†

Ond nid ydyw yr uchod ond un cyfeiriad o amryw o'i eiddo at grefydd ei ieuenctyd. Mewn lle arall yn yr un gwaith, dywed :— "Ond diolch fyddo i'r Arglwydd, yr hwn yn unig o'i dosturi a'm gwaredodd o'r heresi Babaidd hon, ac a ganiatao yr unrhyw

* Llyfr. y Cymry, tud. 7. Gallwn grybwyll fod cyfargraff da o'r gwaith hwn yn yr Amgueddfa Brydeinig.
† Dyfynedig o Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 47.

fendith i weithredu y cyfryw wyrth mewn cynnifer ag sydd eto yn parhau yn y fath gyfeiliornad damniol." A dywed drachefn :— "Megys yr oeddwn fel hyn yn ymddyrysu, ac yn cael fy nhwyllo yn atgas, ac yn cael fy hyfforddi a'm dwyn i fyny yn fy mebyd yng ngrefydd sanctaidd y Pab cyn ail enedigaeth Crist yma yn Lloegr. . . ." Ond y mae y "Baterie" trwyddo draw yn ymosodiad digamsyniol ar y broffes a goleddid unwaith gan ei awdwr. Ac y mae y cwestiwn pa un ai yn Llanrwst ai rhyw le arall y cymmerodd y cyfnewidiad le ar ei feddwl, yn ymgynyg i'n sylw. Y mae yn dra sicr mai nid yn Llanrwst. Nid oes genym hanes am un o'r Salesbriaid wedi troi yn Brotestant yn yr amser hwnw, ag eithrio Ffowc Salesbury, Deon Llanelwy (1511--1543). Yr oedd y Deon yn ewythr i William Salesbury, frawd ei daid. A phe buasai ei dad a'i daid yn Brotestaniaid, gallwn gasglu na fuasai gan William nemawr gof am y dull Pabyddol o leddfu cydwybod euog. Y mae y Dr. T. C. Edwards yn mwy nag awgrymu mai yn Rhydychain y daeth Salesbury yn Brotestant, a noda Syr John Cheke, John Hooper, Alexander Nowel, a John Jewel fel rhai ag oedd wedi, neu yn, dylanwadu er Protestaneiddio y brif ysgol hòno.* Yr ydym yn cael mai yn Rhydychain, trwy ddarllen yr Ysgrythyrau a gweithiau y Diwygiwyr tramor, y trodd Hooper at Brotestaniaeth. A chan iddo adael y brif ysgol, fel y tybir oddeutu 1540, gellir casglu fod y ddysgeidiaeth newydd wedi ennill cryn safle yno cyn amser Salesbury. Yr oedd Jewel yn arweinydd y blaid Brotestanaidd y pryd hyn. A dywed yr awdwr yr ydym newydd ei nodi, "er nas gellir profi fod Salesbury yn ddyledus i Jewel am ei ddychweliad, nad ydyw hyny mewn un modd yn dybiaeth annhebygol."

Llyfr arall a gyhoeddwyd, yn ol tystiolaeth Gwilym Lleyn, ydyw,—"*Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg, gan W. Salesbury*," [Llundain, 1550, 4-plyg.] Yr un oedd hwn, meddai Gwilym Lleyn, a'r "*Brief and plain Introduction*," a gyhoeddwyd yr un flwyddyn. Ond sylwa golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* nas gall hyny fod, gan mai Saesoneg oedd un a Chymraeg oedd y llall.† Pa fodd bynag, nid ymddengys fod cyfargraff o'r un o honynt yn adnabyddus yn bresennol. Er rhaid addef nad ydyw hyny yn profi na fu y fath lyfrau. Ac y mae yr hyn a ddywedir yn "*A playne and familiar Introductiô*," 1567, yn profi nad oedd hwnw ond ail argraffiad o un a ymddangosodd yn y flwyddyn dan sylw.

Yn y flwyddyn ddilynol (1551), yr ydym yn cael i Salesbury

* Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 56. (First Session.)
† Llyfr. y Cymry, tud. 7.

gyhoeddi gwaith tra phwysig. Y mae ei wyneb-ddalen, yn ol Gwilym Lleyn, yn darllen fel hyn :—

Kynniver
llith a ban or yscry-
thur ac a ddarlleir yr Ecleis pryd
Commun y Sulieu a'r Gwilieu
trwy'r vlwyddyn ; o Cam-
bereiciat. W.S.
Tit. ii.

Llewychawdr iachwyawl rat Deo i pawp dyn can eu dyscu y ymwadu ac annuwoldab a chwanteu bydol a byw yn sobr ac yn gyfyawn ac yn dduwiol yn y byd yn awr can ddisgwyl am y wynvydedic obaith a llewychat gogoniant y Deo mawr a'n Iachawdyr Ieshu Christ yr hwn ae dodes ehunan trosom er en pryny o ywrth oll enwiredd a charthy iddo ehunan pobl priawt y ymgar a gweithredoedd da.
Rom. i.
Nid cywiluddus *geny* vi Euangel Christ can ye gallu Deo ydyw hi ar iecheit i pop vn yn credy ynthei.

Ac ar ddiwedd y llyfr ceir :—

Imprinted at
London by Roberte Crow-
ley for William Sales-
bury dwellynge in Elye tentes in
Holbourne
Anno Domini
M.D.L..i*

Dywed Ioan Pedr, mai "ar awdurdod Moses Williams yn unig y cofnodir y llyfr hwn eto, am nad oes un copi adnabyddus o hono ar gael, ac nid ydys wedi darganfod unrhyw drwydded awdurdodol i'w argraffu."† Ond erbyn hyn y mae tystiolaeth Moses Williams yn cael ei chadarnhau tu hwnt i ammheuaeth yn ymddangosiad y llyfr ei hun. Y mae ychydig ddalenau o hono, wedi eu rhwymo yn hardd ac yn cael cadwraeth barchus, yn yr Amgueddfa Brydeinig ; ac y mae cyfargraff ag sydd bron yn berffaith, er nad yn hollol felly, ym meddiant y Dr. T. C. Edwards, Aberystwyth.‡ A oes ychwaneg o gopïau o hono ar gael, nis gwyddom. Gallwn ddyweyd i ni, ar ol ysgrifenu rhai ugeiniau o lythyrau i holi mewn perthynas â llyfrau Cymraeg yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, fethu a chael hanes yr un cyfargraff o hono amgen nag a nodwyd. Y mae y gyfrol yn cynnwys dros 160 o dudalenau, ac ynddi ceir yr Epistolau a'r Efengylau i'w harfer yn y gwasanaeth eglwysig trwy'r flwyddyn. Ac eithrio y Pader a'r Deg Gorchymmyn, neu pa faint bynag yn ychwaneg a

* Llyfr. y Cymry, tud. 8. † Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 48.
‡ Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 58 (First Session).

ddichon fod yn y llyfr a gyhoeddwyd yn 1546, dyma y tro cyntaf erioed, hyd y gwyddom, i'r Cymry gael unrhyw ran o'r Ysgrythyrau yn *argraffedig* yn eu hiaith eu hunain. Ac y mae yn dra sicr mai llafur cariad oedd y gwaith hwn. Nid oes un awgrymiad fod unrhyw gymhellion ar ran eraill, na chlerigwyr na lleygwyr, wedi cael eu harfer i beri Salesbury ymgymmeryd â'r gorchwyl o gyfieithu yr Epistolau a'r Efengylau.

Cofnoda Gwilym Lleyn i'r '*Dictionary in Englyshe and Welshe*' gael ei gyhoeddi yn y flwyddyn 1548, a'i argraffu gan Edward Whitchurch. Hwn, meddai ef, oedd ail argraffiad o Eiriadur Salesbury. Ac o dan y flwyddyn 1551, cofnoda drydydd argraffiad o hono, wedi dyfod allan o wâsg Robert Crowley. Pa fodd bynag, nis gwyddom am neb a welodd gyfargraff o'r un o honynt. Ac y mae y Canon Silvan Evans yn sylwi:—"Gan mai ar awdurdod Seison y cofnodir yr argraffiad tybiedig hwn, prin y gellir credu fod mwy nag un argraffiad o Eiriadur W. Salsbri wedi ymddangos drwy'r wasg."*

O'r flwyddyn 1551 hyd 1562-1563, nid oes genym hanes unrhyw ychwanegiad at lyfryddiaeth y Cymry. Ymddengys i deyrnasiad Mary sychu ysgrifbin Salesbury yn llwyr, a chreu dychryn trwy holl wersyll Protestanaidd y deyrnas. Gorfodwyd i glerigwyr y blaid hòno ffoi i'r Cyfandir am eu bywyd; ac yr oedd Salesbury wedi dwyn ei hunan mor atgas yng ngolwg y frenhines, trwy ei ysgrifeniadau, fel y bu rhaid iddo, medd llais traddodiad, ffoi o'r Plas Isaf i'r Cae Du, yn Llansannan. Y mae'r Cae Du, er ys llawer blwyddyn bellach, yn adfeilion; a thŷ newydd wedi ei adeiladu ychydig o bellder oddi wrtho. Dywedir fod yn yr hen Gae Du ystafell fechan, o'r tu mewn i ystafell fawr, ac mai yr unig fynedfa i'r fechan oedd trwy dwll yn y simdde. Ac y mae y traddodiad yn cael ei gadarnhau gan y dysgrifiad a rydd Ioan Pedr o olion yr hen adeilad, yr hwn sydd fel y canlyn:—

Yr oedd yn yr hen dŷ dair ystafell ar y llawr a dwy i fyny, heblaw y seler a grybwyllasom eisoes a'r ystafell fechan enwog yn y simdde, lle y dywedir i Salesbury gyfieithu y Testament. Yr oedd hyd yr adeilad drosti tua 72 o droedfeddi, a'i lled rhwng y muriau tua 14 o droedfeddi. Cymerai yr ystafell gyntaf tua 9 troedfedd o'r hyd, ac yn hon nid oedd le tân, ond gorweddai yn lled ddwfn yn y ddaear. Y nesaf, neu y ganol, oedd y brif ystafell, yr hon a fesurai tuag 16 troedfedd o hyd, ac ynddi yr oedd yr aelwyd a'r simdde. Gwahanid y ddwy ystafell hyn gan fur ceryg yn cyrhaedd i'r nen. Nid oedd un lofft ar yr ystafell gyntaf, ond yr oedd un oddiar y ddwy arall, ac un fechan hefyd wedi ei

* Llyfr. y Cymry, tud. 8.

ffurfio yn y simdde rhwng y fantell, neu y palis oddiar y fantell, a'r mur terfyn, ac uwch ben yr aelwyd. Yr oedd y llofft oddiar y gegin fawr felly yn llai na'r gegin o led y simdde. Nid oedd un drws i fyned o'r brif lofft i'r un fechan a ddarluniwyd, ac nis gallasai neb feddwl fod yno un ystafell o gwbl. Yr unig ffordd i fyned iddi oedd drwy ddringo i fyny y simdde, a dyma'r fath le oedd y ddirgelfan, neu gysegr fel y gellid yn briodol ei alw, lle y cyflawnwyd y gwaith santaidd a roddodd y fath enwogrwydd arno.*

Gwelir fod Ioan Pedr, yn gystal ag amryw eraill, o'r farn mai yn yr ystafell gudd hòno yn y Cae Du y cyfieithodd Salesbury y Testament Newydd. Nid oes dim prawf uniongyrchol i'r gwrthwyneb. Ond y mae amryw awgrymiadau yn dangos mai nid felly y bu. Geilw Thomas Price o'r Plas Iolyn ef yn "William Salesbury o'r Plas Isaf;"† a dywed Syr John Wynn i'r Esgob Richard Davies "alw ato William Salusbury o'r Plasisa, ger Llanrwst."‡ Nid oedd angenrheidrwydd ychwaith i Salesbury ymguddio o gwbl pan yn cyfieithu y Testament Newydd; oblegid yr oedd yn gweithredu o dan orchymmyn Deddf Seneddol. Yr oedd y Plas Isaf a'r Cae Du ym meddiant Salesbury, a'n tyb ni ydyw mae'r Cae Du a gafodd yr anrhydedd o'i ddiogelu yn ystod teyrnasiad Mary; ac iddo, ar ol i'r dyddiau erlidigaethus hyny fyned heibio, ddychwelyd i'w breswylfod arferol yn y Plas Isaf. Ond pa un bynag am hyny, diammeu na threuliwyd yr amser yn y Cae Du yn ddi-waith. O bosibl na threuliodd ei amser i gyfansoddi ac ysgrifenu rhai o'i weithiau dyfodol.

Y mae Gwilym Lleyn yn cofnodi ddarfod i John Waley, yn 1564 neu 1565, argraffu '*The Letanye in Welshe.*'§ Nid oes gyfargraff o'r gwaith hwn yn adnabyddus yn awr; ond y mae cofnodiad o drwyddediad John Waley i'w argraffu i'w gael yng nghofrestr y Safwerthwyr:—"Recevyd of master Wally for his lycense for pryntinge of the latenye in welshe. (1562-1563). iiijd."|| Fe welir fod oddeutu dwy flynedd o wahaniaeth rhwng amser cyhoeddiad y llyfr hwn, yn ol y cofnodiad yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, a'r amser y talodd Waley bedair ceiniog am drwydded i'w argraffu. Ond oddi wrth gyfeiriad a geir yn y ddeddf am gyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg, ar yr hon y cawn sylwi, gellir casglu fod y Litani wedi, neu ar gael, ei argraffu yn yr iaith hòno yn 1563. Fe welir nad oes grybwylliad pwy gyfieithodd y Litani i'r Gymraeg. Ond tybia Ioan Pedr, oddi wrth enw y cyhoeddwr a natur y gwaith, yn dra hyderus mai William

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 44.
† Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 57; Brit. Mus. MSS., No. 14,872, p. 349.
‡ Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 93; § Llyfr. y Cymry, tud. 10.
|| Stationers' Registers, vol. i.; Y Traethodydd, 1876, tud. 429.

Salesbury ydoedd.* Ac y mae y dybiaeth hon yn ddigon naturiol. Os ydyw yn gywir, y mae yn dra thebyg mai yn y Cae Du, yn yr ystafell fechan a nodwyd, y cyfieithwyd rhan, os nad yr oll, o'r Litani am y waith gyntaf i'r iaith Gymraeg.

Yr ydym yn awr yn dyfod at waith mawr bywyd Salesbury. Yn y flwyddyn 1563, neu'r bummed o deyrnasiad y Frenhines Elizabeth, pasiwyd deddf yn gorchymmyn cyfieithu yr Ysgrythyrau a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r iaith Gymraeg.† Y mae prif ddarpariaethau y ddeddf fel y canlyn :—

Yn gymmaint ag nad ydyw yr iaith Saesoneg yn ddealledig gan y nifer fwyaf a'r luosocaf o ddeiliaid anwylaf ac ufudd ei Mawrhydi ag sydd yn preswylio o fewn tiriogaeth a gwlad ei Huchelder yng Nghymru, yr hon nid yw ran fechan o'r deyrnas hon, y rhai gan hyny ydynt yn llwyr amddifad o air sanctaidd Duw, ac ydynt yn aros yn y cyffelyb, neu yn hytrach mewn mwy o dywyllwch ac anwybodaeth nag yr oeddynt yn amser y grefydd Babaidd. Bydded yn ddeddfedig . . . . . Fod i Esgobion Henffordd, Tŷ Ddewi, Llanelwy, Bangor a Llandaf, a'u holynwyr, gymmeryd y fath drefn yn eu plith eu hunain er iechyd eneidiau y praidd a gyflwynwyd i'w gofal, yng Nghymru. Fod i'r holl Feibl yn cynnwys y Testament Newydd a'r Hen, yng nghyda'r Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinyddiad y Sacramentau, a arferir yn awr o fewn i'r deyrnas hon yn y Saesoneg, gael eu cyfieithu yn wirioneddol a chywir i'r iaith Frytanaidd neu Gymraeg ; (2) ac fod i'r unrhyw, wedi eu cyfieithu felly, ar ol eu hystyried, eu darllen a'u cymmeradwyo, ganddynt, gael eu hargraffu i'r fath rifedi o leiaf, fel y byddo i un o bob math fod ar gyfer pob Eglwys Gadeiriol, Eglwys golegawl a phlwyfol, a chapel anwes, cyn y dydd cyntaf o Fawrth, ym mlwyddyn ein Harglwydd, un mil pump cant a thriugain a chwech ; (3) ac o'r dydd hwnw allan, fod yr holl wasanaeth dwyfol gael ei arfer a'i ddywedyd gan y Curadiaid a'r Gweinidogion trwy yr holl Esgobaethau dywededig lle yr arferir yr iaith Gymraeg yn gyffredin, yn yr iaith Frytanaidd neu Gymraeg ddywededig, yn y fath fodd a ffurf ag a arferir yn awr yn yr iaith Saesoneg, ac heb wahaniaethu dim mewn un dull na ffurf oddi wrth y llyfr Seisonig ; (4) Am y llyfrau hyny, a argreffir felly, bydd i blwyfolion pob un o'r plwyfau dywededig dalu un hanner neu ran, a pherson neu ficer pob un o'r plwyfau dywededig (lle byddo'r ddau), neu ynte un o honynt, lle nad oes ond un, dalu yr hanner neu y rhan arall ; (5) Fod i brisiau y llyfrau hyny gael eu penodi a'u gosod gan yr Esgobion dywededig, a'u holynwyr, neu gan dri o honynt o leiaf ; (6) Yr hyn bethau, os bydd i'r dywededig Esgobion ne'u holynwyr eu hesgeuluso, yna bydd i bob un o honynt fforffedu i'w Mawrhydi y Frenhines, ei hetifeddion a'i holynwyr, y swm o ddegain punt, i'w codi oddiar eu da a'u heiddo.

II. Bydded yn ddeddfedig ym mhellach trwy yr awdurdod ddywededig, fod i bob Gweinidog a Churad trwy yr Esgobaethau rhagddywededig, lle yr arferir yr iaith Gymraeg yn gyffredin, o wyl y Sulgwyn

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 48. † 5 Eliz., c. 28.

nesaf hyd y rhagddywededig ddydd o Fawrth, yr hwn fydd yn y flwyddyn un mil pump cant a thriugain a chwech, ar bob amser Cymmundeb gyhoeddi a darllen yr Epistol a'r Efengyl am y Dydd yn yr iaith Gymraeg, i'w blwyfolion ef neu hwy ym mhob un o'r Eglwysi neu'r Capelau dywededig; ac hefyd fod iddynt, un waith o leiaf bob wythnos, ddarllen a chyhoeddi i'w plwyfolion dywededig yn yr Eglwysi dywededig Weddi'r Arglwydd, Erthyglau'r Ffydd Gristionogol, y Deg Gorchymmyn, a'r Litani, fel y maent yn cael eu gosod allan yn yr iaith Saesoneg, yn yr iaith Gymraeg ddywededig, gydag unrhyw ran arall o'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Gwasanaeth Dwyfol a benodir gan Esgob yr Esgobaeth ar y pryd.

III. Fod i un llyfr yn cynnwys y Beibl, ac un arall o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, yn yr iaith Saesoneg, i gael eu prynu a'u cadw ym mhob Eglwys trwy Gymru lle ceir y Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin trwy awdurdod y Ddeddf hon (os nad ydynt yno eisoes) cyn y dydd cyntaf o Fawrth, yr hwn fydd ym mlwyddyn ein Harglwydd Dduw, un mil pump cant a thriugain a chwech; (2) ac fod i'r cyfryw lyfrau aros yn y cyfryw leoedd cyflëus o fewn i'r Eglwysi dywededig, fel y dichon y rhai a fedrant eu deall gyrchu ar bob amserau cyflëus i'w darllen a'u chwilio: Ac hefyd, fel y gallo y rhai na ddeallant yr iaith ddywededig, trwy gymharu y ddwy iaith a'u gilydd, gyrhaedd yn gynt wybodaeth o'r iaith Saesoneg; gan eithrio, er hyny, pa beth bynag sydd yn y Ddeddf hon i'r gwrthwyneb.*

Cymmerasom gryn drafferth i geisio cael allan pwy a fu yn brif offeryn i ddwyn y mater pwysig hwn o flaen y Senedd, ond methasom. Pan gofiwn mai Gwyneddwyr, oddigerth un eithriad, oedd cyfieithwyr yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg, yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl fod mwy o fywiogrwydd llenyddol yn tori allan y pryd hwnw yng Ngogledd, nag yn Neheudir, Cymru. A digon naturiol fuasai tybied fod Aelodau Seneddol y chwe' sir ogleddol yn adlewyrchu peth o'r yspryd diwygiadol hwn. Ond wrth edrych dros restr o Aelodau Seneddol Gogledd Cymru pan basiwyd y ddeddf, nid ydym yn canfod yn eu plith, ag eithrio un, ddynion wedi enwogi ond ychydig arnynt eu hunain yng nglyn â'r Diwygiad. Wele restr o honynt:—

Sir Fon.....Richard Bulkeley, Ysw., Baron Hill.
Bwrdeisdrefi Mon.....William Price, Ysw.
Sir Gaernarfon.....Morris Wynn, Ysw., Gwydir.
Bwrdeisdrefi Arfon.....John Harrington, Ysw.
Sir Ddinbych.....Simon Thelwall, Ysw., Plas-y-ward.
Bwrdeisdrefi Dinbych.....Humphrey Lloyd, Ysw.
Sir Fflint.....George Ravenscroft, Ysw., Bretton.
Bwrdeisdrefi Fflint.....John Conway, Ysw.
Sir Drefaldwyn.....Edward Herbert, Ysw., Dolguog.

* Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 51 (First Session).

Bwrdeisdrefi Maldwyn .....John Price, Ysw., Newtown Hall.
Sir Feirionydd.....Ellis Price, Ysw., Plas Iolyn.

Y mwyaf ei ddylanwad a'i allu, neu o leiaf, yr un mwyaf gweithgar yn y rhestr uchod oedd y Dr. Ellis Price o Blas Iolyn. Y mae yn wir fod Pennant yn rhoddi cymmeriad digon annymunol iddo. Gan gyfeirio at ei lun yn Bodscallan, dywed:— "Ond y mwyaf hynod ydyw yr un o'r Dr. Ellis Pryse, o Blas Iolyn, yn sîr Ddinbych, yr hwn a amserir yn 1605; un o greaduriaid Iarll Leicester, ac yn ymgyflwynedig i'w holl fwriadau drygionus. Gwisg Pryse ydyw siaced wen, gyda choler lydan; ei wallt yn felyn, a'i farf yn deneu, ac o'r un lliw; ei wynebpryd yn hir, teneu, a rhagrithiol. Yr oedd yn un o'r cnafiaid mwyaf yn yr amser y bodolai ynddo; a'r gorthrymydd mwyaf ofnadwy yn ei gymydogaeth; ac yn wenieithiwr trwyadl. Ei anerchiad cyffredin at ei noddwr ydoedd, '*O Arglwydd, ynot ti yr ymddiriedaf!*"* Ond wedi'r cyfan, yr oedd yn ei allu i wneuthur daioni. Yr ydym wedi gweled ei fod yn un o'r rhai a benodwyd gan Cromwell i ddiddymu y mynachlogydd, ac i symmud ymaith y delwau ar hyd y wlad. Bu yn sirydd bymtheg waith: wyth waith ym Meirionydd, un waith yn sir Gaernarfon, dwy waith ym Môn, a phedair gwaith yn sir Ddinbych; a bu yn cynnrychioli sir Feirionydd yn y Senedd yn amser Mary ac Elizabeth. Daliai amryw o fywoliaethau eglwysig, megys rheithoriaeth segur-swyddol Llangwm, a Llandrillo yn Rhos (1537—1561), rheithoriaeth Llanuwchllyn (1537—1553), bu yn Ganghellwr Llanelwy (1537—1546); a llwyddodd i gael llawer o dir eglwysig i'w feddiant, megys Yspytty Ifan. Yr oedd ei allu fel dadleuydd yn fawr, fel y profodd pan yn gwrthwynebu Throgmorton yn Rhydychain. Ac yr oedd ei ddylanwad yn fawr yn y llys. Yr oedd yn noddwr i feirdd a cherddorion, a'i enw ef a nodir gyntaf yn "llythyr cynnwys" y Frenhines Elizabeth i ofalu am drefn a gweithrediadau Eisteddfod Caerwys yn 1568. A rhoddi yr holl bethau hyn at eu gilydd, er gwaethaf cyhuddiad Pennant, y mae yn ymddangos i ni mor debyg a neb o fod a llaw yn y ddeddf seneddol. Os oedd yn gnaf, yr oedd yn weithgar. Cawn ddangos fod Salesbury yn awyddus am basio y cyfryw fesur, ac yr oedd y Dr. Coch yn frawd i wraig Salesbury. Ai gormod fyddai tybied i Salesbury ddylanwadu ar Price, ac i Price ddylanwadu ar y Frenhines? Pa fodd bynag, y mae "*Journals*" Tŷ y Cyffredin yn ddystaw ar y pen hwn.

Cyfeiria y Dr. T. C. Edwards at rai awgrymiadau o eiddo

* Teithiau Pennant (arg. Humphreys), tud. 438.

Salesbury, yn ei "*Playne and Familiar Introductiô*," ag ydynt yn tueddu i'r dybiaeth fod a wnelo ef ei hun ryw gymmaint a'r mater: "Gwelwch," meddai, "y modd y gwrandawodd trugaredd Duw yn awr ar fy hir-ddymunedig ddeisyfiad (*my long desired petition*)";* ac yna cyfeiria at roddiad y ddeddf. Ond nis gwyddom pa un oedd mewn golwg ganddo, ai aml a thaer erfyniadau ar Dduw, ai ynte ei waith yn deisebu'r Senedd. Dichon iddo arfer y naill a'r llall. Ond rhaid addef fod y "pa fodd," yn gystal a chan bwy, y dygwyd y pwysigrwydd o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg i sylw y Frenhines a'r Senedd yn aros hyd yn hyn yn ddirgelwch.

Un yn unig o'r Esgobion a nodir yn y Ddeddf, sef Esgob Tŷ Ddewi, a gymmerodd ran weithredol yn y gwaith o gyfieithu. Ac y mae yn fwy na thebyg mai efe oedd yr unig un a allasai wneuthur hyny. Ond fel yr ydym wedi gweled, nid oedd y ddeddf yn gofyn i'r Esgobion gyflawni y gorchwyl eu hunain, ond yn unig gofalu fod i'r gwaith gael ei wneuthur.

Esgob Henffordd yr adeg yma oedd John Scory. A dywed Strype ei fod yn deall Cymraeg,† ond gan mai yn swydd Norfolc y ganwyd ef, ac mai Henffordd oedd y lle agosaf i Gymru y bu yn aros ynddo, nid ydyw hyny mewn un modd yn debygol. Yr ydym eisoes wedi awgrymu mai o herwydd fod yr iaith Gymraeg yn cael ei harfer yn rhan o'i Esgobaeth y nodir Esgob Henffordd yn y ddeddf. Cyssegrwyd Scory yn Esgob Rochester ar y 30ain o Awst, 1551. Dywed Strype iddo gael ei ddewis gan yr Archesgob yn un o'r chwech pregethwyr yng Nghaergrawnt, iddo yn wastad ddal yn ddiysgog dros burdeb crefydd, ac iddo ddyoddef o'r herwydd.‡ Ond y mae Wharton yn sylwi mai pell oedd o fod yn ddiysgog dros burdeb crefydd, iddo gymmodi â Phabyddiaeth, ymostwng i Esgob Bonner, dadgyffesu yn ffurfiol, a gwneuthur penyd cyhoeddus am briodi; ond iddo, ar ol myned tros y môr, gymmeryd at ei egwyddorion blaenorol.§ Symmudwyd Scory i Chichester, 23ain Mai, 1552; ond er iddo ddadgyffesu a gwneuthur penyd, difuddwyd ef yn 1554. Ac o hyny hyd 1559, bu ar ffo ar y Cyfandir. Pa fodd bynag, yn y flwyddyn olaf daeth yn Esgob Henffordd, lle yr arhosodd hyd ei farwolaeth, Mehefin 25ain, 1585.‖

Esgob Llandaf y pryd hwn oedd Anthony Kitchin, neu Dunstan, yr hwn oedd ar y cyntaf yn un o fynachod Westminster, wedi hyny a fu yn llywydd (*prior*) Gloucester Hall,

* Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 54 (First Session).
† Strype's Annals of the Reformation, vol. i., part 2, chap. 27.
‡ Strype's Memorials of Cranmer, vol. i., p. 385. § Ibid, vol. i., p. 447.
‖ Annals of England, vol. iii., pp. 295-97.

Rhydychain. Nis gellir ystyried Kitchin yn Babydd nac yn Brotestant. Cyssegrwyd ef yn Esgob Llandaf, Mai 3ydd, 1545, a daliodd ei swydd, fel yr ydym wedi crybwyll mewn lle arall, er pob cyfnewidiad a gymmerodd le hyd ei farwolaeth ar y 13eg o Hydref, 1565. Sais oedd Kitchin, ond nid ydym yn ammeu, pe buasai hyny yn ei allu, ac os buasai yn debyg o ennill neu gadw rhyw beth trwy hyny, na chymmerasai ran heddyw yng nghyfieithiad yr Ysgrythyrau, a rhan yfory yng nghyfieithiad y Coran. Yr oedd ei gydwybod fel y faneg o ystwyth, ac yr oedd yn berthynas agos i'r Ficer o Bray. Ond nis gallasai ef gyfieithu i'r Gymraeg. Yr ydym yn gweled felly, fod dau o'r pump esgob yn analluog, o ran eu hiaith, i estyn nemawr gynnorthwy. Yr oedd olynydd Kitchin, Hugh Jones, yn Gymro; a derbyniodd y rhan fwyaf o'i ddyrchafiadau Eglwysig yng Nghymru. Efe oedd y Cymro cyntaf, fel y sylwa Godwin, a benodwyd i'r Esgobaeth hòno er ys tri chant o flynyddau cyn hyny. Ymddengys i Esgobaeth Llandaf gael ei gadael yn wâg o farwolaeth Kitchin hyd 1567, pryd y penodwyd ef. Mewn canlyniad nis gallasai fod y Ddeddf Seneddol a orchymmynai gyfieithu yr Ysgrythyrau yn dal unrhyw gyssylltiad ag ef.

Rowland Meyric oedd Esgob Bangor. Mab ydoedd ef i Meyric ab Llywelyn o Bodorgan; a'i fam oedd Margaret, ferch Rowland ab Hywel, rheithor Aberffraw. Ganwyd ef yn 1505, a derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, ym mha le y graddiwyd ef. Ei fywoliaeth gyntaf oedd rheithoriaeth Stoke, yn Norfolc; wedi hyny gwnaed ef yn flaengeiniad Llanddewibrefi, ac yn olynol yn ganghellwr Tŷ Ddewi a changhellwr Wells, ac yn rheithor Llangadwaladr, sir Fon. Yn 1554, priododd Catherine, ferch Owen Barret, o'r Gelliswick a Hascard, sir Benfro, am yr hyn y difuddiwyd ef. Ond ar esgyniad Elizabeth cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor, 21ain Rhagfyr, 1559. Yng nghyda'i Esgobaeth, daliodd gorfuddiaeth Treflodeu, a rheithoriaethau Llanddewibrefi a Llanddewi Felfre. Bu farw 25ain Medi, 1565.* Ei olynydd oedd Nicholas Robinson, genedigol o Aberconwy, yn sir Gaernarfon. Yr oedd y Dr. Robinson yn ŵr dysgedig, ac yn arolygwr rhagorol ar ei Esgobaeth.† Ond nid oes unrhyw awgrymiad iddo ef mwy na'i rhagflaenor gymmeryd unrhyw ran yng nghyfieithiad yr Ysgrythyrau. A chan mai ar yr 20fed o Hydref, 1566, y cyssegrwyd Robinson, ac i Destament Salesbury gael ei gyhoeddi ym mhen blwyddyn ar ol hyny, nid oedd yn perthyn iddo ef ran o'r clod na'r cyfrifoldeb cyssylltiedig â'r gwaith hwnw.

* Williams's Eminent Welshmen, p. 333. † Ibid, p. 459.

Esgob Llanelwy oedd y Dr. Thomas Davies, mab Dafydd ab Robert ab Llywelyn, Ysw., o'r Caerhun, Aberconwy, sir Gaernarfon. Ganwyd ef oddeutu'r flwyddyn 1515, ac addysgwyd ef yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt.* Ei fywoliaeth gyntaf oedd rheithoriaeth Llanbedr y Cenyn; a chafodd hefyd ficeriaeth Caerhun. Penodwyd ef, yn 1546, yn ganghellwr Eglwys Gadeiriol Bangor. Difuddwyd ef gan Mary, yn 1554, am briodi. Ond adferwyd ef ar esgyniad Elizabeth, yn 1558, pryd y gwnaed ef yn Arch-ddiacon Llanelwy. Ac yn 1561, cyssegrwyd ef yn Esgob Llanelwy. Yr oedd yn nodedig am ei dduwioldeb a'i haelioni; sefydlodd ysgoloriaeth yng Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, a gadawodd lawer o arian ar ei ol i amcanion daionus eraill. Bu farw yn 1573.† Ond o herwydd diffyg gallu ieithyddol, neu ryw achosion eraill anhysbys i ni, ni chymmerodd y gŵr da hwn unrhyw ran yn y gwaith.

Yr unig un a wnaeth hyny oedd y Dr. Richard Davies, Esgob Tŷ Ddewi. Yr oedd o waedoliaeth urddasol, gan ei fod yn disgyn o du ei dad, Dafydd ap Gronwy, o Ithel Felyn, arglwydd Iâl; ac o du ei fam, Ionet, ferch Dafydd ap Richard ap Cynwrig, o Ednowain Bendew. Dyddorol gan rai, fe allai, fyddai cael golwg ar yr ach-restr ganlynol:—‡

Caswallawn, arglwydd Llys y Cil, mab hynaf Hwfa ab Ithel Felyn, arg. Iâl ac Ystrad Alun. = Agnes, m. Cowryd ab Cadfan, arg. Cinmeirch.

Iorwerth ab Caswallawn = Gwenhwyfar, m. Cuhelyn ab Rhun ab Einion Efell, arglwydd Cynllaith.

Cynwrig ab Iorwerth, arg. Llys y Cil. = Janet, m. Henry de Laci, arglwydd Lincoln, a Johanna ei wraig, merch William Martyn, Barwn y Cemmaes yn Dyfed.

Goronwy ab Cynwrig, arg. Llys y Cil. = Angharad, m. Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ab Caradog, o Holt ym Maelor Gymraeg.

Madog ab Gronwy, Llys y Cil. | Goronwy Gethin = | Annesta

Goronwy Ddu =

Edward ab Goronwy Ddu =

Deio ab Edward =

| *a*

* Dywed y Dr. T. C. Edwards mai yn Rhydychain y derbyniodd ei addysg. (Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 54.)

† Browne Willis's St. Asaph, vol. i., p. 105; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 226; Williams's Eminent Welshmen, p. 111.

‡ Ceir y rhan gyntaf, sef hyd Goronwy Gethin, o'r achres uchod yn *Add. MSS.* (*Brit. Mus.*), No. 9864; ac o hyny i waered yn y *Cae Cyriog MS.*

Goronwy ab Deio = . . ., m. Gruffydd ab Llywelyn, ab Ieuan ab Ieuan Gethin.

Dafydd ab Goronwy = Ionet, m. Dafydd ap Richard ab Cynwrig ab Robert Goch ab Rhirid ab Iorwerth ab Madog ab Ednowain Bendew. Ei mam oedd Nest, m. Llywelyn Fychan ab Ieuan ab Dafydd ab Cynwrig ab Ieuan ab Gruffydd ab Madog Ddu o Gopa'r Goleuni.

RICHARD DAVIES, Esgob Llanelwy yn gyntaf, wedi hyny Esgob Tŷ Ddewi.

Ganwyd Richard Davies yn Plas y Person, yn agos i Aberconwy, sir Gaernarfon, fel y dywedir yn gyffredin, yn 1501; ac addysgwyd ef yn *New Inn*, Rhydychain. Cyflwynwyd ef i ficeriaeth Burnham, yr hon a ddaliai gyda rheithoriaeth Maidsmorton, yn swydd Buckingham, yn y flwyddyn 1550.* Ond os ganwyd ef yn 1501, yr oedd yn naw a deugain oed pan dderbyniodd y bywoliaethau uchod. Ac oes hanner cant oed ydoedd yn 1559, fel y dywed Strype, pan wnaed ef yn Esgob Llanelwy, yr oedd wedi ei eni yn 1509, ac yn un a deugain oed pan gafodd y bywoliaethau a nodwyd. Os felly, y mae yn ddiammeu mai nid y bywoliaethau hyn oedd y rhai cyntaf a gafodd. Difuddiwyd ef yn nheyrnasiad Mary am briodi; a gorfodwyd ef i ffoi i'r Cyfandir. Ymsefydlodd ef a'i wraig yn Geneva, yn yr hwn le y buont fyw am beth amser ar elusenau fföaduriaid eraill. Pa fodd bynag, dysgodd yr iaith Ffrancaeg yn ddigon da i allu pregethu ynddi, a chafodd ofal eglwys; a thra yn aros yno ganwyd iddynt dri o feibion, sef Thomas, Peregrine, a Jerson. Ar farwolaeth Mary, dychwelodd i Loegr, a chafodd ei ethol yn Esgob Llanelwy, 4ydd o Rhagfyr, 1559;† ac yn Mai 21ain, 1561, symmudwyd ef i Esgobaeth Tŷ Ddewi. Ac yma y treuliodd y gweddill o'i oes, yr hon a derfynodd ar y 7fed o Dachwedd, 1581, yn yr oedran o bedwar ugain mlwydd.‡ Bu farw yn y Palas Esgobol yn Abergwili, a chladdwyd ef yn yr eglwys hòno. A phan yr oedd yr adeilad yn myned dan adgyweiriad oddeutu canol y ganrif hon, deuwyd ar draws bedd yn yr hwn y cafwyd llechfaen, a'i enw yng nghyda'r flwyddyn y claddesid ef arni. Gwelwyd hefyd ei arch, a llwyddwyd i ddarllen ei enw arni. Ond er clod i'r diweddar Esgob Connop Thirlwall, gosododd ef wyddfaen goffadwriaethol o farmor gwyn uwch ben bedd yr enwocaf o'i ragflaenoriaid, a thraddodwyd pregeth ar yr achlysur gan y Parch. J. Jones (Tegid).§

* Williams's Eminent Welshmen, p. 108.

† Y mae rhyw gymmaint o wrthddywediad yng nglŷn ag amser ei gyssegriad fel Esgob Llanelwy. Dywed Thomas yn ei *History of the Diocese of St. Asaph*, p. 225, iddo gael ei ethol ar y 4ydd o Rhagfyr, 1559, a'i gyssegru 31ain o Ionawr, 1560. Y mae Browne Willis (St. Asaph, p. 103) yn un gyda golwg ar amser ei etholiad, ond dywed iddo gael ei gyssegru ar y 31ain o Ionawr dilynol. Felly cafodd ei gyssegru hefyd yn yr un flwyddyn ag yr etholwyd ef, a chyfrif yn ol yr Hen Ddull (*Old Style*). A diammeu mai hyny sydd gywir.

‡ Browne Willis's St. Asaph, vol. i., pp. 103, 104. Llyfr. y Cymry, tud. 20.

Y mae dwy dystiolaeth wedi ein cyrhaedd am ei gymmeriad fel esgob. Un gan ei olynydd, y Dr. Middleton, yr hwn a ddywed fod yr "holl diroedd hyd ddrysau ei dŷ, wedi eu gosod ar brydlesoedd; yr holl fywoliaethau eglwysig o werth deg punt yn y flwyddyn, wedi ei glwysfuddio; ei holl dai oddi eithr un, wedi eu gollwng yn adfeilion."* Y tyst arall ydyw Syr John Wynn o Wydir. Dywed ef iddo "lywyddu yno yn deilwng o hono ei hunan, ac er anrhydedd i'n cenedl, gan amlygu ei hoffder trwyadl o'r Gogleddwyr, y rhai a gyflëai efe yn lluosog mewn bywoliaethau eglwysig yn ei esgobaeth, a'i hoff ddywediad canlynol yn wastad yn ei enau:—'*Myn y firi faglog*, myfi a'ch planaf chwi y Gogleddwyr, tyfwch os mynwch.' Efe a gadwai dŷ rhagorol, gan gadw yn ei wasanaeth y brodyr ieuangaf o'r rhan fwyaf o'r tai goreu yn y wlad hòno, i'r rhai y rhoddai gynhaliaeth ac addysg dda, gyda'i feibion ei hun, Thomas, Peregrine a Jerson, y rhai a adnabyddwn yn Rhydychain, a'r rhai a anwyd yn Geneva. Efe a wrthsafodd Syr John Parrot, Marchog, yn ddewr-wych, yr hwn yn y dyddiau hyny oedd yn hoff-ddyn cyfrinachol Iarll Leicester, yr hwn wedi hyny a fu yn Arglwydd Raglaw yr Iwerddon, ac yn un o Arglwyddi'r Cyfrin-Gynghor, gŵr o feddiannau mawrion yn y wlad hòno (yr hwn oedd ar fedr ei niweidio)."† Y mae y ddwy dystiolaeth uchod yn cytuno mewn rhan. Y mae y naill fel y llall yn dangos nad oedd yr Esgob Davies yn un ag oedd yn edrych ar arian i'w caru; a dichon fod ei haelioni ar brydiau yn eithafol, ac yn ei ddwyn i dlodi. Nid ydyw yn nemawr syndod fod ei olynydd yn beio arno. Fel rheol, nid oes gan olynwyr gwyr cyhoeddus air da iddynt. Ac yr oedd yn gwyn gyffredin gan esgobion yr oes hòno fod eu rhagflaenoriaid wedi tlodi yr esgobaethau. A chredwn fod llawer esgobaeth mor dlawd—yn enwedig yr esgobaethau Cymreig—fel nad oedd fawr o orchest eu tlodi. Yr oedd yr amseroedd terfysglyd blaenorol wedi gwneuthur y gwaith hwnw yn dra effeithiol. Ond dichon nad oedd Davies ddim yn hollol ddieuog yn y cyfeiriad hwn. Pa fodd bynag, y mae yn hawddach maddeu iddo nag i lawer un, pan gofir y gwasanaeth a wnaeth i'w genedl.

Y mae y Dr. Davies yn dyfod i'r golwg fel llenor heblaw yn ei gyssylltiad â Salesbury. Ymddengys ei fod yn fardd pan yn lled ieuanc, ac yn un o ddysgyblion Lewis Dwnn. A dywed Gwallter Mechain iddo ganu englyn i'r "Eos" yn Eisteddfod Caerwys, 1524.‡ Y mae ychydig o'i gynnyrchion barddonol wedi cyrhaedd ein hoes ni; ond o'u rhan hwy, buasai ei enw wedi myned i

* Dyfynedig yn Williams's Eminent Welshmen, p. 110.
† Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 93. ‡ Gwaith Gwallter Mechain, ii., 203.

ebargofiant er ys llawer dydd. Yr hyn sydd yn profi ei fod yn cael ei gyfrif yn ysgolhaig, a hyny o'r tu allan i gylch y Dywysogaeth, ydyw, iddo gael ei ddewis yn un i gyfieithu "Beibl yr Esgobion," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1568. Rhydd Gwallter Mechain ar ddeall iddo gyfieithu o ddechreu Josua i ddiwedd llyfr Ruth;* ond mwy cywir a fyddai dyweyd iddo gyfieithu o ddechreu Josua i ddiwedd ail lyfr Samuel.† Gellir sylwi hefyd iddo draddodi pregeth angladdol ar yr 20fed dydd o Dachwedd, 1576, ar yr achlysur o farwolaeth Wallter, Iarll Essex,‡ yr hon a argraffwyd yn 1577 gan Henry Denham.§ Pregeth Seisonig oedd hon, a chan iddi gael ei thraddodi yn Eglwys Caerfyrddin, gellir tybied fod preswylwyr y fro hòno yn teimlo yn alarus ar ol eu cydwladwr urddasol.

Ond i sylwi ar ganlyniad Deddf 1563. Gan fod y mwyafrif o'r Esgobion, o ran dysgeidiaeth neu achosion eraill, yn analluog i gymmeryd rhan yn y cyfieithiad, yr oedd yn rhaid edrych am wasanaeth eraill. A gellir tybied mai y Dr. Richard Davies a gymmerodd arno ei hun y gwaith o chwilio am wŷr cymhwys i'r gorchwyl. Dywed Syr John Wynn iddo "alw ato William Salesbury, o'r Plasisa, ger Llanrwst, yn sir Ddinbych, ac amryw Gymry eraill, ysgolheigion dyfnddysg ac ieithyddwyr medrus, a chyfieithiasant y Testament Newydd, y Salmau, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, i'r iaith Gymraeg."‖ Ond yr unig un arall a alwyd, heblaw Salesbury, oedd Thomas Huet, Cantor Tŷ Ddewi. Nid oes ond ychydig o hanes hwn ar gael. Dywedir ei fod yn beriglor Cefn-llys, sir Frycheiniog, a Diserth Glan Gwy, sir Faesyfed; a bu yn dal y swydd o flaengeiniad, neu brif gantor, Tŷ Ddewi o'r flwyddyn 1562 hyd 1588. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llanafan Fawr, ym Muallt; ac yn eglwys y plwyf hwnw y claddwyd ef. Bu farw Awst 19, 1591.¶ Dywedir ei fod yn "ŵr a ymddygodd yn addas i'w alwedigaeth, mewn parch a chymmeriad trwy ystod ei oes, ac yr oedd yn gyd-ymdrechwr diwyd â'r esgob a nodwyd yng nghyfieithiad yr Ysgrythyrau."** Yr oedd y Dr. Davies felly yn meddu adnabyddiaeth bersonol o'i ddau gydlafurwr; o Huet fel offeiriad yn ei Esgobaeth, ac o Salesbury fel brodor o'r un sir ag yntau, ac fel awdwr amryw o lyfrau buddiol.

* Gwaith Gwallter Mechain, ii., 204. † Bagster's English Hexapla, p. 140.

‡ Llyfr. y Cymry, tud. 26; Y Traethodydd, 1876, tud. 443.

§ Dywed golygydd "Llyfr y Cymry" (tud. 27) iddo weled cyfargraff o'r Bregeth uchod yn Llyfrgell Coleg Dewi Sant, Llanbedr. Gallwn ninnau ychwanegu fod un arall ym meddiant Egerton G. B. Phillimore, Ysw., Tyn'rhos, Cemmaes Road, sir Drefaldwyn.

‖ Hist. Gwydir Family, p. 93.

¶ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud. 206; Williams's Eminent Welshmen, p. 224; Geir. Cen. Cymru (O. Jones), cyf. i., tud. 645.

** Cambrian Register, vol. ii., p. 210.

Yn wir, yr oedd Deddf 1563 yn cydnabod buddioldeb "Kynniver llith a ban" ac eraill, gan y gorchymmynid i'w ddarllen ar amserau penodedig yn yr Eglwysi. Ac nid afresymol oedd i'r Esgobion "ddirprwyo" y cyfryw un a Salesbury i'r gorchwyl. Fod yr oll o'r Esgobion yn cymmeradwyo y penodiad sydd dybiaeth eithaf rhesymol. Y mae yr Esgob Davies, yn ei "Epistol at y Cembru" yn awgrymu hyny:—"Cans trwy eu awdurtot, ae gorchymyn hwynt" [y Frenhines a'r Senedd] "i may dy Escopion trwy gymhorthwy William Salsbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yscrythyr 'lan, (dy genefin gynt) a gynhwisir ofewn corph y Bibl cysegredic." Yr un modd William Salesbury, yn ei lythyr cyflwyn i'r Frenhines, a ddywed, "gan i mi gael fy ngalw a'm dirprwyo gan fugeiliaid mwyaf gwyliadwrus, Esgobion Cymru, i ymdrin â darlleniad a gosodiad allan y gorchwyl teilyngaf hwn, &c." Ond pa nifer o'r Esgobion a fuasai yn symmud yn y mater, pe heb am y ddirwy osodedig, nis gwyddom. Er y credwn fod yr Esgob Richard Davies yn chwennych y gwaith er daioni i'r genedl yn gyffredinol; oblegid gwnaeth ef yr hyn na sonid am dano yn y Ddeddf—nid amgen ysgrifenu ei lythyr rhagorol at y Cymry.

Pa bryd y dechreuwyd ar y gwaith, nis gwyddom. Ond y mae genym le i gasglu i hyny gymmeryd lle yn fuan ar ol pasio y Ddeddf. Dywed Strype i Salesbury uno â John Waley, yr argraffydd, i gymmeryd breinteb am saith mlynedd i argraffu y Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, yn 1563.* Felly yr oedd yn rhaid fod Salesbury wedi cael ei "alw a'i ddirprwyo" yn y flwyddyn hòno. Dywedir fod copi o'r freinteb hon i'w weled yn yr Amgueddfa Brydeinig (*Lansdowne MSS.*, No. 48, fol. 175), ac fod yr ysgrif wreiddiol ym mhlith rholiau'r Tŵr (*Tower Rolls*).† Ac yng nghofrestr y Safwerthwyr ceir y ddau gofnodiad canlynol dan y flwyddyn Gor. 22, 1566, hyd Gor. 22, 1567:—

Toye. Recevyd of humffre Toye for his lycense for pryntinge of the servis boke in Welshe auctorysshed by my lorde of London iijs iiijd.

Toye. Recevyd of humphrey Toye for his lycence for pryntinge of the newe testament in welshe xijd.‡

Ymddengys fod Humfrey (neu Humphrey) Toy o waedoliaeth Gymreig. Yr oedd mam ei dad, Robert Toy, yn ferch i David ab David, o Gaerfyrddin; ac yr oedd gwraig Robert a mam Humfrey yn ferch i Gruffydd ab John David Lloyd. A thybir mai ei fam weddw a ddylanwadodd arno i ymgymmeryd â'r gost

* Strype's Annals of the Reformation, vol. i., p. 431.
† Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 58 (First Session.)
‡ Y Traethodydd, 1876, tud. 428.

o argraffu y llyfrau hyn. Ond y mae yn anhawdd gwybod pa un ai cymhelliad wedi codi oddiar rywbeth uwch nag awydd i ennill arian a wnaeth iddo ymaflyd yn y gorchwyl ai peidio. Gellir casglu, fodd bynag, ei fod yn dra chyfeillgar â Salesbury, gan yr ymddengys mai yn nhŷ Toy y llettyai ar brydiau pan yn Llundain. Gwelwn i Salesbury gyflwyno ei "*Playne and a familiar Introductiô*"—"To my louing Friende Maister Humfrey Toy," a therfyna y cyflwyniad yn y geiriau—"Soiurning at your house in Paules Churchyarde, the 6, day of Maij. 1567." Ond os cafodd Salesbury a Waley eu trwyddedu i argraffu y llyfrau a nodwyd, pa gyfrif sydd i'w roddi dros fod Toy hefyd wedi cael ei drwyddedu i hyny? A chan fod Waley a Toy yn argraffwyr eu hunain, y mae y dyryswch yn ychwanegu pan gofir mai Henry Denham oedd yr argraffydd. Yr eglurhad a rydd Gwilym Lleyn yw fod Waley a Toy yn gyfranogion, fod y saith mlynedd wedi dyfod i ben cyn iddynt wneuthur defnydd o'r freinteb, ac yna fod y Senedd wedi rhoddi yr hawl-fraint i Denham.* Ond nid oes genym hanes fod Waley a Toy yn gyfranogion; a chan mai yn 1563 y rhoddwyd y freinteb i Salesbury a Waley, ni fuasai y saith mlynedd i fyny hyd 1570. Yr eglurhad a gynnygir genym ni ydyw, fod Waley wedi marw cyn i'r gwaith gael ei orphen; oblegid ni thrwyddedwyd Toy hyd y flwyddyn flaenorol i gyhoeddiad y llyfrau. Am Denham, nid oes grybwylliad iddo gael trwydded i'w hargraffu o gwbl. Gweithio dros Toy yr oedd ef; a hwnw oedd yr argraffydd breintiedig yn gystal a'r cyhoeddwr. Ac ryw bryd yn ystod y flwyddyn 1567, ymddangosodd y *Llyfr Gweddi Gyffredin* am y waith gyntaf yn yr iaith Gymraeg, yn un gyfrol bedwar-plyg.† Ac fel y sylwa golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry*, "cydwaith Davies a Salesbury ydoedd y cyfieithiad."‡ Dywed y Canon Robert Williams i'r ddau gyfieithydd ddwyn y draul o'i argraffu rhyngddynt, ond dywed y llyfr ei hun mai Humfrey Toy a ddygodd y gost. Pan yn sylwi ar yr ail argraffiad o'r Llyfr Gweddi a gyhoeddwyd yn 1586, dywedai Ioan Pedr:—"Nis gwyddom beth yw ystyr y geiriau, 'Finis Tra Vo at London,' sydd ar ei ddiwedd; ond y maent yr un fath ar ddiwedd yr argraffiad cyntaf."§ Ond fel hyn y mae y diweddawd (*colophon*) yn yr argraffiad cyntaf:—

* Llyfr. y Cymry, tud. 18, 19.

† Nid *unplyg*, fel y dywed Gwilym Lleyn. Y mae cyfargraff o'r gwaith yn Llyfrgell Gyhoeddus Abertawy; un ammherffaith gan y Canon Silvan Evans, Llanwrin; ac un arall mewn cyflwr rhagorol gan y Parch. Edward Evans, Rheithor, Llanfihangel, ger Llanfyllin.

‡ Llyfr. y Cymru, tud. 21, nodyn.

§ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 49.

Finis.

Psal. 27. Tra Vo

Imprinted at London
by Henry Denham, at the costes and
charges of Humfrey Toy

1567.

And are to be solde at his shop at the
sygne of the Helmet in Paules
churchyard.

(*)

¶ Cum priuilegio ad
imprimendum solum.

Gan fod diwedd-nod ar ol, a llinell o dan, y "Finis," nid oes unrhyw gyssylltiad rhwng y gair â'r "Tra Vo." Ond fe ganfyddir fod arwydd y lleuad dan y "Tra Vo," a chyfeiriad ar ymyl y ddalen at Psalm 27. Ond nid oes son yn y Psalm hòno am y lleuad. O bosibl nad cam-argraffiad o Psalm 72 ydyw, oblegid fe geir yno yr ymadroddion, "Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant, yn oes oesoedd," adn. 5; "ac amlder o heddwch tra fyddo lleuad," adn. 7. Felly, nid "Finis Tra Vo at London" sydd i'w feddwl, ond yn hytrach yr arwydd-air, "Tra fo lleuad." Yn dilyn y Llyfr Gweddi hwn ceir y "Psallwyr" wedi ei gydrwymo ag ef; a chan mai hwn ydoedd y rhan gyntaf a argraffwyd o'r Hen Destament yn Gymraeg, rhoddwn yma y wyneb-ddalen yn gyflawn:—

Psallwyr
neu Psalmae'
Dauid,
Wedy ei Gambereigaw yn
nesaf ac 'allet, a' chadw'r
bwyll, ir llythyr E-
brew; a'i ddosp-
arth wrth y
drefn y
darlleir yn yr
Eccles.
¶ *Perused and allowed according to the Queenes*
Maiesties Iniunction.
Anno Domini.
1567.

Fe welir oddi wrth y wyneb-ddalen fod y cyfieithwyr yn proffesu cyfieithu y Salmau a'r "llythyr Ebrew" o'u blaenau. Ond y mae yn dra rhyfedd fod yr Efengylau a'r Epistolau a geir yn yr argraffiad hwn o'r Llyfr Gweddi yn amrywio cryn lawer yn fynych oddi wrth y rhanau cyfatebol yn Nhestament Salesbury. A dylid cofio fod y ddau lyfr wedi eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn, a'u cyfieithu gan yr un personau. Er enghraifft, cymharer y ddau lyfr yn Gal. iv., 21--25 :—

Llyfr Gweddi, 1567.

Dywedwch i mi yr ei a vynwch vot ydan y Ddeddyf, a ny chlywch yr ddeddyf? Can ys y mae yn escrivenedic, vot i Abraham ddau vap, vn o vorwyn-gaeth ac vn o'r wraic rydd. Eithyr yr hwn oed or vorwyn gaeth, ar ol y cnawd y ganet, a hwn oedd o'r wreic rydd, trwy yr addewit [y ganet.] Y petheu hynn addywedir ar ddamec: can ys [y mameu] hynn yw'r ddau Testament, vn yr hon yw Agar o vonyth Sina, yn cenedly i gaethiwet [can ys Agar [nei] Sina mynyth yw yn Arabia, ac sy yn cyfateb i Gaerusalem ys id yr awrhon) ac y mae hi yn gaeth y gyd hei plhant.

Testament Salesbury.

Dywedwch i mi, yr ei a vynnwch vot y dan y Ddeddyf, a ny chlywch y Ddeddyf? Can ys mae'n ysgrivenedic, vot i Abraham ddau vap, vn o wasanaeth-wreic, ac vn o'r wreic-rydd. Eithyr hwn oedd o'r wasanaethwyr, a anet erwydd y cnawt: a' hwn oedd or wreic rydd, *a aned* wrth yr addewit. Wrth y petheu hyn y dyellir peth arall: can ys *mamæ* hyn yw'r ddau Testament, vn yr hon yw Agar o vynyth Sina, *'sy* yn cenedlu i gaethiwed (can ys Agar *neu* Sina mynyth yw yn Arabia, ac y mae yn *cyf*ateb i Gaerusalem ys yd yr awrhon) ac y mae yn gaeth hi ai phlant.

Dyfynwn un esiampl arall o'r gwahaniaeth, sef Dat. vii., 2-5 :—

Llyfr Gweddi, 1567.

Nycha, mai Ioan a welais Aggel arall yn escen or Dwyrein, a chanto sel Duw byw, ac ef a lefawdd a llef vchel ar y petwar Aggel ir ei y rhoesit ddrygyy tir a'r mor, can ddywedyt, Na wnewch drwc ir tir, na'r mor, na'r gwydd yn y seliom weision ein Dyw yn ei talae. A' chlyweis niver y seledigion, ac [ydoed] yn seliedig cant a' phedeir-mil a' da'ugain o oll lwythae plant [yr] Israel. O lwyth Iuda ydd oedd deuddec mil yn seliedic. O lwyth Ruben ydd oedd ddeuddec mil yn seliedic. O lwyth Gad ydd oedd deuddec mil yn seledic.

Testament Salesbury.

2 Ac mi weleis Angel arall yn dyfod y vynydd o ddiwrth y Dwyrein, ac yr rydoedd sel Dyw byw gantho, ac ef y lefoedd a lleis ywchel ar y pedwar Angel y rrein y rroyspwydd gallu y ddrygu'r ddayar, a'r mor,

3 Dan ddywedyd, Na ddrygwch y ddayar, na'r mor, nar coed, nes yni sely gwasanaethwyr yn Dyw ni yn y talceni.

4 Ac mi glyweis rrif y rrei y selwyd, ac yroedent gwedy sely pedeir a seith vgein mil o holl cenedlaythey meybyon *yr* Israel.

5 O genedyl Iuda ef y selwyd doyddeng mil. O genedyl Ruben ef y selwyd doyddeng mil. O genedyl Gad ef yselwyd doyddeng mil.

Y mae y gwahaniaeth hwn yw ganfod yr un mor eglur bron trwy yr oll o'r ddau lyfr. Ai tybed fod y cyfieithwyr wedi gwneuthur dau gyfieithiad gwahanol yr un amser? Y mae arddull y dyfyniad olaf o'r Llyfr Gweddi yn gyfryw nas gallwn feddwl mai Thomas Huet, cyfieithydd y rhan hon yn Nhestament Salesbury, a'i cyfieithodd. Yr ydym newydd sylwi i Salesbury wneuthur cyfieithiad blaenorol o'r Efengylau a'r Epistolau, ac iddo ei gyhoeddi dan yr enw "Kynniver llith a ban," ac yr ydym yn methu ymadael â'r dybiaeth nad ail argraffiad o hwnw a geir yn yr argraffiad hwn o'r Llyfr Gweddi. Ond fel yr ydym wedi crybwyll y mae "Kynniver llith a ban" yn hynod o brin; a methasom a phrofi na gwrthbrofi y dybiaeth. Ac os caniateir

mai felly yr oedd, y mae'r cwestiwn yn aros, Paham y gosodwyd yr hen gyfieithiad yma, a Salesbury ei hunan yn golygu, ac yn cynnorthwyo i ddwyn allan, gyfieithiad newydd? Y tebygolrwydd ydyw nad ydoedd y cyfieithiad o'r Testament Newydd yn barod pan ddechreuwyd argraffu y Llyfr Gweddi, ac o ganlyniad defnyddiwyd y cyfieithiad blaenorol o'r Efengylau a'r Epistolau. Nid oes dyddiad wrth y Llyfr Gweddi, ond, fel y cawn ddangos eto, cyhoeddwyd y Testament Newydd ar y seithfed o Hydref, 1567. Ac y mae crybwylliad o eiddo y Dr. Richard Davies yn ei "Epistol at y Cembru" yn mwy nag awgrymu i'r Llyfr Gweddi ymddangos ryw gymmaint yn gynnarach; *ond yn yr un flwyddyn*, fel yr ydym eisoes wedi dangos. Geiriau Davies ydynt, "etto or hen mayr psalmay cenyt eysus yn gymraeg yn llyfr y gwasanaeth." Ond yn nesaf rhoddwn wyneb-ddalen y Testament Newydd:—

Testament
Newydd ein Arglwydd
Iesv Christ.
Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith, 'air yn ei gylydd o'r Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyreu y gairiae-dodi. Eb law hyny y mae pop gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y devnydd, wedy ei noti ai eglurhau ar 'ledemyl y tudalen gydrychiol.

O dan yr uchod y mae darlun yn egluro, yn ol rhai, Matt. xiii., 44; ond yn ol eraill, yn cyfeirio y mae at Ioan iii., 19. O amgylch y darlun ceir y geiriau:—"Hon yw'r varnedigaeth, gan ddyvot golauni i'r byt, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Ioan iij. c." Ond wrth sylwi ar y darlun, gellir meddwl fod y naill dybiaeth a'r llall yn gywir, gan fod yr oll o hono, oddigerth *ychydig* ar yr ochr chwith, o liw tywyll; ac y mae nifer y bobl a geir ar yr ochr dywell yn y mwyafrif; ac hefyd darlunir hwynt fel yn prynu ac yn gwerthu. O dan y darlun ceir ymgais drwsgl at brydyddu, o waith William Salesbury, y mae'n debyg. Nid yw ond yr un pennill a ganlyn:—

"Matheu xiii. f
Gwerthwch a veddwch o vudd
(Ll'yma'r Man lle mae'r modd
Ac mewn hon angen ny bydd)
I gael y Perl goel hap wedd."

Argraffwyd y gwaith hwn, fel y rhan fwyaf o lyfrau y cyfnod,

mewn llythyren ddu.* Llyfr pedwar-plyg ydyw, ac y mae ei gynnwysiad fel y canlyn: — 1. Y Wyneb-ddalen. 2. Cefn y wyneb-ddalen mewn rhai copiau yn wâg, ond mewn eraill ceir:— "Imprinted at London by Henry Denham, at the costes and charges of Humfrey Toye, dwelling in Paules Church yarde, at the signe of the Helmet. Cum privilegio ad imprimendum solum. Anno 1567. Octob. 7"; pan y mae yr ail dudalen yn wâg, ceir yr argraff hwn ar ddiwedd y llyfr.† 3. Almanack dros XXV. o vlynyddeu," 13 o dudalenau a dalen wâg. 4. "This famous Amathist Stone," un tudalen a dalen wâg. 5. Llythyr Seisonig Salesbury at y Frenhines, 4 tudalen. 6. "Epistol R.M. at y Cembru," 25 o dudalenau. Dywed Gwilym Lleyn i ryw nifer o gopiau o'r llythyr hwn gael eu lledaenu wrtho ei hun.‡ 7. William Salesbury "Att yr holl Cembru, &c.," un tudalen. 8. "D. Io. Chrisost. Archiepiscop.," a "Cygor Sanct Ioan Aur-Eneu," un tudalen. 9. "Gosodiat Llyvra y Testament Newydd," un tudalen. 10. Y Testament yn dechreu ar y tudalen cyntaf, gyda:—"Cyssecrlan Euangel Jesu Christ ar ol Matthew," yn cynnwys 399 o *ddalenau*. Fe gofir mai y dalenau, ac nid y tudalenau, a rifnodir, felly y mae y Testament yn cynnwys yn agos i wyth gant o dudalenau. 11. Dilynir y Testament gan "Tabul y Gahel yr Epistolae a'r Euangelion," &c., 3 tudalen. Ceir hefyd bum' tudalen o welliant gwallau. Cynnwysa y tri thudalen cyntaf, "Y Beiæ y ddiangasant yn y print ac a ddleir ei correctio val hynt:" Dechreua y pedwerydd tudalen gyda:—

* Cyhoeddwyd ail argraffiad o Destament Salesbury gan Mr. Robert Griffith, Llyfr-werthwr, Heol y Llyn, Caernarfon; ac o dan olygiaeth y Parch. Isaac Jones, Curad Llanedwen a Llanddanielfab, Mon, yn 1850. Ond ni chynnwysa yr argraffiad hwn ond rhan o'r mater arweiniol oedd yn yr argraffiad cyntaf. Y mae ym meddiant Mr Thomas Davies (*Tegwyn*), Dinas Mawddwy, ddernyn o argraffiad arall. Y mae ei blyg yn 6½ modfedd o hyd wrth 4 modfedd o led. Nid oes iddo wyneb-ddalen, ond dechreua gyda "Cyssecrlan Evangel Iesu Christ ar ol Matthew," uwchben "Yr Argument" i'r Efengyl hwnw; ac y mae y dernyn yn diweddi ar tudalen 48, sef yng nghanol adn. 26 o'r xix. bennod o Matthew. Heblaw fod ei blyg oddeutu hanner maint argraffiad Caernarfon, y mae yn gwahaniaethu mewn amryw bethau eraill. Cyfeirir ynddo at y geiriau eglurhaol a geir ar ymylon y dail trwy ffigyrau, ac nid trwy arwydd-nodau fel y gwneir yn argraffiad 1850. Hefyd, y mae ei lythyriaeth yn fwy ffyddlawn i'r gwreiddiol; yn lle "cwnsti" a geir yn argraffiad 1850, "Cwnsli" sydd ynddo ef fel yn argraffiad 1567. Ar y rhan uchaf o'r ddalen gyntaf y mae "Rees Jones 1820" yn ysgrifenedig. Gellir meddwl oddi wrth y ffaith ei fod wedi ei gyd-rwymo gyda llyfrau eraill o argraffiad Robert Saunderson, Bala, yn gystal ag fod y llythyrenau yn debyg, mai Saunderson oedd yr argraffydd. Dywed Ioan Pedr (Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 50) i Mr. Saunderson gychwyn dwyn allan argraffiad cyfluniol (*facsimile*), ond iddo roddi yr anturiaeth i fyny ar ol argraffu ychydig o leni. Ond nid ydyw y dernyn sydd gan Tegwyn yn argraffiad cyfluniol. Tebyg mai yr un ydyw ar hwn y sonir am dano gan Ioan Mai (*Geninen*, cyf. v., tud. 135). Ac y mae yn amlwg i'r dernyn gael ei argraffu yn, neu cyn, y flwyddyn 1820; a thebyg na argraffwyd ychwaneg o hono.

† Yn hen gopi Rhisiart Morris, yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig, gwelir yr argraffiad uchod ar ddiwedd y llyfr, ond ceir ef ar gefn y wyneb-ddalen yng nghopi Mr. Pamplin, Llandderfel.

‡ Llyfr. y Cymry, tud. 21.

"The Faults escaped in the Preface to the Queenes Maiestie," a'r cywiriad cyntaf ydyw,—"For Prince ye may reade Princesse"; ac ar ol rhai cywiriadau eraill, ceir ar yr un tudalen, "A pologi neu Ateb am y Beiæ y mae 'rei yn cael yn Epistol Episcop Menew," yr hyn sydd yn cymmeryd hyd tua hanner y pummed tudalen. Yna ceir "Y Beiæ a ddygwyddawdd ym print Llythyr-anerch W.S.," y rhai a lanwant dair llinell. Ac ar gefn y pummed tudalen, ceir "Y Gwyddoræ o amravael."* Fe allai fod hyn yn ddigon i roddi syniad tra chywir o Destament Salesbury yn adeg y cyhoeddwyd ef. Ond hyd y gwyddom, nid oes gynnifer ag un cyfargraff ar gael yn cynnwys yr holl bethau uchod. Y mae rhyw ran yng ngholl ynddynt oll.

Y mae Testament Salesbury yn cynnwys "Argvment," neu gynnwysiad, o flaen pob llyfr, yng nghyda "chynnwysiad" o flaen pob pennod. Y mae y rhan fwyaf o hono heb ei ranu yn adnodau. Cymmaint o hono ag sydd wedi ei ranu felly ydyw Act. xxi. 1—xxii. 12; yna y mae y cyfryw raniadau yn peidio hyd nes y deuir at 2 Tim. i. 1, ac yna ceir adnodau o hyny hyd ddiwedd y Testament.

Yr oedd cyfieithu a pharatoi y fath ddwy gyfrol a'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi am y waith gyntaf yn gryn orchwyl mewn amser mor fyr. Nid oes genym grybwylliad fod neb ond Salesbury a Davies wedi cymmeryd rhan yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. A hwynt hwy, gyda'r eithriad o Lyfr y Datguddiad, a gyfieithiasant yr oll o'r Testament Newydd. Nis gwyddom pa ranau a wnaeth y naill na'r llall o'r Llyfr Gweddi; ond Salisbury a gyfieithodd y rhan fwyaf o'r Testament. Dylem, fodd bynag, gofio fod yr Esgob Davies yn yr amser hwn yn cymmeryd rhan yng nghyfieithiad "Beibl yr Esgobion," yr hyn, yng nghyda'r rhan a wnaeth o'r Llyfr Gweddi, sydd ddigon o esboniad am y safle eil-raddol a gymmerodd yn y Testament Newydd. Gellir cael allan yn lled rwydd pa ran a gymmerodd y tri yn y gwaith hwn. Ar ymyl y ddalen ar ddiwedd 2 Thes. ceir y nodiad a ganlyn:—"*O Lyver cenedleth. &c. yd y van hyn, W.S.; a'r Epistol iso D.R.D.M.*† *ei translatodd.*" Ar ddechreu 2 Tim. dywedir:—"*W.S. yr vn hwn, a'r ddau iso.*" Ar ddechreu yr Epistol at yr Hebreaid:—"*D.R.D.M. yr vn hwn at yr Ebraieit, y ddau i Petr, a'r vn i Iaco.*" Drachefn ceir "*D.R.D.M.*" ar ddechreu Epistol

* Cymmerwyd y manylion uchod, *gan mwyaf*, o nodiadau Mr. Salisbury a Mr. Breese (Bye-gones, 18th Dec., 1878, and 15th January, 1879). Dywed Mr Breese na wyddai ef am un cyfargraff yn cynnwys y "Cywiriadau" ond yr eiddo ef yn unig. Ond mewn nodiadau a ysgrifenwyd gan y diweddar Mr. Francis Fry, Bristol, yn y cyfargraff sydd yn Nhŷ'r Gymdeithas Feiblau yn Llundain, dywed fod ei gyfargraff ef ei hun yn cynnwys pedair dalen o welliant gwallau.

† Sef y Dr. Richard Davies, Mynyw [neu, Tŷ Ddewi].

Iago, ac Epistol cyntal Pedr. Ar ddechreu Epistol cyntaf Ioan, dywedir:—"*W.S. tri Ioan ac vn Iudas.*" Ac ar ddechreu y Datguddiad, neu fel y gelwir ef yma, "Gweledigeth Ioan y Divinydd," dywedir:—"*T.H.C.M.** *a translatoedd oll text yr Apocalypsis yn ieith ei wlat.*" Yr ydym yn ei ystyried yn ddyledswydd arnom fanylu ar hyn gan fod rhai wedi syrthio i gamgymeriadau yn ddiweddar, megys mai yr ail Epistol at Timotheus, ac nid y cyntaf, a gyfieithwyd gan y Dr. Davies.† Felly y llyfrau a gyfieithwyd gan Salesbury oeddynt:—

Matthew hyd 2 Thessaloniaid.
2 Timotheus.
Titus a Philemon.
1, 2, a 3 Ioan, Judas.

Y rhai a gyfieithiwyd gan y Dr. Richard Davies oeddynt:—

1 Timotheus.
Hebreaid, Iago.
1 ac 2 Petr.

Ac nid oes eisiau ail-ddywedyd mai Thomas Huet a gyfieithodd y Datguddiad. Ac yr oedd yr oll, fel y ceisiwn ddangos mewn lle arall, o dan olygiaeth Salesbury.

Yr ydym o dan demtasiwn gref i roddi yma, yn gyflawn, lythyr cyflwyn Salesbury i'r Frenhines; am, yn y lle cyntaf, na ymddangosodd erioed mewn gwisg Gymreig, ac, yn ail, ei fod mewn modd arbenig yn cadarnhau ein sylwadau blaenorol parthed i sefyllfa grefyddol y Dywysogaeth:—

I'r Rinweddolaf a'r Ardderchocaf Dywysoges Elizabeth, trwy ras Duw Brenhines Lloegr, Ffrainc, a'r Iwerddon, Amddiffynydd y Ffydd, &c.

Pan alwaf i gof agwedd lygredig crefydd yn Lloegr, pan boblogid Mynwent St. Paul yn y ddinas gan wneuthurwyr delwau o alabaster i'w gosod i fyny mewn eglwysi; a hwythau yn Paternoster Row yn ennill eu bywoliaeth yn unig trwy wneuthur gleiniau'r Pader; a hwythau yn Ave-lane trwy werthu gleiniau Mair; a hwythau yn Creed-lane trwy wneuthur gleiniau'r Credo; yn gystal a'r defodau ofer a ymlusgasant i'n gwlad ninnau, sef Cymru, pryd, yn lle y byw iol Dduw, yr addolai dynion ddelwau meirwon o goed a cheryg, clych au ac esgyrn, gyda lluaws o greiriau eraill nas gwn yn iawn beth i'w galw: a phan ystyriaf hefyd ein gwrthgiliad cyffredinol diweddar oddi wrth Air sancteiddiolaf Duw a dderbyniasid un waith, a'n bod yn clywed yn ddyddiol am yr orfodaeth a osodir ar ein brodyr mewn gwledydd tramor, y rhai a ddyoddefasant drallodau mawrion, cystuddiau chwerwon, ac erlidigaethau didrugaredd; o dan y rhai y mae amryw eto yn aros: nis gallaf lai,

* Sef, Thomas Huet, Cantor Mynyw.

† Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 463; Gwyddoniadur, cyf. i., tud. 634; Llyfr. y Cymry, tud. 16. Ond y mae y camgymmeriad yn y gwaith olaf yn cael ei gywiro gan y golygydd.

O Dywysoges fwyaf Cristionogol a phenadures raslonaf, na gwneuthur fel y gwnaeth y truan Bartimeus ddall, neu'r gwahanglwyfus o Samaria, i'n Hiachawdwr; felly yr wyf yn ymostwng wrth draed eich Mawrhydi, gan ymgrymu yn isel, nid yn unig drosof fy hun, ond hefyd am waredigaeth llawer mil o'm cydwladwyr oddi wrth ddallineb ysprydol, anwybodaeth, a ffiaidd haint hen eilunaddoliaeth, ac ofergoeledd, gan gydnabod yn ostyngedig a dyladwy eich daioni digyffelyb i ni trwy ganiatau i ni gael yr Ysgrythyrau Sanctaidd (yr unig feddyginiaeth a gwaredigaeth rhag ein dallineb ysprydol a'n gwahanglwyf) yn yr iaith y gwyddom oreu am dani; y rhai can belled ag y deallaf, ni fuont erioed (er i wir grefydd flodeuo ym mhlith ein hynafiaid, yr hen Frythoniaid) mor gyflawn a chyffredinol yn ein plith ag ydynt yn awr, i Dduw y byddo'r diolch.

Anfoddlawn oedd ein cydwladwyr gynt i dderbyn y grefydd Rufeinig (ac nid heb achos), ond yr oeddynt yn awr, (y cyfryw yw grym drwg arferiad) yn anfoddlawn i'w gadael, ac i dderbyn efengyl Crist. Ond ar ol hyny cafodd y genedl hon ei chystuddio yn dra gofidus â hir ryfeloedd am ei gwrthgiliad, ac fel y tybir, ei llwyr orchfygu, a'u chadw tanodd gan gyfreithiau llymion; eto, o'r diwedd, rhyngodd bodd i Dduw, o'i gynnefin drugaredd, edrych arni drachefn, trwy anfon Dafydd dduwiolaf a Solomon ddoeth, wrth y rhai y meddyliaf Harri'r Seithfed a'i fab, Harri'r Wythfed (y ddau yn Frenhinoedd o enwog goffadwriaeth, tad a thaid eich Graslonedd) y rhai yn rasusol a'i rhyddhasant o'i phoenau ac a lareiddiasant ei beichiau annyoddefol, y naill trwy freinleni rhyddid, a'r llall trwy Deddfau Seneddol, gan symmud pob caethiwed a rhwymau, trwy ei chorffori â'i anwyl ddeiliaid yn Lloegr.

Diammeu nad cymmwynais fechan oedd hòno mewn ystyr dymhorol: ond y mae y gymmwynais o drefniad a daioni eich Mawrhydi yn rhagori ar y llall gymmaint ag a wna yr enaid ar y corff. Trosglwydda hanesiaeth henafol hyd atom wragedd (rhai o honynt a fuant brif reolwyr ar ynys Prydain, yr hon sy'n awr yn eiddo i chwi) nodedig am eu dysgeidiaeth a'u gwroldeb, megys Cambria Deg, Marsia Dda, Buddug Ddewr, Claudia Rufina a nodir yn un o epistolau St. Paul, a Helen, mam yr amherawdwr Cristionogol cyntaf, Cystenyn Fawr, a'r Santes Ursula o Gernyw, yng nghydag eraill ag ydynt yn enwog hyd heddyw: ond am eich Mawrhydi, gallaf yn briodol, fel y tybiaf, ddefnyddio geiriau y brenin a gyfenwai ei hun yn Lemuel: "Llawer merch a weithiodd yn rymmus; ond ti a ragoraist arnynt oll. Siomedig yw ffafr, ac ofer yw tegwch; ond benyw yn ofni yr Arglwydd, hi a gaiff glôd." Ac os ydyw Mair Magdalen yn enwog trwy'r holl fyd lle pregethir yr Efengyl am roddi blychaid o ennaint materol i enneinio corff cnawdol Crist, pa faint mwy y coffëir eich haelioni chwi yn rhoddi ennaint yr Yspryd Glân i enneinio ei gorff ysprydol ef—sef, yr Eglwys?

Ond i derfynu ac i neshau at gyflwyno fy adduned: yn gymmaint ag i mi, er yn annheilwng, gael fy ngalw a'm dirprwyo gan fugeiliaid mwyaf gwyliadwrus, Esgobion Cymru, i ymdrin â darlleniad a gosodiad allan y gorchwyl teilyngaf hwn, ystyriaf yn rhwymedigaeth arbenig arnaf gyflwyno yn eu henwau hwy i'ch Mawrhydi (megys y blaenffrwyth goreu) Lyfr y Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist, wedi ei

gyfieithu i'r iaith Frytanaidd, yr hon yw ein hiaith gyffredin, gan ddymuno a deisyf yn ostyngedig, os bydd i hyny ryngu bodd i'ch doethineb, fod iddo gael aros yn llyfrgell eich Mawrhydi, yn goffadwriaeth barhaus o'r cymmwynasgarwch a ddangoswyd yn hyn tuag at ein gwlad, a thuag at Eglwys Crist ynddi. A dymunwn ar Dduw gael o ddeiliaid eich Graslonedd yng Nghymru yr oll o Lyfr Gair Duw i'r un ffurf: yna gallai eu cyd-ddeiliaid yn Lloegr eu llongyfarch yn y geiriau hyn, "Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr: y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angau, y llewyrchodd goleuni arnynt. "Gwŷn eu byd y bobl y mae felly iddynt: gwŷn eu byd y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt." Ie, yna y dywedant gyda'u gilydd yn frawdol fel hyn, "Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Duw Jacob; ac efe a'n dysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef, &c."

Ac wrth ddiweddi, yr wyf yn erfyn ar Dduw Hollalluog a'r fod i drefniant darbodus eich Graslonedd gael ei berffeithio, ac y bydd i chwi barhau yn eich galwedigaeth a'ch llywodraethiad tywysogaidd tuag at eich deiliaid gostyngedig; ac y bydd i ninnau ar ein rhan ein hunain ymddwyn tuag at Dduw, a thuag at eich Huchelder yn y fath fodd fel na bydd i'w gyfiawnder fyrhau y dyddiau hyfryd a thawel hyn (y rhai, er dechreuad eich teyrnasiad ddedwydd, ydynt yn parhau yn ddigynhwrf a heddychlawn); ond yr ydym yn dymuno ar Dduw, er mwyn ein Hiachawdwr Iesu Grist, yn drugarog ganiatau i ni hir fwynhau eich presennoldeb grasusol a'ch teyrnasiad hynawsaf drosom. Amen.

Ydwyf,
Eich Mawrhydi,
Eich gostyngeiddiaf a'ch ffyddlonaf ddeiliad,
WILLIAM SALESBURY.*

Yr oedd y Ddeddf, fel y gwelir, yn trefnu fod i bob un o'r Esgobîon a nodir ynddi gael ei ddirwyo i'r swm o ddeugain punt os na byddai i'r gwaith gael ei orphen erbyn y dydd cyntaf o Fawrth, 1566. Pa un a gariwyd hyn allan, sydd fwy nas gallwn benderfynu. Y mae yn fwy na thebyg nas gwnaed. Yr oedd dau, fel y crybwyllasom, o'r Esgobion wedi marw cyn i'r amser ddyfod i fyny; ac er fod y Ddeddf yn dàl eu holynwyr yn gyfrifol, yr oedd eu penodiad wedi cymmeryd lle ar amserau ag a fuasai yn gwneuthur eu cospedigaeth yn afresymol. A phan yr ystyriwn, nid oedd y Testament Newydd wedi'r cyfan yn llawer rhy ddiweddar. Yr ydym yn cael mai ar y 7fed o Hydref, 1567, y cyhoeddwyd ef. Ac yn ol cyfrifiad y cyfnod hwnw, pan yr oedd y flwyddyn yn dechreu ar y 25ain o Fawrth, nid oedd ei ddiweddarwch ond rhyw saith mis ac wythnos. Ond gellir tybied fod rhai ysgrifenwyr yn gosod blwyddyn gyfan at y cyfrif hwnw. O dan yr amgylchiadau, pryd yr oedd nifer y cyfieithwyr mor fechan, y

* Hollol afreidiol sylwi pe buasai Salesbury wedi ysgrifenu y llythyr uchod yn Gymraeg y buasai yr orgraff a'r eiriadaeth yn dra gwahanol.

mae yn rhaid dyfod i'r casgliad eu bod wedi gweithio yn ddyfal.

Ond beth am yr Hen Destament? Rhaid dyfod i'r penderfyniad fod y gwaith a gyflawnwyd wedi cymmeryd yr holl amser. Pa fodd bynag, yr oedd Salesbury a Davies yn bwriadu dyfod ag ef allan. Dywed yr olaf yn ei "Epistol at y Cembru":— "Dyma r naill ran yn barot, rhon a elwir y Testament newydd, tra vych yn aros (trwy Dduw ni bydd hir hyny) y rhan arall a elwir yr hen Destament." Dywed Syr John Wynn, hefyd, fod Davies "wedi myned ym mhell gyda'r hen Destament, ac yn bwriadu myned trwyddo, oni bae am anghydwelediad a gymmerodd le rhyngddo ef a William Salesbury (yr hwn oedd wedi byw gydag ef am agos i ddwy flynedd wrth y gwaith hwnw) mewn perthynas i ystyr a tharddiad un gair, yr hwn a fynai yr Esgob un ffordd a William Salesbury ffordd arall, er colled ddirfawr i'r hen fam-iaith Brydeinig; oblegid, tra buont yng nghyd, cyfansoddasant homiliau, llyfrau, a nifer o draethodau eraill, yn yr iaith Frytanaidd, a buasent wedi gwneuthur mwy oni buasai i'r cam-ddealltwriaeth hwnw gymmeryd lle rhyngddynt, oblegid bu yr Esgob fyw am bump neu chwe' mlynedd ar ol hyny, a William Salesbury oddeutu pedair-ar-hugain, ond yr oedd wedi rhoddi i fyny ysgrifenu yn hollol (fel yr oedd yn fwyaf galarus), oblegid yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, ac yn neillduol yn Hebreigwr, yr hyn oedd yn beth lled anghyffredin yn y dyddiau hyny."* Y mae hyn yn ddigon o brawf fod Davies a Salesbury wedi cyfieithu cryn lawer o'r Hen Destament; ond pa beth a ddaeth o'r ysgrifau ar ol hyny, nid ydym yn gwybod. Dywed yr Esgob Humphreys fod yr ysgrifau gwreiddiol o'r rhan a wnaeth y Dr. Davies o'r Testament Newydd yn cael eu cadw yn ei amser ef (Humphreys) gan Mr. Robert Davies, o'r Llanerch.† Ond nis gwyddom ym mha le y maent yn awr, os ydynt ar gael o gwbl.

Y mae amseriad marwolaeth y Dr. Richard Davies fel ei cyflëir gan Syr John Wynn yn haeddu gair wrth fyned heibio. Oblegid os cymmerir yn ganiataol i'r anghydwelediad llenyddol gymmeryd lle ym mhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y Testament Newydd, bu Davies farw, yn ol Wynn, yn 1574 neu 1575. Ond, fel yr ydym wedi sylwi yn barod, yn 1581 y cymmerodd hyny le. Ond os cyfrifwn bump neu chwe' mlynedd o farwolaeth y Dr. Davies yn ol, cymmerodd y cweryl le, nid ym mhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y Testament Newydd, ond yn 1575 neu 1576. Yn ol hyn, ni bu Salesbury farw hyd 1599 neu 1600, oblegid, yn ol Syr John Wynn, bu fyw bedair mlynedd-ar-hugain ar ol hyny.

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 98.

† Humphreys' Additions to Athenæ Oxon., p. 160; Cambr. Register, vol. i., p. 155-6.

Ac os ganwyd ef yn 1520, fel y tybia Ioan Pedr, yr oedd oddeutu pedwar ugain mlwydd oed. Ond y mae Gwilym Lleyn yn cofnodi y llyfr a ganlyn: — "Egluryn Phraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith gelbydhyd yn dyscu lhuniaeth ymadrodh a'i pherthynasau. A dhechreuwyd gan Mr. William Salesbury, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, drwy draul Syr Sion Salisbury o Leweni sir Dhinbych. Printiedig gan Ioan Dantes, yn Lhundain. 1595."* Nid yw yn hysbys ym mha ran o'i oes y cyfansoddodd Salesbury ei ran ef o'r gwaith hwn; ond y mae golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* yn barnu ei fod wedi marw ryw gymmaint o amser cyn ei gyhoeddiad; ac awgryma y flwyddyn 1593 fel yn debygol. "Od ydyw y dyfaliad hwn yn agos i gywir," ychwanega, "rhaid fod yr Esgob Davies wedi byw rai blwyddau yn hwy nag y mynegir gan Syr John Wynn."† Ac y mae yn ddigon posibl nad oedd Syr John yn gywir gyda golwg ar Salesbury ychwaith. Dywed y Dr. T. C. Edwards, o'r ochr arall, gan nad ydyw Henri Perri yn son am Salesburi yn ei rag-ymadrodd i "Egluryn Phraethineb," fod hyny yn awgrymu fod Salesbury yn fyw yn 1595.‡ Ac os efe a gyfieithodd "Yr Athrawiaeth am Weddi: gan John Prideaux, Esgob Caer-wrangon,"§ yr hwn a gyhoeddwyd yn 1607, er yn ddiammeu ei fod wedi marw cyn hyny, y mae yn dra sicr iddo fyw hyd tua diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg.

Y mae yn fater o syndod fod amser marwolaeth, ac hyd yn oed lle claddedigaeth, y fath ŵr da, llafurus, a'r fath gymmwynaswr i'w genedl, ag oedd William Salesbury, yn anhysbys. Da y dywedodd Gwallter Mechain fod "gan *Loegr* goch golofnau er coffäu gwrhydri Rodney, Nelson a Hill; ond *Cymru* druan, â'i pheithynau a'i breuddwydion, yng nghanol helaethrwydd marmor Mon, gwrdd feini Eryri a Chader Idris, a llechau rhuddleision godreon y Wyddfa, heb gymmaint a llythyren gerfiedig o gofiant am ei Chaswallon, ei Charadawg, ei Llywelyn, a'i Glyndwr—gwroniaid terydd ym mhlaid ei rhyddid *gwladawl;* nac am *Salsbri*, a lafuriawdd gymmaint tros ryddid *ysbrydawl* ei genedl: nid oes ganddo *efe* gymmaint a beddfaen i ddywedyd—'*Yma y gorwedd.*'"‖ Ai nid ydyw yn resyn fod gwlad ag sydd yn gwneuthur y fath honiadau mewn perthynas i'w chrefydd wedi bod mor ddifater i goffadwriaeth yr hwn a fu yn offeryn i roddi rhan helaeth o Air Duw yn ei chyrhaedd am y tro cyntaf erioed? Fel y crybwyllasom, yr oedd gan y diweddar Ioan Pedr

* Llyfr. y Cymry, tud. 70. Y mae cyfargraff o'r "Egluryn" yn yr Amgueddfa Brydeinig.
† Ibid. tud. 19. ‡ Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 58, note. (First Session).
§ Llyfr. y Cymry, tud. 81. ‖ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., tud. 212.

ysgriflyfr ar lysieuaeth o waith Salesbury; y mae ysgriflyfrau eraill o'i waith yn Llyfrgell Peniarth ac yn yr Amgueddfa Brydeinig. Ac onid ydyw yn resyn na cheisid gwneuthur rhyw gytundeb â'u perchenogion gyda golwg ar eu cyhoeddi? Beth a ddywed y Cymmrodorion am hyn?

Y mae genym eto ychydig o lyfrau i'w cofnodi ag sydd yn hawlio ein sylw yn y bennod hon. Ac y mae eu hymddangosiad yn profi fod y bywiogrwydd llenyddol ag oedd wedi tori allan ychydig yn gynnarach yn Lloegr wedi cael peth dylanwad ar y Cymry, gan y cawn fod rhai o honynt yn dyfod allan fel awdwyr. Ym mysg y Pabyddion a breswylient ar y Cyfandir yn yr adeg hon yr ydym yn cael amryw Gymry. Un o'r cyfryw oedd y Dr. Gruffydd Roberts. Ychydig o'i hanes sydd ar gael; ac ni wyddis yn sicr pa un a Deheuwr ai Gwyneddwr ydoedd. "Gan iddo gyflwyno ei Ramadeg," medd Ioan Pedr, "i 'Viliam Harbart, Iarl o Benfro, ag Arglwyd o Gaerdyd,' gallem feddwl mai Deheuwr oedd; ond y mae rhai ymadroddion o'i eiddo yn peri i ni feddwl mai Gwyneddwr ydoedd. Dywed yn ei lythyr *Att y Cymru*, iddo gymysgu iaith y Deheubarth â iaith Gwynedd, gan awgrymu mai yr olaf a ysgrifenai yn y cyffredin. Sonia drachefn am y Cymro, ar ei fynediad i Loegr, yn dyfod i olwg clochdai yr Amwythig, yr hyn sydd ddarluniad cywirach o'r Gogleddwr yn myned i Loegr nag o'r Deheuwr; er y gallai y naill fel y llall fod yn croesi yr Hafren."* Y mae y Canon Silvan Evans yn profi ei fod yn gyffeswr i'r Cardinal Carlo Borromeo, archesgob Milan;† a gellir casglu oddi wrth y llyfrau a ysgrifenodd ei fod yn ŵr crefyddol, ac yn teimlo dyddordeb neillduol yn llesiant ei gyd-genedl. Y mae yn amlwg ei fod yn Milan yn y flwyddyn 1567, oblegid dygodd trwy'r wasg yn y flwyddyn hòno lyfr, neu o leiaf ran o lyfr, Cymraeg yn dwyn yr enw—"Dosparth Byrr ar y rhann gyntaf i ramadeg cymraeg lle cair llawer o bynciau anhepcor i un a chwennychai na doedyd y gymraeg yn ddilediaith, na i scrifennu'n iawn."‡ Hwn ydyw y Gramadeg Cymraeg cyntaf a argraffwyd erioed; yr hwn, fodd bynag, ni orphenwyd.

* Y Traethodydd, 1872, tud. 97. † Llyfr. y Cymry, tud. 22.

‡ Ceir cryn lawer o ymdrafodaeth ddiíyrus ar y gwaith hwn yn y *Bye-gones*, 1879; lle, ym mhlith pethau eraill, ceir llythyrau oddi wrth Mr. (wedi hyny, Syr) Antonio Panizzi, diweddar brif lyfrgellydd yr Amgueddfa Brydeinig, yn y rhai yr haerai mai yn *Mediolanum* y Rhufeiniaid, yn sir Drefaldwyn, ac nid yn Milan yn Italy, yr argraffwyd y gwaith. Yr hyn, pa fodd bynag, a wrthbrofir yn ddigamsyniol gan y Canon Silvan Evans. Y mae y Gramadeg yn dra phrin. Yr unig gopïau ag y mae genym hanes am danynt ydyw y rhai canlynol: — 1. Llyfrgell Wynnstay, yn gyflawn (hyny yw, can belled ag y cyhoeddwyd ef). 2. Dau gyfargraff yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn anghyflawn. 3. Y Tywysog Lonis-Lucien Bonaparte, 6, Norfolk Terrace, Bayswater; anghyflawn. 4. Joseph Joseph, Ysw., F.S.A., Aberhonddu; anghyflawn. 5. Llyfrgell Peniarth; rhanau gweddill o'r pedwar cyfargraff anghyflawn a gymmerwyd i wneuthur cyfargraff presennol Wynnstay.

Yn y flwyddyn 1568, cyhoeddwyd llyfr Cymraeg arall ym Milan yn dwyn y teitl a ganlyn :—

Athravaeth Gristnogavl,
Le cair uedi cynnuys yn grynno'r hol
brifbynciau syd i gyfaruydo dyn
ar y phord i baraduys.

Meun carchar daear, od oes



I'r enaid mae guir einioes,

Natto duu i mi ymogonedu ynnim ;
onid ynghroes yn hargluyd ni Iesu
Grist. Gal. 6.

Nid oes neb o'n llyfryddwyr yn crybwyll am hwn. Ond yr oedd Ioan Pedr, oddi wrth grybwylliad o eiddo Rhosier Smyth yn ei Ragdraeth i'r "Drych Christianogawl," wedi ammeu ei fodolaeth.* Dywed Smyth : — "Gan na fedrem gael D. ac L. a nodeu danynt ar ol order yr athrawiaeth Gristionogol a breiniwyd yn Mulan, mewn ymbell faneu chwi a gewch D: ac L: wedi i nodi yn ei pennau : ar rhai hyny ei gyd sy'n arwain sain y lleill, ag yn arbed yr : H. gyda D: ac : L: y mae'r gost, ar drael, ar boen yn fawr Iawn ag yn flin:" Y cyntaf i wneuthur ei fodolaeth yn hysbys yn yr oes hon ydyw y Tywysog Louis-Lucien Bonaparte, yr hwn a brynodd yr unig gyfargraff adnabyddus o hono gan Mr. Marcel, y cyhoeddwr a'r llyfryddwr enwog, yn

* Y Traethodydd, 1872, tud. 97.

Paris. Nid oedd Marcel yn gwybod fod ganddo y fath drysor yn ei feddiant, a thybiai mai llyfr Cernywaeg ydoedd. Llyfr pedwarplyg bychan ydyw, yn cynnwys rhyw 71 o dudalenau; a'i gynnwysiad sydd fath o Gatecism, neu ymddiddan rhwng Athraw a Disgybl ar y Pader, y Credo, ac erthyglau crefyddol eraill. Ar ei ddechreuad ceir anerchiad gan y Dr. Gruffydd Roberts, yn dechreu fel hyn: — "Gruphyd fab Rhobert yn annerch yr hyparch brelad, ai dibal gynheiliad M. Morys Clynoc: ag yn erchi ido gan duu, gynnyd, ras a deduduch enaid, a chorph." Ac y mae yn diweddi ei anerchiad gyda'r geiriau:—"O dref, Fylen nosuyl S. Nicolas." Nid oes enw un argraffydd wrtho, ond ar ei ddiwedd ceir:—"Ymylen. 1568. dyuguyl. S. Nicolas."* Ei awdwr, fel y gellir gweled oddi wrth lythyr anerch Gruffydd Roberts, ydoedd Morys Clynog. Brodor o ba le ydoedd Clynog, nis gwyddom. Ond yn 1548, graddiodd yn LL.B. yn Rhydychain. Yn 1556, derbyniodd rheithoriaeth segur-swyddol Corwen, sir Feirionydd. Gwnaed ef yn gorfudd Caerefrog ac yn swyddog yn llys yr uchelfraint o dan Cardinal Pole. Yn fuan ar ol marwolaeth Dr. Glynn, esgob Bangor, yn 1558, penodwyd Clynog yn olynydd iddo; ond gan i'r Frenhines Mary farw cyn ei gyssegriad, efe a enciliodd i Rufain; lle, yn ddiweddarach, y cafodd ei benodi yn rheithor y Clafdŷ Seisonig a sefydlwyd yno, a lle gelwid ef yn Dr. Maurice. Ond gan iddo ddangos gormod o bleidgarwch i'r myfyrwyr Cymreig a drigent yno, fel ag i achosi amrafael rhwng y Cymry a'r Saeson, diswyddwyd ef gan y Pab yn 1581.† Pa beth a ddaeth o hono ar ol hyny, ni ddywedir.

Gwaith arall a gyhoeddwyd ar y Cyfandir ydyw yr hwn sydd yn dwyn y teitl canlynol:—"Y Drych Christianogawl, yn yr hwn y dichon pob Christion ganfod gwreiddin a dechreuad pob daioni sprydawl, sef, gwybod modd i wasanaethu Duw, drwy ei garu a'i ofni yn fwy nâ dim, ag i daflu ymaith beth bynnag ar a fo rwystr i hynny. Y Rhan gyntaf yn peri gwasanaeth Duw trwy ei garu. —8° *Rhotomagi apud hæredes Jathroi Faronis.* 1585."‡ Dywed Ioan Pedr mai mewn ysgrifen oedd y teitl uchod yn ei gyfargraff ef. Ond os ydyw yn gywir, cafodd y gwaith ei argraffu yn Rouen yn Ffrainc. Y mae y gwaith hwn yn cael ei flaenori gan ddau

* Dygwyd ail argraffiad o'r "Athravaeth Gristnogavl" allan, yn 1880, gan Gymdeithas y Cymmrodorion.

† Williams's Eminent Welshmen, p. 79; Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. i., tud. 324

‡ Y Traethodydd, 1872, tud. 91. Y mae Gwilym Lleyn yn cam-leoli y gwaith hwn trwy ei roddi dan y flwyddyn 1584. Y mae cyfargraff o hono ar gael yn yr Amgueddfa Brydeinig.

lythyr anerch, un gan ei awdwr, y Dr. Gruffydd Roberts, a'r llall gan "R.S.," neu Roger Smyth, "O Dref Rôan," yr hwn oedd golygydd y llyfr. Y mae Gwilym Lleyn yn ceisio gwneuthur Roger Smyth, neu Rhosier Smyth, yr un a George Smyth, neu Williams. Ond fel y sylwa golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry*, yr oedd George Williams yn dal amryw fywoliaethau yng Nghymru yn yr amser yma, a chofnodir ei farwolaeth yn 1608, tra yr oedd Rhosier Smyth yn fyw ddeng mlynedd yn ddiweddarach.* Protestant oedd y blaenaf, a Phabydd selog oedd yr olaf. Pwy bynag oedd, y mae yn amlwg ei fod yn ŵr tra chrefyddol, ac yn awyddus am wneuthur ei gyd-wladwyr felly hefyd.

Y tri llyfr a nodwyd ddiweddaf ydynt yr oll a gyhoeddwyd ar y Cyfandir ag y mae fynom â hwynt yn y bennod hon. Ond y mae genym ychydig o lyfrau eraill i'w nodi, pa rai a gyhoeddwyd yn y deyrnas hon. Un o'r cyfryw ydyw, "Dean Nowell's Catechisme in Welsh. 1578.†" Hwn ydyw y Catecism cyntaf a gofnodir gan Gwilym Lleyn. Ni ddywedir pwy oedd y cyfieithydd, ond ymddengys mai Richard Jones, Llundain, oedd yr argraffydd. Pa fodd bynag, y mae genym le i gredu fod llyfrau eraill o'r un natur wedi eu cyhoeddi yn flaenorol. Oblegid yr ydym yn cael fod Richard Jones wedi ei drwyddedu i argraffu *Catecism yn Gymraeg* yn 1566 neu 1567. Yng Nghofrestr y Safwerthwyr ceir y cofnodiad a ganlyn:—"Recevyd of Richarde Jonnes for his lycense for pryntinge of a catechisme in Welshe and [ap]poynted by my lorde of London."‡ Ac y mae yn amlwg hefyd mai nid hwn oedd y cyntaf ychwaith. Oblegid, fel yr ydym wedi sylwi yn y bennod flaenorol, gorchymmynodd y Dr. Thomas Davies, esgob Llanelwy, yn 1560, i'w offeiriaid ofalu am i'r "Catecism yn Gymraeg gael ei ddarllen yn gyhoeddus yn eu gwahanol Eglwysi bob Sabbath"; yr hyn sydd yn profi fod y fath lyfr ar gael y flwyddyn hòno. Ond dichon nad oedd y tri Chatecism hyn ond gwahanol argraffiadau o'r un llyfr.

Cynnwysa y gofrestr a nodwyd gyfeiriadau at lyfrau neu draethodau eraill a drwyddedwyd i'w hargraffu yn yr un cyfnod. Yn 1568, trwyddedwyd William Griffith i argraffu y Deg Gorchymmyn yn Gymraeg, wedi ei chwilio gan y Dr. Yale;§ ac yn 1587, talwyd ugain o farciau gan Richard Jones am drwydded i argraffu "*A Sonett or a synners solace*, made by Hughe Gryffythe prysoner, both in Welshe and Englyshe."‖ Hwyrach mai Cym-

* Llyfr. y Cymry, tud. 90, 91.
† Johnson's Typographia, vol. i., p. 585; Llyfr. y Cymry, tud. 27.
‡ Stationers' Register, vol. i., p. 151; Y Traethodydd, 1876, tud. 430.
§ Ibid. vol. i., *sub anno*; Y Traethodydd, 1876, tud. 431.
‖ Ibid. vol. ii., p. 216. Camleolir hwn o dan 1578 yn Llyfryddiaeth y Cymry.

raeg hefyd oedd "*A True and dreadfull testimonie of God's wrathe shewed in the parishe of Llandrillo in the Countie of Merioneth in Wales*,"* am drwydded i argraffu yr hwn y talodd Richard Jones bedair ceiniog yn 1581. Ond y gwaith olaf sydd genym i'w nodi yn y fan hon ydyw yr hwn a gofnodir gan Gwilym Lleyn fel hyn:—"Lliver Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentae, ac eraill gynneddfau a Ceremoniae yr Eccles Loecr: *Vewed, perused and allowed by the Bishops, according to the act stablished for the translation of the Bible and this Book into the Britishe tongue.*" Argraffwyd hwn gan John Windet ar gost a thraul Thomas Chard, yn y flwyddyn 1586. Ail argraffiad ydyw o Lyfr Gweddi 1567, mewn cyfrol bedwar-plyg.† Y mae Gwilym Lleyn yn nodi llyfr arall a gyhoeddwyd yn 1587, sef, "Dadseiniad Meibion y Daran, gan Morus Cyffin." Ond dywed golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* fod "yn ammhëus iawn a argraffwyd llyfr o'r enw y flwyddyn hon."‡

Yr ydym bellach wedi nodi pob llyfr Cymraeg ag y mae genym hanes am dano, neu gyfeiriad ato, a gyhoeddwyd o'r flwyddyn 1546, pan ymddangosodd y cyntaf, hyd gyhoeddiad Beibl y Dr. Morgan yn 1588. Ac y mae eu nifer, rhwng llyfrau o bob maint yng nghyda'r ail argraffiadau o honynt, o dan ugain. A chymmeryd i ystyriaeth yr amserau, yr oedd hyn yn nifer lled dda. Ond yr oedd y Cymry eto heb Feibl cyflawn. Gallesid meddwl mai y Beibl a fuasai y llyfr cyntaf a roddasid iddynt; ond nid felly y bu. Nid oes genym ni yn yr oes hon, pan y mae miloedd o gopïau yn cael eu hargraffu yn flynyddol, ond syniad egwan am druenusrwydd gwlad heb Feibl! Da iawn oedd cael y gyfran a ddaeth trwy ddwylaw Salesbury a'i gyd-lafurwyr. Ac er bod y gyfran hòno y bwysicaf, yr oedd angen am ddiwygio y cyfieithiad. Hefyd, da y gŵyr unrhyw efrydydd deallgar o'r Ysgrythyrau fod yn ammhosibl cael golwg briodol ar wirioneddau y Testament Newydd ond yng ngoleuni y Testament cyntaf. Ond yn yr adeg yr ydym yn cyfeirio ati, yr oedd yn annichonadwy i'r Cymro unieithog wybod dim yn brofiadol am ddatguddiad Duw i'r byd trwy y proffwydi. Yn y bennod nesaf cawn sylwi ar y gŵr a wnaeth hyny yn bosibl.

* Stationers' Register, vol. ii., p. 187; Y Traethodydd, 1876, tud. 432.
† Llyfr. y Cymry, tud. 31. ‡ Ibid. tud. 39.

PENNOD III.

NODIADAU AR FYWYD Y DR. MORGAN HYD EI DDYRCHAFIAD I'R FAINC ESGOBOL.

Màn ei enedigaeth—Dysgrifiad o'r Tŷ Mawr, yn Wybernant—Ei rieni, a'i achau—Traddodiadau yn ei gylch—Y dybiaeth iddo dderbyn ei addysg foreuol gan fynach fföedig—Ei fynediad i Goleg St. Ioan, Caergrawnt—Sefyllfa y prif ysgolion yn yr amser hwnw—Ei benodiadau i fywoliaethau'r Trallwm, Llanrhaiadr ym Mochnant, Llanfyllin, Pennant Melangell, a Dinbych—Awgrymiadau am dano fel offeiriad—Crybwylliadau am ei briodas ddirgelaidd ag Ellen Salesbury, cyn ei fynediad i Gaergrawnt—Mai ei ail wraig oedd Catherine, ferch George ap Richard ap John—Achau ei wraig gyntaf—Evan Morgan, ei olynydd yn Llanrhaiadr, yn fab iddo—Achres o'i ddisgynyddion hyd yr amser presennol. &c., &c.

Y mae dau gant a phedwar ugain a phump o flynyddau er pan gauodd y bedd ar weddillion marwol y gŵr a fu yn foddion yn llaw Duw i roddi yr argraffiad cyflawn cyntaf o'r Ysgrythyrau i'r Cymry yn eu hiaith eu hunain. Y mae pob un ag sydd yn galw ei hun yn Gristion yn cydnabod mai y Beibl ydyw y llyfr goreu a gwerthfawrocaf. Ysgydwa Cymru ei phen ar unrhyw un a feiddia, hyd yn oed o ran mater o ddadl, awgrymu nad ydyw y Beibl yn llyfr ysprydoledig ac anffaeledig. Y mae llawer hen Gristion ffyddiog yn myned mor bell a dyweyd fod yr anffaeledigrwydd hwnw i'w gael yn y cyfieithiad Cymraeg sydd yn ei feddiant, ac o'r bron na fŷn i ni gredu fod y cyfieithiad yn well na'r gwreiddiol. Y mae Cymru yn hynod o barchus o'r Beibl. Ac hyd yn hyn y mae wedi ymfoddloni i ddangos y parch hwnw trwy lwyr ddiystyru coffadwriaeth yr hwn a lafuriodd yn galed i'w roddi iddi yn yr iaith a ddealla! Y mae wedi ymddwyn yn debyg fel pe buasai wedi cael ei gyfieithu gan beiriant mewn planed arall, ac wedi cael ei daflu i'r belen hon gan ryw foddion anesboniadwy a goruwchnaturiol. Y mae ambell un ag sydd yn arfer darllen ychydig ar y Geiriaduron Bywgraffyddol yn gwybod pwy oedd y cyfieithydd. Y mae eraill sydd wedi clywed ei enw yn rhywle yn ysgrifenu i'r newyddiaduron gan gymmysgu ei hanes ef ag eiddo eraill o'r enw Morgan a fuant yn esgobion yng Nghymru. Sylwasom ar un o'r cyfryw y dydd o'r blaen yn ymddyrysu rhwng y cyfieithydd clodwiw â'r Dr. Robert Morgan,

esgob Bangor (1666—1673). Y mae genym amryw fywgraffiadau i ymadawedigion teilwng. Ond yr ydym yn sicr na wnaeth yr un o honynt fwy, os cymmaint, i haeddu y cyfryw nag a wnaethpwyd gan wrthddrych ein testyn. Y mae yn ddiammeu fod rhyw achos i'r esgeulusdra hwn. Ond odid nad oedd ei gydoeswyr, pe buasai ganddynt duedd at hyny, yn ei ystyried yn waith afreidiol. Ac am eu holafiaid, yr oedd yr awydd wedi darfod, a'r defnyddiau yn rhy brinion ganddynt, i ymaflyd yn y gorchwyl. Ac erbyn hyn, y mae hyny o'i hanes sydd ar gael wedi ei gymmylu i raddau helaeth gan lwch esgeulusdra agos i dair canrif gyfan. Nid oes bellach ond defnyddio yr ychydig gyfeiriadau sydd ar gael, yng nghyda chrynhoi yng nghyd lais traddodiad, er rhoddi ar glawr gymmaint a ddywedir am dano.

Un o'r pethau cyntaf a wna y bywgraffydd ydyw sylwi rhyw gymmaint ar y màn lle yr anadlodd ei wrthddrych anadl gyntaf bodolaeth—neu mewn geiriau mwy syml, màn ei enedigaeth. Ac nid ydym ni am dori ar y rheol hon yma. Er gwneuthur hyn, gwahoddwn y darllenydd i fyned gyda ni i bentref prydferth Dolwyddelen. Cychwynwn oddi yno ar hyd y brif ffordd sy'n arwain i Bettws-y-coed, yr hon sydd yn dilyn afon Lledr, hyd nes y deuwn at "Bont Gethin." Y mae y bont, yr hon sydd yn cario y gerbydres ar y rheilffordd uwchben ceunant dwfn a rhamantus, ac ar hyd ochr yr hwn y gorwedd y brif ffordd a nodwyd, yn cynnwys deunaw bwa ar hugain, yn gof-golofn o fedrusrwydd celfyddydgar ei hadeiladydd—y diweddar Mr. Owen Gethin Jones, o Benmachno. Anhawdd ydyw cyfarfod â chwm mwy prydferth a rhamantus yng Nghymru na Glyn Lledr. Ond y mae yr afonig fechan sydd yn ymgolli yn yr afon Lledr yn ymyl y bont a nodwyd yn rhedeg o gwm llawer mwy dyddorol i ni. Trown ar y llaw ddehau; ac arweinir ni iddo gan ffordd gul, leidiog, ac anwastad. Yr enw a roddir ar y cwm ydyw y Wybernant. Nis gellir ei weled o'r brif ffordd, nac o un man arall nes yr eir iddo. Ymddengys ei fod wedi cael ei gafnio gan yr ïafonau a fuont yn ymlithro yn arafaidd o Fwlch y Groes i waered, pan oedd y ddaear yn ei mabandod. Ond y mae llawer cyfnewidiad wedi cymmeryd lle arno er hyny. Y mae yr ïafonau wedi toddi, ac wedi rhoddi eu lle i'r nant, yr hon sydd yn graddol dreulio ymaith y gweryd, ac yn sisial yn beroriaethus wrth brysuro ar hyd ei llwybr dolenog trwy ganol y dyffryn cul a neillduedig hwn. Yn wir, anaml y cyfarfyddir â chwm mwy neillduedig na'r Wybernant. Nid oes yma ddim i dori ar y dystawrwydd, ond sibrydiad y nant, chwibaniad y bugail, ambell

frefiad gan y gwartheg a'r defaid, a chyfarthiad y cŵn a berthynant i'r ychydig amaethdai sydd ynddo. Weithiau y gwelir ambell negeseuwr yn prysuro ar ei draws o Ddolwyddelen i Benmachno, neu o Benmachno i Ddolwyddelen ; ond ar ol gwneuthur y rheilffordd rhwng Bettws-y-coed a'r lle olaf, anfynych yr aflonyddir ar unigedd y dyffryn. Y mae yn lle ag y carasai bardd dreulio ei oes. Cawsai destynau i'w awen yn y llethrau llyfnion, y rhai sydd yn cael eu haddurno yma a thraw gan lwyni o goed tewfrig. Ac ond odid na allasai yr hynafiaethydd gael peth difyrwch wrth chwilio am yr hen Gylchau Derwyddol ag sydd, fel y dywedir, i'w gweled ynddo.

Ymddengys nad ydyw pawb yn cytuno yng nghylch y modd y dylid ysgrifenu enw y cwm. Ac y mae y gwahanol ddulliau yn codi oddiar y tybiadau a goleddir mewn perthynas i darddiad yr enw. Y priodol enw yn ol rhai ydyw *Ewybrnant*, am fod ei ddwfr yn rhedeg yn wyllt a chyffrous drwyddo. Yn ol eraill, *Wybrnant* a ddylai fod, am nas gellir gweled, o'r nant ddofn, odid ddim namyn yr wybren uwch ben. Eraill a ddywedant mai *Gwibernant* ydyw yr enw. Ac y mae y dybiaeth hon yn sylfaenedig ar y traddodiad fod gwiber fawr yn blino y lle yn y Canol Oesoedd. Yr oedd y wiber hon, meddir, weithiau yn ymlusgo, bryd arall yn ehedeg, ac yn disgyn ar benau coed yn agos i'r nant dan sylw, i ddysgwyl am ysglyfaeth. Yr oedd pobl Penmachno a'r cymmydogaethau cylchynol yn arswydo rhagddi. Ond yn ol y traddodiad, daeth Dafydd Goch Gethin, o'r Fedw-deg, adref o Ffrainc, lle yr oedd wedi bod yn cynnorthwyo Edward III. yn erbyn y Ffrancod. A chan ei fod yn wrol a beiddgar, gwyliodd y bwystfil i Ryd y Gynen, neu Ryd y Gwenwyn, yr hwn sydd yn ymyl llyn dwfn yn yr afon Fachno. Cafodd gyfleusdra i blanu ei saeth yn y wiber, gan neidio ar ei ben o dan ddwfr y llyn. Nofiodd ef yn erbyn y llif, er mwyn ysgoi y gwenwyn a redai gyda'r dwfr, ac yn yr ymrysonfa hon lladdwyd y wiber. Ond pa un ai enw y nant a roddodd fod i'r traddodiad, ai'r traddodiad a roddodd enw i'r nant, nis gwyddom. Pa fodd bynag, cawsom allan pan ar bererindod diweddar i'r lle mai hyn ydyw y dybiaeth leol am ystyr a tharddiad yr enw. Eto, sylwem mai *Wybr'ant* y seinir yr enw yn ardal Dolwyddelen. Yr esboniad a roddai y diweddar Owen Gethin Jones oedd, mai *Nant y peraidd ddwfr* = Gwy-bêr-nant, ydyw tarddiad yr enw. Ond beth bynag am ei ystyr a'i darddiad, gwyddom mai *Wybernant* ydyw y ffurf a arferai yr Esgob Morgan a John Wynn o Wydir, yn eu llythyrau at Mr. Martyn.

Yng nghŵr uchaf cwm y Wybernant saif annedd-dŷ a elwir Tŷ Mawr. Saif y tŷ hwn ar yr ochr ddwyreiniol i'r nant oddi wrth yr hon y derbynia y cwm ei enw, ac o fewn rhyw ugain llath iddi. Pe buasai ychydig latheni yn is, ac ar yr ochr orllewinol i'r afon, buasai ym mhlwyf Dolwyddelen. Fe ddichon mai oherwydd ei agosrwydd at derfyn y plwyf hwnw yr arweiniwyd rhai, megys y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, i'w leoli ynddo.* Ond ni ddylem anghofio mai yn y plwyf hwnw y gosodid ef gan John Wynn o Wydir. "Yn gyntaf," meddai, "rhoddais iddo brydles ar ei fferm yn y Wybernant, rhan o drefddegwm Doluthelan" [Dolwyddelen].† Yr eglurhad a roddir gan Owen Gethin Jones ar hyn ydyw, i hen fynachlog a safai yn Nôl Bwlchymaen gael ei llosgi yn amser y Diwygiad, pryd y "rhanwyd yr abadaeth rhwng Penmachno a Dolwyddelen, ac y mae yr hyn oedd yn perthyn i'r Glyn a Thanaldroch, yr ochr nesaf i Benmachno i'r afon Wybernant, yn perthyn i Dolyddelen, er ei fod ynghanol plwyf Penmachno. Y rhaniad hwn barodd y dyryswch ynghylch y Ty Mawr, hen gartref y Dr. Morgan."‡ Pa fodd bynag, ym mhlwyf Penmachno, yn sir Gaernarfon, oddeutu dwy filldir o bentref Penmachno, ac oddeutu yr un bellder o bentref Dolwyddelen, y cyfrifir safle y Tŷ Mawr yn bresennol. Ac yn y tŷ hwnw, yn ol llais unfryd unfarn traddodiad, y ganwyd William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Yr ydym yn cael allan hefyd oddi wrth nodiad o eiddo Dafydd Jones o Drefriw, yng nglyn ag achau Morgan, mewn ysgriflyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig, mai hyn oedd y traddodiad tua chanol y ganrif ddiweddaf. Fel hyn y mae y nodiad :—

Mai y 29 yn y flwyddyn 1764 y dywedodd Mr Joseph Jones Eglwyswr Pen machno ar Ysbytty ei fod ef mewn lle a elwir Gwiber Nant o fewn plwy Pen machno yn Cymuno fwy nag unwaith un Rissiad Ellis oedd yn byw yn y lle a elwir y Ty Mawr. Dyma Dy o'r hen ddull meddai Mr Jones. IE medd R. Ellis. yma y ganwd Wm Morgan yr hwn a droes y Bibl yn Gymraeg ag a ydoedd Esgob hefyd. ir wyf yn dyst o glywed Mr Jones yn dywedyd. Mi wyf Dafydd Jones o Drefriw.§

Nid oes dim neillduol yn y Tŷ Mawr oddi allan, yn bresennol, yn galw sylw y teithiwr tuag ato, oddigerth ei fod wedi myned trwy adgyweiriad trwyadl yn lled ddiweddar. Pan y gwnaed hyny, gorchymmynodd Arglwydd Penrhyn, ei berchennog, roddi coflech yn dwyn yr argraff ganlynol uwch ben y drws :—

* Geiriadur Ysgrythyrol, tud. 117. † Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 137.
‡ Gweithiau Gethin, tud. 314. § Additional MSS. 9864, fol. 53b.

Ty Mawr
Gwiber-nant
In this House was Born
Wm. Morgan, D.D. Bishop
of St. Asaph
The first translator of
the entire Bible
into Welsh
Born 1541. Died Sept. 10, 1604.

Oddi mewn cawsom fod darnau o'r hen gyplau yn aros eto yn y mur, y rhai a gyrhaeddant o fewn tair careg i'r sylfaen. Y casgliad a dynai Mr. O. Gethin Jones oddi wrth bresennoldeb y cyplau oedd, fod y tŷ wedi cael ei adeiladu mor foreu ag amser Edward II., pryd y gwaherddid, meddai ef, i'r Cymry godi eu tai yn uchel rhag iddynt wneuthur cestyll. "Felly," meddai, "chwilient hwythau am ddefnydd cwpwl bongam i'w tai, er mwyn iddynt gael uchder gweddol, a rhoddent gareg dew yn gyntaf, a'r ail ychydig yn llai, a'r uchaf ychydig yn deneuach wedy'n—dyna a oddefid i'r Cymry y pryd hyny. Anfynych, er y cyfan, y gallent gael y bargod uwchlaw deg i un-ar-ddeg o droedfeddi o uchder." Nid ydym yn gwybod am unrhyw ddeddf a wnaed i'r perwyl hwn yn amser Edward II.; ond yn ol deddf a basiwyd yn nheyrnasiad Harri IV., gwaherddid i'r Cymry "feddu unrhyw gestyll, neu amddiffynfeydd, amgen na'r rhai a oddefid yn amser Edward I."* Os at y gwaharddiad hwn y cyfeiria Gethin Jones, rhaid cydnabod nad ydyw mewn un modd yn penderfynu amser adeiliad y Tŷ Mawr; oblegid ni ddirymwyd y deddfau a wnaed yn erbyn y Cymry yn amser teyrn-linach Plantagenet hyd deyrnasiad Harri VIII., na'r ddeddf dan sylw hyd yr unfed-flwyddyn-ar-hugain o deyrnasiad Iago II. (1624).† Buasai yn dda genym pe gallesem weled ein ffordd yn glir i osod hynafiaeth yr adeilad hwn mor foreu ar drydedd-ganrif-ar-ddeg, fel y gwna Gethin. Ac y mae yn *bosibl* ei fod felly, er nad mewn un modd yn debygol; ac y mae y prawf o hyny yn eisiau. A ydyw yn debygol y buasai y cyplau wedi para am chwe' chant o flynyddoedd, sef, o amser Edward II. hyd yn bresennol? Y mae Gethin yn myned rhagddo i sylwi mai "anaml y gwelir yr arddul hwn yn awr yn aros yn ein gwlad ni, oddigerth ambell i hen adeilad yma ac accw." Ond ar ol ychydig ymchwiliad, cawsom fod llawer o hen anneddau Cymru, rhai o honynt yn breswyledig heddyw, ac eraill wedi cael eu gwneuthur yn ysguboriau, â'i cyplau yn cyrhaedd i ymyl eu sylfeini. Tybiai Gethin, ym mhellach, i'r Tŷ Mawr gael ei adgyweirio yn y dull a arferid yn y bymthegfed ganrif. Ac fel prawf o

* 4 Hen. IV., c. 31. † Hist. Powys Fadog, vol. i., p. 204.

hyny dywed fod amryw o dai o'r un gwneuthuriad ag ef i'w gweled â'r oedran arnynt. "Tylathau llydain ar ei* fflat, a'r *sparas* hefyd felly—fframwaith y llofft hefyd yr un modd,—y distiau yn glos wrth eu gilydd ar eu *flat*,—y ffenestri bychain, a drysau isel, ac yr oedd yn gerfiedig ar gapan y drws y geiriau canlynol, hyd o fewn y flwyddyn 1806:—"Heb Dduw, heb ddim." "Duw a digon." Ac yr oedd rhyw eiriau tebyg ar lawer o hen dai gynt, megys Dolgam, Hafod y Gwragedd, Castell Dolwyddelen, Fynhadog a'r Fron, Llanrwst."† Pan gofiwn fod Gethin Jones yn hynafiaethydd da yn gystal ag adeiladydd, y mae yn haeddu gwrandawiad. Ac y mae yn dra thebyg fod yr hen dŷ y ganwyd William Morgan ynddo yn sefyll ar yr un ysmotyn ag y saif yr adeilad presennol, ac fod rhan o'r hen ynddo hefyd. A raid i ni ofyn maddeuant y darllenydd am ymdroi cymmaint gyda'r hen dŷ a gysgododd gyntaf un o'n prif enwogion? I ni, buasai un o'i deganau chwareu yn drysor ammhrisiadwy; a charasem syllu ar yr ystol dri-throed ar yr hon yr arferai eistedd wrth dân o fawn rhwng gliniau ei dad.

Enw ei dad oedd John‡ Morgan, neu yn ol fel y tybia rhai, John ap Morgan; ac enw ei fam oedd Lowri. Yr oedd William Morgan, fel y tybir, yn hanu o dri o bymtheg llwyth Gwynedd. Hanai o ochr ei dad o Nefydd Hardd a Hedd Molwynog; ac o du ei fam o Marchudd ap Cynan.

Nefydd Hardd, o Nant Conwy, oedd ben chwechfed llwyth Gwynedd; ac yr oedd yn byw yn amser Owen Gwynedd, yr hwn a roddodd Idwal ei fab i Nefydd i'w fagu. Ond archodd Nefydd, am ba achos nis gwyddom, i Ddunawt ei fab ladd y tywysog ieuanc, mewn lle a alwyd ar ol hyny yn Gwm Idwal. Am y weithred hon cafodd Nefydd a'i hiliogaeth eu diraddio, ac yn lle bod yn foneddigion gwnaethpwyd hwy yn gaethddeiliaid yn Nant Conwy. Rhoddodd ei fab, Rhun, er gwneuthur iawn am y trosedd, diroedd ar ba rai yr adeiladwyd eglwys Llanrwst. Ond er hyny, parhau i fod yn gaethion a wnaeth ei hiliogaeth am amser maith ar ol hyny. Ond o herwydd eu tarddiad uchel, ystyrid gwerinwyr Nant Conwy o uwch urddas nag unrhyw werinwyr eraill. Preswyliai Nefydd Hardd yn y Crygnant, ger Llanrwst; ei bais-arfau, yn ol rhai, oeddynt:—"*Arian, tri o*

* Gethin Jones neu ei argraffydd sydd yn gyfrifol am *ei* yn lle *eu*, ac nid y ni. Pan yn dyfynu byddwn yn wastad yn gwneuthur hyny mor gywir ag sydd bosibl, trwy osod i mewn y camgymmeriadau a'r cyfan.

† Gweithiau Gethin, tud. 234.

‡ Yn ol *Geiriadur Cenedlaethol Cymru* (Owen Jones), cyf. ii., tud. 325, enw ei dad oedd William, neu John Morgan; ac yn *Enwogion Cymru* (gan Foulkes), tud. 738, dywedir mai William Morgan oedd ei dad; ond, fel y cawn ddangos eto, *John* Morgan oedd enw tad yr Esgob.

benau gwaywffyn trochedig, o liw du, yn pwyntio tuag i fyny"; ond eraill a ddywedant mai,—"*Arian, cwpl rhwng tair o waywffyn o liw du, a blaenau cochion yn pwyntio tuag i fyny*," oeddynt.* Nid oes dim ach-restrau ar gael, hyd y gwyddom ni, a olrheiniant William Morgan i Nefydd Hardd. Y mae yn dra thebyg, yn gymmaint ag iddo ef a'i hiliogaeth gael eu diraddio, na chymmerodd yr achyddwyr y drafferth i gofnodi dim yn eu cylch. O leiaf nid ydym ni yn cael ond y cofnodiad syml gan Pennant fod "Evan Morgan, o Gwibernant, sir Gaernarfon; Evans o Lanrwst; a Davies o Goed-y-Mynydd," yn ddisgynyddion o hono. Ond y mae yn amlwg fod Syr John Wynn o Wydir yn credu fod Morgan yn deilliaw o linach Nefydd Hardd; ac y mae yn methu peidio a rhoddi gwedd ddarostyngol a sarhaus ar ei dystiolaeth: —"William Morgan, D.D.," meddai, "a anwyd yn Dolwyddelen, yng Nghwmmwd Nant Conwy, ac yn sir Gaernarfon; ac a ddisgynai o hiliogaeth caethion y dref hòno, ac yr oeddynt (efe a'i hynafiaid) yn wasanaethwyr tŷ Gwydir, lle y dygwyd ef i fyny mewn addysg."† Y mae yn ddiammeu fod yr hyn a ddywedai y barwnig yn cyfeirio at gyssylltiad Morgan a thylwyth Nefydd Hardd.

Yr oedd Hedd Molwynog, pen y nawfed o bymtheg llwyth Gwynedd, yn fab Greddf ab Tygynydd ab Llawr ab Llawfrodedd Farchawg. Yr oedd yn oruchwyliwr i'r tywysog Dafydd ap Owain, yr hwn a gynnorthwyodd yn ei gadgyrchiad dinystriol trwy Loegr, hyd furiau Coventry. Ei diroedd a'i arglwyddiaethau oeddynt Llanfair Talhaiarn, Dyffryn Elwy, a Nanhaled, yn sir Ddinbych; y rhai a ranwyd rhwng ei feibion, Menter, Gwillonon, a Gwrgi; ac y mae rhai o'u holynwyr yn meddiannu rhanau o honynt heddyw. Ei bais-arfau oeddynt:—"*Du, gyda charw o liw arian ar gerdded, wedi ei drwsio ag aur.*"‡ Nid ydyw Syr John Wynn yn crybwyll fod William Morgan yn disgyn o'r llinach bendefigaidd hon. Ymfoddlonodd ef ar ddyweyd y gwaethaf yn unig. Ond cawn ddychwelyd at hyn eto.

Yr oedd Marchudd ap Cynan, arglwydd Abergele, o linach yr hwn y disgynai William Morgan o du ei fam, yn preswylio yn Bryn Ffenigl, Bettws Abergele, yn amser Rhodri Fawr; ac yr oedd yn ben yr wythfed o bymtheg llwyth Gwynedd. Ac, ym mhlith eraill, yr oedd Ednyfed Fychan, hynaif William Salesbury, yn disgyn o hono. Ei bais-arfau oeddynt:—"*Coch, gyda*

* Teithiau Pennant (arg. Humphreys), tud. 599; Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. ii., tud. 357; Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), pp. 188, 189.

† Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 95.

‡ Teithiau Pennant, tud. 601; Williams's Eminent Welshmen, p. 212; Geir. Cen. Cymru, cyf. i., tud. 626.

phen Twrc wedi ei dori ymaith, yn gwisgo talaith o liw aur."* Pa fodd bynag, nis gellir olrhain disgyniad Lowry, mam William Morgan, ym mhellach yn ol nag i un Evan Tegin, o'r Diosgydd, ym mhlwyf Bettws-y-coed. Dywedir ei bod yn ferch i William ap John ap Madog ap Evan Tegin;† ac fe ymddengys fod Evan Tegin yn disgyn o Ednyfed Fychan, ac felly o Marchudd ap Cynan. Ac fe'n hysbysir fod rhyw Hywel Llwyd o Benmachno wedi "priodi Jane, merch ac aeres Robert ab Howel ab David Fychan ab David Goch ab *Ieuan Tegin* o'r Dulasau yn sir Gaernarfon, yr hwn oedd yn byw yn amser Edward III., ac yn disgyn o Ednyfed Fychan."‡ Dyna ddigon i ddangos fod hiliogaeth Evan Tegin wedi ymgartrefi yn yr ardaloedd hyn, ac i gadarnhau yr haeriad fod William Morgan yn disgyn o Marchudd ap Cynan.

Ceir yr achres ganlynol o Morgan yn yr amgueddfa Brydeinig yr hon a'n galluoga, fe allai, i ddangos ei ddisgyniad o Hedd Molwynog:—

Madoc ap Blithyn lloyd
Dickus o benmachno
llewelin
Morgan
John Morgan |-| lowry vz William John ap madoc ap Evan Tegin of Bettws
William morgan Bp llandaffe 1596 |-| Kathrin vz Georg ap Richard ap John 2ly See maried William ɖɖ lloyd of llanvair dalhaiarn
Morgan John Morgan |-| Jane vz Robert uza ap Robert ap Rees o blas Iolyn
William morgan 1596
Richard morgan
lowry
Margaret
Elizabeth vz Rob ap Rich ap madoc of penmachno
Evan Morgan
-Thomas ap John
Evan
Morris
Jane
Luce |-| Rhydderch ap Meredydd o Wydir
Dafydd a John.§

Os Bleddyn Lloyd o Hafod Unos oedd y Blithyn a geir ar ben yr achres uchod, yna yr oedd yr Esgob Morgan yn hanu o Hedd Molwynog. Oblegid yr ydym yn cael fod Bleddyn Llwyd Hynaf yn fab i Bleddyn Fychan ab Bleddyn ab Y Gwion ab Rhadfach

* Teithiau Pennant, tud. 599; Williams's Eminent Welshmen, p. 315; Geir. Cen. Cymru, tud. 246. † Athenæ Cantabrigiensis (1861), vol. ii., p. 393.
‡ Hist. Powys Fadog, vol. iii., p. 34. § Additional MSS. 9864, fol. 53b.

ab Assar ab Gwrgi ab Hedd Molwynog.* Ac oddi wrth achres arall a geir ddau dudalen ar ol yr un a ddyfynwyd (*Add. MSS.* 9864, fol. 55), yr hon sydd yn gyffelyb i'r llall, ond wedi ei chroesi trwy dynu dwy linell ar ei thraws, yr ydym yn cael mai Bleddyn Lloyd o Hafod Unos ydoedd. Rhyw achres lled ryfedd ydyw yr un a ddyfynasom; ac y mae yn lled anhawdd ei deall yn ei holl ranau. Y mae yn ddigon amlwg fod y rhan flaenaf o honi, sef o Bleddyn Lloyd hyd John, tad Esgob Morgan, yn dangos disgyniad o dad i fab, a gallwn grybwyll yn y fan hon fod un disgyniad yn ychwaneg yn yr un a geir ar tudal. 55. Yn ol hòno, yr oedd John Morgan yn fab Morgan ap Llewelyn ap *Meredith* ap Dickus o Benmachno ap Madoc ap Blethin Lloyd. Fe welir fod William Morgan yn ymddangos ddwy waith ynddi. Gellir meddwl ar y cyntaf mai efe oedd mab hynaf ei rieni,† ond gan y ceir ef wedi hyny ar ol Morgan ei frawd, y tebygolrwydd ydyw mai efe oedd yr ail fab, ac ar ei ol ef Richard, Lowry, a Margaret. Wedi hyny fe gyssylltir Elizabeth ferch Robert ap Richard ap Madoc o Benmachno fel disgynydd i Morgan John Morgan a'i wraig, ond tybiwn mai ag Evan Morgan y dylasai y cyssylltiad fod, oblegid nid oes dim synwyr yn ei bod yn ferch i Robert ap Richard ac ar yr un pryd i Morgan John Morgan. Tebyg yw mai Evan Morgan oedd yn fab i Morgan John Morgan, ac mai yr Elizabeth hon oedd ei wraig. Ar ol hyny cyssylltir Thomas ap John, Evan, Morris, Jane, Luce, Dafydd, a John, fel brodyr a chwiorydd i'r Esgob. Dyna ydyw ein eglurhad ni ar y daflen, ac os ydyw y daflen a ninnau yn gywir, bu i John Morgan ddeuddeg o blant, o ba rai yr oedd yr Esgob yn ail. Ac os cywir y daflen, ymgyfathrachodd rhai o'i frodyr a'i chwiorydd â'r teuluoedd mwyaf dylanwadol yn y wlad. Os priododd Morgan ap John Morgan Jane ferch Robert Wynn ap Robert ap Rhys, efe a briododd nith, ferch brawd i'r Dr. Coch o Blas Iolyn. A gellir meddwl fod y Rhydderch, y dywedir iddo ymbriodi â Luce, yn gefnder i awdwr yr *History of the Gwydir Family*. Gallai hyn fod, ond nid ydyw y ffeithiau, a'r casgliadau yr ydym yn cael ein tueddu i dynu oddi wrthynt. at ba rai y cawn alw sylw rhagllaw, yn ffafrio dilysrwydd y priodasau hyn. Ceisiwn sylwi eto yr edrychid ar y Morganiaid fel caeth-ddeiliaid, os felly nid ydyw yn debygol y buasent mor ffortunus yn eu cyssylltiadau priodasol. Ond y mae pethau cyffelyb wedi cymmeryd lle lawer gwaith, ac yr oedd yn ddichonadwy iddynt ddygwydd felly y tro hwn.

* Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 182; vol. v., p. 209.

† O bosibl mai o herwydd ei enwogrwydd yr ymddengys ei enw y waith gyntaf yn yr achres, ac fod yr ail gyfeiriad ato yn dynodi y drefn y safai ym mhlith plant John Morgan. Sylwer fod y daflen yn gosod ei benodiad i Esgobaeth Llandaf yn 1596; yn lle yn 1595, fel y dylasai fod.

Fe allai y goddefir i ni hysbysu fod yr ysgriflyfr o ba un y cymmerwyd yr achres uchod o hono yn un o bedair cyfrol (*Add. MSS.* 9864-7) o achau, pa rai a roddwyd i'r Amgueddfa Brydeinig, yn 1835, gan Mr. David Pennant. John Davies, o'r Rhiwlas, Llansilin, yr hwn oedd yn ei flodeu oddeutu dechreu y ddeunawfed ganrif, oedd y casglydd, ac y maent yn cynnwys nodiadau ychwanegol yn llaw Dafydd Jones, o Drefriw. Yr ydym yn nodi hyn er dangos ffynnonell yr achau uchod. Gallwn grybwyll i ni weled copi o lythyr a anfonwyd gan Mr. E. G. Salisbury (gynt o Gaerlleon) at y Parch. Thomas Closs, M.A., 3, Erlanger Road, New Cross Gate, Llundain; yn yr hwn y dywedai oddi ar awdurdod hawl-ysgrif (*title*) a welodd, fod i John Morgan dri o feibion, sef Ellis, William, a John, ac mai yn y drefn hòno y ganwyd hwynt. Yn gymmaint a bod Mr. Salisbury wedi ymgyssylltu trwy briodas ag un o ddisgynyddion John Morgan o'r Tŷ Mawr, yn Wybernant, ac wedi cael cyfleusdra i weled amryw o hen ysgrifau teuluaidd, yn gystal ag ar gyfrif ei safle fel ysgolhaig a hynafiaethydd, y mae rhyw gymmaint o ammheuaeth yn ein meddiannu gyda golwg ar gywirdeb yr achres dan sylw. Yr ydym yn gofidio ein bod o dan orfod i wneuthur hyn, gan ein bod megys yn taflu o'r neilldu ran o'r ychydig a geir parthed i wrthddrych ein testyn. Fe welir na chafodd Mr. Salisbury gyfeiriad ond at ddau frawd i'r Esgob; ac nid oes ond un o'r rhai hyny yn cael ei nodi yn yr achres. Ond gall y darllenydd feddwl fel y gwel yn oreu am hyn; yr ydym yn gosod yr achres yn hollol fel y mae yn yr Amgueddfa Brydeinig. Gwelsom amryw haeriadau yn ddiweddar am fodolaeth achresau cywir o'r teulu hwn, ond yr ydym yn ofni mai prin y daliant eu beirniadu, os nad oes rhai amgen nag a welwyd genym ni. Ond beth bynag a ddywedir yn y cyfeiriad hwn, a chan nad pa mor ammheus y dichon rhai o'r manylion achyddol fod, dylem gofio mai nid ar gyfrif ei waedoliaeth uchel, na'i haniad urddasol, y mae ei goffadwriaeth yn hawlio lle yng nghalon y Cymro.

Dywed Mr. T. W. Hancock, ac y mae efe yn awdurdod uchel ar y mater, mai yr Esgob oedd y cyntaf o'r teulu i fabwysiadu y cyfenw Morgan. Yr oedd ei dad yn myned yn ol yr *ap*, a'i hynafiaid yntau yn myned yn ol yr *apiau* gan gyfnewid yr enwau ar i fyny."* Nis gwyddom ar ba sail y gwneir yr haeriad hwn. Ond fel yr ydym yn gweled, Morgan oedd enw *taid* William Morgan; a dichon mai John ap Morgan y gelwid ei dad. Dywedir wrthym i'r arferiad o ddefnyddio yr *apiau* gael ei anghymmeradwyo y pryd

* Bye-Gones, 17th August, 1887.

hwn gan yr Esgob Rowland Lee, llywydd Llys y Cyffiniau.* Ac er i'r arferiad barhau yng Nghymru yn hir ar ol hyny, diammeu fod y rhai a gymmysgent â'r Saeson yn ymwrthod a hi i raddau pell. Yr oedd hyny yn ddiammeu yn gyfleus. Ac y mae yn bosibl i William Morgan, er mwn cydymffurfio â'r arferiad Seisonig, ymwrthod ar dull Cymreig ar ei fynediad i'r brif-ysgol. Pa fodd bynag, William Morgan a geir yn ysgrifenedig ar goflyfrau prif-ysgol Caergrawnt, oddigerth un waith yn unig, pryd y ceir "Morgayne." Ond y mae yn ymddangos fod y teulu yn arfer y cyfenw Morgan yn y bymthegfed ganrif. Ceir ychydig o hanes William Morgan arall gan Mr. E. G. Salisbury. Mab ydoedd hwnw i Rodpert ap John Morgan, ac yr oedd yn disgyn o Forganiaid Gwybernant, a ganwyd ef yn Henffordd yn y flwyddyn 1426; ac o'r hwn, yn ol Mr. Salisbury, yr oedd yr Esgob William Morgan yn disgyn mewn llinell union-syth.† Os felly, nid cywir haeriad Mr. Hancock mai yr Esgob oedd y cyntaf i ddefnyddio y cyfenw Morgan. Ond fe welir nad ydyw y William Morgan y sonia Mr. Salisbury am dano yn yr achres a ddyfynwyd.

Y mae amser genedigaeth William Morgan yn anhysbys; ond y mae y dyfaliadau yn lluosog. Dywed un ysgrifenydd fel hyn:—"Yn ol un hen ysgrif, ganwyd ef yn hen dŷ y teulu oddeutu 1530, ond y farn gyffredin ydyw iddo gael ei eni yn 1539."‡ Gresyn na ddywedasai yr ysgrifenydd pa le y mae yr ysgrif a noda i'w chael. Gosodir ei enedigaeth ar y goflech sydd uwch ben drws y Tŷ Mawr yn 1541. Dywed y Parch. William Roberts, Llanrwst, mai y gred fwyaf gyffredin ydyw iddo gael ei eni "tua 1543—os yr un, ychydig yn ddiweddarach."§ Tra y tybia Mr. T. W. Hancock‖ ei fod yn ddeunaw-a-deugain oed pan y bu farw; os felly, gan iddo farw yn 1604, ganwyd ef yn 1546. Y modd y mae Mr. Hancock yn dyfod i'r casgliad hwn ydyw trwy gymmeryd yn ganiataol mai un-ar-bymtheg oed ydoedd pan aeth yn is-efrydiwr (*sizar*) i Gaergrawnt. Hwn oedd yr oedran cyffredin, meddai ef, yn yr amser hwnw. Dywed iddo fyned i Gaergrawnt yn 1563, yr hyn, fel y cawn weled eto, sydd anghywir. Ond y mae genym hanes amryw yn myned yn îs-efrydwyr i'r prif-ysgolion mewn oedran addfetach nag un-ar-bymtheg. Yr oedd Richard White, y merthyr, yn ugain oed cyn iddo fyned i Rydychain, ac, wrth gwrs, ryw gymmaint yn hŷn cyn iddo fyned oddi yno i Goleg St. Ioan, Caergrawnt.¶ Ac yr oedd John Penry, merthyr arall, yn bedair-ar-bymtheg oed pan y derbyniwyd ef yn y cymmeriad hwnw i Goleg Peterhouse, Caergrawnt, yn 1578.** Y mae yn ymddangos

* Teithiau Pennant (arg. Humphreys), tud. 23.
† Bye-gones, 24th September, 1889. ‡ Ibid. 24th August, 1881.
§ Y Geninen, cyf. vi., tud. 245. ‖ Montgomeryshire Collections, vol. v., pp. 330, 331.
¶ Hist. Powys Fadog, vol. iii., p. 128. ** Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 73.

i ni fod y flwyddyn 1541, fel ei ceir ar y goflech uwch ben drws ei hen gartref, can debyced o fod yn gywir a'r un o'r dyfaliadau a nodwyd. Ond nid oes unrhyw gofnodion ar gael ag sydd yn penderfynu y mater y naill ffordd na'r llall.* Dywedwyd wrthym fod cofnodiad am briodas rhieni William Morgan i'w gael yn Bangor; ond erbyn holi, cafwyd allan nad ydyw y coflyfrau priodasol yn y lle hwnw yn dechreu yn gynnarach na'r flwyddyn 1686. Dechreua y coflyfr hynaf sydd yn perthyn i blwyf Penmachno yn 1714; ac nid ydyw yr hynaf a berthyna i blwyf Dolwyddelen yn dyddio ym mhellach yn ol na'r flwyddyn 1737. Felly, ofer ydyw edrych am unrhyw gofnodion mewn perthynas i John Morgan na'i blant yn y coflyfrau plwyfol.

Y mae y modd y derbyniodd ei addysg yn flaenorol i'w fynediad i'r brif-ysgol yn sylfaenedig ar draddodiad yn unig. Y traddodiad ydyw i fynach, pan ddiddymwyd y mynachlogydd, ffoi am nodded i'r Tŷ Mawr. Pwy oedd y mynach hwn nis gwyddom, ond dywedir ei fod yn berthynas i John Morgan. Ymgymmerodd y ffôadur â'r gorchwyl o addysgu William ieuanc, ac ym mhen amser aeth y sôn ar led y cwm ei fod yn ysgolhaig rhagorol. Aeth hyn i glustiau Wynn—Maurice Wynn, mae'n debyg — o Wydir ;† yr hwn a anfonodd am dano. Aeth John Morgan a'r bachgen gydag ef i Wydir, a chafodd y boneddwr fod yr adroddiad a glywodd am ddysgeidiaeth yr olaf mewn ieithoedd yn ddigon gwir. Ac ar ol peth siarad, addawodd Wynn y buasai yn gwneuthur rhywbeth ym mhellach yn ei ffordd, gan awgrymu y dylasai gael ei anfon i un o'r prif-ysgolion. Ond yr hyn a'i synai yn fawr oedd pa fodd yr oedd y llanc wedi dysgu cymmaint. Pa fodd bynag, gan fod Wynn yn gymmaint gelyn i'r Pabyddion, cadwyd hyny yn gyfrinachol o dan ryw esgusawd neu gilydd. Dyna sylwedd y traddodiad a glywir heddyw yn ardaloedd Penmachno a Dolwyddelen. Ac y mae yn cael ei gadarnhau gan un arall i'r perwyl fod John Morgan a'i deulu yn dra phleidiol i'r hen grefydd.

Ar y mynydd uwch law cwm y Wybernant gwelir meini, y rhai a elwir gan yr hynafiaethwyr lleol yn "Feini Cred." Ar y meini hyny byddai y Pabyddion defosiynol yn gwneuthur llun y groes â'u bysedd wrth fyned heibio. Os byddai y rhigolau pwrpasol at y ddefod hon wedi eu llenwi â chèn, byddai yn arwydd fod y wlad yn myned yn ddi-weddi. Ond dywed traddodiad mai un o hoff ddywediadau mam yr Esgob Morgan, pan yr oedd yn

* Dywed Mr. E. G. Salisbury wrthym, iddo efe weled hen bapyrau teuluaidd yn gosod genedigaeth William Morgan yn y flwyddyn 1542. Ac y mae hyn yn lled agos i amseriad y goflech.

† Y mae yn ddigon eglur mai nid awdwr yr *History of the Gwydir Family* ydoedd, oblegid yn 1553 y ganwyd hwnw.

bugeilio defaid ei dad ar Fwlch-y-Groes, oedd:—"'Rwy'n dysgwyl rhywbeth mawr oddi wrth William; gan na welais yr un mwy gofalus nag ef am ddyweyd ei baderau wrth y meini cred." Ac, yn sicr, nis gallasai mynach gael gwell lle i ymguddio na'r cwm neillduedig hwn, pan, fel y mae yn dra thebyg, yr oedd hyny o breswylwyr oedd ynddo y pryd hwnw yn caru yr hen ddysgeidiaeth yn fwy na'r newydd. A dywedir fod drws wedi ei dori yng nghefn y Tŷ Mawr fel y gallasai y mynach ddianc pe dygwyddasai erlidwyr ddyfod heibio. Ond pa hyd yr arhosodd yno, na pha beth a ddaeth o hono ar ol hyny, ni ddywedir. Os gwir y traddodiadau hyn, Pabyddion oedd rhieni William Morgan, a chafodd yntau, fel William Salesbury, ei ddwyn i fyny ar ddechreuad ei yrfa o dan ddylanwad y grefydd hòno.

Y mae Syr John Wynn yn awgrymu mai yn Gwydir y derbyniodd ei addysg. Ond o bosibl mai hynodrwydd y bachgen fel ysgolhaig a'i dygodd i sylw Wynn o Wydir gyntaf; ac iddo gael rhyw gymmaint o fanteision ychwanegol yno cyn ei anfon i'r brif-ysgol. Pa fodd bynag, geiriau Syr John ydynt, ei fod "yn disgyn o hiliogaeth caethion y dref hòno, ac yr oeddynt (efe a'i hynafiaid) yn wasanaethwyr tŷ Gwydir, lle y dygwyd ef i fyny mewn addysg."* "Ac yn gysson â hyn," medd y Parch. William Roberts, Llanrwst, "y dywed fy nghyfaill Gwilym Cowlyd wrthyf iddo ef ddarllen mewn hen ysgriflyfr o eiddo Dafydd Sion o Drefriw, yr hwn a oesai yn gynar yn y ganrif ddiweddar, fod W. Morgan wedi derbyn rhan o'i addysg yn Llanrwst; a chawn fod un Griffith Jones yn ysgolfeistr yn y dref hon ychydig yn ddiweddarach; felly, nid annhebyg fod yma ysgol pan oedd Morgan yn blentyn, ac iddo yntau gael ei anfon iddi."† Pa fodd bynag, y mae yn dra sicr mai lled ychydig o fanteision addysgawl a allasai fod yng nghyraedd ieuenctyd y Wybernant pan oedd William Morgan yn fachgen. Sefydlwyd amryw o ysgolion gramadegol yn Lloegr yn amser Edward VI. Ond nid ydym yn cael i uwch law chwech o'r cyfryw ysgolion gael eu sefydlu yng Nghymru yn ystod yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, ac yr oedd dwy o honynt o ddyddiad diweddarach na bachgendod William Morgan. Sefydlwyd un yn Tŷ Ddewi rywbryd tuag amser y Diwygiad Protestanaidd, ond gan bwy nis gwyddom. Sefydlwyd ysgol yn Presteign, yn 1505, trwy haelioni un John Beddoes; *Christ College* yn Aberhonddu, yn 1542, trwy freinlen Harri VIII.; Ysgol y *Friars* yn Bangor, 1557, trwy haelioni y Dr. Geoffrey Glynne; Ysgol Caerfyrddin, 1575, gan y Frenhines Elizabeth; ac Ysgol Rhuthyn, 1595, gan y Dr. Gabriel Goodman, Deon

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 95. † Y Geninen, cyf. vi., tud. 245.

Westminster.* At y rhai uchod gellir ychwanegu ysgol a berthynai i Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yr hon, yn 1548, a orchymmynwyd i'w pharhau gan Ddirprwywyr Edward VI.† Diammeu hefyd fod ysgolion elfenol yn cael eu cynnal yn mhrif drefydd y Dywysogaeth. Yr ydym yn cael i Rawlins White, yr hwn a ferthyrwyd yng Nghaerdydd yn 1555, anfon ei fachgen i'r ysgol i ddysgu darllen Saesoneg, i'w alluogi i ddarllen y Beibl iddo yn yr iaith hòno.‡ Yn 1561, sefydlwyd llawer o ysgolion gan yr Esgob Thomas Davies yn Esgobaeth Llanelwy, fel y gellid dwyn yr ieuenctyd i fyny "i garu ac ofni Duw, ac mewn gwybodaeth o'u dyledswyddau tuag at y byd."§ Ysgolion Protestanaidd oedd y rhai hyn; er, eto, y mae genym brofion fod amryw o ysgolion yn perthyn i'r Pabyddion yn rhai manau. Ysgolfeistr yn perthyn i'r Pabyddion oedd Richard White, y merthyr.‖ Dengys hyn fod adfywiad ar addysg yn cymmeryd lle yn y cyfnod hwnw.

Ond y mae y ffaith fod braint y clerigwyr (*benefit of clergy*), neu y rhyddhâd a ganiateid i bersonau euog o droseddau a fedrent ddarllen, rhag cael eu profi o flaen y llys gwladol, yn cael ei rhoddi i unrhyw lëygwr yn yr amser hwn yn profi pa mor anllythyrenog oedd y deyrnas. Ond yn y flwyddyn 1757, pasiwyd deddf seneddol yn cyfyngu ar yr hawlfraint hon i gryn raddau, can belled ag yr oedd yn dwyn cyssylltiad â'r llëygwyr. Y mae hyny yn awgrymu fod y llëygwyr yn dyfod yn fwy dysgedig, ac fod cyfleusderau addysgawl yn dyfod yn fwy cyffredin. Oblegid pe caniatesid yr hawlfraint hon bellach i bob llëygwr a allasai ddarllen, buasai y nifer a allasai ei hawlio yn myned yn rhy luosog. Hefyd, wrth edrych dros restr o'r clerigwyr yn Esgobaeth Llanelwy o ddechreuad y Diwygiad Protestanaidd hyd ddechreu yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg, yr ydym yn cael fod 2 o honynt yn cael eu dysgrifio fel B.A., 29 yn M.A., 11 yn B.D., 21 yn D.D., 15 yn LL.B., ac 16 yn LL.D., yn gwneuthur cyfanrif o 93; a gellir casglu oddi wrth eu henwau fod 70 o honynt, o leiaf, yn dal cyssylltiad teuluaidd â'r Dywysogaeth. Yr oedd y rhai a allent hebgor yn anfon eu plant i ysgolion ar gyffiniau Lloegr, megys yr Amwythig, i barotoi gogyfer a'r prif-ysgolion. Ond yr hyn yr ydym yn ei ddadleu ydyw, mai ychydig o ysgolion oedd i'w cael mewn cymoedd anhygyrch fel y Wybernant. Pa fodd bynag, derbyniodd William Morgan ddigon o addysg i'w gymhwyso i fyned i Gaergrawnt, naill ai gan y mynach fföedig, neu yntau yn Llanrwst, ac fe allai trwy y naill ffynnonell a'r llall.

* The Sunday Schools of Wales, p. 75, *et seq.*
† Y Cwtta Cyfarwydd, Introductory Chapter, p. v.
‡ Hanes Crefydd yn Nghymru, tud. 432. § Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 87.
‖ Hist. Powys Fadog, vol. iii., p. 129.

Am amgylchiadau rhieni William Morgan, nid oes genym ddim hysbysrwydd pendant. Ond y mae amryw awgrymiadau ar gael ag sydd yn ein tueddu i dybied nad oeddynt ond amaethwyr cyffredin. Yn ol traddodiad sydd yn yr ardal, yr oedd John Morgan yn rhydd-ddeiliad (*free-holder*) pedair o ffermydd yn yr un gymmydogaeth, sef y Tŷ Mawr, yn yr hwn y preswyliai, Hafod-fraith, Llechwedd Hafod, a Talar Gerwin. A dywedir i'r tiroedd hyn gael eu marwystlo (*mortgaged*) i Wynn o Wydir i'r amcan o gael arian i dalu treuliau addysgawl William. Ond nid yw hyn mewn un modd yn debygol. Yn y lle cyntaf, fel îs-efrydiwr (*sizar*) yr ymaelodlodd William yng Nghaergrawnt. Is-efrydwyr oedd y dosbarth hwnw a dderbynient eu haddysg yn gyfnewid am ddyledswyddau a gyflawnent; ac nid oeddynt ond megys gweision i'r cyd-gyffredinwyr (*fellow-commoners*). Yr oedd y *sizars* y pryd hwnw yn gorfod cyflawni dyledswyddau am eu haddysg a fuasent yn cael eu hystyried yn awr yn ddiraddiol. Ond y mae hyn oll wedi cyfnewid er ys llawer dydd. Pa fodd bynag, y mae yn dra thebyg pe buasai ei rieni yn gyfoethog mai nid yn y cyflwr hwn y buasai eu mab yng Nghaergrawnt. Ac y mae y ffaith hon yn dangos, hefyd, gan mai is-efrydiwr ydoedd, nad oedd angen o gwbl am farwystlo'r tiroedd i dalu am ei addysg.

Yn llythyrau Wynn a Morgan at Mr. Martyn, yr ydym yn cael cip-olwg ar berthynas Wynniaid Gwydir a'r tiroedd dan sylw. Dywed Syr* John:—

Yn gyntaf, rhoddais iddo brydles ar ei fferm yn Wybernant, rhan o drefddegwm Dolwyddelen, am ddeugain mlynedd, am ddeugain punt. Gosododd yntau y fferm am yr ardreth flynyddol o bedair-punt-ar-hugain; ac oddi wrth yr hon, can belled ag yr wyf yn cofio, y mae ardreth frenhinol o wyth swllt a dwy geiniog.

Pan yn mesur y fferm ddywededig gyda fy fferm a elwir Penannen, caniateais iddo dir yn Pant yr Helygloyn, gwerth tair punt yn y flwyddyn; am yr hyn y cefais fy ngheryddu yn fawr gan Owen Wynn, fy ewythr.†

Ond fel hyn yr adroddir yr ymdrafodaeth hon gan yr Esgob:—

I ddyfod at y cymmwynasau a wnaeth Mr. Wyn i mi, nid ydynt mor fawrion ag eu cyfrifir ganddo ef; oblegid mi a delais iddo am ei amser ar y Wybernant, ac i Robert ei ewythr, £40 neu ychwaneg ar yr un adeg, yr hyn oedd swm mwy nag a gawsant gan neb o'r tenantiaid eraill ag sydd yn dal tiroedd cyffelyb yn y drefddegwm hòno. Yr wyf yn gweddio ar Dduw am iddo faddeu i Mr. Wyn am ei ymddygiad caled at y tenantiaid hyny, tyddynod y rhai ni allasai eu chwennych yn ddibechod. Wrth fesur Pant yr Helygloyn, mi gefais lai nag a ddywedir

* Yr ydym yn ei deitlo yn *Syr* er mwyn cyfleusdra, er na chafodd ei urddo yn Farchog hyd 1611. † Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 137.

gan rai oedd yn ddyledus i mi, a mwy nag yr ewyllysid gan eraill; ac am yr hyn yr oeddwn dan orfod i godi clawdd ceryg, neu dyweirch, rhyngof fi ag ef er fy mawr golled.*

Rhaid addef fod yn anhawdd esbonio rhai rhanau o'r dyfyniadau uchod. Ond y mae yn ymddangos i ni oddi wrth eu rhediad mai fel nawdd-ddeiliaid (*copy-holders*) yr oedd y Morganiaid yn dàl y tiroedd dan sylw—neu, mewn geiriau eraill, caeth-ddeiliaid oeddynt, a Wynniaid Gwydir oedd yr arglwyddi tirol, neu yr "uchelwyr." Yng *Nghyfreithiau Hywel Dda*, yr ydym yn cael y fath eiriau a "mab aillt," "taeog," "tir cyfrif," ac felly ym mlaen. Math o gaethweision oedd y meibion eilltion a'r taeogiaid, a gelwid y tir a ddalient yn "dir cyfrif"; ac yr oeddynt i dalu eu hardreth mewn cynnyrchion amaethyddol ac mewn gwasanaeth corfforol i arglwydd y tir. Yn niffyg hyny yr oeddynt i dalu swm o arian a elwid "punt dwng" (*fealty pound*).† Ac y mae Mr. Alfred N. Palmer, Gwrecsam, yr hwn sydd wedi talu sylw neillduol i'r mater yma, yn profi mai cynnrychiolwyr y taeogiaid ydyw y nawdd-ddeiliaid (*copy-holders*) a geir eto mewn rhai manau; ac i lawer o'r nawdd-ddeiliaid hyn ddyfod yn brydles-ddeiliaid (*lease-holders*) yn amser y Frenhines Elizabeth.‡ Dywed Blackstone fod y nawdd-ddeiliaid ar rai maenorau (*manors*) yn gorfod cyflawni gwasanaeth o'r fath iselaf i'w harglwyddi, megys cau a chloddio, tori coed, medi yr ŷdau, a'r cyffelyb.§ Yr oeddynt, wedi'r cyfan, yn meddu hawl yn eu tiroedd, ac nis gellid eu troi ymaith. Ac ar farwolaeth tenant, yr oedd ei dir i fyned, nid i'r arglwydd, ond i etifedd y trengedig. Yn amser y Frenhines Elizabeth, daeth yn arferiad i osod tiroedd o'r natur yma ar brydles am yspaid o ddeugain mlynedd. Yr oedd y tenant trwy hyn yn rhoddi swm o arian yn flynyddol i'w arglwydd, yr hwn drachefn oedd i dalu rhan o honynt i'r Goron. Ac y mae yn ymddangos i ni mai deiliadaeth o'r natur yma oedd eiddo y Morganiaid ar eu tiroedd. Yr ydym yn dyfod i'r casgliad hwn oddi ar yr ystyriaethau a ganlyn:—

(1). Dywed Syr John fod William Morgan yn hanu o gaethion Nant Conwy, ac ei fod ef a'i hynafiaid yn wasanaethwyr tŷ Gwydir. Y mae yn debyg felly mai etifeddiaeth gaeth-ddeiliadol llinach Nefydd Hardd oedd hon, yn hytrach nag eiddo llinachau urddasol Hedd Molwynog a Marchudd ap Cynan.

(2). Cafodd William Morgan brydles ar ei fferm am ddeugain mlynedd, am ddeugain punt. Yr hyn, yn ol fel yr ydym yn casglu, nid oedd ond yn ol punt yn y flwyddyn. Oblegid ni buasai raid

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 139-40. † Myv. Arch., p. 990, *et seq.*
‡ Hist. of Ancient Tenures of Land in the Marches of North Wales, p. 109.
§ Blackstone's Commentaries, Book II., p. 96, note.

i Syr John, pe deugain punt yn y flwyddyn ydoedd, roddi y fath bwys ar y ffaith fod yr Esgob yn derbyn pedair punt ar hugain yn y flwyddyn am dani. Y mae y rhent bychan a dalai yr Esgob yn awgrymu fod ganddo hawl ynddi. Ond pa fodd i gyssoni y swm a ddywedir gan Syr John â'r hyn a ddywedir gan yr Esgob, sef ei fod wedi talu "£40 neu ychwaneg ar yr un adeg," nis gwyddom; oddieithr iddo dalu arian y deugain mlynedd ar un waith.

(3). Y mae yr hyn a ddywed yr Esgob am "diroedd *cyffelyb* yn y drefddegwm hòno," am "ymddygiad caled" Wynn tuag atynt, a'i fod yn "chwennych" eu tyddynod, yn awgrymu fod rhyw neillduolrwydd yn perthyn i'w deiliadaeth hwy amgen na thenantiaid cyffredin, ac fod tiroedd yr Esgob yn *gyffelyb*.

(4). Hefyd, oddi wrth grybwylliadau a geir yn ewyllys John Wynn ap Meredydd—taid Syr John Wynn o Wydir—yr hon a wnaed ar yr 21ain Mehefin, 1559, gwelir fod amryw o'r tiroedd a nodir ynddi yn dwyn ardreth i'r Goron.* Y mae yn wir nad oes ynddi gyfeiriad at y Tŷ Mawr, ond y mae ar yr un pryd yn awgrymu fod y Wynniaid yn arglwyddi yn ol yr hen drefn wriogaethol (*feudal tenure*), neu yn "uchelwyr" yn ol yr ystyr a roddir i'r gair yn y Cyfreithiau Cymreig.

Y mae yr ystyriaethau uchod yn ein tueddu i gredu nad oedd rhieni William Morgan, a dyweyd y lleiaf, yn gyfoethog. Hefyd, y mae y ffaith i'r Esgob gymmeryd prydles ar diroedd ei hynafiaid yn awgrymu fod ganddo ef fwy o afael arnynt na'r plant eraill. Y mae yn wir y dywed Mr. Salisbury, yn y llythyr y cyfeiriasom ato eisoes,† i Ellis Morgan, brawd hynaf yr Esgob, ddyfod i feddiant o gyfran fechan o'r tiroedd a berthynent i'w dad. Pa fodd bynag, cymmerodd yr Esgob brydles ar ran, o leiaf, o honynt; y rhai a osodid ganddo am yr ardreth flynyddol o bedair punt ar hugain. Dengys hyn ei fod yn parhau i ddal rhyw gyssylltiad â'i hen gartref hyd ddiwedd ei oes. Oblegid, gan na ddaeth etifeddiaeth Gwydir i feddiant Mr. (wedi hyny Syr) John Wynn hyd pan fu farw ei dad yn 1580, rhaid fod dyddiad y brydles ar diroedd y Tŷ Mawr yn ddiweddarach na'r flwyddyn hòno. Pa fodd bynag, y mae yn ffaith i'r Tŷ Mawr, Hafod-fraith, Llechwedd Hafod, a Thalar Gerwin fyned yn rhan o etifeddiaeth Gwydir, ac wedi hyny i berthyn i etifeddiaeth Wynnstay. Yn 1826, prynwyd hwynt gan Syr Edward Lloyd, Pengwern (wedi hyny Arglwydd Mostyn); ac yn 1854, daethant trwy bryniad yn feddiant i Arglwydd Penrhyn. Ond nid ydyw y Tŷ Mawr mwyach ond annedd-dŷ cyffredin, gan fod y tiroedd a berthynent iddo wedi eu cyssylltu â ffermydd y Tŷ Coch a Thalar Gerwin.

* Bye-gones, 8th March & 18th April, 1888. † Gwel tudal. 97 o'r Traethawd hwn.

Dywed y diweddar Gethin Jones fod William Morgan yn ddeunaw mlwydd oed cyn iddo adael ei gartref, ac iddo dreulio y tair blynedd dilynol yn Gwydir, Plas Isaf, a Maenan; ac iddo aros am ddeuddeg mlynedd ar ol hyny yn y Coleg.* Gosodir ei enedigaeth gan Gethin yn 1541; ac os ydyw yn gywir, yn 1559 y cychwynodd Morgan oddi cartref, a bu yn y Coleg o 1562 hyd 1574; ac yr oedd yn dair ar ddeg ar hugain oed pan adawodd Gaergrawnt. Ond er y dichon ei fod mewn rhan yn gywir, gwyddom ei fod yn anghywir yng nghylch amser ei fynediad i'r Brif-ysgol. Pa fodd bynag, nid efe yw yr unig un sydd yn methu. Ac y mae yn bosibl fod yr ansicrwydd yng nghylch hyn wedi tarddu o'r ffaith fod coflyfrau (*registers*) Coleg St. Ioan, Caergrawnt, lle yr ymaelododd Morgan, ar goll o amser ei sefydliad yn 1511 hyd 1620. Felly nid oes dim gwybodaeth i'w gael yn ei gylch o'r ffynnonell hòno. Ond wrth chwilio coflyfrau y Brif-ysgol, ceir iddo gael ei wneuthur yn is-efrydiwr anghyflawn (*sub-sizar*) ar y 26ain o Chwefror, 1564-5; ac ar y 9fed o Fehefin, 1565, derbyniwyd ef yn is-efrydiwr cyflawn (*proper sizar*) ar waddoliad y Dr. Dowman, ac ar gais cyd-gyffredinwr (*fellow-commoner*) a elwir Master Dalsyno. Dymunem i'r darllenydd sylwi ar y dyddiadau uchod am fod rhai ysgrifenwyr, megys Cooper† a T. W. Hancock,‡ yn dyweyd i Morgan gael ei dderbyn yn is-efrydiwr cyflawn (*proper sizar*) yng Ngholeg St. Ioan ar y 9fed o Fehefin, 1563, yr hyn, yn ol coflyfrau y Brif-ysgol sydd gamgymmeriad. Carasem wybod mwy am y Master Dalsyno a wasanaethid gan Morgan am ei addysg; ond hyd y gwyddom nid oes dim hysbysrwydd yn ei gylch. Y tebygolrwydd ydyw na enwogodd lawer arno ei hun; ond daeth ei is-efrydiwr yn fendith ammhrisiadwy i'w genedl. Graddiodd William Morgan yn B.A. yn 1567-8; ac ymddengys ei enw, medd Mr. T. W. Hancock, yr wythfed a thriugain yn yr "*Ordo Semiditatis*" gradd y B.A. yn y flwyddyn hòno.§ Y mae yn debyg mai yr hyn a feddyliai Mr. Hancock ydoedd fod Morgan—fel y gwelir ei fod, yn ol coflyfrau y Brif-ysgol—yr wythfed a thriugain yn yr "*Ordo Senioritatis*," yr hyn sy'n dangos trefn ei hynafedd (*seniority*) ym mysg ei gyd-raddedigion, ac yn cyfateb i'r *Tripos* o ddyddiad diweddarach. Dechreuodd (*incepted*) ar ei radd o M.A. yn 1570-1; ond pa hyd yr arhosodd, os arhosodd o gwbl, yn y Brif-ysgol wedi cymmeryd y radd hòno, nis gwyddom. Tybia rhai iddo aros yno am beth amser wedi hyny yn y swydd o gaplan neu bregethwr.‖ Ond dichon fod y dybiaeth wedi tarddu oddi ar yr hyn a ddywedir gan Cooper a Mayor, sef iddo gael ei benodi

* Gweithiau Gethin, tud, 386. † Cooper's Athenæ Cantabrigiensis, vol. ii., p. 393.
‡ Montgomeryshire Collections, vol. v., p. 330. § Ibid.
‖ Y Geninen, cyf. vi., tud. 246.

yn un o bregethwyr y Brif-ysgol yn 1578.* Ond gan ei fod yn dal bywoliaeth Gymreig er ys tair blynedd cyn hyny, nis gallai y fath swydd fod amgen na mygedol. A hysbyswyd ni gan y Dr. Luard, Cofrestrydd Prif-ysgol Caergrawnt, iddo ef fethu a chael unrhyw gofnodiad yn y coflyfrau yn profi y penodiad hwnw; er yr addefa fod hyny yn eithaf tebygol. Yn ychwanegol at ei raddau, derbyniodd y teitl o B.D. yn 1578, a gwnaed ef yn D.D. yn 1583, yr hyn sydd yn profi ei fod yn cael ei ystyried yn ŵr tra dysgedig.

Ond beth am sefyllfa y Prif-ysgolion yn y cyfnod hwn? Yr ydym yn cael adroddiadau lled anffafriol am danynt yn fuan ar ol esgyniad Elizabeth. Mewn llythyr at Henry Bullinger, dyddiedig 22ain o Fai, 1559, dywed John Jewel:—"Y mae ein prif-ysgolion mor isel a dirywiedig, fel nad oes prin ddau yn Rhydychain o'r un feddwl a ni; ac y maent hwy mor llwfr a digalon fel nas gallant wneuthur dim."† Dywed yr un ysgrifenydd mewn llythyr at Peter Martyr, dyddiedig 22ain Mai, 1560:—"Yn y cyfamser, y mae ein prif-ysgolion, a Rhydychain yn neillduol, wedi eu gadael mewn sefyllfa druenus; heb ddysgeidiaeth, heb ddarlithiau, ac heb unrhyw ystyriaeth am grefydd."‡ Rhaid cofio, fodd bynag, fod y dysgrifiad hwn yn cael ei roddi yn fuan ar ol marwolaeth y Frenhines Mary, ac nad aeth Morgan i Gaergrawnt am agos i chwe' blynedd ar ol marwolaeth y frenhines hòno. Ond ymddengys fod sefyllfa pethau wedi cyfnewid yn fawr cyn ymadawiad Morgan oddi yno. Dywed Rodolph Zuingluis§ mewn llythyr at yr Esgob Sandys, dyddiedig 26ain o Ionawr, 1572, ei fod yn dra diolchgar iddo nid yn unig am ddarparu lle iddo ym Mhrif-ysgol flodeuol Caergrawnt, ond am gael mynediad iddo i'r coleg enwocaf, sef Coleg St. Ioan, "ym mysg myfyrwyr difrifol." Dywed ym mhellach:—"Ac yr wyf yn llawenhau, nid yn unig o'm rhan fy hunan, ond am fod genyf y fraint a'r cyfleusdra i wrando ar y gŵr enwog a dysgedig hwnw, Meistr Antony Chevalier, i'r hwn nis gall ein Germany yn brin ddangos ei gyfartal mewn gwybodaeth o'r Hebraeg, oddigerth Immanuel Tremellius, yr hwn a glywais yn darlithio yn y modd mwyfaf galluog yn Heidelberg, yn y Deyrn-iarllaeth, ac oddi wrth ddarlithiau yr hwn, yr wyf yn tybied, y derbyniais fudd nid bychan; ac nid wyf yn meddwl, os caniata yr Arglwydd o'i ras, y derbyniaf lai o fudd oddi wrth yr athraw hwn."‖

* Cooper's Athenæ Cantabrigiensis, vol. ii., p. 393; Baker's Hist. St. John's Coll. (Prof. Mayor's Edition), vol. i., pp. 253, 254.

† Zurich Letters (1558-1579), pp. 33, *et seq.* ‡ Ibid. p. 77.

§ Yr oedd Rodolph Zuingluis yn ŵyr i Zuinglius, neu Zuingli, y Diwygiwr, ac yn ŵyr hefyd i Henry Bullinger.

‖ Zurich Letters (Second Series, 1558-1602), pp. 189, 190.

Y mae yn ddiammeu i Morgan gael cyfleusdra rhagorol i ddysgu Hebraeg. Fel y sylwa Zuingluis ieuanc, yr oedd John Immanuel Tremellius ac Antony Rodolph Chevalier yr Hebreigwyr goreu yn eu hoes. Iuddew dychweledig oedd Tremellius, a dilynodd Fagius fel proffeswr Hebraeg yng Nghaergrawnt yn 1550. Ar ol hyny daliodd swydd gyffelyb yn Heidelberg; ac yn 1575, bu yn gyfranog â Francis Junius i gyhoeddi cyfieithiad Lladin o'r Hen Destament.* Protestant Ffrengig oedd Chevalier, ac efe oedd athraw Ffrancaeg y Dywysoges Elizabeth. Ar farwolaeth Edward VI. ymneillduodd i Germany, a phenodwyd ef yn athraw Hebraeg yn Strasburgh. Ac yn 1569, ar gymmeradwyaeth yr Arch-esgob Parker, penodwyd ef yn olynydd i Tremellius yng Nghaergrawnt; a gwnaed ef hefyd yn gorfudd (*Prebendary*) yng Nghaergaint; ond bu farw yn y flwyddyn 1572.† Gwnaeth y gwŷr hyn lawer tuag at boblogeiddio astudiaeth o'r iaith Hebraeg ym Mhrif-ysgol Caergrawnt, a hyny yn yr adeg yr oedd Morgan yno. Am yr iaith Roeg, gellir sylwi fod Syr John Cheke, yr hwn oedd yn aelod o Goleg St. Ioan, wedi dwyn astudiaeth o'r iaith hòno i sylw neillduol mor gynnar a'r flwyddyn 1540. O'r hyn lleiaf, cafodd ei benodi yn broffeswr Groeg yn y flwyddyn hòno, ac yn y tair blynedd dilynol gwnaeth gymmaint ag a allai i adferu, yn ol ei dyb ef, y drefn gyntefig o'i llefaru.‡ Credwn y rhydd y ffeithiau hyn gyfrif am ddysgeidiaeth Morgan.

A pha olygiadau bynag a goleddai Morgan yng nghylch ffurflywodraeth eglwysig cyn ei fynediad i'r brif-ysgol sicr ydyw iddo ddyfod oddi yno yn Brotestant. Ond, er dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb, dichon mai Protestant ydoedd cyn ei fynediad oddi cartref, er fod y traddodiad iddo dderbyn ei addysg foreuol gan fynach yn awgrymu yn wahanol. Pa fodd bynag, Protestant aiddgar oedd y Dr. William Bill, yr hwn oedd benaeth Coleg St. Ioan, yn ystod rhan o arhosiad Morgan yno; a Phrotestant oedd Nicholas Shepherd, penaeth y Coleg yn y rhan olaf o'i arhosiad. Yn wir, yr oedd y Coleg hwn wedi hynodi ei hun cyn hyn fel sefydliad Protestanaidd. Ym mhlith ei benaethiaid blaenorol gellir nodi Thomas Lever, yr hwn a ddiswyddwyd ar esgyniad Mary, a James Pilkington, wedi hyny Esgob Durham. Ac ystyrid ef yn nechreu yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg y Coleg goreu yn Nghaergrawnt. Yr ydym yn cael prawf o hyn mewn llythyr dyddiedig y dydd olaf o Dachwedd, 1606, a anfonwyd gan William Holland at Syr John Wynn o Wydir. Dywed:—"Yr wyf yn deall oddi wrth eich llythyrau eich bod yn bwriadu anfon eich meibion i'r brif-ysgol hon, can gynted ag y byddwch wedi penderfynu ym

* Zurich Letters (Second Series, 1558-1602), pp. 97, 190, note. † Ibid.
‡ Penny Cyclop., vol. vii., p. 28.

mha goleg, ac o dan ba athraw, y gosodwch hwynt. O'm rhan fy hunan, yr wyf yn barnu mai Coleg St. Ioan [Caergrawnt] ydyw y goreu heb eithrio yr un (*omni exceptione majus*); ac heb fod israddol i unrhyw goleg yn nygiad boneddigion ieuainc i fyny, ac y mae y tŷ goreu a chymhwysaf ag y gellwch anfon eich meibion iddo."* Hefyd, y mae yn deilwng o sylw fod y dynion enwocaf mewn byd ac eglwys yn amser Elizabeth wedi derbyn y rhan olaf o'u haddysg yng Nghaergrawnt. Yno yr addysgwyd yr Arch-esgobion Parker, Grindal, a Whitgift; Robert Devereux, Iarll Essex; Thomas Sackville, Iarll Dorset; Syr Nicholas Bacon, Francis Bacon, Syr Francis Walsingham, Syr John Harrington, Syr Edward Coke, Syr Henry Spelman, Edmund Spenser, y bardd Seisonig; William Cecil, Arglwydd Burleigh; a Robert Cecil, Iarll Salisbury; ac yr oedd y ddau olaf yn aelodau o Goleg St. Ioan. Gallwn sylwi hefyd fod y personau ag y dywed Morgan iddynt ei gefnogi a'i gynnorthwyo yn y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau, ag eithrio y Dr. David Powel, wedi cael eu dwyn i fyny yng Nghaergrawnt. Gorphenodd y Dr. William Hughes, Esgob Llanelwy, ei addysg yn Ngholeg Crist; ond derbyniodd y Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster; y Dr. Hugh Bellot, Esgob Bangor; y Dr. Richard Vaughan, a'r Archddiacon Edmund Prŷs, eu haddysg yn Ngholeg St. Ioan. Ac y mae yn dra thebyg i Morgan ddyfod yn gydnabyddus â'r tri olaf yn y Coleg.

Y mae yr amserau y cafodd William Morgan ei ordeinio yn ddiacon ac offeiriad yn gwbl anhysbys. Y fywoliaeth eglwysig gyntaf a gafodd, ag y mae genym hanes am dani, ydoedd ficeriaeth y Trallwm; yn yr hon yr olynodd Robert Comis, ar yr 8fed o Awst 1575, trwy gyflwyniad yr Esgob Hughes o Lanelwy.† Nid oes genym ddim o'i hanes yma; ac y mae yn debyg iddo roddi y fywoliaeth hon i fyny ar ei dderbyniad o ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant, 1af Hydref, 1578; oblegid yr ydym yn cael i Hugh Davies gael ei gyflwyno i ficeriaeth y Trallwm yn 1579. Rhagflaenydd Morgan yn Llanrhaiadr ym Mochnant, yn ol Edward Edwards,‡ oedd Oliver ab Thomas, ond dywed yr Archddiacon Thomas§ mai Peter ap David ap Rhys ydoedd. Ac yma y dywedir iddo gyfieithu yr Ysgrythyrau, yr hyn a gaiff ein sylw yn y bennod nesaf. Ymddengys iddo roddi ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant i fyny yn 1588, oblegid yr ydym yn cael i Evan Morgan, B.D., gael ei gyflwyno iddi yn y flwyddyn hòno;

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 144.

† Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., pp. 107, 410; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 795.

‡ Browne Willis's St. Asaph, vol. i., p. 335. § Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 523.

a chyflwynwyd yntau ar y 10fed o Orphenaf, 1588, i reithoriaeth segur-swyddol Pennant Melangell, ac oddeutu yr un amser, fel y gellid meddwl oddi wrth Browne Willis, i reithoriaeth Llanfyllin; ac at y rhai hyn, ychwanegwyd rheithoriaeth segur-swyddol Dinbych yn 1594.* Ac eithrio ficeriaeth Croesoswallt, at yr hon y cawn ddychwelyd yn y lle priodol, a'r hon y dywedir iddo ei derbyn yn 1599 pan yr oedd yn Esgob Llandaf, yr ydym wedi nodi cynnifer o fywoliaethau eglwysig a gyssylltir â'i enw.

Pa fodd bynag, ni a ddylem sylwi fod y Parch. E. Edwards, golygydd yr ail argraffiad o waith Browne Willis ar Esgobaeth Llanelwy, yn gosod penodiadau William Morgan i Ddinbych a Llanfyllin yn gynnarach na'r amseriadau uchod. Yn ei restr ef o reithoriaid segur-swyddol Dinbych, ceir :—

Thomas Thurland — gan T. Davies.....1566
William Morgan, D. D. — gan Hughes.....1575
Griffith Vaughan .....1596†

Yn ol y rhestr uchod, cafodd Morgan ei benodi i Ddinbych yn yr un flwyddyn ag y cafodd ficeriaeth y Trallwm. Ond yn ol Browne Willis ei hun, ni chafodd fywoliaeth Dinbych hyd 1594.‡ Drachefn, yn rhestr Edwards o reithioriaid Llanfyllin, ceir :—

David Powel.....1571
William Morgan, A. M. — gan Hughes.....1578
Andrew Smith, A.M.— gan Egerton.....1601§

Yn ol hyn, cafodd rheithoriaeth Llanfyllin yn yr un flwyddyn ag y cafodd ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant; gesyd Browne Willis ei benodiad i Lanfyllin yn 1588;‖ ac y mae yr Esgob Humphreys yn gosod ei benodiad yn 1579. Dywed yr olaf i'r Dr. David Powel roddi rheithoriaeth Llanfyllin i fyny yn mis Medi, 1579, ac iddo gael ei olynu gan y Dr. William Morgan ar y 23ain o Ragfyr yn yr un flwyddyn.¶ Yn anffodus y mae cof-lyfrau y plwyfau y bu Morgan yn dal cyssylltiad â hwy gryn gwrs yn ddiweddarach na'i amser ef, ac felly nid oes unrhyw gyfeiriad ato i'w gael ynddynt. Dechreua cofrestr y Trallwm yn 1634, Llanrhaiadr ym Mochnant yn 1600, Llanfyllin yn 1654, Pennant Melangell yn 1680, a Dinbych yn 1683. Ond gan fod dyddiadau ei benodiadau i'r Trallwm, a Llanrhaiadr ym Mochnant, a Pennant Melangell yn cael eu nodi mor fanwl gan Browne Willis, ac fod ei benodiad i Llanfyllin yn cael ei gyssylltu â dyddiad penodol

* Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 107; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 226.
† Browne Willis's St. Asaph. vol. i., p. 227. ‡ Ibid. vol. i., p. 107.
§ Ibid. vol. i., p. 384. ‖ Ibid. vol. i., p. 107.
¶ Bishop Humphreys's Additions to Athenæ Oxoniensis, p. 196; Cambrian Register, vol. i., p. 156.

gan yr Esgob Humphreys, yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl mai hwynt hwy sydd gywir. Ac y mae yn debycach mai ar ol iddo enwogi ei hun fel cyfieithydd y cafodd reithoriaeth segur-swyddol Dinbych, na phan yr oedd yn dechreu ar ei fywyd gweinidogaethol yn 1575. Y mae yr ystyriaethau uchod yn ein tueddu i osod ei fywoliaethau Eglwysig yn y drefn a ganlyn :—

Ficer y Trallwm .....o'r 8fed Awst, 1575, hyd 1579
Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant o'r 1af Hydref, 1578, hyd 1588
Rheithor Llanfyllin.....o'r 23ain Rhagfyr, 1579, hyd 1601
Rheithor Segur-swyddol
Pennant Melangell.....o'r 10fed Gorphenaf, 1588, hyd 1595
Rheithor Segur-swyddol Dinbych.....o 1594 hyd 1596

Ni fuasai unrhyw anghyssondeb yn ei fod yn dal rheithoriaeth Dinbych yr un pryd a'i fywoliaethau eraill, oblegid yr oedd amlblwyfïaeth yn beth lled gyffredin yr amser hwnw. Pa fodd bynag, yr ydym yn gweled mai yng nglyn â'r tair bywoliaeth flaenaf yn unig yr oedd "gofal eneidiau"; ac un yn unig, ag eithrio ychydig o fisoedd, o'r bywoliaethau hyny a ddelid gan Morgan ar un waith.

Nid ydym yn gwybod ym mha le y treuliodd y Dr. Morgan y blynyddoedd rhwng 1588 ac 1595, sef o'i ymddiswyddiad o ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant hyd ei benodiad yn Esgob Llandaf. Nid oes prawf iddo fyned i fyw i Lanfyllin, o'r hwn blwyf, fel y gwelir, yr oedd yn rheithor. Ond gan fod "gofal eneidiau" y plwyf hwnw arno, y *tebygolrwydd* ydyw iddo symmud yno ar benodiad Evan Morgan i Lanrhaiadr ym Mochnant. Pa fodd bynag, y mae hyn yn dra ansicr. Yr oedd ei ragflaenydd, y Dr. David Powel, yn byw yn Rhiwabon tra y bu yn dal rheithoriaeth Llanfyllin, a chan nad oedd ficeriaeth yn perthyn i'r lle olaf, y mae yn ddiammeu ei fod yn cadw curad yno. A *dichon* i Morgan, gan y tybir fod Evan Morgan yn fab iddo, aros yn ficerdŷ Llanrhaiadr ym Mochnant, gan gadw curad yn Llanfyllin. Hefyd, gan nad oes ond rhyw chwech milldir rhwng y ddau le, yr oedd yn *bosibl* iddo ofalu am y plwyf olaf ei hunan. Yn absennoldeb tystiolaeth ar y mater, caiff y darllenydd gymmeryd ei ddewis o'r dyfaliadau hyn; er ein bod ni yn tueddu at y cyntaf a nodasom.

Carasem gael ychydig o awgrymiadau yng nghylch William Morgan fel offeiriad; ac mor ddyddorol a fuasai ambell sylw a draddodwyd ganddo o'r pwlpud. Buasai dysgrifiad o'i berson, ei lais, a'i ystum, wrth bregethu, yn dra dyddorol yn ein golwg ni. Dywedir fod yr hen bwlpud yr arferai bregethu o hono yn eglwys Llanrhaiadr ym Mochnant yn cael ei arfer hyd heddyw. Dod-

refnyn cul, seithonglog, ydyw, wedi ei wneuthur o dderw du; a symmudwyd ef o'r lle y safai un waith gan y ficer presennol—y Parch. D. Jones. Y mae lle i ofni, ac i gredu hefyd, mai prinion oedd y pregethwyr pan oedd William Morgan yn dechreu ar ei weinidogaeth. Dywedir wrthym gan Morgan ei hunan, yn ei "lythyr cyflwyn" at y Frenhines, mai "prin y ceid un neu ddau yn medru pregethu yn Gymraeg" cyn i Destament Salesbury gael ei gyhoeddi. "Ond," ychwanegai, "y mae genym yn awr, trwy ddirfawr ddaioni y Goruchaf Dduw . . . . . lawer mwy a gwell pregethwyr, yn gystal a gwrandawyr parotach i ddysgu." Y mae yma awgrymiad fod y Dr. Morgan yn rhoddi pwys mawr ar bregethu; ac y mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y ffaith iddo, ar ei benodiad yn Esgob Llanelwy, ychwanegu at nifer y pregethau a draddodid yn yr Eglwys Gadeiriol hòno.* Yn ei lythyrau at Syr John Wynn a Mr. Martyn, y mae Morgan yn cyfeirio at offeiriaid fel *pregethwyr* yn barhaus. Ceir ynddynt ymadroddion fel y rhai canlynol:—"yn rhwystrwr annaturiol i *bregethwyr* ac ysgolheigion da"; "yn addas fywoliaeth i ryw *bregethwr*"; "yr hyn fuasai mor niweidiol i *bregethwyr*, yn enwedig i'r rheithor nesaf"; "i yru *pregethwyr* fel petris i'w rwydau"; y rhai, yn ol ein tyb ni, sydd yn awgrymu fod yr Esgob yn ystyried *pregethu* yn rhan bwysig o waith offeiriad. Ac os oedd yn rhoddi y fath bwys ar bregethu gan eraill, y mae y casgliad ei fod yn bregethwr cydwybodol a didderbynwyneb ei hunan yn un eithaf naturiol. Y mae genym grybwylliad arall hefyd yn dangos pa fath offeiriad oedd Morgan. Yn yr Amgueddfa Brydeinig (*Lansdowne* MSS. No. 120)† ceir ysgrif dyddiedig 24ain o Chwefror, 1587, a elwir "*A Discoverie of the present Estate of the Byshoppricke of St. Asaphe*," yn yr hon, ym mhlith pethau eraill, ceir y cofnodiad canlynol:—

There is nev' a preacher w'thin the sayd dioces (the L. B. only excepted) that keepeth ordinarie residence and hospitalitie upon his lyvinge, but Dr Powell & Dr Morgan & the p'son of Llanvechen, an aged man about lxxx yeres olde.

Mor dda genym weled fod llaw gyd-oesol wedi cofnodi hyd yn oed yr ychydig eiriau uchod. Yr ydym eisoes wedi gweled oddi wrth lythyr yr Esgob Richard Davies fod saith ar hugain o offeiriaid yn cael eu dysgrifio fel yn gyfarosol a llettygar (*residens et hospitalis*) yn Esgobaeth Llanelwy yn 1560.‡ Ond erbyn 1587, yr oedd y nifer wedi dyfod i lawr i dri. Pa eglurhad sydd i'w roddi dros y dirywiad hwn nis gwyddom, ond yr ydym yn teimlo yn llawen wrth weled enw y Dr. Morgan ym mysg yr ychydig

* Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. ii., p. 149.
† Arch. Cambr. 1884, p. 53, *et seq.* Gwel hefyd Strype's Annals, vol. ii., p. 293.
‡ Gwel tud. 30.

oedd yn aros yn eu plwyfi i gyfranu addysg ysprydol i'r bobl, ac yn cadw i fyny yr hen arferiad dda a ffynai unwaith ym mhlith y clerigwyr o gyfranu elusenau i'r tlodion a chynnorthwyo ac ymgeleddu y rhai anghenus. Am y Dr. Powel, cawn air yn ei gylch ef yn ddiweddarach; ond gallwn grybwyll mai y gŵr oedranus arall a nodir ydoedd Thomas Powel, rheithor Llanfechain (1562-1589), Archddiacon Llanelwy (1560), a rheithor Hirnant (1588-9).* Tybiwn fod yr hyn a ddywedwyd yn ein cyfiawnhau i ddadleu fod y Dr. Morgan yn offeiriad cydwybodol, yn fugail gofalus, yn foneddwr haelionus a charedig. Ond ni a gawn well mantais i sylwi ar ei gymmeriad pan y deuwn i ymdrin ag ef fel Esgob.

Yr ydym wedi clywed fwy nag unwaith na fu y Dr. Morgan erioed yn briod. Dywed y diweddar O. Gethin Jones :—"Nid rhyfedd oedd iddo fyw yn ddi briod, neu yn hen lanc. Mae rhyw draddodiad yn ein gwlad ni ar y pwnc yna, fod rhywbeth yn yr hinsawdd yn achosi hyny, rhyw nwy annaearol yn codi o'r ceunentydd bron sy'n anoddyfn a diwaelod, nes oedd tuag 28ain o hen lanciau o Wybrnant i gwr y Bettws i fyny at y Dylasau uchaf, a phan sonir wrthynt eu bod yn aros yn adfydus ac iselfryd, dywedant mai hen lanciau oedd Sant Paul, a'r Dr. Morgan, a bod Moses wedi bod yn hen lanc yn hir iawn—nes oedd yn ddeugain oed."† Ni pherthyn i ni ymofyn yma pa un a ydyw hen lanciau Penmachno yn gywir ai peidio wrth ddadleu esiampl yr Apostol Paul; ond yr ydym yn ddigon sicr nad oes ganddynt y sail leiaf, heblaw traddodiad anghywir, tros ddal allan mai gŵr dibriod oedd y Dr. Morgan. Y mae y llythyrau a anfonwyd ganddo ef a Syr John Wynn at Mr. Martyn yn gwrthbrofi hyny yn hollol. Dywed Wynn :—

Yr wyf yn gwybod nad ydych wedi anghofio yr hyn a ddygwyd yn ei erbyn ef *a'i wraig* er atal ei gyfieithiad diweddar, ac fel y bu i'm tystysgrif i a'm cyfeillion ei lânhau yng ngwyneb y cyhuddiad hwnw, ac achosi iddo lwyddo; am yr hyn y meddyliwyd yn waeth o honof fi a hwythau gan rai ag yr oedd genym achos da i'w parchu. . . . . Addawodd i mi nawddogaeth y fywoliaeth trwy Thomas Robts [Roberts], pryd y gommeddodd y cadarnhâd. Anfonais yr un gŵr ato ym mhen deuddydd i ymofyn y cyfryw, a fy nghefnder Elice Vaghan [Ellis Vaughan] hefyd gydag ef; ond gwrthododd i mi y cyfan, gan ddyweyd nad oedd wedi gwneyd unrhyw ddarpariaeth gogyfer *a'i wraig*.

Ac fel hyn y dywed yr Esgob :—

Camgymmerodd John Robtes fy ngeiriau mewn perthynas *â'm gwraig*; oblegid ni ddywedais fod yn rhaid darparu ar ei chyfer hi yn gyntaf, gan dybied y buaswn yn rhoddi iddi hi y cyfryw brydles. *Er ei bod yn*

* Arch. Cambr. 1884, p. 56; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 757.
† Gweithiau Gethin, tud. 387.

wraig i mi, ac mewn canlyniad yn un cnawd, eto ni ddarperir byth ar ei chyfer genyf fi trwy y fath brydlesoedd ; ni wnaf yspeilio yr Eglwys.

Dyna ddigon o brawf fod y Dr. Morgan yn ŵr priod pan yn cyfieithu yr Ysgrythyrau yn Llanrhaiadr ym Mochnant, ac hefyd ei fod yn briod pan oedd yn Esgob Llanelwy. Ond pwy oedd ei wraig ? Yn ol yr achres a roddwyd genym yn flaenorol, yr ydym yn gweled mai Catherine oedd ei henw, ai bod yn ferch i George ap Richard ap John. Gwelir hefyd iddi or-oesi yr Esgob, oblegid dywedir iddi briodi wedi hyny un o'r enw William David Lloyd o Lanfair Talhaiarn. Yr ydym yn methu a chael boddlonrwydd o barthed i ba deulu y perthynai hi ne'i hail ŵr. Dywed Mr. T. W. Hancock i Morgan briodi gweddw, yn disgyn o hen deulu perthynol i Groesoswallt."* Ond nis gwyddom pa un a'i y Catherine hon neu ryw un arall a feddylia ; ac nis gwyddom ychwaith pa seiliau sydd ganddo dros ei haeriad. Os oedd Catherine yn wraig weddw pan briododd yr Esgob hi, felly yr oedd William David Lloyd yn drydydd gŵr iddi. Ond dywed yr achres mai Lloyd oedd ei hail ŵr :—"2ly See maried William dd lloyd of llanvair dalhaiarn.†

Pa fodd bynag, ail wraig i'r Dr. Morgan oedd Catherine. Buom mor ffodus yn ddiweddar a derbyn rhai nodiadau oddi wrth Mr. E. G. Salisbury, yr hwn, fel yr ydym eisoes wedi sylwi, a gafodd y fantais o chwilio amryw bapyrau a llythyrau a fuant unwaith ym meddiant John Ellis Morgan, un o ddisgynyddion yr Esgob. Y mae Mr. Salisbury yn dyweyd mai ail wraig oedd Catherine i'r Esgob, ond nad yw yn hysbys a fu plant o'r briodas a'i peidio. Ac ar sail yr ysgrifau a nodwyd, dywed ym mhellach mai ei wraig gyntaf oedd un o'r enw Ellen Salesbury, ag iddo briodi hon yn ddirgelaidd cyn iddo fyned i Gaergrawnt. Tybia Mr. Salisbury, a hyny yn ddigon naturiol, mai at yr ammheuaeth yng nglyn â'r briodas hon y cyfeiriai Syr John Wynn pan yn sôn am "yr hyn a ddygwyd yn ei erbyn ef a'i wraig er atal ei gyfieithiad diweddar."‡ Ac nid oes dim yn fwy naturiol na bod Syr John ac eraill oeddynt yn hysbys o'r briodas wedi tystio trwy lythyrau mai nid gordderchwraig i'r Dr. Morgan oedd Ellen Salesbury, ac fod Evan Morgan, yr hwn a'i holynodd fel Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant, yn fab cyfreithlawn iddo yng ngolwg Duw a dynion.

Dywed Mr. Salisbury, ym mhellach, fod yr Ellen Salesbury hon yn ferch i Dafydd Salesbury o Lanberis. Os felly, yr oedd o'r un linach urddasol a William Salesbury o'r Plas Isaf a'r Cae Du. Yr ydym yn cael mewn achres o eiddo Ioan Pedr fod Dafydd

* Bye-Gones, 17th August, 1887. † Gwel tudal. 95.
‡ Mr. E. G. Salisbury's Letter to the Writer, dated 27th May, 1889.

Salesbury yn fab i Harri Goch;* ac o ffynnonellau eraill ceir mai mab oedd Harri Goch Salesbury i Harri ap Thomas Salesbury Hen o'r Lleweni.† Felly gellir gosod allan y berthynas rhwng William Salesbury o'r Plas Isaf ag Ellen Salesbury, gwraig William Morgan, trwy y daflen ganlynol:—



Os ydym wedi cyfleu yr achres uchod yn gywir, fel yr ydym yn credu ein bod, yr oedd William Salesbury, y cyfieithydd, yn ewythr i Ellen, gwraig William Morgan, o gyfyrder i'w thad. Ac os bu Morgan, fel y dywedir gan O. Gethin Jones, ryw gymmaint o amser yng nghymmydogaeth Llanrwst cyn ei fynediad i Gaergrawnt, nid ydyw mewn un modd yn annhebygol na ffurfiodd gyfeillach â'r foneddiges hòno pan yr oedd ar ymweliad â'r Plas Isaf. Pa fodd bynag, yr oedd John Ellis Morgan o Benmachno yn hawlio y foneddiges hon yn un o'i hynafiaid, ac yn dyweyd ei bod yn wraig i Morgan. Gosodai John Ellis Morgan ei hunan allan fel mab i Ellis ab William ab Robert ab Rhys ab Evan ab William Morgan; ac felly yr oedd yn sefyll yn y seithfed ach o'r Esgob.

Y mae yn rhyfedd meddwl nad oes neb wedi cymmeryd y drafferth i wneuthur achres o ddisgynyddion Esgob Morgan. Ceir cyfrolau trwchus yn cynnwys achresau manwl o hilogaeth gormeswyr a rhyfelwyr; ac y mae llawer yn teimlo balchder wrth olrhain eu llinach yn ol i rai a fwydasant y ddaear â gwaed eu cyd-ddynion. Ond, hyd y gwyddom, nid oes yn argraffedig yn un man achres o hilogaeth yr hwn a wnaeth ei oreu i ddwyn ei gydwladwyr i afael bywyd tragywyddol fel ei gosodir allan yng ngair Duw. Cymmerasom gryn drafferth i wneuthur yr achres gyferbyniol; ac er nad ydym mewn un modd yn hòni anffaeledigrwydd iddi, tybiwn y caiff ambell un ryw gymmaint o ddifyrwch a phleser wrth edrych drosti.

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 42. † Harleian MSS. No. 4181; Cedwyn MS.

Taflen Achyddol o Ddisgynyddion yr Esgob Morgan.

WILLIAM MORGAN, D.D. = Ellen Salesbury, m. Dafydd Salesbury, o Llanberis.
yn gyntaf Esgob Llandaf, 1595, wedi hyny Esgob Llanelwy, 1601.

Evan Morgan, B.D., Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant, &c. = Catherine, m. John ab Rhys, o Caer Ddinen, plwyf Llanelidan, o'i wraig Mary, merch y Barwn Lewis Owen, Cwrt Plas-yn-dref, Dolgellau. Yr oedd i Catherine, gwraig Evan Morgan, amryw chwiorydd; priodod un yr Esgob Richard Parry, a phriodod un arall y Dr. Davies, o Fallwyd. (*Hist. Powys Fadog, vol. iii., p. 49; vol. iv., p. 187.*)
a anwyd oddeutu 1564, fel y tybir.

Rhys = ... wyres i Ellis (?), brawd Esgob Morgan.
Trwy hyn yn uno llinach y ddau frawd.

Robert =

William =

Ellis Morgan, pobydd a blawd fasnachydd, o'r Pentre, Dolwyddelen. = Ellen.
Bu farw, 22ain o Fehefin, 1778.

John Ellis Morgan = Catherine. Ganwyd 1731.

Jane Ellis Morgan = Thomas Edwards, Pengarw, Penmachno.

Ellen Ellis Morgan.

Elizabeth Ellis Morgan. Ganwyd 1786.

John Thomas =

Thomas Jones, White Street, Penmachno.

William Ellis Morgan = Gwen.

Gwen = John William, Bwlchygwynt, Llanrhochwyn.

William =

Richard =

Margaret = Owen Evan, Ty'nddol, Festiniog.

Owen Evans = Jane Hughes, Bryngefeiliau.
Marw 1881.

Griffith Ellis Morgan = Liws. Pentre'r Bont, Dolwyddelen. Ganwyd yn 1735. Marw 1815.

Robert Ellis Morgan = Gaenor Isaac. Ganwyd 1738.

Ellen Ellis Morgan = Arthur Jones, Felin Isaf, Llanrwst. Ganwyd 1742. Marw 1783.

Chwech o blant. 7

Parch. Arthur Jones, D.D. = Jane Hughes, o Ddinbych. Ei ail wraig.
o Bangor, a anwyd yn Llanrwst, 1776. Marw yn 84 mlwydd oed.

Parch. Eliezer Jones, Ipswich.

Elizabeth

John

Margaret Ellis — Morgan, ganwyd 1744

Catherine Ellis — Morgan, ganwyd 1748, bu farw 1749.

Sarah = Enoch Robert Gibbon Salisbury, (gynt o Gaerlleon, yn awr o Lundain).
Ganwyd 1815. Priodi yn 1842.

1 Mary Jane Eliza,

2 Arthur Edward Wilson,


Tycoch, Wybernant.
Parch. Evan Foulkes Jones, Glan-Conway.
Parch. R. F. Jones, Scranton, Pa.
Parch. John Jones, Pandy, Penmachno.
Parch. W. O. Evans, Nevin.
Parch. M. O. Evans, Gwrecsam.
Robert Griffith = Catherine
Hugh.
Griffith.
Catherine.
Robert.
Wood, Bodlondeb, Conway.
3 Sarah Louisa Wilson, priod Thomas S. Oldham.
4 Caroline Amelia Swanwick, priod John Keppel Jones.
5 Charlotte Emily, marw yn blentyn.
6 William Morgan, marw yn ieuanc.
7 Annie Ellen, priod W. J. Williams.
8 Philip Henry Bentham.
9 Florence Emily.
William Robert Ellis Morgan = Gwen
Ganwyd 1757. Marw 1819.
Ellis Robert Morgan = Ellen
Isaac Robert Ellis Morgan = Gwen
Robert = Mary, merch Morris Llwyd.
Robert Ellis Morgan, ganwyd yn 1769. Marw 1844.
Robert William =
Robert Williams =
Anne, gwraig R. H. Roberts (Glan Cledwyn), Dolwyddelen.
1 2 3 4
Gwen
Owen
William
Catherine
Catherine
Rhys Williams, clochydd, Dolwyddelen. Marw 1888.
Ellen
Ellis Williams, = Elizabeth Henrhos, Penmachno. Ganwyd 1809.
William = Mary Roberts
Ellis William Roberts.
Owen
Mary Ellis Morgan =
Ellen Ellis Morgan = Morris Jones, Hafod Arthen, Trefriw. Dywed Mr. Jones ei fod ef yn disgyn mewn llinell union-syth o Morris, brawd yr Esgob Morgan.
Ellen = Thomas D. Ganwyd 1804. Griffith.
John Roberts = Catherine Ganwyd 1808.
Elizabeth, a briododd ei chefnder, Rhys Williams, Dolwyddelen.
Robert R. Roberts, = Janet Edwards.
Bryn Helen, Caernarfon. Ganwyd 1814.
Annie = Thomas Williams, Gwylfa, Llanwnda, Sir Gaernarfon.
Mary = Evan Jones, Bryn Helen.
Annie = Walter E. Lloyd, Mydrim, St. Clears, Caerfyrddin.
Annie Elsie, ganwyd 1888.
Janett Sarah, ganwyd 1889.
Janett, Ganwyd 1872.
Robert, Ganwyd 1873.
Catherine, Ganwyd 1874.
Annie, Ganwyd 1878.

Ond gan gofio, y mae Mr. T. W. Hancock, yr hwn sydd er ys llawer blwyddyn bellach yn chwilio i mewn i hanes yr Esgob Morgan, yn dal allan nad oes ac nad oedd disgynyddion iddo; ac mai mab brawd iddo o'i wraig gyntaf oedd yr Evan Morgan a'i holynodd fel ficer Llanrhaiadr.* Rhaid i ni addef ein bod ar y cyntaf yn methu credu fod Evan Morgan yn fab i William Morgan; gan y tybiem, os gosodem briodas y Doctor ar ol ei ddychweliad o Gaergrawnt, na fuasai Evan pan gyflwynwyd ef i Lanrhaiadr uwchlaw 16 oed. Ond os y priododd, fel y dywedir ym mhapyrau John Ellis Morgan, cyn ei fynediad i Gaergrawnt yn 1564, yr oedd Evan yn bedair ar hugain ac uchod pan olynodd ei dad fel ficer y lle hwnw. Ac os na all Mr. Hancock brofi trwy ysgrifau yn dwyn dyddiad cynnarach nag amser John Ellis Morgan (1731—?) nad oedd disgynyddion i'r Esgob, nid ydyw ei haeriad o nemawr werth. Ar yr un pryd, nid ydym am i neb osod gwerth gormodol ar bapyrau John Ellis Morgan; ond yn niffyg tystiolaeth gadarnach, rhaid i ni naill a gadael hyn heb ei gyffwrdd o gwbl, neu ynte dderbyn yr hyn a geir ynddynt, sef fod Evan Morgan yn fab i'r Esgob o'i wraig gyntaf, Ellen Salesbury.

Ychydig a wyddom am neb o ddisgynyddion yr Esgob. Ac nis gwyddom a oedd ganddo blant heblaw Evan Morgan. Gwelir oddi wrth restrau Edwards o glerigwyr Llanelwy fod Evan Morgan wedi derbyn ei ran, a hòno yn ran helaeth, o fywoliaethau Eglwysig.† Ceir ei fod yn

1. Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant .....1588—1612
2. Ficer Llanasa .....1602—1614
3. Ficer Yr Wyddgrug .....1612—1616
4. Rheithor Segur-swyddol Caerwys.....1614—1617
5. Rheithor Llansannan.....1614—1615
6. Eto .....1621—1639
7. Rheithor Dinbych .....1615—1621
8. Rheithor Segur-swyddol Pennant .....1615—1644
9. Canon Llanelwy .....1616—1617
10. Rheithor Llanferes.....1616—1644

Tybia Mr. E. G. Salisbury mai nid yr un Evan Morgan oedd yr hwn a benodwyd i ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant yn 1588 a'r hwn oedd yn dal bywoliaethau Llansannan, Pennant, a Llanferes mor ddiweddar a 1639 ac 1644; ac y mae Evan Morgan yr ail oedd yn dwyn y teitl o B.D., ac nid y cyntaf; ac ym mhellach dywed fod Evan *yr ail* yn fab i Evan *y cyntaf*.‡ Y mae

* Bye-Gones, 17th August, 1887. † Browne Willis's St. Asaph (Edwards' Edit.), *sub loco*.
‡ Mr. E. G. Salisbury's Letter to the Writer, dated 27th May, 1889.

hyn yn eithaf tebygol, yn cnwedig wrth edrych dros yr amseriadau uchod. Ac os ganwyd Evan, mab William Morgan, yn 1564, fel y tybir, rhaid ei fod yn 80 mlwydd oed yn 1644; ond ni fuasai dim yn anghyffredin yn hyny. Ac os tybiwn, o'r ochr arall, i Evan Morgan yr ail gael ei eni oddeutu 1588, buasai oddeutu saith ar hugain oed pan gafodd ei fywoliaeth gyntaf. Pa fodd bynag, y mae yn anhawdd penderfynu hyn y naill ffordd na'r llall; ac nid ydyw mewn un modd yn bwysig i'r hyn sydd dan sylw.

Ond yn sicr nid y lleiaf enwog ym mhlith disgynyddion Esgob Morgan oedd y Parch. Arthur Jones, D.D., o Fangor. Gan fod rhyw gymmaint o'i hanes eisoes wedi ymddangos ar ddalenau *Traethodydd* (1870, tud. 418) caiff y darllenydd ymgydnabyddu ag ef yno. Pa fodd bynag, gan ei fod yr wythfed mewn disgyniad o'r Esgob, cymmerwn ein rhyddid i wneuthur un neu ddau o sylwadau arno. Yn y lle cyntaf, yr oedd yn fab i Arthur Jones, o'r Felin Isaf, Llanrwst, ac Ellen Ellis Morgan, merch i Ellis Morgan, yr hwn oedd yn bobydd ac yn fasnachwr blawd yn y Pentre', Dolwyddelen. Ganwyd Arthur Jones yn Llanrwst yn 1776. Felly, o'r flwyddyn 1541, pryd, fel y mae yn dra thebyg, y ganwyd William Morgan, hyd enedigaeth Arthur Jones yn 1776, yr ydym yn cael dau gant a phymtheg ar hugain o flynyddoedd. Ac yn ol yr achres a roddasom y mae genym saith o genedlaethau i roddi cyfrif am danynt yn y cyfnod hwnw, y rhai ar gyfartaledd ydynt $33\frac{3}{7}$ o flynyddoedd yr un. A phan gofiwn fod amryw o ddolenau y gadwyn yn cael eu gwneuthur i fyny o'r plant ieuangaf, nis gellir mewn un modd ystyried hyny yn afresymol. Bu farw mam Arthur pan oedd efe oddeutu saith oed (1783); a chan fod ei dad wedi marw yn flaenorol i hyny, cymmerodd ei ewythr, John Ellis Morgan, yr hwn oedd yn byw ym Mhenmachno, y bachgen adref gydag ef. Yr oedd yr ewythr hwn yn ŵr o alluoedd uwch law y cyffredin, ac yn llawn ffraethineb. Fel ei hynafiaid o'i flaen, dygai fawr sêl dros yr Eglwys Sefydledig; yr oedd yn fynych gyda'r offeiriad yn trin achosion y plwyf. Ystyrid ef yn gyfreithiwr da gan ei gymmydogion, a byddai galwad mynych am ei gyfarwyddiadau ac am ei wasanaeth i wastadhau cyfrifon, er nad oedd ond amaethwr cyffredin. O dan ofal yr ewythr hwn, meddwn, y dygwyd Arthur Jones i fyny. Edrychai y Morganiaid yn gilgwgus ar yr Ymneillduwyr ag oeddynt yn gweddio heb lyfr, ac yr oeddynt yn eu hystyried yn bobl beryglus a diymddiried. Yn wir, dywedir fod John Ellis Morgan yn erlidiwr llym ar y "blaid newydd"; ond eto daeth Arthur Jones yn weinidog

nid anenwog gyda'r Annibynwyr. Ac os nad ydym wedi cael ein eam-hysbysu efe oedd yr Ymneillduwr cyntaf o hen linach anrhydeddus y Wybernant. Hefyd, y mae'r ffaith yn werth ei chofnodi ddarfod i'w ferch Sarah, yr hon oedd y nawfed mewn disgyniad o'r Esgob Morgan, briodi boneddwr ag sydd yn hanu o William Salesbury, y cyfieithydd Cymreig, yn gystal ag o'r esboniwr enwog, Matthew Henry.

Yr ydym bellach wedi ysgrifenu cymmaint a wyddom ni yng nghylch teulu, addysgiad, a bywoliaethau eglwysig William Morgan. Ac yn y bennod nesaf ceisiwn sylwi ychydig ar waith mawr ei fywyd; y gwaith hwnw ag sydd wedi rhoddi gwerth ar bob ffaith gyssylltiedig â'i enw.

PENNOD IV.

NODIADAU AR EI WAITH YN CYFIEITHU A CHYHOEDDI Y BEIBL; A'R AMGYLCHIADAU CYSSYLLTIEDIG.

Morgan yn ymgymmeryd a'r gwaith o gyfieithu'r Beibl yn wirfoddol—Dyfaliadau yng nghylch yr amser y dechreuodd ar y gorchwyl—Yn cael ei wysio o flaen yr Archesgob Whitgift mewn canlyniad i amrafael rhyngddo â'i blwyfolion—Natur yr amrafael—Yn cael ei annog gan yr Arch-esgob i fyned ym mlaen gyda'r gwaith—Y traddodiad mai mewn hafdŷ yn Sir Drefaldwyn y cyfieithodd yr Ysgrythyrau yn cael ei ammeu—Morgan yn cyhoeddi y Beibl yn gyflawn yn 1588—Ychydig o nodiadau ar y gwaith—Cyfieithiad o Lythyr Lladin Morgan—Cyfrol o'r Psalmau "o'r un cyfieithiad a'r Beibl cyffredin" yn cael ei chyhoeddi yr un flwyddyn—Morgan yn cyhoeddi pregeth a draddododd yn angladd Syr Yevan Llwyd—Y dybiaeth iddo ddiwygio y Testament Newydd ym mhellach—Yr haeriad iddo ysgrifenu Geirlyfr Cymraeg—Cyfeiriad ato fel bardd—Dau Gywydd iddo—&c., &c.

Hyd y flwyddyn 1588, yr oedd y Cymry heb gael ond rhan yn unig o'r Beibl yn argraffedig yn eu hiaith. Ac eithrio'r Salmau oedd yn ffurfio rhan o'r Gwasanaeth-lyfr, nid oedd ganddynt ddim o'r Hen Destament. Ac ar ol i'r anghydweledigiad a gymmerodd le rhwng yr Esgob Richard Davies â William Salesbury yng nghylch ystyr a tharddiad *un gair*, nid oes hanes fod neb wedi ymgymmeryd â'r gorchwyl o'i gyfieithu. Nis gwyddom pa nifer o offeiriaid a lleygwyr yng Nghymru a *allasent* ymgymmeryd â'r gwaith pe ceisiasent; ond gwyddom nas gwnaethant. Nis gall dadl fod gyda golwg ar yr angen oedd am y cyfryw orchwyl. A chaniatau fod cyfargraff o Destament Salesbury wedi cael ei ddarparu i bob Eglwys yng Nghymru, ni chymnwysai hwnw ond rhan o'r Ysgrythyrau. Nid oedd Testament Salesbury ychwaith, gan ei fod mor anystwyth a chlogyrnaidd ei iaith, yn debyg o fod yn boblogaidd. Y mae yn rhesymol tybied hefyd fod yr argraffiad hwnw wedi gwisgo allan i gryn raddau yn yr un-mlynedd-ar-hugain oedd rhwng 1567 ac 1588. Ond eto, wedi i'r Esgob Davies a Salesbury roddi y gorchwyl i fyny, ni ddaeth neb ym mlaen i geisio cyfieithiad pellach, na dwyn allan ail argraffiad o'r Testament, cyn i wrthddrych y cofiant hwn ymaflyd yn y gwaith. Y mae yr hyn a ddywed y Dr. Morgan, yn ei anerchiad at y Frenhines, gyda golwg ar esgeulusdra ei rag-flaenoriaid, yn eithaf eglurhad ar yr oediad. "Yr oedd y weithred hon," meddai, gan

gyfeirio at y ddeddf a basiwyd yn 1563, "yn rhagweled ein syrthni a'n difrawder ni, gan nas gellid ein cynhyrfu gan angen mor fawr, na'n cymhell gan gyfraith mor llesol, fel yr aroshai peth mor bwysig a hwn (pwysicach nis gallai fod dim) cyhyd heb ei gymmeryd mewn llaw." Felly "syrthni a difrawder" oedd y rheswm am yr oediad.

Ond, gellir gofyn paham na fuasai yr Esgobion mewn ufudd-dod i Ddeddf 1563 yn gofalu am ddynion i gyflawni y gorchwyl? Yr atebiad yn syml ydyw nad oedd y ddeddf hòno bellach mewn grym. Ar ol y dydd cyntaf o Fawrth, 1566, nid oedd ond llythyren farw. Yr oedd y gwaith o gyhoeddi yr Ysgrythyrau i gael ei orphen cyn y dyddiad hwnw, neu yr oedd yr Esgobion yn agored i ddirwyon. A chawsant naill a'u hesgusodi, neu ynte gorfodwyd hwynt i dalu y dirwyon; ond, pa un bynag, yr oeddynt yn rhyddion bellach oddi wrth unrhyw gyfrifoldeb yng nglyn â hi. Gellir gofyn ym mhellach, os oedd y Frenhines a'i chynghor-wyr yn awyddus am i'r gwaith gael ei gyflawni fel y gellir casglu eu bod oddi wrth eiriad Deddf 1563, paham na fuasent yn pasio deddf arall i orchymmyn hyny? Y mae cymmaint o amser wedi myned heibio fel y mae ein gwybodaeth wedi myned yn rhy brin i ni allu penderfynu y cwestiwn. Ond yr ydym wedi dangos eisoes fod yr ymgais o ddwyn y Cymry i ddysgu Saesoneg yn rhan arbenig o wleidyddiaeth rhag-flaenoriaid Elizabeth. Dichon iddi hithau, yn ddilynol i gyhoeddiad Testament Salesbury, gymmeryd ei chynghori mai gwell er mwyn hyrwyddo undeb ym mhlith ei deiliaid, trwy eu dwyn i siarad yr un iaith, a fuasai peidio cyfieithu ond yr hyn a wnaed o'r Ysgrythyrau i iaith y Cymry. Ac er na lwyddodd dadleuwyr yr ochr yma i'r cwestiwn, fel y gallwn gasglu oddi wrth waith y Frenhines yn derbyn cyflwyniad Morgan, eto, y mae yn ddigon posibl i hyny greu digon o ddifaterwch gyda golwg ar y gwaith, ac i ladd y sêl a'i meddiannai ar ddechreuad ei theyrnasiad. Yr ydym yn tybied y gellir profi oddi wrth eiriau Morgan ei hunan ei fod yn eithaf hysbys o waith rhai yn ceisio darbwyllo y Frenhines i ymatal rhag cefnogi y cyfryw orchwyl ym mhellach. "Os oes rhai yn ewyllysio," meddai, "er mwyn sicrhau unffurfiaeth, a'r fod i'n cyd-wladwyr gael eu cymhell i ddysgu yr iaith Saesoneg yn hytrach nag i'r Ysgrythyrau gael eu cyfieithu i'n hiaith ni; dymunwn arnynt fod yn dra gwyliadwrus rhag iddynt, yn eu hawydd am undeb, fod yn rhwystr i'r gwir-ionedd; ac a'r fod iddynt ochel rhag gyru crefydd ymaith trwy geisio meithrin cyd-gordiad. Oblegid er y byddai yn ddymunol fod i drigolion yr un ynys fod o'r un iaith ac ymadrodd, eto, dylid ystyried hefyd y cymmerai hyny gymmaint o amser a thrafferth,

fel ag y byddai ewyllysio i bobl Dduw ddioddef newyn am ei Air ef yn y cyfamser yn rhy galed a chreulon. Heb law hyny, nid oes ammheuaeth nad ydyw unffurfiaeth a chyd-gordiad mewn crefydd, yn hytrach nag mewn iaith, yn tueddu yn fwy at undeb." Gellir meddwl oddi wrth hyn fod dosparth lluosog o bobl yn amser Morgan yn dadleu yn erbyn cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg. Ac y mae yn dra thebyg fod llawer o'r gwrthwynebwyr hyn yn wŷr o gryn ddylanwad, ac yn adnabyddus i'r Frenhines ei hun. Oblegid dywed ym mhellach :—"Gan hyny, atolygwn ar eich Mawrhydi beidio cymmeryd eich rhwystro gan unrhyw ddadleuon rhithweddol (ac yr wyf yn sicr na chymmerwch eich rhwystro) rhag ychwanegu at nifer y rhai ag yr ydych eisoes wedi eu bendithio a'ch cymmwynasau, &c."

Ymgymmerodd Morgan â'r gwaith heb unrhyw awdurdod ar ran y gyfraith wladol, ac, hyd y gwyddom, heb unrhyw annogaeth oddi allan. Nid oes hanes fod Esgob nac Arch-esgob wedi galw ei sylw at fuddioldeb y gorchwyl, ac y mae yn fwy na thebyg na wyddai yr un o honynt am ei fwriad hyd nes yr oedd wedi cyflawni ran helaeth o hono. Y mae yn wir y dywed yn ei lythyr at y Frenhines iddo gymmeryd ei berswadio "i ymgymmeryd â'r gwaith pwysig a llafurfawr" yn unol â "dymuniadau'r duwiol." Ond y mae yn dra sicr fod y rhai a'i hannogent wedi cael prawf o'i allu, ac hefyd wedi gweled rhyw gymmaint o'i waith, yn flaenorol. Ym meddwl Morgan ei hun y dechreuodd y meddylddrych, ac y mai yn dra sicr mai anwybodaeth ac anghenion ysprydol ei gyd-wladwyr a'i hawgrymodd.

Y mae yr amser y meddyliodd Morgan am ymgymmeryd â'r gwaith yn anhysbys, ac nid ydym lawer mwy sicr yng nghylch yr amser y dechreuodd arno. Y farn gyffredin ydyw mai ar ol ei benodiad i ficeriaeth Llanrhaiadr ym Mochnant, yn 1578. Ond tybia Mr. T. W. Hancock ei fod wedi dechreu cyfieithu yn llawer cynnarach na hyny, hyd yn oed pan oedd yn y Coleg; ac fod amryw o wŷr crefyddol yn y Brif-ysgol yr un pryd ag ef ag oeddynt yn nodedig am eu hymlyniad wrth egwyddorion y Diwygiad yn gystal ag am eu dysgeidiaeth, y rhai oeddynt alluog i'w gynnorthwyo.* Pa fodd bynag, ni a ddylem gofio cyn y gallasai unrhyw un ei gynnorthwyo gyda'r gwaith hwn fod yn angenrheidiol i hwnw fod yn deall Cymraeg. Ac nid oes genym hanes fod ond ychydig o'r cyfryw i'w cael yng Nghaergrawnt yn ei amser ef.

Pa fodd bynag, y mae yn dra thebyg i Morgan ddechreu ei gyfieithiad cyn ei fynediad i Lanrhaiadr ym Mochnant. Yr ydym

* Montgomeryshire Collections, vol. v., p. 335.

yn seilio y dybiaeth hon ar yr annhebygolrwydd iddo gyflawni y gwaith o gyfieithu yr oll o'r Hen Destament a'r Apocrypha, yng nghyda diwygio cyfieithiad y Testament Newydd, mewn amser mor fyr ag o 1578 hyd 1587, pryd yr aeth i Lundain i arolygu'r gwaith trwy'r wâsg. Yn wir, y mae traddodiad ym mhlwyf Penmachno iddo ddechreu ei gyfieithiad yn ei hen gartref—y Tŷ Mawr. Ond y mae hyny yn ddigon annhebygol; a rhy brin hefyd yr ydym yn credu iddo orfod ffoi i'r mynyddoedd pan wrth y gorchwyl. Ymddengys i ni mai rhyw gymmysgedd a geir yma o'r traddodiad yng nghylch y mynach y dywedir iddo gyfranu addysg i Morgan ym moreu ei oes. Oblegid nis gellir meddwl fod Morgan yn alluog i ymgymmeryd â'r fath waith cyn ei fynediad i Gaergrawnt; ac nid oes prawf na thebygolrwydd iddo aros yn y Tŷ Mawr ar ol ei ddychweliad oddi yno. Yr unig dybiaeth gydfynedol â'r traddodiad hwn, fel y sylwa Mr. Hancock, ydyw iddo ar ei ddychweliad o Gaergrawnt wasanaethu fel curad naill ai ym Mhenmachno ai ynte yn rhai o'r plwyfi cylchynol, megys Dolwyddelen neu'r Bettws.* Ond gan nad ydyw y pethau hyn ond tybiaethau hollol ddisail, prin y maent yn werth i'w cofnodi. Dywed Mr. Hancock hefyd iddo glywed traddodiad yn y Trallwm er ys oddeutu tair blynedd a deugain yn ol bellach, fod Morgan wrth y gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau tra yr oedd yn ficer y lle hwnw. Ac er i ni fethu a chael allan fod y traddodiad hwn yn cael ei drosglwyddo yn yr ardal hòno yn bresennol, yr ydym yn ei ystyried yn dra naturiol yng ngwyneb ffeithiau adnabyddus.

Dywed y Dr. Thomas Llewelyn nad oedd Morgan wedi gwneuthur ond ychydig, os dim, o'r gwaith cyn i'r Dr. John Whitgift gael ei benodi yn Arch-esgob Caergaint; ac y mae yn dyfod i'r casgliad hwn, feddyliem oddi wrth y geiriau canlynol a geir yn ei lythyr cyflwyn at y Frenhines:—"Ac wedi yn brin ei ddechreu, buaswn wedi diffygio gan anhawsder y gorchwyl a maintioli'r gost, ac ni ddygaswn ond Pum' Llyfr Moses yn unig i'r wâsg oni buasai i mi gael fy nghymhell i fyned ym mlaen a'm cynnorthwyo gan haelioni, awdurdod, a chynghor y Parchedicaf Dad yng Nghrist, Archesgob Caergaint," &c. Yn awr, ar yr 16eg o Orphenaf, 1583, y bu farw yr Arch-esgob Grindal, ac ar y 23ain o Fedi yn yr un flwyddyn y daeth y Dr. Whitgift i gyflawn feddiant o'r Arch-esgobaeth.† Felly, os ydyw Llewelyn yn gywir, oddeutu y rhan olaf o'r flwyddyn hòno y dechreuodd y Ficer Morgan ar y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau. Ond yn ol Morgan, a rhoddi yr ystyr gyfyngaf i'w eiriau, yr oedd o leiaf

* Montgomeryshire Collections, vol. v., p. 335.
† Strype's Life of Whitgift (Edit. 1822), vol. i., p. 224.

wedi cyfieithu Pum' Llyfr Moses pan alwyd ef gerbron yr Archesgob hwnw. Eto, dylem gofio mai nid dyweyd y mae Morgan nad oedd wedi cyfieithu ond Pum' Llyfr Moses yn unig cyn iddo dderbyn cefnogaeth yr Arch-esgob, ond dyweyd y mae y buasai yn "diffygio gan anhawsder y gorchwyl a maintioli'r gost" fel na buasai yn dwyn *ond y rhan hòno o'r Ysgrythyrau i'r wâsg.* Gan y gallwn feddwl mai cymhorth arianol, ac nid cynnorthwy llenyddol, a roddwyd iddo gan yr Arch-esgob, y mae yn dra thebyg mai "maintioli y gost" yn benaf a fuasai yn lluddias Morgan i orphen y gwaith. Ac er ei fod yn dra thebyg mai yn ystod ei arhosiad yn Llanrhaiadr ym Mochnant y cyflawnodd y rhan fwyaf o lawer o'r gorchwyl hwn, y mae yn eithaf posibl, ac yn dra thebygol, ei fod wedi dechreu arno ryw gymmaint yn gynnarach. Ond nis gellir penderfynu hyn y naill ffordd na'r llall.

Y mae ymweliad y Ficer Morgan â Phalas Lambeth yn cael ei adrodd gan ysgrifenwyr diweddar gyda gradd helaeth o fanylder. "Yr oedd hefyd," medd Gwilym Lleyn, "alw mawr yma a thraw ar hyd y wlad am y Beibl oll; er bod ysbryd Pabaidd yn gryf y pryd hyny yn erbyn i'r cyffredin gael y Beibl yn eu hiaith eu hunain; ac i'w attal, dyfeisiwyd celwyddau noethion yn erbyn y ficer, hyd yn nod gan ei blwyfolion ei hunan—trigolion Llanrhaiadr ym Mochnant. Aethant mor bell ag achwyn ar ei anaddasrwydd i'r fath orchwyl, nid yn unig wrth esgob ei esgobaeth, ond hefyd wrth Archesgob Caergaint, o flaen yr hwn y gorfu i'r ficer nesäu yn grynedig. Eithr wedi i'r archesgob ei holi, gwelodd yn eglur ei fod yn un o'r rhai medrusaf yn yr Hebraeg a'r Groeg, ac mor eglur deallodd anwiredd ei gyhuddwyr. Gofynodd yr Archesgob (Whitgifft) iddo, 'A fedrwch chwi Gymraeg yn gystal a Hebraeg?' Y ficer a'i hatebodd yn ostyngedig, gan ddywedyd, 'Gobeithio, fy arglwydd, y goddefwch i mi eich sicrhau y medraf iaith fy mam yn well nag un iaith arall.'"* Y mae hon yn chwedl ddigon naturiol; ond buasem yn hoffi gwybod o ba le y tarddodd. Adroddir hi gyda rhyw gymmaint o ychwanegiadau a chyfnewidiadau o ymddanghosiad "Llythyrau Garmon" yn y *Gwyliedydd* (1826—28-29) hyd yn awr. A gellir meddwl ar ddull yr ysgrifenwyr o adrodd y chwedl fod rhyw un yn gwrando wrth y drws pan oedd y Ficer Morgan yn ymddyddan â'r Arch-esgob. Ond yr holl a ddywedir ar y mater hwn gan Charles Edwards yn ei "*Ffydd Ddiffuant,*" a gyhoeddwyd yn 1671, ydyw, "yr amheua'r Gwyneddwr a allai'r fath gymmwynas iachusol ddeilliaw o'r gymmydogaeth hono? etto gwel fel y prifiodd cecri rhai o'i blwyfolion yn fantais i'r athraw hwn yn ei

* Llyfr. y Cymry, tud. 48.

orchwyl pwysfawr: canys pan orfu iddo fyned i Lŷs yr Archesgob i atteb iddynt, canfu'r Prelad pwyllog ei odidogrwydd, ac a'i hanogodd ef i'r gwaith bendigaid hwnw."* A'r hyn oll a ddywedir gan Browne Willis ydyw, ddarfod i Morgan, oherwydd rhyw ymryson a gododd rhyngddo â'i blwyfolion gael ei wysio ger bron yr Archesgob Whitgift i Lambeth; ac i'r Archesgob ffurfio barn mor uchel am ei alluoedd fel y penododd ef yn gaplan iddo ei hun, ac yr annogodd ef i ymgymmeryd â chyfieithu y Beibl i'r Gymraeg.† Y rhai hyn ydyw yr awduron hynaf, hyd y gwyddom, sydd yn crybwyll am ymweliad Morgan â llys yr Arch-esgob, ond ni chawsant hwy afael ar yr ymddyddan cyfrinachol a gymmerodd le rhyngddynt. I ysgrifenwyr y dyddiau presennol y datguddiwyd hyn, yn gystal a llawer o bethau eraill cyffelyb.

Yr ydym yn addef yn rhwydd fod cryn lawer o naturioldeb a thebygolrwydd yn y chwedl. Y mae yn ddigon posibl i ymddyddan tebyg i'r hwn a adroddir gymmeryd lle. Os caniatawn fod a wnelo y cyhuddiad rywbeth â gwaith Morgan yn cyfieithu yr Ysgrythyrau, fel y tybia rhai, buasai yn ddigon naturiol i'r Archesgob ei holi yng nghylch ei gymmwysderau i'r fath orchwyl. Ond os, fel y mae yn fwy tebygol, mai cyhuddiad o natur arall ydoedd, ac os y caniatawn mai yn ystod yr ymweliad hwn y derbyniodd Morgan awdurdod a chynghor yr Arch-esgob i fyned ym mlaen gyda'r gwaith, buasai ymddyddan o'r fath yr un mor debyg o gymmeryd lle. Yr hyn yr yr ydym ni yn feio arno ydyw adrodd tybiaethau, casgliadau, a thraddodiadau, fel ffeithiau; a gosod geiriau yng ngenau personau heb seiliau digonol.

Y mae yn fater o syndod fod pobl mor ddiofal wrth ysgrifenu. Yn y *Cambrian Register* (*vol. iii. p.* 158), y mae un a eilw ei hun yn "*Member of the University of Oxford*," nid yn unig yn dyweyd mai Ficer Llangammarch, yn sir Gaerfyrddin [sic] oedd Morgan pan gyfieithodd y Beibl, ond rhydd gyfrif am ei fynediad i Lundain trwy ddyweyd "i'w dalentau ddyfod yn hysbys i'r Dr. Goodman, y pryd hwnw oedd *gorfudd* Westminster, yr hwn a'i gwahoddodd i dreulio ychydig o wythnosau gydag ef yn Llundain. Tra ar ei ymweliad yno, cymmerodd gyfleusdra i ddangos i'w gyfaill a'i noddwr gyfieithiad o Bum' Llyfr Moses a wnaethai yn y wlad. Archwiliwyd y cyfieithiad hwnw gan feirniaid manylgraff ac wedi iddynt ddadgan eu cymmeradwyaeth, parodd y Dr. Goodman i rai o'i gyfeillion llenyddol ddangos y cyfieithiad i Esgob Llundain. Crybwyllwyd y mater ym mhen peth amser wrth y Frenhines

* Y Ffydd Ddiffuant (arg. Dolgellau, 1822), tud. 292.
† Athenæ Cantabrigiensis, vol. ii., p. 393.

Elizabeth, yr hon a wobrwyodd ei deilyngdod (oblegid yr oedd teilyngdod yn cael ei wobrwyo yn y dyddiau hyny) ag esgobaeth, a darfu i nawddogaeth y frenhines, ei lafur, a chynnorthwy ei gyfeillion, ddwyn oddi amgylch yng nghwrs amser y rhyfeddod hwnw yn llenyddiaeth Geltaidd, sef cyfieithiad Cymraeg godidog o'r Ysgrythyrau Sanctaidd." Nis gwyddom pwy oedd y "*Member of the University of Oxford*" hwn, ond yr ydym yn sicr na wyddai ond ychydig am yr hyn yr ysgrifenai yn ei gylch. Yn y lle cyntaf, nid yn sir Gaerfyrddin y mae Llangammarch, ond yn sir Frycheiniog; ac ni fu Morgan erioed yn ficer yn y lle hwnw. Ac nid oes y sail leiaf dros ddyweyd, fel y dywed Cooper, iddo fod yn rheithor Llanwyddelan.* Ni fu a wnelo Esgob Llundain â'r cyfieithiad o gwbl; ac nid ar ol iddo gyfieithu namyn Pum' Llyfr Moses, fel y dywed y gŵr o Rydychain, y cafodd ei ddyrchafu i'r esgobaeth, ond ar ol iddo gyfieithu *yr oll* o'r Ysgrythyrau. Ni fuasem yn sylwi ar y camgymmeriadau hyn, ond yn unig fel rhybudd i'n darllenwyr rhag coelio pob peth a ddywedir hyd yn oed gan ysgrifenwyr o hòniadau tra uchel a mawreddog.

Pa fodd bynag, yr ydym yn ddigon parod i dderbyn tystiolaeth Charles Edwards, ac eraill, ddarfod i Morgan gael ei alw ger bron yr Arch-esgob i Lundain i ateb rhyw gyhuddiad a ddygid yn ei erbyn gan rai o'i blwyfolion. Y mae yr holl ffeithiau cyssylltiedig, megys llythyr cyflwyn Morgan ei hun, yn cadarnhau hyn. Ond y mae amrywiol farnau gyda golwg ar natur y cyhuddiad. Yn ol Gwilym Lleyn, anaddasrwydd Morgan i'r gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau oedd natur yr achwyniad; tra y dywed ei olygydd nad "ymddengys fod y berthynas leiaf rhwng y cŵyn a ddug ei blwyfolion yn ei erbyn a chyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg. Odid fod neb o wŷr ei blwyf yn gwybod dim am ei addasrwydd ne'i anaddasrwydd at y cyfryw orchwyl."† Dywed eraill mai y gŵyn oedd ei fod yn esgeuluso ei ddyledswyddau bugeiliol er mwyn cael amser i gyfieithu yr Ysgrythyrau;‡ ond fel yr ydym eisoes wedi sylwi, yr oedd efe yn un o'r ychydig offeiriaid ag oeddynt yn byw yn addas i'w galwedigaeth. Eraill a ddywedant mai yr achwyniad oedd ei fod yn pregethu allan o'r ffordd gyffredin, ac yn rhy lym yn erbyn difyrwch yr oes—ei fod yn erbyn pob mwynhâd difyrol, ac yn rhy bengam a dichlynaidd ei foesau.§ Ond ammheuwn a fuasai y plwyfolion mor ffol a gosod yn ei erbyn yr hyn a fuasai yn debyg o dderbyn cymmeradwyaeth yr Arch-esgob yn hytrach na'i gerydd. Ond yn ei anerchiad at y

* Athenæ Cantabrigiensis (1861), vol. ii., p. 393.

† Llyfr. y. Cymry, tud. 43, nodyn. ‡ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 59.

§ Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. ii., tud. 325; Yr Adolygydd, Llyfr II., tud. 15.

Frenhines, dywed Morgan :—" Am hyny, wrth weled mor ddefnyddiol, ie, mor angenrheidiol, a fuasai cyfieithu yr Ysgrythyrau eraill i'r iaith Gymraeg, (er i adgof o'm gwendid fy hun, maintioli'r gost, *a drygianiaeth rhai anwydau, fy nigaloni yn hir*), gan gydsynio â dymuniadau'r duwiol cymmerais fy mherswadio i ymgymmeryd â'r gwaith pwysig a llafurfawr, *yr hwn oedd i lawer yn dra anghymmeradwy.*" Wrth gymharu yr ymadroddion uchod â'r hyn a ddywedir gan Syr John Wynn yn ei lythyr at Mr. Martyn, y mae genym le cryf i gasglu fod a wnelo yr achwyniad rywbeth â gwaith Morgan yn cyfieithu yr Ysgrythyrau. Dywed Wynn, fel y sylwasom eisoes :—" Yr wyf yn gwybod nad ydych wedi anghofio yr hyn a ddygwyd yn ei erbyn ef a'i wraig er attal ei gyfieithiad diweddar, ac fel y bu i'm tystysgrif i a'm cyfeillion ei lânhau yng ngwyneb y cyhuddiad hwnw, ac achosi iddo lwyddo ; am yr hyn y meddyliwyd yn waeth o honof fi a hwythau gan rai ag yr oedd genym achos da i'w parchu." Yr ydym wedi dyfynu y sylw hwn yn flaenorol, gan ddywedyd pa beth ydyw tyb Mr. E. G. Salisbury ar y mater, sef mai at ryw ammheuaeth a deflid at gyfreithlondeb ei briodas y cyfeiriai Wynn. Ac y mae yn ymddangos i ni yn eithaf tebygol mai yr achwyniad a ddygwyd yn ei erbyn gan ei blwyfolion oedd ei fod ef, yr hwn oedd yn byw gyda gordderch-wraig, ac o'r hon yr oedd ganddo blant, neu un plentyn o leiaf, yn rhyfygu cymmaint a myned â'i ddwylaw halogedig i gyfieithu y Beibl sanctaidd. Ac yn yr helynt yma i Morgan, yr hwn oedd y pryd hwnw yn dra chyfeillgar â John Wynn, anfon ato ac erchi arno anfon tystiolaethau digonol o ddilysrwydd ei briodas o'r hon yr oedd amryw yn ardal Llanrwst erbyn hyny, y mae yn ddiammeu, yn eithaf hysbys. Y mae yn dra sicr, pa beth bynag oedd natur y cyhuddiad, mai rhywbeth ydoedd a gododd yng nghymmydogaeth Llanrwst, neu ag oedd yn dal rhyw gyssylltiad â'r lle hwnw. Oblegid pa fudd a allasai tystysgrif Wynn wneuthur gyda golwg ar fywyd Morgan a'i wraig yn Llanrhaiadr ym Mochnant ? Pa fodd bynag, bu tystysgrifau Syr John a'i gyfeillion, fel y dywed Wynn ei hun, yr hyn ni wedir gan Morgan, yn effeithiol i'w ryddhau yng ngwyneb cyhuddiadau bryntion ei blwyfolion.

Ond er y dichon mai yr hyn a awgrymwyd oedd natur a ffurf yr achwyniad, nid ydym i gymmeryd yn ganiataol mai hyn oedd y gwir achos o hono. Y traddodiad yn Llanrhaiadr ym Mochnant ydyw fod yr hen deulu oedd yn byw yn Hen Fachau, yr hwn sydd yn sefyll ryw filldir o'r pentref, yn dra Phabyddol. A chan fod y Pabyddion yn lled wrthwynebol i gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg, a chan hefyd fod trigolion Llanrhaiadr yn barod i gymmeryd eu

harwain gan deulu dylanwadol y Morrisiaid o'r Hen Fachau, llwyddodd y teulu hwnw gael gan nifer lluosog o'r plwyfolion i arwyddo yr achwyniad, yr hwn yn y lle cyntaf a anfonwyd at y Dr. William Hughes, Esgob Llanelwy, ac wedi hyny at yr Archesgob Whitgift, gan nad oedd y blaenaf yn talu nemawr o sylw iddo.

Fe ddichon fod peth gwir yn y traddodiad uchod. Ond yn ei lythyr at Mr. Martyn y mae yr Esgob yn crybwyll am ryw anghydweledíad a fu rhyngddo ag un Ieuan Meredydd. Dywed:—

Yr oedd Ieuan Meredydd a minnau yn gyfeillion, hyd nes y ceisiais, ar gais Mr. Wyn, i'w frawd Robert Wyn ei wraig bresennol, yr hyn a achosodd y fath gasineb a chyfreithio rhyngof fi a'r dywededig Ieuan, a'r hyn a gostiodd i mi rhwng £60 a £100 mwy nag a gefais. Y mae yn wir i Mr. Wyn geisio i mi ddau ddirprwywr, Mr. Morys Johnes un tro, a Mr. Morys Lewys dro arall, ac efe a fu yn gylafareddwr i mi er penderfynu yr achos hwnw. Mi a ddyoddefais yr holl ymrysonau a'r gwaradwyddiadau hyny er ei fwyn ef a'i frawd.

Yr oedd John Wynn wedi gwneuthur cyfeiriad at hyn yn flaenorol wrth Mr. Martyn yn y geiriau a ganlyn:—

Dyoddefais elyniaeth Ieuan M'dythe, a'i nai Edward Morice, y cyfreithiwr, trwy ystod ei fywyd; am i mi fod yn gylafareddwr ac yn ei erbyn, Ieuan Meredydd yr wyf yn feddwl, ac am i mi benodi fy nghyfeillion yn ddirprwywyr yn ei erbyn.

Yn awr, yr ydym yn gwybod fod un o'r enw Ieuan ab Meredydd yn byw yn Llanrhaiadr ym Mochnant yn amser Morgan. Yr oedd yn fab i Meredydd ab Ieuan o'r Lloran Uchaf, ym mhlwyf cymmydogaethol Llansilin; yr oedd yn gyfreithiwr, ac yn un o Gynghor Llys y Cyffiniau.* Ond nis gwyddom pa un ai yn yr Hen Fachau ai ynte yn rhyw le arall yn Llanrhaiadr y cartrefai. Yr oedd i'r Ieuan ab Meredydd hwn hefyd nai, mab i'w frawd hynaf Maurice, o'r enw Edward Maurice, yr hwn oedd yn fargyfreithiwr, ac yn byw yn y Lloran Uchaf.† Ac ym mhellach, yr ydym yn gwybod i Robert Wynn, pedwerydd mab Maurice Wynn o Gwydir o'i wraig Jane, a brawd John Wynn (wedi hyny y Barwnig), briodi Catherine, merch ac aeres David Lloyd ab William o'r Maes Mochnant.‡ Y mae y ffeithiau hyn yn taflu goleuni ar eiriau Wynn a Morgan, yn enwedig yr olaf, mewn perthynas i elyniaeth Ieuan Meredydd. Pa fodd yr oedd gwaith y Ficer Morgan yn ceisio Catherine Lloyd yn wraig i Robert Wynn yn cynnyrchu digofaint Ieuan Meredydd ac Edward Maurice, sydd fwy nas gallwn ddyfalu. Ond yr ydym yn methu a chael ymwared â'r dybiaeth mai y rhai hyn oedd yr achwynwyr ar Morgan. Ac y mae yn debyg mai i ddial arno am ei wasanaeth i deulu

* Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 240. † Ibid. p. 241. ‡ Ibid. p. 357.

Gwydir yr achwynwyd arno wrth yr Arch-esgob. Y mae yn amlwg hefyd na therfynodd erlidigaeth y Morrisiaid, neu'r Mauriciaid, yn y fan hon, oblegid yn ol fel y dywedir gan Wynn a Morgan, bu ymgyfreithio costus rhyngddynt a'r olaf. Yr oedd Ieuan Meredydd ac Edward Maurice ym mhlith gwŷr mwyaf dylanwadol y wlad y pryd hwnw. Ac nis gallasai ymgyfreithio â'r fath ddynion lai na bod yn orchwyl tra anffodus a cholledus i ficer tlawd fel Morgan. Methasom a chael allan yng nghylch pa beth yr oeddynt yn ymgyfreithio, ond y mae un ymadrodd yn llythyr Morgan yn awgrymu mai efe oedd ar yr iawn, neu o leiaf mai efe a gariodd y prawf. Dywed i'r ymgyfreithio gostio iddo ef rhwng £60 a £100 "*mwy nag a gefais*"; yr hyn a olygai mae'n debyg fod costau y prawf yn fwy o gymmaint a hyny na'r iawn a ddyfarnwyd iddo, yr hyn sydd yn beth lled gyffredin, fel y gŵyr pawb ag sydd wedi bod mor anffortunus a bod yn bleidiau mewn achosion cyfreithiol.

Y mae yn naturiol casglu oddi wrth yr hyn a ddywedwyd mai adeg drafferthus a chyfyng ar fywyd y Dr. Morgan oedd rhan fawr o'i arhosiad yn Llanrhaiadr ym Mochnant. Y mae yn syndod ei fod o dan y cyfryw amgylchiadau yn gallu cael ei feddwl yn ddigon clir a thawel i ymgymmmeryd â gwaith yn gofyn cymmaint o hamdden a llonyddwch. Ond pan gofiwn, bywyd digon terfysglyd a helbulus fu eiddo y rhan fwyaf o gymmwynaswyr penaf y byd. Bywyd llawn o beryglon ac ofnau oedd eiddo William Tyndal a Miles Coverdale, y cyfieithwyr Seisonig; ac yr un modd y bu gyda Luther, cyfieithydd y Beibl i'r Ellmynaeg, a Theodore Beza, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Lladin. Yn wir, eithriadau lled anaml ydyw fod dynion gwir fawr i'w cael mewn "gwelyau o rosynau"; ac nid oedd y Ficer Morgan yn dygwydd bod ym mhlith yr eithriadau hyn. Ond gwnaeth ei wrthwynebwyr yn Llanrhaiadr ym Mochnant, a hyny yn hollol anfwriadol, wasanaeth annrhaethol i'w cyd-genedl. Oni buasai iddynt achwyn ar eu ficer, y tebygolrwydd ydyw na ddeuasai byth i gyffyrddiad â'i arch-esgob; ac, mewn canlyniad, na chawsai ei "gymhell i fyned ym mlaen," "a'i gynnorthwyo gan haelioni, awdurdod, a chynghor," Whitgift. Oni buasai am ymddygiad angharedig a maleisddrwg y bobl ddiegwyddor hyny, y mae yn dra thebyg na chawsai Cymru am ryw yspaid beth bynag, ond Pum' Llyfr Moses yn unig, o lyfrau yr Hen Destament yn gyfieithiedig yn ei hiaith gyssefin. Ond raid ddim diolch iddynt hwy, mwy nag y dylid diolch i Judas Iscariot am y rhan a wnaeth i gario allan gynllun Duw i waredu y byd, trwy fradychu yr Iesu o Nazareth. Os oes rhai o'r epil yn

fyw, gobeithiwn fod arnynt gywilydd o ymddygiad eu hynafiaid.

Ond pa beth bynag oedd natur y cyhuddiad a ddygwyd yn erbyn Morgan, y mae y ffaith i'r Arch-esgob, trwy dystysgrifau Wynn o Wydir a'i gyfeillion, neu trwy ryw foddion arall, ei gael yn hollol ddieuog. A pha beth bynag a allasai fod ei fyfyrdodau ar ei ffordd i Lundain, y mae yn ddiammeu ei fod yn dra siriol wrth ddychwelyd, yn y rhagolwg y byddai i brif waith ei fywyd gael ei orphen. Pan gofiwn fod y pellder rhwng Llanrhaiadr ym Mochnant a Llundain oddeutu 200 o filldiroedd, ac nad oedd cerbydau y pryd hwnw mewn arferiad, fe gydnabyddir fod y daith yn un flin a lluddedig. Os nad ydym yn camgymmeryd, Iarll Arundel, yn 1580, oedd y cyntaf i ddwyn cerbydau i arferiad. Cyn hyn arferai y Frenhines Elizabeth farchogaeth wrth ysgîl ei hystafellydd ar achosion cyhoeddus. Ac ar ol hyny, yn wir hyd yr ail chwarter o'r eilfed-ganrif-ar-bymtheg, nid oedd ond y pendefigion yn defnyddio cerbydau.* Felly, yr oedd yn rhaid i Morgan druan naill a'i cerdded neu farchogaeth y daith faith hon, a hyny mewn cyfnod ag yr oedd y ffordd i'r brif-ddinas yn cael ei britho gan yspeilwyr arfog.

Yn sir Ddinbych y mae ficerdŷ Llanrhaiadr ym Mochnant yn sefyll; ond y mae rhan o'r tir perthynol iddo yn gorwedd yr ochr arall i'r afon Rhaiadr, o fewn terfynau sir Drefaldwyn. Y traddodiad yn Llanrhaiadr ym Mochnant ydyw mai mewn hafdŷ a elwid Pen-y-walk, ar ochr sir Drefaldwyn i'r afon, yr arferai Morgan gyfieithu y Beibl. Pa fodd bynag, y mae hyn yn cael ei ammeu gan rai ysgrifenwyr. Dywed un ar y mater hwn fel y canlyn :—

Yn yr hen ficerdy, yr hwn a helaethwyd ac a gyfnewidiwyd gan y Doctor Worthington (a chafodd driniaeth gyffelyb yn 1852 gan y Parch. W. Williams, pryd y darganfyddwyd wrth dori y mur yn y rhan ogleddol ddarn o hono wedi ei weithio â gwiail a chlai, yr hyn sydd yn dra thebygol mai adeilad felly ydoedd yn wreiddiol), y cyfieithodd Dr. Morgan yr Ysgrythyrau i'r Omeraeg. Haerai un ysgrifenydd yn ddiweddar fod llyfrgell y doctor dysgedig ym "Mhen y Walk," dros yr afon yn sir Drefaldwyn, ac mai yno y cyfieithodd y Beibl; ond nid oes sail i'r cyfryw haeriad heb law gwrachïaidd chwedlau. Dywed y diweddar Barch. Edward Davies, Trawsfynydd, yr hwn oedd fardd a hynafiaethydd rhagorol, ac yn enedigol o ardal Llanrhaiadr, mewn llythyr a gyhoeddodd yn y *Faner* er's llawer blwyddyn bellach, ei fod ef yn cofio darn helaeth o'r hen adeilad yn Mhen y Walk i fyny, ac nad oedd y tebygolrwydd lleiaf i'r cyfryw adeilad fod un amser yn llyfrgell i'r Doctor Morgan nac i un doctor arall erioed ; felly yng ngwyneb y fath dystiolaeth rhaid i sir Drefaldwyn roi yr anrhydedd deilwng i fyny i sir

* Penny Cyclop., vol. vii., p. 280.

Ddinbych fel lle y cyfieithwyd yr Ysgrythyrau ynddo i'r Omeraeg anwyl.*

A phan gofir fod ei blwyfolion yn ceisio ei wrthwynebu yn ei amcan, y mae yn dra annhebygol mai yn y cyfryw le y dygai y gorchwyl ym mlaen, gan y buasai ei waith yn symmud ei lyfrau a'i bapyrau i'r lle hwnw yn tynu sylw. Pa fodd bynag, y mae yn dra sicr mai yn Llanrhaiadr ym Mochnant, pa un bynag a'i ym "Mhen-y-walk" ai yn y Ficerdŷ, y cyflawnodd Morgan, y rhan fwyaf, os nad yr oll, o'i waith mawr.

Cyhoeddwyd ef, yn un gyfrol unplyg, yn y flwyddyn 1588; ac y mae y wyneb-ddalen fel y canlyn:—

Y Beibl Cys-
segr-lan. Sef
yr Hen Desta-
ment, a'r Newydd.

2 Timoth. 3. 14, 15.

Eithr aros di yn y pethau a ddyscaist, ac a ymddiriedwyd i ti, gan wybod gan bwy y dyscaist.
Ac i ti er yn fachgen wybod yr scrythyr lân, yr hon sydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth, trwy'r ffydd yr hon sydd yng-Hrist Iesu.

Imprinted at London by the Deputies of
Christopher Barker.
Printer to the Queenes most excellent Maiestie.
1858.

Yna y mae yn dilyn lythyr Lladin Morgan yn cyflwyno y llyfr i'r Frenhines. Ac ar ol hyny ceir "Henwau, a threfn llyfrau'r hen Destament, a'r newydd; a rhifedi pennodau pob llyfr, a'r ddalen lle ceir eu dechreu hwynt." A chan fod y llyfr mor hen a phrin, fe allai y byddai yn ddyddorol gan ryw rai gael copi o'r daflen hon, er mwyn gweled y modd yr ysgrifenai Morgan enwau y llyfrau a'r manylion eraill a roddai yn eu cylch. Dechreuir gyda Llyfrau yr Hen Destament:—

	Pennod	Dalen.		Pen.	Dalen.		Pen.	Dalen
Genesis.	50	1	2 Cronicl.	36	176	Daniel.	12	327
Exodus.	40	23	1 Esdras.	10	191	Osea.	14	334
Lefiticus.	27	41	2 Esd. neu Nehe.	13	195	Ioel.	3	337
Numeri.	36	54	Esther.	10	202	Amos.	9	338
Deuteronomium.	34	72	Iob.	42	205	Abdias.	1	340
Iosuah.	24	87	Psalmau.	150	228	Ionas.	4	340
Barn-wyr.	21	98	Diarebion.	31	246	Micheas.	7	341
Ruth.	4	109	Pregethwr	12	255	Nahum.	3	343
1 Samuel.	31	111	Caniadau Salomo	8	259	Habacuc.	3	344
2 Samuel.	24	125	Esay.	66	261	Sophonia.	3	345
1 Brenhinoedd.	22	137	Ieremi.	52	281	Aggeus.	2	346
2 Brenhinoedd.	25	151	Galarnad Ieremi.	5	304	Zachari.	14	346
1 Cronicl.	29	164	Ezeciel.	48	305	Malachi.	4	350

* Yr Haul, 1884, tud. 534. Bu un o'r beirniaid mor garedig a thynu ei bin ysgrifenu ar draws yr "*Omeraeg*" a geir ddwy waith yn y dyfyniad uchod. Ond gan mai dyfyniad ydyw, yr ydym yn ei adael fel yr oedd yn hytrach na rhoddi *y Gymraeg* yn ei le. Eto, ar yr un pryd, yr ydym yn dra diolchgar am yr awgrymiad.

Y llyfrau Apocryphaidd.

	Pennod	Dalen		Pen.	Dalen		Pen.	Dalen
3 Esdras	9	352	Doethineb	19	383	Hystori Bel a'r ddraig	1	412
4 Esdras	16	359	Ecclesiasticus	51	389	1 Machabæaid	16	413
Tobias	14	370	Baruch	6	406	2 Machabæaid	15	426
Iudith	16	374	Can y tri llangc	1	410			
Y darn arall o Lyfr Esther	6	381	Hystori Susanna	1	411			

Llyfrau y Testament newydd.

	Pen.	Dalen		Pen.	Dalen		Pen.	Dalen
Mathew	28	440	Ephesiaid	6	525	Iaco	5	541
Marc	16	454	Philipiaid	4	527	1 Petr	5	542
Luc	24	464	Colossiaid	4	529	2 Petr	3	544
Ioan	21	479	1 Thessaloniaid	5	530	1 Ioan	5	545
Gweithredoedd yr Apostolion	28	492	2 Thessaloniaid	3	532	2 Ioan	1	547
			Timotheus*	4	534	3 Ioan	1	547
Y Rhufeiniaid	16	507	Timotheus	4	534	Iud.	1	547
1 Corinthiaid	16	514	Titus	3	535	Gweledigaeth Ioan	22	548
2 Corinthiaid	13	519	Philemon	1	536			
Galatiaid	6	523	Hebræaid	13	536			

1360: Cap.

Ni ddygwyddodd i ni weled cyfargraff o Feibl Morgan gyda "Gwelliant Gwallau" ynddo, ond yn ol *Catalogue* yr Amgueddfa Brydeinig y mae y copi sydd yno yn cael ei ddysgrifio yn y fath fodd ag y gellir tybied fod y cyfryw i'w gael mewn rhai copïau:— "This copy wants the Title page, 2 leaves of Calendar, one leaf of *Errata*. These are supplied in facs. except *errata*, wch I can'tsee anywhere." Y mae amryw o wallau ynddo, er i Morgan fod flwyddyn yn Llundain yn arolygu gwaith y wâsg. Ac nis gallesid dysgwyl yn amgenach, gan mai Saeson oedd yr argraffwyr. Deuwn ar draws llawer o wallau yn rhifnodiad y dalenau, er y gallasai Saeson ysgoi y rhai hyny yn ogystal a Chymry. Wrth gymharu y daflen uchod, ceir nad ydyw yn cytuno mewn llawer man gyda'r rhifnodau ar y tudalenau. Dechreua y Psalmau ar y ddalen a rhifnodir 218, ac Ezeciel ar 306, ac nid fel y dywedir yn y daflen. Yn y daflen dywedir fod Abdias a Ionas yn dechreu ar ddalen 340, eto ar ddalen 341 y dechreuant. Ond gan fod yn y Beibl ddwy ddalen wedi eu rhifnodi yn 341, ac mai ar y gyntaf o'r ddwy y dechreua y llyfrau, y mae y cyfeiriad yn gywir. Hefyd y mae 305 ar ddwy ddalen yn y Beibl yn lle 305 a 306, ac ym mhlith camgymmeriadau eraill mewn rhifnodi'r tudalenau, yr ydym wedi sylwi ar y rhai canlynol:—

45 yn lle 44	230 yn lle 234	354 yn lle 360
119 ,, ,, 120	235 ,, ,, 247	364 ,, ,, 363
123 ,, ,, 131	267 ,, ,, 276	177 ,, ,, 377
132 ,, ,, 138	273 ,, ,, 272	248 ,, ,, 428
144 ,, ,, 142	267 ,, ,, 276	421 ,, ,, 433
197 ,, ,, 194	341 ,, ,, 340	433 ,, ,, 435

* Ni ddywedir 1 neu 2 Timotheus yn y fan hon.

Ond nid ydyw y gwallau yn gyfyngedig i rifnodau'r dalenau—nid *tudalenau*, cofier, oblegid y dalenau a rifnodir, fel yn Nhestament Salesbury. Yn Gen. xxii. 7, 8, yr ydym yn cael "poeth *a*ffrwm," tra mae "poeth *o*ffrwm" a geir mewn manau eraill; yn Marc xiii. 5, ceir "edrychw*th*" yn lle "edrychw*ch*"; ac yn Luc ix. 53, ceir "tu ag" yn lle "tuag at." Gwallau o eiddo yr argraffydd yn ddiau ydoedd y rhai uchod. Ond gallwn feddwl mai absennoldeb meddwl ar ran Morgan ei hun ydoedd gwneuthur i Iago ii. 21, ddarllen fel y canlyn:—"Onid trwy *ffydd* y cyfiawnhawyd Abraham ein Tâd ni," yr hyn a gywirwyd yn argraffiad Dolgellau, 1821, i "trwy *weithredoedd*."

Yn dilyn enwau a threfn y llyfrau y mae "Y Calendar," yr hwn sydd ar yr ail wyneb i'r ddalen ac ar y ddau du i'r ddalen ddilynol. Yna cawn daflen o'r "Pennodau neillduol neu priod i'w darllen yn y llithiau cyntaf ar Foreuol a Phrydnawnol weddi ar y Suliau trwy'r holl flwyddyn," yr hyn a lanwa oddeutu dwy ran o dair o'r wyneb gyntaf o'r ddalen ddilynol. Yna "Llithiau priod neu neillduol i bob dydd gwyl," yr hyn sydd yn parhau am ddwy ran o dair o'r ail wyneb i'r ddalen, yr hon a lenwir gan daflen fechan:—"Psalmau priod ar ryw ddyddiau." Dechreua "Llyfr cyntaf Moses yr hwn a elwir Genesis" ar y wyneb gyntaf i'r ddalen gyntaf yng nghorff y llyfr; a diwedda yr hen Destament ar y wyneb gyntaf i'r ddalen a rifnodir 351. Dechreua yr Apocrypha ar y wyneb gyntaf i'r ddalen a rifnodir 352, a diwedda ar y wyneb olaf i'r ddalen 436. Pa beth a allasai fod heblaw y wyneb-ddalen i'r Testament Newydd yn y fan hon nis gwyddom, ond y mae yn ymddangos fod dail ar goll yn y copïau a welsom ni. Oblegid dechreua "Efengyl Iesu Grist yn *ôl Sanct* Mathew" ar y wyneb gyntaf i'r ddalen a rifnodir 440, a diwedda y Testament Newydd ar y wyneb gyntaf i'r ddalen a rifnodir 555; ac ar y wyneb olaf iddi ceir taflen:—"Ysbysrwydd i gael yr Epystolau, a'r Efengylau ar bob Sul a gwyl," &c. Dyna yn fyr, can belled ag y gallwn farnu oddi wrth y copïau ammherffaith a welsom, oedd cynnwysiad y gyfrol pan ddaeth o ddwylaw yr argraffydd.

Y mae y llyfr wedi ei ranu yn bennodau ac adnodau trwyddo, gyda chynnwysiad o flaen pob pennod, ond heb yr "Argumentau" a geir o flaen y llyfrau yn Nhestament Salesbury. Er mai yn y "Llythyren ddu" ei hargraffwyd, y mae yn llawer eglurach a hawddach ei ddarllen na Thestament 1567. Nid oes nodiadau eglurhaol ar ymyl y dail fel yn hwnw, ond ceir ychydig o gyfeiriadau ymyl-ddalenol at adnodau eraill, er nad yn agos mor lluosog ag y maent mewn Beiblau diweddar. Sylwasom hefyd ei fod yn

gosod myneg-fys i gyfeirio at y rhanau o'r Efengylau neu yr Epistolau sydd i'w darllen ar ddyddiau penodol.

Y mae addurniadau y gyfrol yn dangos perffeithrwydd cerfiadaeth yr oes. Y maent hefyd yn profi fod y cyfieithydd neu'r argraffydd, ac ond odid y ddau, yn dra theyrngarol. Y mae ymylon y wyneb-ddalen wedi eu godreuo yn brydferth, a'r rhan uchaf yn ffurfio pais-arfau y Frenhines Elizabeth. Ceir yr arfarwyddion hyn hefyd mewn amryw o fanau eraill yn y llyfr, megys ar ddiwedd llyfrau Iob a Malachi. Ond drwg genym fod rhyw "ddwylaw blewog" wedi tori y wyneb-ddalen a'r addurniadau hyn yn y rhan fwyaf o'r copïau a ddaeth dan ein sylw.

Cyhoeddwyd rhyw fath o ail argraffiad o Feibl Morgan, yn 1821, gan Richard Jones, argraffydd a chyhoeddwr, yn Dolgellau. Ond, fel y mae yn ofidus dyweyd, nid yw ond anghyflawn ac anghywir.* Yn y lle cyntaf, ac eithrio Llythyr Lladin Morgan, nid yw yn cynnwys y taflenau a'r mater ag sydd yn rhagflaenori yr argraffiad cyntaf; ac nid yw yr Apocrypha ynddo. Yn argraffiad 1588, y mae llyfr Ezra yn cael ei alw yn "Llyfr cyntaf Esdras"; a llyfr Nehemiah yn cael ei alw yn "Llyfr Nehemias, yr hvvn hefyd a elwir ail llyfr Esdras"; ac yn yr Apocrypha, y mae y cyntaf a'r ail Esdras yn myned o dan y rhifnodau y trydydd a'r pedwerydd. Yn hyn, can belled ag y mae a fyno llyfrau Ezra a Nehemiah â'r cwestiwn, y mae yr ail argraffiad yn dilyn. Y mae yr ail argraffiad yn rhoddi yr un enwau ar y llyfrau a'r cyntaf, ac yn ei ddilyn trwy roddi yr un "cynnwysiad" i'r pennodau. Ond y mae argraffiad 1821 yn ychwanegu yn fawr yn rhif y cyfeiriadau ymyl-ddalenol, gan ddefnyddio y rhai a geir ym Meibl y Dr. Parry. Nid oes nodiadau ar waelod y dail yn argraffiad 1588, ond y mae llawer i'w cael yn argraffiad 1821. Wrth gymharu y Llythyr Lladin, hefyd, ceir fod yr argraffiad olaf yn hynod o wallus. Ac hyd yn oed yma a thraw yn y testyn ceir cryn nifer o wallau sillebol. Nodwn ychydig enghreifftiau, gan osod y ddau argraffiad yn gyfochrog:—

Argraffiad 1588.	Gen. iv. 26.	*Argraffiad* 1821.
Yna y *decreuwyd* galw ar enw'r Arglwydd.		Yna y *dechreuwyd* galw ar enw yr Arglwydd.
	Diar. i. 20.	
Doethineb sydd yn gwaeddi oddi allan, y mae hi yn llefain yn yr heolydd.		*Doethion* sydd yn gwaeddi oddi allan, y mae hi yn llefain yn yr heolydd.
	Preg. ix. 12.	
Ie ni ŵyr dŷn ei *amser* mwy na'r pysc a ddelir *a'r* rhwyd.		Ië ni ŵyr dyn ei *amsar* mwy na'r pysc a ddelir *â'r* rhwyd.
	Matt. viii. 5.	
Wedi dyfod yr Iesu i Capernaum y daeth atto ef Ganwriad gan *ddeisufu* arno.		Wedi dyfod yr Iesu i Capernaum y daeth atto ef Ganwriad gan *ddeisyfu* arno.

*Yn ol hysbysiad a welsom yn ddiweddar, daeth argraffiad Dolgellau allan mewn ugain o ranau, swllt yr un.

Luc xxii. 3.

Yna Pilatus a ofynnodd iddo gan ddywedyd, ai ti yw Brenin yr *Iddewon*!	Yna Pilatus a ofynnodd iddo gan ddywedyd, Ai ti yw Brenin yr *Iuddewon?*

1 Tim. iii. 9.

Yn *dala* dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur.	Yn *hala* dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur.

Heb. vii. 23.

A mwy o honynt hwy a wneid yn *offairiaid* am i farwolaeth luddio iddynt barhau.	A mwy o honynt hwy a wneid yn *offeiriadau* am i farwolaeth luddio iddynt barhau.

Heb. iv.

Adn. 3.—Orphywysfa, gorphwysfa	Orphwysfa, gorphwysfa
Adn. 4.—Gorphywysawdd	Gorphywysawdd
Adn. 5.—Gorphwysfa	Gorphwysfa
Adn. 8.—Orphywysfa	Orphwysfa
Add. 9.—Orphywysfa	Orphwysfa
Add. 10.—Orphywysfa, gorphwysodd	Orphywysfa, gorphwysodd
Adn, 11.—Orphywysfa	Orphywysfa

Fe welir oddi wrth yr enghreifftiau olaf fod yr ail argraffiad weithiau yr un fath a'r cyntaf, a phryd arall yn wahanol. Ceir enghraifft arall yn Philemon, 9:—"cyd-filwr" sydd yn arg. 1588, ond "cyd-filwyr" sydd yn argraffiad 1821. Mewn canlyniad, nid ydyw yr olaf mewn un modd yn ail argraffiad cywir o'r blaenaf. Dylasai yr ail argraffiad o lyfr fel hwn ddilyn diffygion yn gystal a rhagoriaethau y cyntaf. Da a fuasai genym pe dygasid argraffiad cyfluniol o'r holl waith, yr hyn a fuasai yn amgenach cof-arwydd i Gymru o'r penaf o'i henwogion nag unrhyw adail na cholofn a godir byth i barhau ei goffadwriaeth. Y mae ein diolchgarwch fel cenedl yn ddyledus i Mr. J. Gwenogfryn Evans, M.A., am ddwyn allan gyfieithiad Morgan o Lyfr Iob yn y flwyddyn ddiweddaf (1888).* Hyderwn y bydd iddo gael cefnogaeth ddigonol i'w dueddu i gyhoeddi rhanau eraill o'r un cyfieithiad; gan y byddent yn rhwym o fod yn gaffaeliad pwysig i'r efrydydd Cymreig. Yr unig ddiffyg a ganfyddwn yn yr hyn a wnaeth Mr. Evans o'r gwaith, ydyw, ei fod wedi gadael yr adnodau heb eu rhifnodi, yr hyn sydd yn achosi peth trafferth wrth ei gymharu â chyfieithiadau eraill.

Ond i ddychwelyd at yr argraffiad cyntaf. Yr ydym yn ddyledus am gryn lawer o awgrymiadau mewn perthynas i gyfieithiad Morgan, yn enwedig yng nglyn â'r annogaethau a gafodd i fyned ym mlaen gyda'r gwaith, a'r rhwystrau a'i cyfarfyddodd, i'r Llythyr Lladin yn yr hwn y cyflwyna y gyfrol i'r Frenhines Elizabeth. Ar y tir hwnw, yn gystal ag am ei fod yn gynnyrch ysgrifbin Morgan ei hun, ni a'i rhoddwn yma mewn gwisg Gymreig. Cyn gwneuthur hyny, fe allai y goddefir i ni sylwi mai dyma y tro cyntaf hyd y gwyddom iddo ymddangos felly. Y mae

* The Book of Job Translated, by William Morgan, D.D. Oxford: J. G. Evans, 7, Clarendon Villas. London: Henry Frowde, Amen Corner, E.C. 1888.

yn wir fod Charles Edwards, yn ei *Ffydd Ddiffuant*, wedi rhoddi arall-eiriad o ranau o hono; ac y mae ysgrifenwyr diweddar yn ei ddyfynu. Ond nid ydyw Edwards wedi cyfieithu mo'i hanner. Hysbysir ni hefyd gan Ioan Pedr i Mr. Gladstone, er ys rhai blynyddau yn ol, wneuthur cyfieithiad cyflawn o hono i'r Saesoneg, ar gais Mr. Thomas William Hancock, gyda'r amcan, mae'n debyg, iddo ymddangos mewn cyfrol o eiddo yr olaf ar y Dr. Morgan. Ond nid ydyw y gyfrol hòno wedi ymddangos eto; a phe buasai, gan mai cyfieithiad i'r Saesoneg oedd un Mr. Gladstone, ni allasai y Cymro un-ieithog ei fwynhau. Dymunem sylwi hefyd fod cyfieithiad Cymraeg o'r llythyr hwn mewn hen ysgrifllyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig.* Nis gwyddom pwy oedd y cyfieithydd, ond ni ymddengys y llawysgrif yn hynach na'r ganrif ddiweddaf. Oni bai ei fod yn aralleirio rhai brawddegau yn lle eu cyfieithu, yn gystal a bod y cyfieithiad canlynol wedi cael ei baratoi cyn i ni dd'od o hyd iddo, buasem yn ei osod yma. Ond wedi'r cyfan, yn ffurfiad y brawddegau y mae y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt, er y dichon fod yr un a ganlyn, ar y cyfan, yn fwy llythyrenol:—

I'r Ardderchocaf, Alluocaf, a Grasusaf Dywysoges Elizabeth, trwy Ras Duw, Brenhines Lloegr, Ffrainc, a'r Iwerddon, Amddiffynydd y wir a'r Apostolaidd Ffydd, &c., Gras a bendith dragywyddol yn yr Arglwydd.†

Pa faint y mae eich Mawrhydi, odidocaf Dywysoges, yn nyled y Goruchaf Dduw (heb son am eich cyfoeth, eich gallu, a'ch rhyfeddol gynnysgaeddiad â doniau a galluoedd naturiol) a ddangosir yn y modd mwyaf amlwg, nid yn unig trwy y rhinwedd anghyffredin am yr hwn eich hoffir gan lawer, a thrwy y ddysgeidiaeth amrywiol â'r hon eich addurnir uwch law pawb eraill, a thrwy yr heddwch llawn yr ydych yn ei fwynhau uwch law eich cymmydogion, ac am mai trwy ei amddiffyniad Ef y gyrasoch ar ffo eich gelynion creulawn yn ddiweddar, yr hyn ni ellir ei edmygu yn ddigonol, ac y diangasoch yn ffodus o beryglon lluosog a mawrion; eithr hefyd am y duwioldeb rhagorol, clodfawr trwy'r holl fyd, â pha un y meithrinodd ac yr addurnodd Efe eich Mawrhydi; ac ym mhellach, trwy yr eiddigedd brwdfrydig a ddangoswyd genych trwy amddiffyn a lledaenu gwir grefydd, gyda'r hon yr ydych yn llosgi yn wastadol.

Ond (a gadael heibio yn bresennol genhedloedd eraill, a'r gweithredoedd rhagorol eraill a wnaethpwyd genych chwi) gellir dangos gofal duwiol eich Mawrhydi am eich Brytaniaid yn yr un peth hwn, sef, nid yn unig eich caniatad caredig i gyfieithu i'r Gymraeg ddwy ysgrif sanctaidd Gair Duw, sef yr Hen Destament a'r Newydd, yng nghyda'r llyfr hwnw sy'n cynnwys

* Additional MSS. No. 15,059, fol. 33-40.

† Dechreua y Llythyr Lladin fel hyn:—"Illustrissimæ, Potentissimæ, Serenessimæq; Principi Elizabethæ, Dei Gratia, Angliæ, Galliæ, & Hiberniæ Reginæ, Fidei veræ & Apostolicæ Propugnat, &c. Gratiam & Benedictionem in Domino Sempiternam." Ond yn yr ysgrifllyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig, dywedir:—"I'r Ardderchocaf, alluocaf, a hynawsaf dywysoges Elizabeth, trwy rodd Duw Brenhines Lloegr, Ffrainc ac Iwerddon, amddiffynydd y ffydd. Gras a thragwyddol fendith yn yr Arglwydd." Gallwn grybwyll i gyfieithiad o'r llythyr hwn ymddangos yn yr *Haul* am Medi, 1889. Ond yr oedd ei ymddangosiad yn rhy ddiweddar i fod o wasanaeth i ni; ac nis gwelsom ef cyn ysgrifenu y sylwadau uchod. Cyfieithydd hwnw ydoedd y Parch. D. Jones, rheithor Llanfair P.G.

y Ffurf-wasanaeth Cyhoeddus a gweinyddiad y Sacramentau, ond ordeiniasoch hefyd fod i'r cyfryw orchwyl dderbyn cymmeradwyaeth Uchel-lys y deyrnas enwocaf hon. Yr oedd y weithred hon ar yr un pryd yn rhagweled ein syrthni a'n difrawder ni, gan nas gellid ein cynhyrfu gan angen mor fawr, na'n cymhell gan gyfraith mor llesol, fel yr arhosai peth mor bwysig a hwn (pwysicach nis gallai fod dim) cyhyd heb ei gymmeryd mewn llaw. Oblegid y Ffurf-wasanaeth a'r Testament Newydd yn uniz a gyfieithwyd i'r Gymraeg, er ys ugain mlynedd yn ol, gan y Parchedig Dad Richard, o dduwiol goffadwriaeth, Esgob Tŷ Ddewi (gyda chynnorthwy William Salesbury, gŵr gwir deilwng o'n Heglwys ni).

Ac nid hawdd mynegi pa faint y llesâd a dderbyniodd ein cydwladwyr oddi wrth hwnw. Oblegid trwyddo daeth ein pobl gyffredin yn ddiweddar, wrth gymharu yr hyn oedd wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg a Saesoneg ochr yn ochr, yn fwy hyddysg yn yr iaith Saesoneg; yr hyn a arweiniodd tuag at gyfranu a derbyn addysg o'r gwirionedd. Canys, yn wir, prin y medrai un neu ddau y pryd hwnw bregethu yn Gymraeg, gan fod y geiriau Cymraeg angenrheidiol i egluro y dirgeledigaethau sanctaidd a geir yn yr Ysgrythyr Lân wedi myned ar ddifancoll yn hollol, fel pe wedi eu golchi ymaith â'r dyfroedd Lethëaidd, neu yn gorwedd yn gudd̈iedig ac wedi eu claddu dan bentwr, megys, o lwch anarfer; fel nas gallasai y dysgawdwyr egluro yn foddhaol yr hyn a ewyllysient, na'r gwrandawyr ddeall yn briodol yr hyn a eglurid. Ym mhellach nid oedd y rhai llai cynnefin yn alluog i wahaniaethu rhwng gwirioneddau yr Ysgrythyrau eu hunain a'r esboniadau a roddid arnynt; fel, er eu bod yn ymgasglu yn chwannog i gymmanfäau ac yn teimlo dyddordeb brwdfrydig yn y cyfryw, eto yr oedd y mwyafrif o honynt yn myned ymaith mewn ammheuaeth ac ansicrwydd, megys fel pe wedi d'od o hyd i drysor mawr at yr hwn nis gallent gloddio, neu fel pe mewn gwledd lawn o'r hon ni chaffent gyfranogi.

Ond yn awr, trwy ddirfawr ddaioni y Goruchaf a'r Galluocaf Duw, trwy eich gofal digyffelyb chwi, trwy wyliadwriaeth wastadol ein harweinwyr, a thrwy lafur a diwydrwydd y cyfieithydd hwnw, y mae genym lawer mwy a gwell pregethwyr, yn gystal a gwrandawyr parotach i ddysgu. Ac er, ar y naill law, y mae y ddau beth yma yn boddhau y duwiolion, eto, ar y llaw arall, nid oes yr un o honynt hyd yn hyn yn ateb, hyd yn oed yn gymmedrol, i'w dymuniadau. Oblegid gan fod y Testament borcuaf, yr hwn a gynnwysa ragfynegiadau a chysgod-luniau, ac sydd yn dyst diammheuol i'r llall, hyd yn hyn heb ddyfod i gyrhaedd ein cydwladwyr; pa nifer (ysywaeth!) o gyfarwyddiadau sydd yn guddiedig! pa nifer o addewidion sydd yn anhysbys! pa nifer o gysuron sydd yn orchuddiedig! ac yn olaf, pa nifer o rybuddion, annogaethau, gocheliadau, a thystiolaethau i'r gwirionedd, o ba rai yr amddifedir ein pobl o'u hanfodd: y rhai y mae eich Mawrhydi yn lywodraethu, yn gofalu drostynt, ac yn eu caru, ac iachawdwriaeth dragwyddol y rhai, a gasheir yn unig gan Satan a'i ysprydion gweinyddawl, oedd hyd yn hyn mewn dirfawr berygl; oblegid gan fod pob dyn i fyw trwy ffydd, a bod ffydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw, yr hwn o herwydd ei fod hyd yn hyn mewn iaith ddyeithr, ni seiniodd yn effeithiol yng nghlustiau ein cyd-wladwyr.

Am hyny, wrth weled mor ddefnyddiol, ie, mor angenrheidiol, a fuasai cyfieithu yr Ysgrythyrau eraill i'r iaith Gymraeg (er i adgof o'm gwendid fy hun, maintioli'r gorchwyl, a drygianiaeth rhai anwydau, fy nigaloni yn hir), gan gydsynio â dymuniadau'r duwiol, cymmerais fy mherswadio i ymgymmeryd a'r gwaith pwysig a llafurfawr, yr hwn oedd i lawer yn dra anghymmeradwy. Ac wedi yn brin ei ddechreu, buaswn wedi diffygio gan

anhawsder y gorchwyl a maintioli'r gost, ac ni ddygaswn ond Pum' Llyfr Moses yn unig i'r wâsg, oni buasai i mi gael fy nghymhell i fyned ym mlaen a fy nghynnorthwyo gan haelioni, awdurdod, a chynghor y Parchedicaf Dad yng Nghrist, Arch-esgob Caergaint, noddwr llenyddiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a gwyliwr gofalus dros weddeidd-dra a threfn ; yr hwn, o dan eich Mawrhydi, a lywyddodd y Cymry gyda'r doethineb a'r iawnder mwyaf, gan ystyried ufudd-dod a deall ein cydwladwyr a edrychodd arnynt yn garedig, fel y maent hwythau bob amser yn ei glodfori yntau. Yn ol ei esiampl ef, bu gwŷr da eraill o ddirfawr gymhorth i mi. Ac ar ol i mi gael mynych gymhellion, fy nghefnogi a'm cynnorthwyo gan eu hannogaethau, eu diwydrwydd, a'u llafur, hyd nes y cyfieithiais yr oll o'r Hen Destament ac y diwygiais y newydd oddi wrth yr arddull wallus ag oedd yn ei anurddo gymmaint, yr wyf yn petruso mewn ammheuaeth i bwy y mae yn iawn ac yn addas i mi ei gyflwyno. Pan gofiaf, ar y naill law, fy annheilyngdod anferth fy hun, ac yr ystyriaf ardderchogrwydd eich Mawrhydi, ac y meddyliaf am Yspryd Duw ei hunan, rhaglaw yr hwn ydych chwi, a'r hwn sydd yn llewyrchu ynoch, yr wyf yn arswydo rhag dynesu at y fath ogoniant sanctaidd. Eto, ar y llaw arall, y mae haeddiant y gorchwyl (yr hwn sydd yn hawlio eich nodded ar ei deilyngdod ei hun) yn rhoddi nerth i mi. Ac ym mhellach, gan i chwi ystyried y Testament arall a argraffwyd yn Gymraeg yn deilwng o sylw mor ffafriol, mor garedig, ac mor dywysogaidd, ystyriaf y buasai chwilio am noddwr arall i hwn yn ffol, yn anaddas, ac yn angharedig. Ac ystyriaf hefyd na ddylai y llyfrau hyn, ag ydynt mor gyssylltiol â'u gilydd, ac yn cydweddu â'u gilydd mor dda, gael eu gwahanu fel ag i attal i gopïau o'r llyfrau hyn, y rhai ydynt yr un mewn gwirionedd, rhag cael eu gosod yn yr un casgliad. Ac felly yr wyf yn ostyngedig yn gofyn mai hyn fydd barn eich Mawrhydi ; ac ym mhellach, yr wyf yn deisyf yn daer ar fod i chwi edrych gyda'ch hynawsedd caredig ar fy llafur, yr hwn mi a obeithiaf a fydd, trwy awdurdod eich cyfreithiau, yn tueddu at ddaioni eich deiliaid a gogoniant eich Duw ; a'r hwn a fydd yn goffadwriaeth barhaus o'ch sêl dros y gwirionedd yn gystal ag o'ch gofal am y Cymry, ac a fydd hefyd yn arwydd o gariad aiddgar y Cymry at eich Mawrhydi.

Os oes rhai yn ewyllysio, er mwyn sicrhau unffurfiaeth, a'r fod i'n cydwladwyr gael eu cymhell i ddysgu yr iaith Saesoneg yn hytrach nag i'r Ysgrythyrau gael eu cyfieithu i'n hiaith ni; mi a fynwn iddynt fod yn fwy gwyliadwrus rhag iddynt, yn eu hawydd am undeb, fod yn rhwystr i'r gwirionedd ; ac fod iddynt ochel rhag gyru crefydd ymaith trwy geisio meithrin cydgordiad. Oblegid, er y byddai yn dra dymunol i drigolion yr un ynys fod o'r un iaith ac ymadrodd, eto, dylid ystyried hefyd y cymmerai hyny gymmaint o amser a thrafferth i'w ddwyn i ben, fel y byddai yn rhy dost a chreulawn ewyllysio neu oddef i bobl Dduw drengu o newyn truenus am ei air Ef yn y cyfamser. Heb law hyny, nid oes ammheuaeth nag ydyw unffurfiaeth a chydgordiad mewn crefydd, yn hytrach nag mewn iaith, yn tueddu yn fwy at gynnyrchu undeb. Ym mhellach, nid ydyw mewn un modd yn briodol cyfrif undeb na chyfleusdra o flaen crefydd, ac nid ydyw yr ymddanghosiad allanol hwnw o gytundeb rhwng dynion â'u gilydd i'w gymharu â'r heddwch y mae Gair Duw yn ei argraffu ar feddyliau dynion. Yn olaf, mor ffol ydyw y rhai a dybiant fod gwahardd i ddyn gael Gair Duw yn iaith ei fam yn ei annog i'w ddysgu mewn iaith estronol! Canys, os na ddysgir crefydd yn yr iaith gyffredin, arhosa yn guddiedig mewn iaith anadnabyddus. A'r peth ni wyr dyn ddim am dano, ni wyr ychwaith ei ddefnyddioldeb, ei hyfrydwch, na'i werth, ac ni chymmer ddim poen i'w

gyrhaedd. Gan hyny, atolygwn ar eich Mawrhydi beidio cymmeryd eich rhwystro (ac yr wyf yn sier na bydd i chwi gymmeryd eich rhwystro) gan unrhyw ddadleuon rhithweddol, rhag ychwanegu i'r rhai y dechreuasoch eu bendithio â chymmwynasau ; rhag tybied nad ydyw y rhai a gawsant un Testament genych yn deilwng o un arall ; rhag caniatau un arall i'r rhai hyny ag yr ydych eisoes wedi estyn iddynt un ffynnonell y gwirionedd ; a rhag ymdrechu gorphen yr hyn yr oeddych yn awyddus i ymgymmeryd ag ef : fel, yn wir, y gall eich holl bobl glywed pethau rhyfedd Duw yn eu hiaith eu hunain, ac fel y byddo i bob tafod glodfori Duw.

Bydded i'r nefol Dad—yr hwn sydd, fel y gwelir, wedi addurno gwendid dynol, y rhyw fenywaidd, a chynneddfau morwynol, gyda'r fath rinweddau arwraidd, fel ag i fod (fel y buoch yn wastad) yn ddyddanwch i'r trallodus, yn ddychryn i'ch gelynion, ac yn Phœnix y byd—yn raslawn ganiatau fod i chwi gael eich tywys gan yr Ysbryd nefol, eich arwisgo â doniau dwyfol, a'ch cysgodi gan adenydd y Goruchaf, fel y byddo i chwi barhau yn fam anrhydeddus yn Israel, yn fammaeth dduwiol i'r Eglwys, yn ddiogel yn wastadol rhag eich gelynion, ac yn elyn i bechod ; er gogoniant tragywyddol i'r goruchaf a'r galluocaf Dduw, i'r hwn y byddo pob gallu, anrhydedd, a mawl, yn oes oesoedd. Amen.

Ydwyf, eich Grasusaf Fawrhydi,
Gyda phob parch,
Eich gwasanaethydd mwyaf ufudd,
WILLIAM MORGAN.

Enwau y rhai, uwch law eraill, a ymdrechasant i hyrwyddo y gwaith hwn.

Y Tadau Parchedig, Esgobion Llanelwy a Bangor, a fu wiw ganddynt ganiatau i mi y llyfrau a ddeisyfwn, ac i archwilio, golygu, a chymmeradwyo y gwaith hwn.

G. Goodman, Deon Westminster, gŵr gwir ragorol mewn gwirionedd yn gystal ag mewn enw, a llwyr ymroddedig i bob daioni, yr hwn fu mor ddyfal gyda mi pan oeddwn yn adchwilio yr hyn a gyfieithaswn fel y cynnorthwyodd fi yn fawr â'i lafur a'i gynghor : rhoddodd i mi lawer o'i lyfrau ei hun, gan ganiatau i mi ddefnyddio y gweddill o honynt ; ac hefyd am y flwyddyn gyfan y bu y llyfr hwn yn y wâsg (a fu fel dolen gydiol rhwng y rhai a gyd-weithredent â mi) a'm llettyodd ; yr hyn garedigrwydd a gynnygiwyd i mi yn y modd tirionaf gan y Parchedicaf Arch-esgob, am yr hwn y crybwyllais eisoes yn y llythyr hwn, ond yr hyn yn wir fe'm gorfodwyd i'w wrthod gan fod yr afon Tafwys yn rhanu ac yn gwahanu rhwng ei dŷ ef a'r wâsg.

Yn yr un modd, rhoddodd y rhai canlynol gynnorthwy na ddylid ei ddibrisio.

D. Powel, Doctor Duwinyddiaeth Sanctaidd.
E. Prŷs, Archddiacon Meirionydd.
Rd. Vaughan, Llywydd Ysbytty St. Ioan, yr hon sydd yn Lutterworth.

Yr ydym yn gweled oddi wrth y llythyr uchod fod Morgan wedi bod "flwyddyn gyfan" yn Llundain yn arolygu ei waith trwy'r wâsg. Rhaid ei fod felly wedi gorphen ei gyfieithiad ryw bryd yn y flwyddyn 1587 ; er yn ddiammeu ei fod ef yn cael ei gynnorthwyo gan y Dr. Goodman i gywiro rhyw gymmaint arno yn ystod y flwyddyn hòno. Y mae yn anhawdd penderfynu i

sicrwydd pa bryd yn y flwyddyn hòno yr aeth Morgan a'i gyfieithiad i Lundain. Ond yr ydym yn cael lle i feddwl i'r gwaith gael ei gyhoeddi oddeutu dechreu mis Tachwedd, 1588; ac os felly, gan iddo fod "flwyddyn gyfan" yn y brif ddinas, aeth yno oddeutu Tachwedd, 1587. Y mae yn amlwg mai ar ol gorchfygiad a gwasgariad llynges Yspaen (*Spanish Armada*) y cyfansoddodd Morgan ei lythyr cyflwyn i'r Frenhines; ac hefyd mai at hyny y cyfeiria pan y dywed mai trwy amddiffyniad Duw y gyrodd Elizabeth ar ffo ei gelynion "diweddar." Ac y mae amryw o gyfeiriadau yn y llythyr fod heddwch yn teyrnasu yn y deyrnas hon yr adeg yr ysgrifenwyd ef. Ond gan mai ym mis Medi y terfynwyd y rhyfel hwnw, rhaid fod ysgrifeniad y llythyr ryw gymmaint yn ddiweddarach.* Hefyd yn y cyfargraff o'i Feibl â pha un yr anrhegodd Morgan lyfrgell Mynachlog Westminster, yr ydym yn cael y geiriau canlynol yn ysgrifenedig:—

Gwilielmus Morgan Sacræ Theologiæ Professor, hanc Britannicam Sacrorum Bibliorum translationem Westmonasteriensi bibliothecæ dono dedit; vicesimo die mensis Novembris, Anno restaurationis humani generis Millesimo quingentesimo octogesimo octavo.

אֱלֹהַו בְּךָ בָטַחְתִּ[2] :

Teste JASPAR GRYFFYD.

Y mae yr oll o'r cofnodiad uchod yn yr un llawysgrif, sef eiddo Jasper Gruffydd, cyfaill i'r Dr. Morgan a'r Deon Goodman, yr hwn wedi hyny a gafodd ei benodi gan yr olaf yn *warden* Ysbytty Rhuthyn. Yn Gymraeg, darllena y cofnodiad yn debyg i hyn:—"William Morgan, Doctor Duwinyddiaeth Sanctaidd, a anrhegodd lyfrgell Westminster â'r cyfieithiad hwn o'r Beibl Sanctaidd i'r Gymraeg ar yr 20fed dydd o fis Tachwedd ym mlwyddyn adferiad yr hil ddynol 1588." A hysbysir ni fod y geiriau Hebraeg yn arwyddo—"O fy Nuw, ynot ti yr ymddiriedais:" (Ps. xxv. 2). Ond at hyn yr oeddym yn cyfeirio, sef fod yn rhaid fod y Beibl wedi cael ei gyhoeddi ar ol Medi, a chyn yr 20fed o Dachwedd, yn y flwyddyn 1588. Ac y mae yn dra thebyg mai ym mis Tachwedd y cyhoeddwyd ef, gan y gallwn dybied mai un o'r pethau cyntaf a wnaeth Morgan ar ol ei gyhoeddi oedd anrhegu llyfrgell Westminster â'r cyfargraff hwn, fel cydnabyddiaeth i'r Deon am ei gynnorthwy a'i lettygarwch croesawgar.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y Beibl, dygwyd allan argraffiad o'r Psalmau, yn llyfr pedwar plyg, mewn "llythyren ddu." Nid yw enw yr argraffydd wrtho, ac y mae y wyneb-ddalen

* Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o ddiolchgarwch am waredigaeth o'r *Armada* yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, Tach. 24, 1588, pryd yr oedd y Frenhines yn bresennol. (*Annals of England, vol. ii., p.* 310.)

yn darllen fel y canlyn :—

Psalmau
Dafydd o'r vn cy-
fieithiad a'r Beibl
cyffredin.
Iaco. 5. 13.
A oes neb yn esmwyth arno ?
Caned Psalmau.
Anno 1588.

Y mae yn dra thebyg mai argraffiad hylaw o'r Psalmau ydoedd hwn, a wnaed tuag at wasanaeth teuluaidd. A chan ei fod "o'r un cyfieithiad a'r Beibl cyffredin," i Morgan yr oedd y wlad yn ddyledus am ei gyfieithu, os nad am ei gyhoeddi. Yn anffodus, nid oes enw cyfieithydd, cyhoeddwr, nac argraffydd, wrtho o gwbl. Ond y mae ei fod o'r un cyfieithiad a'r Beibl yn profi pwy oedd y blaenaf. Ni wyddom ond am ddau gyfargraff o hono, ac y mae y rhai hyny yn yr Amguedda Brydeinig. Rhestrid un o honynt hyd yn ddiweddar yn nosbarth yr ysgriflyfrau yn y *Sloane Collection*, am y rheswm, fe allai, fod cyfieithiad o hono i'r Seisoneg, a orphenwyd gan un T. Bowyer ar y 5ed o Awst, 1595, wedi ei gydrwymo ag ef. Gwnaeth Bowyer y cyfieithiad hwn i'w gyfnither Anne, er mwyn i'w gŵr a'i mab gael rhyw gysur tra yn trigo yng Nghymru. Ond y mae y gyfrol yn awr wedi ei throsglwyddo i blith y llyfrau argraffedig, ac yn dwyn y "*Press-mark*" *1017. l. b. (1)*. Y mae y gyfrol arall o'r "Psalmau" hyn yn dwyn y "*Press-mark*" *872. k. 2;* ac y mae yn ysgrifenedig ar y rhan uchaf o'r wyneb-ddalen, "Mauricij Kyffin Liber Ex dono Mri [Magistri] Joannis Price 1588"; ac o dan hyny, yn llaw Richard Morris ei hun, ceir :—"Llyfr Rhist Morys o'r Nafi Offis, Llundain, 1761." Ceir amryw o nodiadau trwy y gyfrol, hefyd, yn llawysgrif Samuel Williams, o Langynllo, tad Moses Williams. Gallasem nodi amryw o bethau dyddorol eraill yng nglyn â'r llyfr hwn, ond rhaid ymattal.

Yr ydym yn cael hefyd i Morgan, yn yr un flwyddyn, gyhoeddi pregeth a draddodwyd ganddo yn angladd Syr Yevan [Evan] Lloyd, o Iâl. O leiaf, gallwn gasglu hyny oddi wrth y cofnodiad ddarfod i Richard Jones dalu chwe' cheiniog am yr hawl-fraint i'w hargraffu :—

xix ffebruarij [1588]

Richard Jones—Receaued of him for printinge *a Sermon preached by master Doctor Morgan at the funerall of Sir Yevan Lloyd Knight*, to be prynted in Welche, aucthorysed vnder the handes of the archbishop of Canterbury and bothe the Wardens . . . . . vj d.*

* Register B. of the Stationers' Company, vol. ii., p. 484.

Hyd y gwyddom ni, nid oes gyfargraff o'r bregeth hon ar gael yn bresennol. Y mae yn debyg i Morgan fyned a'r bregeth yma gydag ef i Lundain, pan yn myned â'r Belbl yno i'w argraffu. Yr oedd hon yn hen bregeth erbyn hyn, gan fod Syr Yevan Lloyd wedi marw er 1583, pan yn dal y swydd o sirydd sir Ddinbych. Yr oedd yn byw yn Bodidris, yn Iâl, ac yn fab i John Lloyd o'r un lle, o'i wraig Catherine, merch Harri Goch Salesbury,* ac felly yn gefnder i Ellen gwraig gyntaf y Dr. Morgan. Yr un oedd efe a'r hwn y cyfansoddodd Hugh Guffydd "*an Epytaphe*" ar ei farwolaeth, yr hon a argraffwyd gan Richard Jones yn 1587. Os gwir yr hanes a geir am ferthyrdod Richard White, gellir barnu fod Syr Yevan yn dra gelyniaethus i'r Pabyddion, ac nad oedd yn rhydd o lwgrwobrwyo dynion i ddwyn tystiolaethau gau yn eu herbyn.† Pa fodd bynag, ymddengys fod Morgan yn canfod rhyw rinweddau ynddo, gan iddo, ym mhen pum' mlynedd ar ol ei farwolaeth, gyhoeddi ei bregeth angladdol iddo. Y tebygolrwydd ydyw iddo adael y bregeth hon gyda Richard Jones cyn iddo ymadael â Llundain. Yr ydym eisoes wedi sylwi fod y flwyddyn y pryd hwnw yn terfynu ar y 24 o Fawrth; ac felly, *ar ol*, ac *nid cyn* cyhoeddi y Beibl, yr argraffwyd y Bregeth.

Dywedir i'r Dr. Morgan adgywirio a diwygio y Testament Newydd ym mhellach, a'i fod yn barod i'r wâsg ychydig cyn ei farwolaeth. Rhydd Gwilym Lleyn ar ddeall i ni fod Thomas Salesbury, mewn llythyr Seisonig at y darllenydd, o flaen y "*Grammatica Britannica*," a gyhoeddwyd yn 1593, yn dyweyd fod "amrai bethau da ereill yn barod i'r wâsg, megys y *Testament Brytanaidd*, wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan Esgob Llanelwy." Ac ychwanega Gwilym Lleyn:—"Mynega Ames ddarfod i Morgan edrych dros Destament Salesbury, a'i ddiwygio ym mhellach, a'i fod yn barod i'r wâsg pan fu farw."‡ Os gwnaeth Thomas Salesbury ddefnydd o'r cyfryw eiriau yn 1593, rhaid mai nid at unrhyw ddiwygiad o eiddo Morgan y cyfeiriai, gan nad oedd y pryd hwnw yn Esgob Llanelwy, nac unrhyw le arall. Ond os, fel y dywed Ioan Pedr,§ mai yn ei lythyr o flaen "Psalmaæ y Brenhinol Brophvvyd Dafydh," gan Gwilym Ganoldref, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1603, y defnyddir y cyfryw eiriau gan Thomas Salesbury, yna y mae yn berffaith gysson â'r haeriad ddarfod i Morgan ddiwygio y Testament ym mhellach. Drwg genym nad ydyw y "*Grammatica Britannica*" na Psalmau Cynghaneddol 1603 wrth law ar hyn o bryd; ond gallem feddw oddi wrth y dull y mae Gwilym Lleyn a Ioan Pedr yn dyfynu

* Hist. Powys Fadog, vol. v., p. 131. † Ibid. vol. iii., p. 145.
‡ Llyfr. y Cymry, 68, 69.
§ Y Traethodydd, 1876, tud. 435; Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 63.

mai yr olaf sydd gywir. Ond os yn 1603 y dywedodd Thomas Salesbury fod "y Testament Brytanaidd wedi ei ddiwygio gan Esgob Llanelwy" yn barod i'r wâsg, nid ydyw yn *profi* dim mwy na'i fod yn bwriadu cyhoeddi y Testament Newydd ar ei ben ei hun; oblegid yr oedd hwnw yn gyfieithiad diwygiedig. Er y mae yn ddigon gwir fod yn bosibl fod Morgan wedi ei ddiwygio ym mhellach. Ond nid oes cyfargraff o hono ar gael nac un prawf arall o'i fodolaeth.

Oddi wrth grybwylliad o eiddo Ioan Pedr yr ydym yn casglu fod y Dr. Morgan yn rhyw gymmaint o fardd. Dywed:—"Mewn ysgriflyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig cawsom y nodiad canlynol:—'Enwau y Beirdd, allan o Lyfr mawr Englynion John Jones o Gelli Lyvdy, ym meddiant Wm. Fychan, Ysgr., Cors-y-gedol. 1773. Ysgrifenwyd 1605-1618. . . . . Syr Lewis Gethin, Morgan Esgob Llanelwy, &c.' (*Vide* W. Morgan *apud* Moses Williams' Repertorium Poeticum.) Gwnaethom ymchwiliad am y llyfr yn llyfrgell ardderchog Peniarth, lle y cedwir ysgrifau y diwyd gasglwr ac adysgrifiwr o'r Gelli Lyfdy, yn sir Fflint, cydoeswr a chyfaill Robert Vaughan, Ysgr., o'r Hengwrt; ond nid yw y boneddwr gwladgarol sydd yn awr yn ei meddiannu wedi llwyddo i gael gafael yn y "Llyfr Mawr Englynion," ac yn niffyg hyny nid oes genym gymaint a llinell o gynnyrch awen ein cyfieithydd. Efallai, er hyny, y deuir o hyd iddo ryw dro, a bydd hyny yn foddlonrwydd i'n cywreingarwch o leiaf."* Gallwn ninnau ychwanegu ein bod wedi gwneuthur ymholiad am yr ysgriflyfr gyda pherchenog presennol Peniarth. Ond parhau ar goll y mae hyd yn hyn; ac hyd y gwyddom ni, nid oes hysbysrwydd iddo ddyfod i Beniarth o gwbl. Nid ydyw yn cael ei enwi ychwaith yn y "*Catalogue of Curious and Valuable MSS. in the Hengwrt Library*," yr hwn a wnaed gan Mr. William Maurice, o Cefn-y-Braich, sir Ddinbych, yn 1658.† Y crybwylliad uchod, yng nghyda'r dywediad fod Simwnt Fychan yn athraw barddonol i Morgan,‡ ydyw yr unig awgrymiadau sydd ar gael ei fod yn un o addolwyr Ceridwen. Ac nid ydym yn credu iddo ddysgleirio llawer fel bardd o gwbl. Ond gwnaeth waith pwysicach na gwneyd englynion.

Y mae Edward Williams (*Bardd Glâs Morganwg*) yn rhoddi ar ddeall i Morgan ysgrifenu Geirlyfr. Dywed:—"Yn nheyrnasiad y frenhines Elizabeth, dechreuodd amryw wyr dysgedig ysgrifenu Geirlyfrau Cymreig, nid amgen y Dr. Morgan, Ficer Llanrhaiadr yn Mochnant; hwn a fu yn Esgob Llandaf, ac wedi hyny yn

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 61.

† Y mae y *Catalogue* uchod yn argraffedig yn y *Cambrian Register*, iii., pp. 278-301.

‡ Y Brython, cyf. v., tud. 17.

Esgob Lanelwy; a'r Dr. Dafydd Powel, Ioan Dafydd Rhys, awdwr y Gramadeg rhagorawl hwnw a argraffwyd yn y fl. 1592. Henri Peri, a Henri Salisburi, o Ddolbelidyryn, swydd Ddinbych, awdwr Gramadeg, a argraffwyd, yn y fl. 1593; ond ni ddaeth gwaith un o'r dysgedigion hyn allan yn argraffedig, a thebyg yw na fu un o honynt byw i orphen ei waith, ond Henri Salusbri."* Buasem yn hoffi gwybod ar ba awdurdod yr ysgrifenai Edward Williams o barthed i Eirlyfr tybiedig Morgan. Pe deuid o hyd iddo, os ydyw ar gael, buasai yn rhwym o fod yn un o'r trysorau gwerthfawrocaf mewn llenyddiaeth Gymreig. Mor ddyddorol, onide, a fuasai cymharu geiriadaeth ac orgraff y Geirlyfr gyda y rhai a geir yn ei Feibl?

Ond ymddengys i ni fod yn rhaid i gymmeriad llenyddol Morgan sefyll neu syrthio ar ei gyfieithiad o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg. Ac eithrio yr hyn a nodasom, yng nghyda'r llythyrau a anfonwyd ganddo at John Wynn a Mr. Martyn, cyfieithu yr Hen Destament a'r Apocrypha, a diwygio y Testament Newydd ydyw, yr oll a ellir ei briodoli iddo fel llafur llenyddol. Ac yr oedd hyny yn orchwyl mawr. Os edrychir arno fel gwaith yn gofyn dysgeidiaeth ac ymroddiad, y mae ei awdwr yn sefyll yn uchel ym mhlith llenorion ei oes; ond os edrychir ar *bwysigrwydd* y gwaith—fel cyfrwng datguddiad meddwl Duw i ddyn—yna y mae y cyfieithydd yn cymmeryd y *lle blaenaf* yn hanesiaeth lenyddol y genedl ym mhob oes. Yr oedd Salesbury yn llenor wrth naturiaeth, yr oedd ei fryd ar gynnyrchu llyfrau; gellir meddwl fod yn well ganddo, yn ystod y rhan flaenaf o'i fywyd, ysgrifenu na pheidio. Ac yr oedd y llyfrau a gyfansoddodd un ac oll yn dra buddiol ac amserol. Ond nid o ran cariad at y *gwaith* o ysgrifenu a chyfansoddi yr ymgymmerodd Morgan â'r gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau; ond, gallem feddwl, o gariad at ei gyd-genedl, ac o dosturi drosti. Yr oedd cymhellion allanol yn dylanwadu ar yr Esgob Richard Davies a William Salesbury; ac yr oedd ganddynt hwy awdurdod cyfraith wrth eu cefnau. Ond yr unig gymhelliad a gafodd Morgan oedd "dymuniadau'r duwiol." Nid ydym am gael ein deall fel pe yn dyweyd fod Davies a Salesbury yn amddifad o'r cymhellion uwchaf sy'n effeithio ar feddyliau dynion. Yr ydym eisoes wedi dangos eu bod yn caru lles ysprydol eu cyd-wladwyr; ond hyny *yn unig* a achosodd i Morgan ymgymmeryd â'r gwaith. Nid oes hanes fod neb yn ceisio eu lluddias na'u rhwystro hwy gyda'r gorchwyl, ond cafodd Morgan lawer o wrthwynebiadau a rhwystrau.

Gellir nodi hefyd mai ar ei gyfrifoldeb ei hun y cyhoeddodd Morgan ei gyfieithiad. Ymgymmerodd Humphrey Toy â'r cyf-

* Cyneirlyfr: neu Eiriadur Cymraeg, 1826, Rhagymadrodd i'r Gyfrol I.

rifoldeb o gyhoeddi Testament Salesbury; ond ni ddywedir fod neb wedi dwyn y draul o argraffu Beibl Morgan. Y mae lle i feddwl fod yr Arch-esgob Whitgift wedi ei gynnorthwyo mewn ystyr arianol, neu, a defnyddio eu eiriau ef ei hun, cafodd ei "gynnorthwyo gan haelioni" y gŵr urddasol hwnw; ond y mae yn dra sicr mai arno ef y disgynodd y *rhan fwyaf* o'r gost. Gellir profi hyny oddi wrth yr hyn a ddywed Syr John Wynn yn ei lythyr at Mr. Martyn, pan yr oedd Morgan yn Esgob Llanelwy:—"Gwyddwn," meddai Wynn, "nad oedd fy Arglwydd o Lanelwy ond tlawd (costiodd ei gyfieithiad lawer iddo), eto yr oedd yn wirfoddol a pharod i ymgyfreithio; gan hyny yr oeddwn yn ymboeni cymmaint wrth geisio ei berswadio i wrando ar reswm a'i ddwyn i ystyried ei sefyllfa ag yr oeddwn wrth ddwyn y blaid wrthwynebol i reswm a chydsyniad."* Y mae hyn yn awgrymu hefyd mai anturiaeth aflwyddiannus a fu cyhoeddi y Beibl i Morgan. Cyfeiria y rhan hwnw o'r llythyr y cymmerasom y dyfyniad uchod o hono at anghydweliediad a fu rhwng Morgan, ar ol ei benodiad i Esgobaeth Llanelwy, â David Holland; yr hyn nis gallai fod wedi cymmeryd lle hyd 1601, o leiaf. Ond, yn ol Wynn, yr oedd Morgan yn dlawd y pryd hwnw, a hyny o herwydd i'w gyfieithiad gostio llawer iddo. A chan fod tair blynedd ar ddeg wedi myned heibio o amser cyhoeddiad y Beibl hyd nes yr aeth i Lanelwy, ac yntau yn parhau yn dlawd, y mae yn naturiol casglu na chafodd ei ddigolledi. Gorchwyl gwael y profodd llenydda yn yr iaith Gymraeg ym mhob oes; ac felly y bu gyda Morgan.

Pa nifer o Feiblau a argraffwyd sydd ormod o orchwyl i'w benderfynu. Tybia y Dr. Thomas Llewelyn na argraffwyd ond rhyw bump neu chwe' chant o gopïau; ac fod amryw o Eglwysi heb gael eu cyflenwi â Beiblau Cymraeg. Yr unig reswm a rydd dros hyny ydyw, mai pymtheg cant o gopïau oedd yn gynnwysedig mewn argraffiad o eiddo Grafton, ac os ystyrid pymtheg cant o gopïau yn nifer mawr yn Lloegr, buasai hanner, neu hyd yn oed chwarter, y nifer hwnw yn cael ei ystyried yn ddigon i Gymru.† Yn debyg i hyn yna yr ymresyma y Dr. Llewelyn. Cyfeirio y mae yma at argraffiad Grafton a Whitchurch o "Feibl Matthew" yn 1537. Ond yr oedd y Saeson wedi cael argraffiad blaenorol o'r Beibl, o gyfieithiad Miles Coverdale, yn 1535, yr hyn oedd, wrth gwrs, wedi cyflenwi rhan o'r galwad am Feiblau Seisonig. A gwell genym ni gredu fod nifer y Beiblau Cymraeg a argraffwyd yn 1588 yn cyfateb i nifer yr Eglwysi yng Nghymru, yr hyn, yn ol Walker, oeddynt yn naw cant a phump a thriugain.‡

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 137. † Llewelyn's British Versions, pp. 25, 26.
‡ Walker's Sufferings of the Clergy, p. 166.

Fel hyn y sylwa golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* ar y mater :— "Gwaith dygn a dyrys oedd *cyfieithu*, yn gofyn am lawer o amser, ac yn galw am lawer o gymhwysderau yn y neb a ymaflai yn y gorchwyl : ond nid felly *argraffu*. Unwaith yr argreffid cymmaint ag un llyfr, nid oedd un rhwystr, ond y draul yn unig, i argraffu mil neu chwaneg o hono." Yna gan gyfeirio at yr wrthddadl fod y weithred Seneddol 1563 yn gofyn fod y cyfieithiad a'r argraffiad i gael eu gorphen erbyn Mawrth 1af, 1566 ; a chan na ufuddhawyd i'r ddeddf yn y peth hwnw, fod yn bosibl fod y nifer a orchymmynid ynddi wedi cael ei leihau, sylwa :—" Nid yw eu bod wedi gorfod anufuddhau i un ran o'r weithred seneddol yn rhoi un lle i goelio iddynt anufuddhau i'r rhan arall hefyd ; ac y mae yn fwy na thebyg na buasai y gwŷr a ymroisant o'u bodd i gyfieithu yr Ysgrythyrau i iaith y Cymry yn foddlawn i un plwyf fod yn amddifad o honynt. Nid oes gan hyny un sail i dybied fod nifer y Beiblau a argraffwyd yn *llai* na nifer yr Eglwysi y pryd hwnw yn y Dywysogaeth. Paham y ceisir rhoi y lliw gwaethaf ar bob peth ?"* Paham, yn wir ? I'n tyb ni, y mae y sylwadau hyn o eiddo'r Canon Silvan Evans yn eithaf priodol gyda golwg â'r Destament Salesbury, Beibl Morgan, a Beibl Parry. Yn absennoldeb prawf i'r gwrthwyneb, y mae yn hawddach meddwl fod yr argraffiadau uchod yn rhifo mil o gopïau yr un, na'u bod is law hyny. Ac y mae yn ddigon tebyg, er mai er mwyn cyflenwi yr Eglwysi y bwriadwyd yr argraffiadau dan sylw, fod llawer o ddynion dysgedig a duwiol yng Nghymru yn awyddus i brynu copïau ; yr hyn yn ddiammeu a rag-welwyd gan y cyhoeddwyr.

Nid oes unrhyw gofnodiad yn aros a ddengys pa beth oedd barn y werin Gymreig am gyfieithiad Morgan, na pha un a oeddynt yn falch o hono. Ond y mae genym ddau gywydd, o eiddo dau fardd cyd-oesol, yn datgan ei glod. Y naill yn waith Sion Tudur, a'r llall yn eiddo Ieuan Tew. Ac am fod y ddau yn gyd-oeswyr iddo, credwn y dylem ddyfynu eu gweithiau yma, er eu bod eisoes wedi ymddangos fwy nag unwaith.

Tybir mai brodor oedd Sion Tudur o Lansannan, ac iddo fyned i fyw i Wigwair, ger Llanelwy ; a dywedir yn gyffredin ei fod yn ficer corawl yr Eglwys Gadeiriol yno. Ond nid oes gofnodiad am yr un o'r enw wedi dàl y swydd hòno yn Llanelwy. Pa fodd bynag, os John Lloyd oedd ei enw bedydd, fel y dywed rhai, nid ydyw hyny mewn un modd yn annhebygol, gan y ceir i " J. Lloyd " ddàl y swydd hòno ddwy waith o 1557 hyd 1560.† Yn ol eraill, cantor

* Llyfr. y Cymry, tud. 50, nodyn.

† Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 245 ; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 267.

yn perthyn i'r côr ydoedd, a'i fod hefyd yn perthyn i swyddfa cofrestrydd yr esgobaeth. Ei athraw barddonol oedd ei gymmydog, Gruffydd Hiraethog, a'i gyd-ddysgyblion oeddynt Gwilym Cynwal, Simwnt Fychan, a Gwilym Lleyn. Dywedir i ryw un ofyn i'r athraw pa un o'r pedwar oedd y prydydd goreu, ac iddo yntau ateb,—"Awenyddol yw Gwilym Cynwal, gofalus yw Simwnt Fychan, dysgedig yw Sion Tudur, ac nid oes dim yn anwybodus i Gwilym Lleyn." Graddiwyd Sion Tudur yn Briffardd yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568; ac efe oedd bardd teuluaidd John Conway, o Fodrhyddan. Yr oedd yn duchan-gerddwr miniog, a bu ymryson chwerw rhyngddo a Sion Phylip. Y mae lluaws o'i gywyddau yn argraffedig, ac yr oedd hefyd yn achyddwr da.* Yr ydym yn cymmeryd y Cywydd canlynol o'i waith o "Lyfr y Jubili," am yr hwn y dywed y Parch. T. Phillips fel hyn:—"Un copi a welsom o'r hen 'Gywydd' uchod, yn yr hwn yr oedd un llinell yn eisieu. Cynnwysai hefyd gryn lawer o wallai cynghaneddol, yr hyn a brofai ei fod wedi cael cam wrth ei adysgrifio o dro i dro. Rhoddasom ef yn llaw cyfaill, i'w egluro a'i wneyd yn fwy dealladwy. Os nad yw air am air yr un fath ag y daeth o law yr hen fardd, hyderwn ei fod cystal, os nad yn well, nag un copi sydd yn awr ar gael."† Ond wele y

CYWYDD

I'r Doctor Morgan, i erchi gantho Fibl Cymraeg.

Yr athro mawr wrth rym wyd,
Urddas gwaed ar ddysg ydwyd.
Tro fawl y't, on'd trafel wan?
Trwm ergyd, *Doctor Morgan.*
Cyfieithaist, dodaist air Duw,
(Cost dibrin,) o'r *text Ebruw.*
Mil a chwechant tyfiant têg,
Oed Duw oedd, onid deuddeg,
Pan y troist, bob pennod draw
I'r bobl drist, o'r Bibl drostaw.
Pa ynysoedd, pa *nasiwn,*
Ga wir hap heb y *Gair* hwn?
Gosodaist, neidiaist yn ol,
Gymraeg rwydd, Cymro graddol,
Yn cadw *riwliad* gramadeg,
A pherffaith Frydainiaeth deg.
Iaith rwydd gan athro uddyn',
A phawb a'i dallt, a phob dyn
Rho'wn yn gain i'r Hwn a'n golch—
I'r hen Dduw y rhow'n ddiolch.
Dygodd draw, rhag dygwydd drwg,
Duw oll, i'n o dywyllwg.
Drwy genad, gwellhad a lles;
A barn iawn ein *Brenines:*

* Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. ii., tud. 552. † Llyfr y Jubili, tud. 62.

Trwy fawl waith, nid trafel wan,
Tra mawr-gost *Doctor Morgan.*
Tŷ *Ddaniel* ytoedd unwaith ;
Tŷ *Ddewi'n* ail at ddawn iaith.
Mae'n *Manaw* man y mynyn'
I'ch aros gôb, a chrys gwyn.
T'wysaist ni'n ddiffladr adref,
Dysg ffordd, *Cymry'r Nordd* i'r nef ;
Dysg y ddwy iaith (dasg ddiwarth),
Dysg dda i bawb—dysg *Ddeheu* barth.
Dysg swrn, dyra dasg y saint—
Dysg Gymru rhag dwys gamraint,
Tasgu bu Tywysog y byd,
Gam ran i Gymru enyd.
Gelyniaeth a wnaeth un wedd,
Eglwys Rhufain, gloes rhyfedd.
Chware â ni yn chwerw wnaeth—
Chware mwm (chwerwa' mamaeth).
Chware ddoe, chwerwa ddeall ;
Daliodd hon ni'n genedl ddall,
A'n penau yn cau mewn cwd—
Am ein magu mewn mwgwd.
Blinder i'n hamser a wnaid ;
Os blin yspeilio enaid.
Niwl fu dros Gymru a'i gwyr,
A'n dallu wnaed gan dwyllwyr.
Dwyn y ganwyll doe'n gynen ;
A dwyn pwyll, Gair Duw, o'n pen.
Tros oesoedd y'n treisiesyn',
Yn *tripio* y'mhob *trap* am hyn.
Cawdd noeth, cuddio a wnaethon'
Gledd Gair Duw, g'wilyddgar don.
O daw'r gelyn, drwy gilwg ;
A thrwy drais, i wneuthur drwg.
Mae yn wan anghyfanedd—
Marchog, heb na chlôg, na chledd.
Drwg i gall, draig yw y gwr,
Dyrnau moel i drin milwr.
Gloewddwys bryd, gledd ysbrydawl,
Gair Duw yw'r arf darf y d——l.
Gair y Tad, treigliad tra glew,
Yw'r gareg dafl a'r graig dew.
Iesu yw'r graig, sy rywiog rad,
Er dal o dan'r adeilad.
Nid ar dir graiandir gro
(Y sail faen a sylf yno),
Byr i enaid braw annoeth,
Pardwn pawb, rhag purdan poeth.
Pan farno Duw, poen fwrn du,
Bwy yw'r dyn all bardynu?
Goreu pardwn, gwn a gaid,
Gwaed yr Oen, i gadw'r enaid.
Llawenydd, yn nydd a nos,

Llonychwn, mae llawn achos.
Dwyn gras, i bob dyn a gred—
Dwyn geiriau Duw'n agored.
Gwnaethost drwy egni weithian,
Act o rugl waith, *Doctor* glan.
Nis buddiodd anodd unawr;
Cymro ermoed, cymer air mawr.
Tro'i lyfr byth traulfawr heb wedd,
Trwy un *Doctor* o Wynedd.
Hen fardd, a fu hardd fy hynt.
Wyf, a hynaf o honynt.
Fy mryd yn fy mro ydyw,
Fwynhau fy oes, tra fwy'n fyw.
Tario ynghornel *Llanelwy*,*
Heb allu myn'd i bell mwy.
A chanlyn gair iawnair oedd,
Iesu madws i'm ydoedd.
Darllen yn ffel hyd elawr
I bobl y mwth y Bibl mawr.
Gofyn, 'rwy' i ddyn, rodd dda,
Gofyn y Bibl yn gyfa'.
Y gyfraith drwy'm hiaith i ni,
Praff adail y prophwydi,
Y gyfraith yn f'uniaith hen,
A'r efengyl dyr f'angen.
Rhodd a gaf rhwydd ei gofyn
Ni chas bardd, wawd hardd hyd hyn.
A'i eisieu a wnaeth Iesu Ner,
Difa pob caniad ofer.
Nis canaf byth is Conwy,
I fwrw mawl ofer mwy.
Cei glod am fyfyrdod fawr,
A da'i dylid hyd elawr.
Tra gwneir tai; tra caner tant;
Tra fo Cymro'n cau amrant;
Tra adwaener tro dawnwych;
Tra chyfrwng rhwng cefn a rhych;
Gwelwyf it' iechyd *Galen*,
Einioes tra hap Nestor hen.

Sion Tudur a'i cant, 1588.

Awdwr y Cywydd dilynol oedd Ieuan Tew Ieuanc, yr hwn oedd yn byw yn Cydweli, sir Gaerfyrddin, ac yn ei flodeu o 1560 i 1590. Ychydig a ddywedir am dano amgen nag iddo gael ei raddio yn "Ddysgybl Dysgyblaidd" yn Eisteddfod Caerwys, 1560; ac fod cryn lawer o'i farddoniaeth ar gael mewn ysgrifllyfrau.† Cymmerwyd y Cywydd canlynol o'r *Brython* (cyf. v., tud. 333), a bron nas gellir meddwl fod yr awdwr wedi ei gynnysgaeddu â'r ddawn broffwydol, oblegid dywed mai "Esgob a

* "Tarrio 'nghansel Llan Elwy," yn ol rhai copiau. Gwel Enwogion y Ffydd, cyf i., tud. 63; Ceinion Llenydd. Gymreig, cyf. ii., tud. 209.

† Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. i., tud. 675.

fydd [Morgan] ddydd a ddaw." Dyfynwn y

Cywydd i'r Dr. Wiliam Morgan,

Yr hwn a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg.

(Allan o hen ysgrifiyfr.)

Ond dedwydd oreuffydd rym,
O ail ... ... ydym ;
A gair Duw yn egored aeth,
Yn deg o'i enedigaeth ;
Duw a enynodd dawn unwaith,
Doctor anhepcor o'n hiaith.
Yn deg o niwl a'n dug ni,
Ac i lan y goleuni ;
Mae Doctor a rhagoriaeth,
Morgan wych mab Mair a'i gwnaeth ;
Blaenor, gynghor y ganghell—
Bugail yw heb gael ei well ;
Drwy addysg, a'i droi iddyn',
Dicter Duw, Doctor a dyn :
Dysgai heb na thrai na thro,
Dysg Camrits dewis Gymro ;
Ar unwaith gan yn iaith ni,
I'r oedd ffydd ar ddiffoddi ;
Drwy'n gofal draw yn gyfan,
Dwg ni i'r goleuni glân :
Piau'n rhoi yn glau o'r glud,
Piau helpu o'r pulpud.
Llyna faeth lle ni fethodd,
Llygad Llanrhaiadr llawn rhodd :
Ffrwythder ieithoedd ffraeth draethai,
Ffynnon heb na thro na thrai ;
Dyn hoffaidd yw'n dwyn ffydd iach,
Dewis ieithoedd di sothach ;
Glan oedd galon o'i addef,
Gwr i ni a garai nef.
Doctor i gael rhagor rhodd,
Yw y gwr a'i agorodd ;
Esgob a fydd ddydd a ddaw,
Nid oes dadl wedi astudiaw ;
Troes y Beibl tros y bobloedd,
Tro gwr gwych trugarog oedd :
Nid gwell hael i'w gael heb gwrs,
Ni bydd fel cybydd ceubwrs ;
Hwn a fydd cynnydd canu,
Hafddydd i Feirionydd fry ;
Cafas hwn cofio synwyr,
Cai y blaen y cwbl a wyr ;
Mae'n lw am arian a medd,
Mewn aur hwn yw'r maen rhinwedd ;
Mae i'r gwr mawr ei gariad,
Malais a glowais o'm gwlad.

Weithian caiff atcan y cwyn,
Edrychont a'i da'r achwyn :
Eiliai gywydd rhydd fawrhad,
Iddo hael o Ddeheuwlad ;
Edward ab Sion ffynnon ffawd,
Am Mhorus nid ammharawd ;
Dyn a fu dan ei feiau,
Duw fo rhwydd i 'difarhau ;
Gwr a fynai'n gryf enyd,
Ranu y corff heb roi'n cyd,
Ymroes a throes, ac wrth raid,
Weithian at ran yr enaid.
Galw Dduw bydd llywydd llawen
Gweled y ffordd glud o'i phen ;
Y Beibl ar lled os credwn,
A'i dengys hysbys yw hwn :
Dyn llawn dawn a llawenydd,
Diffael Doctor hael a'i rhydd,
Beibl a wnaeth i'n bobl ni,
Praff adail y proffwydi,
O'i fewn sydd rhag cerydd caeth,
Fydd genym feddyginaeth ;
A rhad Duw yr hauwyd hwn,
Am ei hau nag amheuwn.
Dan ddwylo rhodio nid rhaid,
Drwy gael i'n driagl enaid ;
Os ein drych harddwych yw hwn,
Ar y drych yr edrychwn.
Cyfraith grymuswaith Moesen,
Cyf'rwyddyd y byd o'i ben ;
Caf restio cof ar osteg,
Cyfraith Duw a'i waith yn deg ;
Y Beibl maith yn ein hiaith ni,
Yw'r Haul yn rhoi ' oleuni :
A'r Doctor cynghor i caid,
A'i rhoes y'n rhag trais enaid ;
Byd rhydd ar gynnydd ganoes,
Bid rhwydd rhag y neb a'i troes.

IEUAN TEW a'i cânt, 1590.

Yr ydym yn cael yn y cywyddau uchod amryw o ymadroddion ag ydynt yn cadarnhau ein hymdriniaeth flaenorol ar y Dr. Morgan. Y mae yr olaf, yn enwedig, yn cyfeirio at ei ragoroldeb fel bugail ym mysg ei blwyfolion, ac at y gwrthwynebiadau a'r malais a brofodd yn ystod yr amser y bu yn cyflawni ei waith mawr. Ac y mae y ddau gywydd yn dwyn tystiolaeth bendant i'w rinweddau personol, yn gystal ag i'w ddysgeidiaeth. Ac oddiar yr ystyriaethau hyn y maent yn haeddu eu darllen.

Cyn gorphen y bennod hon cawn nodi un traddodiad ag sydd eto ar gael yn Llanrhaiadr ym Mochnant. Y traddodiad ydyw ddarfod i Morgan ar ei ddychweliad o Lundain, wedi bod yno yn

cyhoeddi'r Beibl, draddodi pregeth Gymraeg yn yr awyr agored, gerllaw yr hafdŷ y cyfeiriwyd ato ym Mhen-y-Walk. Ac fod Morgan yn cael ei gynnorthwyo i gynnal y cyfarfod hwn gan offeiriad Cymreig oedd yn byw y pryd hwnw gryn bellder o'r lle. Yr oedd y ddau glerigwr, meddir, yn sefyll ar glawdd ceryg, a'r bobl wedi ymgynnull ar y glaswellt o'u cwmpas i wrando arnynt, ac i syllu am y tro cyntaf erioed ar gyfrol gyflawn o'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn eu hiaith eu hunain. Y mae Mr. T. W. Hancock yn rhoddi lle i'r traddodiad hwn yn ei nodiadau ar Morgan; a dywed nas gŵyr pwy allai y clerigwr dyeithr fod os nad y Dr. Vaughan, o Lutterworth.* O'n rhan ein hunain, nid ydym yn ei weled yn werth cymmeryd y drafferth i ddyfalu pwy ydoedd, gan mai prin yr ydym yn credu y traddodiad, er mor ddymunol ydyw y syniad a gynnwysa. Nid oedd neb yn yr oes hòno, ond y Puritaniaid, yn meddwl am gynnal gwasanaeth crefyddol yn yr awyr agored. Ac y mae genym fwy nag un rheswm dros feddwl nad oedd Morgan yn perthyn i'r blaid hòno. Gwyddom fod Whitgift ac Elizabeth yn casäu y Puritaniaid yn gymmaint ag yr oeddynt yn casäu y Pabyddion; ond yr oedd Morgan mewn ffafr mawr gyda'r Arch-esgob a'r Frenhines; a thrwy eu cymmeradwyaeth hwynt y cafodd yr Esgobaeth. Felly yr oedd yn perthyn i'r blaid gymmedrol, neu yr Eglwys Sefydledig, heb ogwyddo at ofergoeledd Pabyddiaeth ar y naill law, nac at yspryd chwyldroadol y Puritaniaid ar y llaw arall. O leiaf dyna ydyw ein syniad ni, ac yr ydym yn ei osod yma am ein bod yn clywed rhai yn siarad yn amgen, a hyny hyd y gwelwn heb *unrhyw* sail. Ond ni fuasai y gwaith *ynddo ei hun* yn well na gwaeth pe buasai y cyfeithydd yn Babydd, ni fuasai yn gywirach nac anghywirach pe buasai yn Buritan, ac nid ydyw yn fwy na llai teilwng o'n sylw am ei fod yn offeiriad yn Eglwys Loegr. Nid plaid nac enwadaeth a ddylai benderfynu gwerth unrhyw weithred. Er, fel y mae yn ofidus dyweyd, yn y goleuni hwnw yr edrychir ar bob peth ym mron yng Nghymru yn y dyddiau hyn—o gyfieithu y Beibl i lawr hyd at ysgubo simdde. Y mae rhai o herwydd rhagfarn ddallbleidiol neu anwybodaeth ddofn wedi haeru nad ydyw Ymneillduwyr Cymru o dan un math o ddyled i'r Esgobaethwyr am gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg. Dywedwyd hyn mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Llundain ryw ddwy neu dair blynedd yn ol, a hyny gan aelod Seneddol dros un o siroedd Gogledd Cymru; os nad y sir y cyfieithiwyd y Beibl ynddi, y mae yn terfynu â hi. Hoffwn wybod, ynte, i bwy yr ydym yn ddyledus am y cyfieithiad? Bydded i'r *blaid* gael ei hanghofio yn y *gwaith*; ond os rhaid dyfod a phlaid i mewn o gwbl, dyweder y gwir.

* Montgomeryshire Collections, vol. v., p. 337.

PENNOD V.

CYNNORTHWYWYR, NEU GEFNOGWYR, MORGAN YNG NGHYFIEITHIAD YR YSGRYTHYRAU.

Sylwadau ar yr Arch-esgob Whitgift; yr Esgob Hughes o Lanelwy; Robinson a Bellot, Esgobion Bangor; a'r Dr. Gabriel Goodman—Y gwasanaeth a wnaethant i Morgan—Y Dr. David Powel, Rhiwabon—Edmwnd Prŷs—Sylwadau ar ei Salmau Cân, gyda chyfeiriadau, wrth fyned heibio, at Edward Kyffin, Gwilym Ganoldref, ac eraill—Y Dr. Richard Vaughan—Y cynnorthwy a gafodd Morgan yn cael ei ystyried; &c., &c.

Fel yr ydym wedi gweled, y mae Morgan yn ei lythyr at y Frenhines o flaen ei gyfieithiad yn nodi amryw bersonau a estynasant gynnorthwy iddo yn nygiad y gwaith ym mlaen. Ac nid ammhriodol a fyddai i ni dreulio y bennod hon i wneuthur ychydig sylwadau yn eu cylch, ac ymholi pa beth oedd natur y cynnorthwy a roddasant.

Y cyntaf a ddaw dan sylw ydyw y Dr. John Whitgift, Archesgob Caergaint. Ganwyd ef yn Great Grimsby, swydd Lincoln, yn 1530. Yr oedd o deulu tra chyfrifol o ochr ei dad a'i fam. Pan yn lled ieuanc, cymmerodd ei ewythr, Robert Whitgift, abad Mynachlog Wellow, ef o dan ei ofal. Yr oedd yr ewythr hwn yn deall arwyddion yr amserau yn lled dda, ac yr oedd wedi rhagfynegi cwymp y Babaeth yn Lloegr rai blynyddau cyn i'r Diwygiad Protestanaidd dori allan. Tra yng nghymdeithas ei ewythr duwiol, paratowyd meddwl Whitgift ieuanc i dderbyn y grefydd newydd ag oedd wedi meddiannu cyfandir Ewrop, a'r hon oedd yn gwneuthur ei ffordd yn gyflym yn Lloegr. Ar ol bod am ryw yspaid gyda'i ewythr, anfonwyd ef i ysgol St. Anthony, Llundain; ac yn y cyfamser llettyai gyda modryb iddo yn St. Paul's Churchyard. Yr oedd y foneddiges hon yn Babyddes selog, a mawr fu ei thrafferth i geisio dwyn ei nai i gofleidio yr un grefydd. Ond yr oedd ef yn dra gwrthwynebol i seremoniau y grefydd Babaidd, ac ni fynai ei chanlyn i wasanaeth yr offeren yn Eglwys St. Paul. Am hyny anfonodd ef adref at ei dad, gyda'r sylw "ei bod ar y cyntaf yn meddwl iddi dderbyn sant i'w thŷ, ond ei bod yn awr yn gweled mai diafol ydoedd." Yr oedd y foneddiges hon, fel llawer yn y dyddiau hyn, yn methu gweled gwerth yn enwad neb arall, ac yn ystyried pawb yn hereticiaid os na fyddant o'r un gred a golygiadau. Yn 1548, anfonwyd ef i

brif-ysgol Caergrawnt, lle yr ymaelododd yng Ngholeg y Frenhines. Ond gan fod Pembroke Hall yn sefydliad mwy Protestanaidd, symmudodd yno cyn pen ychydig amser. Penaeth Pembroke Hall y pryd hwnw oedd Nicholas Ridley (wedi hyny Esgob Rochester); ac ym mhlith y cymmrodorion *(fellows)* yr oedd Edmund Grindal (wedi hyny Arch-esgob Caergaint), a John Bradford, y merthyr. Dechreuodd ar ei radd o B.A. yn 1554, ac yn y flwyddyn ddilynol etholwyd ef yn gymmrawd o Peter-house. Yn ystod teyrnasiad Edward VI., teimlai yn rhydd i ddatgan ei olygiadau crefyddol ac i ddynoethi Pabyddiaeth; ond ar esgyniad Mary bu raid iddo ef, fel eraill, gymmeryd yn lled gynnil. Ac yn 1557, pan anfonodd Cardinal Pole ymwelwyr i droi allan o'r brif-ysgol y rhai a broffesent Brotestaniaeth, ac i'w cospi, penderfynodd Whitgift ffoi oddi yno, ond darbwyllwyd ef rhag cymmeryd y cwrs hwn gan y Dr. Andrew Perne, Penaeth Coleg Peter-house. Yn y flwyddyn hòno cymmerodd y radd o M.A.; ac am y gweddill o deyrnasiad Mary arhosodd yn y brif-ysgol, gan fod yn dra gochelgar a dystaw mewn perthynas i'w opiniynau.

Ond yn 1560, cymmerodd urddau eglwysig, a daeth yn bregethwr tanbaid yn yr Eglwys Brotestanaidd. Daliodd amryw o swyddau pwysig yn ystod y pymtheg mlynedd yr arhosodd yng Nghaergrawnt; yn eu plith gellir nodi Proffeswriaeth Duwinyddiaeth yr Arglwyddes Margaret, Penaeth Pembroke Hall, Penaeth Coleg y Drindod, a Phroffeswr y Brenin mewn Duwinyddiaeth. Derbyniodd y swydd olaf yn 1567, pryd y cafodd y radd o D.D. Cymmerodd ran flaenllaw yn y gorchwyl o gynnorthwyo yr is-ganghellydd i wneuthur rheolau newyddion i'r brif-ysgol; ac yr oedd yn dra manwl mewn cadw dysgyblaeth a chydffurfiaeth. Ar ol i Cartwright ddechreu areithio a darlithio yn erbyn Esgobyddiaeth a phethau eraill a berthynent i'r Eglwys Sefydledig, gwahoddodd Whitgift ef i ddadleu yn gyhoeddus ar y mater. Ond gan i Cartwright wrthod y cynnygiad, ysgrifenodd Whitgift bamphledyn yn ymosod ar ei ddaliadau Puritanaidd, yr hwn a osododd gerbron yr Arch-esgob Parker. Yn y flwyddyn 1571 llanwodd Whitgift y swydd o is-ganghellydd y brif-ysgol; ac oddeutu yr amser yma cyhoeddwyd llyfr yn ymosod yn llym ar drefniadau yr Eglwys Sefydledig. Teitl y llyfr oedd "*An Admonition to the Parliament*;" ac ar gais yr Arch-esgob Parker ysgrifenodd Whitgift atebiad iddo, yr hwn a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn. Cyhoeddodd Cartwright atebiad i draethodyn Whitgift, yr hwn a atebwyd drachefn ganddo yntau. Trwy y gallu a ddangosodd yn y modd hwn yn amddiffyn yr Eglwys, daeth Whitgift i gryn sylw. Penodwyd ef yn Ddeon Lincoln, ac yn 1576 i Esgobaeth

Worcester; ac yn absennoldeb Syr Henry Sydney, arglwydd-raglaw yr Iwerddon, gwnaed ef yn Rhaglywydd Cyffiniau Cymru.

Yn yr un flwyddyn ag y penodwyd Whitgift i Esgobaeth Worcester, bu farw yr Arch-esgob Parker; a phenodwyd y Dr. Edmund Grindal i Arch-esgobaeth Caergaint. Yr oedd Grindal yn bleidiol i'r blaid Buritanaidd, a rhoddodd dramgwydd i'r Frenhines trwy wrthod attal cyfarfodydd mewn annedd-dai a lle-oedd eraill a ystyrid y pryd hwnw yn afreolaidd. Wedi troseddi fel hyn amryw weithiau, diswyddwyd ef trwy awdurdod Ystafell y Seren (*Star Chamber*), a chyfyngwyd ef i'w dŷ ei hun. Cynnygiwyd ei le i Whitgift gan y Frenhines, ond gwrthododd ei gymmeryd yn ystod bywyd Grindal. Bu Grindal farw ar y 16fed o Gorphenaf, 1583, a chyssegrwyd Whitgift yn Arch-esgob Caergaint, yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth ar y 29ain o Chwefror, 1603.*

Y mae ysgrifenwyr Cymreig yn hoff dros ben o gyhuddo Whitgift o Babyddiaeth a chreulondeb at y Puritaniaid; a hyny, gallem feddwl, o herwydd y rhan flaenllaw a gymmerodd ym merthyrdod John Penry. Y mae yn ammhosibl amddiffyn Whitgift ac eraill a gymmerasant ran yn y llofruddiaeth hwnw, ond yn unig ar y tir fod yr amser y cymmerodd hyny le yn dra gwahanol i'n hamser ni. Ond os oedd Whitgift yn erlid y Puritaniaid, yr oedd yr un mor wrthwynebol i'r Pabyddion. Nid oes dadl nad oedd yn ddyn cydwybodol, ac y mae digon o dystiolaeth ei fod yn dra calon-dyner a thosturiol. Tybiwn fod ei gymmeriad yn cael ei osod allan yn rhagorol yn y geiriau a ganlyn:—"Er gwaethaf manylder ei olygiadau mewn materion o ddysgyblaeth eglwysig, yr oedd ei nodweddiad naturiol yn rhydd oddi wrth sarugrwydd a gerwindeb." Yn wir, tystiai ei hen gyfaill, Iarll Salisbury, "nad oedd dim i'w ofni yn ei lywodraethiad, yn enwedig yn ystod y rhan olaf o'i fywyd, yn fwy na'i dynerwch a'i hynawsedd. Ceir enghreifftiau eglur o hyn yn ei ymbiliadau taerion ar i'r Frenhines bardynu Udal ac eraill a ddedfrydwyd i farwolaeth am eu bradwriaeth: ac am ryddhau Cartwright ac amryw o weinidogion ymrysongar eraill o Ystafell y Seren. A chafodd llawer o foneddigion eraill ffafrau, a'u rhyddau rhag dirwyon a charchariad, am gefnogi argraffdai ac argraffwyr llyfrau cenfigenus a maleisus, a argreffid ac a ledaenid yn ddirgelaidd. . . . . Yng nghanol ymrysonau chwerwon ei amser, nid yw ryfedd i'w safle uchel, ei frwdfrydedd, a'i weithgarwch wrth gydgorffori yr Eglwys Ddiwygiedig, ei wneuthur yn

* Nis gall y rhai hyny ag sydd yn awyddus am gael hanes cyflawn o'r prelad hwn wneuthur yn well nag ymgynghori â Sir George Paule's *Life of Whitgift*, neu Strype's *Life and Acts of John Whitgift, D.D.*

wrthddrych llawer o enllib; ond ennillodd ei uniondeb, ei dduwioldeb, a'i ddysgeidiaeth iddo gymmeradwyaeth dynion goreu ei oes; ac ym mhen amser maith ar ol ei farwolaeth, cyfeiriwyd ato gan Fuller yn ei 'Hanes Eglwysig' fel 'un o'r dynion teilyngaf a lywodraethasant Eglwys Loegr erioed.'"* Ond ychydig o ysgrifenwyr Cymreig sydd wedi edrych ar yr ochr oleu i'w gymmeriad.

Ond pa lesâd a wnaeth y gŵr urddasol hwn i'r Cymry? Y mae y cwestiwn yn cael ei ateb gan y Dr. Morgan yn ei lythyr cyflwyn:—"Ac wedi yn brin ei ddechreu" [sef y cyfieithiad], "buaswn wedi diffygio gan anhawsder y gorchwyl a maintioli'r gost, ac ni ddygaswn ond Pum' Llyfr Moses yn unig i'r wâsg, oni buasai i mi gael fy nghymhell i fyned ym mlaen a fy nghynorthwyo gan haelioni, awdurdod, a chynghor y Parchedicaf Dad yng Nghrist, Arch-esgob Caergaint, noddwr llenyddiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a gwyliwr gofalus dros weddeidd-dra a threfn; yr hwn, o dan eich Mawrhydi, a lywyddodd y Cymry gyda'r doethineb a'r iawnder mwyaf, gan ystyried ufudd-dod a deall ein cydwladwyr a edrychodd arnynt yn garedig, fel y maent hwythau bob amser yn ei glodfori yntau. Yn ol ei esiampl ef, bu gwŷr da eraill o ddirfawr gymhorth i mi." Y mae y dyfyniad uchod yn profi fod Whitgift yn cael ei barchu yn fwy yn ei oes ei hun nag y perchir ei goffadwriaeth yn yr oes hon. Ac y mae yn fwy na thebyg y gwyddai Morgan am lawer gweithred garedig o'i eiddo tuag atynt yn y cymmeriad o arch-esgob neu raglywydd y Cyffiniau, y rhai ydynt er ys llawer dydd wedi myned i ebargofiant. Ond y cynnorthwy a roddodd i Morgan oedd *cynnorthwy arianol*, a'i gefnogi trwy ei *awdurdod* a'i *gynghor*. Gan mai Sais oedd Whitgift, nis gallasai estyn unrhyw gynnorthwy llenyddol iddo. Ac yr oedd Morgan mewn mwy o angen am y fath gefnogaeth a gafodd gan yr Arch-esgob nag ydoedd am gynnorthwywyr gyda'r gorchwyl o gyfieithu. Nid oedd *cyfieithu* ond yr hyn a allasai unrhyw ddyn dysgedig ei wneyd, ond nis gallesid *cyhoeddi* heb arian. Gallasai Morgan gyfieithu y gweddill o'r Ysgrythyrau gyda'r un rhwyddineb ag y cyfieithiodd Bum' Llyfr Moses; ond i ddyn tlawd fel efe, yr oedd eu cyhoeddi yn orchwyl ammhosibl heb dderbyn o haelioni rhyw un. Ac Arch-esgob o Sais oedd y cyntaf i estyn llaw gynnorthwyol. Nid dyweyd y mae Morgan na fuasai yn cyfieithu mwy na Phum' Llyfr Moses oni buasai am garedigrwydd yr Arch-esgob, ond na fuasai yn dwyn ond y gyfran hòno yn unig i'r wâsg. Ac y mae yn amlwg mai ei dlodi a fuasai yn ei luddias. Yr oedd yr anturiaeth yn rhy fawr o lawer i ficer tlawd ymgymmeryd â hi.

* Penny Cyclop., vol. xxvii., pp. 346, 347.

Ac yn wir, nid Morgan yn unig a gefnogwyd gan Whitgift mewn llafur llenyddol. Pan awgrymmodd Richard Hooker fod ei ddyledswyddau fel Llywydd y Deml (*Master of the Temple*) yn pallu iddo y seibiant gofynol i ysgrifenu ei "*Laws of Ecclesiastical Polity*," rhoddodd iddo fywoliaeth Boscombe yn swydd Wilts a chorfuddiaeth Salisbury, yn 1591; fel y gallai fyned ym mlaen gyda'i efrydiau mewn tawelwch. A phan gyhoeddwyd y gwaith hwnw yn 1594, cafodd Hooker ganiatad i'w gyflwyno iddo ef. Ac yn yr un modd y derbyniodd yr hynafiaethydd enwog, John Stow, ei ganiatad i gyflwyno ei "*Annals*" iddo. Fe welwn oddi wrth hyn fod Whitgift yn noddwr llenyddiaeth, Gymreig a Seisonig, yn fwy nag mewn enw.

Y mae yn wir iddo gael gan Ystafell y Seren, o'r hwn lys yr oedd yn aelod, i basio rheol ar y 23ain o Fehefin, 1585, nad oedd argraffu llyfrau yn gyfreithlawn ond yn Llundain, Rhydychain, a Chaergrawnt, yn unig. Yn ol y rheol hòno yr oedd nifer yr argraffdai i gael ei benderfynu gan Arch-esgob Caergaint ac Esgob Llundain; ac nid oedd yr un llyfr i gael ei argraffu heb yn gyntaf gael ei ddarllen gan un o honynt hwy; ac yr oedd pwy bynag a werthai, a ledaenai, neu hyd yn oed a rwymai lyfrau, heb gael eu hawdurdodi ganddynt hwy, yn agored i dri mis o garchariad. Buasai y fath reol a hon yn cael ei hystyried heddyw yn orthrwm o'r mwyaf, ond bernid yn fuddiol y pryd hwnw gaethiwo ar ryddid y wâsg, er ffurfio unoliaeth mewn barn, ac er attal i lyfrau gwrth-eglwysig gael eu cyhoeddi. Yn ol y rheol hon, yr oedd yn rhaid i Morgan wrth *awdurdodiad* ffurfiol cyn y gallasai gyhoeddi ei gyfieithiad. Ond y mae yn sicr nad oedd Whitgift nac Esgob Llundain (Dr. John Aylmer) yn alluog i'w "ddarllen." O bosibl nad ar gymmeradwyaeth un, neu ychwaneg, o Esgobion Cymru, yn gystal ac ar dystiolaeth y Dr. Goodman, y rhoddwyd yr awdurdodiad gofynol. Ond gallwn yn hawdd feddwl na fuasai y cyfryw awdurdodiad ond mater o ffurf yn unig yn yr achos hwn, oblegid yr oedd yr Arch-esgob ei hun wedi *cymhell* Morgan i ymgymmeryd â'r gwaith yn 1583. Ac y mae yn dra thebyg fod gohebiaeth gyfeillgar byth er hyny wedi cael ei chario ym mlaen rhyngddynt. Pwy ond cyfaill a fuasai yn cynnyg bwyd a lletty i Morgan am y flwyddyn gyfan y bu yn Llundain?

Ac eithrio yr Arch-esgob, y mae Morgan yn cyfeirio at ei holl gefnogwyr mewn math o ol-ysgrif i'w lythyr cyflwyn. Y rhai cyntaf a nodir ydynt Esgobion Llanelwy a Bangor. A cheisiwn sylwi ychydig arnynt yn y drefn y gosodir hwynt ganddo.

Esgob Llanelwy o'r flwyddyn 1573 hyd 1600 oedd y Dr. William

Hughes. Mab oedd William Hughes i Hugh ab Cynric, (Kendrick medd Browne Willis) o Cefn-y-Garlleg, sir Gaernarfon; a'i fam oedd Gwenllian, merch John Fychan ap John ap Gruffydd ab Owain Pygott.* Ym mha flwyddyn y ganwyd ef, nis gwyddom. Ond derbyniodd ei addysg athrofaol yn gyntaf yn Rhydychain; oddi yno symmudodd i Goleg Crist, Caergrawnt, ym mha le y graddiodd yn y celfyddydau, ac y cymmerodd urddau sanctaidd. Penodwyd ef yn gaplan i'r Duc o Norfolc, yr hwn a ddilynodd i Rydychain yn 1568, lle y corfforwyd ef yn B.D. fel yr oedd yn sefyll yng Nghaergrawnt; ac yn 1570, derbyniodd y radd o D.D. yn yr un brif-ysgol. Yn 1567, cyflwynwyd ef i reithoriaeth Llysfaen, ac yn 1573 dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llanelwy. Yn yr un flwyddyn ag y cyssegrwyd ef yn Esgob cafodd freinteb gan Arch-esgob Caergaint (Matthew Parker) i ddal archddiaconiaeth Llanelwy, rheithoriaeth Llysfaen, a glwysfuddiannau eraill, yng nghyda'i Esgobaeth. Gwerth y bywoliaethau ychwanegol y pryd hwnw oedd £150 yn y flwyddyn. O'r amser hwnw, neu o leiaf o'r flwyddyn 1589, pryd y daeth yr archddiaconiaeth yn wâg, hyd 1843-44, daliwyd y swydd o archddiacon gan Esgobion Llanelwy. Y mae Strype yn rhoddi lliw tra thywyll ar gymmeriad yr Esgob, ac yn dyweyd iddo ddal, mewn canlyniad i'r freinteb a nodwyd, gynnifer ag un-ar-bymtheg o fywoliaethau ar ei law ei hun (*in commendam*).† Ac yr ydym eisoes wedi cyfeirio at ysgrif yn dwyn yr enw, "*A Discoverie of the Present Estate of the Byshoppricke of St. Asaphe*,"‡ dyddiedig yn 1587, ag sydd yn dangos yr un peth. Nid oes dadl na chariodd yr Esgob Hughes y drefn o ddal bywoliaethau eglwysig *in commendam* i lawn cymmaint o eithafrwydd ag a wnelid gan neb hyd yn oed yn yr oes hòno. Ond fel y dengys yr Archddiacon Thomas, yn ei waith tra rhagorol ar Esgobaeth Llanelwy, ni ddaliodd rai o honynt ond am amser lled fyr. Y mae Mr. Thomas wedi gwneuthur taflen o'r bywoliaethau hyny, gyda'r dyddiadau rhwng pa rai y daliwyd hwynt gan Hughes, ac y mae y rhai oeddynt fywoliaethau segur-swyddol yn cael eu dynodi â seren; gosodwn ninnau hi yma:—

Llysfaen .....1567—1601§
Castell Careinion.....1574—1601
*Cwm.....1574—1592
Llanycil ..... ? —1583

* Olrheinir ef gan Gwilym Lleyn i Marchudd ap Cynan. Yr oedd yn fab i "Hugh ab Cynric (neu Cynfrig) ab Tudur ab Gruffydd Gymro ab Ieuan ab Llewelyn ab Rhys ab Madog ab Meirig ab Dafydd ab Llywarch ab Ieuan ab Cynddelw ab Rhys ab Edryd ab Enethan ab Iasseth ab Carwed ab Marchudd, un o 15 llwyth Gwynedd." (*Llyfr. y Cymry*, tud. 46).

† Strype's Annals of the Reformation, vol. ii., p. 293. ‡ Gwel tudal. 111.

§ Gan i'r Esgob Hughes farw yn 1600, nis gallai fod wedi dal y fywoliaeth hon ac eraill hyd 1601. Ond y mae yn debyg mai yn y flwyddyn olaf y cyflwynwyd rheithoriaid i'r bywoliaethau.

Llandrinio .....1577—1594
Meifod.....1578—1584
*Llandrillo yn Rhos...1582—1589
*Llangwm .....1584—1592
Mallwyd .....1587—1587
*Llanfor.....1588—1601
*Llanrwst .....1592—1596
*Whitford .....1587—1587
Abergele, Bettws, Disserth } yn gyssylltiedig â'r archddiaconiaeth.

Ond ni a ddylem gofio hefyd ei fod yn dra gofalus o fuddiannau yr Eglwys. Ac fel yr ydym eisoes wedi sylwi, gwrthwynebodd benodiad J. Bagshaw i fywoliaeth Whittington am na fedrai ddigon o Gymraeg i weinyddu ei swydd yn briodol yn y lle hwnw. A gadawodd yn ei ewyllys diroedd at sefydlu ysgol rydd yn Llanelwy, ond gan fod y gymmunrodd yn ammodol, a chan na ddygwyddodd yn ol yr ammodau hyny, ni ddeilliodd unrhyw fudd oddi wrthi. Nid ei fai ef oedd hyny. Ac y mae yn rhyfedd nad oes yr un ysgrifenydd Cymreig yn sylwi ar y daioni a amcanodd, ond y maent un ac oll yn cofio pob peth ag sydd yn adlewyrchu yn anffafriol iddo; ac nid yn unig iddo ef, ond i'r rhan luosocaf o'i gydoeswyr. Y mae yn haeddu ychydig o dynerwch o leiaf oddiar ddwylaw y Cymry oherwydd y gefnogaeth a roddodd i'r Dr. Morgan i ddwyn allan ei gyfieithiad. Bu farw Hydref, 1600, a chladdwyd ef yng nghôr Eglwys Gadeiriol Llanelwy, lle nad oes goflech na llythyren wedi ei osod i barhau ei goffadwriaeth.* Yr ydym yn cael iddo adael ar ei ol wraig a dau o blant, sef William, yr hwn a fu farw yn ddiblant, ac Anne, yr hon a briodd Thomas Mostyn o'r Rhyd. Gallem feddwl mai ail wraig iddo oedd yr hon a'i goroesodd, ac yr ydym yn casglu hyny oddi wrth y ddau gofnodiad canlynol:—

Md' that upon Friday either the xvith or xxiiith day of November 1621 the foresaid W'm Wynne esq're was maried to Mr'es Holland widowe (who was sometyme the wief of W'm Hughes late Bushop of S'ct Assaphe).†

Md' that upon Wednesdaie, being the third daie of Ffebruarie 1635, w'thin night of the same daie, Luce Hughes al's Holland also Wynne widowe, (being the late wief of Bushop W'm Hughes and afterward the late wief of David Holland esq'e decessed, and afterward the late wief of W'm Wynne esq'e also decessed, being two of the late deputie lieutenants of the com' of Denbigh, having departed this lief at Kinnell upon the feast daie of the purificacon etc. before) was buried at Sainct George al's Kegidock.‡

* Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., pp. 105-7; Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 226.; Williams's Eminent Welshmen, p. 226-7.
† Y Cwtta Cyfarwydd, p. 86. ‡ Ibid. p. 163.

A ganlyn sydd gofnodiad am briodas Anne, merch yr Esgob Hughes :—

Md' yt upon Shrove Sunday being the xxiith day of Februarye 1596 Anne Hughes dau'r unto the Reverend Father in God W'm Hughes was maried to one Thomas Mostyn gent. at the Cathedrall Church aforesaid.*

Ac wrth gymharu y dyddiadau a geir yn y cofnodion uchod nid anhawdd ydyw penderfynu mai merch i'r Esgob Hughes o'i wraig gyntaf, pwy bynag ydoedd, oedd Anne a briododd Thomas Mostyn. Ond ni adäwn yr Esgob Hughes i sylwi ar gynnorthwywr arall i'r Dr. Morgan, sef Esgob Bangor.

Bu dau yn llanw cadair Esgobol Bangor yn ystod yr amser y bu Morgan wrth y gorchwyl o gyfieithu, sef y Dr. Nicholas Robinson (1566-1584) a'r Dr. Hugh Bellot (1585-1595). Gan fod yn anhawdd dyweyd i ba un o'r rhai hyn yr oedd Morgan yn talu ei ddiolchgarwch, ni a sylwn ychydig ar y naill a'r llall. A'r cyntaf i gael ein sylw ydyw y Dr. Robinson.

Yr ydym mewn man arall wedi nodi mai yn Aberconwy y ganwyd Nicholas Robinson. Ail fab ydoedd i John Robinson, Ysw., o'i wraig Ellin, merch William Brickdale, Ysw. Ac er mai Saeson o haniad oedd ei rieni, yr oeddynt hwy a'i hynafiaid wedi treulio eu hoes yng nghymmydogaeth Aberconwy. Derbyniodd Robinson ei addysg yng Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, lle y graddiodd yn B.A. yn 1547; ac yn y flwyddyn ddilynol etholwyd ef yn gymmrawd o'r Coleg hwnw. Urddwyd ef yn ddiacon ar y 12fed o Fawrth, 1556, gan yr Esgob William Glynn, o Fangor; ac yn offeiriad y dydd canlynol. Dyoddefodd erlidigaeth o herwydd ei Brotestaniaeth yn amser Mary; ond ar ol ei marwolaeth, gwnaed ef yn gaplan teuluaidd i'r Dr. Parker, Arch-esgob Caergaint. Penodwyd ef yn archddiacon Meirionydd ar y 5ed o Awst, 1562; ac ar y 26ain o'r un mis cyflwynwyd iddo reithoriaeth segur-swyddol Northop, yn Esgobaeth Llanelwy. Cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor, ar farwolaeth y Dr. Meyric, ar yr 20fed o Hydref, 1566, a chafodd ei raddio yn D.D. oddeutu'r un amser. A goddefwyd iddo gadw rheithoriaeth Whitney, yn swydd Rhydychain, yn ei feddiant (*in commendam*). Yr oedd yn ŵr tra dysgedig, ac ysgrifenodd lawer ar faterion hanesyddol ac eglwysig. Ac ym mhlith gweithiau llenyddol eraill, cyfieithiodd Hanes Gruffydd ab Cynan o'r Gymraeg i'r Lladin.† Ei wraig oedd Jane, merch Randle Brereton, Ysw., o Mary, merch Syr William Griffith, o'r Penrhyn, Marchog, ac Ystafellydd Gwynedd.

* Y Cwtta Cyfarwydd, p. 227.

† Nid ydym yn gwybod fod dim o'i ysgriflyfrau wedi eu cyhoeddi. Yr oedd cyfrol o honynt yn Llyfrgell Hengwrt, yr hon ond odid sydd yn awr yn Llyfrgell Peniarth.

A mab iddo ef oedd William Robinson, o'r Gwersyllt, ger Gwrecsam, tad y Milwriad John Robinson, yr hwn ar farwolaeth Siarl y Cyntaf a ddiangodd i Ffrainc. Bu yr Esgob Robinson farw ar y 13eg o Chwefror, 1584-5, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Bangor.*

Olynydd Robinson ym Mangor oedd y Dr. Hugh Bellot. Mab oedd Hugh Bellot i Thomas Bellot, neu Billot, o Great Morton, yn swydd Gaerlleon, o'i wraig Alice, merch William Roydon, o'r Talwyn-in-Burton. Prynodd ei dad amryw diroedd yng nghymmydogaeth Gresford.† Ond y tebygolrwydd ydyw na fedrai Hugh Bellot, mwy na'i rieni, ddim Cymraeg. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1542; a derbyniodd ei addysg yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, o'r hwn yr etholwyd ef yn gymmrawd. Dywedir wrthym gan yr Archddiacon Thomas a golygydd *Yorke's Royal Tribes* ei fod yn un o'r rhai a benodwyd gan y Frenhines Elizabeth i gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Saesoneg.‡ Ond gan mai "Beibl yr Esgobion," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1568, oedd yr unig Feibl Seisonig a gyfieithiwyd trwy orchymmyn Elizabeth, rhaid fod Bellot yn lled ieuanc pan wrth y gorchwyl hwnw. Dywedir ar ei goflech iddo farw yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg a deugain o'i oedran; felly nid oedd ond chwe' mlwydd ar hugain oed pan gyhoeddwyd "Beibl yr Esgobion." Ac os cymmerodd ran ynddo, rhaid ei fod pan yn ieuanc yn cael ei ystyried yn dra dysgedig. Pa fodd bynag, yr ydym yn cael iddo dderbyn rheithoriaeth Tydd, St. Giles, yn 1571; rheithoriaeth Doddington, yn 1572; rheithoriaeth segur-swyddol Caerwys (1584-1586), a ficeriaeth Gresford (1579-1592). Dyrchafwyd ef yn Esgob Bangor yn 1585, a symmudwyd ef i Esgobaeth Caerlleon yn 1595.§ Dywedir ei fod yn byw yn dra mynachaidd, ac na oddefai i fenyw fyned i'w dŷ ar un cyfrif.‖ Bu farw yn Bersham Hall (yn awr Plâs Power) yn 1596, a chladdwyd ef yng nghangell Eglwys Gwrecsam. Ar y ffenestr ddeheuol yn yr Eglwys hòno y mae cerflun o hono yn orweiddiog, yn dwyn yr argraff a ganlyn :—

In certa gloriosæ Resurrectionis hic in Christo obdormit Reverendus Pater D'Hugo Bellot Sacræ Theologiæ Doctor, ex antiqua familia Bellot de Morton in comitatu Cestriæ oriundus, quem ob singularem in Deum pietatem, vitæ integritatem, prudentiam et doctrinam, Regina Elizabetha primum ad Episcopatum Bangorensum in quo annos x sedit postea sid episcopatum Cestrensem translutit, ex quo post paucos menses Christus in cœlestem patriam evocavit anno Domini 1596, ætatis suæ LIV.¶

* Williams's Eminent Welshmen, pp. 459-60. † Hist. Powys Fadog, vol. iii., p. 231.
‡ Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 811, note; Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 20, note. § Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 811, note.
‖ Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 20. note.
¶ Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 852.

Yn awr, pa wasanaeth a wnaethpwyd i Morgan gan Esgobion Llanelwy a Bangor? Hyn a ddywedir ganddo ef:—"Y Tadau Parchedig, Esgobion Llanelwy a Bangor, a fu wiw ganddynt ganiatau i mi y llyfrau a ddeisyfwn, ac i archwilio, golygu, a chymmeradwyo y gwaith hwn." Gallasai Hughes, Robinson, a Bellot fod wedi rhoddi benthyg llyfrau iddo. Gallasai Hughes a Robinson fod wedi archwilio rhanau o'r gwaith. Ond os na fedrai Bellot Gymraeg y mae yn anhawdd dirnad pa fodd y gallasai ef archwilio, golygu, na chymmeradwyo yr hyn ni ddeallai. A chan fod Robinson wedi marw pan oedd y gwaith ar ei hanner, nis gallasai fod wedi cymmeryd rhan yn y gymmeradwyaeth derfynol a fuasai yn sicrhau cyhoeddiad y Beibl. Ond gan nad oes genym unrhyw grybwylliad fod yr un o'r tri wedi cymmeryd rhan weithredol mewn cyfieithu y ran leiaf o hono, yr oll a allwn gasglu ydyw i Esgob Llanelwy ac un, os nad dau, o Esgobion Bangor, wneuthur rhan neu yr oll o'r pethau canlynol, nid amgen, *rhoddi benthyg llyfrau, archwilio, golygu, a chymmeradwyo y gwaith.* Ond y mae yn ammhosibl nodi i fanylrwydd natur na maint y gorchwyl a wnaed gan y naill na'r llall o honynt, ym mhellach nag a ddywedir yn y geiriau uchod.

Y nesaf a enwir gan Morgan fel hyrwyddwr y gwaith ydyw "G. Goodman, Deon Westminster." Yr oedd tri thylwyth, neu dair canghen o'r un tylwyth, yn dwyn yr enw Goodman yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, sef Goodmaniaid Caerlleon, Goodmaniaid Beaumaris, a Goodmaniaid Rhuthyn. Ar i'r ganghen olaf y perthynai Gabriel Goodman. Dywedir mai ail fab ydoedd i Edward Goodman o Ruthyn, o'i wraig Sisely, merch Edward Thelwall, o Plas-y-Ward. Dywedir yn *Y Gwladgarwr* mai Edward, tad Gabriel Goodman, oedd y cyntaf i ddefnyddio y cyfenw hwnw, ac mai ei enw dechreuol oedd Edward ab Tomas ab Edward ab Siencyn Goch, o Landyrnog, yn Nyffryn Clwyd.* Ond yn ol eraill, tad Gabriel oedd Edward Goodman ab Thomas ab Edward ab Thomas ab Edward ab John Goodman, o Ruthyn.† I'n pwrpas presennol nid ydyw o nemawr o bwys pa un sydd gywir. Ganwyd ef yn Rhuthyn yn y flwyddyn 1528, a gorphenodd ei addysg yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle y graddiodd yn M.A. Ar ol gadael y brif-ysgol aeth yn gaplan i Syr William Cecil, wedi hyny Arglwydd Burleigh, yr hwn a fu yn gyfaill mawr iddo trwy ystod ei fywyd. Gwnaed ef yn gorfudd Westminster yn 1560, ac yn Ddeon Westminster yn 1561; ac oddeutu yr un amser cafodd ei anrhydeddu â'r teitl o D.D. Cymmerodd ran flaenllaw yn sefydliad deddfau y Diwygiad Protestanaidd, a bu yn

* Y Gwladgarwr, cyf. vi., tud. 257. † Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 187.

dra selog gyda gweithrediadau Llys yr Uchelfraint (*High Commission Court*), o ba un yr oedd yn aelod. Parodd rhai o'r mesurau a gynnygiwyd ganddo yn y Llys hwnw gryn anfoddlonrwydd i rai o'r "awdurdodau goruchel," yr hyn, mae'n debyg, a attaliodd ei ddyrchafiad i'r fainc Esgobol. Enwyd ef fel gŵr cymhwys i lywyddu Esgobaeth Llundain yn 1570, ond yn aflwyddiannus; cymmeradwywyd ef yn 1575 i Esgobaeth Norwich, ac, yn 1584, i Esgobaethau Worcester, Chichester, a Rochester, gyda'r un canlyniad.* Pa fodd bynag, bu eraill o'i deulu yn fwy ffodus yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd ei frawd, Edward Goodman, yn Esgob Pabaidd Caerloyw yn amser y Frenhines Mary; a chafodd Godfrey Goodman, ei nai, ei ddyrchafu yn Esgob Caerloyw yn 1624. Gellir meddwl mai teulu lled Babyddol oedd y Goodmaniaid, oblegid yr ydym yn cael i'r Esgob olaf a nodwyd ddiweddi ei oes mewn undeb ag Eglwys Rhufain. O'r teulu, fe allai mai y Deon Gabriel Goodman oedd yr unig Brotestant; o leiaf, dyna fel y tybia Gwilym Lleyn.† Cafodd yr anrhydedd o lawnodi y "Namyn Un Deugain Erthyglau Ffydd," y rhai y cytunwyd arnynt yn 1562; a phan yr aed at y gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythrau i'r Saesoneg, yr oedd ef yn un o'r rhai ddewiswyd gan yr Archesgob Parker; ac efe a gyfieithodd yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid ym "Meibl yr Esgobion."‡ Ym mhlith gweithredoedd daionus eraill a gyflawnodd, gellir nodi iddo sefydlu Ysbytty ac Ysgol Ramadegol yn Rhuthyn, ei dref enedigol, yn 1574; at yr hyn y cyfeiria ei gyd-oesydd, Simwnt Fychan, o Lanelidan, yn y geiriau a ganlyn:—

Troes y Deon ddaioni
Tra von iaith, at ein trev ni;
Ysgol rad, ni sigla yr un
A'i thraethu'n rhwym wrth Ruthin:
Diau, rhoir am oedran hon
Duwiol gof am y Deon:
Oed Duw yna'n cyttunaw
At riv yw *pymtheccant* draw,
(Hof dreigl) *a phedwar ugain*,
Onid chwe blwydd, rhwydd yw'r rhai'n.§

Yn y bennod gyntaf, yr ydym wedi rhoddi dyddiad sefydliad Ysgol Ramadegol Rhuthyn yn 1595. Ond y mae Simwnt Fychan yn ei osod un mlynedd ar hugain yn gynnarach. Ond ymddengys mai y gwirionedd ydyw fod Ysgol Rhuthyn yn cael ei chynnal o 1574 hyd 1595 ar gost bersonol y Deon Goodman. Pa fodd bynag, yn y flwyddyn olaf y gwaddolwyd y sefydliad â rhan o

* Williams's Eminent Welshmen, p. 175.
† Llyfr. y Cymry, tud. 47. ‡ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 65.
§ Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 450, note.

ddegwm Llanelidan. Yr athrawon cyntaf a benodwyd i'r ysgol hon oeddynt y rhai canlynol :—

1574.—John Price.
—— Hugh Goodman.
1595.—Richard Parry, M.A., Deon Bangor, wedi hyny Esgob Llanelwy.
1599.—Robert Griffith.
1607.—Gabriel Parry, M.A., nai yr Esgob Parry. Rheithor Segur-swyddol Llanrhaiadr ym Mochnant, 1608 ; Ficer Henllan, 1609 ; Abergele, 1613 ; Rheithor Segur-swyddol Llansannan, 1616; Llansantffraid ym Mechain, 1617 ; Rheithor Llangynhafal a Blaengeiniad Bangor, 1632.*

Rhaid i ni beidio ymdroi gyda'r dynion enwog a dderbyniasant ran o'u haddysg yn Ysgol Rhuthyn. Digon yw dyweyd fod yn eu plith rai o gymmwynaswyr penaf ein cenedl. Pe buasai y Deon Goodman heb wneuther dim gwasanaeth i Gymru ond yr hyn a wnaeth trwy sefydlu Ysgol Rhuthyn, buasai yn haeddu ein parch dyfnaf. Terfynwyd ei oes wasanaethgar ar y 17eg o Fehefin, 1601, a chladdwyd ef ym Mynachlog Westminster.

Ond yn ei gyssylltiad â chyfieithiad y Dr. Morgan y mae a wnelom ni ag ef. Pa fodd y daeth y ddau ŵr da yn gydnabyddus a'u gilydd, nis gwyddom. Ond pa fodd bynag, y mae yn amlwg eu bod yn gyfeillion mawr. Y mae yn debyg mai ar ol i Morgan gwblhau ei gyfieithiad y cafodd gynnorthwy Goodman ; gan y dywed y blaenaf :—". . . yr hwn fu mor ddyfal gyda mi pan oeddwn yn adchwilio yr hyn a gyfieithaswn fel y cynnorthwyodd fi yn fawr a'i lafur a'i gynghor : rhoddodd i mi lawer o'i lyfrau ei hun, gan ganiatau i mi ddefnyddio y gweddill o honynt." Nid oes dim yn y geiriau uchod yn swnio fel pe buasai Goodman wedi cyfieithu unrhyw ran ei hunan. *Ystyried* a *chywiro* geiriau ac ymadroddion oedd y cynnorthwy a roddodd ef yn ddiammeu. Yr oedd Morgan, fel yr ydym eisoes wedi sylwi, wedi cael benthyg llyfrau gan Esgobion Llanelwy a Bangor pan wrth y gwaith o gyfieithu ; a dichon hefyd ei fod wedi benthyca rhai yr un pryd o lyfrgell y Deon. Ond yn y flwyddyn yr oedd y cyfieithydd yn Llundain yn arolygu y wâsg, yr oedd y ddau yng nghyd yn cymharu ac yn diwygio yng ngoleuni cynnwysiad y llyfrgell hòno. Ac yr oedd Goodman gan ei fod yn Gymro, a chan ei fod eisoes wedi cyfieithu rhan o "Feibl yr Esgobion," yn awdurdod gwerth i ymgynghori ag ef. Ac y mae yn ddiammeu iddo adael argraff ei brofiad a'i ddysgeidiaeth ar y Beibl Cymraeg. Ond odid nad oedd Morgan wedi teimlo petrusder lawer pryd yng nghylch

* Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 456.

priodoldeb y geiriau a ddefnyddiai. Ac er iddo gael benthyg llawer o lyfrau yn ddiammeu, eto, mewn ardal anghysbell fel Llanrhaiadr ym Mochnant, gellir dirnad yn hawdd mai prinion oedd ei ddefnyddiau a'i gyfleusderau llenyddol. Nid oes dim yn fwy naturiol nag iddo ef a'i gyfaill, y Deon, dreulio llawer awr i benderfynu Cymreigiad yr adnodau ag oeddynt wedi peri trafferth flaenorol.

Y mae un caredigrwydd arall o eiddo y Dr. Goodman yn deilwng o sylw, sef ei lettygarwch i Morgan tra y bu yn Llundain yn dwyn ei gyfieithiad trwy'r wâsg. "Ac hefyd," meddai, "am y flwyddyn gyfan y bu y llyfr hwn yn y wâsg (a fu fel dolen gydiol rhwng y rhai a gyd-weithredent â mi) a'm llettyodd; yr hyn garedigrwydd a gynnygiwyd i mi yn y modd tirionaf gan y Parchedicaf Arch-esgob, am yr hwn y crybwyllais eisoes yn y llythyr hwn, yr hyn garedigrwydd y'm gorfodwyd i'w wrthod gan fod yr afon Tafwys yn rhanu ac yn gwahanu rhwng ei dŷ ef a'r wâsg." Ond ym mha le yr oedd yr argraff-wâsg? Yr unig anhawsder i benderfynu y cwestiwn hwn ydyw yr un sydd yn codi oddi wrth y geiriau "Imprinted at London by the Deputies of Christopher Barker." Pwy oedd y "Deputies," neu y rhai a ddirprwywyd ganddo i'r gorchwyl hwn? Yr oedd Christopher Barker a'i fab Robert yn argraffwyr eu hunain. Yr oeddynt yn byw dan arwydd "Pen y Teigr," yn *Paternoster Row*, ac yn cadw maelfa dan arwydd y "Ceiliog Rhedyn," yn *St. Paul's Churchyard*. Yr ydym yn cael i Christopher Barker argraffu amryw o lyfrau wedi hyn. Efe a argraffodd yr "*Acte for the repairing of the Bridges of New Port and Carlion, in the Co. of Monmouth*, 1597; *Acte for the erectinge a Bridge over the River Wye, at Wilton, neere Ye Town of Rosse, in Co. Hereford*," a deddfau seneddol eraill yn yr un flwyddyn. A chan ei "Ddeputiaid" ef yr argraffwyd "Llyfr Gweddi Gyffredin" yn 1599, sef y flwyddyn y bu farw. Ei fab, Robert Barker, oedd argraffydd yr argraffiad Seisonig o'r cyfieithiad awdurdodedig a gyhoeddwyd yn 1632, a chafodd ef a'i gyd-gyfranogwr, Martin Lucas, eu dirwyio i £3,000 am wallau argraffyddol. Ym mhlith pethau eraill, yr oeddynt yn gwneuthur y seithfed gorchymmyn i ddarllen "*Thou shalt commit adultery*," gan adael y "*not*" allan. Ond er trymed y ddirwy, ni fu eu hymgais nemawr gwell gydag argraffiad Seisonig 1634, oblegid yn hwnw yr oedd Psalm. xiv. 1 yn darllen fel hyn:— "*The fool hath said in his heart there is a God*," gan adael y "*no*" allan. Trwy y dirwyon hyn andwywyd Robert Barker druan; a bu farw yng ngharchar y *King's Bench*, 10fed Ionawr, 1645.*

* Llyfr. y Cymry, tud. 42, 43, 72, 81.

Pa fodd bynag, y mae y gair "Deputies" o flaen enw Christopher Barker yn awgrymu mai nid efe oedd yr argraffydd. Tebyg mai efe a gafodd yr hawlfraint, ac iddo, am ryw reswm neu gilydd, roddi y gwaith i ryw argraffydd arall; yn gyffelyb fel yr argraffwyd Testament Salesbury a Llyfr Gweddi Gyffredin, yn 1567, gan Henry Denham; ac yr un modd ag yr argraffwyd Llyfr Gweddi Gyffredin, 1586, gan John Windet, tra mai eraill oedd wedi cael y drwydded i'w hargraffu. Yr unig wahaniaeth ydyw na ddywedir mai Christopher Barker oedd yn dwyn y gost a'r draul o argraffu Beibl Morgan, tra yr oedd y draul o argraffu Testament Salesbury a'r argraffiad cyntaf o'r Llyfr Gweddi yn cael ei ddwyn gan Humfrey Toy, a'r ail argraffiad o'r olaf ar draul Thomas Chard. Ond pwy bynag oedd argraffwyr y Beibl Cymraeg, y mae yn dra thebyg fod yr argraff-wâsg yn rhywle yng nghymmydogaeth Mynwent St. Paul. Yr oedd y gymmydogaeth hon yn y dyddiau hyny yn lle cyssegredig i argraffwyr a llenorion. Y mae enwau y mân heolydd sydd oddi amgylch yn awgrymu awyrgylch eglwysyddol a llenyddol. Yn ymyl y ceir *Paternoster Row*, yr hwn sydd yn gyrchfan llyfryddwyr hyd heddyw; ac yn yr un ardal y saif *Amen Corner*, *Ave Maria Lane*, *Creed Lane*, *Sermon Lane*, a *Godliman Street*. Yr ydym eisoes wedi gweled yn llythyr cyflwyn William Salesbury fod y gymmydogaeth hon yn ei amser ef yn cael ei phoblogi gan wneuthurwyr a gwerthwyr delwau, gleiniau, a chreiriau; a phan ddeuwn ar draws enw argraffydd, cawn ei fod yn cartrefi yno. Ac os oddeutu Mynwent St. Paul y safai yr argraff-wâsg a ddygodd allan Feibl Morgan, y mae yn hawdd gweled paham na dderbyniodd ef gynnygiad caredig yr Arch-esgob i lettya ym Mhalas Lambeth.

Yn y dyddiau presennol, pan y mae cynnifer o bontydd yn croesi y Tafwys, a chynnifer o gerbydau i gario teithwyr, nid ydyw o nemawr bwys pa un a'i yng nghymmydogaeth Westminster ai ynte ym Mhalas Lambeth y cartrefir. Y mae yn wir fod y Palas yn sefyll ryw chwarter milltir yn bellach i'r de-orllewin o Fynwent St. Paul nag ydyw Westminster; ond y mae digon o gyfleusderau i groesi yr afon. Gall unrhyw un a ewyllysia groesi o Lambeth, yn yr ochr ddeheuol, i'r ochr ogleddol lle saif Westminster a St. Paul, ar hyd bontydd Lambeth, Westminster, Waterloo, Blackfriars, neu Southwark. Ond nid felly yr oedd dri chan' mlynedd yn ol. Yr oedd y rhan fwyaf o'r lle a orchuddir gan dai ar yr ochr ddeheuol yr afon yn feusydd agored y pryd hwnw. Ac hyd pan orphenwyd Pont Westminster yn 1750, nid oedd yr un cyfleudra i groesi y Tafwys amgen na thros

Bont Llundain yn unig. Felly buasai raid i Morgan, pe derbyniasai lettygarwch Whitgift, gerdded dwy filldir yn ychwanegol bob tro yr ymwelasai a'r argraffdŷ; neu buasai raid iddo gerdded chwe' milltir yn lle pedair. Ond arbedwyd yr anghyfleusdra ychwanegol hwn iddo trwy garedigrwydd ei gyfaill, y Deon Goodman.

Prin y meddylia neb fod arhosiad Morgan am y flwyddyn hòno yn Llundain yn ddiangenrhaid, pan gofir nifer y gwallau argraffyddol a lithrent i mewn gan y Saeson hyd yn oed mewn llyfrau Seisonig. Ac y mae yn dra sicr y buasai y cyfryw yn llawer mwy lluosog mewn llyfr Cymraeg. Ac er fod Morgan yn darllen y prawfleni, eto, methwyd a chael y llyfr yn rhydd oddi wrth wallau er fod y gwaith yn cael ei ddwyn ym mlaen o dan ei arolygaeth bersonol ef. Nis gallasai yr argraffwyr Seisonig roddi unrhyw gynnorthwy yn hyn, sydd ddigon sicr. Mewn canlyniad, yr oedd yn rhaid i Morgan fod yno ei hunan. A buasai y gost o fyw am flwyddyn yn Llundain yn ormod o faich i offeiriad tlawd, yr hyn a arbedwyd trwy garedigrwydd parod y Deon.

Cynnorthwywr arall i Morgan oedd David Powel, D.D., ficer Rhiwabon. Mab ydoedd ef—cymmered y darllenydd ei wynt—i Hywel ab David ab Gruffydd ab Ithel ab Gruffydd ab David ab Madog Fychan o Wepra ab Madog Wyddel ab Madog ab Einion ab Rhirid ab Iorwerth ab Madog ab Maredydd ab Uchdryd ab Edwyn ab Goronwy. A'i fam oedd Catherine, ferch Gruffydd ab Ieuan ab David o Iâl.* Ganwyd ef yn sir Ddinbych oddeutu'r flwyddyn 1552; a phan yn un ar bymtheg oed anfonwyd ef i Rydychain i orphen ei addysg. Nid yw yn hysbys ym mha goleg y bu ar y cyntaf, ond yn 1571 symmudodd i Goleg Iesu, lle y graddiodd yn B.A. yn 1572, ac yn M.A. yn 1576. Cymmerodd urddau eglwysig cyn iddo adael y brif-ysgol, oblegid ar y 12fed o Fehefin, 1571, cyflwynwyd ef i ficeriaeth Rhiwabon, a rhoddwyd iddo gorfuddiaeth Meifod oddeutu yr un amser. Ar y 27ain o Hydref yn yr un flwyddyn gwnaed ef yn rheithor Llanfyllin, o'r hon yr ymddiswyddodd yn 1579; ac ar yr 11eg o Fehefin, 1588, cafodd reithoriaeth segur-swyddol Llansantffraid ym Mechain.† Pa fodd bynag, parhaodd i ddal ficeriaeth Rhiwabon, lle y cartrefai, hyd ddiwedd ei oes. Derbyniodd y radd o B.D. yn 1582, a D.D. yn 1583; ac yn 1584 cafodd ei benodi yn gaplan i Syr Henry Sidney, arglwydd-lywydd Cyffiniau Cymru.

* Hist. Powys Fadog, vol. ii., p. 340, quoted from *Harl. MSS.*, No. 2299.

† Humphreys's Additions to Wood's Athenæ Oxon., p. 196; Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 221. Y mae ei benodiadiau eglwysig yn cael eu dyddio ychydig yn wahanol gan rai:—Ficer Rhiwabon a chorfudd Meifod, 1570; rheithor Llanfyllin, 1571-78; ficer Meifod, 1579; rheithor segur-swyddol Llansaintffraid ym Mechain, 1588. (Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 254.)

Yr oedd y Dr. Powel yn ŵr tra dysgedig, ac yn un o lenorion penaf ei oes. Yr oedd ym meddiant Syr Henry Sidney gopi o gyfieithiad anorphenedig Humphrey Llwyd i'r Saesoneg o Hanes Cymru gan Caradog o Lancarfan. Ar ddymuniad Syr Henry, ymgymmerodd Powel â gorphen y cyfieithiad, gan ychwanegu at y gwaith gwreiddiol luaws o nodiadau gwerthfawr. Yn 1584, cyhoeddwyd y gwaith hwn yn gyfrol bedwar-plyg, dan y teitl o "*The Historie of Cambria.*" Yn 1585, cyhoeddodd gyfrol wyth-plyg yn cynnwys y gweithiau canlynol: — "*Pontici Virunnii Britannicæ Historiæ libri vi.*"; "*Itinerarivm Cambriæ, scriptum per Sil. Giraldum Cambrensem*"; "*Annotationes in Cambriæ descriptionem per S. Giraldum*"; a "*De Britannica Historia recte intelligenda Epistola.*" Yn y rhestr o ysgriflyfrau Hengwrt a geir yn y drydedd gyfrol o'r *Cambrian Register* yr ydym yn cael y rhai canlynol o waith y Dr. Powel:—

103. Dryll Dictionary y Dr. Powel.
110. Llyfr Cerddi y Tywysogion, o law y Dr. Powel.
121. Dwned Cymraeg, o waith y Dr. Powel, 8vo. un fodfedd o dewdwr.
124. D. Powel, S. Th. D. Historia Principum Walliæ, usq. ad Griffin ap Conan.
152. Part of an old book of St. Alban's, treating of St. Albanus and King Offa.—Item, a Preface to the History of Cambria, by Dr Powel.—Item, Historia Cambriæ a Cadwaladro rege usque ad Grufydd ab Cynan, in 4to. un fodfedd o dewdwr.
155. Coffadwriaeth o henwau gwyr a oedd yn gwneuthur gwrogaeth i Edward 1st.—Item, Coffadwriaeth arall Edward 1st am ffeiriau a marchnadoedd yn y marsdin ac yn Llan Armon Dyffryn Ceiriog, &c., &c.—Item, a Description of the Demesnes of Holt Castle, with the Rent-Roll thereof, ex Dr. Powel.
157. Dr. Powel, S. Th. D. Historia Principum Walliæ usque ad Griffin ap Conan. ar femrwm.*

Gwraig y Dr. Powel oedd Elizabeth, merch Cynwrig ab Robert ab Hywel, o Bryn y Crogyn ym Marchwiail. A chawsant ddeuddeg o blant, sef Daniel, Samuel, Gabriel, Raphael, Michael, John, Jane, Mary, Ann, Elizabeth, Sara, a Martha. Ei fab Samuel oedd ei olynydd fel ficer Rhiwabon, ac yr oedd ei fab Gabriel yn ysgolhaig rhagorol ac yn awdwr amryw lyfrau duwinyddol Seisonig. Bu farw y Dr. David Powel yn 1598, a chladdwyd ef yn Eglwys Rhiwabon. Gor-oeswyd ef gan ei briod, yr hon wedi hyny a briododd Edward Eyton, o'r un lle.

Y nesaf o gynnorthwywyr Morgan a ddaw dan sylw ydyw Edmwnd Prŷs. Y mae yr achyddwyr yn dyweyd mai ei dad

* Cambrian Register, vol. iii., pp. 291-300. Fe welir fod rhai o'r ysgriflyfrau uchod wedi eu cyhoeddi gan Powel; tra y mae eraill yn aros yn anghyhoeddedig hyd heddyw. Symmudwyd ysgriflyfrau gwerthfawr yr Hengwrt i lyfrgell Peniarth ar ol marwolaeth Syr Robert Williames Vaughan, (y diweddaf) o Nannau, yn 1859.

oedd Sion ab Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Einion Fychan ab Ifan ab Rhys Wyn ab Dafydd Llwyd ab Grono Llwyd ab y Penwyn o Felai, ac oddi yno i Marchudd, Caswallon, a Beli Mawr. Ei fam oedd Sian ferch Owain ab Llewelyn ab Ieuan ab Madog ab Rhys ab Dafydd Fychan ab Rhys ab Ednyfed Fychan.* Dywed un ei fod yn nai, fab cyfyrder, i William Salesbury o'r Plas Isaf.† Ond yr unig berthynas rhyngddynt, o leiaf hyd y gwelwn ni, oedd fod Prŷs y nawfed disgynydd, o du ei fam, o Rhys ab Ednyfed Fychan; a Salesbury yr wythfed, o du ei dad, o'r un gŵr. Ac yr oedd hynafiaid y ddau ŵr enwog yn gwahanu ym mhlant y Rhys hwnw. Ac yn ol yr achau, yr oedd y Dr. Morgan ac Edmwnd Prŷs, y naill o du ei fam a'r llall o du ei dad, yn ddisgynyddion o Marchudd ab Cynan. Ond yr oedd y gwaed wedi cael digon o amser i deneuo yn nhreigliadau agos i saith gant o flynyddoedd. Ganwyd Edmwnd Prŷs, fel y tybir yn gyffredin, yn Gerddi Bluog, plwyf Llanfair, ger Harlech. Ond y mae Gweirydd ap Rhys yn rhoddi cyfieithiad o ysgrifiyfr sydd yn Llyfrgell Tanybwlch, yr hon sydd yn dyweyd yn wahanol:—

Mab Tyddyn Du, Maentwrog, oedd yr Archddiacon; a ganwyd ef yn 1541. Aeth i fyw yn y Gerddi Bluog, ym mhlwyf Llanfair, pan briodd ei ail fab, Morgan Prys, â Margaret Williams, etifeddes y Gerddi Bluog. Claddwyd ef ym Maentwrog, heb unrhyw gofadail, yn y fl. 1624.‡

Os cywir hyn, y rhan gyntaf o'i oes a dreuliodd yn y Tyddyn Du, a'r rhan olaf yn y Gerddi Bluog. Y mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y ffaith fod gwely yr Archddiacon, a'r llythyrenau "E.P." arno, yn aros hyd heddyw yn y lle olaf. Y mae yno hen awrlais hefyd ag "I. Price. 1714" yn gerfiedig arno. Profa hyn fod ei ddisgynyddion wedi byw yno yn hir ar ei ol ef. Gresyn na ffurfid rhyw fath o Gywreinfa Gymreig i gadw creiriau ein henwogion. Y mae amryw o greiriau yr Archddiacon yma a thraw ar hyd y wlad. Yr oedd ei ffon ym meddiant Ioan Pedr. Clywsom fod ei flwch snisin ym meddiant Mr. R. Prŷs Owen, Dyffryn Ardudwy; ac y mae ei glawr pregethau (*sermon-case*) gan y Parch. J. Parry Morgan, B.A., Rheithor Llandyssil, sir Drefaldwyn, yr hwn sydd yn un o ddisgynyddion yr Archddiacon enwog.

Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle graddiodd yn gyntaf yn B.A., ac wedi hyny yn M.A. Dywed y Proffeswr Mayor yn ei argraffiad o *Baker's History of St. John's College, Cambridge*, iddo gael ei dderbyn i'r coleg hwnw ar yr

* Dywed Ioan Pedr nad yw enwau rhieni Edmwnd Prys yn wybyddus (Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 66). Anrhegwyd ni â'r achres uchod gan y Dr. D. C. Lloyd-Owen, Birmingham, yr hwn a'i cafodd yn ysgrifiyfr y diweddar Barch. E. Jones, Llanllyfni, yr hwn oedd hynafiaethydd tra medrus. A cheir yr un achau, gydag ond ychydig wahaniaeth, yng *Ngeiriadur Cenedlaethol Cymru* (Owen Jones), cyf. ii. tud. 459.

† Y Brython, cyf. v., tud. 129. ‡ Hanes Llenyddiaeth Gymreig, tud. 314.

16eg o Fawrth, 1569. Felly, gallwn gasglu iddo dderbyn urddau eglwysig cyn gadael y brif-ysgol, yr hyn oedd yn ddigon cyffredin yn y dyddiau hyny. Cyflwynwyd ef i reithoriaeth Festiniog ar y 14eg o Fawrth, 1572, yr hon hefyd a gynnwysai gapeloriaeth Maentwrog. Ar y 5ed o Dachwedd, 1576, cafodd archddiaconiaeth Meirionydd. Dywed Edwards iddo gael rheithoriaeth Llanedwyn [Llanedwen], sir Fon, ar yr 16eg o Ebrill, 1580;* tra y dywed eraill mai rheithoriaeth Llanddwywe, ym Meirionydd, a gafodd y flwyddyn hòno;† ond nis gwyddom pa un sydd gywir. Hefyd, ar yr 8fed o Hydref, 1602, penodwyd ef gan yr Esgob Morgan yn ail ganon (*canonia secunda*) Llanelwy. Os cywir ysgriflyfr yn cynnwys peth o'i farddoniaeth a geir yn yr Amgueddfa Brydeinig, bu am ryw hyd yn rheithor Penmachno. Dywedir: — "Gwaith Edmwnd Prŷs periglor Penmachno ac Archddiacon Meirionydd. Ef a drodd y Salmau ar fesur cerdd, ac a fu yn gynnorthwyol i'r Dr. Morgan yn cyfieuthu y Bibl &c. 1600."‡ Yn llawysgrif Owain Myfyr y mae'r nodyn hwn; a hwn ydyw yr unig awgrymiad, hyd y gwyddom, i Edmwnd Prŷs fod yn beriglor Penmachno. Ac y mae yr haeriad, o ddiffyg cadarnhâd, yn lled ammheus.

Ymddengys hefyd iddo ddal rhyw swydd yn Llwydlo (*Ludlow*) ar ryw adeg o'i fywyd. Cesglir hyny oddi wrth gywydd o'i waith at Sion Tudur; ac yn y *Cydymaith Diddan*, dywedir, "pan oedd Edmwnd Prys yn Berson Llwydlo ef a ddanfonodd at Sion Tudur am ddwy rodd yn ei Gywydd,"§ sef "Dwned" [Gramadeg] a'r "Prognostication Digri" [math o almanac], o waith yr olaf. Tybia yr Archddiacon Thomas mai caplan i arglwydd-raglaw y Cyffiniau oedd ei swydd yn Llwydlo, ac nid rheithor, ficer, na churad;‖ ac y mae yn profi hyny o'r cywydd ei hun. O bosibl nad efe oedd yn dal y swydd hòno yn flaenorol i benodiad y Dr. David Powel iddi yn 1584; ac iddo ymddiswyddo y pryd hwnw. Ond ni fuasai y gyfryw swydd yn ymyryd ond ychydig a'i ddyledswyddau plwyfol.

Y mae ein darllenwyr yn hysbys o'r gecraeth gywyddol a fu rhyngddo â William Cynwal o Benmachno, ac ni pherthyn i ni yma ddyfynu o'r cywyddau a'r llythyrau a basiodd rhyngddynt. Gallwn grybwyll mai yr achos o'r amrafael oedd i William Cynwal, yr hwn oedd ôf wrth ei grefft, addaw bwa dur i Rhys Wyn os canai Edmwnd Prŷs gywydd i ofyn am dano. Anfonwyd y cywydd, ac anfonodd William Cynwal gywydd a llythyr yn ol i ddyweyd fod y bwa yn fenthyg. Pasiodd amryw gywyddau ar y

* Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 233.
† Williams's Eminent Welshmen, p. 415. ‡ Add. MSS. 14962, fol. 151 (formerly p. 479)
§ Cydymaith Diddan (1766), tud. 93. ‖ Bye-Gones, 2nd April, 1873.

naill ochr a'r llall, ac o'r diwedd anfonodd Prŷs lythyr maith i feirniadu barddoniaeth Cynwal, ac aeth yr ymrysonfa bapyr hon mor finiog nes i'r olaf farw o dan ergydion llym ei wrthwynebydd, yn debyg fel y lladdwyd Rhys Meigen gan watwareg Dafydd ab Gwilym. Ond ar ol marwolaeth William Cynwal, canodd yr Archddiacon gywydd marwnad i'w hen wrthwynebydd, yn yr hwn y cwynai lawer oherwydd ei golli. Dywedir na phasiodd dim llai na phymtheg a deugain o gywyddau rhyngddynt yn yr ymdrafodaeth hon, sef pedwar ar bymtheg ar hugain gan Prŷs, ac un ar bymtheg gan Cynwal.* "Nid hen ddyn dwl oedd yr Archddiacon," medd Goronwy Owain, "a chofio'r yr amser yr oedd yn byw ynddo; etto yr wyf yn cyfrif Wiliam Cynwal yn well bardd o ran naturiol anian ac athrylith; ond bod Emwnt yn rhagori mewn dysg. Nid oedd Cynwal druan, ysgolhaig bol clawdd, ond megis yn ymladd â'r dyrnau moelion yn erbyn tarian a llurig."†

Ond nid yw teilyngdod Edmwnd Prŷs fel bardd i'w benderfynu oddi wrth ei gywyddau ymryson â William Cynwal. Cynnwysa ysgriflyfrau Owain Myfyr gynnifer a 58 o'i ganiadau, o ba rai y mae 36 mewn un gyfrol, sef Rhif xxxiv., ac heb law hyny y mae llawer o ddernynau eraill, yn argraffedig ac ysgrifenedig, ar gael. Ond ei waith mawr—y gwaith ag sydd wedi parhau ei goffadwriaeth uwchlaw dim arall a wnaeth—ydyw ei gyfieithiad mydryddol o'r Salmau. A thybiwn na fyddai ychydig sylwadau ar y gwaith hwnw yn ammherthynasol i'n hymdriniaeth bresennol. Yr oedd eraill o'i gydwladwyr wedi teimlo yr angenrheidrwydd am hyny yn flaenorol. Fel yr ydym eisoes wedi sylwi, yr oedd Dafydd Ddu o Hiraddug wedi troi rhyw chwech ar hugain o'r Salmau i fydr. A throdd un o gyd-oeswyr Prŷs, William Middleton, neu Gwilym Ganoldref, fel y gelwir ef yn gyffredin, yr oll o honynt ar fesurau cynghaneddol.

Ychydig o eiriau yn y fan hon am Gwilym Ganoldref. Mab ydoedd ef i Richard Myddelton, neu Middleton, Llywydd Castell Dinbych, yr hwn oedd yn disgyn o Rhirid Flaidd, o Jane ei wraig, merch Hugh Dryhurst, o Ddinbych. Bu i Richard Middleton wyth o feibion a saith o ferched. Ei feibion oeddynt:—(1) Richard; (2) Simon; (3) William; (4) Syr Thomas, yr hwn a fu yn foddion gyda dau neu dri o rai eraill i ddwyn allan argraffiad rhâd o'r Beibl Cymraeg yn 1630; (5) Charles, olynydd ei dad fel Llywydd Castell Dinbych; (6) Syr Hugh, yr hwn a wnaeth y

* Y mae casgliad o gywyddau ymryson Edmwnd Prŷs (neu o leiaf ddeg ar hugain o honynt) yn argraffedig yn *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig;* ac y mae dernynau o'i waith yn argraffedig yng Ngramadeg Sion Rhydderch, *Cydymaith Diddan, Blodeu Gerdd Cymry, Greal Llundain;* ac mewn amrywiol gyfrolau o'r *Gwyliedydd, Y Brython,* a *Golud yr Oes.*

† Goronwy Owen's Life and Works (1876), vol. ii.. p. 175.

gwaith dwfr a adnabyddir wrth yr enw "*The New River Waterworks*," er mwyn cyflenwi Llundain; (7) Robert; a (8) Ffowc. Ei ferched oeddynt:—(1) Jane, gwraig Ffowc ab Dafydd; (2) Lucy, gwraig Anthony ab Richard; (3) Margaret, yr hon a briododdThomas ab Thomas yn gyntaf, ac â Thomas ab Robert yn ail; (4) Elen, gwraig William Walter o Hwlffordd; (5) Elen (?), gwraig Hugh ab Elis; (6) Barbara, gwraig Edmond Walden, Llundain; (7) Grace, yr hon a fu farw yn ddibriod.* Pa bryd y ganwyd William Middleton, nid yw yn hysbys. Ond dywedir wrthym iddo gael ei fwriadu gan ei dad i'r offeiriadaeth, ac i'r dyben hwnw anfonwyd ef i brif-ysgol Rhydychain. Pa fodd bynag, yn lle cymmeryd urddau, ymunodd William yn gyntaf â'r fyddin, ac wedi hyny â'r llynges. Dywedir iddo, pan yn gadben ar un o'r llongau oedd yn gwrthwynebu Armada Yspaen, roddi hysbysrwydd prydlawn i'r Llyngesydd, yr Arglwydd Thomas Howard, o symmudiadau y llynges Yspaenaidd, ac iddo trwy hyny wneuthur gwasanaeth pwysig i'w wlad.† Ond ein hamcan yn ei gyflwyno i sylw y darllenydd oedd fel y gallem nodi ei gyfraniadau i lenyddiaeth ei oes. Ymddangosodd y gyfran gyntaf o'i lafur llenyddol fel ychwanegiad i Ramadeg Lladin a Chymraeg y Dr. John David Rhys, a gyhoeddwyd yn 1592, o dan yr enw "*Cambrobrytannicæ Cymraecæve Lingvæ Institvtiones et Rvdimenta accuratè*," *&c.*‡ Ond ag eithrio "Awdl i Grist" a rhyw gynnifer o englynion o waith Gwilym Ganoldref, cywyddau o eiddo eraill a gynnwysir yn yr ychwanegiad. Ond gan ei fod yn gweled mai llyfr i addysgu athrawon oedd Gramadeg y Dr. Rhys, ac nid llyfr i'r bobl gyffredin, cyfansoddodd, a chyhoeddodd yn 1593, Ramadeg Barddoniaeth, yn dwyn yr enw "Bardhoniaeth neu Brydydhiaeth, y Lhyfr Kyntaf. Gan Capten William Middleton. Thomas Orwin a'i Printiawdh yn Llundain. 1593." Ac ym mhen deng mlynedd ar ol hyny ymddangosodd gwaith arall, a'r olaf o'i eiddo, o dan yr enw "Psalmae y Brenhinol Brophvvyd Dafydh, gwedi i cyng-

* Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 49. *et seq.*

† Geir. Cen. Cymru (Owen Jones), cyf. ii., tud. 296; Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), pp. 94, 95.

‡ Mab oedd John David Rhys i Dafydd Rhys, yr hwn oedd yng ngwasanaeth Syr William Griffith, Llanfaethlu, sir Fon. Ganwyd ef yn 1534; a phan yn ddeunaw mlwydd oed anfonwyd ef i Rydychain, o ba le yr ymadawodd ar ol arhosiad o dair blynedd, heb gael ei raddio. Wedi hyny ceir iddo fyned i brif-ysgol Sienna yn Tuscany, i astudio meddygaeth, lle y graddiodd yn M.D. Bu ar ol hyny yn dal y swydd o gymmedrolwr cyhoeddus yn ysgol Pistoia. Yr oedd yn ieithyddwr rhagorol ac yn dra hoff o lenyddiaeth. Ysgrifenodd lyfr yn yr Eidalaeg, "Rheolau er cyrhaedd gwybodaeth o'r Lladin," yr hwn a argraffwyd yn Venice; a llyfr arall yn Lladin, "*De Italicæ Linguæ pronuntiatione*," yr hwn a argraffwyd yn Padua. Ysgrifenodd hefyd "Grynhodeb o Uchanianaeth Aristotle," yn Gymraeg, yr hwn ni chyhoeddwyd. Ond fe allai mai y gwaith pwysicaf a gyhoeddodd ydyw yr uchod. Dywed Wood iddo farw, fel y bu byw, yn Babydd, yn ardal Aberhonddu oddeutu 1609. Ond credwn fod golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* yn dwyn rhesymau boddhaol i brofi mai Protestant ydoedd pan gyhoeddodd ei *Ramadeg* (*Llyfr. y Cymry*, tud. 66, nodyn).

hanedhu mewn mesurau cymreig. Gann Gapten Wiliam Middelton. Yn nesaf y gallodh at fedhwl yr Yspryd glân. Simon Stafford a Thomas Salisbury a'i printiodh yn Llunden. 1603."* Y mae yn dra thebyg iddo gyfieithu a chynghaneddu yr oll o'r gwaith hwn pan yn dilyn ei ddyledswyddau llyngesol. Oblegid ar ei ddiwedd ceir:—"*Apud Scutum Insulam occidentalium Indorum, finitum erat hoc opus, vicesimo quarto Ianuarij, Anno Salutis nostræ* 1595"; sef, "Gorphenwyd y Gwaith hwn yn Scutum, ynys yn yr India Orllewinol, y 24ain o Ionawr, blwyddyn ein Hiachawdwriaeth 1595." Ond gan mai yn y mesurau caethion y mae y gwaith hwn wedi ymddangos, y mae yn fwy dyddorol i'r cywrain nag ydyw o ddefnyddiol fel cyfrwng mawl ac addoliad. Y mae y ffaith na chyhoeddwyd ond dau argraffiad o hono yn profi na chafodd ond ychydig o afael ar y meddwl Cymreig.

Yn yr un flwyddyn ag yr argraffwyd "Psalmæ" cynghaneddol Gwilym Ganoldref, cyhoeddodd Edward Kyffin "Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd, Jvv canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr. Simon Stafford a'i Printiodd yn Llunden dros T.S. 1603." Yn ei anerchiad o flaen y "Rhann," sylwa Kyffin:—

Ag wrth weled a chlywed mor brydferth ag mor hyfryd rydys yn moliannu Duw yn yr holl Eglwysi lle mae'r Efengyl yn cael rhyddid, ond Ynghymru yn unig, wrth ganu Psalmau Dafydd, hyny a wnaeth i mi (er Gogoniant i'r Arglwydd a Chariad i'm Gwlad) ddangos fy ewyllys da yn cychwyn hynn o waith ar ddechre cynghaneddu hynn o Psalmae yn nesa ag ellais at feddwl yr Yspryd Glân, fel y cefais hwynt yn scrifennedig yn y Scrythurau.

Tair ar ddeg o'r Salmau yn unig a fydryddwyd gan Edward Kyffin. Nid ydyw yn hysbys paham na fuasai yn gorphen y gorchwyl; ond gwyddom mai nid am nad oedd yn ei ystyried yn anfuddiol. Y mae ei anerchiad yn awgrymu mai ofni yr oedd na fuasai y gefnogaeth yn ddigonol:—

Mi a rois y Psalmau prês ar gyfer y cynghanedd, ag a adewais le rhwng pôb vers ai gilydd o'r cynghanedd fel i gallo rhai celfyddach gymhennu a pherffeithio hynn a wnaethum i o fras-naddiad, er praw yn unig, ag er annog eraill (a fedrant yn well) ei hailddiwygu hwynt. Gan ddymuno arnoch bawb yn ol ei allu hyfforddi fy ewyllys da i a'ch cyngor a'ch cymorth, i amlygu i'r byd eych serch a'ch cariad i Dduw a'ch Gwlad. Yr hynn beth os gwnewch, chwi a ogoneddwch yr Arglwydd, chwi a fawrhewch eych gwlad, ag am cysurwch innau, nid yn unig i fynd trwodd a holl gorph y Psalmae yn yr un rhyw gynghaneddiad (yr hwn fesur cynghanedd sydd gymwysaf ei ganu gann yr oll gynulleidfa ar un-waith) ond hefyd i leshau fyngwlad ymhellach ar ol hynn mewn pethau duwiol eraill o'r Scrythur lân. Drwy obeithio gann gadw

* Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gwaith uchod, o dan olygiaeth Gwallter Mechain, gan Robert Jones, Llanfair Caereinion, yn 1827.

o Dduw nyni dros gyd o amser, fod gann yr Arglwydd Dduw ryw orcheswaith a gorchafiaeth tuag at amlhâd ei ogoniant ei hun ym-mysg yr hên Frutaniaid a gadwodd ef mor wyrth-fawr mewn rhyddid a diogelwch hyd yn hynn.

Ond ymddengys na chafodd Edward Kyffin y gefnogaeth a ewyllysiai, gan nad ymddanghosodd ychwaneg o ffrwyth ei ysgrifbin. Diwedda ei lyfr gyda'r geiriau:—"Terfyn ar hyn: hyd oni threfno Duw Gymmorth ymhellach."

Tybia awdwr *Llyfryddiaeth y Cymry** fod Edward Kyffin yn frawd i Maurice, neu Morus, Kyffin, o'r Glasgoed; a dywedir fod Maurice Kyffin yn fab i Richard Kyffin, o'r un lle. Ond y mae y Chevalier Lloyd† ar sail amryw o ysgriflyfrau, megys *Harl. MSS.* 1977, fol. 46, *Vron Iw MS.*, ac eraill, yn rhoddi achres led gyflawn o'r Kyffiniaid, o'r hon y dyfynir a ganlyn:—

Syr Dafydd, Ficer Eglwys Bach, 1534, Rheithor Llanddoget a Nannerch, a Chanon Llanelwy, 1537. = Margaret, merch Meredydd, hynaif Wynniaid Gwydir, ab Ieuan ab Robert ab Meredydd ab Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ab Caradog ab Thomas ab Rhodri ab Owain Gwynedd.

(*Ei wraig gyntaf.*)

Maurice Kyffin, Sirydd 1579, yn fyw yn 1595. Bardd a Llenor. = Margaret, merch Thomas Mostyn, o Mostyn.

(*Ei ail wraig.*)

= Alice, merch John Wynne o Melai, Yswain i'r Frenhines Mary.

Catherine, gwraig John Price o'r Llewesog.

Edward Kyffin, Ficer Caerwys, 1608. Marw 1623. = Winifred, wythfed ferch Thomas Evans, o Blas Llaneurgain.

Morris, a fu farw yn ddiblant.

Thomas Kyffin, Ficer Trallwm a'r Berriew, a Chanon Llanelwy, 1608.

William, a thair o ferched.

Richard Kyffin, Maenan Hall, yn ugain oed yn 1630. = Elen (?), merch Cadwaladr Wynne, o'r Foelas.

Amryw o blant eraill.

Felly nid brawd i Maurice Kyffin oedd Edward Kyffin, ond ei fab; ac nid tad Maurice Kyffin oedd Richard Kyffin, fel y dywedir gan y Canon Robert Williams‡ ac eraill, ond ei ŵyr. Fe'n hysbysir i Maurice Kyffin gyfieithu "Andria," gan Terence, i'r Saesoneg yn ei flynyddau boreuaf;§ ac y mae llawer o'i englynion ar gael. Yn 1587, cyhoeddodd Gân Seisonig o folawd i'r Frenhines dan yr enw "The Blessednes of Brytaine, or A Celebration of the Queenes Holyday," &c. Dygwyd allan ail argraffiad, gydag ychwanegiadau, yn y flwyddyn 1588.|| Yr achlysur o gyhoeddiad

* Llyfr. y Cymry, tud. 76. † Hist. Powys Fadog, vol. v., p. 374.
‡ Williams's Eminent Welshmen, p. 270. § Ibid.
|| Yr unig gyfargraff adnabyddus o'r argraffiad cyntaf o'r "*The Blessednes of Brytaine*" ydyw yr un a gedwir ym Mhalas Lambeth. Ad-argraffwyd ef, ond yn lled anghywir, yn Huth's "*Fugitive Tracts in Verse*" (cyfres gyntaf), 1875. A dygodd Cymdeithas y Cymmrodorion argraffiad o hono allan yn 1885. Y mae cyfargraff o'r ail argraffiad, a ymddangosodd yn 1588, yn yr Amgueddfa Brydeinig.

y Gân ydoedd teyrn-fradwriaeth Ballard a Babyngton, yn y flwyddyn flaenorol. Ond y gwaith pwysicaf a gyhoeddodd oedd ei gyfieithiad o'r "*Apologia Ecclesiæ Anglicanæ*," gan yr Esgob Jewel, yr hwn a ddaeth allan yn 1595, dan yr enw "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr: lle y ceir gweled, a gwybod, dosparth Gwir Grefydd Crist, ac anghywirdeb Crefydd Eglwys Rufain: Angenrheidiol i bawb ei ddealld, a madws i ddynion ei ddyscu, o ran eu buchedd yn y byd, fel y caffont fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Wedi ei gyfieithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin."* Ystyrir ieithwedd Maurice Kyffin yn gyffredin yn dra ystwyth a phrydferth, ac yn gynllun rhagorol i ysgrifenwyr Cymreig.† A chan fod yn ei anerchiad at yr "hawddgar ddarllenyd Cristnogawl," o flaen y llyfr olaf a nodwyd, rai sylwadau ar y priodoldeb o droi y Psalmau ar fesur cerdd, ni a'u dyfynwn yma:—

Gwaith rheidiol iawn fydde troi'r Psalmeu i ganghanedd gymraeg, nid i ganghanedd Englyn, nac Owdl, na Chowydd, nag i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly, ni ellir byth troi na'r Psalmeu, na dim arall yn gywir. Eithr i'r fath fesur a thôn canghanedd ag sydd gymeradwy ymhob gwlad, a ddiwygwyd drwy dderbyniad discleirdeb yr Efengel: ag fel y gwelir yn y Saesoneg, Scot-aeg, Ffrangaeg, iaith Itali, a'r cyfryw; fal y gallo'r bobl ganu y gyd ar unwaith yn yr Eglwys; yr hyn fydde ddifyrwch a diddanwch nefawl iddynt yn y llann, a chartref. Am Englyn, neu Owdl, neu Gowydd, ewyr pawb nad cynefin ond i un dyn ar unwaith ganu'r un o'r rheini. Heb law hynny, ni wasanaetha tôn yr un o honynt i gerdd ysprydol uchelfraint; a phe gwasanaetha, etto, cabledd mawr yw cymmysc cerdd yr Yspryd glan yn yr un don ganiad a cherdd faswedd ofer. Rhaid i'r neb a gychwnno hyn o orchwyl cyssegr, ddealld amryw ieithoedd dyscedig, fegis na roddo ef un gair yn y Ganghanedd ond a fo cwbl gyd-synniol a meddwl yr Yspryd glan. Pette gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth, a chwannocca poen a gymerwn i arnaf, fydde, tueddu at hyn o waith, ar ôl cyd-siarad a dyscedigion Cymry, ynghylch pa ddull a math ar ganghanedd, a dybid oref a chymessuraf i hyn o Dduwioldeb.

* Cyhoeddodd Charles Edwards argraffiad diwygiedig o "Ddeffyniad Ffydd Eglwys Loegr" yn 1671; a daeth argraffiadau dilynol o hono allan yn 1808 a 1849.

† Yn *Cyvaill yr Aelwyd*, 1890, tud. 303, ceir cofnodiadau am lyfrau eraill o gyfieithiad Maurice Kyffin, y rhai ni sonir am danynt yn *Llyfryddiaeth y Cymry*:—

1. "Hanes Byr o fywyd a marwolaeth yr awdwr, John Jewel, yn Mhlwyf Berynarber, yn Swydd Devon, wedi ei gyfieithu gan M. Kyffin o'r Glasgoed, Llansilin, Hydref, 1594. Llundain: Arg. gan J. F. Strand." 20 tudalen, ac yn Gymraeg teg.
2. "Hanes Byr o fywyd sanctaidd Mr. Henri Gearing, cyf. gan M. Kyffin. Caerlleon: Arg. gan J. Evanes." 105 tudalen.

Hoffem gael amgenach hysbysrwydd yng nghylch y llyfrau uchod na geir yn y cofnodion talfyredig hyn. Priodol yr ammheua Cadrawd fod argraff-wasg yng Nghaerlleon yn amser Maurice Kyffin. Ond dichon mai ail argraffiad oedd yr olaf o lyfr nad oes genym gofnodiad am dano. Pa fodd bynag, y mae yr "Hanes Byr" o Jewel yn blaenori argraffiad 1808 o "Ddeffyniad Ffydd Eglwys Loegr"; ac o bosibl nad oedd yn blaenori argraffiadau eraill.

Ond ymddengys na chafodd Kyffin byth mo'r "seibiant a'r hamdden" angenrheidiol i ymgymmeryd â'r gorchwyl. Pa fodd bynag, y mae y dyfyniad uchod yn ein dwyn yn ol at yr Archddiacon Prŷs, yr hwn a gyflawnodd y gwaith a awgrymwyd gan Maurice Kyffin. Tybir mai yr awgrymiad hwn a fu yn foddion i symbylu Edward Kyffin i gynnyg y gwaith, ac i beri i Edmwnd Prŷs droi ei feddwl ato. Pa fodd bynag, y mae yr olaf yn defnyddio bron yr un geiriau a geir yn y dyfyniad uchod yn ei lythyr "*At y Darlleydd ystyriol*" o flaen ei Psalmau Cân :—

Tri pheth a wnaeth na chyfiaithwyd y Psalmau bendigaid ar yr vn o'r pedwar mesur ar hugain.

Vn yw, am na allwn ryfygu clymu yr Scrythur sanctaidd ar fesur cyn gaethed, rhac i mi wrth geisio cadw y mesurau, golli deall yr Yspryd, ac felly pechu yn erbyn Duw er mwyn bodloni dyn.

Yn ail, ymae gair Duw iw ganu mewn cynnulleidfa sanctaidd o lawer ynghyd, i foliannu Duw yn vn llais, vn feddwl, vn galon; yr hyn a allant ei wneuthur ar y mesur gwael hwn, ac ni allai ond vn ganu cywydd neu awdl.

Yn drydydd, pob plant, gweinidogion, a phobl annyscedic a ddyscant bennill o garol, lle ni allai ond ysgolhaig ddyscù Cywydd neu gerdd gyfarwydd arall. Ac o achos bód yn berthynol i bob Christion wybod ewyllys Duw, a'i foliannu ef, mi a ymadewais â'r gelfyddyd, er mwyn bod pawb yn rhwymedic i wario ei dalent ar y gorau. Hefyd nid wyf fi yn cadw mor mesur esmwyth hwn yn gywir ymhob man, am nad oes dim yn ein hiaith ni mewn synwyr i seinio nac i odli â Duw. Am hynny i roi iddo ef ei ragor pioedd y gerdd, mi a rois amryw ddiphthongau eraill i gyfatteb â'r gair hwnnw, yn nesaf ac y medrwn.*

Y mae yn anhysbys pa bryd y dechreuodd yr Archddiacon ar y gorchwyl o droi y Salmau ar gân. Cyhoeddwyd hwy y waith gyntaf yng nglyn â Llyfr Gweddi 1621; ac o flaen y Salmau ceir a ganlyn ar y wyneb-ddalen :—"Llyfr y Psalmau, Wedi ev cyfieithv, A'i Cyfansoddi ar Fesvr Cerdd, yn Gymraeg. Drwy Waith Edmwnd Prys, Archdiacon Meirionnydd, A'i Printio yn Llvndain. 1621." Cyhoeddwyd hwynt yr ail waith wrthynt eu hunain yn 1628, fel, yn ol tyb Gwilym Lleyn, y gellid eu cyd-rwymo ag unrhyw argraffiad dyfodol o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. A chyhoeddwydhwynt y drydedd waith gyda'r Beibl a gyhoeddwyd yn 1630 gan Rowland Heylin a Syr Thomas Middleton; ac y maent wedi cael eu hargraffu ddegau o weithiau ar ol hyny, yr hyn sydd yn profi eu bod wedi ennill serch y genedl Gymreig. Ni raid ond gosod enghraifft o gyfieithiad Prŷs yn ymyl eiddo Gwilym Ganoldref ac Edward Kyffin na chanfyddir rhagoriaeth gwaith y blaenaf :—

* Yn y dyfyniad uchod cadwyd yn fanwl at lythyriaeth ac orgraff yr argraffiad cyntaf (1621), gyda'r eithriad i ni ddefnyddio *s* yn lle *f*.

Salm I. 1. Gwynfyd o'i febyd gwinfaeth
Gwirion dôn i'r gŵr nid aeth
Ar ol cyngor hoc anghall
Y drwg a ro'i fryd ar wall;
Ni saif yn ffordd brif-ffordd brys
Bechaduriaid, baich dyrys,
Nac ar gadair gyfair gawdd
Gwatwarwyr a gyd-dariawdd.

Gwilym Ganoldref.

Dyn ni rodia dedwydd yw
Ynghyngor annuw ddynion;
Yn ffordd pechadwyr ni sai,
Ni steddai'n stôl gwatwarion.

Edward Kyffin.

Y sawl ni rodia, dedwydd yw,
Yn ol drwg ystryw gyngor,
Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol,
Nid eiste'n stol y gwatwor.

Edmwnd Prŷs.

Credwn na chymmer ond amser byr i'r darllenydd benderfynu fod Edward Kyffin yn dirfawr ragori ar Gwilym Ganoldref, ac fod Edmwnd Prŷs yn llawer gwell na'r ddau. Os cymharwn gyfieithiad yr olaf â'r Salmau mydryddol a drowyd i'r Saesoneg gan Thomas Sternhold a John Hopkins, ac a gyhoeddwyd yn 1562, gwelir mai Prŷs sy'n rhagori. Fel hyn y ceir yr adnod gyntaf o'r Salm gyntaf gan Sternhold :—

The Man is blest that hath not lent
to wicked Men his ear:
Nor led his Life as Sinners do,
nor sat in Scorners chair.

Y mae yn amlwg fod Prŷs wedi llwyddo i osod allan feddwl yr adnod yn gywirach ac mewn llai o eiriau na neb o'i ragflaenwyr, byddent Gymry neu Saeson. Pa faint bynag o ddiffygion a geir yn ei waith ef, y mae yn sicr iddo lwyddo i gadw "deall yr Yspryd" yn well na'r un o honynt. Y mae yn wir fod amryw o'i Salmau yn dra chlogyrnaidd eu corfaniad; ac nis gellir ystyried anamlder ei fesurau amgen na diffyg. Ar y Mesur Cyffredin Cymreig (8.7.8.7.) y mae yr oll ganddo, ag eithrio Ps. li. (M.B.C., 6.7.8.7.); Ps. c. (M.H.C., 8au); a'r Ps. cxiii. (M.N., 6 o 8au). Gofalodd roddi cynnorthwy i'w canu trwy osod alawon ar ddechreu y Salmau canlynol :—rhif 1, 2, 5, 6, 8, 9, 10, 11, 12, 51, 100, a 113; tra y dywedir o flaen amryw eraill ar ba un o'r alawon hyn y maent i'w canu. Hyd y gwyddom, yr

argraffiad hwn o'r Salmau Cân ydyw y llyfr Cymraeg argraffedig cyntaf sy'n cynnwys cerddoriaeth. A hoffem yn fawr wybod pa le y cafodd yr alawon, ai Cymreig ydynt ai peidio. Ond, tebygem fod hyn yn eithaf prawf fod Prŷs yn gerddor; ac ei fod yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll, i ddwyn canu cynnulleidfäol Cymreig i'n Heglwysi.

Yn ei gyfieithiad o'r Salmau melldithiol, bron na thybiwn ei fod yn fwy angherddol yn ei lid tuag at elynion Dafydd, na Dafydd ei hunan :—

Dryllia, o Dduw eu dannedd yn eu geneuau : torr, o Arglwydd, gil-ddannedd y llewod ieuaingc.
Psalm. lviii. 6.

Duw, torr eu dannedd yn eu safn,
diwreiddia'r llafn o dafod :
Duw, dryllia'r bonau, a gwna'n donn
bob grudd i'r c'nawon llewod.
Edmwnd Prŷs.

Nid yn unig yr oedd yr Archddiacon yn eilio gweddi Dafydd am i Dduw dori dannedd y gelynion, ond yr oedd am dynu eu tafodau hefyd fel na chlywid eu lleferydd enllibaidd mwy. Ond nid ydyw hon ond un enghraifft o lawer a allesid nodi i ddangos yni a bywiogrwydd ei awen. Y mae amryw wedi bod wrth y gorchwyl o gyfieithu y Salmau ar ei ol ef; rhai i ddybenion eglurhaol ac eraill i ddybenion addoliadol; ond nid oes neb o honynt wedi gwneuthur llafur yr Archddiacon yn ddifudd. Ac edrych ar ei Salmau Cân fel cyfuniad o sylwedd a ffurf cynnyrchion Pêr Ganiedydd Israel, yn y cyfaddasiad o honynt at ganiadaeth gynnulleidfaol, erys Edmwnd Prŷs eto heb ei gymhar. Y mae y gorchest-waith sydd wedi cadw cwmni i'r Beibl a'r Llyfr Gweddi, bron er eu ymddanghosiad cyntaf, yr hwn sydd wedi bod yn ffynnonell cysur i filoedd yn y gwasanaeth cyhoeddus, wedi herio athrylith y genedl i wneuthur ei ragorach.

Fe allai mai un o'r pethau olaf a wnaeth oedd cyfansoddi anerchiad Lladin i Ramadeg y Dr. Davies, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1621. Yr oedd ef y pryd hwnw yn bedwar ugain mlwydd oed, ond yn parhau i gefnogi llenyddiaeth. Ym mhen tair blynedd ar ol hyny, yn 1624, ehododd ei yspryd at y Duw a'i rhoes, a chladdwyd ei weddillion marwol yn Eglwys Maentwrog.

Gŵr arall, a'r olaf, a nodir gan Morgan fel cynnorthwywr iddo ydyw Richard Vaughan, "Llywydd Ysbytty St. Ioan, yr hon sydd yn Lutterworth," yn swydd Leicester. Tad Richard oedd Thomas ab Robert Vaughan, o Nyffryn, yn Lleyn, sir Gaernarfon; a'i fam oedd Catherine, ferch Gruffydd ab Sion ab Gruffydd o [Gefn Amwlch ?] Lleyn. Gorphenodd ei addysg yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, o'r hwn yr etholwyd ef yn gymmrawd. Pa bryd y

gwnaed ef yn Llywydd Ysbytty St. Ioan, nis gwyddom; ond y mae yn amlwg ei fod yn dal y swydd hòno yn 1588. Ym mhlith bywoliaethau eraill, cafodd gorfuddiaeth Holborn, yn Eglwys St. Paul, yn 1583, ac archddiaconiaeth Middlesex yn 1588. Cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor, 25ain Ionawr, 1595; symmudwyd ef i Gaerlleon yn 1597, ac i Esgobaeth Llundain yn 1604. Bu farw 30ain o Fawrth, 1607, a chladdwyd ef yng Nghapel Esgob Kemp yn Eglwys St. Paul. Ceir cof-golofn yn Eglwys Gadeiriol Bangor a godwyd gan ei gefnder a'i olynydd, yr Esgob Henry Rowlands, ar arni y mae yr argraff a ganlyn :—

Piæ memoriæ duorom Episcoporum in hac Ecclesia proxime succedentium, qui fuerunt contigue nati, Coetanei, sibi invicem cari Condiscipuli, Consanguinei; ex illustri Familia Vaughanorum de Talhenbont in Evionydd; Prior Filius Thomæ ap Robert Vachan Generosi de Niffryn in Llyn, Qui sedem hanc per Biennium tenuit, deinde Cestrensem per Septem Annos; Postea Londinensem per Triennium tenuit, ubi vitam mensis martii ultimo An. Dom. 1607, immatura morte commutavit. Cujus Virtus post funera vivit. Posterior Henricus Filius Rolandi ab Robert Armigeri de Mellteyrn in Llŷn, ex Elizabetha filia Griffini ab Robert Vachan, Armigeri, de Talhenbont, qui annum Consecrationis suæ jam agit decimum octavum multosque agat feliciter ad honorem Dei & Evangelii propagationem, mutuo amore alter ultrique hoc struxit monumentum mense maii, Anno Dom. 1616.

Orimur, Vicissim morimur,
Qui non precesserunt sequuntur.*

Rhydd Syr John Wynn air uchel i'r Dr. Vaughan. Dywed ei fod "yn ysgolhaig rhagorol ac anghymmarol, yn ŵr call a chymmedrol, ac yn dra diwyd yn ei alwedigaeth, yr hyn a fyrhäodd ei ddyddiau. Symmudwyd ef o Gaerlleon i Lundain gan y Brenin Iago, cymmeradwyaeth a ffafr yr hwn a fwynhäodd lawn cymmaint ag unrhyw Esgob o gwbl. Bu farw yn ddyn tlawd, gan y chwennychai enw da yn fwy na golud."† Gallodd Vaughan, rywfodd, "ddal y ddysgl yn wastad" i'r hen farwnig, onide ni fuasai y ganmoliaeth mor helaeth.

Yn awr, y mae y cwestiwn yn ymgynnyg i'n meddwl, pa beth oedd natur y cynnorthwy a roddwyd i Morgan gan David Powel, Edmwnd Prŷs, a Richard Vaughan? Yr ydym eisoes wedi sylwi ar y cynnorthwy a roddwyd iddo gan Arch-esgob Caergaint, Esgobion Llanelwy a Bangor, a'r Deon Goodman. Y mae Morgan wedi rhoddi rhyw fras-ddeffiniad i ni o'r hyn a wnaethpwyd ganddynt hwy; ond yr oll a ddywed mewn perthynas i

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 91; Williams's Eminent Welshmen, p. 510. Y mae ychydig o wahaniaeth yng ngosodiad y prif lythyrenau, &c., yn y ddau awdurdod.
† Hist. Gwydir Family, p. 92.

Powel, Prŷs, a Vaughan ydyw, iddynt rhoddi "cynnorthwy na ddylid ei ddibrisio." Ond nid ydyw y geiriau hyn ryw fodd yn awgrymu fod y gwasanaeth a wnaethant o natur fwy pwysig na'r lleill a nodir. Prin y mae yr ymadrodd yn swnio *can gryfed*. Nid ydym yn rhoddi nemawr bwys ar fod eu henwau yn cael eu nodi yn olaf, gan fod y rhai a'u blaenorant yn uwch o ran safle ac urddas yn yr Eglwys. Ond yn sicr buasem yn dysgwyl rhyw amlygiad mwy pendant pe buasent wedi cymmeryd rhan weithredol yn y cyfieithiad. Nid oes neb yn ammeu nad oedd eu dysgeidiaeth yn ddigonol i ymgymmeryd â'r gorchwyl o gyfieithu rhanau o'r Ysgrythyrau. Yr ydym eisoes wedi gweled tystiolaeth Syr John Wynn parthed i ddysgeidiaeth y Dr. Richard Vaughan; dywedai yr Archddiacon Prŷs yn un o'i gywyddau ei fod ef yn gydnabyddus ag "wyth iaith"; a'r "ysgrifenwr dysgedig" y gelwid David Powel. Ond a ddefnyddiasant eu dysgeidiaeth trwy gymmeryd rhanau neillduol o Feibl Morgan i'w cyfieithu sydd fater ag yr ydym yn ei ammeu.

Yr ydym eisoes wedi sylwi fod y Dr. Powel hyd y flwyddyn 1585 yn llawn gwaith mewn paratoi i'r wâsg lyfrau o natur wahanol. Ac hyd hyny, pryd y gallwn feddwl fod ganddo y seibiant angenrheidiol i gyfieithu unrhyw ran o'r Beibl. Felly, os cyfieithiodd ef ran o hono o gwbl, rhaid mai o ddiwedd 1585 hyd ddiwedd 1587 y gwnaeth hyny. Am y Dr. Vaughan, gallwn ddyweyd y buasai ei gefnder a'i olynydd yn Esgobaeth Bangor—y Dr. Henry Rowlands—yn dra thebyg o grybwyll y ffaith ar ei gof-golofn, pe buasai wedi cymmeryd rhan flaenllaw yn y gorchwyl. Am yr Archddiacon Prŷs, lled-awgryma y Parch. David Evans, M.A., gynt o Gelligaer, mai efe a gyfieithodd Lyfr y Salmau.* Ond hyd y gwelwn, nid oes y sail leiaf dros y dyfaliad; ac nid ymddengys fod Mr. Evans yn gosod nemawr bwys ar y dybiaeth. Fe wel yr hwn a gymmer y drafferth o gymharu Llyfr y Salmau ym Meibl Morgan gyda chyfieithiad mydryddol Prŷs eu bod yn gyfieithiadau hollol annibynol; neu o leiaf, fod yr olaf yn amrywio llawer oddi wrth y blaenaf. Yn Ps. i. 1, yr amser perffaith "ni rodiodd" sydd gan Morgan; ond y mae Prŷs, yr un modd a Parry a'r Cyfieithiad Seisonig, yn defnyddio yr amser ammherffaith "ni rodia": ac "ewyllys" sydd gan y blaenaf yn yr ail adnod, ond "serch" sydd gan yr olaf. Y mae yn wir pe ddefnyddiasai Prŷs "ni rodiodd" y buasai yn rhaid iddo hefyd osod berfau eraill yr adnod yn yr un amser, a diammeu y buasai hyny yn ymyryd â'r mydr. Ond nid oedd hyny yn gofyn iddo roddi "serch" yn lle "ewyllys," gan yr atebasai "gŵyll" neu

* The Sunday Schools of Wales, p. 57.

unrhyw air unsill arall yn llawn cystal. Gellir nodi nifer lluosog o enghreifftiau yn y rhai y gwahaniaetha Prŷs oddi wrth Morgan, a hyny pan nad ydyw y mydr yn gofyn unrhyw gyfnewidiad. Yn Ps. xi. 6, rhydd Prŷs "marwor tân" yn lle "maglau, tân, &c.," a geir ym Morgan; xii. 1, rhydd Prŷs "wirionedd" yn lle "ffyddloniaid"; xv. 1, y mae "pa ddyn a drig ith lys barchedig," yn ol Prŷs, yn cyfleu meddwl nad yw yn gynnwysedig gan Morgan yn ei "pwy a drig yn dy babell"; xxv. 1, defnyddia Prŷs yr amser gorphenol "dyrchefais," ond Morgan yr amser annorphenol "derchafaf"; xxvii. 4, pe buasai Prŷs yn dilyn Morgan, yn lle dyweyd "Un arch a erchais ar Dduw Naf" dywedasai "Un peth ddeisyfais, &c."; xxxiv. 1, ac yn lle dyweyd "sy'n wastad yn fy ngenau," dywedasai "fydd wastad yn fy ngenau." Y mae Prŷs a Morgan yn gwahaniaethu yn fawr wrth osod allan feddwl rhai adnodau, megys xxxvi. 2:—

Morgan.

O herwydd ymwenheithio y mae efe iddo ei hun, yn ei olwg ei hunan, nes cael allan ei anwiredd ef [yr hwn sydd] iw gassau.

Prŷs.

Mae yn cyd-ddwyn â'i fai ei hun
ni wêl mo'i wrthun drosedd:
Nes cael yn eglur i'r holl fyd
ei gas wŷd, a'i anwiredd.

Y mae cryn wahaniaeth rhwng "ymwenheithio iddo ei hun" (*self-flattery*) a "chyd-ddwyn (*bear with*) â'i fai ei hun"; ac y mae darlleniad Prŷs o ddiwedd yr adnod yn debycach i eiddo Parry na Morgan:—"nes cael ei anwiredd yn atcas." Y mae Ps. xc. 9 yn ol Morgan yn dyweyd i ni dreulio "ein blynyddoedd fel lleferydd"; ond "fel gorphen hen chwedl gorfod" medd Prŷs; a "chwedl" a geir yn y Cyfieithiad Seisonig ac ym Meibl Parry. Ceir Prŷs yn yr un cwmni wrth gyfieithu cxl. 1, pryd y gofynir am waredigaeth rhag y "dŷn drwg" a "gŵr y trawsder" yn lle oddi wrth "ddynion drwg" a "gwŷr traws," fel y dywedir gan Morgan.

Nid ydyw yr enghreifftiau uchod ond ychydig o lawer a allesid ddwyn ym mlaen i ddangos mai nid arall-eiriad o gyfieithiad Morgan ydyw Salmau Cân yr Archddiacon. Fel hyn y dywedir ar y pwnc gan un ysgrifenydd galluog yn *Y Traethodydd*:—

Gyda golwg ar y berthynas a all fod rhwng Sallwyr Edmwnd Prys â chyfieithiad yr Esgob Morgan, nid ydym ar dir ag y gallwn ddyweyd fawr, os dim, yn bendant. Gwyddom fod yr Archddiacon wedi ei alw i gynnorthwyo yr Esgob i ddwyn allan ei gyfieithiad o'r Bibl; ond ni wyddom pa ran a gymerodd yn y gwaith. Ond gan nad pa law a fu ganddo yn y gwaith hwnw, mae yn eglur i bawb a'u cymharo, nad cyfaddasiad ar Fesur Cerdd o'r Salmau yn ol y cyfieithiad hwnw, mwy nag o'r un cyfieithiad arall, ydyw ei Sallwyr ef; oblegid y mae profion ddigon ynddo o'i fod yn gyfieithiad hollol annibynol. A golygu hyd yn nod ddarfod i'r Esgob ei ddal ef yn gyfrifol i raddau helaeth, dyweder, am

gyfieithiad o'r Salmau, gellir dyweyd ei fod wedi rhagori arno ei hunan mewn llïaws o fanau yn ei Sallwyr.*

Ond a chaniatau y dichon fod y gwahaniaeth a geir yn y Salmau Cân i'w priodoli i ddybenion mydryddol, ac fe allai i farn addfetach, y mae un neu ddau o bethau eraill yn awgrymu mai nid yr Archddiacon a gyfieithoddd y Salmau a geir ym Meibl Morgan. Yn yr argraffiad cyntaf o'r Salmau Cân, yr unig un a ddaeth allan yn ystod bywyd yr awdwr, yr ydym yn cael fod orgraff Prŷs yn amrywio mewn amryw fanau oddi wrth eiddo Morgan. Arfera Morgan *Crist* a'i dreigliadau yn wastad, ac nid ydym byth yn ei gael yn ysgrifenu *Christ* ond yn unig pan fyddo y gair blaenorol yn gofyn am hyny; ond y ffurf olaf a geir gan Prŷs bron bob amser. Yr ydym yn sylwi hefyd fod y cynnwysiad i'r Salmau yn hollol wahanol gan y ddau. Wrth roddi y pethau bychain hyn yng nghyd, er nad ydynt yn brawf penderfynol, yr ydym yn cael fod y tebygolrwydd yn gryf mai nid yr Archddiacon Prŷs a gyfieithodd lyfr y Salmau i'r Dr. Morgan.

Ond, ar wahan i'r hyn a ddywedwyd, y mae genym ddwy dystiolaeth ag sydd yn profi i radd uchel o sicrwydd na chafodd Morgan unrhyw gynnorthwy uniongyrchol gyda'r gorchwyl o gyfieithu. Yn gyntaf, y mae genym dystiolaeth Morgan ei hun. Yn ei "lythyr cyflwyn" i'r Frenhines, ar ol cyfeirio at y gefnogaeth a gafodd gan yr Arch-esgob Whitgift, dywed:—"Yn ol ei esiampl ef, bu gwŷr da eraill o ddirfawr gymhorth i mi. Ac ar ol i mi gael mynych gymhellion, fy nghefnogi a'm cynnorthwyo gan eu hannogaethau, eu diwydrwydd, a'u llafur, hyd nes y *cyfieithiais* yr oll o'r Hen Destament ac y *diwygiais* y Newydd." Os cymmerodd y Dr. Powel, yr Archddiacon Prŷs, a'r Dr. Richard Vaughan ranau neillduol o'r gwaith, nid priodol a fuasai defnyddio y geiriau a *italeiddwyd* genym, ond yn hytrach *cyfieithasom* a *diwygiasom*, neu *cyfieithwyd* a *diwygiwyd*, a ddylasent fod. Yr ydym yn cael hefyd wrth gymharu dau hysbysiad yn llythyr Morgan le cryf i ammeu nad oedd y cynnorthwy a roddodd y tri hyn mor bwysig a'r hyn a wnaed gan Esgobion Llanelwy a Bangor, a'r Deon Goodman. Yn flaenorol i enwau y rhai olaf ceir,—"Enwau y rhai, uwchlaw eraill, a ymdrechasant i hyrwyddo y gwaith hwn"; ac yna, ar ol nodi yr Esgobion a'r Deon, ceir,—"Yn yr un modd, rhoddodd y rhai canlynol gynnorthwy na ddylid ei ddibrisio," sef Powel, Prŷs, a Vaughan. Y casgliad naturiol ydyw fod y rhai a ymdrechasant "*uwch law eraill*" wedi ei gynnorthwyo yn fwy na'r rhai a rhoddasant "*gynnorthwy na*

* Y Traethodydd, 1885, tud. 450.

ddylid ei ddibrisio." Ac mewn canlyniad, gan nad oedd y rhai blaenaf wedi cymmeryd rhan fwy blaenllaw yn y gwaith na rhoddi benthyg llyfrau, ac archwilio a golygu y cyfieithiad; nid oedd y rhai olaf ychwaith wedi cymmeryd rhan weithredol ynddo, onide buasai eu gwasanaeth hwy nid yn unig *mor* bwysig, ond yn *fwy* pwysig na'r rhai y dywedir iddynt ymdrechu "uwch law eraill." Tybiwn nas gall dyfaliad y Dr. Thomas Llewelyn fod ym mhell o'i le gyda golwg ar y cynnorthwy a roddasant, sef iddynt roddi iddo fenthyg llyfrau, "darllen a chwilio ei gyfleithiad, gan ei olygu a'i ddiwygio drosto."* Ac ond odid na fu yn gohebu â hwynt, er mwyn cael eu barn ar amryw o ymadroddion anhawdd a dyrys. Dywedai y diweddar Owen Gethin Jones y byddai Edmwnd Prŷs yn arferol o fyned bob cam o Faentwrog can belled a Llanrhaiadr ym Mochnant i gynnorthwyo y Doctor llafurus yn ei waith ardderchog, ac fod traddodiad yn aros fod William Cynwal, y Bardd o Benmachno, ar ymweliad â'r Dr. Morgan, pan aeth yr Archddiacon yno un tro.† Y mae hyn yn ddigon posibl; ond gallwn fod yn dra sicr mai lled anaml yr elai Prŷs i Lanrhaiadr, pan ystyriwn bellder y ffordd a'r anghyfleusderau i deithio. Ond nis gellir rhoddi llawer o bwys ar y fath draddodiad. A phe gellid, buasai yn cadarnhau ein tybiaeth mai golygu a chwilio gwaith Morgan yn hytrach na chyfieithu unrhyw ran neillduol a wnaed gan yr Archddiacon; oblegid pe yr olaf, y mae yn ddiammeu mai yn ei gartref ei hun, ac nid yn Llanrhaiadr ym Mochnant, y buasai yn ymgymmeryd ag ef.

Yr ail dystiolaeth o blaid hyn ydyw yr un a ddyry Syr John Wynn:—"Cyfieithodd yr Hen Destament i'r dafodiaith Gymraeg cyn iddo gael ei wneyd yn esgob, a thra y bu yn Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant, yn sir Ddinbych, pryd y derbyniodd fudd a chynnorthwy yng ngweithiau yr Esgob Davies a William Salesbury, y rhai oeddynt wedi gwneuthur rhan fawr o hono; eto cymmerodd ef y clod am y cyfan."‡ Fel y bwriadwn ddangos yn y bennod nesaf, nid oedd Wynn ar delerau cyfeillgar â Morgan yn ystod y rhan ddiweddaf o fywyd yr olaf; ac y mae ei ddygasedd yn dyfod i'r golwg yn ei waith yn ceisio bychanu y gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau trwy yr haeriad fod ysgrifllyfrau Davies a Salesbury o'i flaen pan wrth y gwaith hwnw. Ond a chaniatau fod haeriad Wynn yn gywir, yr ydym yn casglu oddi wrth ei dystiolaeth na chyfieithwyd unrhyw ran o Feibl 1588 gan neb ond Morgan ei hun. Pe buasai y Dr. Powel, Edmwnd Prŷs, Richard Vaughan, neu ryw un arall, wedi gwneu-

* Llewelyn's British Versions, p. 23.
† Gweithiau Gethin, tud. 393. ‡ Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 96.

thur y rhan leiaf o hono, yr ydym yn dra sicr y buasai Wynn, gan ei fod yn gyd-oeswr, yn gwybod hyny. Ac yr ydym yr un mor sicr y buasai yn gwneuthur hyny yn hysbys yn ei nodiadau ar Morgan. Credwn na fuasai byth yn esgeuluso y cyfleusdra hwn, pe buasai yn ei gyrhaedd, o dynu oddi wrth enwogrwydd a chlod ei elyn. Yr ydym newydd gyfeirio at y nodiadau a geir gan Wynn yng nghylch yr Esgob Richard Vaughan, am yr hwn yr ysgrifenai yn hynod ganmoliaethus. Ond ni ddywed air am ei gyssylltiad â chyfieithu y Beibl i'r Gymraeg. Ac y mae dystawrwydd Wynn yn y ddau fan bron cystal a thystiolaeth bendant i'r gwrthwyneb. A chan fod Morgan yn gosod yr un gwerth ar gynnorthwy y tri olaf a noda, trwy eu rhestru gyda'u gilydd, gallwn gasglu mai dystaw a fuasai Wynn hefyd ar y pen hwn, pe buasai wedi ysgrifenu "Cofiannau" i Powel a Prŷs; a hyny am nad oedd dim i'w ddyweyd. Ond nid yw yn nodi unrhyw gynnorthwyon, amgen na'r ysgriflyfrau yn unig.

Ond yng nghylch haeriad Wynn fod Morgan wedi derbyn y fantais o ymgynghori ag ysgriflyfrau Davies a Salesbury, y mae yn rhaid addef nas gellir dyweyd dim yn benderfynol. Wynn yn unig o bawb sydd yn gwneyd yr haeriad, ac efe yn unig sydd yn crybwyll am y cyfryw ysgriflyfrau. Yr ysgriflyfrau hyny oedd y rhanau o'r Hen Destament a gyfieithwyd gan yr Esgob Davies a William Salesbury am yr "agos i ddwy flynedd" y bu y ddau gyda'u gilydd, yr hwn orchwyl a roddwyd heibio, fel y sylwasom eisoes, o herwydd y camddealltwriaeth a gymmerodd le rhyngddynt. Nid ydym yn ammeu am foment nad oedd y cyfryw ysgrifau ar gael; er nad oes genym y ddirnadaeth leiaf yng nghylch pwy oedd yn eu cadw. Y mae yn dra sicr fod William Salesbury yn fyw am rai blynyddoedd wedi i Feibl Morgan gael ei gyhoeddi, ond yr oedd yr Esgob Richard Davies wedi marw er ys oddeutu saith mlynedd cyn hyny. Pa fodd bynag, os cafodd Morgan fenthyg yr ysgriflyfrau hyny o gwbl, gallasai eu cael naill ai gan Salesbury ei hun, neu ynte gan etifeddion yr Esgob Davies. Ar ryw olwg y mae yn syndod na fuasai Salesbury wedi estyn rhyw gynnorthwy i Morgan. Eto, fel y sylwa Ioan Pedr, "nid oes son fod y Dr. Morgan wedi cael na cheisio cymhorth Salesbury at y gwaith, ac yn ol yr awgrymiadau a feddwn nid yw yn debyg y cawsai pe ceisiasai."* Yr oedd Salesbury wedi rhyw hanner digio, gallem feddwl, wrth lenyddiaeth Gymreig; a dichon na fuasai yn edrych gyda boddhâd ar yr hwn a fuasai yn ddigon ymhongar, yn ei dyb ef, i ddiwygio ei

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 64.

arddull. Ac o bosibl, a chaniatau mai yn ei feddiant ef yr oedd yr ysgriflyfrau annorphenedig o'r Hen Destament, y buasai yn gwrthod rhoddi eu benthyg ar y tir a awgrymwyd. Ond yr ydym yn ammeu, er gwaethaf tystiolaeth Wynn, a fu y fath ysgrifau ym meddiant Morgan o gwbl. Ac y mae ein ammheuaeth yn seiliedig ar yr ystyriaethau a ganlyn :—

(1). Gan nad oedd Wynn yn coleddu y teimladau goreu at Morgan, y mae yn bosibl ei fod yn haeru fel ffaith yr hyn nid oedd amgen nag ammheuaeth, naill ai yn ei feddwl ef ei hun, neu ynte a sibrydid gan elynion y cyfieithydd. Pa fodd bynag, nis gallwn roddi llawer o bwys ar yr haeriad hwn.

(2) Y mae yn fwy na thebyg mai yn yr un arddull glogyrnaidd yr oedd y rhan o'r Hen Destament a gyfieithwyd gan Davies a Salesbury ag a geir yn y Testament Newydd a gyhoeddwyd yn 1567. Os felly, ni buasai y fantais o'r cyfryw ysgrifau ond bechan. O'r bron na feddyliem i Morgan gael yn agos gymmaint o drafferth i "ddiwygio y Newydd oddi wrth yr arddull wallus ag oedd yn ei anurddo gymmaint" ag a gawsai pe buasai yn cyfieithu yn gwbl annibynol arno.

(3) Gan fod Morgan wedi bod mor ofalus i gydnabod ei ddiolchgarwch am y cynnorthwyon mwyaf dibwys, megys benthyg llyfrau, ac hyd yn oed yn nodi y cynghorion a gafodd i fyned ym mlaen fel y cyfryw ; a ydyw yn debygol y buasai yn esgeuluso cydnabod ei rwymedigaeth am fenthyg yr ysgriflyfrau ? Credwn y bydd i synwyr cyffredin ein darllenwyr ateb y cwestiwn yn nacäol. A byddant yn fwy parod i ateb felly pan ystyriant mai nid anghof a barodd i Morgan beidio cydnabod y cynnorthwy tybiedig. Canys y mae yn enwi y ddau gyfieithydd a nodwyd yn ei lythyr cyflwyn :—"Oblegid," meddai, "y Ffurf-wasanaeth a'r Testament Newydd yn unig a gyfieithwyd i'r Gymraeg, er ys ugain mlynedd yn ol, gan y Parchedig Dad Richard, o dduwiol goffadwriaeth, Esgob Tŷ Ddewi (gyda chynnorthwy William Salesbury, gŵr gwir deilwng o'n Heglwys ni)." Ond nid ydyw yn son gair am eu llafur gyda'r Hen Destament, nac yn ymddangos fel pe yn gwybod am ei fodolaeth. A'r unig ran o'r Hen Destament yn Gymraeg ag oedd yn ei feddiant, hyd y gwyddom ni, oedd y Salmau oeddynt yn argraffedig yn y Llyfr Gweddi.

Y mae yr ystyriaeth olaf yn awgrymu i ni na chafodd gynnorthwy o ddim gwerth son am dano gan neb arall. Yr ydym yn meiddio dyweyd hyn er ein bod yn gwybod fod rhai ysgrifenwyr craffus yn barnu yn wahanol. Dywed Wood i Morgan gael ei

gynnorthwyo gan y Dr. Richard Parry, wedi hyny Esgob Llanelwy.* Ond tybia y Dr. Llewelyn mai camgymmeriad ydyw hyny a achoswyd trwy i Parry ddwyn allan argraffiad diwygiedig o'r Beibl.† Pa fodd bynag, nid ydyw Morgan yn cydnabod ei ddyled iddo am unrhyw gynnorthwy; ac nid ydyw Parry ei hun yn awgrymu y fath beth yn ei lythyr cyflwyn i'r Brenin Iago. Tybir hefyd fod gan y Dr. John Davies, o Fallwyd, law yn y cyfieithiad; a sylfaenir y dybiaeth yn benaf ar frawddeg o'i eiddo yn ei ragymadrodd i'w *Ramadeg*:—"*Utrique S.S. Bibliorum interpreti Brit. indignus fui administer:*" neu, "Mi fum yn gynnorthwywr annheilwng gyda'r ddau gyfieithiad o'r Ysgrythyrau Sanctaidd." Rhaid addef fod y geiriau hyn yn awgrymu fod a wnelo efe ryw gymmaint a chyfieithiad Morgan. Ond pan gofiwn mai yn, neu oddeutu, 1570 y ganwyd ef, nid oedd ond rhyw ddwy ar bymtheg oed pan yr oedd Beibl Morgan yn barod i'r wâsg. A phrin y gellir meddwl fod bachgen mor ieuanc yn alluog i roddi unrhyw gynnorthwy pwysig. Pa fodd bynag, y mae yn ymddangos iddo fod am ryw gymmaint o amser yn ei flynyddau boreuol mewn cyssylltiad â'r Dr. Morgan, oblegid dywed yn ei ragymadrodd i'w Eiriadur Cymraeg a Lladin fel y canlyn:—

Yn gyntaf, y Parchedig William Morgan, Doethawr Duwinyddiaeth, o Brif-ysgol Caergrawnt, cyfieithydd cywir a ffyddlawn yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg, Esgob gwyliadwrus Llandaf yn gyntaf, ac wedi hyny Esgob Llanelwy, enw yr hwn sydd hyfryd genyf ei draethu â'm genau; canys wrth draed y Gamaliel hwnw y cefais fy addysgu a'm dwyn i fyny.

Wrth gymharu y gwahanol ffeithiau yn hanes y Dr. John Davies â'u gilydd, yr ydym yn dyfod i'r casgliad mai pan oedd y Dr. Morgan yn Ficer Llanrhaiadr ym Mochnant y bu Davies yn cael ei "addysgu a'i ddwyn i fyny" ganddo. Ond nis caniata ei oedran ac anaddfedrwydd ei ddysgeidiaeth y pryd hwnw i ni ddyfod i unrhyw benderfyniad amgen nag mai yn y cymmeriad o ysgrifenydd y cynnorthwyai Morgan yn hytrach nag fel cyfieithydd.

Ond dywed un ysgrifenydd wrthym "mai prin y gellir ammeu na chafodd ei gynnorthwyo, er nad oes yr un cofnodiad yn aros yng nghylch yr un o'i gynnorthwywyr uniongyrchol. Nis gallai fod y rhan fwyaf o'r enwau a geir yn ei lythyr cyflwyn wedi rhoddi iddo amgen na chynnorthwy anuniongyrchol, megys caniatau iddo rydd fynedfa i'w llyfrgelloedd ac adolygu a chywiro rhai o'r ymadroddion."‡ Er fod y sylw hwn wedi ei ysgrifenu

* Wood's Athenæ Oxoniensis, vol. i., p. 727. † Llewelyn's British Versions, p. 22.
‡ The Sunday Schools of Wales, p. 25.

gan feirniad craff, têg, a dysgedig; eto, yr ydym yn ammeu ddarfod i Morgan gydnabod yn ddiolchgar y rhai a roddasant gynnorthwy *anuniongyrchol* iddo, a gadael y rhai a estynasant iddo gynnorthwy *uniongyrchol* heb gymmaint a'u henwi. Yr ydym yn gadael y mater i ystyriaeth ein darllenwyr.

Tybiwn mai yr achos dros ddal allan fod amryw yn cynnorthwyo Morgan ydyw byrdra yr amser ag y dywedir yn gyffredin iddo ei gyflawni ynddo. Fel yr ydym eisoes wedi sylwi, y farn ydyw iddo gyfieithu yr oll o'r Hen Destament, yr Apocrypha, a diwygio y Testament Newydd, yn ystod ei arosiad yn Llanrhaiadr ym Mochnant; ac mai Pum' Llyfr Moses oedd yr oll ag oedd wedi ei wneuthur pan alwyd ef ger bron yr Archesgob Whitgift, fel y tybir, oddeutu diwedd y flwyddyn 1583. Ni chymmerodd iddo felly i wneuthur y gwaith llafurfawr hwn ond oddeutu yr un faint o amser a gymmerodd i William Salesbury, yr Esgob Davies, a Thomas Huet i gyfieithu y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Cymmerodd i Luther ddeng mlynedd (1522-1532) i gyfieithu a chyhoeddi y Beibl Ellmynaeg. Nodir o leiaf ddeuddeg o bersonau a gymmerasant ran yng nghyfieithiad "Beibl yr Esgobion," ac er i'r gwaith gael ei ddechreu yn 1559 ni orphenwyd ef hyd 1568. Bu cynnifer a saith a deugain yn cyfieithu Beibl y Brenin Iago, yr hwn waith a orchymmynwyd yn 1604, ond ni chyhoeddwyd ef hyd 1611. Os mesurir yr amser a gymmerodd Morgan at y gwaith wrth yr amseriadau uchod, fe ddylid yn rhwydd esgusodi y rhai a haerant fod eraill â rhan uniongyrchol yn y cyfieithiad. Ond rhaid cofio, er ei fod yn waith gorchestol, yn waith ag oedd yn gofyn amser a llafur mawr, eto fod genym hanes am un wedi cyflawni gorchestwaith mwy anhygoel, sef Miles Coverdale. Gwasanaethed y dyfyniad canlynol fel attegiad :—

Y mae adeg gorpheniad cyfieithiad Coverdale yn cael ei nodi gan danysgrifiad ar ddiwedd y gyfrol, "Prynted in the yeare of our LORDE, MDXXXV., and fynished the fourth daye of October." Yr wyf wedi dangos eisoes nas gallai y cyfieithiad fod wedi ei ddechreu cyn Tachwedd, 1534, ac yn debyg hyd y mis dilynol; felly, yr amser hwyaf a allasai Coverdale gael i gwblhau y cyfieithiad yn gystal a'i argraffu oedd *un mis ar ddeg;* ac os oedd ei waith mewn un modd yn ganlyniad penderfyniad y Gymmanfa Eglwysig (Rhag. 19eg, 1534), yna rhaid fod yr holl waith wedi ei gyflawni yn yr amser byr o *naw mis a hanner.* Yn sicr ni ddechreuodd arno yn flaenorol i Tachwedd 1534, ac y mae yr amser ei gorphenwyd yn y llyfr ei hun; felly, pa mor anhawdd bynag ydyw credu iddo gael ei wneuthur yn yr amser byr a nodwyd, nis gellir yn rhesymol ammeu y ffaith.*

* The English Hexapla, Introduction, p. 73.

Felly y mae Coverdale yn taflu Morgan i'r cysgod, o leiaf can belled ag y mae fyno amser â'r cwestiwn. Pa fodd bynag, ein hamcan ni wrth ddwyn y blaenaf i sylw yn y fan hon oedd, nid i gymharu ei gyfieithiad ef ag eiddo yr olaf, ond i ddangos y posibilrwydd fod Morgan wedi cyflawni y gwaith o fewn y terfynau a nodir, a hyny heb unrhyw gynnorthwyon llenyddol o bwys. Ac yr ydym yn hollol gyd-weled â'r Proffeswr Thomas Powel, o Gaerdydd, pan y dywed :—"Wrth ystyried y cyfan ni chanfyddwn un achos i feddwl bod y cynorthwy a roddwyd i Dr. Morgan gan ei amryw gyfeillion a chefnogwyr, y fath ag a leihâ yn un wedd ei hawl ef i'w ystyried yn wir ac unig awdwr y cyfieithiad a gyhoeddwyd yn ei enw."* Ond er ein bod o'r farn hon, yr ydym yn ystyried fod cenedl y Cymry yn rhwymedig i barchu coffadwriaeth y rhai a gydnabyddir gan Morgan fel ei gynnorthwywyr, am y gefnogaeth a roddasant iddo, boed mor lleied ag y byddo, i ddwyn allan y gyfrol fendigedig o Air Duw.

Ein barn ostyngedig ni ar y mater yw, fod Morgan y fath foneddwr fel na oddefai i'r gymmwynas leiaf gael ei hestyn iddo heb dalu y diolchgarwch gwresocaf am dani. Bron na feddyliem ei fod yn yr ol-ysgrif i'w lythyr cyflwyn yn mwyhau yn hytrach na lleihau y gwasanaeth a wnaed iddo gan y personau a noda. Y mae yn ddiogel genym na adawodd neb a fu o'r defnydd lleiaf iddo yn ei orchestwaith heb ei enwi. Fel yr ydym eisoes wedi awgrymu, y Deon Goodman yn ein tyb ni a wnaeth y gwasanaeth llenyddol pwysicaf iddo, heb law ei lettya; a'r Arch-esgob, trwy ei haelioni a'i ddylanwad, a fu o fwyaf o fudd iddo. Y rhai hyn, fe allai, a wnaeth y gwaith yn bosibl. Am y gweddill y dywedwn, gyda phob parch i'w coffadwriaeth, na buasai eu gwrthodiad o ba gynnorthwy bynag a estynasant yn attal i'r gwaith fyned rhagddo. Wrth ystyried yn fanwl yr ychydig awgrymiadau sydd ar gael, nid ydym yn petruso dyweyd mai Morgan ei hun oedd *unig* gyfieithydd y Beibl Cymraeg cyntaf.

* Y Lladmerydd, 1889, tud. 108.

PENNOD VI.

NODIADAU AR MORGAN FEL ESGOB.

Yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei llywyddu gan esgobion Seisonig cyn y Diwygiad—Dyrchafiad Morgan i Esgobaeth Llandaf—Tlodi yr Esgobaeth—Prinder ei hanes yno—Ei drosglwyddiad i Lanelwy—Nodiadau ar gyflwr yr Esgobaeth ac aelodau y Glwysgor—Rhestr o'r clerigwyr a gyflwynwyd gan Morgan yn Esgobaeth Llanelwy — Morgan yn ychwanegu at nifer y pregethau yn yr Eglwys Gadeiriol, &c.—Yr anghydweledíad a fu rhyngddo â John Wynn o Wydir—Sylw byr ra John Wynn—Yr ohebiaeth a gymmerodd le rhwng Morgan a Wynn, a rhwng y ddau a Mr. Martyn—Marwolaeth Morgan, a'i gladdedigaeth —Sylw ar gladdedigaethau yr oes hòno—Awgrymiadau mewn perthynas i gymmeriad Morgan—&c., &c.

Y mae yn ofidus cofnodi mai Saeson a benodid bron yn ddieithriad i'r esgobaethau Cymreig er ys rhai canrifoedd cyn y Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd hyn wedi bod yn achos o gryn anfoddogrwydd o du y Cymry, ac y mae genym fwy nag un crybwylliad am eu hymdrechion o blaid diwygiad. Un amgylchiad nodedig a gofnodir ydyw y ddeiseb a anfonodd tywysogion Cymru gyda Giraldus Cambrensis a Chanoniaid Tŷ Ddewi at y Pab Innocent, yn nechreu y drydedd ganrif ar ddeg. Yn y ddeiseb hòno ceir yr hyn a ganlyn :—

Y mae archesgobion Caergaint yn anfon i ni esgobion Seisonig, anwybodus o foesau ac iaith ein gwlad, pa rai ni allant bregethu gair Duw 'r bobl, na derbyn eu cyffesiadau, ond trwy gyfieithwyr. Nid ydynt yn eu gosod yn esgobion trwy ddewisiad canonaidd, ond yn hytrach yn eu cymhell hwynt arnom trwy drais; ac os byddant rai troion yn ymarferyd y drefn o ddewisiad, nid ydynt yn gwneuthur hyny yn gyhoeddus, ond yn ddirgel, trwy alw yr offeiriaid i Loegr, a'u cymhell hwynt yn ystafelloedd y brenin i ddewis y neb a ewyllysiant hwy, pa mor wael a diystyrllyd bynag a fyddant. A chan nad ydyw yr esgobion hyny a anfonir atom o Loegr yn ein caru ni na'n gwlad, nid ydynt yn ceisio daioni ein heneidiau. Eu huchelgais hwy ydyw llywodraethu drosom, ac nid gwneuthur lleshâd i ni; ac o herwydd hyny nid ydynt ond yn anaml yn cyflawni dyledswyddau y weinidogaeth yn ein plith. A pha beth bynag a allant gymmeryd oddi arnom, mewn ffordd gyfiawn neu anghyfiawn, a ddygir ganddynt i Loegr, ac a ddifrodir ganddynt yn y Mynachlogydd a roddir iddynt gan frenhinoedd Lloegr.*

Y mae y ddeiseb oddi yma i'r diwedd yn llawn o ymadroddion o'r un natur, ym mha rai yr ydym yn gweled fod y buddiannau

* Jones's Hist. Brecon, vol. i., p. 221, *et seq.*

eglwysig a'r Eglwysi Cadeiriol yng Nghymru yn cael eu tlodi a'u hyspeilio gan yr esgobion Seisonig. Gofynai y deisebwyr yn barchus am i'r Cymro dysgedig, Giraldus Cambrensis, gael ei gadarnhau fel esgob Tŷ Ddewi. Ond er mor rhesymol oedd y cais, ni thyciodd; a pharhaodd yr un drefn mewn arferiad hyd oddeutu canol yr unfed ganrif ar bymtheg. Pa fodd bynag yn yr adeg hòno, cafodd y Cymry esgobion o'r un iaith a hwy eu hunain. Bron na ellir dyddio y penodiadau Cymreig gyda chyssegriad y Dr. Arthur Bulkeley i Esgobaeth Bangor, yn 1541. Hyd hyny Saeson oedd wedi bod yn llanw y gadair hòno er ys rhai canrifoedd. Lled anaml y ceir Cymry yn rhestr esgobion Llanelwy cyn penodiad y Dr. Richard Davies yn 1559; ac yn gyffelyb yr oedd yn Nhŷ Ddewi cyn symmudiad yr un gŵr i lenwi y swydd yno yn 1561. A dywedir mae y Dr. Hugh Jones, yr hwn a gyssegrwyd yn 1565, oedd y Cymro cyntaf, er ys dros dri chant o flynyddoedd, i ddal Esgobaeth Llandaf. Ond am y ganrif ddilynol, cafodd yr Eglwys yng Nghymru y boddhâd o gael ei llywyddu gan esgobion Cymreig. Ac yr ydym yn credu na chafodd hyn i'r un graddau ag yn y cyfnod hwnw o'r Goresgyniad Normanaidd hyd yn bresennol. Y mae Arthur James Johnes yn rhoddi rhestr o Gymry, neu bersonau ag oeddynt yn meddu ar gyssylltiadau teuluaidd Cymreig, a gawsant eu penodi yn esgobion o ddechreuad teyrnasiad Elizabeth hyd ddiwedd teyrnasiad Anne, ac y mae eu nifer yn hanner cant. Yr oedd y nifer luosocaf o honynt, er nad y cyfan, yn dal esgobaethau Cymreig.* Ac y mae yr un ysgrifenydd yn sylwi fod dirywiad amlwg wedi dechreu ar Eglwys Loegr yng Nghymru yn amser Walpole, pryd y dychwelwyd at yr hen drefn o benodi Saeson i'w llywyddu.† Tra yr oedd yr Eglwys yn cael ei harolygu gan Gymry, yr oedd y bywoliaethau yn cael eu cyflwyno oddi ar yr ystyriaeth o deilyngdod ac addasrwydd, ac nid oddi ar ddybenion gwleidyddol. Gofelid yn fwy am wŷr cymhwys i bregethu, yn hytrach nag am rai o gyfoeth a dylanwad, i lenwi y bywoliaethau Cymreig. Yr oedd yr esgobion yn deall anghenion y bobl, ac felly yn alluog i ddarparu ar eu cyfer. Gresyn na fuasai yr awdurdodau yn parhau i gario allan yr un gyfundrefn a ddygwyd i fri yng Nghymru yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg.‡

Ond o holl esgobion Cymreig y cyfnod, nid ydym yn petruso dyweyd mai yr un ag y mae ein cenedl yn fwyaf rhwymedig iddo ydyw gwrthddrych ein testyn. Yn 1595, symmudwyd y Dr. Gervase Babington, Esgob Llandaf, i Esgobaeth Exeter; ac yn

* Johnes's Causes of Dissent (Second Edition), p. 80. † Ibid. p. 136.
‡ Da genym weled fod yr Eglwys yng Nghymru yn bresennol yn cael ei llywyddu gan bump o esgobion o'r un gwaed ac iaith a'r bobl.

ei le ef y dyrchafwyd y Dr. William Morgan. Os ydyw y rhestr ag sydd ar gael o Esgobion Llandaf yn gywir a difwlch, Morgan oedd y degfed a thriugain o Dyfrig, sylfaenydd yr Esgobaeth yn y bummed ganrif. Y mae Syr John Wynn yn tystio mai efe a fu yn offeryn i Morgan gael yr anrhydedd yma. "Yr oedd ei ddyrchafiad cyntaf," meddai, "gyda fi, a thrwy fy offerynoliaeth i."* A dywed hefyd yn ei lythyr at Mr. Martyn:—"Ai nid myfi a ymdrafododd gyntaf gyda Mr. Boyer i'w wneuthur yn Esgob, ac a wnaeth y cytundeb, Syr? Nid oedd Mr. Boyer yn adnabyddus iddo ef, nac yntau i Mr. Boyer; gan hyny, pe amgen, Ficer Llanrhaiadr a fuasai efe eto."† Cymmerasom gryn drafferth i gael allan pwy oedd y Mr. Boyer ag yr oedd Wynn wedi "ymdrafodu" ag ef er mwyn dyrchafu Morgan i'r Esgobaeth, ond buom yn aflwyddiannus. Ond pwy bynag ydoedd y mae yn amlwg oddi wrth eiriau Morgan ei hun y buasai yn cael y swydd yn annibynol ar unrhyw ymdrechion o eiddo Wynn. Nid ydyw yn gwadu na wnaeth Wynn roddi ei ddylanwad o'i blaid, ond credai y buasai y canlyniad yr un peth pe buasai heb wneuthur dim:—"Y mae wedi ysgrifenu ataf yn barod," meddai Morgan, "oni buasai am dano ef y buaswn yn parhau eto yn Ficer Llanrhaiadr. Pa can belled y mae yn camgymmeryd yn hyny sydd yn hysbys i chwi ac i eraill. Ond pe buaswn yn parhau yn Ficer Llanrhaiadr,‡ buaswn yn well fy lle nag yr wyf yn awr. Cefais ddigon o lythyrau cymmeradwyaethol heblaw y rhai a ddaeth trwyddo ef; a buaswn yn llwyddo, pe na buasai genyf yr un, fel y credai fy Arglwydd o Gaergaint a fy Arglwydd Drysorydd."§ Dywed J. H. Parry i Morgan gael ei anrhydeddu â'r meitr ar ddymuniad uniongyrchol y Frenhines Elizabeth,|| ac y mae yr hyn a ddywedir uchod gan Morgan yn cadarnhau hyny. Y mae yn ddiammeu mai ei lafur yn cyfieithu yr Ysgrythyrau a'i dygodd i'w sylw, ac nis gallasai roddi y swydd i neb teilyngach. Ac er fod Wynn yn un o'i lythyrau at Morgan yn dyweyd, "oni buasai i mi gyfeirio y ffordd i chwi â'm bys (o'r hyn y mae genyf dystiolaeth ddigonol) Ficer Llanrhaiadr a fuasech chwi eto";¶ wedi'r cyfan nis gallwn lai na meddwl y gwyddai yr Arch-esgob Whitgift a'r Arglwydd Drysorydd (William Cecil, Arglwydd Burleigh) well pethau.

Yr oedd Wynn yn credu cryn lawer yn ei ddylanwad, ac yn meddwl nas gallasai neb gael swydd ond trwyddo ef. Gellir casglu oddi wrth lythyr a anfonwyd ato gan y Dr. Parry, ar ol ei

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 95. † Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 137.
‡ Pa fodd y cyssonir y dywediad "y buasai yn parhau yn Ficer Llanrhaiadr" ac yntau wedi ymddiswyddo o'r fywoliaeth hòno yn 1588, sydd fwy nas gallwn ei ateb.
§ Yorke's Royal Tribes, p. 140. || Cambrian Plutarch, p. 320.
¶ Yorke's Royal Tribes, p. 136.

ddyrchafiad yn olynydd i Morgan yn Lanelwy, i Wynn wrthod arfer ei ddylanwad o'i blaid ef. A chan fod y llythyr yn cynnwys crybwylliad am yr anghydwelediad a gymmerodd le rhwng Wynn a Morgan ni a'i dyfynwn yn llawn :—

Mr. Wynn dda,

Ni fuasai raid i chwi drafferthu cymmaint i geisio symmud unrhyw ddrwg-dybiaeth o'r eiddof. Cyn i mi dderbyn eich llythyrau, nid oeddwn wedi clywed am eich gwrthodiad i arwyddo fy nhystysgrif; ac yn awr ar ol clywed, nid wyf yn meddwl yn waeth o honoch nag o foneddwr call a galluog, caredigrwydd yr hwn mewn unrhyw achos da a gonest a ddymunwn ei deilyngu. Mewn perthynas i'r tystysgrif, yr oeddwn yn gwybod yn dda na fuasai arwydd-nodiad unrhyw un dyn yn fy ngwlad, pwy bynag, yn hyrwyddo nemawr arnaf, ac na fuasai gwrthodiad unrhyw un dyn yn fy llesteirio. Yr wyf ym mhell o ddychymmygu fod boneddwr o'ch safle a'ch teilyngdod chwi yn gwenieithio i mi, nac yn dysgwyl elw oddi wrthyf. Nid oes achos i chwi ddefnyddio y naill, ac nid oes genyf innau y moddion i hebgor y llall, ac fel y sylwasoch yn dra phriodol, y mae hyny sydd genyf yn ddigon bychan i gadw i fyny fy sefyllfa.

Yr oedd yn ddrwg iawn genyf glywed am eich sèn drom ar fy rhagflaenydd; oblegid nid wyf ewyllysgar i gymmeryd dim yn ganiatäol: Na dyweder ond yr hyn sydd bur am y marw. I'w feistr ei hun y safodd neu a syrthiodd. Ac felly ninnau. Duw a welo yn dda fod i ni sefyll wrth yr Arglwydd, i amddiffyniad yr hwn yr wyf yn ein cyflwyno; a chyda fy nghyfarchiadau mwyaf calonog atoch eich hunan, y gorphwys

Eich serchog gyfaill,

Gresford, 24 Chwef. 1604. RICHARD O LANELWY.*

[At y Gwir Anrhydeddus fy serchog gyfaill John Wynn o Wydir, Yswain, y rhai hyn yng Ngwydir.]

Y mae y llythyr uchod yn awgrymu fod Wynn am chwareu ei hen gastiau gyda'r Esgob Parry, ond y mae yr Esgob yn ei drin gyda math o ddirmyg chwareus. Y mae llawer o rai cyffelyb i Wynn, y rhai a dybiant mai hwynt hwy yn unig sy'n "cadw yr hen fyd yn ei le," ac nas gall neb fyw wedi iddynt hwy farw. Ond fel y sylwa Parry, nid oedd ei waith yn gwrthod arwyddo ei dystysgrif ef yn effeithio dim ar ei benodiad. Ac y mae yn dra sicr mai y Frenhines Elizabeth ei hun, ac nid Wynn ymhongar, oedd y prif weithredydd yn nyrchafiad Morgan. Y mae yn ddiammeu hefyd fod yr Arch-esgob Whitgift a gwŷr eglwysig dylanwadol eraill yn cefnogi y penodiad yn wresog. Ond fel y dywed ef ei hun buasai yn llwyddo pe heb lythyrau cymmeradwyaethol o gwbl. Pa fodd

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 142. Fe gilia yr anghyssondeb fod y llythyr uchod yn cael ei ddyddio yn Chwefror gan olynydd Morgan, yr hwn a fu farw yn Medi 1604, pan gofir mai ar y 24ain o Fawrth yr oedd y flwyddyn yn terfynu yn ol yr hen ddull.

bynag, etholwyd ef yn Esgob Llandaf Mehefin 30, 1595, rhoddwyd y cydsyniad brenhinol ar Gorphenaf 12, cadarnhawyd yr etholiad gan yr Arch-esgob ar y 18fed o'r un mis; cymmerodd ei gyssegriad le ar yr 20fed, gan yr Arch-esgob, yn cael ei gynnorthwyo gan Richard Esgob Llundain, John Esgob Rochester, a William Esgob Norwich; a daeth i feddiant o fuddiannau tymhorol yr Esgobaeth ar y 7fed o Awst, yn yr un flwyddyn.*

Esgobaeth dlawd oedd yn Llandaf yn amser Morgan. Ei gwerth yn ol y *Valor Ecclesiasticus*, yr hwn a wnaed yn 1535, oedd £154 : 14 : 0. Cafodd ei hyspeilio yn echrydus, gan ieirll Henffordd a Chaerloyw, yn amser yr Esgob William de Brews, yr hwn a gyssegrwyd yn 1265. Cymmerasant lawer o'r tiroedd a berthynant iddi, a gwerthasant y dyrchafiadau eglwysig i'w ffafrddynion. Oni buasai am yr yspeiliadau hyny, dywedir y buasai Esgobaeth Llandaf yn un o'r rhai cyfoethocaf yn y deyrnas yn ol ei maintioli. Ond yn amser Morgan yr oedd yn un o'r rhai tlotaf. Dywed Edwards am dani:—"Cynnwysa yr Esgobaeth yn bresennol ran o sir Forganwg a rhan o sir Fynwy, yn yr hon y mae, yn ol Camden, Heylin, &c., 177 o blwyfau, o ba rai, meddant, y mae 98 yn nwylaw lleygwyr (*Impropriations*), ond yn ol y cyfrif a rydd Willis yn ei *Parochiale Anglicanum*, cyhoeddedig yn 1733, y mae, rhwng eglwysi a chapelau, 104 yn sir Forganwg, a 133 yn sir Fynwy, felly y cyfanrif yn y ddwy sir ydyw 237, ond pan y cyhoeddai Willis y gwaith uchod yr oedd deuddeg yn adfeiliedig."† A dywed Godwin, yr hwn a olynodd Morgan, fod yr Eglwys Gadeiriol mewn sefyllfa hynod o adfeiliedig pan ddaeth ef i'r Esgobaeth, a bu yn offeryn i adgyweirio llawer arni. Ond nid oes genym hanes i Morgan ei hun wneuthur dim yn y ffordd hon tra y bu yn eistedd yno.

Dywed Mr. T. W. Hancock i'r Esgob Morgan "gael trwydded gan yr Arch-esgob i ddal rhai, os nad yr oll, o'i fywoliaethau yn ei law ei hun (*in commendam*), yr hyn fodd bynag, y mae yn amlwg oddi wrth y dyddiadau a roddir, ni wnaed ganddo, ag eithrio, fe allai, ficeriaeth Croesoswallt."‡ Fel yr ydym wedi sylwi eisoes, y mae dyddiadau penodiadau olynwyr Morgan i ddwy o'i fywoliaethau yn ddiweddarach na'i ddyrchafiad ef i Landaf. Yn ol y rhestrau a geir gan Edwards yn ei argraffiad o Browne Willis, y rhai a ddilynir gan yr Archddiacon Thomas yn ei *History of the Diocese of St. Asaph*, olynwyd Morgan yn rheithoriaeth segur-swyddol Dinbych gan Griffith Vaughan, yn 1596, ac

* Strype's Life of Whitgift (Edit. 1822), vol. ii., p. 332. Ceir crybwyllion hefyd am benodiad Morgan i Landaf mewn ysgriflyfr o eiddo yr Esgob Kennett (*Lansdowne MSS.* 983, fo. 40), y rhai ydynt yn seiliedig ar awdurdod Rymer.

† Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. ii., p. 195, *et seq.*

‡ Montgomeryshire Collections, vol. v., p. 331.

yn rheithoriaeth Llanfyllin gan Andrew Smith, M.A., yn 1601. Ond nid ydyw amseriad penodiadau ei olynwyr, a chaniatau mai y rhai uchod oedd ei olynwyr uniongyrchol, yn profi iddo ef ddal y bywoliaethau hyny hyd adeg eu cyflwyniad hwynt. Y mae yn bosibl i fywoliaeth Dinbych fod yn wâg am rai misoedd ar ol ei ymadawiad, ac fod rhyw un wedi cael ei benodi i'w le yn Llanfyllin yn flaenorol i gyflwyniad Andrew Smith. Ond os daliodd reithoriaeth Llanfyllin *in commendam* am chwe' blynedd, ni wnaeth ond yr hyn a wnai bron yr holl esgobion cyn ac wedi hyny, am amser maith o leiaf. Yr ydym yn barod wedi galw sylw at yr Esgob William Hughes yng nglŷn â hyn o beth; ac yr oedd mwy o rai tebyg i Hughes nag oedd i Morgan. Ac os daliodd fywoliaeth Dinbych am ychydig o fisoedd a bywoliaeth Llanfyllin am chwe' blynedd, yr oedd hyny yn esgusodol, i ryw raddau beth bynag, o herwydd tlodi ei esgobaeth. Os oedd rhyw un yn haeddu ychwanegiad at ei gyllid, yr oedd ef; nid yn unig fel gwobr am ei lafur, ond hefyd fel ad-daliad am y draul yr aeth iddo wrth gyhoeddi y Beibl.

Ond a fu yr Esgob Morgan yn ficer Croesoswallt fel y dywedir gan rai? Yn rhestr ficeriaid Croesoswallt gan Edwards ceir y rhai canlynol :—

J. Bagshaw.....1591
W. Morgan, Vicar of Pool 1575 1599
Richard Pigot—by Morgan 1602
Nathaniel Petersall, deprived 1603*

Y mae Edwards yn cael ei ddilyn yn hyn gan eraill, ac wrth gyssylltu ag enw y W. Morgan hwn "Vicar of Pool," y mae yn dangos i'r Esgob Morgan gael ei gyflwyno i ficeriaeth Croesoswallt, yn Esgobaeth Llanelwy, ym mhen pedair blynedd ar ol iddo gael ei gyssegru yn Esgob Llandaf, a thra yr oedd yn parhau i ddal y swydd hòno. Nid oes dim goleuni ar y mater i'w gael yng nghoflyfrau (*registers*) Croesoswallt, y rhai sydd yn dyddio o'r flwyddyn 1558. Y mae yn debyg i'r ficer gael ei newid ryw bryd yn y flwyddyn 1599, gan fod y cofnodiadau o fis Tachwedd yn y flwyddyn hòno mewn llawysgrif wahanol i'r hyn oeddynt cyn hyny. Ac y mae yr un llaw-ysgrif yn parhau o hyny hyd 1602, pryd y penodwyd Nathaniel Tatersall—nid Petersall fel y dywed Edwards—yn ficer. Nid oes grybwylliad yn y coflyfr am na William Morgan na Richard Pigot wedi dal y swydd hòno. Ond, y mae yn hollol afreidiol crybwyll, a chaniatau i'r Esgob Morgan ddyfod i feddiant o ficeriaeth Croesoswallt yn y flwyddyn a nodir gan Edwards, mai nid ei law-ysgrif ef a fuasai yn y coflyfr, gan

* Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 404.

ei fod ef trwy gydol yr amser hwnw yn Llandaf. Pa fodd bynag, ceir ysgrif yn y *Record Office*, yn Llundain, ac sydd, feddyliem, yn profi mai nid yr Esgob Morgan oedd y William Morgan a fu yn ficer Croesoswallt. Cyfeirir at yr ysgrif dan sylw yn y Calendar fel y canlyn :—"May 28. 1599. Presentation of W. Morgan (Docquet)" ; a darllena yr ysgrif fel hyn :—

Pr'ntacon for the Vicarage of Oswestrie in the Diocese of St. Asaph for Wm. Morgan, Mr. of Arts, voide by death or otherwise.
Subscribed by Archp. of Canterb : proved as before.

Heblaw y rheswm a roddwyd eisoes, y mae yr ysgrif hon yn penderfynu y mater. Dysgrifir y Morgan a benodwyd i Groesoswallt yn "Mr. of Arts," ond yr oedd yr Esgob wedi cymmeryd ei radd o D.D. er y flwyddyn 1583. Pwy oedd y blaenaf, nis gwyddom ; ac ni pherthyn i ni ymofyn. Yr unig beth y gallwn fod yn dra sicr yn ei gylch ydyw nas gellir "eithrio" ficeriaeth Croesoswallt fel bywoliaeth a ddaliwyd *in commendam* gan yr Esgob Morgan, fel yr ymddengys y tybia Mr. Hancock. Nid fel y gwneir yn yr ysgrif y buasid yn cyfeirio at un o urddasolion yr Eglwys, pe buasai wedi cael ei gyflwyno i'r ficeriaeth a nodwyd.

Y mae yn ddrwg genym orfod addef i ni, ar ol chwilio ac ymofyn llawer, fethu a dyfod o hyd i ddim ysgrifau ag sydd yn taflu goleuni ar hanes a gwaith yr Esgob Morgan yn ystod ei gyssylltiad ag Esgobaeth Llandaf. Yr unig ysgriflyfr yn Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Llandaf ydyw y *Chapter Act Book*, yn yr hwn nid oes gymmaint a chyfeiriad at Morgan. Pa fodd bynag, y mae ei olynydd, y Dr. Francis Godwin, yn sylwi fod "ei ddiwydrwydd yn ei gynhyrfu ef i wneuthur ymdrech."* Ac y mae y frawddeg hon o'i eiddo yn hollol gydweddol â'r ychydig ffeithiau sydd ar gael mewn perthynas i'w ragflaenydd, ac yn profi nad oedd ei fywyd yn Llandaf yn ddim amgen nag ydoedd mewn manau eraill — bywyd ymroddedig i wasanaeth ei Dduw a'r Eglwys. Credwn ei fod yn deilwng o sylw, hefyd, fod Morgan, yn wahanol i lawer o esgobion Cymreig y cyfnod hwnw, yn byw o fewn ei esgobaeth ei hun. Gellir casglu hyn oddi wrth sylw o eiddo Syr John Wynn yn ei lythyr at Mr. Martyn :—"Ei fod" [yr Esgob] "wedi sicrhau wrth ei ddiweddar wasanaethwr, Thomas Vaughan, nad oedd yn cofio am ddim o honynt" [cymmwynasau Wynn iddo], "heblaw fy mod wedi rhoddi iddo fenthyg fy ngheffylau i fyned i Landaf, ac i mi anfon bustach tew iddo ar ei ddyfodiad y waith gyntaf i Lanelwy." Y mae hyn yn awgrymu ei fod yn cartrefi yn ei balasdai esgobol ei hun, yng nghanol ei waith ; yr hyn oedd bron yn eithriadol yn yr oes hòno.

* Irrita ejus industria me ad annitendum excitavit."

Bu Morgan yn esgob Llandaf am chwe' blynedd, sef hyd y flwyddyn 1601; pryd y trosglwyddwyd ef i Esgobaeth Llanelwy, yn olynydd i'r Dr. William Hughes. Fel yr ydym wedi sylwi, bu farw y Dr. Hughes yn Hydref 1600, ond ni etholwyd Morgan yn ei le hyd yr 21ain o Orphenaf, 1601. Cadarnhawyd ei etholiad ar ddydd Iau, y 17eg o Fedi dilynol, ac anfonwyd yr awdurdod i'w gyflwyno i Thomas Banks, Deon Llanelwy, yr hyn a wnaed ar y 10fed o Hydref yr un flwyddyn.* Y mae ysgrif yng nghadw yn y *Record Office*, yn Llundain, yn awgrymu fod yr awdurdodau yn bwriadu symmud Morgan o Landaf i Lanelwy, ym mhen llai na blwyddyn ar ol ei ddyrchafiad i'r lle blaenaf. Rhoddwn hi yma yn yr iaith yr ysgrifenwyd hi :—

June 1596. (?) Notes of the nomination or promotion of certain Bishops &c (made or proposed), viz. :—

Bp of Durham	to be	Archbp. of York
Dean of Windsor	———	Bp of Durham
Bp of Worcester	———	Bp of London
Dean of Durham	———	Bp of Worcester
Bp of Lincoln	———	Bp of Winchester
Bp of Chester	———	Bp of Lincoln
Mr Redman	———	Bp of Norwich
Bp of Bangor	———	*Bp of Chester*
Dr Vaughan	———	Bp of Bangor
Bp St. Asaph	———	Bp of Exeter
Bp Llandaff	———	*Bp St. Asaph*
Dean of Christchurch	——	Dean of Durham.†

Y mae gormod o gamgymmeriadau yn yr ysgrif uchod iddi fod o nemawr werth; gan y gwyddom fod y rhan fwyaf o'r penodiadau a'r symmudiadau a gofnodir ynddi, wedi dygwydd cyn, neu ar ol, y dyddiad sydd wrthi. Eto dichon wedi'r cyfan fod rhai o honynt "wedi eu bwriadu" yn y flwyddyn 1596, ac yn eu plith symmudiad yr Esgob Morgan o Landaf i Lanelwy. Ond fel y gwelir, y mae nôd o ammheuaeth ar ol yr amseriad.

William Morgan oedd y trydydd esgob a deugain i eistedd ar sedd esgobol Llanelwy ar ol sylfaenu yr esgobaeth hòno gan Cyndeyrn, yn y chwechfed ganrif. Ac esgobaeth dlawd oedd hòno hefyd, rhy dlawd o lawer fel gwobr am wasanaeth mor fawr a'r un a gyflawnwyd ganddo. Ond yr oedd yn gyfoethocach nag eiddo Llandaf. Holl gyllid yr Esgob, yn ol y *Valor Ecclesiasticus*, oedd £202 : 10 : 6, a £187 : 11 : 6, yn glir. Pa fodd bynag, gan fod yr esgobion o amser y Dr. William Hughes hyd y ganrif bresennol yn cael yr hawlfraint i ddal yr archddiaconiaeth yn eu dwylaw, yr oedd eu cyllid gryn dipyn yn ychwaneg. Gwelwyd

* Strype's Life of Whitgift (Edit. 1822), vol. ii., p. 457; Cooper's Athenæ Cantabrigienses, vol. ii., p. 393. † State Papers (Record Office), *sub anno* 1596.

eisoes fod Hughes wedi cael caniatad i ddal yr archddiaconiaeth a bywoliaethau eraill yn ei ddwylaw ei hun, y cyfan yn dwyn £150 yn flynyddol. Ond nid ymddengys i Morgan ddal dim ond yr archddiaconiaeth yn unig, gwerth yr hon, yn ol y *Valor*, oedd £74 : 15 : 7 yn glir. Cynnwysai yr esgobaeth sir Fflint, sir Ddinbych, sir Drefaldwyn (ac eithrio ychydig o blwyfau), yng nghyda rhanau o siroedd Meirionydd a'r Amwythig. A rhif y plwyfau ynddi, yn ol deiliadeb a wnaed yn y flwyddyn 1676, oedd 112.

Fe allai mai nid annyddorol a fyddai cofnodi enwau aelodau Glwysgôr (*Chapter*) Eglwys Gadeiriol Llanelwy yn ystod esgobaeth Morgan :—

Y Deon oedd Thomas Banks, M.A., rheithor segur-swyddol Caerwys a Llangwm, 1582-1584 ; Pennant Melangell, 1583-1588 ; Llansantffraid ym Mechain, 1585-1600 ; Llandrillo yn Edeirnion, 1600-1634. Penodwyd ef i'r ddeoniaeth yn 1587, pan yn dair ar hugain oed, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth, mae'n debyg, yn 1634.*

Corfudd (*Prebendary*) y Faenol a Blaengeiniad (*Precentor*) Llanelwy, o 1578 hyd 1625, oedd David Yale, D.D., rheithor Llanddegla, 1564 ; corfudd Caerlleon, 1582, a changhellwr yr esgobaeth hòno, 1622. Efe oedd golygydd yr argraffiad o'r Deg Gorchymmyn ag y trwyddedwyd un William Griffith i'w argraffu yn 1568, at yr hwn yr ydym eisoes wedi cyfeirio. Dywed Peter Roberts iddo roddi prydlesoedd ar ranau o'r gorfuddiaeth i David Holland o'r Kinmel, a'i etifeddion, yn 1613.†

Corfudd Llannefydd a Changhellwr yr Eglwys Gadeiriol, o 1598 hyd 1617, oedd Richard Glynne, yr hwn hefyd a fu yn gorfudd Llanfair yn Eglwys Gadeiriol Bangor, yn rheithor Llantrisant, ac yn archddiacon Bangor.

Corfudd Meliden a Thrysorydd yr Eglwys Gadeiriol, o 1598 hyd 1609, oedd Thomas Roger, M.A.

Corfudd, y gydran gyntaf *(first comportion)*, Llanfair, o 1586 hyd 1621, oedd Arthur Williams, rheithor Llanllwchaiarn.

Corfudd Llanfair, yr ail gydran, o 1599 hyd 1632, oedd Foulk Price, D.D., rheithor Cerrigydrudion, 1597 ; ficer Gresford, 1609, a Llandrinio, 1613 ; rheithor segur-swyddol Cwm, 1616.

Corfudd Meifod a *Sacristan*‡ yr Eglwys Gadeiriol, o 1598 hyd 1614, oedd Peter Williams, rheithor Llanerfyl, 1587 ; ficer

* Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 242 ; Arch. Cambr., 1884, p. 56, note.

† Y Cwtta Cyfarwydd, pp. 41, 42.

‡ Gwaith y *Sacristan* oedd copïo cerddoriaeth i'r côr yn yr Eglwys Gadeiriol, a chymmeryd gofal o lyfrau a dodrefn yr Eglwys. Nid oes genym air Cymraeg am dano, ond o hono ef y daeth y gair *Sexton*=Clochydd. Yr oedd pob un o gorfuddiaid *(prebendaries)* Llanelwy yn llanw rhyw swydd yng nglŷn â u corfuddiaeth yn yr Eglwys Gadeiriol, megys, Blaengeiniad, Canghellwr, Trysorydd, a *Sacristan*. Yr unig eithriadau oeddynt gorfuddiaid Llanfair.

Ysceifiog, 1590; Canon, 1595; rheithor Manafon, 1596, Marchwiail, 1598; rheithor segur-swyddol Llansannan, 1599; ficer Rhiwabon, 1600.

Y Canon cyntaf (*Canonia prima*), o 1601 hyd 1612, oedd David Lloyd, yr hwn a benodwyd gan Arglwydd y Gyfrinsel (Egerton), rhwng marwolaeth Hughes a chyssegriad Morgan.

Yr ail Ganon (*Canonia secunda*), o 1560 hyd 1602, oedd Rice Wynne, yr hwn a gyfenwid hefyd yn Rice ap Thomas, rheithor Eglwysfach, 1558. Olynwyd ef yn 1602 gan Edmwnd Prŷs, archddiacon Meirionydd, yr hwn a ddaliodd y swydd hyd ei farwolaeth.

Y trydydd Ganon, o 1599 hyd 1639, oedd John Holland, M.A., ficer Guilsfield, 1586.

Y pedwerydd Ganon, o 1598 hyd 1662, oedd William Griffith, M.A., rheithor Cemmaes, 1587; rheithor segur-swyddol Darowen, 1591.

Y pummed Ganon, o 1583 hyd 1611, oedd J. Vaughan.

Y chwechfed Ganon, o 1598 hyd 1623, oedd Thomas Roger, M.A., yr un a chorfudd Meliden, 1598.

Y seithfed Ganon, o 1575 hyd 1608, oedd George Smith, Ll.B., canghellwr yr esgobaeth yn 1595.

Y Ficer Corawl, neu'r Canon lleiaf, a Ficer Eglwys blwyfol Llanelwy, o 1587 hyd 1607, oedd Hugh Roberts.

Yr ydym bellach wedi nodi holl swyddogion Eglwys Gadeiriol Llanelwy yn ystod yr amser y bu Morgan yn esgob yno. Yr oeddynt oll, ac eithrio un, yn dal eu swyddau cyn ei fynediad yno, ac yn parhau i'w llanw hyd ar ol ei farwolaeth. Cymmerodd yr unig gyfleusdra a gafodd, ar farwolaeth Rice Wynne, i benodi Edmwnd Prŷs yn Ganon. Y mae yn eithaf tebyg iddo wneuthur hyny fel cydnabyddiaeth i Prŷs am y gefnogaeth a roddodd iddo yng nghyfieithiad yr Ysgrythyrau. Gan fod ei holl gynnorthwywyr eraill yn dal swyddau urddasol mewn esgobaethau eraill, nid ydyw yn rhyfedd iddo eu hesgeuluso; ac nid ydym ychwaith yn gweled i unrhyw swydd bwysig, gyda pha un y gallasai eu hanrhydeddu, ddyfod yn wâg yn ystod ei amser. Nid oes genym ychwaith gofnodiad am fwy nag ugain o offeiriaid wedi cael eu cyflwyno ganddo i fywoliaethau yn ystod yr un amser. Ac yr ydym yn cael lle i feddwl oddi wrth eu henwau mai Cymry oeddynt, neu o leiaf eu bod yn perthyn i hen deuluoedd ag oeddynt wedi ymsefydlu yn y Dywysogaeth er ys rhai oesau. Y mae hyn yn dangos ei fod yn gweithredu oddi ar y grediniaeth y dylasai y

bobl gael offeiriaid a ddeallent eu hiaith. Gresyn na fuasai holl esgobion Cymru wedi arfer gweithredu oddi ar yr egwyddor hon. Y rhai a gyflwynwyd gan Morgan tra yn Llanelwy oeddynt:—

1601.—Thomas Kyffin i reithoriaeth Whitford. Tybiwn fod hwn yn fab i Maurice Kyffin, cyfieithydd yr *Apologia Ecclesiæ Anglicanæ* i'r Gymraeg.

1601.—Griffith Prichard, M.A., i reithoriaeth Llanddulas.

1601.—Hugh Burches, M.A., i reithoriaeth segur-swyddol Pennant Melangell. Bu hwn yn dal y bywoliaethau canlynol:—rheithoriaeth Llaneilian, sir Fon, 1577; Llanllechid, 1578; yn gyd-ranydd (*comportioner*) Llandinam, 1581; canon Bangor, 1582.

1602.—Peter Sharp, D.D., i reithoriaeth segur-swyddol Llanrwst. Hwn a olynodd y Dr. Morgan yn rheithoriaeth segur-swyddol Pennant Melangell yn 1595.

1602.—Richard Lloyd i ficeriaeth Machynlleth. Bu yn ficer Pennant, 1556.

1602.—Evan Morgan, B.D., i ficeriaeth Llanasa. Yr oedd hwn, fel y tybir, yn fab i'r Esgob Morgan. Yr ydym eisoes wedi nodi ei amrywiol fywoliaethau; ond hon oedd yr unig un a dderbyniodd gan ei dad.

1602.—Richard Edwards i reithoriaeth Llanelian.

1602.—Owen Vaughan i reithoriaeth Gwytherin. Bu hwn yn dal ficeriaeth Llandrillo yn Edeirnion, 1595; rheithor segur-swyddol Llangwm a Llansannan, 1598; ac efe hefyd oedd caplan yr Esgob Morgan yn Llandaf.

1602.—John Roberts i reithoriaeth Llandrillo yn Rhos. Bu hwn yn ficer Corwen, 1571; rheithor Cerrigydrudion, 1581; ac Erbistock, 1585.

1602.—Thomas Powel, M.A., i reithoriaeth Llanfihangel Glyn Myfyr.

1602.—John Barker i reithoriaeth Llansantffraid Glan Conwy.

1602.—J. Davies i ficeriaeth Llanfarthin.

1602.—Richard Pigot i ficeriaeth Croesoswallt. Bu ef wedi hyny yn ficer Llangernyw, 1606; a Dinbych, 1614.

1602-3.—Nathaniel Tattersall i ficeriaeth Croesoswallt, yn olynydd i Pigot.

1602.—David Nicholas, B.A., i reithoriaeth Garthbeibio. Bu yn ganon, 1601; ficer Swydd-y-Waen (*Chirk*), 1614-15; ficer Llandyssil, 1615.

1602.—Richard Morgan i reithoriaeth Llanfyllin. Hyd y gwyddom nid oedd hwn yn unrhyw berthynas i'r Esgob.

1603.—Godfrey Goodman, M.A., i reithoriaeth segur-swyddol Llansannan (y gyd-ran gyntaf). Cafodd amryw o fywoliaethau eraill gan yr Esgob Richard Parry. Yn 1620, gwnaed ef yn ddeon Rochester; ac yn esgob Caerloyw yn 1624. Yr oedd yn nai, fab brawd, i'r Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster.

1603.—John Prosser i guradiaeth barhaol Fflint.

1603.—J. Barker i reithoriaeth Llanymawddwy.

1603.—Owen Morgan i ficeriaeth Llanbrynmair. Nid oedd hwn yn dal unrhyw berthynas ag Esgob Morgan. Yr oedd ef yn fab i Morgan ab John o'r Gelli Iorwerth,* ym mhlwyf Trawsfynydd; a brawd iddo oedd Humphrey Morgan, M.A., rheithor y Drefnewydd, Cemmaes (1613-17), a Llanbrynmair (1617-36).

Y rhai uchod, hyd y gwelsom, oeddynt yr oll a gyflwynwyd gan yr Esgob Morgan yn esgobaeth Llanelwy.

Y mae yn amlwg nad oedd ond ychydig bwysigrwydd yn cael ei osod ar bregethu yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Yr ydym eisoes wedi crybwyll amryw ffeithiau ag ydynt yn profi hyny. Yr oedd llawer eglwys heb bregeth ynddi o ddechreu blwyddyn hyd ei diwedd. Mewn Cymmanfa Eglwysig (*synod*) a gynhaliwyd yn Llanelwy ar yr 20fed o Hydref, 1601, ym mhen ychydig amser ar ol trosglwyddiad Morgan i'r esgobaeth hòno, penderfynwyd fod i dair ceiniog yn y bunt o dreth gael ei chodi ar yr holl gyllid Eglwysig tuag at gynnal myniedyddion y Gymmanfa (*proctors in convocation*). A phasiwyd hefyd fod y rhai hyny na roddent eu presennoldeb yn yr etholiad, os heb fod uwchlaw deng mlwydd a deugain oed, i gyflawni dyledswyddau y rhai a etholid, sef, pregethu un waith o leiaf bob tri mis yn eu heglwysi plwyfol, ac i gynnal gwasanaeth crefyddol, boreuol a phrydnawnol, ar y Suliau, gwasanaeth boreuol bob dydd Mercher a Gwener, a gwasanaeth prydnawnol bod dydd Sadwrn.† Y mae hyn yn dangos, er nad pa mor ddiofal oedd llawer o wŷr eglwysig y dyddiau hyny, fod ambell un, ac Esgob Morgan yn eu plith, yn gwylio y praidd a osodid dan eu gofal. Y mae yn wir mai lled ysgafn oedd y gorchymmyn i "bregethu un waith o leiaf bob tri mis," ond y mae yn dra sicr ei fod yn fwy na gyflawnid mewn llawer plwyf yn flaenorol i hyny. Gellir casglu hyn yn hawdd oddi wrth yr amrywiol lythyrau a anfonwyd o bryd i bryd gan Whitgift at yr esgobion yn gorchymmyn iddynt anfon iddo ef "pa nifer o eglwysi plwyfol o fewn y gwahanol esgobaethau a feddent *bregethwyr*, a pha nifer oedd hebddynt." Yr ydym yn cael iddo

* Nid oes le yn awr yn Nhrawsfynydd yn dwyn yr enw Gelli Iorwerth; yr enw presennol arno, ac er cyn cof, ydyw Cefngellgwm -hen gartref Morgan Lloyd, Ysw., Q.C.

† Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, pp. 93, 94.

anfon y cyfryw lythyr at esgobion y dalaeth ar y 6fed o Fawrth, 1589;* ac y mae fod y fath gwestiwn yn cael ei ofyn o gwbl yn lled awgrymiadol. Os oedd gofynion Esgob Morgan yn gymmedrol, diau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn rhy gaeth yn ei amser ef. Yr oedd ef ei hun, fel y gwelir oddi wrth ei lythyr cyflwyn, yn ystyried pregethu yn rhan bwysig o waith clerigwr, ond yr oedd yn anhawdd iddo gario allan ei olygiadau ei hun heb greu chwyldroad. Fel pob gŵr call, ceisiai ddwyn y diwygiad oddi amgylch yn araf, ond eto yn ddiysgog a pharhäol.

Ym mhen ychydig o fisoedd ar ol y Gymmanfa y soniwyd am dani, yr ydym yn cael iddo wneuthur trefniadau gogyfer a chael pregethau yn yr Eglwys Gadeiriol gan wahanol aelodau o'r Glwysgor. Pasiwyd y trefniadau hyn mewn Cymmanfa Eglwysig a gynhaliwyd yn Llanelwy ar yr 8fed o Fawrth, 1601, o dan lywyddiaeth Morgan ei hun. Ac yr oedd nifer y cyfarfodydd pregethu gan aelodau y Glwysgor i fod yn un ar bymtheg a deugain yn flynyddol, sef chwech gan y Deon, chwech gan yr Archddiacon (sef yr Esgob), pump gan gorfudd y Faenol, pump gan gorfudd Llannefydd, pump gan gorfudd Meliden, wyth gan gyd-ranwyr (*comportioners*) Llanfair, tri gan gorfudd Meifod, dau gan bob un o'r canoniaid (saith mewn nifer), a chan yr Esgob ar y gwyliau canlynol:—Dydd Iau Dyrchafael, Gwyl yr Holl Saint, Dydd Nadolig, a Dydd Gwener y Groglith.† Felly yr Esgob ei hunan oedd yn traddodi y nifer fwyaf o bregethau o holl swyddogion yr Eglwys Gadeiriol, sef chwech yn y cymmeriad o archddiacon a phedair yn y cymmeriad o lywydd yr esgobaeth. Ar ol dyfodiad y drefn hon i rym nis gallasai preswylwyr Llanelwy beth bynag gwyno o ddiffyg pregethu.

Y mae Syr John Wynn, er mor gynnil ydoedd i ddyweyd dim yn dda am Morgan, yn gwneuthur un sylw na ddylem ei adael heb ei nodi. Dywed:—"Adgyweiriodd a llech-doïodd ganghell Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yr hon oedd yn dra adfeiliedig."‡

* Strype's Whitgift (Edit. 1822), vol. i., p. 607, *et seq.*

† Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edition), vol. ii., p. 149:—"Ordinationis inter positæ per. Rev. in Xsto. Patrem Willhelmum [Morgan] perssione Divina Asaph Episcopum 8vo Die Marty 1601 pro Concionibus habendis in Eccl. Cathed. Asaphensis incipiendes prima Die Dominica post primum Diem Maii quotannis. Numerus Concionum Habendarum—Per Decanum 6. Archidiaconum (Comendatorium i.e. Episcopum) 6. per Prebend de Vaynol 5. P. Llanufydd 5. P. de Meliden 5. Per Comportionarios de Llanvair 8. Per Prebend. de Myvot 3. Per unumquemque Canonicum 2. Per Dominum Episcopum in Festo Ascensionis, in Festo Omnium Sanctorum 17 Novembris—in Festo Nativitatis Domini et Die Veneris ante Pascha." Ychwanegwyd at nifer y pregethau yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy gan yr Esgob John Owen, yn y flwyddyn 1630. Ond yr ydym yn deall iddynt fyned allan o arferiad yn amser Cromwell, oblegid adferwyd y drefn a wnaed gan Morgan, gydag ychydig o gyfnewidiad, gan yr Esgob George Griffith ar ol yr Adferiad, yn 1662.

‡ Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 96.

Wynn ydyw yr unig ysgrifenydd sydd yn cofnodi hyn. Nid ydyw ef yn son am y trefniadau a wnaeth Morgan gyda golwg ar ychwanegu at nifer y pregethau yn ei esgobaeth; ac y mae yn fwy na thebyg fod llawer o'i weithredoedd da heb gael eu cofnodi o gwbl. Ond y mae yr ychydig gyfeiriadau a nodasom yn awgrymu ei fod yn dra gweithgar gyda diwygiadau a gwelliantau yn yr Eglwys mewn pethau tymhorol ac ysprydol. Dywed Wynn hefyd iddo farw yn ddyn tlawd, yr hyn sydd yn hollol gydweddol â bywyd o haelioni ac elusengarwch.

Carasem dd'od o hyd i ryw ysgrifau teuluaidd neu swyddogol o'i eiddo, na fuant o'r blaen yn argraffedig. Buasai y cyfryw yn taflu goleuni ond odid ar ryw ran o'i fywyd a'i waith; ond hyd y gwyddom, nid oes gymmaint ag un yn aros. Gofidiwn nad oes nemawr o greiriau yn un man i'w gweled ag sydd yn galw i gof ŵr mor ddefnyddiol i'w oes a'i wlad. Fe allai mai un o'r creiriau gwerthfawrocaf a adawodd ar ei ol ydyw y Beibl Hebraeg sydd yn awr ym meddiant Arglwyddes Llanofer, at yr hwn y cawn gyfeirio eto. Y mae pais-arfau yng Nghastell Llwydlo ag y dywedir mai ei eiddo ef oeddynt, sef, "Dau lew ar gerdded ac ar wyliadwriaeth ar faes glaswyn . . . . . gyda chilgantiad i wneyd gwahaniaeth."* Ond dywed rhai mai ei bais-arfau oeddynt,—"Arian, eryr du deuben, a'i dafod allan o liw coch; ar ben arian y Beibl Cyssegrlan yn agored wedi ei addurno â phorphor a llinynau aur."† Os yr olaf oedd ei arwydd-lun, nid oedd mewn un modd yn ammhriodol. Y mae Ioan Pedr yn dyweyd fod sel swyddogol Morgan yng nghadw yn y *Record Office*. Dywed:—

Anhyfryd yw cofnodi llwyddiant nacaol fel ffrwyth ymchwiliad i unrhyw gwestiwn; ond iawn ini grybwyll yma ddarfod i gyfaill brwdfrydig archwilio llyfrgelloedd a choflyfrdai eang Lambeth, Westminster, a'r Gofnod-Swyddfa (*Record Office*), gyda'r amcan arbenig o chwilio am rywbeth o barthed i'r Dr. Morgan; ond bron yn gwbl ofer. Yr unig beth y llwyddodd i gael gafael arno oedd sel swyddogol yr esgob, a hòno wedi tori yn ddarnau. Fodd bynag, asiodd y cyfaill a'r swyddog y darnau yn ofalus; ac y mae yn awr i'w gweled yn gyfan, gydag eryr deuben y teulu fel un arwydd-lun arni, yn y Gofnod-Swyddfa.‡

Drwg genym hysbysu mai nid sel swyddogol yr Esgob Morgan a welodd y "cyfaill" yn y Gofnod-Swyddfa; ond eto rhaid dyweyd y gwir. Hyd y llwyddasom i gael allan yr unig sel a geir yno wedi tori felly ydyw yr hon sydd yn gyssylltiedig wrth ysgrif Lladin, yr hon y cyfeirir ati yn Calendar y Gofnod-Swyddfa o dan yr enw "Acknowledgment of Supremacy, St. Asaph's 1535."

* . . . . Two lions passant guardant in pale . . . . a crescent for difference.

† Cooper's Athenæ Cantabrigienses, vol. ii., p. 393:—"Arms: A. an eagle displayed double headed S. armed G. on a chief A. the Holy Bible open ppr. stringed O."

‡ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 64.

Sel yr Esgob Standish ydyw, ac wrth sylwi yn fanwl ceir y geiriau "Henrici Epi. Assavensis" yn argraffedig ar ei hymylau. Y mae yr arwyddluniau sydd arni wedi eu gwneuthur yn dra an-eglur wrth ei hasio, a rhaid mai dychymmyg yn unig a luniodd yr "eryr deuben y teulu" a welwyd arni. Nid oedd a wnelo Morgan â hi o gwbl, a'n hunig ddyben yn ei dwyn i sylw ydoedd er mwyn cywiro camgymmeriad.

Ymddengys mai bywyd digon helbulus a gafodd Morgan wedi iddo gael ei ddyrchafu yn Esgob, yn enwedig wedi ei symmudiad i Lanelwy. Yr ydym yn casglu hyn oddi wrth y llythyrau a anfonwyd ganddo ef a Wynn o Wydir at Mr. Martyn. Ryw bryd ar ol ei fynediad i Lanelwy, cymmerodd amrafael le rhwng David Holland, o'r Teirdan, ag ef. Yr oedd y David Holland hwn yn gefnder i Wynn o Gwydir, ac yn ŵr o gyfoeth a dylan-wad. Dywed Wynn :—

Llafuriais, fel pe yn ceisio achub bywyd un o'm mhlant, i derfynu y rhwyg rhyngddo ef a'm cefnder, David Holland ; gan wybod y buasai yn rhwystr mawr iddo gael ei orchfygu felly ar y cynnyg cyntaf. Y mae pawb sydd yn adnabod Holland fy nghefnder, yn gwybod hefyd pa mor alluog, pa mor ddylanwadol, a pha mor benderfynol ydyw, yng nglŷn â'i achosion cyfreithiol.

Ond gan y bwriadwn roddi y llythyrau hyn yn llawn o flaen y darllenydd, digon yw sylwi yma mai achos yr anghydwelediad hwn oedd y rhan hòno o ddegwm plwyf Abergele ag oedd yn ddyledus i'r Esgob yn y cymmeriad o Archddiacon Llanelwy. Dywed Wynn fod Morgan yn ŵr "parod i ymgyfreithio," ac yr ydym wedi gweled eisoes ei fod "mewn cyfraith" â Ieuan Meredydd pan yn ficer Llanrhaiadr ym Mochnant. Ond o ddiffyg amgen tystiolaeth na'r eiddo Wynn, nid teg ydyw casglu fod yr Esgob yn ymgyfreithio yn fwy nag oedd yn angenrheidiol i amddiffyn ei iawnderau. Fel y cawn weled eto oddi wrth y llythyr hwn, oni buasai i Wynn gyfryngu rhwng Morgan a Holland buasai yr olaf wedi andwyo amgylchiadau y blaenaf. A'r unig eglurhad sydd yn ymgynnyg i ni ydyw fod David Holland yn ceisio yspeilio yr Esgob o'i hawliau cyfreithlawn. Pa fodd bynag, llwyddodd Wynn i gymmodi y pleidiau. Teimlai Morgan yn ddiolchgar iddo am hyny, er i'r amrafael hwn droi allan yn dra cholledus iddo. Oblegid dywed ef ei hun mai £150 a gafodd yn lle £1000 yn yr ymdrafodaeth. Y mae hyn yn peri i ni feddwl fod Wynn wedi bod yn gylafareddwr lled dyner at ei "gefnder Holland" yn yr amgylchiad hwn, yn dynerach o gryn lawer tuag ato ef na thuag at yr Esgob. Yng ngwyneb y golled hon, yng nghyda'r helynt câs a fu rhyngddo ef â Wynn ar ol

hyn, nid rhyfedd fod Morgan yn dyweyd y buasai yn well ei le pe yr arhosasai yn ficer Llanrhaiadr nag ydoedd fel esgob Llanelwy.

Gellir meddwl oddi wrth y geiriau "buasai yn rhwystr mawr iddo [Morgan] gael ei orchfygu felly ar y cynnyg cyntaf," i'r anghydwelediad rhwng Holland ag yntau gymmeryd lle yn fuan ar ol ei drosglwyddiad i Lanelwy. Ond yr ydym yn sicr yng nghylch amseriad yr amrafael rhwng Wynn ag yntau. Cyn sylwi ar yr ymdrafodaeth anhapus hòno, gwnawn ychydig nodiadau ar y boneddwr hwnw. Mab oedd John Wynn i Maurice Wynn o Wydir, o Jane Bulkeley, ei wraig gyntaf. Priododd Maurice Wynn dair o wragedd:—(1) Jane, merch Syr Richard Bulkeley, marchog o Beaumaris; o'r hon y cafodd saith o blant, sef, John, yr etifedd; Richard Wynn, M.A., yr hwn a briododd Sydney, merch Syr William Jones, marchog; Ellis Wynn, yr hwn a briododd ferch i Alderman Gage; Robert Wynn o Maesmochnant, yr hwn a briododd Catherine, ferch ac aeres David Lloyd ap William; Ellen, gwraig Thomas Vaughan, o'r Pant Glas; Dorothy, gwraig Thomas Powel, o Horsley; a Margaret, gwraig Thomas Salesbury, mab Syr John Salesbury, marchog. (2) Ei ail wraig oedd Ann Greville, gweddw Edward Mytton, o'r hon ni chafodd blant. (3) Ei drydedd wraig oedd Catherine o'r Berain, o'r hon y cafodd ddau o blant, sef Edward Wynn, o'r Ystrad, yr hwn a briododd Blanch, merch John Vaughan, Ysw.; a Jane, gwraig Simon Thelwall, Ysw., o Blâs y Ward.* Yr oedd Maurice Wynn yn hanu mewn llinell union-syth o Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru, ac nid oes odid nemawr o deulu uchelwaed yng Ngogledd Cymru nad oes peth o waed Gwydir yn rhedeg trwy ei wythienau. Yr oedd hynafiaid y Wynniaid yn trigo yn Nghesail Gyfarch, yn Eifionydd; a Meredydd ab Ieuan o'r Gesail Gyfarch a brynodd etifeddiaeth Gwydir gan David ab Howel Coetmor, o Gastell Dolwyddelen. Dechreuwyd adeiladu palasdŷ hynafol Gwydir Isaf gan Meredydd ab Ieuan yn y flwyddyn 1515; ond ymddengys na orphenwyd ef hyd amser ei fab, John Wynn — tad Maurice Wynn — gan fod y flwyddyn "1555. I.W." yn gerfiedig uwchben y porth.† Y mae y palas, yr hwn a ail-adeiladwyd yn 1816, yn sefyll o fewn hanner milldir i dref Llanrwst.

Ganwyd John Wynn yn y flwyddyn 1553; a phan yn un ar hugain oed anfonwyd ef i Lundain i efrydu y gyfraith. Pa gynnydd a wnaeth yn yr alwedigaeth gyfreithiol nis gwyddom; ond

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), Table III. opposite p. 49.
† Teithiau Pennant (arg. Humphreys), tud. 330.

y mae yn dra sicr iddo ei rhoddi i fyny yn 1580, pryd, ar farwolaeth ei dad, y daeth i feddiant o'r etifeddiaeth. Ei wraig oedd Sidney, merch Syr W. Gerard, Canghellydd yr Iwerddon, o'r hon y cafodd un ar bymtheg o feibion a dwy ferch. Treuliai y rhan fwyaf o'i amser gartref ym mhlith ei denantiaid, a chymmerai ddyddordeb neillduol mewn gweithfeydd. Yn ei flynyddoedd olaf, cynlluniodd foddion i adennill yr arfordir yn y Traeth Bach a'r Traeth Mawr, rhwng siroedd Caernarfon a Meirionydd, ond ni roddwyd y cynllun mewn gweithredoedd hyd ddechreu y ganrif hon. Talodd sylw hefyd i wlân-weithfeydd, ac i weithydd copr yn sir Fôn. Efe a adeiladodd Gwydir Uchaf yn 1604, fel y tybir, yn ol cynllun Inigo Jones. Math o hafdŷ y bwriedid yr adeilad hwn i groesawi pendefigion ar eu taith o Lundain i'r Iwerddon. Yn 1610, adeiladodd eluesendai ar gyfer deuddeg o ddynion tlodion oedranus yn Llanrwst, yng nghydag ysgol rad yn yr un lle, a gwaddolodd y sefydliadau hyn â rhan o ddegwm Eglwys Fach. Yr oedd Wynn hefyd yn llenor o gryn fri. Y mae ysgrif yn cynnwys ei nodiadau ar dir-fesuriad (*survey*) o siroedd Môn, Caernarfon, a Meirionydd, yr hwn orchwyl a wnaed rhwng teyrnasiad Edward I. ac Edward III., ar gael yn un gyfrol unplyg hardd yn yr Amgueddfa Brydeinig (*Harleian MSS.* 4776). Ond yr hyn a osododd fwyaf o enwogrwydd ar ei goffadwriaeth ydyw ei *History of the Gwydir Family*,* yr hwn sydd yn taflu llawer o oleuni ar ddefodau ac arferion y Cymry yn y Canol Oesoedd.

Derbyniodd Wynn ei ran o anrhydedd cymdeithasol a gwleidyddol. Bu yn cynnrychioli sir Gaernarfon yn y Senedd a gyfarfu Hydref 29, 1596; a bu yn sirydd dros y sir hòno yn 1588 a 1603; a thros Feirionydd yn 1589 a 1601. Crewyd ef yn farwnig yn 1611, ac efe a gludai faner fawr Harri, tywysog Cymru, yn angladd y tywysog hwnw, Rhag. 7fed, 1612. Yr oedd hefyd yn aelod o lys Cynghorwyr y Cyffiniau. Ond o herwydd rhyw amgylchiadau anhysbys i ni, tynodd arno ei hun ŵg ei gydaelodau, oblegid dywedai eu Canghellydd, Arglwydd Ellesmere, yn 1615, ei fod ef wedi cael ei hysbysu fod yn anmhriodol i Syr John Wynn barhau mwyach yn aelod o'r Cynghor; ac hefyd na ddylasai ychwaith fod yn ynad dros sir Gaernarfon. Ond yr oedd yr oes hòno yn un nodedig am sicrhau heddwch trwy lwgrwobrwyaeth, ac nid oedd Syr John Wynn o flaen ei oes yn hyn o

* Arhosodd y gwaith uchod mewn llawysgrifen hyd 1770, pryd y cyhoeddwyd ef gan yr Anrhydeddus Daines Barrington. Dygwyd yr ail argraffiad o hono allan yn Barrington's *Miscellanies* yn 1781; y trydydd a gyhoeddwyd yn Rhuthyn yn 1827, o dan olygiad Miss Angharad Llwyd; a'r pedwerydd yng Nghroesoswallt yn 1878, o dan olygiad y diweddar Mr. Askew Roberts.

beth, o leiaf. A thrwy lwgr-wobrwyo un o swyddogion y llywodraeth, llwyddodd i gadw ei swyddau yn anrhydeddus (?). A ganlyn sydd gopi o'r "fargen" a wnaed rhwng y pleidiau, ac er mwyn ei horgraff gosodwn yr ysgrif yn yr iaith yr ysgrifenwyd hi:--

M'd. Yf Mr Bernard Lyndesey Esquier Groom to his Maties. Bedchamber procure a pardon for Sir John Wynn Knight and Baronet and some of his servants of their fynes and offences inflicted upon them by the Counsell of the Marches, upon the sealing of the said pardon he is to receave from Richard Wynn Esquier sonne and heire to the said Sir Jo: Wynn the somme of three hundred and fiftye pounds. In witness of this agreement between us we have both sette our hands the sixeeenth of January 1615.

Signed in the presence of me
AMB. THELWALL.*

B. LYNDESEY.
RICH. WYNN.

Yr oedd Syr John yn dra gelyniaethol i'r Pabyddion; ac yr oedd yn cymmeryd pob cyfleusdra o fewn ei gyrhaedd i ddangos hyny. Dywedir iddo ddinystrio hen fynachlog a safai ar lanau y Llugwy, ym mhlwyf Capel Curig, a'i gwneuthur yn wastad a'r llawr. Ac y mae hen draddodiad yn aros i offeiriad Pabaidd, ar ol ei farwolaeth, roddi ei yspryd mewn potel yn Rhaiadr Ewynawl, neu Rhaiadr y Wennol yn ol rhai, yn agos i Bettws-y-coed. Ac yno y mae, medd y traddodiad, hyd y dydd hwn, yn gruddfan ac yn ochain am ei bechodau, gan ymsymmud yn ol a blaen, ac yn dynesu i'r wyneb ar gyfartaledd o hyd heidden mewn canrif.† Fe welir oddi wrth hyn y bydd raid iddo aros yng nghwmni'r pysgod am gryn gwrs o amser eto.

Ond odid nad oes mwy o wirionedd yn yr hyn a ddywedir am dano yng nglŷn â'r gwasanaeth a wnaeth yn amser Brâd y Powdwr Gwn nag sydd yn y traddodiad uchod. Dywed yr Esgob Humphreys yn ei nodiadau ar Thomas ap William, o Drefriw: —"Mewn perthynas iddo, hysbyswyd fi gan fy nhad, i'r Lady Bodvel (nain Iarlles Rhaiadr) ddyweyd wrtho ef, pan oedd ei thad, Syr John Wynn o Wydir, bron ar gychwyn i'r Senedd, ar agoriad yr hon yr oedd brâd y powdwr i gael ei roddi mewn gweithrediad, i'r Thomas Williams hwn ddyfod ato gan ei annog yn daer i beidio myned i fyny i'r eisteddiad hwnw, trwy yr hyn y casglwyd wedi hyny ei fod ef yn hysbys o'r bwriad, a'i fod yn anfoddlon i'w noddwr, Syr John, ddyoddef oddi wrtho." Pabydd oedd Thomas ap William, ac fel y cyfryw gwysiwyd ef i ymddangos gerbron y Llys Eglwysig, ym Mangor, Mai 23ain, 1606, sef y flwyddyn ddilynol i Frâd y Powdwr, o dan yr enw, "Thomas Williams, also Dns Thos. Wms. de Trefriw, *eo quod venire ad Ecclesiam*," ac yn y flwyddyn ganlynol gwysiwyd ef i lys cyffelyb

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 154, note. † Hist. Powys Fadog, vol. iv., p. 272

yn y brif-ddinas, dan yr enw, "Ds. Thos. Wms. *recusans excommunicatur.*"* Pa reswm a roddodd Thomas ap William i Syr John dros beidio myned i'r Senedd nis gwyddom, ond ymddengys fod amryw o aelodau Pabyddol wedi derbyn cynghorion cyffelyb, megys Arglwydd Monteagle, er enghraifft. Ac yr ydym yn cael i rai, megys Arglwyddi Montague, Mordaunt, a Stourton, gael eu herlyn yn Ystafell y Seren am absennoli eu hunain o'r Senedd y pryd hwnw.† Pa fodd bynag, dywed un ysgrifenydd, a hyny oddi ar awdurdod traddodiad, mai anfon llythyr at ei gefnder Syr John a wnaeth Thomas ap William, ac mai trwy y rhybudd cyfrinachol hwn y darganfyddwyd y bradwriaeth.‡ Yr ydym yn eithaf parod i addef i'r Barwnig o Wydir wneuthur llawer o weithredoedd da yn ystod ei fywyd, ac y mae yn eithaf posibl fod yr hyn a grybwyllir yma yn eu plith. Ond cyn i ni sylwi ar ei gymmeriad dyfynwn yma gofnodiad Peter Roberts yng nghylch ei farwolaeth :—

Md' that upon Thursday being the first day of March 1626, aboute viien of the clocke in the afternoone of the same daie, viz. aboute supper time (I being then at Trefriw in the com' of Carnarvon to execute a commission the next morning betweene Roland ap Richard plt' and Piers Thomas Phivion (etc.) defft's at Trefriw aforesaid, S'r John Wynne of Gwyder Knight and baronet died at his then dwelling house called Gwyder, and was to be buried upon Friday night the second of March, as the report then went.§

Pe buasem yn gallu gadael Syr John Wynn yn y fan hon, buasai y darllenydd yn ddiammeu yn dyfod i'r penderfyniad ei fod yn hen foneddwr o gymmeriad rhagorol. Ond y mae ei ymddygiad at Morgan yn profi yn amgenach ; ac y mae ei lythyrau ef ei hun yn ei gondemnio. Y mae yr ohebiaeth a osodir gerbron y darllenydd rhagllaw yn myned ym mhell i ddangos gwir gymmeriad Syr John Wynn yn gystal a'r Esgob Morgan. Nid oes dadl nad oedd Syr John yn ŵr bonheddig cymmwynasgar, ond yr oedd yn cofio ei gymmwynasau i gyd. Yr oedd ef a'i deulu o'i flaen wedi bod yn dra charedig wrth Morgan a'i hynafiaid, ond nid oedd wedi anghofio dim o'r caredigrwydd a ddanghoswyd. Byddai beunydd yn dangos y parodrwydd mwyaf i gynnorthwyo gwŷr eglwysig, ond byddai arno eisieu ad-daliad. "Yr oedd," fel y dywed ei fywgraffydd, "yn ŵr ag oedd yn ceisio gwneuthur y goreu o'r ddau fyd." Ond tybiwn fod yn llawn cystal ganddo y byd hwn a'r hwn a ddaw. Pa fodd bynag, yr

* Humphreys's Additions to Athenæ Oxon., p. 266.
† Annals of England, vol. ii., pp. 341, 342, note. ‡ Hist. Gwydir Family, p. xvii.
§ Y Cwtta Cyfarwydd, p. 117. Rhydd Mr. Granger, yn ei *Biographical Dictionary*, gopi o argraff a geir dan ddarlun o Wynn o wneuthuriad Vertue, yr hwn sydd yn tystio yr un peth a Peter Roberts :—"Johannes Wynn de Gwedir in Com' Carnarvon, Eques & Baronettus; obiit 1mo die Martii, 1626, æt. 73."

ydym yn casglu oddi wrth "Gyfarwyddiadau Syr John Wynn o Wydir i'w Gaplan, John Price, pa fodd i ymddwyn yn ei wasanaeth ef," ei fod yn ystyried nad oedd dim yn ammhriodol mewn cyfuno y swydd offeiriadol gydag eiddo pen-hwsmon, ysbïwr, a difyr-ddyn, bob un yn ei dro. Y maent yn werth eu dyfynu :—

Yn gyntaf. Bydd i chwi gael yr ystafell a ddangosais i chwi yn fy mhorth, yn breifat i chwi eich hun, gyda chlo, ac allwedd, a phob angenrheidiau.

Yn y bore, dysgwyliaf i chwi godi, ac adrodd gweddïau yn fy neuadd, i'm tylwyth i lawr y grisiau, cyn iddynt fyned at eu gwaith, a phan y deuant i fewn yn y nos—fod i chwi alw ger eich bron yr holl weithwyr, yn enwedig yr ieuengctyd, a chymeryd cyfrif ganddynt o'u credo, ac o'r hyn a ddysgodd Syr Meredydd iddynt. Yr wyf yn erfyn arnoch aros y rhan fwyaf o'ch hamser yn y tŷ isaf; nid oes eisiau i chwi ond edrych beth a wneir yno, fel y galloch fy hysbysu o unrhyw annhrefn a fyddo yno. Y mae yno ben-gwas hwsmoniaeth, a phorthor, y rhai a lywodraethir genych.

Y bore, ar ol i chwi godi, ac adrodd gweddïau, fel y nodais yn flaenorol, dymunwn i chwi ei dreulio mewn astudio, neu unrhyw ymarferiad canmoladwy ar eich corph.

Cyn ciniaw, yr ydych i ddyfod i fyny ac adrodd gras bwyd, neu weddïau os bydd yno unrhyw rai cyhoeddus ; ac i eistedd, os na bydd yno ddyeithriaid mwy urddasol, uwchlaw y plant—y rhai yr ydych i'w dysgu yn eich ystafell eich hun.

Pan fyddo y bwrdd, o'r canol hyd y pen isaf, wedi ei glirio, yr ydych i gyfodi, a cherdded yn y rhodfeydd cyfagos, hyd amser gras ; ac i ddyfod i mewn y pryd hyny i'r pwrpas hwnw.

Ar ol ciniaw, os byddaf yn brysur, gellwch fyned i chwareu pêl, ceilys, neu unrhyw ddifyrwch arall a fyddo gonest a gweddaidd, hyd nes y byddaf fi yn myned allan. Os gwelwch fi heb unrhyw orchwyl, ac yn myned allan i farchogaeth, bydd march dyspaidd at eich gwasanaeth, i gael ei wneyd yn barod gan farchwas yr ystabl, ac i fyned gyda mi. Os byddaf yn myned i chwareu pêl, neu geilys, bydd eich cwmni yn foddhaol genyf, os na bydd y lle wedi ei lanw gan ddyeithriaid.

Dymunwn ar fod i chwi, bob dydd Sul yn y flwyddyn, fyned i ryw eglwys yn y gymydogaeth i bregethu, gan roddi rhybudd yn y plwyf i ddwyn yr ieuengctyd yn y prydnawn i gael eu cateceisio ; yn yr hwn beth y mae fy ngofal mwyaf am i chwi gymeryd poen, a bod yn ddiwyd.

Gochelwch y tafarndai, i eistedd a chadw cwmni meddwyn ynddynt—byddai hyny y gwarth mwyaf a allech ddwyn o gwbl ar eich swyddogaeth.*

Y mae y "Cyfarwyddiadau" uchod gan y mwyaf yn rhagorol. Ond y maent yn dangos ar yr un pryd nad oedd Syr John wedi cael ei gynnysgaeddu â syniadau uchel am swydd clerigwr. Rhyw fath o "wâs bach" wedi'r cwbl oedd ei gaplan, ac nid un i gael ei barchu na'i ystyried fel boneddwr. Ac nid rhyfedd i ddyn yn

* Teithiau Pennant (arg. Humphreys), tud. 560; Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 151

meddu'r fath syniadau isel am yr urdd glerigol geisio gwneuthur yr Esgob Morgan yn "bolyn i yru pregethwyr fel petrus i'w rwydau." Os oedd yn gwisgo crefydd fel cochl am dano, yr oedd, yn ol ei addefiad ef ei hun, yn ddialgar a pheryglus i bwy bynag a feiddiai ei groesi.

Yn y flwyddyn olaf o eisteddiad Morgan yn Llanelwy, ac ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, daeth Wynn, yr hwn oedd wedi bod ar delerau cyfeillgar ag ef, yn un o'i elynion penaf. Fel y cawn weled oddi wrth y llythyrau a anfonwyd yn yr ymdrafodaeth hon, ymddengys fod Wynn wedi gwrthwynebu trosglwyddiad degwm y Tybrith oddi wrth fywoliaeth Llanrwst a'i gyssylltu ag eiddo Corwen. Yr oedd y cyfnewidiad hwn, yn ol Wynn, wedi cael ei ddwyn oddi amgylch gan y "Doctor Elice"—y Dr. Ellis Price, o Blas Iolyn, mae'n debyg—yr hwn a roddodd y rhan hòno o'r degwm i'r Dr. Edmwnd Meyric. Yr oedd y Dr. Meyric yn frawd i Rowland Meyric, Esgob Bangor. Bu yn gorfudd Lichfield; yn archddiacon Bangor, 1560; yn ganghellwr Llanelwy, 1570; ac yn rheithor segur-swyddol Corwen o 1560 hyd 1605. Nid oedd Wynn, meddai ef, yn foddlawn i'r trosglwyddiad hwn, ac aeth i ymgyfreithio â'r Dr. Meyric; a bu "y cynghaws, trwy gyndynrwydd y Dr. Meyric a'i hyder yn ei noddwr, yn fwy costus a thrafferthus nag y dysgwylid." Ond nid oedd Wynn yn foddlawn "sefyll dros iawnderau Llanrwst" heb ddysgwyl addaliad. "Rhoddodd Mr. Sharp, Caplan fy Arglwydd Ganghellydd, yr hwn a benodwyd gan ei Arglwyddiaeth yn rheithor Llanrwst, brydles ar ei fywoliaeth i un Robert Gwyn o Gaerlleon, yr hwn a wnaeth gyfaill i mi, un Robert Vaughan, brawd i fy mrawd Thomas Vaughan, yn is-gymmerwr iddo." Brawddeg ryfedd ar yr olwg gyntaf ydyw "brawd i fy mrawd Thomas Vaughan," ond yr ydym er ys ychydig o dudalenau yn ol wedi dangos fod Ellen, chwaer i Syr John Wynn, wedi priodi Thomas Vaughan o'r Pant Glas, felly brawd i frawd-yng-nghyfraith Syr John oedd y Robert Vaughan y cyfeirir ato. Pa fodd bynag, hysbysodd Wynn yr Esgob ei fod yn bwriadu prynu prydles Robert Gwyn, ac y buasai y Dr. Peter Sharp, rheithor Llanrwst, yn debyg o ganiatau prydles iddo am dair oes fel ad-daliad am y gost a'r drafferth a gymmerodd trwy ymgyfreithio â'r Dr. Meyric. Buasai prydles Robert Gwyn yn terfynu ym mhen deng mlynedd, ac mewn canlyniad, o hyny i derfyn y tair oes, buasai Wynn yn mwynhau y fywoliaeth, yr hon oedd werth £140 yn flynyddol, am yr ardreth isel o £50. Prynodd Wynn hawl Robert Gwyn, ac aeth i'r gost i gael y gweithredoedd angenrheidiol, a hyny, meddai ef, am fod yr Esgob wedi addaw ei chadarnhau, ac mai hi fyddai

y brydles gyntaf a gadarnhëid. Ond dywed Morgan yn bendant na addawodd y fath beth erioed. Hyn oedd yr achos o'r anghydweledíad. Ceir rhyw gymmaint o'r ohebiaeth a gymmerodd le ar y mater gan Philip Yorke yn ei *Royal Tribes*, ond gan na ymddangosodd y llythyrau erioed, ac eithrio un, yn Gymraeg, tybiwn y dylem eu gosod yma. Y mae y llythyr cyntaf, o leiaf y cyntaf sydd ar gael, yr hwn a anfonwyd gan yr Esgob Morgan at Syr John Wynn, yn darllen fel hyn :—

Iechyd yng Nghrist.

Eich cymhelliad i mi gadarnhau eich prydles ar reithoriaeth Llanrwst sydd amryfal, sef :—

1. Eich gofid am fethu yn eich hamcan, gan na fethasoch erioed o'r blaen mewn unrhyw ymgais.
2. Y byddai yn well genych golli £100 yn flynyddol mewn tiroedd.
3. Fod yr ardreth a godir yn gymmaint a gwerth y rheithoriaeth.
4. Ddarfod i chwi brynu y brydles yn ddrud.
5. Y meddyliai y byd fod eich serch tuag ataf fi yn derbyn ad-daliad angharedig.
6. Y bydd i eraill, drwy fy esiampl i, eich parchu yn llai.
7. Eich bod yn dysgwyl fy nghael i tuag atoch chwi yr hyn y buoch chwi tuag ataf i.
8. Fod cyssylltu y Tybrith wedi costio llawer i chwi.
9. Fy amryw addewidion, y caffai eich prydles chwi fod y gyntaf. Ac un peth sydd yn fy ysgogi yn erbyn y rhai hyn oll, sef fy nghydwybod, yr hon a'm sicrhâ fod eich cais yn gyfryw fel trwy ei ganiatäu y profwn fy hun yn ddyn anonest, digydwybod, a digrefydd ; ië, yn yspeiliwr annuwiol fy Eglwys, yn ddifrodwr bradwrus fy esgobaeth, ac yn rhwystrwr annaturiol i bregethwyr ac ysgolheigion da ; a byddai y meddwl am hyn yn ddychryn a phoen gwastadol i'm cydwybod. Ac i ddyfod at eich rhesymau cymhelliadol :—

1. Atolygaf na byddo eich gofid oherwydd methu yr un peth a gofid Ahab am winllan Naboth.
2. Y mae gwerth £100 o dir yr un faint a £200 o ddegwm.
3. Yr wyf yn deall oddi ar sail dda fod y rheithoriaeth yn werth dau cymmaint a'r ardreth osodedig ; yr hyn a gadarnhëir gan eich ail reswm.
4. Y mae eich pedwerydd rheswm yn cadarnhau yr unrhyw ; canys ni phrynech brydles yn ddrud, a hithau fawr fwy o werth na'r ardreth.
5. Dangosasoch i mi lawer o garedigrwydd, ond nid dim caredigrwydd anonest ; ac nid wyf finnau byth yn bwriadu eich gwrthod chwithau o'ch gofynion gonest.
6. Ni thybid yn well o honoch trwy i chwi gael eich deisyfiadau annuwiol, ond yn hytrach yn waeth ; canys nid yw yn gywilydd i ddyn fethu mewn ymdrechion drwg, ond bydd eu gadael yn ganmoliaeth fawr.
7. Gellwch fod yn dawel y cewch fi, fel y dymunwn innau eich cael chwi, ym mhob peth cyfreithlawn a gonest.
8. Nid wyf yn ystyried fod cyssylltu'r Tybrith yn niweidiol nac yn fanteisiol i mi na'r Eglwys.

9. Fy addewid ydoedd ac ydyw, nas gwnaf ddim i unrhyw ddeiliad a'r nas gwnaf i chwi, ac na chadarnhâf unrhyw brydles fel yr eiddoch o flaen eich un chwi. Ac nid wyf yn awr yn tueddu i gadarnhau unrhyw brydles o gwbl. Ond y mae y glwysgor yn bwriadu adnewyddu un oes mewn prydles o'u heiddo hwy.

Ym mhlith eich cymmwynasau eraill, rhoddasoch dystiolaeth dda am danaf. Atolwg, caniatëwch i mi barhau yn deilwng o honi. Y mae cynnifer o asglodion eisoes wedi eu cymmeryd oddi wrth yr Eglwys fel y mae yn barod i gwympo. Y mae Duw wedi eich bendithio mor neillduol fel yr ydych yn rhwym o gynnorthwyo ei Eglwys dlawd yn hytrach nag i'w hattal.

Felly, gyda'm cofion mwyaf calonog atoch chwi ac at y diriòn Meistres Wyn, y gorphwysaf

Yr eiddoch byth yn yr Arglwydd,

WILLIAM ASAPHEN [Llanelwy].

15fed Chwefror, 1603.

Gwn am chwech neu saith o ymgeiswyr am gadarnhâd prydlesoedd ar eglwysfuddion cyflwynol, y rhai a fwriadant ddwyn tiroedd cyfringynghorwyr, os nad tir ei Mawrhydi ei hun. Ac yn y Senedd nesaf yr wyf yn edrych ym mlaen at ymosodiad arnaf. Ond yr wyf yn ymddiried yn Nuw yr amddiffyna Efe myfi a'i eglwys.

Agorai un y drws i'r lleill holl.

W.A.

At y Gwir Anrhydeddus, ei gyfaill tra charedig, John Wyn o Gwedur, Yswain.*

Nid oes amgen sylwi ar resymau John Wynn, gan fod yr Esgob yn eu hateb mewn modd pendant ac anghamsyniol. Buom yn synu fod y fath gymhellion wedi cael eu hysgrifenu erioed gan foneddwr o addysg a diwylliant. Y mae rhai o honynt yn swnio yn dra phlentynaidd, ond y maent holl yn dangos fod cymmwynasau Wynn yn tarddu oddi ar gariad ato ei hun yn hytrach nag oddi ar egwyddorion crefyddol. Y ddadl gryfaf ganddo, hyd y gwelwn, ydyw yr hyn a wnaeth gyda golwg ar ddegwm y Tybrith, ond nid oedd am wneyd hyny am ddim. Nid budd Eglwys Dduw, eithr hunan-les oedd yr ysgogydd. Ac fel y sylwa Morgan, nid oedd y gwasanaeth a wnaeth Wynn yn y cyfeiriad hwn o unrhyw fudd iddo ef nac i'r Eglwys. Ac hefyd yn ol yr hyn a ddywed ef ei hun—ond y mae yn ddrwg genym nad oedd yn dyweyd y gwir—ni fuasai y brydles o unrhyw les iddo, "gan fod yr ardreth a godir gymmaint a gwerth y rheithoriaeth." Yr oedd ariangarwch, yr ydym yn ofni, wedi dallu cymmaint ar olygon moesol John Wynn, fel mae prin y gellir cymmeryd yr hyn a ddywedai ym mhob amgylchiad fel gwirionedd. Y mae J. H. Parry yn ammeu a ydoedd yr amgylchiad yn galw am i'r

* Yorke's Royal Tribes, pp. 134-135. *Mr. Wyn* y galwai Morgan ef; ac yr ydym wedi sylwi yn barod nad oedd eto wedi cael ei greu yn farwnig.

Esgob fod mor fanwl yng nghyflawniad ei ddyledswyddau ag i wrthod y cais hwn o eiddo Wynn. "Pa fodd bynag," ychwanega, "os oedd ei wrthodiad penderfynol i foddhau cyfaill a chefnogwr mewn mater mor ddibwys yn cael ei gymhell mewn gwirionedd gan ofal cydwybodol am fudd ei esgobaeth, fel yr haera efe, gellir dirnad yn hawdd i ba lymder eithafol yr oedd yn rhaid ei fod yn cario yr yspryd hwnw mewn amgylchiadau cyffredin."* Ond nid ydym ni yn credu fod lle i ammeu nad ei gydwybod, fel y tystiai ef ei hun, oedd y rheswm dros wrthod cais Wynn. Nid ydyw Wynn ei hunan, er yn ceisio, yn medru profi yn wahanol. A phrin y gallwn gydweled â Parry pan y dywed mai mater dibwys oedd yr un dan sylw. Y mae yn wir nad oedd John Wynn yn gofyn dim ond yr hyn oedd yn cael ei ganiatau yn fynych yn yr oes hòno. Ond yr oedd Morgan yn penderfynu attal hyny can belled ag y medrai ef, gan y credai mai cynhaliaeth i bregethwyr oedd y degwm, ac nid arian i lenwi llogellau lleygwyr cribddeiliol a chybyddlyd. Y llythyr nesaf ydyw atebiad Wynn i Morgan, yr hwn sydd fel y canlyn :—

Llefarwch, O feini, wrth y dynion anniolchgar.† Yr hauwr a aeth allan i hau ; a pheth o'r hâd a syrthiodd ar greigleoedd, ar ba le y gwywasant am nad oedd ganddynt wraidd. Yr oedd yr hâd yn dda, ond nid felly y tir. Gallaf ddyweyd yn gywir fel hyn am danoch chwi. Dangosais fy hun yn gyfaill i chwi ym mhob peth, yn gymmaint felly fel oni buasai i mi gyfeirio y ffordd i chwi â'm bys (o'r hyn y mae genyf dystiolaeth ddigonol) Ficer Llanrhaiadr a fuasech chwi eto. Yr ydych yn dadleu cydwybod pan y dylech roddi, ond nid ydych yn codi gwrthddadleuon pan yn derbyn, cymmwynasai eich cyfeillion. Ond yr wyf yn appelio at yr Hwn sy'n chwilio cydwybodau pawb dynion, pa un a ymddygasoch ataf fel y dylasech, a pha un ai cydwybod (yr hon sydd yn eich genau yn wastadol) ydyw yr unig reswm dros ommedd fy nghais. Yr wyf yn barod i haeru ac i brofi gerbron y duwinyddion mwyaf a fu erioed, ag sydd yn awr, ac a fydd byth, yn Lloegr, fod dyn gyda chydwybod dawel yn ardrethi bywoliaeth, ac yn talu ei llawn werth am dani ; ac felly y mae gan nad pa gymmaint ei prisir genych chwi. Nid wyf yn gofalu ffyrlling am golli y peth, ond oherwydd eich ymddygiad angharedig. Bydd yn wers i mi rhag dysgwyl ffrwythau pêr ar y fath foncyff sur. Nid wyf yn gosod dim pwys ar eich datganiadau o serch ; ac nid wyf yn ammeu na byddaf byw (trwy ewyllys da Duw) fel ag i allu eich llesoli, yn gymmaint ag a wnewch chwithau i minnau, ac i'r gwrthwyneb. Yr ydych yn erchi arnaf ddiolch i Dduw am ei fawr ddaioni tuag ataf. Duw a roddo i mi ras i wneuthur hyny bob amser. Mewn gwirionedd, yr wyf wedi diolch llawer iddo wrth feddwl am eich penodiad chwi i'r sefyllfa yr ydych ynddi yn bresennol, fel pe buasech yn frawd i mi ; ond yr wyf yn galw hyny yn ol, gan

* Cambrian Plutarch, p. 322. † Hominibus ingratis loquimini, lapides.

nad wyf byth yn dysgwyl caffael o'ch ewyllys da, nac unrhyw ddaioni oddi wrthych.

JOHN WYN,
o Wydir.*

Gwydir, y tŷ a wnaeth
dda i chwi a'r eiddoch.
24ain Chwefror, 1603.
[At y Parchedig Dad,
Arglwydd Esgob Llanelwy.]

Y mae Wynn yn hynod o Ysgrythyrol ei ymadroddion ar ddechreu y llythyr uchod. Ar y cyntaf gallasem feddwl mai pregeth ydyw. Ond cyn y diwedd yr ydym yn gorfod ymadael â'r dybiaeth hòno. Onid oes gwahaniaeth mawr rhwng Wynn a Morgan wrth ysgrifenu? Iaith gref, ymresymgar, ond braidd yn galed, oedd yr hon a ddefnyddiodd Morgan yn ei lythyr cyntaf. Ond ni chynnwysa y llythyr hwnw yr un ymadrodd annheilwng o foneddwr a Christion. Am yr atebiad a anfonodd Wynn, y mae yn gymmysgedig o leferydd y seraph pur a'r angel syrthiedig. Y mae adnodau o'r Beibl yn cael eu halogi trwy eu cyssylltu â geiriau wedi eu trwytho mewn pydew o falais, digofaint, ac edliwiaeth. Ychydig o grefydd yn ddiau oedd raid fod gan y dyn a alwai yn ol y gweddïau a anfonwyd—os anfonodd rai o gwbl—at orsedd yr Hollalluog ei hunan.

Ond ar ol anfon y llythyr hwn, cymmerodd Wynn lwybr arall i geisio dwyn yr Esgob i wrando ar ei gais, sef trwy alw ar un Mr. Thomas Martyn i gyfryngu rhyngddynt. Pwy oedd y Martyn hwn, nis gwyddom, ym mhellach na'i fod yn gyfaill i'r ddau, ac yn byw gyferbyn ag Eglwys St. Andrew's, yn Holborn, yn y brif ddinas. Gwyddom fod un Syr Richard Martin yn Feistr y Bathdŷ (*Master of the Mint*) ac yn eurych i'r Frenhines, yr hwn a fu hefyd yn Arglwydd Faer Llundain, yn byw yn 1593;† ond nis gwyddom a ydoedd rhyw berthynas rhwng Thomas *Martyn* a'r Syr Richard *Martin* hwnw a'i peidio. Y mae y diweddar Mr. T. J. Llewelyn Prichard, yn ei *Twm Shon Catti*, yn cymmeryd arno roddi hanes ymgyfarfyddiad Morgan a Wynn yn nhŷ Mr. Martyn er mwyn ceisio penderfynu y ddadl trwy gynnorthwy yr olaf. Rhydd ddysgrifiad o ymosodiad ar yr Esgob a'i gymdeithion gan ddau yspeilydd pan ar eu ffordd yno y dydd blaenorol. Cynnwysai y cerbyd, yn ol Prichard, yr Esgob a'i ferch; yn cael eu dilyn gan ei gaplan a'i weision. Pan yn agos i'r brif-ddinas cyfarfyddwyd hwynt gan yr yspeilwyr, y rhai a'u hattaliasant i fyned rhagddynt, ac a ddechreuasant ar eu gorchwyl beiddgar ac anghyfreithlawn. Ond cyn iddynt gyflawni eu hamcanion, wele Thomas Jones o Dregaron, a gyfenwid Twm Shon Catti, yn dyfod

* Yorke's Royal Tribes, p. 136. † The Egerton Papers, pp. 180-190.

heibio, yr hwn a roddodd waredigaeth brydlawn i'r Esgob a'r rhai oedd gydag ef. Dywedir fod Thomas Jones y pryd hwn yn cario swm mawr o arian i Mr. Thomas Martyn oddi wrth ei gyfaill, Syr George Devereaux, o Ystrad Ffin, sir Gaerfyrddin. Ar ol lladd yr yspeilwyr, cymmerwyd Jones i fewn i'r cerbyd, pryd yr eglurodd yr Esgob ag yntau ryw gymmaint o'u helyntion i'w gilydd, ac ymadawsant wrth dŷ Mr. Martyn i gyfarfod yno drachefn y dydd canlynol. Yna yr ydym yn cael darluniad o gyd-gyfarfyddiad Wynn a'r Esgob, a sylwedd yr ymddiddan a gymmerodd le rhwng y ddau.* Ac y mae y cyfan yn dra dyddorol. Ond nid ydyw yr oll ond ymgais i weithio allan mewn rhamant yr hyn a gesglir oddi wrth lythyrau a anfonwyd ganddynt at Thomas Martyn. Rhamant, ac nid hanes, ydyw yr hyn a ysgrifenwyd gan Prichard; ac y mae yn fynych yn euog o gam-amseriadau dybryd. Er enghraifft, y mae yn gosod marwolaeth y Ficer Prichard, o Lanymddyfri, yr hyn a gymmerodd le yn 1644, yn gynnarach nag eiddo Syr John Price, o Aberhonddu, yr hwn fu farw oddeutu canol y ganrif flaenorol.† Ni fuasem yn dwyn hyn i fewn o gwbl ond rhag ofn i'r anghyfarwydd ym mheirianwaith y rhamantwr gamgymmeryd am hanes gwirioneddol yr hyn ni fwriadwyd ond yn unig i ddifyru. Ond wele y llythyr a anfonwyd gan Wynn at Martyn :—

Mr. Martyn,

Syr,

Nid oes gofid fel y gofid oddi wrth angharedigrwydd. Y maent wedi fy ad-dalu yn wael am ddaioni er mawr dristwch i'm henaid. Gallaf ddyweyd felly, a chwyno yn gyfiawn wrthych yng nghylch fy Arglwydd o Lanelwy, yr hwn (heblaw yr hyn a dderbyniodd ei hynafiaid gan yr eiddof fi) mewn gwahanol bethau, a'r rhai hyny yn bwysig, sydd ddyledus i mi; ac mewn perthynas i'r hwn (fel y'm hysbysir yn ei lythyr diweddar, o'r hwn yr wyf yn anfon copi cywir i chwi), er nad wyf yn dysgwyl dim ardreth, eto bydd i'm meddwl dderbyn esmwythyd mawr trwy osod ei ymddygiadau celyd tuag ataf, a fy nghymmwynasau iddo yntau, ger eich bron chwi, gan eich bod yn gwybod nad wyf yn dywedyd dim ond y gwir, a'ch bod yn llygad-dyst o'r rhan fwyaf o honynt.

Y cynllun goreu i adrodd yr hanes fyddai dechreu gyda fy haeddiannau, dros y rhai y rhedaf yn frysiog; a'r rhai y dymunwn i chwi eu hadgoffa iddo: 1. Ei fod wedi sicrhau wrth ei ddiweddar wasanaethwr, Thomas Vaughan, nad oedd yn cofio am ddim o honynt, heblaw fy mod wedi rhoddi iddo fenthyg fy ngheffylau i fyned i Landaf, ac i mi anfon bustach tew iddo ar ei ddyfodiad y waith gyntaf i Lanelwy. Nid yw hyn ond hidlo gwybedyn a llyncu camel.

* The Adventures and Vagaries of Twm Shon Catti (Edit. 1873), p. 207, *et seq.*
† Ibid. cymh. tud. 222 a 277.

Yn gyntaf, rhoddais iddo brydles ar ei fferm yn y Wybernant, rhan o dref-ddegwm Dolwyddelen, am ddeugain mlynedd, am ddeugain punt. Gosododd yntau y fferm am yr ardreth blynyddol o bedair punt ar hugain : ac oddi wrth yr hon, can belled ag yr wyf yn cofio, y mae ardreth frenhinol o wyth swllt a dwy geiniog.

Pan yn mesur y fferm ddywededig gyda fy fferm a elwir Penannen, caniatëais iddo dir yn Pant yr Helygloyn, gwerth tair punt yn y flwyddyn ; am yr hyn y cefais fy ngheryddu yn fawr gan Owen Wyn, fy ewythr.

Dyoddefais elyniaeth Ieuan Meredydd, a'i nai Edward Morice, y cyfreithiwr, yn ystod ei fywyd ; am i mi fod yn gylafareddwr, ac yn ei erbyn, Ieuan Meredydd yr wyf yn feddwl, ac am i mi benodi fy nghyfeillion yn ddirprwywyr yn ei erbyn.

Ai nid myfi a ymdrafododd gyntaf gyda Mr. Boyer i'w wneuthur yn Esgob, ac a wnaeth y cytundeb, Syr ? Nid oedd Mr. Boyer yn adnabyddus iddo ef, nac yntau i Mr. Boyer ; gan hyny, pe amgen, Ficer Llanrhaiadr a fuasai efe eto. Yr wyf yn gwybod nad ydych wedi anghofio yr hyn a ddygwyd yn ei erbyn ef a'i wraig er attal ei gyfieithiad diweddar, ac fel y bu i'm tystysgrif i a'm cyfeillion ei lânhau yng ngwyneb y cyhuddiad hwnw, ac achosi iddo lwyddo ; am yr hyn y meddyliwyd yn waeth o honof fi a hwythau gan rai ag yr oedd genym achos da i'w parchu.

Llafuriais, fel pe'n ceisio achub bywyd un o'm mhlant, i derfynu y rhwyg rhyngddo ef â'm cefnder David Holland ; gan wybod y buasai yn rhwystr mawr iddo gael ei orchfygu felly ar y cynnyg cyntaf. Y mae pawb ag sydd yn adnabod Holland fy nghefnder yn gwybod hefyd pa mor alluog, pa mor ddylanwadol, a pha mor benderfynol ydyw, yng nglŷn â'i achosion cyfreithiol.

Gwyddom nad oedd fy Arglwydd o Lanelwy ond tlawd (costiodd ei gyfieithiad lawer iddo), eto yr oedd yn wirfoddol a pharod i ymgyfreithio ; gan hyny yr oeddwn yn ymboeni cymmaint wrth geisio ei berswadio i wrando ar reswm a'i ddwyn i ystyried ei sefyllfa ag yr oeddwn wrth ddwyn y blaid wrthwynebol i reswm a chydsyniad. Prif fywoliaeth fy Arglwydd Esgob oedd degran (*tenth*) plwyf Abergele, ym mha le y mae fy nghefnder Holland yn llywodraethu yn hollol. Pe buasent wedi myned i ymgyfreithio, buasai wedi ei niweidio gymmaint wrth gasglu y degwm fel na buasai fawr o werth iddo. Ac eithrio fy hunan, a oedd boneddwr yn y wlad a fuasai yn cymmeryd ei blaid yn erbyn fy nghefnder Holland ? a hyny a wyddai efe yn dda. Ond gall fy Arglwydd ddefnyddio boneddigion pan y maent o wasanaeth iddo, ac yna eu gadael trwy ffugio cydwybod ; yr hyn a ymddengys oddi wrth yr adysgrif o'i lythyr ataf fi, ac am yr hwn yr wyf yn sicrhau ar fy anrhydedd ei fod yn adysgrif gywir. Hyd yn hyn mewn perthynas i'm haeddiant, ond yn awr gyda golwg ar fy nghais.

Rhoddodd Mr. Sharp, Caplan fy Arglwydd Ganghellydd, yr hwn a benodwyd gan ei Arglwyddiaeth yn rheithor Llanrwst, brydles ar ei fywoliaeth i un Robert Gwyn o Gaerlleon, yr hwn a wnaeth gyfaill i mi, un Robert Vaughan, brawd i fy mrawd Thomas Vaughan, yn isgymmerwr iddo. Rhoddodd Doctor Elice, yr hwn oedd un waith yn

meddu awdurdod mawr yn y parthau hyn, ganiatad yn ffafr y Dr. Meyric (yr hwn a'i gwobrwyodd ef â degwm y dref-ddegwm lle saif ei breswylfod ef yn yr Yspytty) i ddadgyssylltu degwm y Tybrith oddi wrth reithoriaeth Llanrwst, a'i uno gyda Chorwen. Gan fy mod yn gofidio wrth weled eglwys Llanrwst yn cael ei dadgyssylltu trwy weithred anghyfreithlawn, hysbysais fy Arglwydd o Lanelwy o fy mwriad i sefyll dros iawnderau Llanrwst yn erbyn y Dr. Meyric, yng nghyda fy mwriad i wneuthur ychwaneg dros yr eglwys hòno. Profodd y cynghaws, trwy gyndynrwydd y Dr. Meyric, a'i hyder yn ei gefnogwyr, yn fwy costus a thrafferthus nag y dysgwylid. Mewn canlyniad, hysbysais fy Arglwydd lawer gwaith fy mod yn bwriadu prynu prydles Robt. Gwyn i'm llaw fy hun, ac, ar ol ei throsglwyddo i mi, y buasai Mr. Sharp (fel ad-daliad am ddirfawr gost y gynghaws) yn debyg o ganiatau prydles i mi ar y fywoliaeth am dair oes, yr hyn fuasai yr unig ffordd i ad-dalu i mi ran o'r gost; addawodd yntau ei chadarnhau, ac mai hi fyddai y brydles gyntaf a gadarnhëid. Ar ol i mi, trwy gost a thrafferth, ddyfod i feddiant o brydles Robt. Gwyn am ddeng mlynedd, a thrwy drosglwyddiad yr unrhyw cefais brydles am dair oes gan Mr. Sharp, anfonais hi i'w dangos i fy Arglwydd gyda'm gwas, Wm. Lloyd; ond ymddangosai y pryd hwnw fel yn wrthwynebol iddi, ac atebai gydag ammheuaeth mewn perthynas i'w chadarnhâd, gan feio Mr. Sharp yn y fath fodd fel ag i achosi i fy mhrydles gael ei gwneuthur o'r newydd, yr hyn a'm gorfododd i dalu £10 yn ychwanegol, am y rheswm iddo gael ei feio gan fy Arglwydd Esgob. O'r diwedd, wedi clywed fod y Glwysgor *(Chapter)* wedi cael ei benodi i gadarnhau prydlesoedd eraill, anfonais yr eiddof fy hun gyda fy mab Mostyn, a llythyr at fy Arglwydd, cynnwysiad yr hwn a welwch yn atebiad ei Arglwyddiaeth. I ba un y derbyniais yr atebiad hwn, ac yr wyf yn erfyn arnoch benderfynu pa un a ydyw yn deilwng o'm haeddiant, ac ar i chwi hefyd ymresymu ag ef, gan eich bod yn gyfaill iddo ef a minnau.

Nid wyf o'r natur i gymmeryd cam; fel y bwriedais ddaioni iddo ef, a chyflawni hyny hefyd, gall fy Arglwydd fod yn sicr y byddaf yn elyn mor anghymmodlawn iddo (os gwna efe fi felly) ag y bum o gyfaill cywir iddo; ond nid ydyw wedi cyrhaedd y sefyllfa hòno, ac nid ydyw heb elynion, fel y gall ddywedyd, Yr wyf uwchlaw cael fy niweidio gan ffawd *(Major sum, quam cui possit fortuna nocere)*. Fel y mae anrhydedd yn cyfnewid cymmeriad *(honores mutant mores)*, felly y mae cymmeriad yn cyfnewid anrhydedd *(mores mutant honores)*. Yr wyf yn cywilyddio drosto, am roddi yn hyn le i'w elynion ef a minnau ei waradwyddo, o herwydd yr yspryd anniolchgar a ddygir yn wastad yn ei erbyn. Yr wyf yn dymuno arnoch ddychwelyd ei atebiad yn gyflawn i mi, pe na anfonech ddim arall.

Eich serchog gyfaill
JOHN WYN,
o Wydir.

Gwydir, 13eg Mawrth, 1603.

Addawodd i mi nawddogaeth y fywoliaeth trwy Thomas Robts [Roberts], pan ommedodd y cadarnhâd. Anfonais yr un gŵr ato ym mhen deuddydd i ymofyn y cyfryw, a fy nghefnder Elice Vaughan hefyd gydag ef; ond gwrthododd i mi y cyfan, gan ddyweyd nad oedd

wedi gwneyd unrhyw ddarpariaeth gogyfer a'i wraig, ac y byddai iddo, os gwnai or-oesi Sharp, ddal y fywoliaeth hòno yn ei ddwylaw ei hun (*in commendam*). Ac i derfynu, nid oes dim i mi ond llythyr sarhäus a thwyllodrus yn dâl am fy holl ymdrechion.*

Dyna yr adroddiad a rydd Wynn o'r ymdrafodaeth. Ac nid oes dadl nad ydyw wedi gosod yr achos allan yn y wedd fwyaf ffafriol iddo ei hun. Gellir casglu oddi wrth ei lythyr fod Mr. Martyn yn hysbys o gryn lawer o'i hanes ef a'r Esgob; ond y mae y manylder gyda pha un yr adrodda Wynn rai o'r achosion a ddwg ger bron yn awgrymu na wyddai Martyn ddim am y rhai hyny. Nid oes gymmaint ag un o lythyrau Martyn, hyd y gwyddom, ar gael. Ond y mae yn naturiol tybied iddo anfon atebiad i'r llythyr uchod o eiddo Wynn, i'w hysbysu o aflwyddiant ei gyfryngiad. Pa fodd bynag, yr ydym yn ddigon sicr iddo anfon llythyr at Morgan. Dangosir hyny yn ddigon amlwg, feddyliem, yn y llythyr a anfonwyd gan yr olaf ato ef. Ac y mae yr un mor amlwg mai anfon cynnwys llythyr Wynn at yr Esgob a wnaeth Martyn, ac nid amgau y llythyr ei hun, fel y gwnaeth Wynn ato ef. Ymddengys hefyd fod Martyn yn cymmeryd plaid Wynn yn erbyn yr Esgob, neu o leiaf ei fod yn ceisio dwyn yr olaf i gydsynio â gofynion y blaenaf. "Pe na buasai hyn yn fater cydwybod," meddai Morgan, "ni chawsech le i fy *mherswadio* i gydymffurfio â dymuniad Mr. Wynn; oblegid buasai yn dda iawn genyf allu ei foddhau ef." Pwy bynag oedd y Martyn hwn, yr oedd yn tybied fod yn fwy manteisiol iddo ffafrio y boneddwr cyfoethog a dylanwadol o Wydir na boddhau yr Esgob tlawd o Lanelwy. Yr ydym yn cael ei fod yn ail-adrodd rhesymau Wynn yn ei lythyr at Morgan, oblegid dywed yr olaf, "Nid yw eich dau reswm, neu yn hytrach ei resymau ef (oblegid defnyddiodd hwynt yn ei lythyrau ataf fi) yn effeithio ond ychydig arnaf." Ac y mae atebiad Morgan, er yn cydnabod fod rhyw gymmaint o wirionedd yn amryw o'r pethau a nodid gan Wynn, yn gosod lliw tra gwahanol ar yr holl ymdrafodaethau a gymmerodd le rhyngddynt. Fel hyn yr oedd ei lythyr at Martyn:—

Iechyd yng Nghrist.

Yr wyf yn deall fod Mr. Wyn wedi eich hysbysu yng nghylch yr angharedigrwydd o ba un y mae yn fy nghyhuddo; ac yr wyf yn falch fod genyf athrywynwr mor ddiduedd. Ei gais ef ydoedd, ar fod i mi gadarnhau prydles am dair oes ar Reithoriaeth Llanrwst (yr hon sydd eglwysfudd gyflwynol, ac yn fywoliaeth addas i ryw bregethwr) am yr ardreth flynyddol o £50, er ei bod yn werth £140, ac yn fy nawddogaeth i. Darfu i'r cais hwn gythryblu llawer ar fy meddwl, oblegid gofidiwn yr angenrheidrwydd o wrthod Mr. Wyn o unrhyw beth, ac yr oedd fy nghydwybod yn gwrthsefyll caniatau y fath beth; yr hyn fuasai mor

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), pp. 136-39.

niweidiol i bregethwyr, yn enwedig i'r rheithor nesaf, ac i'r Eglwys ei hun, yr hon sydd raid iddi wrth gynhaliaeth ddigonol i bregethwyr.

I ddyfod at y cymmwynasau a wnaeth Mr. Wyn i mi, nid ydynt mor fawr ag eu cyfrifir ganddo ef; oblegid mi a delais iddo am ei amser ar y Wybernant, ac i Robert ei ewythr £40 neu ychwaneg ar yr un adeg, yr hyn oedd swm mwy nag a gawsant gan neb o'r tenantiaid eraill ag oedd yn dal tiroedd cyffelyb yn y dref-ddegwm hòno. Yr wyf yn gweddio ar Dduw am iddo faddeu i Mr. Wyn am ei ymddygiad caled at y tenantiaid hyny, tyddynod y rhai ni allasai eu chwennych yn ddibechod. Wrth fesur Pant yr Helygloyn, mi gefais lai nag a ddywedir gan rai oedd yn ddyledus i mi, a mwy nag yr ewyllysid gan eraill; yn lle yr hyn yr oeddwn dan orfod i godi clawdd ceryg, neu glawdd tyweirch, rhyngof fi ag ef, er fy mawr golled.

Yr oedd Ieuan Meredydd a minnau yn gyfeillion, hyd nes y ceisiais, ar gais Mr. Wyn, i'w frawd Robert Wyn ei wraig bresennol, yr hyn a achosodd y fath gasineb a chyfreithio rhyngof fi a'r dywededig Ieuan, a'r hyn a gostiodd i mi rhwng £60 a £100 mwy nag a gefais. Y mae yn wir i Mr. Wyn geisio i mi ddau ddirprwywr, Mr. Morys Johnes un tro, a Mr. Morys Lewys dro arall, a bu ef yn gylafareddwr i mi er penderfynu yr achos hwnw. Mi a ddyoddefais yr holl ymrysonau a'r gwaradwyddiadau hyny er ei fwyn ef a'i frawd.

Y mae wedi ysgrifenu ataf yn barod i ddyweyd oni buasai am dano ef y buaswn eto yn aros yn Ficer Llanrhaiadr. Pa can belled y mae yn camgymmeryd sydd yn hysbys i chwi ac eraill. Ond pe buaswn yn parhau yn Ficer Llanrhaiadr, buaswn yn well fy lle nag yr wyf yn awr. Cefais ddigon o lythyrau cymmeradwyaethol heblaw y rhai a ddaeth trwyddo ef, a buaswn yn llwyddo pe na buasai genyf yr un, fel y credai fy Arglwydd o Gaergaint a fy Arglwydd Drysorydd.

Eto yr wyf yn addef i Mr. Wyn ddangos cariad mawr (fel y tybiwn y pryd hwnw) tuag ataf, ond (fel yr wyf yn deall yn awr) ato ei hun y bwriadai, gan feddwl gwneuthur polyn o honof i yru pregethwyr fel petrus i'w rwydau. Yr wyf yn ddiolchgar i Mr. Wyn am ei drafferth yn penderfynu rhyngof fi a Mr. Holland; er na ddygodd i mi ond £150, pryd y dylaswn gael £1,000. Ond nis gallaf ad-dalu iddo am y trafferthion hyn trwy yspeilio unrhyw eglwys.

Gellir meddwl fod Mr. Wynn yn tybied nad ydwyf ond yn ffugio cydwybod. Ond yr wyf yn eich sicrhau, ar air offeiriad (*in verbo Sacerdotis*), fy mod yn credu yn fy nghalon y byddai yn well genyf fod yn yspeilydd pen ffordd na gwneuthur yr hyn a ofyna efe. Ac yr wyf yn gwybod fod gwneuthur cyfeiliornad yn ddrwg, eto byddai gweithredu yn erbyn cydwybod, er ei bod yn cyfeiliornu, yn bechod.

Pe buasai fy nhad a'm mam yn fyw, ac yn gwneuthur y cais a wna Mr. Wyn, yr wyf yn gobeithio y buasai genyf ddigon o ras i'w gwrthod. Yr wyf yn cael allan ym mhellach fod Mr. Wyn wedi syrthio i ddau gamgymmeriad; un ydyw, fy mod wedi addaw iddo y gwnawn gadarnhau y brydles hòno; a'r llall ydyw, fy mod wedi addaw iddo y glwysfudd, trwy John Robtes;* pryd mewn gwirionedd ni addewais iddo y naill

* Thomas Robts a ddywed Wynn, ond John Robtes a ddefnyddir deir-gwaith gan Morgan. Pa un ai *Thomas*, ai *John*, Roberts a feddylir nis gwyddom; ond yr un person a olygir gan y ddau.

na'r llall. Ond dywedais wrth Mr. Wyn y buaswn yn dra anewyllysgar i gadarnhau prydles ar unrhyw fywoliaeth gyflwynol, er y gwnawn gymmaint, a mwy, iddo ef nag a wnaethwn i neb arall; ac os y byddai i mi gadarnhau un o'r fath, mai yr eiddo ef a fyddai y gyntaf. Ni ddarfu i mi erioed gadarnhau yr un, na meddwl am wneyd hyny. Ond caniatäodd y Glwysgor a minnau un, nid am dair oes, ond am un oes; nid ar eglwysfudd gyflwynol, ond ar nawddogaeth leygol, yr hon sydd yn rhanedig rhwng llawer, a'r hon nis gellir ei dal gan neb o honom ni; a chan ein bod ym mhell rhaid ei gosod ar ryw delerau neu gilydd; ond perthyna y fywoliaeth i'r Eglwys, ac nid i leygwr.

Ond y mae Mr. Wyn, er ei fod yn gwybod fod gwahaniaeth rhwng caniatau prydles o'n heiddo ein hunain a chadarnhau prydles o eiddo arall, rhwng eglwys-fudd gyflwynol a nawddogaeth leygol, rhwng un oes a thair oes, rhwng buddiannau cyhoeddus a rhai personol, yn dyweyd fy mod wedi cadarnhau prydles o'r fath, ac fy mod yn nacäu, yn ol fy addewid, a chadarnhau un iddo ef. Fy atebiad i John Robtes oedd, na fyddai glwysnawdd yr Esgob yn rhwymedig ar ei olynydd, a phan y gofynodd a gaffai Mr. Wyn hi os byddai yn safadwy, dywedais wrtho y caffai hi a fy nghlustiau hefyd; gan y gwyddwn yn eithaf da na byddai yn safadwy. A phan y daeth drachefn i ofyn a fuaswn yn ei chaniatau er ei fwyn ef *(de bene esse)*, pa un bynag a fuasai yn safadwy ai peidio, dywedais wrtho na wnawn, ac nad oedd mewn un modd yn rhan o fy addewid na fy mwriad. Camgymmerodd John Robtes fy ngeiriau mewn perthynas â'm gwraig; oblegid ni ddywedais fod yn rhaid darparu gogyfer â hi yn gyntaf, gan dybied y buaswn yn rhoddi iddi hi y gyfryw brydles. Er ei bod hi yn wraig i mi, ac mewn canlyniad yn un cnawd, eto ni ddarperir byth ar ei chyfer genyf fi trwy y fath brydlesoedd; ni wnaf fi yspeilio yr Eglwys.

Dyna oedd sylwedd fy ngeiriau y pryd hwnw, oddi wrth ba rai y gallasai Mr. Wyn ddeall nad oedd dim yn fy ngyru i'r penderfyniad hwn ond fy nghydwybod. Am fy ngwâg eglwysfudd *(commendam)*, dywedais, a dywedaf eto, pe buaswn mor anfad a chadarnhau yr holl brydlesoedd yn yr Esgobaeth, eto ni buaswn gymmaint ynfytyn a chadarnhau yr un cyn cael fy niogeli mewn perthynas â'm gwâg eglwysfudd. Os gwnaethum, dywedwch wrth Mr. Sharpe y gwnai yn dda pe gadawai ei fywoliaethau i'w olynwyr mor rhydd ag y cafodd hwynt. Ni wnaethum ond fy nyledswydd. Pe na buasai hyn yn fater cydwybod, ni chawsech le i fy mherswadio i gydymffurfio â dymuniad Mr. Wyn; oblegid buasai yn dda genyf allu ei foddhau ef. Nid yw eich dau reswm, neu yn hytrach ei resymau ef (oblegid defnyddiodd hwynt yn ei lythyrau ataf fi) yn effeithio ond ychydig arnaf. Ac os caf ef yn gymmaint gelyn i mi ag y mae wedi bod o gyfaill, bydd yn gysur genyf ddyoddef mewn achos mor dda. Yr wyf yn gwybod fod Duw, Eglwys yr hwn yr wyf yn ceisio ei hamddiffyn, yn alluog i fy amddiffyn i rhag pob gelyn, ac y bydd iddo fy amddiffyn can belled ag y gwel hyny yn oreu i mi; ac nas gall Mr. Wyn ladd fy enaid, na gwneuthur mwy i'm corff nag a oddefa Duw. A fy ymddiried hyderus ydyw nas goddefa Duw i unrhyw beth gael ei roddi yn fy erbyn amgen na'r hyn a fyddo er fy lles, naill ai yn y byd hwn neu yn yr hwn a ddaw. Ac os bydd i

wahanol ddynion farnu yn amrywiol o barthed i'r angharedigrwydd hwn; Beth; a ddylai hyny ddylanwadu ar ddyn sydd wedi sefydlu ei gydwybod i wneuthur yn groes i gydwybod! Yr wyf yn gwybod fod rhai yn fy meio i yn ei bresennoldeb ef, ac yn ei feio ef ac yn fy nghymmeradwyo innau yn ei absennoldeb. A dichon fod rhai yn ymddwyn yn gyffelyb tuag ataf finnau. Ansefydlog a chyfnewidiol ydyw y lluaws. Fy nghymorth i sydd yn enw yr Arglwydd *(Inconstans et mutabile vulgus. Auxilium meum in nomine Dni.)*.

Gan benderfynu na wnaf y weithred hon, nac unrhyw un arall a fydd yn niweidiol i'r Eglwys,

Y gorphwysfa eich cyfaill hyd farw,*

WILLIAM O LANELWY.

[At ei wir serchus gyfaill Mr. Thomas Martyn yn ei breswylfod gyferbyn a *St. Andrew's*, yn Holborn.]

[Ysgrifenwyd hwn ataf fi gan fy Arglwydd Esgob, pan yn y Senedd yn Llundain.]†

Y mae y llythyrau a ddyfynwyd, feddyliem, yn rhoddi syniad gweddol glir am yr ymdrafodaeth anhapus rhwng Wynn a'r Esgob. A chredwn fod yn anhawdd peidio dyfod i'r un penderfyniad ar y mater hwn ag y daeth y diweddar Ioan Pedr iddo:—"Ond er pob edliwiaeth a bwgwth, daliodd yr esgob cydwybodol yn ddiwyro at yr hyn a gredai oedd iawn. Beïir yr esgob gan rai, a'r marchog gan lawer; ond dichon fod ychydig fai o bobtu. Er hyny os rhaid cyhoeddi dedfryd ar yr achos, nis gallwn betruso mynyd o blaid pwy i'w rhoddi. Dichon fod Morgan braidd yn rhy lym ei ymadroddion wrth un a fuasai mor garedig wrtho, tra y mae yn eglur fod Syr John yn edrych ar ei fantais ei hun yn fwy nag ar gyfiawnder, ac yn gofalu mwy am y *Gwedir family* nag am yr eglwys. Felly oddiwrth y drafodaeth hon, yn gystal a holl fywyd y ddwyblaid mewn dadl, fe ddeffröir ein dirmyg a'n casineb at y naill a'n hedmygedd a'n serch at y llall. Os gadawodd Syr John Wynne elusendai yn Llanrwst i goffa ei enw ac yn iawn am draha ei fywyd, ac os yw ei ysbryd eto yn Rhaeadr y Wennol yn gorphen y penyd, gadawodd y Dr. Morgan enw da i berarogli ei goffadwriaeth a thrysor anchwiliadwy Gair Duw i gyfoethogi ei wlad."‡ Bydd i'r darllenydd mwyaf brysiog a lleiaf ystyriol ganfod ar unwaith fod yr Esgob yn ysgrifenu yn

* "I rest, *Amicus usque ad aras*" ydyw y geiriau a ddefnyddir gan Morgan. Meddwl llythyrenol "*usque ad aras*" ydyw "hyd at allorau yr aberth," hyny yw, "hyd farw." Ond y mae Wright yn ei ragarweiniad i Bacon's *Advancement of Learning* yn defnyddio y geiriau yn yr ystyr "hyd at yr allor (a dim ym mhellach)," h.y., "can belled ag y bydd hyny yn gysson â rhwymedigaethau uwch." Ac o bosibl nad yr olaf ydyw yr ystyr a olygai Morgan.

† Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), pp. 139-141. ‡ Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 63.

llawer mwy boneddigaidd ac urddasol na'r barwnig; y mae y naill yn goeth a llednais mewn cymhariaeth i iaith isel a chableddus y llall. Cableddus, meddwn, am ei fod yn meiddio, fwy nag unwaith, ysgrifenu enw ei Greawdwr gyda'r un ysgrifbin ac yn yr un eiliad ag yr ysgrifenai ei deimlad digofus a gelyniaethol. Y frawddeg fwyaf dichwaeth a ysgrifenodd yr Esgob, fe allai, ydyw hòno yn ei lythyr at Mr. Martyn, pan y dywed:—"Fy atebiad i John Robtes oedd, na fyddai glwysnawdd yr Esgob yn rhwymedig ar ei olynydd, a phan y gofynodd a gaffai Mr. Wyn hi os byddai yn safadwy, *dywedais wrtho y caffai hi a fy nghlustiau hefyd*, gan y gwyddom yn eithaf da na byddai yn safadwy." Credwn fod yr hen Esgob duwiol wedi colli rhyw gymmaint ar ei dymmer yn y fan hon; pa fodd bynag, nid ydym yn gweled nemawr o urddasolrwydd yn y geiriau a *italeiddwyd* genym. Nid ydym wedi sylwi ar ddim yn ei lythyrau ag sydd yn dangos chwaeth ammheus, ac eithrio y frawddeg uchod. Ond y mae ei lythyrau trwyddynt, er yn hollol o fewn terfynau gweddeidd-dra, yn dra miniog. Y mae ei waith yn cymharu Wynn ag Ahab, y cyfeiriadau at fod Wynn yn ceisio yr hyn oedd anghyfreithlawn ac anonest, ei "ergydion llaw-chwith" at ei waith yn ymffrostio yn ei gymmwynasau blaenorol iddo, yn taro i'r byw. Y mae swn gwatwareg yn tincian yn "yr wyf yn addef i Mr. Wyn ddangos cariad mawr (fel y tybiwn y pryd hwnw) tuag ataf, ond (fel yr wyf yn deall yn awr) ato ei hun y bwriadai, gan feddwl gwneuthur polyn o honof i yru pregethwyr fel petrus i'w rwydau"; tra y mae ei allu fel ymresymwr yn dyfod i'r golwg ym mhob man.

Yr hyn sydd yn ein taro ni braidd yn wàn yng nglŷn â Morgan yn yr ymdrafodaeth uchod ydyw na fuasai wedi datgan ei feddwl yn ddigon pendant wrth Wynn pan y soniodd wrtho gyntaf am y brydles. Yn ol geiriau yr Esgob ei hunan, ymddengys iddo fod braidd yn llac. Ni ddywedodd yn benderfynol na byddai iddo byth gadarnhau prydles o'r fath, ac ni ddywedodd ychwaith y gwnai hyny. Yr hyn a ddywedodd oedd y buasai "yn dra anewyllysgar i gadarnhau prydles ar unrhyw fywoliaeth gyflwynol, er y gwnawn gymmaint, a mwy, iddo ef nag a wnaethwn i neb arall; ac os y byddai i mi gadarnhau un o'r fath, mai yr eiddo ef a fyddai y gyntaf." A ydym i feddwl fod yr Esgob wedi cuddio ei fwriad o dan y geiriau amwys uchod hyd nes y buasai Wynn wedi myned i'r "gost a'r drafferth" angenrheidiol i adferyd degwm y Tybrith i fywoliaeth Llanrwst? Nis gallwn feddwl hyny am foment. Yr hyn sydd yn llawer mwy tebygol ydyw fod Morgan yn rhyw hanner obeithio na buasai Wynn yn cymmeryd y peth ato gymmaint, nac yn cario y mater i'r fath eithafion.

Yr oedd Morgan wedi derbyn llawer o garedigrwydd oddi ar law Wynn, ac nid oedd yn caru dyweyd wrtho mewn geiriau eglur na fuasai yn cadarnhau ei brydles; gan feddwl, hwyrach, y gallasai ei ddarbwyllo yn y dyfodol. Y mae y dybiaeth hon yn cael ei chadarnhau yn y ffaith fod Wynn wedi anfon cenhadau ato lawer gwaith i'w mofyn, a bron nad ydym yn credu fod y nacâd yn myned yn gadarnach bob tro. Tybiwn weled y wên oedd yn chwareu ar y cyntaf ar ruddiau yr Esgob yn cilio, a phrudd-der yn cymmeryd ei lle. Ond y mae yn sicr y buasai yn well iddo ei ateb yn hollol ddiamwys ar y cyntaf, a dyweyd wrtho y gallasai ef gymmeryd y "gost a'r drafferth" a fynai, ond na chawsai yr un brydles.

Nid oes genym ond un llythyr arall i'w ddyfynu, sef un oddi wrth Morgan at Wynn; a hwnw ar fater arall. Ond gorthrwm ac annhegwch yr olaf oedd yr achos o hwnw. Yr oedd rhan o ddegwm plwyf Llangystenyn yn eiddo i Morgan yn rhinwedd ei swydd esgobol, ond yr oedd gan Wynn rywbeth i wneyd ag ef; efe oedd y degymwr, neu o leiaf yr oedd yn cymmeryd y gwaith arno ei hunan. Ac ymddengys ei fod ef yn ymddwyn yn debyg gyda degwm Llangystenyn fel y gwnai ei "gefnder Holland" gydag eiddo Abergele, sef rheibio yr oll a ddeuent o hyd iddo. Pa fodd bynag, y mae Morgan yn anfon y llythyr canlynol ato yng nglŷn â'r mater:—

Iechyd yng Nghrist.

Gan fy mod yn gweled y gellwch ddygymmod yn well â fy negwm yn Llangystenyn na chyda myfi; a'ch bod, fel y deallaf, wedi cymmeryd eich rhyddid i'w gasglu; byddai yn ddrwg genyf eich gwrthwynebu yn hyn, os bydd i chwi anfon yr arian i mi gyda'r dygiedydd, er fy mod yn gwybod fod fy negwm yn werth cymmaint ddwy waith ag yr ydych yn dalu am dano. Ond dymunaf arnoch ar fod i ddegwm Bodescallan gael ei gasglu mewn eiddo; oblegid y mae eich cefnder, Hugh Gwynne Gru: [Gruffydd] wedi ysgrifenu ataf ei fod ef yn myned i'w ddegymu y flwyddyn hon mewn arian bathol.

Hyn gan ddymuno i chwi ym mhob peth gyfarwyddyd yr Yspryd Glân,

Gorphwysaf eich cymmydog cystuddiol

WILLIAM O LANELWY.*

Yn Llanelwy, 24ain Gorphenaf, 1604.

[At ei gymmydog anrhydeddus,
John Wynne o Wydir, Yswain.]

Yr ydym yn dyfod ar draws cefnder arall i Wynn yn y llythyr uchod, yn dwyn yr un argraff ag yntau, gellir meddwl. Pa faint o gefnderoedd oedd ganddo, tybed? Yr ydym yn gobeithio, er

* Yorke's Royal Tribes (Edit. 1887), p. 143.

mwyn yr oes hòno, os oedd ganddo lawer o honynt, nad oeddynt oll yr un fath ag ef. Bron na feddyliem fod a wnelo erlidigaeth y teulu hwn ryw faint a byrhau einioes yr Esgob; yr oedd yr helbulon a dynasant arno yn ddigon i dori calon yr un dyn. Os cafodd ei rieni ac yntau ryw gymmaint o ffafrau oddi ar ddwylaw y Wynniaid, trodd y cyfan allan yn fargen ddigon drud iddo ef. Ond o bosibl mai y llythyr uchod oedd yr olaf a anfonodd at Wynn, gyda pha lwyddiant nid yw yn hysbys. Y llythyr hwn ydyw yr ysgrif olaf o'i eiddo ag sydd wedi ein cyrhaedd ni. Cyn pen y deufis wedi ei ysgrifenu yr oedd wedi myned i wlad lle nad oes trallod. Gymru! ar y 10fed dydd o Fedi, yn 1604, yr aeth un o'r cymmwynaswyr mwyaf a gefaist erioed i'r nefoedd. A dywelltaist ti yr un deigryn wrth roddi ei babell bridd i orphwys yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy? A ddarfu i ti ddim dychymmygu gweled ei yspryd anfarwol yn cael ei gipio gan fyrddiwn o angylion i wyddfod y Duw a wasanaethodd? Os cafodd Cymro osgordd luosog erioed i'w gyrchu i'r nefoedd, cafodd yr Esgob Morgan un felly. Ac os bu y proffwydi ryw dro yn dyfod i gyfarfod rhyw un i'r porth, efe, yr hwn a fu yn cyfieithu eu hysgrifeniadau i'r Gymraeg, oedd hwnw. Diolch yn fawr i Thomas Rowlands, ei gyd-oesydd, yr hwn oedd yn ficer corawl Llanelwy, am gofnodi ei farwolaeth mor fanwl. Dywed iddo farw rhwng 3 a 4 o'r gloch boreu dydd Llun, y 10fed o Fedi, 1604, yn ei breswylfod ei hun yn Llanelwy, ac iddo gael ei gladdu y dydd canlynol. Fel hyn y mae y cofnodiad yn llawn :—

Md' yt upon Munday morning being the xth day of September 1604 between the houres of iii and iv of the clock in the morning of the same day W'm Morgan (B'pp of St. Asaph who succeeded W'm Hughes late B'pp there) departed out of this transitory life and died at his house in St. Asaph and was buried the ii day of Sept' aforesaid.*

Dywedir iddo gael ei gladdu yng nghangell Eglwys Gadeiriol Llanelwy,† ond nid oes gymmaint a llythyren wedi ei cherfio i ddangos y fan, nac i barhau ei goffadwriaeth. Ond paham y claddwyd ef gyda'r fath brysurdeb? "Dywedir," medd y Parch. William Hughes, Llanuwchllyn, "mai Syr John Wynn fu'r achos o'i gladdu dranoeth ar ol ei farwolaeth, drwy ei fod yn ddideulu. Y mae yn ymddangos yn rhyfedd i'r Esgob gael ei gladdu gyda'r fath brysurdeb. Efallai fod i'r ymrafael rhyngddo a'r marchog ryw beth i wneyd a'r peth."‡ Pa fodd bynag, ymddengys

* Y Cwtta Cyfarwydd, p. 240. † Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 96, note.

‡ Byr Hanes yr Esgob William Morgan, tud. 17. Dywed y Parch. W. Hughes, mewn llythyr a ymddangosodd yn y *North Wales Chronicle*, 7fed Ebrill, 1888, i lechfaen gyda'r llythyrenau "W.M." gael ei darganfod yng nghangell Eglwys Gadeiriol Llanelwy cyn yr adferiad diweddar, yr hon a dybir oedd yn gorchuddio bedd yr Esgob.

nad oedd y prysurdeb hwn mewn un modd yn eithriadol. Yr ydym eisoes wedi dangos i Syr John Wynn ei hun gael ei gladdu dranoeth ar ol ei farwolaeth. Ac os trown i'r *Cwtta Cyfarwydd*, yr ydym yn cael fod hyny yn beth tra chyffredin yn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg. Wrth edrych yn frysiog tros ddalenau y llyfr hwn, cawsom gofnodiad am bump o bersonau a gladdwyd yr *un dydd* ag y buant feirw, megys Mary Eure, gwraig Arglwydd Ralph Eure, arglwydd-lywydd y Cyffiniau, yr hon a fu farw 4 o'r gloch prydnawn y 19eg o Fawrth, 1611, ac a gladdwyd yng nghangell Eglwys Llwydlo am 11 o'r gloch yr un noson.* A bu ei phriod, Arglwydd Eure, farw yng Nghastell Llwydlo am 8 o'r gloch boreu y 1af o Ebrill, 1617, a chladdwyd ef 12 o'r gloch y noson hòno.† Sylwasom hefyd ar enwau cynnifer a dau ar hugain o bersonau a gladdwyd *dranoeth* ar ol eu marwolaeth. Yn eu plith ceir enw yr Esgob John Hanmer, o Lanelwy, yr hwn a fu farw yn ei gartref, Pentre'r Pant, Selatyn, dydd Iau, 23ain o Orphenaf, 1629, ac a gladdwyd *nos* dranoeth.‡ Yr unig un o'r dau ar hugain, ag y dywedir iddynt gael eu cladu dranoeth, a gofnodir wedi marw o afiechyd heintus, ydyw Ellen Parry, merch ieuangaf yr Esgob Richard Parry, o Lanelwy, yr hon a fu farw o'r frech wen ar y 10fed o Fai, 1609.§ Ceir cofnodiadau am nifer lluosog a gladdwyd y trydydd dydd; cyfeirir hefyd at lawer o gladdedigaethau heb nodi dyddiadau y marwolaethau, a theg ydyw cydnabod fod amryw yn cael eu cadw heb eu cladu dros yr amser a arferir yn bresennol. Y rheswm a rydd yr Archddiacon Thomas dros fod y cladedigaethau yn dilyn mor agos i'r farwolaeth ydyw, nad oedd arch i roddi y corff ynddi, yr hwn a osodid ar estyllen lefn yn unig.‖ Y mae yr Hybarch Archddiacon yn ddigon hysbys fel hynafiaethydd cyfarwydd; ac y mae yn ddiddadl genym nad oedd yn ysgrifenu heb awdurdod ddigonol. Pa fodd bynag, fe ddywedir wrthym gan rai fod eirch mewn arferiad ym mhell cyn hyny. Y mae y darllenydd yn hysbys yng nghylch cistfeini yr hen Frytaniaid. A dywedir wrthym i'r Abad Warin, yn y ddeuddegfed ganrif, orchymmyn i'r bobl gyffredin, y rhai a gleddid cyn hyny mewn gorchudd lliain, gael eu cladu mewn cistfeini. Hysbysir ni, hefyd, fod eirch coed a phlwm mewn arferiad yn dra boreu.¶ Ond, pa fodd bynag, yr ydym wedi dangos yn ddigon amlwg nad oedd dim yn *anghyffredin* yn fod yr Esgob Morgan wedi cael ei gladdu y dydd canlynol i'w farwolaeth; ac ofer fyddai tybied fod a wnelo John Wynn ddim â hyny. Nid ydym ychwaith yn cael

* Y Cwt'a Cyfarwydd, p. 33. † Ibid. p. 62. ‡ Ibid. p. 127. § Ibid. p. 11.
‖ Ibid. Introductory Chapter, p. xvii. ¶ Penny Cyclop., vol. vii., p. 323.

lle i feddwl mai unrhyw glefyd heintus oedd yr achos o'i farwolaeth—ac ni fuasai hyny yn unrhyw glod nac anghlod iddo—oblegid terfyna ei lythyr olaf at Wynn yn y geiriau "eich cymmydog *cystuddiol*." Ac y mae hyny yn lled-awgrymu fod ei iechyd mewn sefyllfa lled wanaidd am gryn amser cyn ei ymddatodiad. Pethau hollol ddibwys ar lawer ystyr ydyw y rhai hyn—rhy ddibwys, fe allai, gan lawer i sylwi arnynt. Ond eto y maent yn werthfawr can belled ag y maent yn taflu goleuni ar arferion y cyfnod.

Cyn terfynu y bennod hon, goddefer i ni wneuthur sylw neu ddau ar gymmeriad yr Esgob. Nid oes eisiau ond prin eu crybwyll, gan fod y darllenydd bellach yn feddiannol ar gymmaint o ffeithiau yn ei gylch ag sydd genym ninnau. Y mae Wynn yn ei osod allan fel gŵr cwerylgar, neu barod i ymgyfreithio; yn un anniolchgar ac angharedig; yn defnyddio gweithiau llenyddol pobl eraill—yr Esgob Richard Davies a William Salesbury—heb gydnabod hyny; a'i fod wedi addaw cymmwynasau, ond yn ol o'u cyflawni. Ond nid ydyw hyn yna ond tystiolaeth gelyn addefedig. Ac yng ngwyneb eglurhad yr Esgob ei hun, y mae yn colli ei nerth. Y mae Wynn, hefyd, yn anymwybodol, neu fe allai o'r bron er gwaethaf iddo ei hun, yn rhoddi awgrymiad neu ddau ag sydd yn ein cyfiawnhau i feddwl yn uchel am Morgan. Heblaw y dystiolaeth a ddwg i'w ddysgeidiaeth, crybwylla, fel y sylwasom, iddo adgyweirio canghell Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yr hyn yng nglŷn â ffeithiau eraill sydd yn profi ei weithgarwch. Ond y mae yn sylwi hefyd iddo "farw yn ddyn tlawd."* Nid ydyw tlodi dyn fel rheol yn cael ei ystyried—ac ni ddylai gael ei ystyried—yn brawf o'i rinweddau. Effaith bywyd afradlon ac annarbodus ydyw tlodi yn fynych; ond nid bob amser. Ac nis gallwn feddwl mai felly yr oedd yn achos Morgan. Y mae Wynn yn nodi esgobion eraill a fuant farw yn dlodion, ac y mae fel pe'n ceisio rhoddi hyny yn eu ffafr. Dywed am yr Esgob Richard Davies, "bu farw yn dlawd, ni ddarfu iddo erioed brisio cyfoeth"; ac am yr Esgob Richard Vaughan, "bu farw yn ddyn tlawd, gan y chwennychai enw da yn fwy na golud." Y casgliad oddi wrth y geiriau uchod ydyw fod y gwŷr a nodwyd yn elusengar a haelionus. Ac yr ydym yn credu oni buasai i'r Esgob Morgan wrthod cadarnhau prydles i Wynn ar

* Hist. Gwydir Family, p. 96. Y gred gyffredin ar hyn o bryd yn ardaloedd Dolwyddelen a Phenmachno ydyw fod cryn lawer o eiddo yr Esgob Morgan yn y Canghellys (*Court of Chancery*), ac y gallesid ei godi pe gwnai ei ddisgynyddion yr ymdrech angenrheidiol. Ond fel y sylwai Mr. E. G. Salisbury—yr hwn sydd far-gyfreithiwr enwog, ac yn dal cyssylltiad â disgynyddion Morgan trwy briodas—y mae lle cryf i ammeu bodolaeth y fath eiddo. Pa fodd bynag, nid ydyw hyn yn bwysig.

reithoriaeth Llanrwst, y buasai yn defnyddio geiriau cyffelyb am dano yntau, yn ychwanegol i'r ffaith iddo farw yn dlawd.

Yr ydym eisoes wedi gweled fod Morgan cyn ei ddyrchafiad i'r Esgobaeth yn un o'r ychydig offeiriaid ag oedd yn cyflawni eu dyledswyddau yn gydwybodol. Ac ar ol ei ddyrchafiad yr oedd ei gydwybod yn ei rwystro i wobrwyo cymmwynasau personol trwy yspeilio yr Eglwys. Ymroddiad i achos ei Arglwydd a barodd iddo gyfieithu yr Ysgrythyrau i iaith ei gyd-genedl anwybodus pan nad oedd ond clerigwr cyffredin, a'r un sêl grefyddol a'i cynhyrfodd i ychwanegu at nifer y pregethau yn Esgobaeth Llanelwy. Y mae ei lythyr cyflwyn i'r Frenhines yn anadlu yspryd duwiolfrydig, gostyngedig, a hunanymwadol; ac y mae y gorchwyl llafur-fawr a gyflawnodd, yng nghyda thystiolaeth yr Esgob Godwin am ei ddiwydrwydd a'i ymdrechion tra yn Llandaf, yn myned ym mhellach i ddangos ei gymmeriad nag anfri cynnifer o'r Wynniaid a drigasant yng Ngwydir erioed. Nid ydym mor afresymol a meddwl nad oedd iddo ei wendidau a'i feiau fel pobl eraill, ond rhaid ei fod wedi byw bywyd lled wastad a diargyhoedd, onide buasai Wynn yn rhwym o'i ddynoethi. Gellir bod yn dra sicr i Wynn ddyweyd hyny o ddrwg a wyddai am dano, a pheth yn ychwaneg. Yr ydym yn credu fod ei gymmeriad yn cael ei osod allan yn lled gynnwysfawr yn y geiriau a gymhwysir ato mor fynych, — "Y dyn anghymarol hwnw o ran duwioldeb, diwydrwydd, a sêl dros grefydd a'i wlad." Y mae yr Arglwydd Iesu, yn "Nammeg y Talentau," yn gwneuthur defnydd o'r geiriau canlynol mewn cyssylltiad â'r hwn a ddefnyddiodd ei dalentau:—"Da, was da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd." Ni wyddom am neb a fu yn ateb i'r dysgrifiad a geir yn nechreu yr adnod yn well na'r Esgob Morgan; ac os felly, ni esgeuluswyd y rhan olaf o honi pan yr oedd yn gwynebu tragywyddoldeb. At hyn yr ychwanegwn eiriau Solomon pan y dywed,—"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig: ond enw y drygionus a bydra."

PENNOD VII.

SALESBURY A MORGAN FEL CYFIEITHWYR.

Adran I.—Nodweddion Ieithyddol Testament Salesbury a Beibl Morgan; yn yr hon y ceir ymdriniaeth ar orgraff ac arddull y naill a'r llall, gydag enghreifftiau. *Adran II.*—Ffynnonellau, neu Ddefnyddiau, y ddau Gyfieithiad; ym mha un y ceisir dangos pa Destamentau Groeg a Lladin a ddefnyddiasant, ac i ba raddau y dilynasant y cyfieithiadau Seisonig. *Adran III.*—Teilyngdod cymhariaethol Salesbury a Morgan fel Cyfieithwyr; pryd y rhoddir y flaenoriaeth i Salesbury can belled ag y mae gwreiddioldeb yn y cwestiwn, ac i Morgan o ran arddull ac ieithwedd.

Yr ydym bellach wedi dyhysbyddu ein nodiadau bywgraffyddol ar yr Esgob Morgan. Ond credwn na fyddai ein testyn yn cael y driniaeth a haeddai heb rai sylwadau parthed neillduolion a theilyngdod y gwaith pwysig a gyflawnodd. Y mae i lyfrau eu—bywgraffiad a fu agos i ni ddyweyd—hanes, yn gystal a phersonau. Y mae i bob llyfr ei nodweddion ei hun; ac nid ydyw y nodweddion hyny ond adlewyrchiad o ryw deithi yn hanes ei awdwr. Ond odid nad y cynllun goreu i gael gafael ar ragoriaethau a diffygion cyfieithiad Morgan a fyddai ei gymharu ag eiddo cyfieithwyr eraill. Y mae yn anghenrheidiol, felly, i ni feirniadu ei waith yng ngoleuni eiddo Salesbury a'i gyd-lafurwyr, yr hyn a gynnygiwn yn y bennod hon; yn gystal a chydag eraill a ddiwygiasant gyfieithiad Morgan, sef yr Esgob Parry a'r Dr. Davies o Fallwyd, yr hyn a ohiriwn hyd y bennod nesaf. Ond yn bresennol, Testament Newydd 1567, yng nghyda'r diwygiad a wnaed arno gan Morgan, ac a gyhoeddwyd yn ei Feibl yn 1588, a gaiff fod dan sylw. Ac er mwyn gosod ein sylwadau mewn rhyw beth tebyg i drefn, ni a'u dosparthwn dan y penau canlynol:—

I.—Nodweddion Ieithyddol Testament Salesbury a Beibl Morgan.

II.—Ffynnonellau, neu Ddefnyddiau, y Ddau Gyfieithiad.

III.—Eu Teilyngdod Cymhariaethol.

Adran I.—Nodweddion Ieithyddol.

Dywed y Canon Silvan Evans na fu llythyraeth yr iaith Gymraeg erioed yn sefydlog; ac y mae y darllenydd yn ddiammeu wedi bod yn synu lawer gwaith at y gwahanol ddulliau sydd mewn arferiad yn yr oes lenyddol hon. Ond fe allai na fu erioed wahaniaeth amlycach rhwng dau lyfr wedi eu hysgrifenu o fewn un mlynedd ar hugain i'w gilydd nag sydd rhwng cyfieithiad Salesbury ag eiddo Morgan. Y mae yr orgraff a'r ieithwedd yn hollol wahanol. Ac nid oes yr un o honynt yn tebygu i hyny o lenyddiaeth Gymraeg a ysgrifenwyd yn y ganrif hòno. Y mae y Dr. Gruffydd Roberts, Morys Clynog, Gwilym Ganoldref, Maurice Kyffin, ac eraill, yn ysgrifenu eu rhyddiaith yn llawer mwy llithrig na Salesbury, ac y mae Morgan yn fwy dealladwy na'r un o honynt. Rhoddwn enghraifft neu ddwy o Salesbury a Morgan :—

Matt. xxv. 34-36.

Yno y dyweit y Brenhin wrth yr ei *vo* ar ei ddeheu*lavv*. Dewch*vvi* vendigeidion vy-Tad: etiueddwch y deyrnas' sy *yn* parot i chwi er pan sailiwyt y byd. Can ys-bum *yn* newynoc, a' *chvvi* roesoch i mi vwyt: bu arnaf sychet, a' rhoesoch i mi ddiot: bum *yn ddyn* diethr, a lletuyesoch vi: *Bum* noeth, a dilladesoch vi: bum glaf, ac ymwelsoch a' mi: bum yncarchar, a' daethoch ataf.—*Salesbury.*

34. Yna y dywed y Brenin wrth y rhai a fyddo ar ei ddeheu-law, deuwch chwi fendigedigion fy Nhad, meddiannwch y deyrnas yr hon a baratoiwyd i chwi er pan seiliwyd y bŷd.

35. Canys bum yn newynog, a chwi a roesoch i mi fwyd: bu arnaf syched, a rhoesoch i mi ddiod: bum ddieithr, a lletteusoch fi.

36. Bum noeth, a dilladasoch fi: bum glaf, ac ymwelsoch â mi: bum yngharchar, a daethoch attaf.—*Morgan.*

Tybiwn fod yn anhawdd cael enghraifft a llai o wahaniaeth ynddi trwy gorff y Testament Newydd na'r uchod; ac hwyrach y gallesid dyfod o hyd i annhebygolrwydd mwy nag a geir yn yr un ganlynol, ond gwna y tro :—

Marc. xvi. 5, 6.

Yno ydd aethant *y mevvn* ir vonwent, ac y gwelsant wr-ieuanc yn eistedd o'r tu deheu, wedyr'r wiscaw mewn ystola gannaid: ac wy a ofnesont. Ac ef a ddyuot wrthynt, Nac ofnwch: caisio ydd ych Iesu o Nazaret, yr hwn a grogwyt: e gyuodes, ny*d* yw ef yma*n*: nycha y *man* lle y dodesent *vvy* ef.—*Salesbury.*

5. Ac wedi iddynt fyned i mewn i'r bedd hwynt hwy a welsant fab ieuangc yn eistedd o'r tu dehau wedi ei ddilladu â gwisc gannaid, ac a ofnasant.

6. Ac efe a ddywedodd wrthynt, nac ofnwch, ceisio yr ydych Iesu o Nazareth, yr hwn a groes-hoeliwyd, efe a gyfodes, nid yw efe ymma, wele'r man y dodasant ef.—*Morgan.*

Rhoddwn un enghraifft arall i'r un perwyl :—

Act. xvii. 22, 23.

Yno Paul a safodd ym-pervedd heol Mars ac a ddyvot, A wyr Atheneit *mi ach* gwelaf chwi ym-*pop peth*oll yn vawr eich goglyd ar y dywie. Can ys wrth ddyvot heibio, ac edrych ar eich gloch-wytae *y*· ceveis allor, yn yr hon ydd escrivenit, Ir Deo Anvvybodedic. Yr

22. Yna y safodd Paul yng-hanol Areopagus, ac a ddywedodd, ha wyr Atheniaid, mi a'ch gwelaf chwi ym mhob peth yn goel-fucheddol:

23 Canys wrth ddyfod heibio ac edrych ar eich addoliaeth, mi a gefais allor yn yr hon yr scrifennasid: I'r Dvw Yr Hwn

hwn gan hynny eb wybot ydd ych yn ei addoly, hwnw venagaf ychwy.—*Salesbury*

Nid Adwaenir: yr hwn yr ydych chwi yn ei addoli heb ei adnabod, hwnnw yr wyf fi yn ei ddangos i chwi.—*Morgan.*

I'r hwn sydd wedi arfer rhywfaint â chyfieithiad Salesbury, nid oes nemawr anhawsder i'w ddeall. Ond ar yr olwg gyntaf y mae yn ymddangos yn dra thywyll; ac nis gall cynnefindra oes symmud ymaith yr argraff a gaiff ei glogyrneiddwch ar y meddwl. Y mae ieithwedd Morgan, o'r ochr arall, mor llithrig fel nad oes dim ynddi i achosi i'r darllenydd dybied ei bod yn wahanol i wisg lenyddol yr oes bresennol. Credwn fod yn anhawdd gosod allan brif nodweddion orgraffyddol Testament 1567 yn well nag yng ngeiriau y Cymreigydd galluog, Gwallter Mechain:—"Pe rhoddid," meddai, "enw un o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dafawd ar waith Wiliam Salsbri yn llythyrenu geiriau Cymraeg—*Cloggrnach* a fydd yr enw cymhwysaf; o herwydd nad yw efe ond ambell waith yn lleddfu geiriau, trwy newid y llythyrenau gwreiddiol i'w deilliaid perthynol; megys *c* wreiddiol i *g*, *ngh*, ac *ch*; *p* wreiddiol i *b*, *mh*, a *ph*; yn ol y gair digyfrwng a fyddo yn blaenori—megys *c*aws, *ei g*aws, *fy ngh*aws, *ei ch*aws; a hyn oll yn ol teithi cynhenid y Gymraeg, ac arferiad cyffredin. . . . . Yn lle y treigliadau hyn, arferai W.S. y nod cyd-glwm (-) i arwyddo lleddfiad y lythyren wreiddiol i ei modd deilliadawl, fel y gwelir wrth ei eiriau a ganlyn:—vy-traet; vy-gweddiau; vy-dwylo; vy-calon; vy-gelynion; vy-bywyt; vy-poen; vy-brawt; vy-bron; vy-cerddet; vy-Dew; an-cyfion; an-dewiolion; cym-porth; cym-pwyll; ym-porth; ym-plith; y-cyt:—yn lle *fy nh*raed, *fy ng*weddion, *fy n*wylaw, &c."* Perthyn i'r rhanau a gyfieithiwyd gan Salesbury ei hun y mae y nodwedd uchod yn fwyaf arbenig; gan mai lled anaml y ceir Davies a Huet yn esgeuluso lleddfu y cydseiniaid gwreiddiol. Ond y mae rhai enghreifftiau i'w cael ganddynt hwy, megys:—

Davies.	*Morgan.*
Heb. i. 13.—yn stol ith traed	yn droed-faingc i'th draed
,, ix. 24.—bortreiad i'r gwir *cyssegr*	bortreiad i'r gwir gyssegr
1 Pedr i. 17.—Ac as gelwchi ef yn Tad	Ac os gelwch ef yn Dâd
,, iii. 19.—i'r esprydion *oedd* yn-carchar	i'r ysprydion yng-harchar
Huet.	
Dat. ii. 16.—a chleddey vy-geney	â chleddyf fyng-enau
,, ix. 6.—dynion y geisiant marfolaeth	dynion a geisiant farwolaeth
,, xiv. 14.—yn debic y Mab y duyn	yn debyg i Fab y dŷn

Ond nid ydyw yr hyn sydd yn rheol gan Salesbury amgen nag eithriadol gan Davies a Huet. Ac nid ydym wedi cyfarfod ag

* Gwaith Gwallter Mechain, vol. ii., pp. 207, 208.

enghraifft o gwbl yn Morgan o arfer y ffurfiau *fy-pobl*, *fy-traed*, a'r cyffelyb. Un o'i hoff ffurfiau ef ydyw defnyddio cyssyllt-nod rhwng yr arddodiad *yn*, a'r rhagenw meddiannol *fy*, â'r enw dilynol, megys *yng-enau*, *fyng-weision*. Y mae yn dilyn Salesbury i raddau helaeth hefyd mewn rhoddi sain galed *c* a *t* ar ddiwedd geiriau, megys:—unic, lloeric, o blegit, cyfot, gwaret; ac y mae yn arfer "Scrythyrau," "Scrifennyddion," ar yr un egwyddor eirdarddol a Salesbury, ond nid i'r un eithafion. Prin y mae Morgan i'w ganmol am ddyblu y cydseiniaid *m* ac *n* mewn geiriau nad ydyw eu tarddiad yn gofyn hyny; y mae ganddo *ymma*, *ymmaith*, *gorphennwch*; ond y mae yn dra naturiol yn y terfyniadau *buase*, *addawse*, *anfone*, *minne*, a'r cyffelyb, y rhai y mae yn dra thebyg oedd y ffurfiau a siaredid yn ei oes ef, fel yn ein dyddiau ninnau. Ond i fod yn gysson ag ef ei hun, dylasai ysgrifenu *pechode*, *pethe*, *amme* (ammeu), *aelode*, a'r cyffelyb; y rhai a ddefnyddia yn eu ffurf lenyddol bresennol. Pa fodd bynag, y mae yn defnyddio *e*myscaroedd, dystr*u*wia, *eusys* (eisoes), feddig, testiolaeth, gan fyned ar ol Salesbury. A rhaid addef nad ydyw bob amser yn unffurfiol, er ei fod yn tra rhagori yn hyn ar ei ragflaenwyr. Nid ydyw un amser yn dilyn Testament 1567 trwy ysgrifenu *ag* yn *ac*, *ei* yn *y*, *yr* yn *ydd*, *i'n* yn *y ein*, *ni* yn *ny*, *y rhai* yn *yr ei*, *yna* yn *yno*; ac nid ydyw, fel y gwneir gan Huet, yn rhoddi *y* yn lle *a* o flaen berf, megys:—"ar ddecfed rran or dinas y syrth*ioedd y* lavvr," ond a ddarllenir ganddo ef:—"a decfed ran o'r ddinas a syrthiodd i lawr."

Ond o ba le y cafodd Salesbury a Morgan eu horgraff? Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at yr hyn a ddywed Malkin yng nghylch cyfieithiad Thomas Llywelyn o Regoes, mewn perthynas i'r hwn yr ychwanega at y dyfyniad a roddasom yn flaenorol:—

Yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yn Gloddaeth, y mae llythyr ysgrifenedig oddi wrth Thomas Llywelyn, o Regoes, at y Dr. Richard Davies, yr ail Esgob Protestanaidd yn Nhŷ Ddewi, yn ei annog i gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg; ac yn rhoddi ychydig o hanes ei gyfieithiad ei hun. Yr Esgob clodwiw, trwy gynnorthwy William Salesbury, a gyfieithodd ac a gyhoeddodd y Testament Newydd yn y flwyddyn 1567. Ni ddywedir wrthym i'r Esgob Davies a W. Salesbury fenthyca cyfieithiad Thomas Llywelyn; ond y mae rhesymau cedyrn o blaid hyny. Os nad ydyw fy awdurdod yn fy ngham-arwain, y mae Cymreigiaeth Gwent a Morganwg yn drylawn trwy eu holl gyfieithiadau, parthed cystrawen, treigliad berfau, dull-ymadroddiad, a myrdd o nodweddion eraill—yn gymmaint fel nas gellir llai na rhyfeddu pa fodd y ceir yn y Testament Cymraeg cyntaf a argraffwyd gynnifer o neillduolion Gwenhwysaidd, os na chafodd cyfieithiad yr hen Fardd o Ystrad Dyfodwg ei arferyd a'i ddilyn yn helaeth trwy gydol y gwaith. Gwyneddwyr o enedigaeth

oedd yr Esgob Davies a William Salesbury, ac nid oes hysbysrwydd iddynt erioed gyfanneddu yng Ngwent na Morganwg, nac yn un ardal arall lle llefarir y Wenhwyseg. Ac y mae Testament argraffedig William Salesbury heddyw, ac erioed, gan y mwyaf yn annealladwy i drigolion Gwynedd.*

Ar awdurdod Iolo Morganwg y rhydd Malkin yr eglurhad hwn; ac yr oedd Iolo yn credu mai ychydig o allu llenyddol oedd i'w gael yn un man o'r tu allan i derfynau Deheudir Cymru. Ond yr ydym yn tybied nas gall yr eglurhad uchod fod yn gywir. Yn y lle cyntaf, fel y sylwa Gwallter Mechain, nid yw yn debygol y buasai gwŷr o ddysg a gonestrwydd Salesbury a Davies yn defnyddio gwaith Thomas Llywelyn heb gydnabod hyny.† Yn ail, dywed Malkin mai o'r Saesoneg—o gyfieithiad Tyndal—yr oedd Llywelyn yn cyfieithu; ond cawn ddangos eto fod Salesbury a'i gyd-lafurwyr yn defnyddio ffynnonellau mwy gwreiddiol. Yn drydydd, dywed y Dr. T. C. Edwards ei fod ef yn deall nad ydyw y llythyr sydd yn llyfrgell Mostyn yn cynnwys y cyhuddiad a ddygir gan Malkin; a phe buasai, fod yn gwbl ammhosibl i'r llyfr hwn ddyfod o ddwylaw neb amgen na Salesbury a'i gyd-lafurwyr.‡ Yn bedwerydd, y mae yn rhyfedd na fuasai y Dr. Thomas Llewelyn, awdwr "*An Historical Account of the British or Welsh Versions and Editions of the Bible*," yn gwneuthur rhyw grybwylliad am hyn wrth ymdrin ar Salesbury, ag ynteu fel y dywedir yn disgyn yn y bedwaredd âch o'r hen Fardd o Regoes. Yn bummed, y mae arddull tri chyfieithydd Testament 1567 yn amrywio gormod i ganiatau y dybiaeth nad oedd amgen nag ail argraffiad o waith Llywelyn, gydag ychydig gywiriadau. Yn wir, y mae yr holl amgylchiadau yng nglŷn â Thestament Salesbury yn profi yn ddigon amlwg mai ychydig wirionedd a ddichon fod yn haeriad Malkin. Ond ar dir orgraffyddol yn unig, y mae yn hawdd profi fod y tri chyfieithydd yn dilyn llythyraeth y Canol Oesoedd i raddau helaeth. Yn wir ychydig o wahaniaeth sydd rhwng Cymraeg Sieffre o Fynwy ag eiddo Salesbury, gyda'r eithriad fod y blaenaf yn ysgrifenu 6 yn lle *w*. Wele enghraifft o Frut Sieffre :—

Ac gwedy hynny map a anet yda6. ac ysef oed enw h6nn6 Lles vap Koel. ac gwedy mar6 y tat a chymryt o hona6 ynteu koron y teyrnas holl weithredoed da y tat a evelych6s ef eu gwneuthur. megys y dywedyt mae ef oed Koel. ac odyna ef a vynn6s keysyaw gwneuthur y dy6ed yn well noe dechreu. ac 6rth hynny kennadeu a ellygh6s ynteu hyt yn

* Malkin's Scenery, Antiq. & Biog. of South Wales, vol. i., p. 301.
† Gwaith Gwallter Mechain, vol. ii., p. 192.
‡ Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 79 (First Series).

Ruveyn at Eleuter Pap i erchy ydaϭ anvon attaϭ gwyr ffydlaϭn dyskedyc yg crystnogaϭl ffyd trϭy pregeth a dysc yr rey y galley ynteu credu y Cryst.*

Y mae yr enghreifftiau o ffurfiau orgraffyddol llenyddiaeth Gymreig o'r ddegfed i'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn dra lluosog yn Salesbury. Yn eu plith ceir,—*tat*, *map*, *cygor*, *anyd*, *gellwng*, *pawp*, *etwa*, *tract*, *ariant*, yn lle *tad*, *mab*, *cynghor*, *onid*, *gollwng*, *pawb*, *eto*, *traed*, ac *arian*, a'r cyffelyb. Nid ydyw y ffurfiau hyn mor gyffredin yn y rhanau a gyfieithiwyd gan Davies a Huet, ond eto y maent i'w cael ganddynt ar droion. Ysgrifenant *rrwn*, *rrain*, *kyfri*, *kenymi*, *ddoydet*, *trayan*, *creddyf*, yn lle *yr hwn*, *y rhai hyn*, *cyfrif*, *genym ni*, *ddywedyd*, *tair rhan*, a *chrefydd*. Yn y pethau hyn yr oedd ganddynt awdurdod hir-arferiad; a thrwy ddilyn yr aferiad hòno yr oeddynt yn ymdebygu i dafodiaith y Deheubarth. Ac fel y sylwa y Canon Silvan Evans, nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau eraill o'u blaenau:—"Yn nhafodiaith y Deheudir yr ysgrifenwyd *Cyfreithiau Hywel Dda*, y *Brutiau*, *Achau* a *Bucheddau y Saint*, y *Mabinogion*, y *Trioedd*, *Barddas*, yng nghŷd â'r amryfal gyfansoddiadau a geir yn *Ysgriflyfrau Iolo*, a llawer gyda hwynt; ac nid oes ond y peth nesaf i ddim o *ryddiaith* wedi ei ysgrifenu yn nhafodiaith Gwynedd hyd yn bur agos i amser y Diwygiad yn yr 16fed canrif."† Ond fel yr ydym wedi awgrymu eisoes, Salesbury sydd yn dilyn orgraff lenyddol y canrifoedd blaenorol yn fwyaf o'r tri. Diammeu eu bod oll yn ystyried y Ddeheubartheg henafol yr iaith lenyddol oreu; ac felly yr oeddynt yn ymdrechu ei dilyn. Ond yr oedd Huet, gan ei fod yn Ddeheuwr, yn gallu ysgrifenu fel y siaradai ei gyd-oeswyr; ac hwyrach mai efe o'r tri sydd yn ysgrifenu yn fwyaf naturiol. Yr oedd yr Esgob Davies wedi treulio rhai blynyddoedd yn y Deheudir, ac felly wedi cael peth mantais i ymgydnabyddu ag iaith y wlad, ond nis gallai fod mor gynnefin a Huet. Ac am Salesbury ei hun, nid oedd ganddo ef ond ysgrifenu, nid fel y siaradai y Deheuwyr, ond fel yr ysgrifenent rai oesau yn flaenorol.

Ond o ba le y cafodd Morgan ei orgraff? Yr ydym eisoes wedi crybwyll ei bod yn dra gwahanol i'r hon, neu, yn hytrach, y rhai, a geir yn Nhestament Salesbury. Yr unig lyfrau Cymreig, amgen na'r rhai sydd o'r un orgraff ag eiddo Salesbury, a gyhoeddwyd rhwng 1567 ac 1588, oedd dau gan y Dr. Gruffydd Roberts ac un yn Milan gan Morys [neu Maurice] Clynog. Yr ydym eisoes, yn y bennod gyntaf, wedi rhoddi enghreifftiau o

* Myv. Arch., p. 505. † Llythyraeth yr Iaith Gymraeg, tud. 7.

orgraff Gruffydd Roberts; ac yn bresennol ni a rhoddwn esiampl o orgraff M. Clynog, gan osod Morgan yn gyfochrog:—

Morys Clynog.	Matt. v. 3-10.	*Morgan.*
Deduyd yu'r tylodion o ysbryd, cans huyntuy pie teyrnas nefoed.	3.	Gwyn eu bŷd y tlodion yn yr yspryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.
Deduyd yu'r guaredigion, cans ynhuy a fedianan y daear.	4.	Gwyn eu bŷd y rhai galarus, canys hwynt a ddiddenir.
Deduyd yu rheini sy'n alar cās ynhuy a gan i cyfurio.	5.	Gwyn eu bŷd y rhai addfwyn: canys hwy a feddiannant y ddaiar.
Deduyd yu'r rhein ſy arnynt neuyn a ſyched cyfionder, cās nhuy a diuelir.	6.	Gwyn eu bŷd y rhai sy arnynt newyn a syched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.
Deduyd yur trugarogion, cans yntuy a gan drugared.	7.	Gwyn eu bŷd y trugarogion: canys hwy a gânt drugaredd.
Deduyd yu' rheini ſyd lan i calon, cans ynhuy a gan ueled duu.	8.	Gwyn eu bŷd y rhai glân o galon: canys hwy a welant Dduw.
Deduyd yu'r hedychuyr, cans; cant i galu yn feibion i duu.	9.	Gwyn eu bŷd y tangneddyf-wŷr: canys hwy a elwir yn blant Duw.
Deduyd yu 'rheini ſy'n cael i hyrlid ai blino er muyn cyfionder, canys Y nhuy pie teyrnas nef.*	10.	Gwyn eu bŷd y rhai a erlidir er mwyn cyfiawnder: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.

A seinio y geiriau yn y dyfyniad uchod o'r "Athravaeth" yn unol a'r arwydd (·) a geir o dan *d*, *l*, ac *u*, yr ydym yn cael *dd*, *ll*, a *w*; ac felly, can belled ag y mae fyno grym y rhai hyn a'r cwestiwn, nid oes gwahaniaeth amgen nag mewn ffurf rhwng Clynog a Morgan. Ond a gadael y rhai hyn o'r neilldu, y mae yn aros ddigon o nodweddion gwahaniaethol yn orgraff y ddau, fel nas gellir ystyried fod yr olaf wedi benthyca dim yn y ffordd hon gan y blaenaf. A gellir dyweyd yn gyffelyb mewn perthynas i orgraff Gruffydd Roberts, a phob ysgrifenwr Cymreig arall a ragflaenodd Morgan. Er gwaethaf ambell ddiffyg mewn dyblu y cydseiniaid, gellir ystyried Morgan fel ysgrifenwr tra unffurfiol. Ond gan nad ydym yn cael orgraff debyg i'r eiddo ef gan neb o'i flaen, y mae yn rhaid i ni ddyfod i'r casgliad anocheladwy iddo ffurfio un iddo ei hun, yr hyn oedd i gryn raddau yn ychwanegu at faintioli ei waith. Ffurfiodd yr orgraff hon gan dalu sylw arbenig i bêrseinedd, ond heb golli golwg ar eirdarddiaeth. Pa faint bynag o ddiffygion a ddichon fod yn ei sillebiaeth, yr ydym

* Athravaeth Gristnogavl, p. 55.

yn dra sicr mai efe o bawb o'i gyd-oeswyr oedd yn ysgrifenu debycaf i'r iaith lafaredig. Ac yn hyn o leiaf, y mae yr oesau dilynol, o'r Esgob Parry i waered, gydag ond ychydig o wahaniaeth mewn cymhariaeth, wedi cymmeradwyo ei wasanaeth. Efe oedd sefydlydd y gyfundrefn orgraffyddol bresennol, os iawn rhoddi yr enw cyfundrefn wrth yr hyn sydd mor annhrefnus ac amrywiol. Ond, ag eithrio orgraffau Idrison, Ieuan Glan Geirionydd, a *Chycaill yr Aelwyd*, fe sefydlwyd mwy o unrhywiaeth yn llythyraeth y Gymraeg trwy gyhoeddi y Beibl yn 1588 nag a welwyd yn ei hanes yn flaenorol.

Ond nid mewn orgraff yn unig y mae Salesbury a Morgan yn gwahaniaethu. Yr oedd yn rhaid i bwy bynag a ymgymmerasai â'r gwaith o ddiwygio Testament Salesbury gywiro ei eiriadaeth an-Nghymreigaidd. Un nodwedd ag sydd yn anurddo ei gyfieithiad mewn modd arbenig ydyw ei hoffder at ddefnyddio geiriau estronol, heb ond ychydig gyfnewidiad. Yn Matt. xxvii. 6, rhydd "Corban" (o'r Groeg Κορβᾶν) am y gair a gyfieithir gan Morgan yn "dryssor-dŷ," ond y mae Salesbury ar ymyl y ddalen, ac yn y testyn mewn manau eraill, yn gosod "tresordy" a "tresorfa." "Parabol" ydyw ei Gymreigiad fynychaf o παραβολή, ond nid oedd yn anhysbys o'r gair "damec," yr hwn a rydd yn gyffredin ar ymyl y ddalen. "Rhagrithwyr" ydyw gair Morgan am ὑποκριταί, ond yr unig gyfnewidiad a wnaed arno gan Salesbury oedd ei droi i "hypocriteit," neu "hypocritae"; tra y ceir ganddo "lledrithwyr," "ffugiolion," "rhagrthwyr," ac "ehudwyr," ar ymyl y ddalen. Y mae yn anhawdd genym feddwl mai "membranae" oedd y gair mwyaf dealladwy am μεμβράνα (2 Tim. iv. 13), ond rhoddodd Salesbury i ni ein dewisiad o ddau air arall ar ymyl y ddalen, sef, "memrwn" a "parsmente"; safodd Morgan yn y canol trwy ddefnyddio "membrwn." "Stafell" ydyw y gair a rydd Morgan am *cubiculum* a geir yn y *Vulgate* (Matt. vi. 6), ond gadawodd Salesbury ef yn "cuvicl," gan osod "stafel" a "siambr" ar ymyl y ddalen. Y mae genym rai enghreifftiau o hono yn rhoddi geiriau Cymraeg yn y testyn, ac yn eu hegluro (?) mewn geiriau estronol ar ymyl y dail. Rhag ofn na fuasai ei ddarllenwyr yn deall "genedigaeth" sydd yn y testyn (Matt. xiv. 5) rhydd "natalic" (o'r Lladin *natalitia*) ar ymyl y ddalen;* yn yr un bennod ceir "ar draet," a "vwydydd," y rhai a eglurir ar ymyl y ddalen trwy rhoddi "yn bedestric" *(pedibus)*, a "vitel" (*victus*). Y mae "gwisgoedd llaesion" yn eithaf dealledig, ond

* *Natalic*, nid *Nadolig*, a ysgrifenid fynychaf mewn cyssylltiad â'r dydd, yn gystal a charol, hyd ddechreu y ganrif bresennol.

ceisia Salesbury ei wneuthur yn eglurach trwy y gair "stolae" (Marc xii. 38); eglurir "rhwystrae" gan "sclandron" (Luc xvii. 1); ac yr ydym yn cael "*circumcisio*" am "enwaediat"; "calic" (*calix*) am "phiol"; "*presbiteri*" am "henaduriaid"; a "*loricæ*" am "lurigae." Ond y mae Morgan yn arfer geiriau hollol Gymreig yn lle y ffurfiau uchod. Pa fodd bynag, y mae genym rhai enghreifftiau pan y mae yntau yn mabwysiadu termau estronol Salesbury. Dywed Salesbury (Luc i. 57):—"Gwedy cyflawny temp Elizabet, y escor"; ac er ei fod yn rhoddi "amser" ar ymyl y ddalen, "tymp" a rydd Morgan, a hyny a geir yn yr holl argraffiadau dilynol o'r Testament Newydd. Nid ydyw Morgan ychwaith wedi ceisio cyfieithu "Raca," "Rabbi," "talent," na "proselit." Y mae yn cymmeryd y gair olaf oddi ar ymyl y ddalen yn Salesbury, fe allai am nad ydyw yn hoffi "i wneythy'r yn o'ch proffes *eich vnain.*" Y mae yn well ganddo hefyd "wneuthur yn llydan eu Phylacterau," gan ddilyn ymyl y ddalen yn Salesbury, yn hytrach na "llydany ei cadwadogion," fel y gwna'r olaf yn y testyn. Ac nid ydyw Morgan yn fwy Cymreigaidd na'r Esgob Davies wrth gyfieithu "*præpositi*" yn "preladiaid," yn lle "blaenoriaid." Ond, gydag ychydig eithriadau, y mae Morgan wedi bod yn dra gofalus i ddewis geiriau Cymreig ac i wrthod rhai estronol.

Y mae hoffder Salesbury at y Groeg a'r Lladin yn ei yru yn aml i roddi ffurfiau yr ieithoedd hyny ar eiriau oeddynt wedi eu cymmeryd i mewn i'r Gymraeg er ys llawer oes. Yr ydym yn cyfarfod ag "eglϬys" (Εκκλησία) ac "escob" (Επισκοπος) ym *Mrut G. ab Arthur*, yn gystal ag yn llawer o lenyddiaeth y Canol Oesoedd, ond y mae Salesbury yn ysgrifenu "eccles" ac "episcop," tra y mae Davies a Morgan yn arfer y ffurfiau cyffredin—"eglwys" ac "escob," neu "esgob." Yn lle "bedyddio" ysgrifena Salesbury "batyddio" (Βαπτίζω); a chawn "angelion" (Αγγελοι) yn lle "angylion"; "euangel" (Εὐαγγέλιον) yn lle "efengyl"; a "Christ" (Χριστὸς) yn lle "Crist." Yn yr un modd yn y Lladin, ceir "discipulon" (*discipuli*) am "ddysgyblion"; "colomben" (*columba*) am "colomen"; "popul" (*populus*) am "pobl"; "propwyt" (*prophet*) am "prophwyd"; "pericl" (*periculum*) am "perygl"; "pechat" (*peccatum*) am "pechod"; "lleo" (*leo*) am "llew"; "Dew" (*Deus*) am "Duw," a'r cyffelyb. Yn y rhanau a gyfieithiwyd gan Salesbury ei hun y ceir y ffurfiau hyn yn benaf; ond sonia yr Esgob Davies am "*horribil* ddiscwyl barn," ac am fyned "yn hyderus at *dron* y gras." Ond nid ydyw Davies, Huet, na Morgan, fel rheol yn Groegeiddio na Lladineiddio geiriau ag yr oedd gan y

Gymraeg er ys llawer dydd berffaith hawl iddynt. Amcan Salesbury yn ddiammeu oedd dangos eu tarddiad; ac i'r dyben hwnw yr oedd yn cymmeryd gafael yn y geiriau ac yn troi eu gwynebau yn ol, os goddefir y gyffelybiaeth, tua chyfeiriad eu tarddiad. Ac y mae yr olwg a geir arnynt yn bras-gamu tuag at eu hen gartrefi—yr ieithoedd Groeg a Lladin—yn dra digrifol, os nad yn chwerthinllyd. Nid o ddiffyg gwybodaeth o iaith ei wlad y gwnai hyn, sydd eithaf sicr; oblegid yr ydym yn cael ei fod yn defnyddio ffurfiau mwy cyffredin yma a thraw yn y Testament, a cheir rhai o honynt mewn gwisg fwy Cymreig yn ei Eiriadur; er enghraifft, cyfarfyddwn yno a "Dyw," "escop," "llew," a "popol"; y rhai sydd beth yn fwy Cymreigaidd na "Dew," "episcop," "lleo," a "popul." Yn Matt. xxiii. 29, y mae yn cyfieithu *monumenta* yn "monwenti" i wahaniaethu oddi wrth y gair blaenorol *sepulcra*, yr hwn a gyfieithia yn "beddae"; ond yn Ioan v. 28, y mae yn cyfieithu *sepulcra* yn "monwenti," tra y dengys ymyl y ddalen ei fod yn eithaf hysbys o'r gair "beddrodau," neu "medrodae" fel ei ceir ganddo ef. Pan yn defnyddio "porphor" (πορφυρα) fwy nag unwaith yn y testyn, gofala osod "purpur" ar ymyl y ddalen i ddangos ei berthynas hefyd a'r Lladin *purpura* (Marc xv. 17; Luc xvi. 19). Ysgrifenir y gair hwn gan Huet yn y ffurf Wenhwysaidd "pwrpwl" (Dat. xviii. 16); ond ceir "purpur" ar ymyl y ddalen. Nis gallwn lai na chredu fod Salesbury yn cario y gyfundrefn eirdarddol i eithafion. Nid oedd ychwaith angenrhaid am yr holl egluriadau hyn. A chymmeryd y gair "porffor" er enghraifft, yr oedd hwnw mewn arferiad er dyddiau Llywarch Hên o leiaf; oblegid dywed:—"Cynddylan Pywys *borffor* wych yt."* Rhyddhaodd Morgan ei gyfieithiad oddi wrth y ffurfiau mympwyol a chlogyrnaidd hyn. Os ydyw yn cadw rhai o ffurfiau geirdarddol Salesbury, megys,—"testiolaeth," "descyn," a'r cyffelyb; nid oes ynddo nemawr i beri i ni ammeu ein bod yn darllen Cymraeg pur. Y mae yn wir, fel y gellir meddwl, fod ynddo amryw o enwau ar bethau ag ydynt yn aros yn ieithoedd y gwledydd lle mae y pethau hyny i'w cael. Nid oedd y Cymry yn marchnata ym mheraroglau y Dwyrain, ac nid oeddynt yn hyddysg yn ei phwysau a'i mesurau. Mewn canlyniad, nid oedd ganddo ond dilyn Salesbury trwy Gymreigio yr enwau Lladin yn "thus" a "myrr," "anys" a "cwmin," a'r cyffelyb. Y mae yn wir fod ganddo "poetau," "philosophi," "meffau," "foledau," "ysgrubliaid," "furmurasant," "bostiais," pryd y buasai *beirdd*, *athroniaeth*, *gwallau*, *ffedogau*, *anifeiliaid*, *rwgnachasant*, ac *ymffrostiais* yn llawn cys-

* Myv. Arch., p. 87.

tal. Ac nid ydyw Parry wedi gwella llawer arno yn hyn, os ydyw o gwbl.

Ceir yn Nhestament Salesbury luaws o eiriau ag oeddynt wedi pasio o'r ieithoedd gwreiddiol i'r Saesoneg. Y mae yn wir fod cryn lawer o'r rhai a nodwyd i'w cael mewn rhyw ffurf neu gilydd yn yr iaith hòno; ond y mae yn dra thebyg fod Salesbury wedi eu cael yn uniongyrchol o'r ieithoedd gwreiddiol. Pa fodd bynag, y mae yn ymddangos fod Salesbury yn defnyddio rhai geiriau Saesoneg i gyfarfod â'r llygriad oedd yn cymmeryd lle ar yr iaith Gymraeg. Ceir ambell un ag sydd yn dangos y dylanwad a gafodd y Sacsoniaid ar y Gymraeg, pan yr oedd y bobl hyny yn aros ar y cyffiniau. Yn Luc xix. 30, dywed Salesbury yn y testyn, "Ewch i'r dref 'sy gyferbyn a *chvvi*," ond ar ymyl y ddalen am "dref" rhydd "wic." Gair o darddiad Sacsonaidd yw *wic* yn gyfystyr a *thref*, ac y mae yn cael ei gadw mewn amryw o enwau lleoedd yn Lloegr, megys *Wig*more, War*wick*, Ips*wich*, Nor*wich*, &c.* Y mae yr Esgob Davies (Heb. i. 10) yn cyfieithu:—"A'c, Tydi yn y dechreuad, arglwydd, a *g*roundwaleist y ddayar"; y mae Huet (Dat. xxi. 14, 19) yn defnyddio "gryndwal" yn lle "sail," a cheir yr un gair yn fynych ar ymyl y ddalen yn y rhanau a gyfieithwyd gan Salesbury, yr hon sydd enghraifft arall o ddylanwad y Sacsoniaid.† Y mae Morgan yn rhydd oddi wrth eiriau fel hyn, yn gystal ag oddi wrth y geiriau Seisonig canlynol:—

Salesbury.	*Saesoneg.*	*Morgan.*
Sygn [ymyl y ddalen,—sign, sein]	Sign	Arwydd
Temptation [ymprovedigaeth]	Temptation	Brofedigaeth
Alltar	Altar	Allor
Trwbler [chyntyroer, thallodr]	Trouble	Tralloder
Templ	Temple	Teml
Yscyrsio	Scourge	Fflangellu
Gwrtais	Courteous	Mwynaidd
President [Llywydd, Rhaglaw.]	President	Rhaglaw
Declarwyt	Declared	Eglurwyd
Absent [ymaith]	Absent	Absennol
Considera [ystyria]	Consider	Ystyria
Studea	Study	Ymddyro
Piler	Pillar	Colofn

* Nid ydym heb gofio fod *vicus* (Lladin) o gyffelyb ystyr; ond y mae gair Salesbury yn debycach i'r gair Sacsonaidd.

† Ceir "grwndwal pob iaith" mewn Awdl o eiddo Deio ap Ieuan Du (1460-1500). *Gorch. Beirdd Cymru*, tud. 169.

Salesbury.	*Saesoneg.*	*Morgan.*
Entrio	Enter into	Fyned i mewn
Ordr	Order	Urdd
Ordr	Ordain	Trefnu
Power	Power	Grym
Nasiwn [cenedl]	Nation	Cenedl

Salesbury o'r tri chyfieithydd Testament 1567 sydd fwyaf yn y camwedd hwn; er fod Davies a Huet yn arfer rhai geiriau Seisonig. Ond nid oeddynt wrth wneuthur hyn amgen na dilyn esiampl ysgrifenwyr eu hoes. Dywed y Dr. Gruffydd Roberts yn ei lythyr "Att y Cymru" o flaen y "Drych Christianogawl" fel y canlyn:—

Yn gyntaf ef a ryfeddir paham yn y llyfr hwn i'r wyf yn arfer o eirie Anghyfiaith, megys o eiriau Seisonig ac o eraill ni pherthynant i'r Iaith Gymraeg, heb law bagad o'r sawl nid ydynt Gymraeg rowiog; gan fy mod o'r blaen yn beio ar Gymru am nad oeddent yn ymgleddu'r Gymraeg. I atteb, hyn yw'r achos: nid oes bai ar y Gymraeg, ond ar ddynion yn y pwnge yma. Canys fy nghyngyd am meddwl yn benaf yn y llyfr hwn yw rhoi cyngor ysprydol i'r anysgedig; ac er mwyn cael gann y cyffredin ddeall y llyfr er daioni iddynt, mi a ddodais fy meddwl i lawr a cherr i bronnau hwy yn yr Iaith gyffredinaf a sathredicaf ymhlith y Cymru yr awr hon, canys pe buaswn i yn dethol allan hen eiriau Cymraeg nad ydynt arferedig, ni buase un ymusc cant yn deall hanner a ddywedaswn, er ei bod yn Gymraeg dda: am fod yr Iaith Gyffredin wedi i chymyscu â llawer o eiriau anghyfiaith sathredig ymhlith y bobl, a bod yr hen eiriau ar wir gymraeg wedi myned ar gyfyrgoll ai hebergofi. Amherthynas wrth hyn a fuaseu ymarfer o araith heb nemor yn i deall.

Hyun hefyd a wnaeth i mi yn y llyfr yma gydgymyscu geirieu'r deheudir a geiriau Gwynedd pan fyddant heb gyttuno, sef i gael o bawb o'r ddwy wlad ddeall y llyfr yma. . . . . .*

Yr oedd gan Salesbury berffaith hawl i ddefnyddio y geiriau cymhwysaf i osod allan feddwl y gwreiddiol. Os oedd yn methu a chael geiriau Cymraeg, nid oedd ganddo ond defnyddio y cyfryw a fuasai yn ateb y dyben oreu. Ond ei fod o dan yr angenrheidrwydd i arfer y bastardd-eiriau ag sydd yn anurddo cymmaint ar ei gyfieithiad a wrthbrofir yn ddigon eglur gan gyfieithiad Morgan. Os oedd Morgan yn gallu cael geiriau Cymraeg, paham nad allasai Salesbury yr un modd? Tueddu at ddarostwng yr iaith yn gyd-wastad â dealltwriaeth y bobl gyffredin yr oedd Gruffydd Roberts, a hyn ydyw *un* o nodweddion Salesbury; ond llwyddodd Morgan i ysgrifenu Cymraeg dealladwy heb ond ychydig gymmysgedd estronol. Tybiai Salesbury, fel Roberts,

* Dyfyngedig yn y *Traethodydd*, 1872, tud. 93.

fod yn ddyledswydd arno "gymyscu geirieu'r deheudir a geiriau Gwynedd," ac yr ydym yn gweled fod rhai o'i eiriau Seisonig yn swnio yn debyg i lygriadau a arferir yn y Deheudir y dyddiau hyn. Y mae ganddo "folesta," "ffusto," "ffest," "dowto," "disputo," "dastio," "damno," a'r cyffelyb, yn lle "blino," "curo," "gŵyl," "ammeu," "dadleu," "profi," a "damnio." Ond arfera hefyd amryw o eiriau eraill y gellir eu hystyried yn Wenhwysaidd, o ba rhai y rhoddwn ychydig enghreifftiau, gan eu dynodi â llythyrenau *Italaidd* :—

Salesbury.	*Morgan.*
Luc. xi. 7.—ny 'allaf *gwnnu* ai' rhoddy yty	ni allaf *godi* iw rhoddi i ti
Ioan xiii. 30.—ef aeth *yn y man y maes*	a aeth *allan yn ebrwydd*
Act. xiii. 29.—Ac gwedy yddwynt *gwplay* pob peth a escrivenesit o hano	Ac wedi iddynt *gwblhau* pob peth a'r a scrifennasid am dano
1 Tim. i. 8.—Nyni a wyddom, eisus *taw* da y gyfraith	Eithr nyni a wyddom *mai* da yw'r gyfraith
2 Tim. i. 17.—ac am *cafas*	ac a'm *cafodd*
Dat. i. 18.—ac y mae genyf yr *allwyddey* yffern a *myrfolaeth*	ac y mae gennif *agoriadau* uffern, a *marwolaeth*

Fel y mae yn naturiol meddwl, Huet sydd ym meddu ar fwyaf o nodweddion y Ddeheubartheg. Y mae yn ysgrifenu "hoyl" yn lle "haul," "doy" yn lle "dau," "doyddeng mil" yn lle "deuddeng mil," "bowyd" yn lle "bywyd"; ond nid ydyw bob amser yn gysson ag ef ei hun. Un o hoff eiriau Huet ydyw "cwny"; ond ceir "codi" ar ymyl y ddalen. A phan y defnyddir "codi" yn y testyn gan Salesbury, rhydd "cwny" gyferbyn er budd y Deheuwr. Ar ymyl y ddalen y ceir mwyaf o eiriau Gwenhwysaidd a Deheubarthol yn Salesbury, tra yn y testyn y ceir hwynt amlaf yn Huet. Rhoddwn yma rai o'r geiriau ymyl-ddalenol o'r dosparth a nodwyd :—

Salesbury.		*Morgan.*
Testyn.	Ymyl-ddalen.	Testyn.
Gwynhay	Canny, gwyn-galchy	Gwyn-galchu
Claddedigaeth	Aggladd	Claddedigaeth
Descend ar vrys	Dyre i lawr yn glau	Descyn ar frys
Ddwy hatling	Dau vitym, dau dipyn, dryllyn, getyn	Ddwy hatling
Chwerw	Dost	Chwerw
I wared	Obry	I wared
Vywyt	Vuchedd, hoydel	Fywyd
Ymddiddan	Hwedleu	Llefaru
Yn ebrwydd	Ar frys, chwipyn	Ar frys

	Salesbury.	*Morgan.*
Testyn.	Ymyl-ddalen.	Testyn.
Cyfryw	Suwt	Cyfryw
Nain	Vam-gu	Nain
Ddamunwn	Buchwn, rybuchwn*	Ddymunwn

Yr ydym yn credu fod y geiriau ymyl-ddalenol uchod, yng nghyda llawer eraill a geir yn Nhestament Salesbury, mewn arferiad y dydd hwn mewn rhyw ranau neu gilydd o'r Deheubarth, ond nid ydyw Morgan un amser yn eu defnyddio. Y mae hefyd yn ymgadw rhag amryw o dermau eraill ag sydd ar lafar gwlad ym Mhywys; er enghraifft :—Luc xiii. 21—dywed Salesbury, yn y testyn :—"Cyffelyp yw i surdoes, 'rhwn a gymrei wreic, ac ei cuddiei mewn tri chibened o vlawd, yn y surei oll." Ar ymyl y ddalen y mae yn egluro pa beth sydd i feddwl wrth "tri chibened o vlawd" er budd pobl sir Drefaldwyn, trwy osod "phecked, o fflwr, bellieid." Ond y mae Morgan am wneuthur yr adnod yn fwy dealledig i drigolion Gwynedd, ac yn rhoddi "tri mesur o flawd." Gair digon cyffredin ar lafar gwlad ym Maldwyn ydyw "ffardial," neu "ei bac a'i ffardial" fel y dywedant; ac y mae Salesbury yn gosod hwn gyda dau air arall i egluro "beichiae" (Morgan—"beichiau") yn Act. xxi. 15. "Twrn da" sydd ymadrodd arall arferedig yn sir Drefaldwyn, a'r hwn a roddir gan Salesbury (Philemon 14) ar ymyl y ddalen i egluro "ddaioni," a'r gair olaf a ddefnyddia Morgan. Yr oedd Salesbury yn gofalu am briod-ddulliau pob rhan o Gymru yn eu tro. Yr oedd yn troi "mynydd" yn "monyth" ar brydiau fel y gallasai pobl Tŷ Ddewi ei ddeall; a dichon mai er cyfleusdra i'r un rhai yr oedd yn ysgrifenu "pa fodd" yn "p'odd," "tŷ" yn "tuy," "Duw" yn "Dew," a'r cyffelyb. Ffurfiau Deheubarthol hefyd ydyw y rhai canlynol a ddefnyddia Huet :—"yr Oen y las" = *a laddwyd*; "myrvolaeth" = *marwolaeth*; "i vyny*dd* yma" = *i fyny yma*. Defnyddir "i vyny*dd*" yn fynych yn Nhestament Salesbury yn lle "i fyny," ond y mae yr *dd* derfynol yn argraffedig mewn llythyrenau gwahanol. Y mae y Testament yn llawn o eiriau wedi eu hysgrifenu er mwyn cyfarfod â gwahanol ranau o'r wlad, megys :—"testio*laethu*," "ddarlle*nir*," "anerch*iad*," voddh*ant*," "*ch*yflawy," "am*plao*," "*ym*wybot," ac ugeiniau o rai eraill; y rhai y gellir eu darllen yn llawn fel y maent uchod, neu ynte yn *testio*, *ddarlleir*, *anerch*, *voddant*, *cyflawny*, *amlao*, ac *wybot*. Ac yr un modd gydag "i vyny*dd*," yng nghyda geiriau eraill cyffelyb, y rhai a ysgrifenwyd

* Y mae Edmwnd Prŷs yn defnyddio "*puchais* fod yn adyn," yn ei "Englyn i Bechod."

er mwyn hwylusdod, yn ol tyb y cyfieithwyr, i drigolion Dê a Gogledd.

Gwahaniaeth arall rhwng Salesbury a Morgan ydyw ymlyniad y naill wrth eiriau llenyddol y Canol Oesoedd a'u gwrthodiad gan y llall. Yr ydym wedi methu a chael allan fod y fath eiriau a "oruc" = *wnaeth*; "gigle" = *glywodd*; "dref tad" = *etifeddiaeth*; "amobrydd" = *publican*; a "Coelvain" = *Efengyl*, wedi gor-oesi yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Perthynent i lenyddiaeth fwy boreuol o lawer nag amser Salesbury, ac nid ydym yn cofio am neb wedi eu defnyddio ar ei ol. Y mae yn wir y gellir eu cael mewn Geirlyfrau, ond nid ydynt mewn arferiad ar lafar nac mewn ysgrifen. Gwnaeth Morgan ymaith â hwynt yn hollol, yn gystal a "dabre" = *tyred*; "gawri" = *bonlleſ*, *gwaeddi*; "nycha" a "syna" = *wele*; "mwnwgl" = *gwddwg*, neu *gwddf*. Y mae genym enghraifft o'r olaf yn cael ei gadw yn *Pont Mwnwgl-y-llyn*, ar ddylifiad Llyn Tegid i'r Ddyfrdwy, ger y Bala. Yr ydym yn cael ein cyfeirio gan y Dr. T. C. Edwards at rai geiriau a arferid gan Salesbury mewn ystyron gwahanol i'r rhai sydd iddynt yn bresennol.* Un o'r cyfryw ydyw "câr," nid perthynas, ond cyfaill "i'r publicanod." Rhydd Salesbury ddau ystyr i'r gair "prudd"; un yn yr ystyr a roddir genym ni, a'r llall yn gyfystyr â "call" (*prudent*):—"A phemp o hanynt oedd yn bruddion, a phemp yn ynfydion." (Matt. xxv. 2). Y mae i'r gair "maddeu" ystyr wahanol i'r un presennol:—"pwy bynac a vaddeuo ei wraig" (Matt. v. 31); "Crist a vaddeuawdd yr yspryt ar y groes" (Matt. xxvii. 50); "maddeusont y llong i'r mor" (Act. xxvii. 40); ond yn ol Morgan, *gollwng* y wraig a'r llong sydd gywir, ac *ymadael* a'r Yspryd a wnaeth Crist. Noda hefyd y gair "praidd" (o'r Lladin *praeda*), yr hwn a rydd Salesbury yn lle "yspail." Y mae yn bosibl cyfeirio at amryw eraill. Yr ydym ni yn defnyddio "cyfoeth" yn yr un ystyr ag y mae'r Sais yn arfer y gair *riches*; ond y mae gan Salesbury ystyr arall iddo, sef "ardal," neu "wlad." Er enghraifft (Act. xxiii. 24) ceir:—"Velly wedy daroedd ir President ei ddarllen, a' gofyn o ba gyvoeth ydd *han*oedd." Y mae Salesbury yma yn dilyn y *Brutiau* y rhai a ysgrifenwyd pan yr oedd "cyfoeth" yn cael ei ystyried yn gyfystyr â "gwlad"; ond y gair olaf a geir gan Morgan. Gair arall ydyw *plwyf*, yr hwn a ddefnyddia Salesbury yn gyfystyr â "phobl," ac felly Dafydd Ddu o Hiraddug yng Nghân Zacharïas (Luc i. 68):—

Bendigaid fo Duw arglwydd pobl yr Israel
Gan gofwyawdd a phrynawdd ei *blwyf* yn ddiwael.†

* Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., p. 78. † Myv. Arch., p. 372.

Y casgliad yr ydym yn dyfod iddo wrth gymharu cyfieithiad 1567 â'r un yn 1588 ydyw, fod y blaenaf wrth geisio boddhau pawb wedi methu boddhau neb; ac fod yr olaf wrth foddloni ar naturioldeb wedi llwyddo. Nid oedd Salesbury yn ysgrifenu fel y siaradai pobl Llanrwst, a phrin y meddyliwn y gwyddai pobl Aberconwy beth a feddyliai yr Esgob Davies wrth "chwant mwnws," "madws i mi derfynu," a "Rrwn ydoedd ffygur tros yr amser kydrychol," a'r cyffelyb. Fe allai mai y mwyaf naturiol o dri chyfieithydd Testament 1567 ydyw Thomas Huet, yr hwn "a translatoedd oll text yr Apocalypsis yn ieith ei wlat." Am yr un rheswm, sef ei fod yn defnyddio iaith ei wlad ei hun, y mae cyfieithiad Morgan yn llithrig a dealladwy. Tafodiaith Penmachno a geir yn rhedeg trwy holl gyfieithiad Morgan; ac y mae erbyn hyn wedi dyfod yn iaith glasurol ym mhob man lle darllenir y Gymraeg. I'r geiriadurwr y mae Testament Salesbury yn un o'r llyfrau mwyaf difyr; oblegid ceir enghreifftiau ynddo o greu, traws-ffurfio, ac adgyfodi pob math o eiriau. Yn wir, rhyw fath o eiriadur ydyw; o leiaf, y mae yn haws gweled y geiriadur ynddo na'r Testament. Gellir dyweyd fod Salesbury yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg i ieithyddiaeth yr hyn oedd y Dr. Owen Pughe yn nechreuad y ganrif bresennol. Wrth ddarllen Beibl Morgan nid oes neb yn meddwl am eiriadur, gan fod y geiriau mor naturiol ag eiddo'r fammaeth. Ystorfa eiryddol ydyw cyfieithiad Salesbury, ond adeilad cyfluniaidd ydyw eiddo Morgan. Y defnyddiau sydd yn dyfod i'r golwg gan Salesbury, ond ceir y dodrefnyn wedi ei orphen a'i gaboli gan Morgan. Ysgrifenai y naill iaith wneuthuredig, a'r llall yr iaith a ddyferai oddi ar wefusai y bobl yn ei glywedigaeth. Dewisodd Morgan orgraff fwy syml ac unffurfiol, gochelodd eiriau estronol ac anarferedig, a chyfyngodd ei hun at dafodiaith un rhanbarth; a thrwy hyny y llwyddodd.

Ond rhaid cofio fod ganddo ef fanteision nad oeddynt gan ei ragflaenoriaid. Yn y lle cyntaf, yr oedd yn alluog i dynu gwers oddi wrth arbrofion (*experiments*) Salesbury. Yr oedd wedi gweled mai nid trwy lunio iaith gymmysg y byddai debycaf o gael ei ddeall; ac nad oedd o nemawr ddyben yn yr oes hòno rhoddi "pob gair a dybiwyt i fod yn andeallus, ai o ran llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y devnydd, wedi ei noti ai eglurhau ar 'ledemyl y tudalen gydrychiol." Felly, pan y mae gan Salesbury bedwar neu bump o eiriau ar ymyl y ddalen i dynu sylw oddi wrth y testyn, nid oes gan Morgan yr un. Dewisodd Morgan y geiriau goreu yn ol ei allu a'i wybodaeth, a gadawodd rhwng y

darllenydd a'r canlyniad. A chytunir fod ei ddewisiad wedi bod, ar y cyfan, yn lled foddhaol.

Mantais arall a gafodd Morgan ar Salesbury oedd, fod y naill yn medi o ffrwyth llafur y llall. Nid oedd i Salesbury ragflaenydd, mewn canlyniad yr oedd o dan yr angenrheidrwydd o greu geiriau newyddion. Y mae hyn yn dyfod i'r golwg yn benaf yng nglŷn â thermau duwinyddol. Ac os na fabwysiadwyd y rhai hyn ond yn anaml gan Morgan, yr oedd wedi cael mwy o amser i ystyried eu anghydweddiad â theithi y Gymraeg. Y mae yn wir fod Salesbury wedi cael blynyddoedd o brofiad fel cyfieithydd, ac mewn cyfieithu llenyddiaeth ag oedd yn gofyn termau duwinyddol. Yr ydym eisoes wedi gweled iddo gyhoeddi rhanau o'r Testament Newydd mor gynnar a'r flwyddyn 1551. Ond fel rheol, pan y mae dyn wedi mabwysiadu ieithwedd iddo ei hun, y mae yn dra anewyllysgar i weled unrhyw ddiffygion ynddi. Yr oedd yn hoffi "cyfodedigaeth" yn well nag "adgyfodiad"; "cyssiliat" yn lle "cymmod" ac "iawn"; "ymddiddanwr" (ymyl y ddalen = "ddadlewr," "negeswr") yn lle "eiriolwr"; ac y mae "mabwysiad" mewn man arall yn "mabwysiaeth," gyda "mabwys" ar ymyl y ddalen. Yr oedd yn gwybod beth oedd "edifeirwch," ond cyfieithiai yr un gair mewn manau eraill yn "emendaat buchedd," "gwellat buchedd," a "dyfod i'r iawn." Arfera y gair "carthu" yn dra mynych yn lle "glanhau." Ceir enghraifft ryfedd o hyn yn Act. x. 15:—"Y pethae a garthodd (ymyl ddalen = "lanhodd," "purhaodd") Dew, na chyffredina (= "haloga") di." Yma y mae Morgan yn pigo ei eiriau, rhai o'r testyn ac eraill oddi ar ymyl y ddalen, yn Nhestament Salesbury:—"Y peth a lanhâodd Duw na alw di yn gyffredin." Y mae golwg lled drafferthus ar Salesbury yn ceisio Cymreigio μονογενής = "unig-anedig fab." Wele ychydig o enghreifftiau, gan eu cymharu ag eiddo Morgan:—

Salesbury.	*Morgan.*
Luc. vii. 12.—a' nycha, y ducit allan vn marw '*sef*' vn-map mam	wele un marw a ddygid allan, yr hwn oedd unic fab ei fam
,, ix. 38.—can ys vy vn-map *y gyd* ydyw	canys fy unic-anedig yw
Ioan. i. 14.—vegis gogoniant vn ganedic *vap yvvrth* y Tad)	megis gogoniant yr unic-ganedic [Fab yn dyfod] oddi wrth y Tad
,, i. 18.—yr vn-Map-geni, yr hwn 'sy ymmonwes y Tat	yr unic-enedic Fab, yr hwn sydd ym monwes y Tâd
,, iii. 16.—Can ys velly y carodd Duw y byt, yn y roddes ef ei vnig-enit vap	Canys felly y cârodd Duw y bŷd, fel y rhoddodd efe ei uni-genedic fab
,, iii. 18.—Enw yr vnigenit vap Duw	enw uni-genedic fab Duw
Davies.	
Heb. xi. 17.—ay vn mab a offrymodd	ai unic fab a offrymmodd

Y mae ychydig—ond ychydig ydyw—o wahaniaeth orgraffyddol yn y gair hwn gan Morgan, ond nid ydyw ddim i'w gymharu

â'r ansicrwydd a deimlai Salesbury gyda golwg ar y dull goreu i osod cynnwysiad y gair gwreiddiol mewn Cymraeg. Yn yr enghreifftiau a geir yn Efengyl Luc, y mae yn ysgoi y dyryswch trwy adael "ganedig" allan. Nid oedd o unrhyw bwys, mewn ystyr athrawiaethol, pa un a oedd y rhai y cyfeirir atynt yno wedi cael meibion eraill ai peidio. Ond pan y mae yn dyfod i son am y berthynas neillduol a fodolai rhwng Crist a'i Dad, y mae yn teimlo fod yn rhaid iddo gael y "ganedig" i mewn yn rhyw ben i'r gair, ac yna y mae yn ei gynnyg mewn amrywiol ddulliau. Ond y mae Morgan, gydag eithrio yr enghreifftiau cyntaf a roddasom o Salesbury, a'r un a geir gan yr Esgob Davies, yn trwsio ychydig ar "vn ganedic vap" Salesbury, ac yn ymgadw ato. Hefyd, y mae Morgan yn llawer mwy hapus wrth gyfieithu πρωτότοκος na'r un o'i ragflaenwyr. Ei air ef ydyw "cyntafanedig," ond y mae Salesbury yn gosod "gyntenid" (Rhuf. viii. 29; Col. i. 15); Davies (Heb. xii. 23) yn "blaen anedigolion," a Huet (Dat. i. 5) yn "yr enedigaeth cynta" (ymyl y ddalen = "cenedledigeth").

Gallasem ychwanegu enghreifftiau bron yn ddirif i ddangos fel y mae Morgan weithiau yn dewis, bryd arall yn gwrthod, ac yn aml yn gwella rhyw faint ar eiriadaeth ei ragflaenoriaid. Ond can belled ag y mae priod-ddulliau y Gymraeg yn y cwestiwn, nid oes neb yn dadleu nad Morgan a fu fwyaf ffortunus. Pa beth bynag a ddywedir am arddull Maurice (neu Morys, fel y myn rhai ei alw er ei waethaf) Kyffin ei hun, y mae yn rhaid addef y gwyddai rhywbeth am iaith ei gyfoedion. Ac fel hyn y mae ef yn ysgrifenu at yr "hawddgar ddarllenyd" o flaen ei *Ddeffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, am deilyngdod y ddau gyfieithiad :—

> Doctor Wiliam Morgan a gyfieithodd y Beibl drwyddi yn hwyr o amser; gwaith angenrheidiol, gorchestol, duwiol, dyscedig; am yr hwn ni ddichon Cymry fyth dalu a diolch iddo gymaint ag a haeddodd ef. . . . . E ddarfuassid cyfieithu'r Testament newydd ynghylch yr wythfed neu'r nowfed flwyddyn o Deyrnas eyn harglwyddes frenhines Elizabeth, ond yr oedd cyfled llediaith a chymaint anghyfraith yn yr ymadrodd brintiedig, na alle clust gwir Gymro ddioddef clywed mo'naw'n iawn. Yn-nhal y Testament hwnnw y gwelais i lythur duwiol dyscedig at y Cymry, o waith y gwir barchedig Dâd Richard Escob Meniw [Mynyw] i'w twyso nhwy i adnewyddiad yr hên ffydd gatholic a goleuni Efengyl Crist: yr hwn lythyr a scrifennodd y doededig Escob mewn Cymraec groyw, hyfedr, ymadroddus, a di-ammeu wneuthur onaw lês mawr i bob Cymro a'i darllenodd.*

* Dyfyngedig o Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 92; ac os oes gwallau yn y dyfyniad, nid y ni sydd gyfrifol.

Y mae arnom awydd, cyn terfynu ein sylwadau ar nodweddion ieithyddol y cyfieithiadau, gwneuthur un sylw mewn perthynas i'r hyn sydd yn rhedeg trwy ein meddwl wrth edrych trwyddynt. I'n tyb ni, y mae yr unffurfiaeth ag sydd i'w ganfod ym Morgan, o ran orgraff ac arddull, yn ein cadarnhau yn y syniad mai gwaith yr un gŵr ydyw y cyfan. Y mae hyn yn wir am yr Hen Destament yn gystal a'r Newydd. Yr ydym eisoes wedi addef fod ei orgraff yn amrywio ryw ychydig yn achlysurol. Ond nid ydyw yr amrywiadau i'w canfod mewn unrhyw ranau neillduol, ond yn hytrach yn rhedeg trwy yr oll o'r gwaith. Pe cawsem ffurfiau neillduol yn llyfr Job, dyweder, ac eraill yn yr Efengylau, ac eraill drachefn yn rhai o'r Epistolau, buasai yn ddadl gref fod y gwaith wedi cael ei ranu rhwng gwahanol bersonau. Ond nid felly y mae. Ceir "gorchymmyn" ac "ymaith" weithiau gydag un, bryd arall gyda dwy, *m* yn yr un bennod. Diffyg gofal y cyfieithydd neu wall y wâsg ydyw y rheswm dros hyn yn ddiau. Y mae Salesbury, Davies, a Huet, o'r ochr arall, yn gwahaniaethu mewn orgraff ac ieithwedd, fel yr ydym i ryw raddau wedi dangos. A chredwn, pe na buasem wedi cael ein hysbysu ar ymyl y dalenau pa ranau a wnaeth y naill a'r llall, y buasem yn alluog i'w nodi allan gyda gradd o sicrwydd. Y mae y Proffeswr H. Williams, Bala, yn ei nodiadau rhagorol ar y cyfieithwyr Cymreig, yn sylwi i Salesbury, nid yn unig gyfieithu y rhanau o'r Testament Newydd a briodolir iddo, ond hefyd yr "Argumentau" a'r "cynnwysiadau" a berthynent i'r rhanau a gyfieithwyd gan yr Esgob Davies a Thomas Huet. Dywed :—

> Y mae ôl y cyfieithiad Saesonaeg hwn,* meddaf eto, ar bob tu dalen o'r Testament Cymraeg cyntaf. Edrychwn, i ddechreu, ar "Yr Argument" sydd o flaen pob llyfr. Bum I yn hir yn ceisio d'od o hyd i darddiad y rhai hyn, wedi fy nghamarwain gan y cyfeiriad at y Lladin ar wyneb-ddalen Testament Salesbury i chwilio Jerome, Erasmus, a Beza, ac eraill. Ond wedi cael hen gopi arall amgen na'r un oedd genyf o'r blaen o Fibl Geneva, dyna hwy oll yn eglur : mae pob un yn gyfieithiadau o'r "Argumentau" sydd yn hwn, ac wedi eu cyfieithu, fel y dangos yr orgraff a'r geiriad, gan William Salesbury, hyd yn nod yn y rhanau oedd yn waith Dr. Davies a Thomas Huet. Heb law hyn, mae y "cynnwysiad" o flaen pob pennod wedi ei gyfieithu o'r un man, air yn air, ac eto gan Salesbury, drwy yr oll o'r Testament Newydd.†

Er mwyn cyfnerthu y gosodiad hwn o eiddo Mr. Williams, goddefer i ni ddychwelyd am eiliad at ffurfiau orgraffyddol y tri chyfieithydd. Ac er mwyn hwylusdod gosodwn y dalen ganlynol o'u neillduolion :—

* Beibl Geneva. † Y Drysorfa, 1888, tud. 127.

Salesbury.	*Davies.*	*Huet.*
Byt	Byd	Byd
Duw, Dyw, Dyvv, Dew, Devv, a Deo	Dyw, Duw	Dyw (ceir Duw un waith yn unig)
Diaconieit	Deconiaid	——
Eccles	Eglwys	Eglwys
Episcop	Escob	——
Euangel	Efengil, Evengel	Euengel
Lleo	Llew	Llew
Llyver, llyuer, a llyfer	Llyfr	Llyfr, Llyvr
Map, mab	Mab, map	Mab
Moysen	Moyses, Moses	Moysen
Offeiriait	Effeiriaid, offeiriaid	Effeiriaid
Popul	Pobl	Pobl
Paul	Pawl	——
Propwyt, prophwyt	Proffwyd	Proffwyd
Seithfet	——	Seythfed
Tat, tad	Tad	Tad
Templ	——	Temel
Tuy	Ty	——

Yn awr, nid ydym yn cyfarfod a'r ffurfiau Daviesaidd a Huetaidd byth yn yr "Argumentau" a'r "cynnwysiadau" ag sydd yn perthyn i'w gwaith hwy, ond y mae y rhanau hyny yn cael eu britho gan y ffurfiau Salsbriaidd, y rhai nid ydynt i'w cael un amser yn y testyn. Y mae hyn yn dra awgrymiadol, ac yn myned ym mhell i brofi gosodiad y Proffeswr Williams. Y mae hyn yn cael ei gadarnhau drachefn yn y ffaith mai "Deddyf" ydyw hoff air Salesbury am *νόμος*, tra mai y gair a arferir gan Davies ydyw "cyfraith." "Deddyf" a geir yn yr "Argumentau" a'r "cynnwysiadau" i lyfrau Davies, a "chyfraith" sydd yn y testyn. "Enifel" ydyw y gair a rydd Huet am *θηρίον* yn y testyn, ond yn y "cynnwysiadau," ag eithrio mewn dau fan (pen. iv. a v., lle ceir "aniuail") "bestvil" a roddir. Y mae y Dr. Davies yn cyfieithu yr un gair (Heb. xii. 20) yn "'nifail"; ond yr ydym yn ei gael yn y rhif luosog gan Salesbury (Tit. i. 12) yn "vestviloedd," gydag "aniveilieit" ar ymyl y ddalen. Ymddengys i ni mai gair arferedig gan Salesbury ydyw "bestvil," yn gystal a "deddyf," yr hyn sydd yn ychwanegu at y prawf orgraffyddol mai efe oedd cyfieithydd yr "Argumentau" a'r "Cynnwysiadau." Pe buasai amser a gofod yn caniatau, gallesid yn ddiammeu ychwanegu at yr enghreifftiau uchod.

Ni ryfeddem ychwaith na fu gan Salesbury ran, o leiaf, yn y nodiadau ymyl-ddalenol a geir yn y rhanau a gyfieithwyd gan Davies a Huet. Fe welir nad ydyw y nodiadau o fewn llawer mor lluosog yn eu gwaith hwy ag ydynt yn y rhanau a gyfieithwyd ganddo ef ei hun. Ond y mae llawer o'r rhai a nodwyd, feddyliem, yn dwyn ei ddelw ef mewn orgraff a geiriadaeth. Ac yr ydym hefyd yn canfod ôl ei ysgrifbin ar ymyl y dalenau yn "Epistol E.M. at y Cembru." "Pobl y Testament newydd" a geir yn yr "Epistol," ond "Popul" sydd ar ymyl y ddalen. A phan y dywed yr Esgob mai yr unig ran o'r Ysgrythyrau a welodd efe erioed yn Gymraeg oedd Pum' Llyfr Moses yn nhŷ ewythr iddo, dywedir ar ymyl y ddalen :—"Cyffelip mae Gruff. ap Ieuan ap Lln. Vachan y mae ef yn ei veddwl." Ni fuasai yr Esgob yn ysgrifenu yn y dull hwn am dano ei hun na'i ewythr. Y casgliad naturiol oddi wrth hyn ydyw i William Salesbury olygu yr oll o'r gwaith, a chyflenwi y rhan luosocaf o'r nodiadau, nid tra yn aros yn Abergwili gyda'r Esgob, neu buasai yn cael cyfleusdra i ofyn iddo yng nghylch ei ewythr, ond yn ei gartref ei hunan yn y Plas Isaf; a rhai o honynt, fe allai, pan yn arolygu 'r gwaith trwy'r wâsg yn Llundain.

Fel yr ydym yn gweled, y mae yn bosibl peri i hen lyfrau fel hyn ddyweyd llawer o hanes yr "amser gynt" wrthym. Dywed Testament Salesbury wrthym am yr ymdrech a wnaed ganddo ef a'i gyd-weithwyr i osod sylfaen gwybodaeth o'r Grefydd Gristionogol i lawr yng Nghymru. Yr ydym yn canfod eu hymdrechion i gasglu, i barotoi, a chaboli'r defnyddiau. Ac y mae pob un o honynt wedi gadael ei argraff ei hun ar ei waith. Nid ydyw y meini mewn un modd yn dangos fod y gweithwyr yn feistri ar y gelfyddyd o naddu; ond, fel y cawn ddangos eto, gwnaed gwaith hollol onest a didwyll. Dengys Beibl y Dr. Morgan, o'r ochr arall, gynnydd amlwg mewn saerniaeth. Gwnaed detholiad trwyadl o'r hen ddefnyddiau, ychwanegwyd atynt o'r newydd, a chafwyd adeilad ar gynllun llawer mwy rhagorol, ac wedi ei orphen yn ddestlusach, na'i ragflaenydd. Nid oes yn hwn ôl ond un gweithiwr yn unig. Pa faint bynag a harddwyd arno gan gynion ysgeifn y Dr. Gabriel Goodman ac eraill, y mae yn amlwg fod eu gwaith yn rhy ddibwys i adael un argraff weledig. Fe ddichon fod Testament Salesbury yn llawn mor ddyddorol i'r ieithyddwr, ond Beibl Morgan ydyw y mwyaf buddiol i'r gwerinwr Cristionogol; y mae y blaenaf yn werthfawr o ran ei hynodrwydd, a'r olaf o ran ei ddefnyddioldeb.

Adran II.—Ffynnonellau, neu Ddefnyddiau, Cyfieithiadau Salesbury a Morgan.

Dywedir ar y wyneb-ddalen i Destament Salesbury ei fod "gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith, 'air yn ei gylydd o'r Groec a'r Llatin." Ond nid ydyw Morgan yn hòni iddo ef, can belled ag y mae y Testament Newydd yn y cwestiwn, wneuthur mwy na diwygio y cyfieithiad hwnw "oddi wrth yr arddull wallus oedd yn ei anurddo gymmaint." Wrth gwrs, nid ydym i olygu wrth hyn nad oedd Salesbury a'i gyd-weithwyr yn ymgynghori â'r cyfieithiadau Seisonig, nac ychwaith fod Morgan wedi ymfoddloni ar wneuthur cyfnewidiadau ieithyddol yn unig. Y mae wedi bod yn destyn syndod i ni na fuasai cyfieithwyr Testament 1567 wedi cyfieithu yn uniongyrchol o un neu arall o'r cyfieithiadau Seisonig, y rhai yr ydym eisoes wedi cyfeirio atynt. Nid oedd Deddf Seneddol 1563 yn gorchymmyn defnyddio na'r Groeg na'r un o'r argraffiadau Lladin. O'r braidd na feddyliem, os yr un, ei bod yn cyfeirio at y cyfieithiad Seisonig a ddefnyddid ar y pryd yn yr eglwysi. "Fod i'r holl Feibl yn cynnwys y Testament Newydd a'r Hen, yng nghyda'r Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinyddiad y Sacramentau, a arferir yn awr o fewn i'r deyrnas hon yn y *Saesoneg*, gael eu cyfieithu yn wirioneddol a chywir i'r iaith Frytanaidd neu Gymraeg" oedd yr hyn a ofynid gan y Ddeddf Seneddol. A gallesid meddwl mai y modd rhwyddaf i gario y gorchymmyn hwn allan a fuasai cymmeryd Beibl Cranmer neu Feibl Geneva, neu unrhyw gyfieithiad Seisonig arall, fel safon; yn enwedig pan gofiwn nad oedd yr amser a ganiatëid at y gorchwyl ond byr. Ond nis gall unrhyw un gyda'r wybodaeth fwyaf arwynebol o'r Groeg a'r Lladin fod uwch ben Testament Salesbury am fawr o fynydau heb gael allan mai nid fel hyn y bu. Ond odid nad oedd y cyfieithwyr am i'r Cymry gael cyfieithiad mor annibynol a'r un a gafodd y Seison; ac y mae yn dra sicr nad oedd raid iddynt deimlo yn wylaidd wrth droi i'r iaith wreiddiol. Dywed Gwallter Mechain am Salesbury:—"Os efe a gyfansoddawdd y Rhagymadrawdd o flaen ei *Egluryn Ffraethineb*, a gyhoeddawdd H. Perri, ar ddymuniad John Salsbri o Leweni, ymddengys ei fod yn hyddysg mewn naw o ieithoedd, heblaw Seisneg a Chymraeg; sef Hebraeg, Caldaeg, Syriaeg, Arabaeg, Grywaeg, Lladinaeg, Ffrancaeg, Italaeg, ac Hispanaeg; mwy o rifedi nag "wyth-wawd" ei nai fab cyfyrder, yr awenyddawl a'r hybarch Edmwnt Prys, mydrydd y Salmau Cân."* Ond ni raid i ni geisio profi yn ein

* Gwaith Gwallter Mechain, ii., 198.

hymdriniaeth bresennol fod cyrhaeddiadau ieithyddol Salesbury mor eang ac amrywiol ag y dywed Gwallter Mechain eu bod. I'n hamcan ni y mae tystiolaeth Syr John Wynn yn myned yn ddigon pell. Dywed ef, fel y sylwasom eisoes, fod Salesbury "yn ysgolhaig rhagorol, ac yn neillduol yn Hebreigwr, yr hyn oedd yn beth lled anghyffredin yn y dyddiau hyny." Ac fel y sylwa y Dr. T. C. Edwards, nid ydyw ond ynfydrwydd tybied y buasai wedi cael ei alw at y gwaith pe heb fod yn feddiannol ar wybodaeth ddigonol o'r Groeg. Y mae y ffaith i'r Esgob Richard Davies gymmeryd rhan yng nghyfieithiad "Beibl yr Esgobion," yng nghyda ffeithiau eraill yn ei hanes, yn profi ei ysgolheigdod ef. Ni wyddom ddim am gyrhaeddiadau Thomas Huet amgen na'r hyn a ddaw i'r golwg yn llyfr y Datguddiad. Ond am y Dr. Morgan, ar wahan i'w waith, y mae genym dystiolaeth Syr John Wynn, yr hwn o'i anfodd sydd yn gorfod addef ei fod "yn ysgolhaig da, yn Roegwr yn gystal a Hebreigwr."* Credwn fod hyn yn ddigon o brawf allanol o alluoedd a chymhwysder y gŵr hyn i ymaflyd yn y gorchwyl.

Nid ammhriodol fyddai gofyn yn y fan yma, pa Destamentau Groeg a Lladin oedd yng nghyrhaedd Salesbury a Morgan? Hyd y rhan flaenaf o'r unfed-ganrif-ar-bymtheg, cyfieithiad Lladin Jerome, neu y *Vulgate*, oedd yr unig ffurf argraffedig o'r Ysgrythyrau. Ond yn 1516, cyhoeddodd Erasmus argraffiad o'r Testament Groeg, gyda chyfieithiad Lladin o'i eiddo ei hun. Brodor o Rotterdam oedd Erasmus, lle y ganwyd ef yn 1467, a daeth i gyffyrddiad, yn Lloegr ac ar y Cyfandir, ag amryw o'r Diwygwyr, golygiadau y rhai a fabwysiadodd i raddau pell. Dysgybl iddo ef oedd Tyndal, y cyfieithydd Seisonig; o leiaf dywedir mai Erasmus a ennynodd yr awydd ynddo i gyfieithu yr Ysgrythyrau. Daethant i gydnabyddiaeth â'u gilydd yn Rhydychain, pryd yr oedd y naill yn aros yng Ngholeg Magdalen, a'r llall yn Neuadd Magdalen. Gwaith brysiog oedd argraffiad cyntaf Erasmus, oblegid blwyddyn yn unig a fu gyda'r gorchwyl. Ac nid oedd nifer ei ysgriflyfrau ond ychydig. Dau yn unig oedd ganddo o'r Efengylau, dau o'r Actau a'r Epistolau, a dim ond un o'r Datguddiad; a chan fod yr olaf yn fyr o'r chwe' adnod olaf, bu raid iddo gymmeryd y rhai hyny o'r *Vulgate*. Dygodd allan ail argraffiad yn 1519, yr hwn a wahaniaethai mewn oddeutu pedwar cant o fanau oddi wrth y cyntaf. Cyhoeddodd drydydd argraffiad yn 1522, yn yr hwn y rhoddwyd 1 Ioan v. 7 i mewn am y tro cyntaf, oddi ar awdurdod ysgriflyfr o'r bymthegfed ganrif — y *Codex Montfortinus*. Dygodd allan

* Hist. Gwydir Family (Edit. 1878), p. 96.

bedwerydd argraffiad yn 1527, yn cynnwys tua phedwar ugain a deg o gyfnewidiadau yn llyfr y Datguddiad, ac amryw mewn manau eraill; y rhai a ddygwyd i mewn yn benaf oddi ar awdurdod y Testament *Complutensiaidd* a gyhoeddwyd yn 1522. Ac yn 1535, dygodd allan ei bummed argraffiad, gydag ond ychydig gyfnewidiadau. Ac ystyried yr amgylchiadau o dan ba rai y llafuriai Erasmus, ystyrir ef yn olygydd rhagorol ac yn gyfieithydd medrus.

Ond er mai Erasmus oedd y cyntaf i ddwyn allan y testyn Groeg yn argraffedig, nid efe oedd y cyntaf i lafurio yn y ffordd hon; ac nid ei eiddo ef oedd y cyntaf a orphenwyd. Mor foreu a 1502, ymgymmerodd y Cardinal Ximenes de Cisneros, o'r Yspaen, yn cael ei gynnorthwyo gan amryw ysgolheigion enwog, a pharatoi argraffiad aml-ieithog, yn cynnwys yr Hebraeg, Groeg, a Lladin, o'r Hen Destament a'r Newydd. Aeth Ximenes i draul fawr i gasglu ysgriflyfrau, ond dywedir i'r rhai hynaf gael eu hesgeuluso. Ac er i'r gwaith gael ei orphen yn 1514, ni *chyhoeddwyd* ef hyd 1522; yr hyn a wnaed yn Complutum (Alcala yn bresennol), o herwydd pa ham y gelwir ef y *Testyn Complutensiaidd.* Ac yn gydweddol â hwn y dygodd Erasmus allan y y ddau argraffiad olaf o'i Destament ef.

Ar ol nodi Testament Aldus, yr un a'r eiddo Erasmus, a gyhoeddwyd yn 1518, a Thestament Simon Colinæus, tad-yng-nghyfraith Robert Stephens, a argraffwyd yn Paris yn 1534, yr ydym yn dyfod at argraffiad o'r Testament Groeg a gyhoeddwyd yn 1546, gan Robert Stephens, yr argraffydd dysgedig yn Paris. Yr oedd Stephens cyn hyny, yn 1528, 1540, ac 1545, wedi dwyn allan gyfieithiadau Lladin o'r Beibl; ond yn y flwyddyn a nodwyd cyhoeddwyd y testyn wedi ei seilio ar yr ysgriflyfrau oedd yn y Llyfrgell Frenhinol yn Paris, ac ar y testyn *Complutensiaidd.* Gelwir hwn, yng nghyda'r ail argraffiad a ddygodd allan yn 1549, yn "Argraffiadau *Mirificam*," am fod y rhagarweiniad iddynt yn dechreu gyda '*O Mirificam.*' Tua'r adeg hon symmudodd Stephens i Geneva, ac yno, yn y flwyddyn 1550, cyhoeddodd ei drydydd argraffiad. Adnabyddir hwn dan yr enw y "*Regia*," a dywedir ei fod yn argraffiad ysplenydd. Dywedai iddo ddilyn pymtheg o ysgriflyfrau, yng nghyda phummed argraffiad Erasmus, pan yn ei olygu; ac fe'n hysbysir ei fod yn tra rhagori ar argraffiadau y "*Mirificam.*" Yn hwn y dechreuwyd dyfynu awdurdod yr ysgriflyfrau am y gwahanol ffurfiau ar y gair gwreiddiol; a hwn yn benaf oedd sail y Testyn Derbyniedig (*Textus Receptus*) a gyhoeddwyd gan yr Elzeviriaid. Dygodd Stephens ei bedwerydd

argraffiad allan yn 1551, mewn plyg bychan; a hwn oedd y *cyntaf erioed a ranwyd yn adnodau*. Cynnwysa hwn, heblaw y testyn, gyfieithiad Lladin Erasmus mewn colofn ar yr ochr aswy, a'r *Vulgate* ar yr ochr dde.

Y nesaf a ddaw dan sylw ydyw Testament Groeg, gyda chyfieithiad Lladin gan Theodore Beza, ac a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1565. Yr oedd Beza wedi cyhoeddi cyfieithiad Lladin yn 1556, ond yr oedd yr hwn a gyhoeddodd gyda'r testyn yn 1565 yn gyfieithiad diwygiedig. Sylfaenodd Beza ei destyn ef yn benaf ar y "*Regia*," neu drydydd argraffiad Stephens, ond y mae cryn wahaniaeth rhyngddynt wedi'r cyfan; gan iddo ymgynghori ag oddeutu ugain o ysgriflyfrau. Cyhoeddodd Beza bedwar o argraffiadau o'r Testament Groeg, yng nghyda'i gyfieithiad Lladin, ar ol hyn; sef yr ail yn 1576, y trydydd yn 1582, y pedwerydd yn 1589; a'r pummed yn 1598. Ceisir dangos cyn y diwedd i'r Ffrancwr Beza, y Diwygiwr selog, y duwinydd galluog, osod argraff barhaol ar y Testament Cymraeg.

Yr ydym bellach wedi cyfeirio yn fyr at y defnyddiau oedd o fewn cyrhaedd Salesbury a'i gyd-lafurwyr, ac o fewn cyrhaedd y Dr. William Morgan. Pwnc arall ydyw dangos pa rai a ddefnyddiwyd ganddynt. Yr ydym eisoes wedi dangos fod y gwahanol destynau wedi eu sylfaenu mewn rhan helaeth ar rai blaenorol, ac mewn rhan yn ffrwyth ymchwiliad annibynol i ysgriflyfrau. Yr ydym wedi gweled fod Erasmus a Ximenes ar y cyntaf yn gweithio yn annibynol, ond i'r blaenaf ddilyn yr olaf i gryn raddau yn ei argraffiadau diweddaraf. Defnyddiwyd y ddau gan Stephens, yn enwedig yn ei "*Regia*," a chan i Beza ddefnyddio hwn, yr oedd ei destyn ef i ryw raddau yn dwyn argraff yr oll. Mewn canlyniad, y mae dangos o ba ffynnonellau yn fwyaf arbenig y tarddodd y cyfieithiadau Cymreig yn orchwyl dyrys, a dyweyd y lleiaf. Tuag at wneuthur hyn i sicrwydd boddhaol, y mae yn ofynol dwyn enghreifftiau o'r gwahanol argraffiadau o'r Testament Groeg a Lladin, yn y manau y maent yn amrywio oddi wrth eu gilydd, ac yna cymharu y cyfieithiadau Cymreig gyda hwynt. Cyn y dichon neb gyflawni y fath orchwyl yn drwyadl, y mae yn ofynol fod ganddo dri o bethau o leiaf; yn gyntaf, copi o bob un o'r llyfrau a nodwyd; yn ail, digon o amser i'w chwilio a'u cymharu; ac yn drydydd, dysgeidiaeth gyfatebol i'r gwaith. Y mae y pethau hyn yn anhebgorol tuag at ymdriniaeth *gyflawn* ar y mater; ac y maent oll yn fyr genym ni. Ond gwnawn ychydig nodiadau, gystal ag y gallom, i'r perwyl a nodwyd.

Yr ydym wedi sylwi yn flaenorol, er nad y testyn Complutensiaidd a gyhoeddwyd gyntaf, eto gan mai hwn oedd y cyntaf a baratowyd, caiff y flaenoriaeth. Y mae Salesbury, ac y mae yn cael ei ddilyn gan Morgan, yn gosod i mewn y fawlwers yn Matt. vi. 13 :—"can ys yti ymae y deyrnas, a'r nerth, ar gogoniant yn *oes* oesoed. *Amen.*" Nid ydyw y geiriau hyn yn y testyn Complutensiaidd. Ar yr un pryd, teg ydyw sylwi nad ydynt yn y *Vulgate*, yr hwn a ddefnyddir yn aml gan y cyfieithwyr Cymraeg, felly nid ydyw hyn ynddo ei hun yn ddigon i brofi na ddefnyddiodd Salesbury destyn Ximenes. Ond y mae profion eraill cadarnach. Y mae Salesbury (Act. xx. 38) yn meddu ar—"Ac *vvy* ei cynhebryngesant i'r llong," yr un modd Morgan—"ac hwy a'i hebryngâsant ef i'r llong." Y mae geiriau tebyg yn "*Regia*" Stephens, ac hefyd yn Beza a'r *Vulgate;* ond y maent yn cael eu gadael allan yn y testyn Complutensiaidd. "Hispaen", y geilw Salesbury y wlad y bwriadai Paul ymweled â hi (Rhuf. xv. 24), ac y mae ei Gymreigiad ef o'r enw yn gydweddol â Ισπανια Ximenes, ond nid yno y cafodd ef, oblegid rhydd "Gr. Spaen" ar ymyl y ddalen. Yn y testyn Complutensiaidd (2 Cor. v. 10) ceir τὰ ἰδία τοῦ σωματος = "y pethau sy'n perthyn i'r corff"; felly hefyd yn y *Vulgate*. Ond y mae Salesbury a Morgan yn gwrthod y darlleniad hwn, ac yn mabwysiadu darlleniad Erasmus a Stephens — τα διὰ τοῦ σωματος : "y petheu *a vnaethpvvyt* yn *ei* gorph" medd Salesbury, "y pethau a [wnaethpwyd] yn y corph" medd Morgan. Yn y testyn Complutensiaidd ceir yr ychwanegiad canlynol ar ddiwedd Heb. vii. 3 —ἐν ᾧ ὅτι καὶ τοῦ Ἀβραὰμ προετιμήθη, ond nid ydyw hwn yn y cyfieithiadau Cymraeg. Y casgliad y mae y Dr. T. C. Edwards yn ei dynu oddi wrth yr enghreifftiau uchod ydyw, na wnaeth Salesbury ei gyfieithiad o'r Testament Groeg Complutensiaidd; ac felly, profant hefyd nad oedd hwn o flaen Morgan pan yn diwygio y cyfieithiad hwnw.

Ond pa beth am bump argraffiad Erasmus? Y mae holl argraffiadau Erasmus yn gadael allan Marc xi. 26, ond y mae i mewn gan Salesbury, ac y mae yn Nhestamentau Stephens a Beza. Yn 2 Petr i. 8, y mae gan Salesbury a Morgan "diffrwyth yng wybodaeth eyn Arglwydd Iesu Christ." Cyfieithiad ydyw "diffrwyth" o ἀκάρπους Stephens, ond pe buasent yn dilyn Erasmus yn y fan yma, "llafurio yn ofer" = ἀπράκτους, a fuasai ganddynt. O herwydd yr enghreifftiau hyn a'r cyffelyb, bernir nad oedd Salesbury yn defnyddio Groeg Erasmus. Ond dywed y Dr. T. C. Edwards fod yn debyg

fod Salesbury yn defnyddio argraffiad cyntaf Erasmus pan yn cyfieithu "Kynniver llith a ban." Er enghraifft, darllena Erasmus (1 Cor. xi. 23) Ἰησοῦς Χριστός, yr hwn a ddilynir gan Salesbury trwy roddi "Jeshu Christ." Yn y testynau eraill ceir ὁ Κύριος Ἰησοῖς = "yr Arglwydd Iesu"; dyna sydd gan Erasmus yn ei gyfieithiad Lladin, a'r un modd Salesbury a Morgan yn eu cyfieithiadau Cymreig. A chan fod Salesbury yn defnyddio y llyfr hwn yn "Llith a Ban," ac yn gwrthod y darlleniad wrth gyfieithu ei Destament, gellir casglu ei fod wedi dyfod i ystyried testynau eraill yn rhagorach nag eiddo Erasmus.

Crybwyllwyd fod gan Stephens bedwar o argraffiadau. Yn ei ddau argraffiad cyntaf (1546 a 1549) ceir ἐν τῇ πόλει ταύτῃ yn Act. iv. 27, ond y mae Salesbury yn eu gadael allan. Y maent gan Morgan, er y gallasai fod wedi eu cael o'r *Vulgate* neu o gyfieithiad Beza. Ar ymyl y ddalen (Col. ii. 13) y mae Salesbury yn gosod *hemin* fel ffynnonell ei "y-chwi." Pe buasai yn y fan hon yn cyfieithu o argraffiad Stephens 1551, neu o destyn Beza, nid "hemin" (ἡμῖν) a fuasai ganddo ar ymyl y ddalen ond "humin" (ὑμῖν). Ond yn nau argraffiad cyntaf Stephens (y "*Mirificam*") ceir *hemin*, a cheir yr un gair yn ei drydydd argraffiad (y "*Regia*") yn y testyn, a *humin* ar ymyl y ddalen. Y mae Salesbury yn gadael allan Luc xvii. 36., ac y mae ganddo awdurdod holl argraffiadau Stephens yn gystal ag eiddo Erasmus dros hyny. Gosoda Morgan yr adnod hon i mewn oddi ar awdurdod Beza. Ac y mae yn amlwg mai Beza yw ei arweinydd, oblegid pe yn dilyn y *Vulgate*, buasai ei raniadau o'r adnodau yn wahanol. Y mae'r *Vulgate* yn gwneuthur adnodau 35 a 36 yn un, ac adnod 37 yn ddwy. Yn Rhuf. vii. 6, pe buasai Salesbury yn dilyn Beza, dywedasai,—"wedi marw y peth yn yr hyn y'n delid"; ond yma y mae yn dilyn argraffiadau Stephens:—"gwedy ein meirw ir peth in attelit"; ac yr un modd y gwna Morgan. Yn Col. i. 20, yn ol y cyfieithiad Seisonig Awdurdodedig, cyfieithiad yr Esgob Parry, a'r cyfieithiad Seisonig Diwygiedig, ceir y darlleniad a ganlyn:—"Ac (wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) trwyddo ef gymmodi pob peth ag ef ei hun, trwyddo ef, *meddaf*, pa un bynag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd." Y mae yr ail "trwyddo ef" yn nhri argraffiad blaenaf Stephens, ac hefyd gan Beza. Ond y maent yn cael eu gadael allan ym mhedwerydd argraffiad Stephens (1551), ac y maent yn cael eu gadael allan gan Salesbury a Morgan. Y mae yn amlwg oddi wrth yr enghreifftiau uchod fod Salesbury yn defnyddio dau argraffiad olaf Stephens

(1550 a 1551), ond y mae yn anhawdd penderfynu pa un a oedd yr argraffiadau boreuaf (y "*Mirificam*") yn ei feddiant ai peidio. A dywed y Dr. T. C. Edwards nas gellir penderfynu hyny; er, fel y gwelir, fod Salesbury yn ymadael â hwynt yn Act. iv. 27.

Cyhoeddodd Beza ei Destament Groeg yn 1565. Yn Matt. i. 11, y mae Beza yn gosod yn y testyn τὸν Ἰακείμ, Ἰακείμ δὲ ἐγέννησε, yr hyn a geir ar ymyl y ddalen yn y "*Regia.*" Y mae Salesbury yn eu gosod i mewn:—"Ac Iosias a genetlawdd Iacim. Ac Iacim a genetlawdd Iechonias." Gosodwyd y geiriau hyn i mewn, ar awdurdod ysgriflyfr diweddar, er mwyn gwneyd pedair cenhedlaeth ar ddeg rhwng Dafydd a'r caethgludiad Babylonaidd. Ond y mae Morgan, ar well awdurdod, yn eu gadael allan. Yn Rhuf. xii. 11, y mae holl argraffiadau Erasmus a Stephens yn darllen "gan wasanaethu y cyfleusdra" (τῷ καιρῷ δουλεύοντες); ond y mae y testyn Complutensiaidd, ymyl y ddalen yn y "Regia," Beza, a'r *Vulgate*, yn rhoddi "yr Arglwydd" yn lle "cyfleusdra"; ac "yr Arglwydd" sydd gan Salesbury a Morgan. Yn 2 Cor. xi. 10, σφραγίσεται (= "ni selir," neu, "ni chuddir") ydyw darlleniad Stephens; ond y mae Salesbury yn defnyddio "'oarchëir," a Morgan "argaeir," yn gydweddol â φραγήσεται yn Beza. Yn 1 Petr iii. 11, y mae Stephens yn ei argraffiadau am 1550 a 1551 yn darllen ποιησάτω εἰρηνην yn lle ποιησάτω ἀγαθόν· ζητησάτω εἰρήνην fel a geir yn argraffiadau y "*Mirificam*," ac eiddo Beza; a'r olaf a geir yn Salesbury a Morgan. Dilynir Beza gan yr Esgob Davies hefyd. Yn Heb. ix. 1, y mae Stephens yn dilyn Erasmus a'r testyn Complutensiaidd, trwy roddi ἡ πρώτη σκηνή, y mae Beza yn gadael σκηνή allan yn y testyn ac yn rhoddi "*pactum*" yn ei gyfieithiad, a'r hwn drachefn a gyfieithir yn "testament" gan Davies. Ond yma y mae Morgan yn gwrthod Davies a'i awdurdod, ac yn cyfieithu σκηνή Stephens yn "tabernacl." Dywed y Dr. T. C. Edwards mai "cyfammod" a fuasai y gair goreu. Yn Dat. xi. 1, y mae Huet yn defnyddio "ar Angel y safoedd gair *vy* llaw," ac y mae Morgan yn cymmeryd y darlleniad ymyl-ddalenol, "a'r angel a safodd wrthif." Nid ydyw y geiriau hyn i'w cael yn yr hen destynau amgen nag yn yr un Complutensiaidd, ymyl y ddalen yn y "*Regia*," ac yn Beza; ac nid ydynt i'w cael yn y *Vulgate*. Y mae yn rhaid addef fod darlleniad tebyg, ond nid yn hollol yr un fath ag eiddo Huet, i'w gael yn Nhestament Geneva 1557. Pa fodd bynag, nis gallasai yr Esgob Davies fod yn defnyddio y Testament hwnw wrth gyfieithu yr adnod a nodasom yn yr Hebreaid, gan mai "cyfammod" a geir yn hwnw.

Y casgliad y mae y Dr. T. C. Edwards yn dyfod iddo ydyw, fod Salesbury yn defnyddio tri Thestament Groeg, sef, y ddau a gyhoeddwyd ddiweddaf gan Stephens (1550 a 1551), ac eiddo Beza (1565); ei fod i raddau yn pigo ei ddarlleniadau o'r naill a'r llall o honynt, ond mai yr un pwysicaf oedd un Beza. Ond fe gofir nad oedd ond dwy flynedd o pan gyhoeddodd Beza ei Destament Groeg hyd pan gyhoeddwyd Testament Salesbury. Pa fodd y gellir rhoddi cyfrif felly am yr olion o Beza a geir trwyddo, os caniateir, fel yn ddiammeu y gwneir, fod y cyfieithwyr Cymreig wedi dechreu ar eu gorchwyl cyn 1565? Credwn y ceir eglurhad ar hyn mewn sylwadau o eiddo y Proffeswr Williams o'r Bala. Dywed:—

Ceisiwn yng ngoleu y ffeithiau a nodwyd ddychmygu ffordd Salsbri. Dechreuasai ei astudiaeth o'r Testament Newydd fel agos bawb y pryd hyny gydag Erasmus, a gwnaed mae'n debyg ei gyfieithiadau cyntaf o ryw un o bum' argraphiad yr ysgolhaig hwnw; oblegid hyn, mae rhan fawr o'i Destament ei hun heb ei ranu yn adnodau (o'r dechreu hyd 2 Tim.). Wedi hyny ar ol 1551 mae ar ei fwrdd yr argraphiad bychan gan Stephanus wedi ei ranu yn adnodau am y tro cyntaf erioed, a chyda hwn gyfieithiad Beza naill ai ar yr un a ymddangosodd yn Mibl Lladin Geneva yn 1557, neu yr un a gynwysid yn Nhestament Groeg 1565, efallai y ddau, ond yn fwyaf arbenig yr olaf: gyda'u cymorth hwy mae yn diwygio y Testament Newydd o'r dechreu, eto, nid yw yn gadael Erasmus yn hollol o'r neilldu gan ei fod er cyfieithu fel Beza, eto, ar ymyl y ddalen yn gosod,—megis yn Col. 2. 13, "gan faddeu i ni,"—darlleniad Erasmus.*

Y gwahaniaeth mwyaf, fe allai, rhwng y Dr. Edwards a'r Proffeswr Williams, gyda golwg â'r ffynnonellau Testament Salesbury ydyw fod y blaenaf yn nodi dau o Destamentau Groeg Stephens ac un Beza, a'r olaf yn cyfyngu argraffiadau Stephens i un, Testament Beza, ac yn ychwanegu atynt eiddo Erasmus. Ond credwn nad oes dim anghyssondeb gwirioneddol rhwng y ddau, gan fod y naill, mewn effaith, yn caniatau golygiad y llall, er na wyddent o gwbl am ymchwiliadau eu gilydd. Ni ddywed y Dr. Edwards nad oes olion o Erasmus i'w cael ar ymyl y ddalen yn Salesbury, ac ni ddywed y Proffeswr Williams na ddefnyddiodd Salesbury y "*Regia*."

Y mae yn ymddangos i ni oddi wrth rai o'r enghreifftiau a fu dan sylw fod Morgan wedi ymgynghori ag argraffiadau y "*Miriticam*" a Beza. Ond gan na fuom mor ffortunus a dyfod o hyd i'r un testyn Groeg mor foreu a'r cyfnod hwn, nis gallwn mewn un modd fod yn benderfynol.†

* Nodiadau ar "Yr Epistol at y Colossiaid," tud. xix.

† I nodiadau dysgedig y Dr. Edwards (*Trans. Liverpool Welsh Nat. Soc., pp.* 51-81) yr ydym yn ddyledus am y dyfyniadau o'r testyn Complutensiaidd, Erasmus, a Stephens; ond y ni sydd yn gyfrifol am y nifer luosocaf o'r dyfyniadau eraill.

Yr ydym yn awr yn dyfod at y cyfieithiadau Lladin. Gadäwn gyfieithiad Jerome am enyd o'r neilldu, a chymmerwn gyfieithiad Erasmus. Gallesid meddwl y buasai hwn yn cael ei ddilyn yn helaeth gan y cyfieithwyr Cymreig, oblegid yr ydym wedi sylwi yn y bennod gyntaf fod pwys mawr yn cael ei osod yng Nghymru y pryd hwnw ar "aralleiriad" Erasmus. Ond nid ydyw y lle y gafodd llafur yr ysgolhaig rhagorol hwn yn ffurfiad y Testament Cymraeg ond ail-raddol. Dengys y Dr. T. C. Edwards y dylanwad a gafodd Lladin Erasmus ar "Kynniver Llith a Bann"; a noda rai enghreifftiau i ddangos fod Salesbury yn gwneuthur defnydd o hono yn ei Destament. Yn Act. xx. 9, er fod Salesbury yn dilyn Beza wrth ysgrifenu "A'r dydd cyntaf o'r wythnos," rhydd "*Sabbatorum*" gan ddilyn Erasmus ar ymyl y ddalen; tra y mae Morgan, yn ol awdurdod y *Vulgate*, yn gosod "A'r dydd cyntaf o'r Sabboth." Yn Col. ii. 9, y mae "deitatis" gan y *Vulgate* a Beza, a chyfieithir y gair yn "duwtot" gan Salesbury; ond ar ymyl y ddalen rhydd "duwolieth" yn unol â "*divinitatis*" Erasmus. Yn Col. ii. 22, dilyna Salesbury Erasmus trwy roddi "anarver" (*abusu*), ond y mae Morgan yn myned ar ol y *Vulgate* a Beza:—"arfer" (*usu*). Yn Act. xxvii. 13, y mae Salesbury yn cyfieithu Erasmus "*quum solvissent Asson, praeterlegebant Cretam*," trwy osod "a ddatodesont i Asson, ac a hwyliesont i Candi." Y gair "symmudasant" (*sustulissent*) sydd yn y *Vulgate*, yn lle "ddatodesont," ac felly o Erasmus yr oedd Salesbury yn cyfieithu yr adnod hon. Y mae yn ffaith dra nodedig fod cynnifer o'r cyfieithwyr Seisonig wedi camgymmeryd y gair ἄσσον, gan ei gymmeryd yn enw ar le yn hytrach na rhagferf. Wele enghreifftiau:—

and whanne the south blewe / thei gessiden hem to holde purpos / and whanne thei hadden remoued fro asson; thei seileden to crete.—*Wicliffe, 1380.*

When the south wynde blewe / they supposynge to obtayne their purpose / lowsed vnto Asson / and sayled paste all Candy.—*Tyndal, 1534.*

When the south wynde blewe, they supposynge to obtaine their purpose, loosed vnto Asson, and sayled past all Candy.—*Cranmer, 1539.*

And the south vvinde blovving, they thinking that they had obteined their purpose, vvhen they had parted from Asson, sailed along by Crete.—*Testament Rheims, 1582.*

Beza oedd y cyntaf i roddi ei ystyr briodol i'r gair, "*proprius*" = "yn agos." Ac y mae yn cael ei ddilyn gan gyfieithwyr Geneva, a chyfieithwyr Beibl Seisonig 1611.

When the southern wynde blewe, they supposing to obteyne their purpose, lowsed nearer, and sayled by Candy.—*Testament Geneva, 1557.*

And when the South wind blew softly, supposing that they had obtained their purpose, loosing thence, they sailed close by Creete.—*Beibl Iago I., 1611.*

Yr oedd Salesbury yn gwybod am y darlleniad hwn, oblegid y mae yn rhoddi "yn nes" ar ymyl y ddalen fel eglurhad ar "Asson." Ond y mae yn ddiammeu mai un o ddysgyblion Beza oedd Morgan yn yr adnod hon, gan mai ei ddarlleniad ef o'r adnod ydyw:—"A phan chwythodd y deheu-wynt, hwynt hwy a dybiasant gaffael eu meddwl, ac wedi iddynt gychwyn, hwy a hwyliasant yn agos i Creta."

Y mae y Proffeswr Williams, o'r Bala, yn ei "Nodiadau ar yr Epistol at y Colossiaid," yn cymharu cyfieithiadau Cymreig Salesbury a Morgan o'r epistol hwnw â'r *Vulgate*, yng nghyda chyfieithiadau Erasmus a Beza. Ac ychydig, mewn cymhariaeth, sydd ganddo o ddarlleniadau y gellir yn briodol eu galw yn Erasmiaidd. Y mae yn nodi y rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes, ac hefyd y rhai canlynol:—Col. i. 24: Salesbury yn dilyn Erasmus a'r Groeg,—"yr awrhon ydd wyf yn llawenychu"; pryd y mae Morgan yn dewis y *Vulgate*,—"yr hwn ydwyf ynawr yn llawenychu." Col. iv. 5: "rhodiwch yn ddoeth" sydd gan Salesbury a Morgan, yr hyn sydd gyfieithiad o "*sapienter ambulate*" Erasmus; y maent yn gwrthod "ymddygwch yn ddoeth" (*sapienter vos gerite*) Beza, yn gystal ag "*In sapientiâ ambulate*" y *Vulgate*, yr hwn a ddilynir gan y Dr. Parry—"rhodiwch mewn doethineb." Hyd y gwelwn, nid ydyw y Proffeswr Williams yn cyfeirio at gymmaint ag un enghraifft yn yr Epistol at y Colossiaid i ddangos fod Morgan yn cyfieithu yn gydnaws â Lladin Erasmus, ond ymddengys ei fod, pan yn gwahaniaethu oddi wrth Salesbury, yn dilyn y *Vulgate*.

Cyfyngwn ein hunain bellach at y *Vulgate* a Lladin Beza, gan gymharu darlleniadau Salesbury a Morgan ar eu cyfer. Yn Matt. ii. ceir παιζ naw o weithiau, ac y mae Beza yn ei gyfieithu, gydag un eithriad yn unig, yn "*puerulus*"; ond "*puer*" a geir yn y *Vulgate* yn ddieithriad. Y gair a rydd Morgan am yr oll ydyw "bachgen," ond y mae gan Salesbury "map-bychan" a "bachcen." Fe allai y byddai yn fwy manteisiol i'r darllenydd pe gwnaem daflen o honynt:—

Matt. ii.	*Salesbury.*	*Morgan.*	*Beza.*	*Vulgate.*
adn. 8	map-bychan	bachgen	puerulus	puer
,, 9	map-bachan	,,	,,	,,
,, 11	dyn-bychan	,,	,,	,,
,, 13	mab-bychan	,,	,,	,,
,, 13	map-bychan	,,	,,	,,
,, 14	y Map	,,	,,	,,
,, 16	veibion	fechgin	pueri(os)	pueri(os)
,, 20	bachcen	bachgen	puerulus	puer
,, 21	,,	,,	,,	,,

Y mae y "bychan" sydd gan Salesbury yn barhaus yn dangos ei ymdrech i osod allan "*puerulus*" Beza, ond cyfieithiad ydyw "bachgen" Morgan o "*puer*" y *Vulgate*. Y mae Salesbury wedi gadael allan ran o Matt. xvi. 26, 27. Dywed:—"Nei pa beth a rydd dyn yn gyfnewyt dros ei Dat y gyd a' ei Angelyon"; ac y mae Morgan yn gwneuthur y diffyg i fyny, nid o Beza, ond o'r *Vulgate*:—"*commutationem pro anima suâ? Filius enim hominis venturus est in gloriâ*" = "yn gyfnewid am ei enaid? Canys Mâb y dŷn a ddaw yng-ogoniant." Gosodwn yma ychydig enghreifftiau i ddangos fod Salesbury yn dilyn Beza, ac fod Morgan yn ymgynghori â'r *Vulgate*:—

Marc. i. 8.

Diau *yvv* mici ach batyddiais chwi a' dwfr: ac efe a'ch betyddia *chvvi* a'r Yspryt glan.—*Salesbury.*

Myfi a'ch bedyddiais chwi â dwfr: eithr efe a'ch bedyddia chwi â'r Yspryd glân. —*Morgan.*

Ego quidèm baptizavi.—*Beza.*

Ego baptizavi. *Vulgate.*

Luc. ii 14.

Gogoniant *vo* y Dduw yn yr vchelion *nefoedd*, a' thangneddyf yn y ddaiar, ac i ddynion ewyllys da. —*Salesbury.*

Gogoniant i Dduw yn yr uchelder, a thangneddyf ar y ddaiar, ac i ddynion ewyllys da. —*Morgan.*

Gloria in *coelis* altissimis Deo, et in terrâ pax, in homines benevolentia. —*Beza.*

Gloria in altissimis Deo, et in terrâ pax hominibus bonæ voluntatis. *Vulgate.*

Ioan i. 3.

Oll a wnaethpwyt trwy'r *Gair* hwnw.—*Salesbury.*

Trwyddo ef y gwnaeth-pwyd pob peth. —*Morgan.*

Omnia per hunc *Sermonem* facta sunt.—*Beza.*

Omnia per ipsum facto sunt.—*Vulgate.*

Rhuf. i. 1.

Paul gwas*anaehvvr Iesu* Christ *vvrth* galwedi*ceth* yn Apostol, wedyr 'ohanu i *preeethu'r* Euangel Duw. *Salesbury.*

Paul gwasanaethwr Iesu Grist, yr hwn a alwyd yn Apostol, *ac* a nailltuwyd i Efengyl Dduw.—*Morgan.*

Paulus, servus Jesu Christi, ex vocatione apostolus, separatus ad praedicandum evangelium Dei. —*Beza.*

Paulus, servus Jesu Christi, vocatus Apostolus, segregatus in Evangelium Dei.—*Vulgate.*

Rhuf. ix. 6.

can nad *ynt oll* yn Israel*iait*, a'r a *hanoeddynt* o'r *tad* Israel.—*Salesbury.*	canys nid [ydynt] hwy oll yn Israeliaid, ar a [hanodd] o Israel.—*Morgan.*
non enim omnes qui *sunt* ex *patre* Israele, *sunt* Israel.—*Beza.*	Non enim omnes qui ex Israël sunt, ii sunt Israelitæ.—*Vulgate.*

Rhuf. xi. 4.

Gedewais y myhun saith mil gwyr, a'r ny phlygesont y glinieu y *ddelw* Baal.—*Salesbury.*	gadewais i mi fy hun saith mil o wŷr, y rhai ni phlygasant eu gliniau i Baal.—*Morgan.*
non flexerunt genu *imagini* Baalis.—*Beza.*	non curvaverunt genua ante Baal.—*Vulgate.*

Gallasai Salesbury fod wedi cyfieithu rhai o'r adnodau uchod, yn enwedig y ddwy olaf, o Destament Geneva 1557, yn hytrach nag o Beza; gan fod y Lladin a Saesoneg Geneva yn cwbl gytuno. Ond nis gellir dyweyd hyny am y rhai canlynol, y rhai sydd yn dangos mai Beza oedd o'i flaen.

Rhuf. xv. 5.

A' Duw *pen avvdur* yr ammynedd a'r confort a roddo y chwi syniet yr vn peth bavvp ai gylydd, erwydd Christ Iesu.—*Salesbury.*	A Duw yr ammynedd a'r cyssur a roddo i chwi synnied yr un peth [bawb] â'i gilydd yn ôl Crist Iesu.—*Morgan.*
Deus autem *auctor* tolerantiæ et consolationis det vobis ut itidem alii in alios affecti sitis, secundum Christum Jesum.—*Beza.*	Deus autem patientiæ et solatii, det vobis id-ipsum sapere in alter-utrum secundum Jesu Christum.—*Vulgate.*

Yma y mae Salesbury yn dilyn Beza yn lled ffyddlawn; ond y mae Morgan yn amrywio oddi wrth y *Vulgate*, ac yn rhoddi "Crist Iesu" yn lle "Iesu Grist."

Gal. iii. 18.

O bleit a's o'r Ddeddyf *y mae'r* etiveddieth, nyd *yvv ynteu* mwy wrth y gaddewit, eithr Duw a roddes *yr etiveddieth* i Abraham wrth 'addewit.—*Salesbury.*	Canys os o'r ddeddf [y mae] etifeddiaeth, nid yw haiach o'r addewid, ond Duw a'i rhoddes yn rhâd i Abraham drwy'r addewid.—*Morgan.*
Abrahamo verò per promissionem gratificatus est Deus *haereditatem.*—*Beza.*	Abrahæ autem per repromissionem donavit Deus.—*Vulgate.*

Col. i. 5.

Am yr hon y clywsoch yn y blaen gan air y gwirionedd, sef yw'r Evangel.—*Salesbury.*	am yr hon y clywsoch yn y blaen gan air gwirionedd yr Efengyl.—*Morgan.*
quam prius audistis per sermonem veritatis, *id est*, evangelii.—*Beza.*	quam audistis in verbo veritatis Evangelii.—*Vulgate.*

Y mae digon o enghreifftiau ar gael fod yr Esgob Davies yn dra hoff o Beza. Nodir yr un ganlynol gan y Dr. T. C. Edwards:—Yn Heb. xii. 2, darllena Davies "rwn yn l'e llywenydd a osodid yddo," ar awdurdod Beza, yn lle "er mwyn"

a geir yng nghyfieithiad Geneva. Wele un neu ddwy o engreifftiau eraill :—

Heb. xii. 17.

o blegid ni chafos ef gyfle y edifeirwch, ir y fod trwy ddagre yn keisio *yr fendith hono.—Davies.*

o blegit ni chafas efe gyfle i edifarhau, er ei fod trwy ddagreu yn ei cheisio hi.—*Morgan.*

non enim reperit pœnitentiæ locum, quamvis cum lacrymis *benedictionem* illam exquisisset.—*Beza.*

non enim invenit pœnitentiæ locum, quamquam cum lacrymis inquisisset eam.—*Vulgate.*

Y mae yn rhaid addef fod yn anhawdd dyweyd pa un ai Testament Geneva a'i Beza oedd o flaen Davies pan yn cyfieithu yr adnod uchod, oblegid y mae "thogh he soght *the blessing* with teares" yn y blaenaf, ond y mae ffurf y frawddeg gan Davies yn debycach i Beza nag fel y mae yn y cyfieithiad Genevaidd. Pa fodd bynag nis gall fod cymmaint o ammheuaeth gyda golwg ar yr un ganlynol :—

1 Petr iii. 6.

Megis yr vfuddhaodd Sara y Abraham, can y alw ef yn Arglwydd.—*Davies.*

Sicut Sara obedivit Abrahamo, dominum eum vocans.—*Beza.*

Morgan a'r *Vulgate* yn gyffelyb yma.

Pe buasai Davies yn defnyddio y cyfieithiad Genevaidd yn y fan yma, tebyg y dywedasai, "gan ei alw ef yn Syr." Yn wir, y mae yr Esgob Davies, fel y sylwa y Proffeswr Hugh Williams, "yn dilyn Lladin Beza, lle y gwahaniaetha oddiwrth Geneva yn amlach na William Salesbury, tra y mae hefyd yn gosod y gair Groeg ar ymyl y ddalen, a hwyrach yn ei ddeall yn well na'i gydlafurwyr."*

Y mae Beza hefyd wedi gadael ei ôl ar lyfr y Datguddiad. Dywed yr ysgrifenydd yr ydym newydd gyfeirio ato :—"Wedi ail ystyriaeth, er fod geiriad Thos. Huet yn llyfr y Datguddiad yn hollol yr un a Thestament Beza yn 1565, ac na cheir y geiriau sydd yn sail i'w gyfieithiad mewn un Testament *Groeg* blaenorol i hyny, yr wyf yn awr yn barnu mai cyfieithu Lladin Beza a Saesoneg Bibl Geneva y mae yn y manau y cyfeiriwyd atynt yn yr erthygl flaenorol."†

Gallesid meddwl oddi wrth y nodiadau uchod ein bod am i'r darllenydd gredu mai eiddo Beza oedd bron yr unig gyfieithiad Lladin a ddefnyddiwyd gan gyfieithwyr Testament Salesbury, ac mai y *Vulgate* oedd unig arweinydd Morgan. Ond nid felly yr

* Y Drysorfa, 1888, tud. 128. † Ibid. tud. 168.

oedd. Y mae ôl y *Vulgate* ar Destament Salesbury, ac y mae Morgan ar brydiau yn cymmeryd Beza mewn llaw, hyd yn oed pan y mae Salesbury yn dilyn y *Vulgate*. Ond rhaid addef fod hyny yn dygwydd yn lled anaml.

Matt. xi. 30.

Can ys ve Iau 'sy hyfryd, a'm llwyth *ysy* yscafn.—*Salesbury.*	Canys fy iau sydd esmwyth a'm baich sydd yscafn.—*Morgan.*
Jugum enim meum suave est, et onus meum leve.—*Vulgate.*	Jugum enim meum facile est, et onus meum leve est. *Beza.*

Luc vii. 50.

Ac ef a ddyvot wrth y wreic, Dy ffydd ath iachaodd: dos yn-tangneddyf.—*Salesbury.*	Ac efe a ddywedodd wrth y wraig, dy ffydd a'th gadwodd, dos mewn tangneddyf.—*Morgan.*
Fides tua te salvam fecit: vade in pace.—*Vulgate.*	Fides tua te servavit: vade cum pace.—*Beza.*

Ffydd y wraig a'i "hiachodd" yn ol Salesbury a'r *Vulgate*; ond yn ol Morgan a Beza, ffydd a'i "cadwodd." Cyfeiria y naill at ymadawiad ei hafiechyd, a'r llall at gyfnewidiad yn ei chyflwr ysprydol.

Gallesid ychwanegu llawer at yr enghreifftiau pan y mae Salesbury yn dilyn y *Vulgate*, ond er i ni gymmeryd cryn lawer o drafferth i gymharu Morgan â Thestament Lladin Beza, methasom a chael ond ychydig enghreifftiau i brofi ei fod yn ei ddilyn pan y mae yn cael ei wrthod gan Salesbury. Y mae digon o olion Beza ar Morgan, ond rhai wedi dyfod trwy Salesbury ydyw y rhan fwyaf o lawer o honynt. Ac nid yn unig hyny, olion o Beza ydyw rhai o honynt a ddefnyddiwyd yn gyntaf gan gyfieithwyr Geneva, wedi hyny gan Salesbury, ac a fabwysiadwyd drachefn gan Morgan. Dywed y Dr. T. C. Edwards mai y *Vulgate* oedd sylfaen "Kynniver Llith a Bann"; ond yr ydym yn gweled, er ei fod droion yn defnyddio yr hen gyfieithiad Lladin hwnw yn ei Destament, eto ei fod yn rhoddi y flaenoriaeth i Beza. Yr oedd Morgan, o'r ochr arall, yn tueddu yn fwy at gyfieithiad Jerome. Credwn fod hyn yn ddigon amlwg wrth gymharu ei ddiwygiad ef o gyfieithiad Salesbury; a hyn oedd y casgliad y daeth y Proffeswr Williams, o'r Bala, iddo fel ffrwyth ei ymchwiliad ef i'r mater. Dywed fod y Dr. Morgan, pan yn diwygio gwaith Salesbury, "*yn gwneyd hyny lle y gwahaniaetha oddiwrtho o ran ystyr, drwy ddwyn i fewn gyfieithiad cydnaws a'r Vulgate.*"* Paham y gwnai Morgan hyny, nis gwyddom. A gormod fyddai tybied fod ei barch i gyssegredigrwydd traddodiadol

* Nodiadau ar yr Epistol at y Colossiaid, tud. xix.

cyfieithiad Jerome yn effaith yr addysg foreuol a dderbyniodd gan y mynach y buom yn son am dano mewn pennod flaenorol? Cafodd Salesbury hefyd, fel y crybwyllasom, ei ddwyn i fyny yn Babydd, ond hwyrach iddo ef ddyfod yn ddysgybl mwy amlwg na Morgan o'r ysgol newydd. O bosibl nad oedd Morgan yn tybied fod Salesbury wedi esgeuluso gormod ar yr hen gyfieithiad ag oedd wedi bod ym meddiant yr Eglwys er ys cynnifer o ganrifoedd; ac ei fod wedi cymmeryd y drafferth i'w chwilio o'r newydd.

Y mae yn hawdd gweled hefyd fod Salesbury yn ymgynghori â mwy nag un o'r cyfieithiadau Seisonig. Y mae yn amlwg iddo ddefnyddio rhyw gymmaint ar Feibl Cranmer, oblegid yr ydym yn cael enghraifft nodedig yn Matt. ii. 16 :—

Then Herod, whan he sawe that he was mocked of the wise men, he was exceadinge wroth, & sent forth men of warre, and slue all the chyidren that were in Bethleem, and in all the coasts (as many as were two yere olde or vnder) accordynge to the tyme whiche he had diligently knowne out of the wyse men.—*Cranmer.*

Yno Herod, pan weles ei dwyllo gan y Doethion a ffromawdd yn aruthr, ac ef a ddanfonodd *sawdeyr* ac a laddodd yr oll veibion ar oeddynt ym-Beth-lehem ac yn-cwbyl o hei chyffinydd, o ddwyvlwydd oet, a' than hynny wrth yr amser a ym-ovynesei ef yn ddichlin ar Doethion.—*Salesbury.*

Hyd y gwyddom, nid oedd gan Salesbury gymmaint ag un awdurdod dros osod "savvdvvyr" i mewn amgen na'r "men of warre" ym Meibl Cranmer. Diau mai milwyr a anfonodd Herod, er nad oes unrhyw awdurdod dros ddyweyd hyny. Ond y cyfieithiad Seisonig a ddefnyddiwyd fwyaf ganddo oedd yr un Genevaidd. Y mae yn amlwg fod hwn yn dra mynych, os nad yn wastadol, ar ei fwrdd. Sylfaen Testament Geneva 1557 oedd y Testament Groeg a gyhoeddwyd gan Stephens yn 1551, yng nghyda thestyn a chyfieithiad Beza. Ac felly, gellir cyfrif fod rhan helaeth o neillduolion y ffynnonellau hyn a geir yn y Testament Cymraeg, nid fel pe wedi dyfod o honynt hwy yn union-gyrchol, ond wedi eu dwyn i mewn trwy gyfrwng cyfieithiad Geneva. Y mae ôl y cyfieithiad hwn i'w weled yn barhaus ar Destament Salesbury. Nodwn ychydig enghreifftiau :—

Matt. v. 41.

And whosoeuer will compell thee to go a myle, go with him twaine. —*Geneva.*

A' phwy bynac ath cympello *i vyned* villtir, does gyd ac ef ddwy.—*Salesbury.*

A phwy bynnac a'th gymhello un filltir, dôs gyd ag ef ddwy.—*Morgan.*

Y mae yn rhaid addef fod yr un geiriau yn hollol yn cael eu harferyd gan Tyndal a Chranmer yn yr adnod hon. Ond saif cyfieithiad Geneva ar ei ben ei hun gyda golwg ar yr un ganlynol :—

Marc. i. 4.

Iohn dyd baptize in the wyldernes, and preache the Baptisme of amendement of life, for the remission of synnes. —*Geneva.*	Ioan oedd yn batyddyaw yn y diffaith, ac yn prechethy betydd emendaat buchedd, er maddeuant pechotac.—*Salesbury.*	Ioan ydoedd yn bedyddio yn y diffaethwch, ac yn pregethu bedydd edifeirwch, er maddeuant pechodau.—*Morgan.*

Nid oedd "emendaat buchedd" Salesbury ond rhyw hanner Cymreigiad o "amendement of life" Geneva, yr hyn a ddiwygir gan Morgan trwy roddi "edifeirwch." Gwyddai Salesbury yn eithaf da am y gair olaf, ond y mae dylanwad Geneva mor gryf arno fel y mae yn ei roddi yn fynych yn ol y cyfieithiad hwnw.

1 Cor. xiv. 10.

There are so many kindes of voyces (as it commeth to passe) in the worlde, and none of them is domme.—*Geneva.*	Y mae cynniuer o rywie*gaethe* lleisiae (val y bydd) yn y byd, ac nyd *oes* vn o hanynt yn vut.—*Salesbury.*	Y mae cymmaint o leisiau (fel y digwydd) yn y byd, ac nid oes vn yn [aflafar].—*Morgan.*

Dengys yr enghraifft uchod fod Salesbury yn defnyddio cyfieithiad Geneva a gyhoeddwyd yn 1560, oblegid pe buasai yn defnyddio un 1557 dywedasai "that they can not be descerned" yn lle "none of them is domme." Ond y mae yn ddigon amlwg ei fod yn defnyddio y naill argraffiad fel y llall. Yn argraffiad 1557 darllenir:—"And when the tyme of Maries purification after the law of Moses was come, they broght hym to Ierusalem, to present hym to the Lord." Ond yn argraffiad 1560 darllenir:—"And when the dayes of her purification after the law of Moses were accomplished." Y darlleniad blaenaf a gyfieithir gan Salesbury yn "A gwedy cyflawy dyddiae puredigaeth Mair yn ol Deddyf Moysen, wy y ducesont ef i Caerusalem, y'w oystaty ef i'r Arglwydd." Eto:—

Phil. i. 21.

For Christe *is* to me bothe in life, and in death advantage.—*Geneva.*	Can ys Christ *ys ydd* i mi *pop cn ym*-bywyt ac *yn* angeu yn enill*iat.*—*Salesbury*	Canys byw i mi [yw] Crist, ac elw yw marw. —*Morgan.*

1 Thess. v. 1.

Bvt of the tymes and seasons brethren, ye haue no nede that I wryte vnto you.—*Geneva.*	Ac am yr amsereu a'r prydieu, vroder, nyd rait *yvvch* scrivenu o hanof atoch.—*Salesbury.*	Ac am yr amserau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i chwi scrifennu o honof attoch.—*Morgan.*

Iago ii. 14.

What avayleth it my brethren, thogh a man sayeth he hath fayth, when he hath no dedes? Can that fayth save him. —*Geneva.*	Pa les, vymrodyr, o dowaid neb fod cantho ffydd ac eb vot gantho weithredoedd? a ddychon y ffydd *honno* eu iachau ef?—*Salesbury.*	Pa fudd fy mrodyr o dywed nêb fod ganddo ffydd, ac heb fod ganddo weithredoedd? A dichon y ffydd honno ei gadw ef? —*Morgan.*

Ond nid ydyw o un dyben dyfynu ym mhellach. Gallesid llanw cyfrol o faintioli canolig gydag esiamplau yn dangos fod cyfieithiad Geneva yn cael ei arfer yn barhaus gan gyfieithwyr Testament Cymraeg 1567. Mewn gwirionedd, hwn oedd eu harweinydd; ac yr oeddynt yn ei ddilyn mor fanwl ar brydiau fel y mae yr ieithwedd Seisonig yn aros yn amlwg yn y cyfieithiad Cymraeg. Dilynwyd Beibl Geneva trwy gyfieithu yr "Argumentau" o flaen y llyfrau, a'r "Cynnwysiadau" o flaen y pennodau, o hono bron air am air. Nid ydyw Morgan yn mabwysiadu cyfieithiad Salesbury o'r "Cynnwysiadau" i'r pennodau mewn un modd yn ddieithriad. Cymmerer "cynnwysiad" Matt. ii.:—

1. The time and place of Christes birth. 11. The wise men offer their presents. 14. Christ fleeth into Egypt. 16. The yong children are slaine. 23. Ioseph turneth Into Galile.—*Geneva.*

Yr amser, ar lle y ganed Christ. Y Dewinion yn anrhegy Christ. Ef yn ciliaw ir Aipht. Difa yr ei bychein. Ioseph yn ymchwelyd i Galilea.—*Salesbury.*

Y gwyr doethion y rhai ydynt flaenffrwyth y cenhedloedd yn addoli Crist. 13. Ioseph yn cilio i'r Aipht, a'r Iesu ai fam. 16. Herod yn lladd y rhai bychain. 22. Ioseph yn troi i Galilæa.—*Morgan.*

Eto ar y cyfan nid ydynt amgen nag arall-eiriad o "gynnwysiadau" Salesbury. Ond yr hyn oeddym am gyfeirio ato ydyw, fod cyfieithwyr Testament Salesbury yn sylfaenu eu cyfieithiad hwy yn benaf ar Feibl Geneva; eu bod hefyd yn ymgynghori yn fynych â thestynau Stephens a Beza, yn gystal ag amryw gyfieithiadau Lladin, ond y penaf, yn ddiammeu, yw eiddo Beza. Yr oeddynt yn pigo, megys, y gwahanol ddarlleniadau o'r rhai hyn, ar ol eu cymharu yn ofalus. Am Morgan, cymmerai ef Destament Salesbury fel safon, ac nid oedd yn hòni ei fod wedi gwneuthur amgen na diwygio yr arddull; eto y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau yn fawr yn aml, ac yn dangos ei fod beunydd yn ymgynghori â thestyn Groeg Stephens ac â'r *Vulgate*; ac yn fwy anaml, fe ddichon, â Beza. Afreidiol ydyw dyweyd fod yr holl gymharu hwn yn ychwanegu yn fawr at y gorchwyl rhagor pe buasent yn defnyddio un llyfr yn unig.

Adran III. — Teilyngdod Cymhariaethol Salesbury a Morgan.

Nid oes ammheuaeth pa un ai Salesbury ai Morgan oedd yn ysgrifenu Cymraeg oreu. Cymraeg da sydd gan Morgan; ond, fel yr ydym wedi sylwi, tipyn o Gymraeg pob man, wedi ei

gymmysgu ym mhellach â nifer lluosog o fastardd-eiriau Groeg, Lladin a Saesoneg, sydd gan Salesbury. Ond nid ydyw fod Morgan yn well Cymreigydd yn profi ei fod yn well cyfieithydd. Y mae yn wir fod digon o enghreifftiau o welliant yng nghyfieithiad Morgan ar eiddo Salesbury amgen na gwelliantau ieithyddol. Ond yr oedd ganddo well mantais, gan fod diffygion Salesbury o'i flaen. Yn Matt. iv. 1, y mae Salesbury yn wahanol i'r Groeg, y *Vulgate*, Beza, a'r holl gyfieithiadau Seisonig, yn gadael allan "drwy yr Yspryd"; ond y mae y geiriau i mewn gan Morgan. Y mae cyfieithiad lled wael gan Salesbury o Luc xxiii. 32: "Ac ydd oeddit yn arwein gyd ac ef dau ddrygddyn eraill y'w lladd." Nid oes ganddo gyfieithiad Geneva nac un cyfieithiad Seisonig arall fel awdurdod. Y mae cyfieithiad Morgan, o Destament Lladin Beza fe ddichon, yn llawer gwell:—"Ac fe a ddygwyd dau eraill, y rhai [oeddynt] ddrwg weithredwŷr iw rhoi iw marwolaeth gyd âg ef." Yn ol Salesbury, yr oedd yr Iesu yn gymmaint drwg-weithredwr a'r lladron, ond gwna Morgan wahaniaeth rhyngddynt. Yn Ioan xi. 8, cyfieithia Salesbury *νῦν ἐζητουν σε λιθάσαι οἱ Ἰουδαῖοι* yn "hwyr y ceisiawdd yr Iuddaeon dy lapyddiaw *di*"; gwell yw Morgan,—"yn awr y ceisiodd yr Iddewon dy labyddio." Yn Act. xxvii. 17, cyfieithia Salesbury *χαλάσαντες τὸ σκεῦος* yn "gadael y llestr i waeret"; ond y mae Morgan yn fwy cywir yn gosod "hwy a ostyngasant yr hwyl." Gallesid ychwanegu yn helaeth at yr enghreifftiau hyn pe buasai hyny yn angenrheidiol. Ond fel y dywed y Dr. T. C. Edwards:—"Y dyfarniad yw fod Salesbury yn gystal ysgolhaig Groeg a'r Esgob Morgan, fe allai yn well nag ef. O'r hyn lleiaf, ni ddeuais ar draws unrhyw gyfnewidiad ar gyfieithiad Salesbury gan Morgan, yn yr hwn y dengys yr esgob wybodaeth wreiddiol ac heb fod yn gorphwys ar eraill, yn fwyaf neillduol ar y *Vulgate* a Beza." Yr ydym yn credu y bydd i'r enghreifftiau canlynol brofi y sylw uchod.

Matt. x. 4.—*Σίμων ὁ Κανανταῖος*: "Simon y Cananit" gan Salesbury; "Simon y Canaanead" medd Morgan. Gair wedi dyfod o'r Aramaeg "*Kanan*" ydyw y Groeg yn y fan yma, a gwelir oddi wrth adnodau eraill mai yr un oedd y Simon hwn a'r un a "elwir *Zelotes*" (Luc. vi. 15; Act. i. 13). Perthyn i gymdeithas y *Zelotiaid*, neu ddysgyblion Judas y Galilead, yr oedd Simon, ac nid disgynydd o'r hen Ganaaneaid, fel y tybid gan Morgan.

Matt. xii. 12.—*σάββασι καλῶς ποιεῖν*: "gwneythyd da ar y *dydd* Sabbath," medd Salesbury; "gwneuthur yn dda ar y dydd Sabboth," medd Morgan. "Gwneuthur da" ydyw y goreu.

Matt. xiii. 19.—ἔρχεται ὁ πονηρὸς: "e ddaw'r Drwc," medd Salesbury; "y mae y drwg yn dyfod," medd Morgan. Y mae Salesbury yn dangos ar ymyl y ddalen, trwy roddi "Vall," ei fod yn deall mai y *diafol* sydd i'w feddwl, ac nid *rhyw* ddrwg arall.

Matt. xiii. 47.—"Cyffelyp yw teyrnas nefoedd i rwyt tynn a vwrit yn y mor." Nid ydyw "tynn" gan Morgan; ac felly y mae yn colli golwg ar y gwahaniaeth rhwng σαγήνη ac ἀμφιβλήστρον (= tafl-rwyd), yr hon a geir yn Marc i. 16.

Matt. xxvi. 12.—πρὸς τὸ ἐνταφιάσοι με ἐποιησεν: Y mae darlleniad Salesbury "er mwyn vy-claddedigaeth hi ai gwnaeth" yn fwy ffyddlon i'r gwreiddiol nag "a wnaeth hyn i'm claddu i" y Dr. Morgan. Y meddwl ydyw "i'm paratoi i'm claddedigaeth."

Matt. xxvi. 15.—Οἱ δὲ ἵστημι: Nid ydyw Salesbury yn hollol gyflawn yma. Y meddwl ydyw, "hwy a osodasant yn y clorian" = *bwysasant* "*ddeg ar hugain o arian.*" "Ac wy a' osodesont iddaw ddec arugain o ariant," ydyw darlleniad Salesbury, yr hwn sydd yn well na "hwy a dalasant" Morgan.

Marc vi. 56.—ἐν ταῖς ἀγοραῖς: Y gair cywiraf am ἀγοραῖς yw "marchnadoedd"; ond "wy ddodent ei cleifion yn yr heolydd" ydyw cyfieithiad Salesbury; a "heolydd" a rydd Morgan, er fod Salesbury wedi gosod "y marchnatoedd" ar ymyl y ddalen. Wrth gyfieithu yr adnod hon, rhaid fod Morgan a'i olwg ar y *Vulgate*, yn hytrach nag ar nodiad ymyl-ddalenol Salesbury.

Luc xvi. 9.—ποιήσατε ἑαυτοῖς φίλους ἐκ τοῦ μαμωνᾶ τῆς ἀδικίας: Yr hyn a gyfieithir gan Salesbury yn "gwnewch y-chwi geraint a golud enwiredd"; ond yn ol Morgan fel hyn y dylid ei ddarllen:—"Gwnewch i chwi gyfeillion o'r golud twyllodrus." "O'm rhan fy hun," medd y Dr. T. C. Edwards, "yr wyf yn ffufrio Salesbury yn yr ymadrodd hwn. Ac addef fod "ceraint" yn hynafol yn yr ystyr o "gyfeillion," y mae cyfieithiad yr adnod gan Salesbury yn rhagori mewn amryw fanau."

Ioan iii. 31.—Ὁ ὢν ἐκ τῆς γῆς, ἐκ τῆς γῆς ἐστι: Nid ydyw "yr hwn sydd o'r ddaiar, sydd o'r ddaiar, ac am ddaiar y mae yn ymadrodd," fel ei ceir yn Morgan, yn gywir. Mwy cywir Salesbury, yr hwn a ddarllena "ac o'r ddaiar yr ymadrodd."

Act. ii. 46.—κλῶντές τε κατ' οἶκον: Nid dyweyd y mae Luc, fel y rhoddir ar ddeall i ni gan Morgan, fod y bobl "yn parhau beunydd yn y Deml yn gytun, gan dorri bara o dŷ i dŷ," ond yn hytrach, fel y dywed Salesbury, "aros ydd oeddent beunydd yn vnvryd yn y Templ, ac yn tori bara gartref, ac yn cymeryt bwyt yn-cyt."

Act. v. 1.—ἐπώλησε κτῆμα: O bosibl nad ydyw Morgan yn

gywir wrth ddyweyd mai "tir" a werthwyd gan Ananias a'i wraig. Pa fodd bynag, "meddiant" ydyw y cyfieithiad cywir o κτῆμα, ac y mae Salesbury yn cadw ei ystyr wrth roddi "berchenogaeth."

Act. ix. 25.—διὰ τοῦ τείχους: "ac a'i danfonasant dros y mur," medd Morgan; ond mwy cywir Salesbury, yr hwn a rydd,—"ac ei *d*anfonesont trwy'*r* mur."

Act. xxi. 24.—δαπάνησον ἐπ αὐτοῖς: "a' chyd gostia a' hwy," medd Salesbury, yr hyn sydd yn fwy eglur, os nad yn well cyfieithiad, na "gwna draul arnynt," yn ol Morgan.

Act. xxvii. 41.—περιπεσόντες δὲ εἰς τοπον διθαλασσον: "A' gwedy dygwydo o hawynt mewn lle dauvor-*gyhevrdd*," medd Salesbury, yr hyn sydd yn well na Morgan, gan ddilyn y *Vulgate*, a rydd,—"Ac wedi i ni syrthio ar draethell dau-for."

1 Cor. xiv. 6.—ἐὰν μὴ ὑμῖν λαλήσω ἢ ἐν ἀποκαλύψει: Y mae Salesbury yn gosod "ai drwy *dd*atguddiat"; ond y mae Morgan, yn erbyn y Groeg, y *Vulgate*, Beza, ac yn wahanol i'r holl gyfieithiadau Seisonig, yn rhoddi "oni ymddiddanaf â chwi trwy weledigaeth." Fe welir hefyd mai "Gweledigeth Ioan y Divinydd" ydyw cyfieithiad Huet o ΑΠΟΚΑΛΥΨΙΣ ΙΩΑΝΝΟΥ ΤΟΥ ΘΕΟΛΟΓΟΥ. Y mae yn ddigon gwir mai "gweledigaeth" a gafodd Ioan, ond "datguddiad" ydyw y gair a rydd ef ei hun; ac y mae Salesbury, neu rywun arall, wedi ysgrifenu "Atcuddiat" ar ymyl y ddalen yn y fan hòno. Y mae Salesbury yn 1 Thes. i. 7, yn cyfieithu ἀποκαλύψει yn "ymddangos," ac, er ei fod yn rhoddi "ymddatguddio" ar ymyl y ddalen, nid yw Morgan yn ei gyfnewid.

2 Thes. iii. 14.—Εἰ δέ τις ουχ υπακούει τῷ λόγῳ ἡμῶν διὰ της ἐπιστολῆς, τοῦτον σημειοῦσθε: "Od oes neb nid ufuddhao ein hymadrodd yspyswch ef trwy lythr," ydyw cyfieithiad Morgan. Ond nid rhoddi hysbysrwydd i'r anufudd yng nglŷn â dim oedd gorchymmyn Paul, yn hytrach ei "nodi allan"; a thybiwn fod Salesbury wedi gweled y meddwl:—"Ad *oes* nep ny's vvyddhao i'n ymadrodd, arwyddocewch ef trwy lythyr," ac y mae yn ychwanegu "nodwch" ar ymyl y ddalen.

Heb. ix. 7.—και τῶν τοῦ λαοῦ ἀγνοημάτων: Y mae y Dr. Davies yn gywir wrth roddi "anwybodaethe y bobl"; "anwybodaeth" sydd gan Morgan.

Wrth bigo ambell i adnod yma a thraw fel hyn, y mae yn dyfod i'n meddwl y chwedl am y gŵr hwnw a geisiai werthu ei dŷ trwy gario un neu ddwy o'r priddfeini i'w ganlyn. Ni fuasai yn bosibl i neb gael ond drychfeddwl lled anghyflawn am y tŷ

wrth edrych ar y priddfeini, ac y mae yr un mor ammhosibl cael syniad boddhaol am nodweddion y cyfieithiadau dan sylw wrth nodi ychydig ymadroddion. Ond nid oes genym ddim arall i wneyd. Byddai mor anhawdd i ni gymharu holl neillduolion Salesbury a Morgan â'u gilydd, ag a fyddai i berchennog y tŷ ei gario i'w ganlyn. Pa fodd bynag, yr ydym yn credu ein bod wedi nodi digon o enghreifftiau i ddangos nad oedd Morgan yn fwy ffyddlawn i'r gwreiddiol—yn wir, nid oedd mor ffyddlawn—a Salesbury. Yr ydym yn credu, pe buasid yn cymharu eu gwaith o'r dechreu i'r diwedd, y buasai yn rhaid rhoddi y flaenoriaeth yn hyn i Salesbury. Nid oes dadl nad oedd Morgan, fel yr addefa Wynn o Wydir, yn ysgolhaig Groeg rhagorol. Ond y mae yn dra phosibl fod ei nerth yn y cyfeiriad hwnw yn myned o'r golwg i raddau wrth geisio rhoddi cyfieithiad Salesbury mewn Cymraeg darllenadwy. Y mae yn ddiammeu fod Morgan yn gweled mai diffyg mwyaf y cyfieithiad hwnw oedd ei wisg. A phan yr aeth ef at y gorchwyl o'i ddiwygio, y mae yn dra thebygol fod ei sylw yn cael ei gyfyngu yn ormodol at yr ieithwedd i ganiatau iddo wneuthur cyfiawnder bob amser â'r gwreiddiol. Gŵyr pawb fod pob cyfieithiad ryw gymmaint yn wanach na'r hyn y cyfieithir o hono. Y mae yn ammhosibl rhoddi y *lights and shades*, ys dywed yr arlunydd Seisonig, bob amser yn yr un cymmesuredd yn y cyfieithiad ag y maent yn y gwreiddiol. Ond cyfieithiad o gyfieithiad, mewn gwirionedd, oedd diwygiad y Dr. Morgan o Destament Salesbury. Y mae yn wir fod ganddo wrth ei law Destamentau Groeg a Lladin, ac y mae digon o brofion ei fod yn eu defnyddio; ond gwaith Salesbury a'i gyd-lafurwyr oedd y sylfaen. Yr ydym bron yn credu mai mwy manteisiol i Morgan, ar *un* ystyr, a fuasai, nid ceisio diwygio gwaith Salesbury, ond ymgymmeryd â chyfieithiad annibynol. Y mae yn wir ei fod yn cael y fantais o dderbyn eglurhad ei ragflaenoriaid, a bod geir-restr gyfoethog Salesbury ar ymyl y dalenau at ei wasanaeth. Ond yr oedd mewn perygl o ymorphwys ar y rhai hyny, yn hytrach na myned i'r drafferth i chwilio am eiriau cyfystyr â'r gwreiddiol.

Y mae Morgan yn dilyn Salesbury yn llawer rhy ffyddlawn i fod yn gywir. Y mae hyn yn amlwg yn eu defnyddiad o'r fannod.

Matt. xiii. 39.—Οἱ δὲ θερισταὶ, ἄγγελοί εἰσιν: Nid "a'r medelwŷr yw'r angelion" sydd gywir, ond "a'r medel-wyr ydynt angelion." Dylai y fannod gael ei gadael allan, ond defnyddir hi gan Salesbury a Morgan.

Matt. xix. 24. — *εὐκοπώτερόν ἐστι καμηλον διὰ τρυπήματος ῥαφιδος διελθεῖν*, yr hyn a gyfieithir gan Morgan, gan ddilyn Salesbury, yn "haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur." Fe allai mai y darlleniad goreu fyddai "haws yw myned o gamel trwy grau nodwydd ddur."

Enghreifftiau ydyw y rhai uchod, fel y gwelir, o ddefnyddio y fannod heb ei heisiau. Ond wele un neu ddwy o esiamplau pan y gadewir y fannod allan gan Salesbury a Morgan yn hollol anghywir :—

Luc xviii. 13.—'Ο Θεὸς, *ἱλάσθητί μοι τ�ῳ ἁμαρτωλῷ*: "Duw, trugarha wrthyf bechatur," medd Salesbury; ac "O Dduw, bydd drugarog wrthif bechadur," medd Morgan. Nid oes yr un o honynt wedi sylwi ar y fannod, neu buasent yn rhoddi "bydd drugarog wrthyf fi *y* pechadur."

2 Tim. iv. 7. "Mi a ymdrechais ymdrech teg; ac 'orphenais fy gyrfa; Y ffydd a gedwais."—*Salesbury*. "Myfi a ymdrechais ymdrech têg; a orphenais fyng-yrfa; [ac] a gedwais y ffydd."—*Morgan*. Gwell fuasai,—"Yr ymdrech deg a ymdrechais; fy ngyrfa a orphenais; y ffydd a gedwais."

Heb. xi. 10. "Can ys discwyl y rydoedd am ddinas ac iddi sail, Saer ac edyladwr yr hon, *yw* Dyw," ydyw cyfieithiad yr Esgob Davies; "Canys disgwil yr ydoedd am y ddinas, ac iddi sail, saer ac adeiladudd yr hon yw Duw," sydd gan Morgan, yr hwn sydd yn gwella ychydig ar hon trwy osod y fannod o flaen "dinas," ond y mae bannod hefyd yn y gwreiddiol o flaen "sylfeini." Ac yn ol y Dr. T. C. Edwards dylid darllen yr adnod fel hyn :—"Canys disgwyl yr ydoedd am *y* ddinas y mae iddi *y* sylfeini, cynllunydd ac adeiladydd yr hon yw Duw."

Y mae Salesbury yr un mor euog o gamddefnyddio yr arddodiad; ac nid ydyw Morgan yn ddim gwell nag yntau. Ceir enghreifftiau lluosog o hyn yn y defnydd a wnant o'r arddodiad *ἐν*, megys :—

Luc xxiii. 42.—Κύριε, *ὅταν ἔλθῃς ἐν τῇ βασιλειᾳ σου*, yr hyn a gyfieithir gan Salesbury, a Morgan ar ei ol, yn "Arglwydd, coffa vi pan ddelych ith teyrnas." Ai nid "*yn* dy deyrnas" a fuasai oreu?

Dat. v. 3.—*ἐν τῷ οὐρανῷ, οὐδὲ ἐπὶ τῆς γῆς*: "Ac ny doedd neb yn y nef, nac yn y ddayar" medd Huet, ac ni phrofodd Morgan ei hun yn ddigon craff i ganfod y gwahaniaeth rhwng *ἐν* ac *ἐπὶ*; oblegid "*yn* y nef, nac *ar* y ddaear" a ddylasai fod.

Ceir esiampl nodedig o gam-gyfieithu *ἐπι* yn Ioan iv. 6 :—

ἐκαθέζετο οὕτως ἐπὶ τῇ πηγῇ. Dylid cyfieithu ἐπὶ yn y fan hon i olygu y cyflwr rhoddiadol (*dative case*), "wrth," neu "yn ymyl, y ffynnon." Ond dywed Salesbury a Morgan i'r Jesu eistedd "ar y ffynnon." Yr un modd hefyd gyda'r arddodiad διὰ, yr hwn yn fynych a gyfieithir "gan," yn lle "trwy." Yn Act. ii. 43, ceir διὰ τῶν ἀποστολων; ond y mae y cyfieithwyr Cymreig wrth ddyweyd "llawer o ryfeddodau ac arwyddion a wnaethpwyd gan yr apostolion" (Morgan), yn golygu, feddyliem, mai yr apostolion oedd y *gweithredwyr*, yn hytrach na *chyfrynyau*, y rhyfeddodau a'r arwyddion hyny. Afreidiol yw ychwanegu mai "trwy" a fuasai gywiraf yma.

Prin y byddai yn ddoeth ychwanegu dim ar y pen hwn. Gellir cymhwyso y sylwadau uchod, can belled ag y mae a fynont â'r fannod a'r arddodiad, at yr holl gyfieithiadau Seisonig, o eiddo Wicliffe hyd Feibl Iago I. Fel y dangoswyd y cyfieithir hwynt yn Nhestament Geneva 1557; ac y mae yn fwy na thebyg mai yno y cafodd y cyfieithwyr Cymreig cyntaf eu harddull. Pe na buasem wedi cael profion eraill i'r gwrthwyneb, ond odid na fuasem yn credu mai cyfieithiad o Destament Geneva ydyw Testament Salesbury. Ond fel yr ydym wedi dangos, nid felly y mae. Pa fodd bynag, y mae yn rhaid addef na ddarfu Morgan gyfnewid cymmaint ar yr olaf ag y gallesid meddwl ar yr olwg gyntaf. Diwygiodd lawer arno wrth gwrs, ond nid cymmaint ag allesid ddymuno. Ond ar yr un pryd, credwn y deil i'w gymharu yn ffafriol ag unrhyw gyfieithiad Seisonig, ac eithrio y Cyfieithiad Diwygiedig diweddar yn unig. Ac yn wir, os cymmer y darllenydd y drafferth i gymharu hwnw â chyfieithiadau Salesbury a Morgan, caiff fod eu darlleniadau yn aml yn lled debyg iddynt. Yr ydym yn cydnabod yn rhwydd fod yn llawer hawddach nodi allan ychydig o ddiffygion yng ngweithiau eraill, na gwneuthur yr orchest-waith a wnaed gan ein cyfieithwyr. Gwnaeth pob un o honynt yn dda,—*yn rhagorol*, pan gofiwn eu hanfanteision lluosog. Ac y maent yn wir haeddiannol o'r ganmoliaeth fwyaf a ellir ei gosod allan mewn geiriau.

PENNOD VIII.

MORGAN A PARRY FEL CYFIEITHWYR.

Yr Esgob Parry yn dwyn allan argraffiad diwygiedig o Feibl Morgan yn 1620—Nodiadau ar yr Esgob Parry; ac ar ei gynnorthwywr, y Dr. John Davies, o Fallwyd—Llythyr Cyflwyn Parry i'r Brenin Iago I.—Y ffynnonellau o ba rai y tybir fod Morgan a Parry yn cyfieithu—Enghreifftiau i ddangos nad yw yr oll o gyfnewidiadau Parry er gwell—Rhai o ddiwygiadau Parry yn cael eu nodi.

Pa nifer bynag o gopïau oedd yn argraffiad Salesbury o'r Testament Newydd ac yn argraffiad Morgan o'r Beibl, hyny a gafodd y Cymry o'r Ysgrythyrau at eu gwasanaeth hyd y flwyddyn 1620. Yn y flwyddyn hòno cyhoeddodd y Dr. Richard Parry, olynydd Morgan fel Esgob Llanelwy, ei gyfieithiad diwygiedig ef o'r Ysgrythyrau. Cyfrol fawr unplyg drwchus ydyw hon—yn fwy o blyg a thrwch na Beibl yr Esgob Morgan. Hwn oedd y Beibl—ond nid y *llyfr*—Cymraeg olaf a argraffwyd mewn llythyren ddu; ac yn wahanol i'w ragflaenoriaid, nid ydyw y dalenau, na'r tudalenau, wedi eu rhifnodi.* Y mae'r wyneb-ddalen yn darllen fel y canlyn :—

Y Bibl
Cyssegr-lan;
Sef yr Hen Desta-
ment a'r
Newydd.
2 Tim. 3. 16.
Yr holl sgrythur sydd wedi ei rhoddi gan
Ysbrydoliaeth Dduw, ac sydd fuddiol i
athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i
hyfforddi mewn cyfiawnder:
17 Fel y byddo dyn Duw yn berffaith we-
di ei berffeithio i bob gweithred dda.

Printedig
yn Llundain gan Bonham
Norton a John Bill,†
Printwyr i Ardderchoc-
caf fawrhydi y Brenhin.
1620.

* Y mae lleni yr Hen Destament a'r Apocrypha ym Meibl Parry yn cyrhaedd hyd *E e e e* 3, a lleni y Testament Newydd hyd *Y* 2. Ac y mae y llythyren yn frasach nag ydyw ym Meibl Morgan.

† John Bill ydyw ar wyneb-ddalen yr Hen Destament, a hyny sydd gywir; ond John Bil sydd ar wyneb-ddalen y Testament Newydd.

Ychydig o nodiadau yn bresennol o barthed i'r gŵr da a estynodd y rhodd werthfawr hon i'w genedl. Mab oedd Richard Parry i John ab Harri, o'r Pwllhalawg, Rhuthyn, sir Ddinbych, ab Dafydd ab Hywel ab Meilir ab Iorwerth ab Goronwy ab Gruffydd ab Llywelyn ab Cynwrig Efell, arglwydd Glwysegl. Ei fam oedd Elen, merch ac aeres Dafydd ab John ab Twna ab Ieuan ab Ieuan ab Gruffydd ab Rhys ab Madog Llwyd, ac oddi yno i Tudur Trevor.* Efe oedd mab hynaf ei rieni, a ganwyd ef yn Rhuthyn yn y flwyddyn 1560. Addysgwyd ef am beth amser yn ysgol Westminster, dan hyfforddiant yr hanesydd Camden; ac oddi yno yr aeth yn efrydydd yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1579. Dywedir gan rai iddo fod am yspaid yn brif athraw ysgol Rhuthyn, ac er fod hyn yn cael ei ammeu, ymddengys ei fod yn ffaith. Penodwyd ef i'r swydd hòno yn 1595, ac a'i daliodd hyd 1599, pryd yr olynwyd ef gan Robert Griffith.† Pa fodd bynag, ymddengys ei fod yn dal swyddau eglwysig yr un pryd, oblegid dywedir wrthym iddo gael ei benodi yn ganghellydd Eglwys Gadeiriol Bangor, ac yn ficer Gresford, yn 1592. Derbyniodd y teitl o D.D. yn 1598, a gwnaed ef yn ddeon Bangor yn 1599. Etholwyd ef yn olynydd i'r Esgob Morgan, fel Esgob Llanelwy, 19eg o Hydref, 1604; cadarnhawyd yr etholiad ar y 29ain o'r un mis; a chyssegrwyd ef ar y 30ain o Rhagfyr, yn yr un flwyddyn.‡

Priododd y Dr. Parry, yn 1598 neu 1599, Gwen, merch John ab Rhys Wynn o'r Llwyn Ynn a Chaer Ddinog, yn Llanfair Dyffryn Clwyd, o Mary ei wraig, yr hon oedd ferch i'r Barwn Lewys Owen, Cwrt Plas yn Dre, Dolgellau. Ymddengys fod rhyw hoffder neillduol at yr urdd glerigol ym merched John ab Rhys Wynn. Priododd ei ferch Jane y Dr. Davies o Fallwyd, a Catherine, merch arall iddo, Evan Morgan, mab yr Esgob Morgan. Cafodd y Dr. Parry un ar ddeg o blant; pedwar o feibion, Richard, William, John, ac Edward; a saith o ferched, sef, Mary, Catherine, Frances, Anne, Margaret, Jane, ac Ellen; a phriododd y nifer luosocaf o honynt i'r teuluoedd goreu yn y wlad.§ Diammeu genym fod Parry yn fwy o ddyn cymdeithas

* Hist. Powys Fadog, vol. v., p. 209, *et seq.* † Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph, p. 456.
‡ Browne Willis's St. Asaph (Edwards's Edit.), vol. i., p. 109; Williams's Eminent Welshmen, p. 390.
§ Ffaith nodedig yng nglŷn â phriodasau dau o blant yr Esgob Parry, yng nghyda'i weddw, ydyw yr un a gofnodir gan Peter Roberts:—"Memorandum that upon Saturday being the xxviith day of November 1624 Thomas Mostyn Esq're and Gwen Parrie the late wief of the late rev'end father in God Richard Parrie, late lord Bushop of Sc't Asaph decessed were married; and also W'm Mostyn gent son and heire app'ant of the said Thomas Mostyn and one Anne Parrie one of the yonger daughters of the said late Lord Bushop were likewise maried the day and yeare aforesaid, and Richard Parrie son and heire of the said late Lord Bushop and Marie Mostyn third daughter of the said Thomas Mostyn were then maried" (*Y Cwtta Cyfarwydd*, p. 104.)

na'i ragflaenydd, Morgan druan. Yr oedd y blaenaf yn fab i ŵr boneddig, fel y dywedir; ac nid oedd yr olaf, er gwaethaf ei achres hir, a'i ddisgyniad tywysogaidd, ond mab i amaethwr bychan tlawd. Ond, er na fynem ddyweyd gair i fychanu y Dr. Parry, ac nid oes genym air gwael i ddyweyd am dano pe yr ewyllysiem, credwn mai rhy brin y gallodd, er ei holl fanteision, wneuthur cymmaint gwrhydri a'r bachgen o Benmachno. Heblaw diwygio gwaith Morgan, a chyfansoddi "*Concio ad Clerum*" ar Dat. iii. 4, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1628, nis gwyddom am unrhyw lafur llenyddol o'i eiddo. Teg ydyw crybwyll hefyd iddo, y flwyddyn cyn ei farwolaeth, adael cymmun-rodd o £6 yn flynyddol tuag at gynnal ysgolor tlawd yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, a fyddai yn enedigol o Rhuthyn, neu o Esgobaeth Llanelwy. Bu farw ar y 26ain o Fedi, 1623, yn ei gartref yn y Dyserth,* a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, lle nid oes un math o gofadail i barhau ei goffadwriaeth. Dyma un arall o gymmwynaswyr Cymru wedi cael ei esgeuluso.

Y mae yn cael ei ddyweyd, a hyny gyda phob tebygolrwydd, i'r Esgob Parry dderbyn cynnorthwy nid dibwys yn y gorchwyl o ad-gyfieithu yr Ysgrythyrau gan y Dr. Davies o Fallwyd. Dywedir mai mab oedd John Davies i Dafydd ab Sion ab Rhys ab Ednyfed, o Lanrhaiadr yng Nghimmeirch; ac enw ei fam oedd Elizabeth, merch i ryw Lewis Dafydd Llwyd. Y mae ein achyddwyr yn rhoddi haniad tra urddasol iddo, sef o Marchudd ap Cynan yn llinach Ednyfed Fychan; ac y mae ef mewn llythyr o'i eiddo yn galw Robert Vaughan, yr hynafiaethydd o'r Hengwrt, yn "gefnder."† Pa fodd bynag, dywedir mai gwehydd oedd ei dad, yn byw yn Llanferres, sir Ddinbych. Ac yno y ganwyd John Davies, fel y tybir oddeutu'r flwyddyn 1570. Ac y mae yn werth sylwi fod pob un o'r rhai a fu ganddynt ran fel cyfieithwyr yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg, neu a gynnorthwyasant ac a gefnogasant y gwaith hwnw, ag eithrio yr Archddiacon Prŷs yn unig, yn frodorion o sir Ddinbych neu sir Gaernarfon. Wrth gwrs dylem eithrio y Saeson, megys Whitgift a Bellot; ond wedi eu gadael hwy o'r neilldu, Edmwnd Prŷs ydyw yr unig Gymro oddi allan i'r siroedd a nodwyd a fu a rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y gwaith. Yn hyn y mae gan y Dinbychiaid a'r Arfonwysiaid le i ymfalchïo.

* Bu yr Esgob Parry yn byw yn Llanelwy o amser ei gyssegriad hyd 1609, pryd yr aeth i drigiannu i'r Dyserth, lle yr oedd tŷ yn perthyn iddo yn rhinwedd ei swydd fel archddiacon Llanelwy. (*Y Cwtta Cyfarwydd*, p. 14.) Ac yno yr arhosodd hyd ei farwolaeth.

† Cambrian Register, vol. ii., p. 470.

Ymddengys iddo dderbyn ei addysg foreuol yn ysgol Rhuthyn,* ond yn 1589 aeth i Goleg Iesu, yn Rhydychain, lle yr arhosodd bedair blynedd, sef hyd 1593. Yn y flwyddyn ganlynol cymmerodd urddau eglwysig; ond y fywoliaeth gyntaf a dderbyniodd, hyd y mae genym hanes, ydoedd rheithoriaeth Mallwyd yn 1604, yr hon a gafodd gan y Goron rhwng marwolaeth yr Esgob Morgan a chyssegriad yr Esgob Parry. Y mae yn destyn syndod i ni, pan gofiwn y crybwylliad o'i eiddo i'r perwyl iddo gael ei addysgu a'i ddwyn i fyny "wrth draed y Gamaliel hwnw," sef Morgan, na fuasai yn cael bywoliaeth ganddo. Ond ar ddyrchafiad Parry i Esgobaeth Llanelwy, penododd Davies yn gaplan iddo. Yn 1608 y mae yn dychwelyd i Rydychain, ac yn ymgymmeryd â'r swydd o "Ddarllenydd Ymadroddion yr Esgob Lombard," yng Ngholeg Lincoln. Dros ba hyd yr arhosodd yno sydd anhysbys, ond y mae yn eglur na ymddiswyddodd o reithoriaeth Mallwyd. Gwnaed ef yn un o ganoniaid Llanelwy yn 1612, yn rheithor Llanymawddwy yn 1613, yn rheithor segurswyddol Darowen yn 1615; yn 1616 derbyniodd y teitl o D.D. (S.T.P.), yn 1517 cafodd gorfuddiaeth Llannefydd, ac y mae yn ymddangos iddo ddal bywoliaeth Llanfor am ryw yspaid. Ond ym Mallwyd y cartrefai, ac y mae olion o'i gymmwynasgarwch a'i haelfrydedd i'w weled yn y plwyf hwnw hyd heddyw. Dywedir iddo adeiladu tair o bontydd er cyfleusdra i'w blwyfolion ac eraill, ar ei gost ei hun; ac y mae un o honynt yn cael ei defnyddio hyd heddyw. Gadawodd ardreth maes o'r enw Dôl Ddyfi i'w rhanu i dlodion plwyf Mallwyd tra "rhed y dŵr." Hefyd, adgyweiriodd gryn lawer ar yr Eglwys, a dywedir iddo ail-adeiladu y rheithordy.

Yn sicr yr oedd y Dr. Davies yn un o lenorion mwyaf cynnyrchiol ei oes, ac yn hynafiaethydd campus. Ymddangosodd gyntaf fel awdwr yn 1620, pryd y cyhoeddodd ei "*Antiquæ Linguæ Britannicæ Rudimenta*," sef Gramadeg o'r iaith Gymraeg yn Lladin, yr hwn a gyflwynodd i'r Esgob Parry. Dilynwyd hwn gan ei "Gatecism" yn yr un flwyddyn. Yn 1632, cyhoeddodd ei Eiriadur Cymraeg a Lladin, a Lladin a Chymraeg; yr ail ran yn dalfyriad o waith Syr Thomas ab William o Drefriw. Ac er gwaethaf tystiolaeth Lewis Morris o Fôn, nid oes dadl nad gwaith gorchestol yw y llyfr hwn os ystyrir ei amser. Yn yr un flwyddyn ag yr ymddangosodd ei Eiriadur, cyhoeddodd ei gyfieithiad o "Parson's *Christian Resolutions*." Ac yn 1633, cyhoeddodd "Yr Hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatechism."

* Yr ydym eisoes wedi sylwi i ysgol gael ei sefydlu yma yn 1574.

Gadawodd ar ei ol hefyd lawer o'i waith mewn llawysgrif. Un o'r cyfryw oedd detholion o weithiau y Beirdd Cymreig, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1710 dan yr enw "*Flores Poetarum Britannicorum.*" Y mae amryw o'i lythyrau mewn llawysgrif yng nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig;* ac ym mhlith ysgriflyfrau yr Hengwrt, y rhai ond odid ydynt yn awr ym Mheniarth, yr oedd yr ysgriflyfrau canlynol o'i eiddo:—

48.—Llyfr Odlau y Tywysogion o law y Dr. Davies. in 4to. 3 Modfedd o dewdwr.

147.—Hen gerddi i'r tywysogion a phenaethiaid Cymru o law y Doctor Davies.—Item, Officium B. Mariæ yn Gymraeg, in 4to. four inches thick.

165.—Llyfr têg Diarhebion Cymraeg, o law Doctor John Davies o Fallwyd.†

Bu farw y Dr. Davies ar y 15fed o Fai, 1644, a chladdwyd ef ar y 19eg o'r un mis yn Eglwys Mallwyd. Cerfiwyd y geiriau canlynol ar gareg ei fedd, y rhai, gan fod y gareg yn ffurfio rhan o'r llawr, sydd wedi llwyr wisgo ymaith:—

Iohannes Davies, S.T.P.
Rector Ecclesiæ Parochialis De Mallwyd,
Obiit 15 Die Maii,
Et Sepultus fuit 19, A.D. 1644, In Virtutis
Potius Quam Nominis Memoria.

Fel ein hysbysir gan olygydd *Llyfryddiaeth y Cymry*, y mae "coflech harddwych o fynor gwyn" wedi ei gosod ar fur gogleddol Eglwys Mallwyd er ys rhai blynyddau yn ol i alw sylw y plwyfolion at y fraint a gafodd eu hynafiaid o gael y fath ŵr mawr a'r Dr. Davies i drigo yn eu plith. Ac ar yr hon, ym mhlith pethau eraill, crybwyllir am ei ddysgeidiaeth, "Græca, Latina, Hebræa Eruditio," am yr hyn nid oes dadl.

Bu farw yn ddiblant, a phriododd Jane, ei weddw, yr hon fel y sylwyd oedd yn chwaer i wraig yr Esgob Parry, ei gurad, sef y Parch. Edward Wynn, B.A. Yr oedd hwn yn fab i Edward Wynn, Ysw., o Fodewryd, sir Fôn. Ac ar farwolaeth y Dr. Davies, cyflwynwyd ef i reithoriaeth Llanymawddwy gan yr Esgob Owen.

Fe ddichon fod y nodiadau uchod yn ddigon i gyflwyno y

* Additional MSS. 15,024, fol. 2; and 15,031, fol. 111. Y mae y llythyrau hyn yn argraffedig yn y *Cambrian Register*, vol. ii., pp. 470-473.

† "Catalogue of Curious and Valuable MSS. in Hengwrt Library" in 1658, printed in *Cambrian Register*, vol. iii., pp. 286, 299, and 307.

Dr. Davies i sylw.* Nid oes a fynom ni ag ef ond yn unig yn ei gyssylltiad â'r Beibl Cymraeg. Y mae yn ammhosibl, fe allai, cael allan pa bryd yr ymgymmerodd yr Esgob Parry a'r Dr. Davies â'r gwaith o ddiwygio cyfieithiad y Dr. Morgan. Ac yn wir, nid ydyw Parry, yn ei lythyr cyflwyn i'r Brenin Iago, yn cydnabod cynnorthwy Davies o gwbl. Gellir meddwl oddi wrth y llythyr hwnw mai efe [Parry] ei hun a wnaeth yr oll. Ond barn y nifer luosocaf o ysgrifenwyr ydyw fod gan y Dr. Davies gystal hawl ag yntau ynddo. Yn ei ragarweiniad i'w Ramadeg, dywed, fel y crybwyllasom, iddo fod yn gynnorthwywr annheilwng yn y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg. Ac yn ei ragarweiniad i'w Eiriadur, dywed :—"Os oes rhai yn barod i feio arnaf, meddaf, a thaeru fy mod yn fy ail fabandod am fy mod yn ymyryd â'r pethau plentynaidd hyn, fel y geilw rhai hwynt, eto yr wyf yn gobeithio y caf faddeuant yn hawdd, hyd yn oed gan y bobl hyn, pan ddeallant fy mod wedi lladrata yr amser a weriais gyda'r llyfr hwn oddi wrth bethau eraill mwy pwysfawr (canys yr wyf yn ewyllysio rhoddi cyfrif o'm holl amser i'r rhai sydd yn chwilio mor fanwl am bob gwall i'm gwneuthur yn euog), ac yr wyf yn meddwl fod yr amser a dreuliais at gyfansoddi y Geiriadur yn fuddiol a llesol, o herwydd byddwn arferol o ddychwelyd oddi wrth y gorchwyl ysgafn hwn, fel ei gelwir, gyda mwy o awydd a chydag astudrwydd a diwydrwydd newydd dau-ddyblig at y pethau pwysfawr hyny, sef pregethu yr Efengyl a chyfieithu yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg." Dywedir wrthym hefyd gan J. H. Parry fod y nodyn hwn,—"*In Bibliorum ultimâ et emendatâ editione Jo. Dav. perutilem impendit operam*," yn llaw-ysgrif Canghellydd Llanelwy, ar ymyl y ddalen mewn cyfargraff o Eiriadur Davies.† Ysgrifenwyd y nodyn, meddir, ychydig o flynyddau ar ol marwolaeth y Doctor, ac er mantais y Cymro, ei feddwl ydyw i John Davies wneuthur gwaith hynod o wasanaethgar ar yr argraffiad diweddaf a diwygiedig o'r Ysgrythyrau. Mewn canlyniad, er gwaethaf dystawrwydd Parry mewn perthynas i'w gynnorthwy, y mae yn rhaid addef i'r Dr. Davies ei gynnorthwyo i raddau helaeth. Ond nis gallwn gymmeryd arnom hyd yn oed awgrymu pa ranau a ddiwygiwyd gan y naill na'r llall o honynt.

Pan gyhoeddodd Parry ei argraffiad ef o'r Ysgrythyrau, yr oedd y wlad wedi myned yn lled brin o Feiblau. Hyn a rydd ef

* Ceir hysbysrwydd helaeth yng nghylch y Dr. Davies yn y *Gwyddoniadur*, *Geir. Cen. Cymru* (Owen Jones), *Llyfryddiaeth y Cymry*, *Williams's Eminent Welshmen*, *Cambrian Plutarch*, Browne Willis's St. Asaph, Yorke's Royal Tribes, &c., &c.

† Parry's Cambrian Plutarch, p. 332, note. Pwy oedd y canghellydd a ysgrifenodd y nodyn nis gwyddom, ond dywed Parry mai ym mhen ychydig flynyddau ar ol marwolaeth Davies y gwnaed hyny.

fel esgusawd dros ymgymmeryd â'r gorchwyl. Ond gan ein bod wedi rhoddi cyfieithiad o lythyr Seisonig Salesbury, a llythyr Lladin Morgan, at y Frenhines Elizabeth, teg fyddai ymddwyn yr un modd at lythyr Lladin Parry, yn yr hwn y mae yn cyflwyno ei argraffiad i'r Brenin Iago I. Ceir yn hwnw ei resymau dros gyhoeddi y gyfrol :—

I'r Sanctaidd a'r Anghyfranogol Drindod, un Duw Goruchaf, gogoniant a fyddo i'w enw Ef. I Iago, trwy Ras yr unrhyw Dduw, goruchelaf frenin Prydain Fawr, Ffrainc, a'r Iwerddon, am bob dedwyddwch i'r hwn y gweddïa ei greadur gostyngedig, ufudd, a ffyddlawn hwn.

Y mae yr hwn sydd yn byw am un oes yn unig, yn byw bywyd byr ; y mae yr hwn sydd yn anniolchgar, yn byw bywyd truenus ; y mae yr hwn sydd yn byw iddo ei hun yn unig, yn byw bywyd ofer ; ac nid ydyw yr hwn sydd yn byw bywyd segur, yn byw mewn gwirionedd o gwbl. Canys er iddo fyw, marw yw, a derfydd ei goffadwriaeth gydag ef. Gan hyny, dymunais adael rhyw dystiolaeth o deimlad diolchgar tuag at fy Nuw a thuag at fy Mrenin, ac o wasanaeth i'm cyd-ddynion ; a rhyw brawf fy mod i, bryfyn, ac nid dyn, yr hwn wyf yn ymlusgo ar hyd y ddaear, wedi ewyllysio yn dda i Eglwys Crist, yn ol fy ngalluoedd distadl. I'r dyben hwn, meddyliais nas gallwn wneyd dim mwy teilwng ynddo ei hun, dim a fuasai, yn fy nhyb i, yn fwy cymmeradwy gan Dduw a'r Brenin, dim a fuasai yn tueddu yn fwy tuag at lesiant y Cymry, na chynnyg gwneuthur hyd eithaf fy ngallu, i'r cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl yr hyn a wnaed mor odidog i'r un Saesoneg ; ac yn neillduol yn awr, pan mae'r Beiblau yn y nifer luosocaf o'n Heglwysi naill ai ar goll neu ynte wedi eu gwisgo allan ; ac nid oes neb trwy wybod i mi, yn bwriadu darparu rhai newyddion.

Bu agos i'r dywediad hwnw o eiddo Jerome o barthed i orchwyl cyffelyb fy nychrynu rhag ymgymmeryd ag ef : "Yn sicr y mae yn waith llawn o berygl, ac yn un sydd yn agored i ebychiadau achwynwyr" ; a chan ddywediad arall o eiddo yr un gŵr : "Nid peth bychan ydyw gwybod maint eich anwybodaeth. Un o nodau dyn doeth yw gwybod ei fesur ei hun, a pheidio gadael i'r byd fod yn dyst o'i anwybodaeth." Ond tra yr oeddwn yn petruso, cefais annogaeth yn y gair hwnw o eiddo yr Arglwydd wrth Moses : "Minnau a fyddaf gyd â'th enau di" ; ac wrth yr apostol : "Fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." Gan ddysgwyl, felly, am dy gymhorth, o Rasusaf Dduw ; ac yn cael fy nghymhell trwy y gorchymmyn a roddaist ti, O Frenin, i'r Saeson (fel y maent yn dwyn tystiolaeth i'th dduwioldeb) ; ac heb law hyny, yn cael fy annog gan dduwiol esiamplau fy rhagflaenoriaid parchedig, sef :—Richard Davies, Esgob Llanelwy yn gyntaf, a Thŷ Ddewi wedi hyny, yr hwn (trwy gynnorthwy William Salesbury) a gyhoeddodd y Testament Newydd, a William Morgan, diweddar Esgob Llanelwy, a gyhoeddodd y Beibl Sanctaidd, yn yr iaith Gymraeg. Ar eu cyfieithiadau hwy, yn enwedig yr olaf, yr ymosodais i lafurio ; a phan y gwelais achos, cywirais yn ofalus, fel y bydd dyn yn adgyweirio hen adeilad.

"Pa beth !" medd Jerome, "a gondemniwn ni yr hynafiaid ? na

wnawn mewn un modd; ond nyni a lafuriwn, can belled ag y gallwn, yn ol eu dysgeidiaeth hwy yn nhŷ yr Arglwydd." Cesglir y grawnwin ar ol y cynhauaf, ar ol y cynhauaf ŷd daw y lloffa, ac ar ol codi yr adeilad at y tô, ac er clod yr adeiladydd, gofelir am gadw yr adeilad mewn adgyweiriad; trwy gymmeryd ymaith yr hyn sydd ddiangenrhaid, trwy adferu yr hyn a adfeiliodd, a thrwy sicrhau wrth eu gilydd yr hyn a gyssylltwyd yn ammhriodol. Yn debyg fel y gofalwyd am long Theseus gan yr Atheniaid, "trwy gymmeryd ymaith y coed a wisgwyd gan henaint, gan roddi rhai cryfach i'w chadarnhau, fel yr oedd rhai yn sicrhau mai yr un llong ydoedd wedi cwbl, tra y dywedai eraill mai nid yr un ydoedd." Yn yr un modd, cedwais innau yn ffyddlawn rai pethau o eiddo fy rhagflaenor; rhai pethau, yn enw Duw, a gyfnewidiais, gan eu rhoddi yng nghŷd yn y dull hwn; fel y mae yn fater o ammheuaeth, ac y mae yn anhawdd dywedyd, pa un a ydyw yr argraffiad hwn yn hen neu ynte yn newydd, pa un a ddylid ei alw yn eiddo Morgan neu yr eiddof fi.

Ond eiddo pwy bynag ydyw, yr eiddot Ti ydyw yn gyntaf, O Dduw, oddi wrth yr hwn, a thrwy yr hwn, ac i'r hwn, y mae pob peth. Oblegid y ni yw y pibellau, yr eiddot Ti yw yr anadl; Tydi ydyw yr awdwr, y ni yw yr offerynau, trwy y rhai y mae y Cymry yn clywed rhyfedd weithredoedd Duw yn eu hiaith gyssefin eu hunain. "Dyn a estyn allan ei ddeheulaw, ond Duw sydd yn llywodraethu'r tir"; felly pa beth bynag sydd wedi ei wneuthur yn dda, nid gan ein dwylaw ni, ond gan dy nerth Di y gwnaed ef. Nid wyf yn hyn yn anghyfiawn tuag atat ti, yr hwn wyt nid yn unig y goruchelaf o'r brenhinoedd, ond y godidocaf o ddynion, am fy mod yn gosod o'th flaen y Duw a'th wnaeth, a'r hwn a'th ddyrchafodd. "Oblegid nid yw gam â neb fod y Duw Hollalluog yn cael ei osod o'i flaen."

Yn nesaf at Dduw, yr eiddot ti ydyw, O Frenin, i'r hwn nid oes neb uwchlaw i ti ond Duw. Os yw yn hen, y mae yn eiddot ti trwy hawl etifeddol; os newydd yw, y mae yn eiddot ti trwy hawl gaffaeledig; oblegid, heblaw fy mod i, yn gystal ag eraill, yn ostyngedig was i ti, yr wyf yn ddyledus am fy llafur, fel y mae, i'ch Mawrhydi ar gyfrif hynawsedd neillduol, ym mhob modd yn anhaeddiannol, tuag ataf; tuag ataf fi, meddaf, fymryn tlawd o ddynoliaeth, dyeithr yn y llys, ymdeithydd yn y wlad yng nghanol y rhelyw o'r Cymry, fel yr wyf bob amser ac ym mhob lle wedi gostyngedig gydnabod gyda phob arwyddion o ddiolchgarwch. Am hyny, er nas gellir talu yr hyn sydd ddyledus, ac nis gellir dysgwyl oddi wrth un mor wael a mi yr hyn fydd deilwng o'ch Mawrhydi; eto yr wyf yn gobeithio y bydd i'r amlygiad hwn o'm hymlyniad gael ei weled yn yr ymgais hon. Ac os boddlawn gan Dduw a'r Brenin iddo fod o wasanaeth i'r Cymry, caf yr hyn a weddïais gyntaf am dano, yr hyn oedd yn fy annog i weithio, a'r hyn fydd yn gysur i mi tra byddaf byw. Bydded i'r Duw hwnw, yr hwn yn unig sydd ddoeth, a'r hwn uwchlaw pob peth sydd drugarog, yn raslawn dy gadw di a'r eiddot, Oruchelaf Frenin, ar yr orsedd, a'r holl bobl mewn gostyngedig ufudd-dod, hyd ddyfodiad gogoneddus Crist, yn yr Hwn, pan ddel, y byddwch i'ch cael; tydi yn teyrnasu

mewn tangnefedd, a ninnau yn ufuddhau yn ewyllysgar. I'r Hwn, meddaf, gyda'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

RICHARD O LANELWY.

Fe'n hysbysir gan gyfaill, yng ngallu ieithyddol yr hwn mae genym gryn ymddiried, fod arddull Morgan fel ysgrifenwr Lladin yn fwy clasurol ac uchelryw nag eiddo Parry; ac o gymharu y ddau lythyr Lladin â'u gilydd fod ysgolheigdod y blaenaf yn tra rhagori. Ac fe genfydd y darllenydd Cymreig, gan nad pa nifer bynag o ddiffygion a ddichon fod yn y cyfieithiadau o'r llythyrau cyflwyn, fod Morgan yn llawer mwy urddasol, ac yn fwy i'r pwrpas na Parry. Y mae, yn ein tyb ni, lawn digon o'r hyn a elwir gan rai yn "sebon meddal" hyd yn oed yn llythyrau Salesbury a Morgan, ond yn llythyr Parry y mae gwenieithdra yn cyrhaedd ei eithafbwynt. Paham yr oedd raid iddo ymesgusodi dros gyflwyno y gyfrol sanctaidd i'r Duw a'i pïoedd, cyn ei chyflwyno i'r brenin pen-chwiban gan Iago? Y mae llythyrau Salesbury a Morgan yn rhoddi cip-olwg i ni ar sefyllfa grefyddol yr oes; ond nid oes nemawr yn llythyr Parry amgen na molawd i'r brenin, a thoraeth o ffug-ostyngeiddrwydd. Ai tybed, mewn gwirionedd, fod Parry wedi cael y fath olwg arno ei hun fel ag i allu dyweyd yn ddiffuant, mai "pryfyn, ac nid dyn, yn ymlusgo ar wyneb y ddaear," ydoedd. Os oedd Parry yn teimlo yr hyn oedd yn ei ysgrifenu, yr oedd yn un o'r dynion goreu a fu erioed ar y ddaear; os nad oedd, yr oedd yn rhagrithiwr di-ail. Gobeithiwn y goreu am dano.

Ond boed hyn fel y bo, gwnaeth wasanaeth mawr a phwysig i'w genedl. Y mae yn hawdd genym ei gredu pan y dywed fod y nifer luosocaf o eglwysi Cymru wedi treulio allan eu Beiblau. Ni raid i ni ddim ond ystyried y gwaethygiad a gymmer le yn awr ar lyfrau mewn deuddeng mlynedd ar hugain; ac y mae rhai pobl yn ddigon medrus i ddyfetha Beibl neu unrhyw lyfr arall mewn llai o amser na hyny. Nid oes dadl nad oedd gwir angen am Feiblau pan gyhoeddodd Parry ei argraffiad ef; ond nid oes air o son fod neb yn barod i gyflenwi yr angen hwnw. Ac nid oes awgrymiad iddo dderbyn unrhyw gymhelliad nac annogaeth gan na brenin, na Senedd, na chymmanfa eglwysig i ymgymmeryd â'r gorchwyl; ond yn hytrach, ei unig gymhellydd, fel yn achos Morgan o'i flaen, oedd dwfn angen y Cymry am ledaeniad mwy cyffredinol o Air Duw.

Ond y mae yn naturiol gofyn, a oedd angen am i Parry ddiwygio ac adgywirio cyfieithiad Morgan? Y mae yn ammhosibl

gwneuthur chwareu teg â'r cwestiwn hwn heb feddu gwybodaeth eang o'r iaith Hebraeg, yn gystal a chydnabyddiaeth drwyadl â neillduolion cyfieithiadau Morgan a Parry. Yn hytrach nag i'r "byd fod yn dyst o'n hanwybodaeth," ys dywed Jerome, ni addefwn ar unwaith ein hanallu i drafod y bennod hon fel y credwn y dylasai gael ei thrafod. Da fuasai genym olrhain, pe gallasem, y ffynnonellau o ba rai y cafodd Morgan a Parry eu darlleniadau can belled ag y mae yr Hen Destament yn y cwestiwn. Ond yn hyn rhaid i ni ymlwybro yn dra chynnil a gochelgar.

Y mae Ioan Pedr yn gwneuthur y sylw a ganlyn o barthed i ffynnonell cyfieithiad Morgan:—"Proffesai Morgan ei droi o'r Hebraeg a'r Groeg, ac nid yw yn debyg y gallasai efe dwyllo yr archesgob a'r esgobion a'i cefnogent a'r gwŷr dysgedig a'i cynnorthwyent. O ran hyny, y mae ei gopi ef ei hun o'r Beibl Hebraeg, yr hwn a ddefnyddiai efe fel testyn, yn awr yn meddiant arglwyddes Llanofer ac yn cynnwys nodiadau lluosog a chyfoethog y cyfieithydd dysgedig ar ymyl y dail."* Nid ydym yn gwybod oddi ar ba sail y gwna Ioan Pedr yr haeriad y "proffesai Morgan ei droi o'r Hebraeg a'r Groeg"; oblegid nid yw Morgan yn ei lythyr cyflwyn nac mewn unrhyw le arall, hyd y gwyddom ni, yn gwneuthur honiadau o'r fath. Ond y mae Ioan Pedr yn gywir pan yn crybwyll am y Beibl Hebraeg sydd yn awr yn Llanofer, am yr hwn ni fyddai gair neu ddau, fe allai, yn gwbl annyddorol. Mewn llyfr-restr (*catalogue*) o eiddo Mr. Thomas Kerslake, llyfr-werthydd, Bristol, am y flwyddyn 1858, cynnygid y llyfr hwn ar werth; a dysgrifid ef fel y canlyn:—

The Hebrew Bible which was used by Bishop Morgan in translating the Bible into Welsh in 1588; also the same which was afterwards used by Dr. John Davies (author of the Welsh dictionary and grammar) for the second translation in 1620. Genesis to Kings, 4to.

Ar ddalen wen ar ddiwedd y llyfr hwn ceir darn o lythyr a anfonwyd gan Mr. Kerslake at Arglwyddes Llanofer, yr hwn sydd fel y canlyn:—

The Hebrew Bible is not entire, being, as noted in the catalogue, the volume from Genesis to Kings. I observe also in looking at it that part of a leaf has been torn away. But it is not in its completeness as a Hebrew Bible that its value lies. The internal evidence of the inscriptions and markings furnishes unquestionable proof of its authenticity. It has also belonged to Henry Rowlands, author of the History of Anglesey, whose Library was sold not long since near Plas Newydd,

* Enwogion y Ffydd, cyf. i., tud. 61.

Anglesey, on the death of a descendant or relation of his. The Bible has also his autograph, "E lib. Hen: Rowlands." There is also the signature of Jane Davies. Dr. Davies is said by Humphreys to have married Jane Pryse sister of the wife of Bishop Parry.

Dec. 20, 1858. THOMAS KERSLAKE.

Gan fod y wyneb-ddalen ar goll, y mae yn ammhosibl dyweyd pwy oedd yr argraffydd na pha beth yw ei amseriad. Ar ddalen wen ar ei ddechreu y mae rhywun wedi ysgrifenu rhestr o bedwar ar ddeg o lyfrau yr Hen Destament yn y Lladin; ac ar y tudalen dilynol ceir:—

Ἀρκεῖ σοι ἡ χάρις μου. John Davies ex dono reuerendi patris Domini, W. Morgan Episcopi Landauen. 18 Sept., 1595. Johannes Davies est verus possessor huius Libri.*

Ar yr un tudalen ceir yn ysgrifenedig "Jane Davies," gwraig y Dr. John Davies o Fallwyd; ac ar y tudalen dilynol, "E Lib. Hen. Rowlands." Y mae y pennodau a'r adnodau wedi eu marcio yn y rhan flaenaf o'r llyfr; ac hyd ddiwedd Numeri y mae llawer o nodau a llinellau wedi eu tynu o dan y llinellau Hebraeg. Y mae hefyd luaws o nodiadau Cymraeg, rhai gan y Dr. Morgan ac eraill gan y Dr. John Davies, fel y tybir, wedi eu gwneuthur ar ymyl y dalenau; ond y mae y llyfr-rwymydd wedi tori yr ymylon yn rhy bell i allu gwneuthur ond ychydig synwyr o honynt. Ar waelod y ddalen ar Exodus xi. 8, y mae un a'i Morgan ai Davies wedi ysgrifenu "fydd ar dy ol"; ond ni ddilynwyd y darlleniad hwn gan yr un o'r ddau, gan mai "ydynt ar dy ol" a geir ym Meibl Morgan, a "sydd ar dy ol" ym Meibl Parry.

Nid ydyw fod Beibl Hebraeg ym meddiant unrhyw un ond prawf gwan ei fod yn ei ddeall, chwaithach ei fod yn cyfieithu o hono. Ond, fel yr ydym mewn lleoedd eraill wedi dwyn tystiolaethau, yr oedd y cyfieithwyr Cymreig yn Hebreigwyr rhagorol, ac felly nis gall fod nemawr betrusder nad ymgynghorasant yn ddyfal â'r gwreiddiol. Fel hyn y dywed y Dr. Thomas Llewelyn ar y mater hwn:—

Heb law hyny, credaf fod profion mewnol yn y cyfieithiad ei hun, ddarfod iddo gael ei wneyd yn ddigyfrwng o'r gwreiddiol. Nis gallaf ddarllen y bennod gyntaf o Genesis yn Hebraeg a Chymraeg, heb ddyfod i'r penderfyniad y boddlonir pob beirniad cymhwys, ond iddo ddal sylw ar un dull ymadrodd yn unig a gyfarfyddir yn fynych yn y

* Yn Gymraeg fel hyn:—"Digon i ti fy ngras i. John Davies trwy rodd y Parchedig Dad W. Morgan, Arglwydd Esgob Llandaf. 18eg Fedi 1595. John Davies yw gwir berchenog y llyfr hwn." Y mae y nodiad hwn yn profi i Morgan anrhegu Davies â'r llyfr tua'r adeg y dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llandaf.

bennod hòno. Yma y mae y cyfieithiad Cymraeg yn debycach i'r gwreiddiol nag unrhyw gyfieithiad diweddar sydd yn adnabyddus i mi.*

Y dull ymadrodd y cyfeirir ato gan y Dr. Llewelyn ydyw—"yr hwyr a fû, a'r borau a fû." Ac i mae yn amlwg i bawb ei fod yn dra gwahanol gan Morgan i'r hyn ydyw yn y cyfieithiadau Seisonig. Darlleniad Beibl Geneva o Gen. i. 5, ydyw—"*So the evening and the morning were the first day*" = "Felly yr hwyr a'r boreu a fuont y dydd cyntaf." Y mae Gwallter Mechain, drachefn, yn nodi amryw enghreifftiau i'r un perwyl, sef i ddangos mai o'r Hebraeg, ac nid o'r Saesoneg, yr oedd Morgan yn cyfieithu. A rhag gwneuthur cam ag ef, gosodwn yma ei sylwadau air am air :—

I wirio yn helaethach mai allan o'r *Hebraeg* y cyfieithodd y Dr. Morgan yr Hen Destament, gellid dyfynu llaweroedd o dystiolaethau, drwy y cyffelybiaeth amlwg rhwng y ddwy iaith yn eu priodol ddulliau ymadrodd, y rhai ni chydweddent ond yn drwsgl â'r Seisneg; ac felly *dir yw* mai allan o'r iaith wreiddiol y cyfieithwyd y Bibl Cymraeg cyntaf. Gwelir yma rai enghreifftiau, a barned y *Gwyliedydd* diduedd.

Gen. xliv. 28.—"Gan larpio y llarpiwyd ef." Dybliad y gair, megys sicrhâd pendant, sydd hanfodol i'r Hebraeg; ac yn y Gymraeg fe'i dilynir yn llythyrenol. Yn y Bibl Seisneg 1589, yr hynaf yn fy meddiant, y ceir—"*of a surety he is torn in pieces*"; ac ym Mibl y Brenin Iago I., 1603,† cynllun y Biblau Seisneg presennol—"*surely he is torn in pieces.*" *Ecs.* xix. 13: "Gan labyddio llabyddier, neu gan saethu saether ef."—"*He shall be stoned to death, or striken thorowe with a darting*"—1589. "*But he shall surely be stoned, or shot thorow.*"—1603, &c. *Ecs.* xxi. 20: "Gan ddial dialer arno." 22: "Gan gospi cosper ef." Yn y ddwy adnod hyn, y cyfieithiad Seisneg yw—"*he shall be surely punished*"—heb wahanol eiriau cyfatebol i "ddial" a "chospi." Gan feithed fy llythyr, rhaid lleihau nifer y dyfyniadau: a bydded yr ychydig a ganlyn yn ddigon :—"Gan brynu y pryni"—"gan anghofio yr anghofi"—"gan ddyfetha y'ch dyfethir"—"gan ddyfod y daw"—"gan fyw y bydd efe byw"—"gan farw y byddi farw"—"gan fwyta y gelli fwyta"—yn Seisneg—"*thou mayest freely eat.*" Y mae priodol eiriau, yn gystal a dulliau ymadrodd, yn gwirio pa iaith yw mamiaith y Gymraeg yn y Bibl: megys Gen. xxix. 1: "Ac Iacob a gymmerth ei draed." Yn Seisneg—"*And Jacob went on his journey*"—ac ar ymyl y ddalen—*Hebr.* "*lift up his feet,*" yn gytunol â Chymraeg y Dr. Morgan; ond y Dr. Parry, yn ei argraffiad 1620, a'i newidiodd i "Ac Iacob a gymmerth *ei daith.*" Y mae *cymmeryd y traed* yn ddywediad cyffredin—a *chymmeryd y carnau*, pan fyddo yr euog yn ffoi.‡

* Llewelyn's British Versions, p. 59.

† Ai nid camgymmeryd yr oedd Gwallter Mechain wrth ddyddio Beibl Iago yn 1603? Yn ddios, yn 1611 y cyhoeddwyd y Beibl hwnw.

‡ Gwaith Gwallter Mechain, ii., 226-7.

Y mae y sylwadau uchod, can belled ag y maent yn myned, yn profi fod Morgan wedi bod yn fwy llwyddiannus i drosglwyddo neillduolion y gwreiddiol nag y bu ei ragflaenoriaid Seisonig; y mae yn cadw "clec" yr Hebraeg yn well na hwy. Gan nad ydym ni yn deall dim o'r iaith hòno, hwyrach nas gallwn wneuthur yn well na chymharu dernyn o gyfieithiad Morgan gyda cyfieithiad o eiddo yr ysgolhaig Hebreig rhagorol—y Dr. Thomas Briscoe, Caergybi—yr hwn sydd wedi ymgadw mor agos ag y gallai at arddull yr Hebraeg; ac yn gyfochrog gosodwn hefyd gyfieithiad Geneva. Y dernyn a ddewisir yw Cân Moses (Ex. xv. 1-18):—

Morgan.	*Dr. Briscoe.*	*Beibl Geneva.*
1 Canaf i'r Arglwydd canys gwnaeth yn rhagorol iawn, taflodd y march, a'i farchog i'r môr.	Canaf i Iehofah, canys uchel yr ymddyrchafodd; March a'i farchog a fwriodd *Efe* yn y mor.	1 I will sing unto the Lord: for he hath triumphed gloriously: the horse and him that rode upon him hath he ouerthrowen into the Sea
2 Ey nerth a'm cân [yw] 'r Arglwydd, ac y mae efe yn iechydwriaeth i mi: dymma fy Nuw, efe a ogoneddafi, [dymma] Dduw fyn-had, a mi ai derchafaf ef.	Fy nerth a'm can *yw* Iah, Ac aeth i mi yn iachawdwriaeth. Hwn *yw* fy Nuw, a molaf Ef: Duw fy nhad, a dyrchafaf Ef:	2 The Lord is my strength and praise, and hee is become my saluation. Hee is my God, and I will prepare him a tabernacle, he is my fathers God, and I will exalt him.
3 Yr Arglwydd [sydd] ryfel-wr; yr Arglwydd [yw] ei enw.	Iehofah, gwr rhyfel *yw*; Iehofah *yw* Ei enw.	3 The Lord is a man of warre, his Name is Iehouah.
4 Efe a daflodd gerbydau Pharao ai fyddin yn y môr: ai gaptenniaid dewisol a foddwyd yn y môr côch.	Cerbydau Pharaoh a'i lu a daflodd *Efe* yn y mor; A'r dewis o'i gadbeniaid a foddwyd yn y Mor Coch:	4 Pharaohs charets, & his hoste hath hee cast into the Sea: his chosen captaines also were drowned in the red Sea.
5 Y dyfnderau ai toasant hwynt: descynnasant ir gwaelod fel carreg.	Yr eigion a'u gorchuddiodd; Disgynasant i'r dyfnderau, fel carreg.	5 The depthes haue couered them, they sanke to the bottome as a stone.
6 Dy ddeheu-law Arglwydd sydd arderchoc o nerth; â'th ddeheu-law Arglwydd y drylli y gelyn.	Dy ddeheulaw, O Iehofah, sydd fawrydig mewn gallu, Dy ddeheulaw, O Iehofah, a chwilfriwiodd y gelyn.	6 Thy right hand, O Lord, is glorious in power; thy right hand, O Lord, hath brused the enemy.
7 Yn amldra dy ardderchawgrwydd y tynnaist i lawr y rhai a gyfodasant i'th erbyn: dy ddigofaint a anfonaist [allan,] ac efe ai hyssodd hwynt fel sofl.	Ym mawredd Dy ogoniant y tynni i lawr Dy wrth-ymgodwyr; Danfoni Dy lid—ysa *efe* hwynt fel sofl!	7 And in thy great glorie thou hast ouer-throwen them that rose against thee: thou sentest forth thy wrath, which consumeth them as the stubble.

8 Drwy chwythad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd, y ffrydau a safasant fel pen-twrr : y dyfnderau a geulasant yng-hanol y môr.

Trwy chwythad dy ffroenau pentyrrwyd y dyfroedd,
Sefyll fel carn a wnaeth y ffrydiau ;
Cydymlynodd y dyfnderau ynghanol y mor.

8 And by the blast of thy nostrels the waters were gathered, the floods stood still as an heave,the depthes congealed together in the heart of the Sea.

9 Y gelyn a ddywedodd mi a erlidiaf, mi a ddaliaf, mi a rannaf yr yspail : caf fyng-wynfyd arnynt, tynnaf fyng-hleddyf, fy llaw ai gorescyn hwynt.

Dywedodd y gelyn, Erlidiaf ; goddiweddaf ;
Rhanaf yr yspail ; gorlenwir fy enaid a hwynt ;
Tynnaf fy nghleddyf ; difetha fy llaw hwynt ;

9 The enemie sayde I will pursue, I will overtake them,I will deuide the spoyle, my lust shall bee satisfied upon them, I will drawe my sword, mine hand shall destroy them.

10 Ti a chwythaist a'th wynt, y môr ai tóawdd hwynt : soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion.

Chwythaist a'th wynt, gorchuddiodd y mor hwynt,
Soddasant, fel plwm, yn y dyfroedd mawrydig !

10 Thou blewest with thy winde, the Sea couered them, they sanke as lead in the mightie waters.

11 Pwy [sydd] debyg i ti ô Arglwydd ym mhlith y duwiau? pwy fel tydi yn rhagorawl mewn sancteiddrwydd? yn ofnadwy o foliant, yn gwneuthur rhyfeddodau ?

Pwy fel Tydi, ymhlith y duwiau, O Iehofah ?
Pwy fel Tydi ; yn fawrydig mewn sancteiddrwydd,
Yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau ?

11 Who is like unto thee, O Lord, among the gods ! Who is like thee so glorious in holinesse, fearefull in prayses, doing wonders !

12 Estynnaist dy ddeheulaw, llyngcodd y ddaiar hwynt.

Estynaist Dy law, llyngcodd y ddaear hwynt !

12 Thou stretchedst out thy right hand, the earth swallowed them.

13 Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist : yn dy nerth y tywysaist [hwynt] i anneddle dy sancteiddrwydd.

Arweinaist, yn Dy drugaredd, y bobl hyn a waredaist ;
Tywysaist *hwynt* a'th nerth i'th anneddle sanctaidd,

13 Thou wilt by thy mercie cary this people, which thou deliueredst : thou wilt bring them in thy strength unto thine holy habitation.

14 Y bobloedd a glywant [ac] a ofnant : dolur a ddeil bresswyl-wyr Palestina.

Clywodd y bobloedd—crynant ;
Gwewyr a ymaflodd ym mhreswylwyr Peleshseth.

14 The people shall heare and be afrayde ; sorowe shall come upon the inhabitants of Palestina.

15 Yna y synna ar ddugiaid Edom [a] hyrddod Moab, ofn ai deil hwynt : holl bresswyl-wyr Canaan a lesmeiriant.

Yna y dychrynwyd tywysogion Edom ;
Hyrddod Moab, ynddynt yr ymaflodd cryndod ;
Toddodd holl breswylwyr Canaan :

15 Then the Dukes of Edom shall be amased, and trembling shall come upon the great men of Moab: all the inhabitants of Canaan shall wax faint hearted.

16 Ofn ac arswyd a syrth arnynt, gan fawredd dy fraich y tawant fel carrec : nes myned trwodd

Syrthiodd arnynt fraw ac arswyd ;
Gan fawredd dy fraich tawsant fel carreg,
Nes myned trosodd o'th bobl, O Iehofah,
Nes myned trosodd o'r bobl hyn a brynaist ;

16 Feare and dread shall fall upon them: because of the greatnesse of thine arme, they shalbe still as

o'th bôbl di Arglwydd, nes myned o'r bôbl y rhai a ennillaist ti trwodd.		a stone till thy people passe, O Lord; till this people passe, which thou hast purchased.
17 Ti ai dygi hwynt i mewn, ac ai plenni hwynt ym mynydd dy etifeddiaeth, y lle a wnaethost ô Arglwydd yn anneddle it: y cyssegr Arglwydd a ddarparodd dy ddwylaw.	Dygi hwynt, a phlenni hwynt ym mynydd Dy etifeddiaeth, Lle Dy drigfa, *yr hwn* a wnaethost O Iehofah, Cyssegr, Arglwydd, *yr hwn*, a sefydloddd Dy ddwylaw.	17 Thou shalt bring them in, and plant them in the mountaine of thine inheritance, which is the place that thou hast prepared, O Lorde, for to dwell in, euen the sanctuarie, O Lord, which thine hands shal establish
18 Yr Arglwydd a deyrnasa byth, ac yn dragywydd.	Iehofah a deyrnasa byth ac yn dragywydd.	18 The Lord shal reigne for euer and euer.

Credwn nad oes angen mwy na chip-edrychiad ar y tair colofn uchod i ddwyn y darllenydd i'r penderfyniad fod gan Morgan ryw awdurdod o'i flaen heblaw Beibl Geneva pan yn cyfieithu y bennod dan sylw. Nid ydym yn deall ein bod yn meddu ar ormod o hoffder at yr iaith Gymraeg fel ag i fod yn ddall i brydferthion yr iaith a siaredir tu hwnt i Glawdd Offa; ond nis gallwn beidio a meddwl nad ydyw Morgan wedi rhoddi i mewn fwy o farddoniaeth yn yr adnodau uchod nag a allasai dynu o gyfieithiad Geneva. Y mae y cyfieithiad olaf yn ymddangos i ni yn llawer mwy prenaidd, ac yn amddifad o'r bywyd a'r "dinc" sydd yn rhedeg trwy gyfieithiad Morgan. Y mae rhywbeth yn farwaidd ac anystwyth yn y cyfieithiad Seisonig; tra y mae y cyfieithiad Cymreig yn ein dwyn i ryw fath o berlewyg, fel yr ydym yn ymgolli yn llwyr yn yr olygfa a ddysgrifir. A thybied yr ydym wrth gymharu Morgan â chyfieithiad y Dr. Briscoe mai o'r gwreiddiol y cafodd y blaenaf y trydan sydd i'w deimlo yn ei arddull rymus. Ond pa le bynag ei cafodd, y mae yn hollol eglur fod rhyw awdurdodau o'i flaen amgen y *Vulgate* na Beibl Geneva. Sylwer ar adn. 2: "Fy nerth a'm cân [yw]'r Arglwydd," medd Morgan; "*Fortitudo mea, et laus mea Dominus*," yw darlleniad y *Vulgate*; a "*praise*"="moliant," ac nid "cân" a geir ym Meibl Geneva. Y gwreiddiol, nid y *Vulgate*, ac nid Beibl Geneva, oedd o flaen Morgan pan yn cyfieithu adn. 3: "*Dominus quasi vir pugnator, omnipotens nomen ejus.*"—*Vulgate*. Y mae Parry yn dilyn Morgan yn lled fanwl yn yr adnodau uchod; ac y mae yn gwrthod yn adn. 2, y "*tabernacle*" sydd ym Meibl Geneva, a'r "*habitation*" sydd ym Meibl Iago. O'r gwreiddiol, yn ddiammeu, y cafodd Morgan "hyrddod Moab" yn adn. 15; "*robustos Moab*" (=cedyrn Moab) sydd yn y *Vulgate*, ac

"*the great men of Moab*" sydd ym Meibl Geneva, tra y mae Parry, yn erbyn Beibl Iago, yn rhoddi "cedyrn hyrddod Moab." Ond wedi'r cyfan, y mae ôl Beibl Geneva ar gyfieithiad Morgan yn y bennod hon. A chymmeryd cyfieithiad y Dr. Briscoe fel safon o'r hyn a ddylai y gwreiddiol fod, yr ydym yn cael Morgan yn adn. 12 a Beibl Geneva o'i flaen. Nid yw y gwreiddiol yn nodi pa "law" a estynwyd, ond ym Meibl Geneva dywedir mai y "ddeheu-law," ac felly Morgan. Yr ydym yn sylwi hefyd fod Morgan yn dilyn y cyfieithiad Seisonig wrth osod y perwyddiad yn yr *amser dyfodol* yn lle yn yr *amser gorphenol*; er enghraifft cymharer yn adn. 14: *glywant* yn lle *clywodd*; adn. 16: *syrth* yn lle *syrthiodd*; ac yn adn. 7 yr ydym yn cael y gwrthwyneb i hyn, a hyny oddi ar yr un awdurdod. Credwn fod hyn yna yn ddigon i brofi fod o leiaf ddau lyfr o flaen Morgan pan yn cyfieithu Cân Moses, sef y testyn Hebraeg a Beibl Geneva.

Y mae ôl Beibl Geneva i'w weled bron ar bob tudalen o Feibl Morgan. Y mae yr olaf yn fynych, er nad bob amser, yn cyfieithu y "cynnwysiad" i'r pennodau o'r blaenaf. Cymharer eu heiddo yn Gen. iii.:—

1 The woman seduced by the serpent, 6 enticeth her husband to sinne. 8 They both flee from God. 14 They three are punished. 15 Christ is promised. 19 Man is dust. 22 Man is cast out of Paradise.—*Geneva.*

1 Y sarph yn hudo y wraig. 6 hithe yn denu ei gwr i bechu. 8 y gŵr a'r wraig yn ymguddio rhag Duw. 14 Cospedigaeth ar bob vn o'r tri. 15 Addewid o Grist. 19 Bod dyn yn bridd. 22 Bwriad dŷn allan o baradwys.—*Morgan.*

Ym mhlith nodiadau eraill ag y bu y Dr. Briscoe mor garedig a'n hanrhegu yn ddiweddar, gyda chyflawn ganiatâd i ddefnyddio ei enw, y mae ei gyfieithiad ef o Gen. iii. 7-14, yn ol dull yr Hebraeg. Ac ni ai rhoddwn yma fel y gall y darllenydd ei gymharu gyda chyfieithiad Morgan ac eiddo Geneva.

Morgan.	*Dr. Briscoe.*	*Geneva.*
7 Yna eu llygaid hwynt ill dau a agorwyd, a gwybuant mai noethion[oeddynt] hwy, a gwnïasant ddail y ffigus-bren, a gwnaethant arffedogau iddynt.	Ac agorwyd eu llygaid hwy ill dau, a gwybuant mai noethion *oeddynt* hwy, a gwniasant ddail ffigysbren, a gwnaethant iddynt eu hunain wregysau, a	7 When the eyes of the both were opened, and they knewe that they were naked, and they sewed figge tree leaues together, and made themselves breeches.
8 Pan glywsant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd, gyd ag awel y dydd, yna yr ymguddiodd Adda ai wraig, o olwg yr Arglwydd Dduw, ym mysc prennau'r ardd.	chlywsant swn Iehofah Elohim yn rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd, ac ymguddiodd y dyn a'i wraig rhag golwg Iehofah Elohim ynghanol prenau'r ardd. A galwodd Iehofah Elohim ar y dyn, a dywed-	8 Afterward they heard the voyce of the Lord God walking in the garden in the coole of the day, and the man & his wife hid themselues from the presence of the Lord God among ye trees of the garden.

9 A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar y dŷn, ac a ddywedodd wrtho, pa le [yr ydwyt] ti?

10 Yntef a ddywedodd, dy lais a glywais yn yr ardd, ac mi a ofnais, oblegit noeth [oeddwn] i am hyny yr ymguddiais.

11 Yna y dywedodd [Duw:] pwy a fynegodd i ti mai noeth [oeddyt] ti? ai o'r pren yr hwn y gorchymynnaswn i ti na fwytteit o honaw, y bwytteaist?

12 Ac Adda a ddywedodd: y wraig yr hon a roddaist gyd â mi, hi a roddodd i mi o'r prenn, a mi a fwytteais.

13 Yr Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y wraig, pa ham y gwnaethost ti hyn? a'r wraig a ddywedodd: y sarph a'm twyllodd, a bwytta a wnaethum.

14 Yna'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y sarph: am wneuthur o honot hyn, melldigediccach [wyt]ti na'r holl anifeiliaid, ac na holl fwyst-filod y maes: ar dy dorr y cerddi, a phridd a fwyttei holl ddyddiau dy einioes.

odd wrtho, Pa le *yr wyt* ti? A dywedodd *efe*, Dy swn a glywais yn yr ardd, ac ofnais gan mai noeth *wyf* fi, ac ymguddiais. A dywedodd *Efe*, Pwy a fynegodd i ti mai noeth *wyt* ti? Ai o'r pren yr hwn y gorchymynais i ti beidio a bwytta o hono, y bwytteaist? A dywedodd y dyn, Y wraig yr hon a roddaist gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a bwytteais. A dywedodd Iehofah Elohim wrth y wraig, Pa beth *yw* hyn a wnaethost? A dywedodd y wraig, Y Sarph a'm twyllodd, a bwytteais. A dywedodd Iehofah Elohim wrth y Sarph, Am wneuthur o honot hyn, melldigedig *wyt* ti allan o'r holl anifeiliaid, ac allan o holl fwystfilod y maes: ar dy dorr yr âi, a llweh a fwyttai holl ddyddiau dy einioes.

9 But the Lord God called to the man, & said unto him, Where art thou?

10 Who said, I heard thy voyce in the garden, and was afraide: because I was naked, therefore I hid my selfe.

11 And he said, Who tolde thee, that thou wast naked? hast thou eaten of the tree, whereof I commanded thee that thou shouldest not eate?

12 Then the man said, The woman which thou gauest to be with me, she gaue me of the tree, and I did eate.

13 And the Lord God saide to the woman, Why hast thou done this: And the woman sayd, The serpent beguiled me, and I did eat.

14 Then the Lord God sayde to the serpent, Because thou hast done this, thou art cursed above all cattell, and above euerie beast of the fielde: upon thy bellie shalt thou goe, and dust shalt thou eat all the dayes of thy life.

Yn yr adnodau a ddyfynwyd, y mae yn amlwg fod Morgan yn amrywio cryn lawer oddi wrth y testyn Hebraeg. Y mae efe, a Parry ar ei ol, yn gwneyd y sarff yn "felldigediccach na'r holl anifeiliaid," gan awgrymu, yn gwbl groes i'r gwreiddiol a'r *Vulgate*, fod yr anifeiliaid a'r bwystfilod eraill yn felldigedig hefyd. Y mae yn ddiammeu mai Beibl Geneva oedd ei awdurdod yma. Ond y mae yn debyg fel pe buasai yn rhoddi y Beibl Hebraeg yn gystal a chyfieithiad Geneva o'i law, ac yn cymmeryd y *Vulgate* yn eu lle, wrth gyfieithu rhai adnodau. Gwelir hyn yn adn. 8 a 12, pan y mae Morgan yn defnyddio yr enw "Adda" yn unol a'r *Vulgate*, tra "dyn" a ddefnyddir yng nghyfieithiad Geneva, ar ol y gwreiddiol. Yn adn. 9, ceir enghraifft nodedig o Parry yn defnyddio yr enw "Adda" ar awdurdod Beibl Iago, yr hwn sydd yma yn dilyn y *Vulgate*:— "A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le *yr wyt* ti?" Ond "dyn" sydd gan Morgan yn yr adnod

hon, yr un modd y gwreiddiol a Beibl Geneva. Ni a ychwanegwn yma enghraifft neu ddwy i ddangos fod Morgan yn defnyddio y *Vulgate*. Cymmerwn Psalm lxxii. 6 :—

Efe a ddescyn fel glaw ar gnû gwlân, fel cafodydd yn dyfrhau y ddaiar.—*Morgan.*

Descendet sicut pluvia in vellus: et sicut stillicidia stillantia super terram.—*Vulgate.*

Yn ei gyfieithiad o "Lyfr y Psalmau" rhydd y Dr. Briscoe:—"Disgyned efe fel gwlaw ar ddoldir cneifiedig"; ac yn ol cyfieithiad Geneva—"*He shall come downe like the raine vpon the mowen grasse.*" Felly tebyg yw mai o'r *Vulgate* yr oedd Morgan yn cyfieithu yr adnod hon, er ein bod yn cael ein hysbysu fod y Deg a Thriugain a chyfieithiad Cranmer yn debyg.* Eto Psalm cxxxiii. 3 :—

[Ac] fel gwlith Hermon yr hwn sydd yn descyn ar fynydd Sion: canys yno y gorchymynnodd yr Arglwydd y fendith [a'r] bywyd yn dragywydd.—*Morgan.*

Sicut ros Hermon, qui descendit in montem Sion. Quoniam illic mandavit Dominus benedictionem, et vitam usque in sæculum.—*Vulgate.*

"Mynyddoedd Sïon" sydd yn y gwreiddiol, a "*mountaines of Zion*" sydd ym Meibl Geneva. Eto Psalm cl. 4 :—

Molwch ef â thympan, ac â dawns: molwch ef â thannau, ac ag organ.—*Morgan.*

Laudate eum in tympano et choro: laudate eum in chordis et organo.—*Vulgate.*

"Molwch Ef â thympan ac â dawns, Molwch Ef a thannau ac a symphon" ydyw y gwreiddiol, yn ol y Dr. Briscoe; a "*Praise ye him with timbrell and flute: praise ye him with virginalles and organs*" ydyw cyfieithiad Geneva. Pa fodd bynag, nid ydyw Morgan yn dilyn y *Vulgate* yn nechreu y Salm; oblegid "Molwch Dduw" sydd ganddo ef, yn unol â'r gwreiddiol, ond "*Laudate Dominum*" sydd yn y *Vulgate*. Gallesid ychwanegu enghreifftiau bron yn ddirifedi i brofi fod Morgan wrth gyfieithu yr Hen Destament, fel yr oedd wrth ddiwygio cyfieithiad Salesbury, yn dra phleidiol i ddarlleniadau Jerome; ond ni chaniata ein gofod i ni eu dyfynu.

Yn awr, yr ydym wedi taflu ychydig o awgrymiadau o barthed i rai o'r awdurdodau oedd o flaen Morgan pan yn cyfieithu yr Hen Destament. Ac yr ydym yn cael fod ganddo, o leiaf, Feibl Hebraeg, Beibl Lladin Jerome, a Beibl Geneva. Ond odid mai diffyg gallu a phrinder llyfrau ydyw yr achos na chanfyddem fod eraill hefyd yn ei feddiant, yn enwedig yr argraffiadau boreuaf o'r Beibl Seisonig. Cyn terfynu ar y pen hwn, fe allai y goddefir

* Pigion o'r Beibl Amlieithawg (1865), tud. 102.

i ni ychwanegu fod y Dr. Briscoe yn lled gadarn yn ei farn mai y cyfieithiad Lladin a gyhoeddwyd gan Pagninus yn 1521 oedd un o awdurdodau Morgan. Bu Pagninus yn llafurio gyda'r cyfieithiad hwn am bum' mlynedd ar hugain; ac er fod un beirniad yn ei gondemnio am ymlyniad rhy gaeth i'r testyn gwreiddiol, y mae esbonwyr a beirniaid diweddar yn ei ganmol am ei fanylrwydd a'i ffyddlondeb.* Gan ein bod wedi cael caniatad y Dr. Briscoe i ddefnyddio y nodiadau a anfonodd i ni, a chan ei fod oherwydd ei ddysgeidiaeth a'i brofiad fel cyfieithydd wedi ennill sylw ei gyd-wladwyr, ni a osodwn yma ddyfyniad o'i lythyr o barthed i'r defnydd a wnaeth Morgan o Pagninus:—"Yn awr, mewn perthynas i'r Esgob Morgan. Dywed pan yn cyflwyno ei Feibl i'r Frenhines Elizabeth, nad oedd ond newydd ddechreu ar ei gyfieithiad pan yr ymwelodd â'r Archesgob Whitgift, yr hwn a benodwyd yn 1583. "*Quod cum vix aggressus essem*" yw ei eiriau, a chyhoeddodd ef yn 1588. Yr oedd yr amser a gymerodd at y gorchwyl yn hollol annigonol, ac felly nis gallai fod wedi ei gyfieithu ei hunan o'r Hebraeg. Pan yr oeddwn i wrth y gorchwyl o gyfieithu rhan o'r Hen Destament, cefais allan yn fynych ei fod yn defnyddio cyfieithiad Pagninus. Daeth un prawf amlwg o hyn o dan fy sylw yn ddiweddar—2 Bren. vii. 1, 16, 18, lle ceir "*sat*" o "*seah*" heb un awdurdod amgen na Pagninus. "*Seah*" ydyw y rhif unigol, ac yn ei le rhydd Pagninus "*satum*"; ac felly Morgan ar ei ol. Amcan y "*t*" ydyw ffurfio deurif (*dual*) = *satum*, sef "sât"; *seim* ydyw y lluosog. Y mae mor wrthun a phe dywed *a bushels*. . . . . Ymddengys i mi fod cryn lawer o'r gwahaniaeth sydd rhwng cyfieithiad Morgan â Beiblau eraill, yr hyn a ddygir ym mlaen gan Gymry gwladgarol fel prawf ei fod yn cyfieithu o'r gwreiddiol, i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn defnyddio Pagninus. . . . . Nid wyf yn dal allan na wnaeth Morgan un defnydd o gwbl o'r Beibl Hebraeg, ond nad oedd yn ddigon dysgedig i gyfieithu o hono amgen na thrwy gymhorth bagl-ffyn."† Dyna dystiolaeth y Dr. Briscoe. Ac y mae yn amlwg nad ydyw ef mor ffafriol i Morgan ag ydoedd y Dr. Thomas Llewelyn a Gwallter Mechain. Eto, rhaid addef ei fod yn fwy galluog i farnu na'r olaf o leiaf, yr hwn nid oedd yn ysgolhaig Hebraeg. Pa fodd bynag, nis gall fod gwaith Morgan yn defnyddio cyfieithiad Pagninus yn awr a phryd arall yn profi nad oedd yn defnyddio y testyn Hebraeg yn fynych. Ond gan fod Pagninus mor debyg i'r gwreiddiol, dichon y byddai yn orchwyl anhawdd ambell waith, hyd yn oed i

* Horne's Introduction to the Study of the Bible, p. 100.
† Llythyrau Dr. Briscoe at yr Awdwr, Chwef. 4ydd a'r 7fed 1883.

ysgolhaig Hebraeg, i benderfynu pa un o'r ddau a ddefnyddiai y cyfieithydd Cymreig.

Y mae yn cael ei gydnabod yn gyffredinol mai Beibl Seisonig Iago I., yr hwn a gyhoeddwyd yn 1611, oedd sail cyfnewidiadau Parry; ac o'r hwn y cymmerodd y "cynnwysiad" i'r pennodau a'r cyfeiriadau ymyl-ddalenol.* Beibl Seisonig 1611 ydyw yr un a ystyrir gan y Saeson yn awdurdodedig; ac hyd 1881, pryd y cyhoeddwyd y Cyfieithiad Diwygiedig, efe yn unig, gyda rhyw gymmaint o gyfnewidiadau orgraffyddol, oedd y cyfieithiad olaf a gawsant. Gellir dyweyd yn gyffelyb am y Beibl Cymraeg a gyhoeddwyd yn 1620. Er nad oes gan y Cymry yr un cyfieithiad *awdurdodedig*, yn ystyr briodol i'r gair, o gwbl; eto y mae Beibl Parry yn parhau i gael ei gydnabod, gydag ychydig o gyfnewidiadau orgraffyddol, fel cyfieithiad sefydledig gan genedl y Cymry.

Ond a ydyw cyfieithiad diwygiedig Parry yn rhagori ar gyfieithiad Morgan? Y mae yn ddiddadl fod ganddo well mantais. Yr oedd Morgan wedi bod dros y maes o'i flaen; a chan fod Parry yn cymmeryd ei arwain gan y Beibl Seisonig awdurdodedig, yr oedd y gorchwyl yn hawddach na phe buasai o dan yr angenrheidrwydd o ymgynghori yn barhaus â'r testynau gwreiddiol. Y mae yn rhaid cydnabod fod Beibl Seisonig 1611 yn gryn lwyddiant fel cyfieithiad. Bu cynnifer a saith a deugain wrth y gorchwyl am oddeutu tair blynedd, ac adchwiliwyd y gwaith yn fanwl a gofalus gan ddeuddeg o honynt, yr hyn a gymmerodd naw mis yn ychwanegol. Ac ymddengys iddynt ymgynghori nid yn unig â'r gwreiddiol, ond â'r holl gyfieithiadau Seisonig blaenorol, ond yn benaf â "Beibl yr Esgobion." Dywedir wrthym fod hefyd o'u blaenau argraffiadau diweddaraf Stephens a Beza, y Beibl Complutensiaidd, a'r *Vulgate*.

Y mae Gwallter Mechain yn nodi amryw o ddiwygiadau cystrawenol a wnaed gan Parry ar gyfieithiad Morgan. "Rhy helaeth oedd y Dr. Morgan," meddai, "yn gyffredin o'r geiriau —*yna*, *felly*, *gan hyny*, &c., yn nechreuad adnodau, y pryd na thybiwyd yn angenrheidiol bod mwy na'r cyssylltair *a*, i gydio yr adroddiad."† Gosodwn yma yr enghreifftiau a rydd Gwallter Mechain, gan eu cymharu â darlleniadau Beibl Geneva a'r Beibl Seisonig awdurdodedig:—

* Y mae y cyfeiriadau ymyl-ddalenol yn wahanol ym Meibl Parry i'r hyn ydynt ym Meibl Morgan; ac y maent yn fwy lluosog ganddo hefyd.

† Gwaith Gwallter Mechain, ii., 230.

Morgan a *Geneva.*	*Parry* a'r *Cyf. Seis. Awd.*
Gen. xlii. 3.	
Yna dêc o frodyr Ioseph	*A* dec brodyr Ioseph
So went Josephs ten brethren	*And* Joseph's ten brethren
Gen. xliii. 15.	
Felly y gwyr a gymmerasant yr anrheg honno	*A'r* gwyr a gymmerasant yr anrheg honno
Thus the men tooke this present	*And* the men took that present
Gen. xli. 17.	
Pharao *gan hyny* a ddywedodd	*A* Pharao a ddywedodd
And Pharaoh sayde	*And* Pharaoh said
Gen. xli. 5.	
Efe a gyscodd *hefyd* ac a freuddwydiodd	Ac efe a gyscodd, ac a freuddwydiodd
Again he slept, and dreamed	And he slept and dreamed

Geiriau di-alw am danynt yn sicr ydyw y rhai a nodir gan Gwallter Mechain. Ond fe welir ei fod yn eu cael mewn rhai achosion wrth ddilyn Beibl Geneva; er y tybia efe "mai yr achos am y gwahaniaeth a welir yng nghystraweniad y ddau argraffiad ydyw, bod y Dr. Morgan wedi dal yn gaethach at ddulliau a nodweddion yr ieithoedd gwreiddiol na'i ddilynwyr; a'u bod hwy wedi cymmeryd y rhyddid i Gymreigeiddio ei Hebraegiadau ef." Yna y mae Gwallter Mechain yn nodi Gen. xli. 40 fel prawf fod Morgan yn well Hebreigwr na Parry:—"Tydi a oruwchwili fy nhŷ fi, ac ar dy fin y cusana fy mhobl oll," medd Morgan; ond fel hyn gan Parry—"Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth dy air di y llywodraethir fy mhobl oll." Dywedir wrthym mai ystyr arferol y gair a gyfieithir gan Parry yn "llywodraethu" yw "cusanu" (gwel 1 Sam. x. 1; Psalm. ii. 12); pa fodd bynag, y mae y ferf hefyd yn golygu "dwyn arfau"; ac y mae Beibl Geneva yn darllen—"*and at thy word shall all my people be armed*," gyda'r nodiad canlynol ar ymyl y ddalen:—"*Some read, the people shal kisse thy mouth: that is, shal obey thee in all things.*" Fe welir y gallasai Morgan gael ei ddarlleniad oddi ar ymyl y ddalen yng nghyfieithiad Geneva, ond nid yw yn debygol y buasai yn ei dderbyn heb ymgynghori â'r gwreiddiol. Y mae Parry, o'r ochr arall, yn cyfieithu yn llythyrenol o Feibl Iago. Ychwanegwn yma ychydig enghreifftiau ym mha rai y tybir fod Morgan yn rhagori ar Parry:—

Gen. xxxvii. 2.	
ac efe oedd yn llangc gyd a meibion Bilha, a chyd a meibion Zilpha gwragedd ei dâd ef: —*Morgan.*	a'r llangc oedd gyd â meibion Bilhah, a chyd â meibion Zilpah, gwragedd ei dad; —*Parry.*

Y mae Parry yn dilyn Beibl Iago—"*and the lad was with the*

sons," &c., yr hyn sydd yn well cyfieithiad na yr un a geir yn Meibl Geneva—"*& the childe was with the sonnes*," &c.—pan gofiwn fod Joseph yn ddwy ar bymtheg oed. Ond fe ddywedir wrthym mai y darlleniad Hebraeg yw,—"ac yr oedd efe yn llanc gyda meibion," &c., hyny yw, fel yr ieuangaf yn cynnorthwyo ei frodyr hynach; ac y mae Morgan yn cadw y syniad hwn.

Num. xi. 5.

Cof yw gennym y pyscod y rhai a fwyttawsom yn yr Aipht yn rhad.—*Morgan.*	Cof yw gennym y pyscod yr oeddym yn ei fwytta yn yr Aipht yn rhad.—*Parry.*

Nid oes synwyr o gwbl yn narlleniad Parry, gan ei fod yn rhoddi berf *unigol* gydag enw yn y rhif *luosog*. Diwygiwyd y gwall yn argraffiad 1799 trwy roddi "eu bwytta"; ond er hyny dilynir Parry gan amryw o argraffiadau diweddar.

Job ii. 3.

A ddeliaist ti sulw ar fyng-was Iob, nad [oes] gyffelib iddo ef ar y ddaiar?—*Morgan.*	A ddeliaist ti ar fy ngwas Iob, nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear.—*Parry.*

Y mae Parry yn dra aneglur, ac nid ydyw yn gosod allan "*Hast thou considered*" Beibl Iago.

Job xi. 2.

Oni attebir yr aml o eiriau? ac a gyfiawnheuir gŵr siarâdus.—*Morgan.*	Oni attebir amlder geiriau? a gyfiawnhêir gwr siaradus?—*Parry.*

Dywed y Dr. Samuel Lee mai "gwr a dwy wefus" ydyw y darlleniad llythyrenol, felly gwell yw Morgan.

Psalm. xvi. 6.

Etifeddiaeth a syrthiodd i mi mewn [lleoedd] hyfryd: ac [y mae] i mi etifeddiaeth deg.—*Morgan.*	Y llinynnau a syrthiodd i mi mewn *lleoedd* hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth dêg.—*Parry.*

Y mae gan Parry awdurdod y *Vulgate* a'r cyfieithiadau Seisonig dros ei ddarlleniad; a diammeu mai cyfeiriad sydd yma at ranu etifeddiaeth wrth linyn. Ond nid yn unig y mae Morgan yn fwy dealladwy, ond, yn ol darlleniad y Dr. Briscoe, y mae yn nes i'r gwreiddiol:—"Y meddiant a ddigwyddodd i mi mewn siriol (leoedd), Ië, yr etifeddiaeth a'm hyfryda."

Psalm. xix. 4.

I bob tir yr aeth eu sain hwynt, a'i geiriau hyd eithafoedd bŷd: —*Morgan.*	Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd y byd: —*Parry.*

Parry yn dilyn y cyfieithiadau Seisonig, yn erbyn y *Vulgate* a'r gwreiddiol. Yn ol y Dr. Briscoe y mae i'w ddarllen:—"Trwy'r holl ddaear yr aeth eu sain allan," ac yn debyg Morgan.

Psalm. lv. 12.

Nid gelyn yn ddiau a'm difenwodd, canys dioddefaswn [hyny:] nid fynghas-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn, canys [ond odit] mi a ymguddiaswn rhagddo ef.—*Morgan.*	Canys nid gelyn a'm difenwodd; yna y dïoddefaswn: nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef.—*Parry.*

Yr ydym ni yn credu ein bod yn deall yr adnod yn well yn ol darlleniad Morgan nag yn ol eiddo Parry.

Preg. xii. 10.

Chwiliodd y pregeth-wr am eiriau melus, ac scrythur iniawn, a geiriau gwirionedd. —*Morgan.*	Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymmeradwy; a'r *hyn oedd* ysgrifenedig oedd uniawn, *sef* geiriau gwirionedd.—*Parry.*

Yn ol dosparthiad Morgan adn. 11 ydyw hon. A dywedir gan y Dr. E. H. Plumptre, mai "*words of delight, or pleasure*" ydyw y cyfieithiad llythyrenol; felly y mae Morgan yn nes i'w le na Parry.

Esa. xiv. 4.

Pa wedd y peidiodd y gorthrymmwr: ac y peidiodd y dreth aur?—*Morgan.*	Pa wedd y peidiodd y gorthrymmwr? ac y peidiodd y dref aur?—*Parry.*

Yn ol Beibl Geneva—"*Howe hath the oppressour ceased: and the golde thirstie Babel rested?*" ond yn ol y Beibl Seisonig Awdurdodedig—"*How hath the oppressor ceased! the golden city ceased!*" Cyfieithia yr Esgob Lowth yr ymadrodd fel hyn:—"*How hath the oppressor ceased! the exactress of gold ceased!*" a gwelir fod Morgan yn gyffelyb.

Esa. xxxi. 5.

Megis adar yn ehedec, felly'r ymascella Arglwydd y lluoedd tros Ierusalem, gan dderbyn a gwared, gan bassio heibio, ac achub.—*Morgan.*	Megis adar yn ehedeg, felly yr ymddiffyn Arglwydd y lluoedd Ierusalem; gan ymddiffyn a gwared, gan basio heibio ac achub.—*Parry.*

Yn ol yr Esgob Lowth:—"*As the mother birds, hovering over their young, so shall Jehovah God of Hosts protect Jerusalem; protecting and delivering; leaping forward, and rescuing her.*" Fe welir nad oes yr un o'r cyfieithwyr Cymreig wedi cael rhediad yr adnod, ond y mae y gair "ymascella" gan Morgan yn profi ei fod ef wedi cael syniad lled glir am ei chynnwysiad.

Jer. iii. 5.

Wele dywedais [hyn,] a gwnaethost yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist ti.—*Morgan.*	Wele, dywedaist a gwnaethost yr hyn sydd ddrwg hyd y gellaist.—*Parry.*

Y mae Morgan yn rhoddi ar ddeall fod Juda wedi *dyweyd* un ffordd, ond wedi *gweithredu* ffordd arall; ond yn ol Parry, yr oedd ei eiriau a'i weithredoedd yn ddrwg. Yn ol y *Speaker's Commentary*, Morgan ydyw y goreu, ond y mae Morgan neu'r argraffydd wedi gadael y *t* allan yn "dywedaist."

Jer. xii. 9.

A [fydd] fy etifeddiaeth i mi fel aderyn brith? onid [yw] yr adar o amgylch yn ei herbyn hi [yn dywedyd?] deuwch ymgesclwch holl fwystfilod y maes, deuwch i'w bwytta.—*Morgan.*

Y *mae* fy etifeddiaeth i mi *fel* aderyn brith; *y mae* yr adar o amgylch yn ei herbyn hi: deuwch, ymgesglwch, holl fwystfilod y maes, deuwch i ddifa.—*Parry.*

Morgan sydd gywir yn ol y *Speaker's Commentary*:—"*Is my heritage unto me as a speckled bird? Are the birds upon her round about? Come, assemble all the wild beasts: bring them to devour her.*"

Ceir enghreifftiau yn y Testament Newydd o waith Parry yn gwaethygu ar Morgan:—

Luc. xxiii. 32.—Y mae yn dychwelyd at gyfieithiad anghywir Salesbury yng nghylch y "drwgweithredwyr."

Act. xvi. 25.—Κατὰ δὲ τὸ μεσονύκτιον Παῦλος καὶ Σίλας προσευχόμενοι ὕμνουν τὸν Θεόν, yr hyn a gyfieithir gan Morgan: "Ac fel yr oedd Paul a Silas ganol nos yn gweddio, hwy a ganasant hymnau i Dduw"; ond yn llai cywir gan Parry, ar ol y Cyfieithiad Seisonig, yn "canu mawl."

Rhuf. xi. 2.—"Ni wrthododd Duw ei bobl y rhai a adnabu efe yn y blaen," medd Morgan; ond y mae Parry yn darllen:—"Ni wrthododd Duw ei bobl, yr hwn a adnabu efe o'r blaen." Y mae y rhagenw "hwn" yn swnio yn ddigrifol i ateb i'r "bobl."

1 Cor. xi. 28.—Δοκιμαζέτω δὲ ἄνθρωπος ἑαυτον, yr hyn a gyfieithir yn gywir gan Salesbury a Morgan,—"Eithr profed dyn ei hun"; ond yn "Eithr holed dyn ef ei hun," gan Parry.

Phil. iii. 20.—Ἡμῶν γὰρ τὸ πολίτευμα ἐν ουρανοῖς ὑπάρχει: "Dinasyddiaeth" a fuasai y gair goreu am πολιτουμα; ond y mae Morgan yn nes at y meddwl na Parry:—"Canys ein gwladwriaeth [ni] sydd yn y nefoedd"; ond yn yr olaf:—"Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd."

Hollol afreidiol fyddai ychwanegu at yr enghreifftiau hyn. Pe nodid yr holl waethygiadau a wnaed gan Parry ar gyfieithiad Morgan buasai yn trethi gormod ar ofod rhesymol traethodyn o'r natur yma. O'r ochr arall, y mae yn rhaid ystyried cyfieithiad Parry ar y cyfan yn ddiwygiad ar eiddo ei ragflaenydd; a dylid ychwanegu fod y diwygiadau yn lluosog. Y maent y llawer rhy luosog i ni feddwl am eu nodi allan. Ond hwyrach ar yr un pryd y dysgwylir i ni alw sylw at enghraifft neu ddwy.

Psalm. x. 1.

Paham Arglwydd y sefi o bell, yr ymguddi yn yr amseroedd [pan ydym] mewn cyfyng-der?—*Morgan.*

Paham, Arglwydd, y sefi o bell? yr ymguddi yn amser cyfyngder?—*Parry.*

Gellid meddwl fod y Dr. Briscoe, yr hwn sydd yn dilyn yr Hebraeg, yn pleidio Parry yn fwy na Morgan yn y darlleniad uchod. Felly y gwna hefyd, fel y gwelir, yn yr enghreifftiau canlynol :—

Morgan.	*Parry.*	*Dr. Briscoe.*
Psalm. xxxii. 3, 5.		
3. Tra y tewais, heneiddiodd fy escyrn gan fy rhuad bob dydd.	Tra y tewais, heneiddiodd fy escyrn, gan fy rhuad ar hyd y dydd.	Tra y tewais, nychodd fy esgyrn, yn fy rhuad ar hyd y dydd.
5. Cydnabyddaf fy mhechod [wrthit,] a'm hanwiredd ni chuddiais : dywedais, cyffessaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaist boen fy mhechod.	Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais : dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod.	Fy mhechod a addefais Wrthyt, a'm pechod ni chuddiais, Dywedais, "Addefaf fy anwiredd i Iehofah," a Thydi a faddeuaist fai fy mhechodau.
Psalm. xxxvii. 9.		
Canys torrir ymmaith y drwg-dynnion, a'r rhai a ddisgwiliant wrth yr Arglwydd, hwynthwy a etifeddant y tir.	Canys torrir ymaith y drwg ddynion : ond y rhai a ddisgwyliant wrth yr Arglwydd, hwynt-hwy a etifeddant y tir.	Canys gwneuthurwyr drygionu a dorrir ymaith, ond a ddisgwyliont wrth Iehofah, hwynt-hwy a berchennogant y tir.
Psalm. xlii. 2.		
Sychedic yw fy enaid am Dduw, [sef] am Dduw byw : pa bryd y deuaf, ac yr ymddangosaf ger bron Duw?	Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw :	am y Duw byw :
Psalm. xlvi. 1.		
Duw sydd obaith, a nerth i ni,	Duw *sydd* noddfa a nerth i ni,	Duw (sydd) i ni yn noddfa a nerth,
Psalm. l. 2.		
O Sion [mewn] perffeithrwydd tegwch y llewyrchodd Duw.	Allan o Sïon, perffeithrwydd tegwch, y llewyrchodd Duw.	Allan o Tsïon, perffeithrwydd tegwch, Duw a lewyrchodd.
Diar. vii. 6.		
Canys a mi yn ffenestr fy nhŷ, mi a edrychais drwy fy ffenestr.	Canys *a mi* yn ffenestr fy nhŷ, mi a edrychais drwy fy nellt.	Canys yn ffenestr fy nhŷ, trwy fy nellt, yr edrychais allan.*

Ffenestri o "ddellt," ac nid gwydr oedd yn y dwyrain. Y mae Morgan yn myned ar gyfeiliorn yma trwy ddilyn Beibl Geneva : — "*As I was in the windowe of mine house, I looked through my windowe.*" Ac y mae gan Parry well cyfieithiad yma nag sydd i'w gael yn y Cyfieithiad Seisonig Awdurdodedig :— "*For at the window of my house I looked through my casement.*" Pa un bynag ai yr Esgob Parry ai'r Dr. Davies a gyfieithodd hon, y mae yn amlwg fod ganddo well awdurdod o'i flaen na Morgan na'r cyfieithiadau Seisonig. Y mae yn wir y gallasai fod yn cyfieithu o'r *Vulgate*, oblegid ceir yno "ddellt" :—"*De fenestrâ enim domûs meæ per cancellos prospexi.*" Yr ydym yn

* "Llyfr y Diarhebion a Llyfr y Psalmau," gan y Dr. Briscoe; cyhoeddwyd 1855.

credu fod Parry yn yr hanner dwsin enghreifftiau a nodwyd olaf yn rhagori rhyw gymmaint ar Morgan; ac yr un modd y gellir dyweyd am y rhai canlynol :—

Esa. iv. 2.

Y pryd hynny y bydd blaguryn yr Arglwydd yn brydferthwch, ac yn ogoniant: a ffrwyth y ddaiar yn rhagoriaeth, ac yn degwch i'r rhai a ddiangasant o Israel. —*Morgan.*

a ffrwyth y ddaiar yn rhagorol ac yn hardd.—*Parry.*

Yn ol yr Esgob Lowth y mae Parry yn gywirach :—"*and the produce of the land excellent and beautiful.*"

Esa. xlii. 1.

Wele fyng-wâs, arno ef y pwyssaf.—*Morgan.*

Wele fy ngwas, yr hwn ydwyf yn ei gynnal.—*Parry.*

Yr hyn a gyfieithir gan Lowth, o'r gwreiddiol, yn "*Behold my servant, whom I will uphold.*"

Esa. li. 9.

Deffro, deffro fraich yr Arglwydd gwisc nerth, deffro fel y dyddiau gynt, [er yr] oesoedd tragywyddol: onid ti [yw]'r hwn a dorraist y balch, [ac] a archollaist y ddraig?—*Morgan.*

Deffro, deffro, gwisg nerth, O fraich yr Arglwydd; deffro fel yn y dyddiau gynt, yn yr oesoedd gynt. Onid ti *yw* yr hwn a dorraist Rahab, *ac* a archollaist y ddraig. —*Parry.*

Yn ol Lowth, Parry ydyw y cywiraf :—"*Awake, awake, clothe thyself with strength, O arm of Jehovah! Awake, as in the days of old, the ancient generations. Art thou not the same that smote Rahab, that wounded the dragon?*"

Esa. lxi. 1.

Yspryd yr Arglwydd Dduw [sydd] ar-daf, o herwydd yr Arglwydd a'm enein-iodd i efangylu [i'r] trueiniaid.—*Morgan.*

i'r rhai llariaidd. —*Parry.*

Y darlleniad yn ol Lowth ydyw :—"*to publish glad tidings to the meek hath he sent me.*" Yn yr enghreifftiau uchod, nid ydyw Morgan na Parry yn hollol gywir, os ydym i gymmeryd Lowth yn safon. Ond yr ydym yn gweled fod Parry wedi gwneuthur cyfnewidiadau ag y gellir eu gosod fel diwygiadau. Nodwn un arall i ddangos fod Parry wedi symmud rhyw gymmaint o'r an-eglurder, neu yr amwysedd, sydd ar brydiau yn anurddo arddull Morgan. Y mae Morgan yn Amos iv. 9 yn darllen :—"Tarewais chwi â diflanniad, ac â mallder, eich aml erddi, a'ch gwinllan-oedd, a'ch ffigus-brennau, a'ch oliwydd a ysodd y lindis: etto ni throesoch attafi medd yr Arglwydd." Y mae yn anhawdd dyweyd oddi wrth ddarlleniad Morgan pa un ai'r lindys a yswyd gan y coedydd a'r llysiau, ai'r coedydd a'r llysiau a yswyd gan y

lindys. Y mae synwyr cyffredin wrth gwrs o blaid yr olaf; ac felly y mae darlleniad Parry :—" Tarewais chwi â diflanniad, ac â mallder; pan amlhaodd eich gerddi, a'ch gwinllânoedd, a'ch ffigys-wydd, a'ch oliwydd, y lindys a'i hyssodd: etto ni throesoch attafi, medd yr Arglwydd." Yr unig fai yn Parry yn yr adnod ydyw ei fod yn defnyddio yr *unigol* " *a'i* "—" a'i hyssodd "—yn lle y lluosog " *a'u* "; ac y mae Morgan yn fynych, yn gystal a holl ysgrifenwyr yr oes hòno, yn euog o'r un camwedd.

Nodwn un neu ddau o'r gwelliadau a wnaed gan Parry yn y Testament Newydd. Cyfeiria y Dr. T. C. Edwards at Act. xxvii. 11.

Er hyny y gyd mwy y credei y Cannwriat ir llywydraethwr a'r llong-lywydd na' ar pethae y ddywedesit gan Paul.—*Salesbury.*	Er hynny ei gyd, mwy y credodd y canwriad i lywydd y llong, ac i'r meistr, nag i'r pethau a ddywedase Paul.—*Morgan.*	Eithr y Canwriad a gredodd i lywydd, ac i berchen y llong, yn fwy nag i'r pethau a ddywedid gan Paul.—*Parry.*

Y mae y Dr. Edwards yn nodi dau welliant o eiddo Parry yn yr adnod hon:—" eithr " yn lle " er hyny y gyd," yr hyn sydd yn rhy gadarn; ac " i lywydd ac i berchen y llong," yr hyn a gymmerodd o'r Cyfieithiad Awdurdodedig :—" *the master and the owner of the ship.*" Yn Rhuf. xv. 20, ceir esiampl o Parry yn gwrthod darlleniad Morgan, ac yn dychwelyd, a hyny er gwell, at yr eiddo Salesbury :—

Ac velly ydd ymorchestais y Euangelu nyd lle yr enwit Christ, rac bot ymy adeil*ad* ar *ucha* sail*iad* neb arall.—*Salesbury.*	Ac felly gan amgylchu i bregethu'r Efengyl nid lle yr henwid Crist, rhag bod i mi adailad ar sail nèb arall.—*Morgan.*	Ac felly gan ymorchestu i bregethu'r Efengyl, nid lle yr henwid Crist, fel nad adeiladwn ar sail un arall.—*Parry.*

Y mae y meddwl a rydd Salesbury a Parry i φιλοτιμουμενον, sef " ymorchestu," yn well nag " amgylchu " Morgan. Ceir y gair hwn hefyd yn 2 Cor. v. 9, lle y cyfieithir ef gan Salesbury a Morgan yn " chwenychem," ond gan Parry, eto, yn " ymorchestu." Gair ag y mae Morgan yn dra hoff o'i ddefnyddio ydyw " cospi." Hwn yw y gair a rydd, gan ddilyn Salesbury, am παιδευόμεθα yn 1 Cor. xi. 32, ond gwell ydyw " ceryddu " Parry. Duw fel *tad* sydd yma yn *ceryddu* ei blentyn, ac nid yn *cospi* yr annuwiol. Yr un gair a rydd Morgan yn Act. iv. 21 am κολασωνται, ac yn Act. xxii. 5 am τιμωρηθῶσιν, a Parry yr un modd; ac y maent yn gywir. Ceir y gair παιδεία = " dysgyblaeth," amryw weithiau yn Heb. xii., yr hwn a gyfieithir gan Morgan, yr hwn sydd yn dilyn Salesbury, yn " cospedigaeth." Wele enghreifftiau :—

Salesbury.	*Morgan.*	*Parry.*
adn. 5. — nac eskulusa cospedigaeth yr Arglwydd, ac na laysa pan gerydder di gantho	nac esceulysa gospedigaeth yr Arglwydd, ac na laesa pan gerydder di ganddo	na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo
adn. 6.—Can ys y neb a garo yr arglwydd, ef ay cospa:	Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae efe yn ei gospi,	y mae yn ei geryddu;
adn. 7.—Os goddefwchi gospedigaeth,	Os goddefwch gospedigaeth,	Os goddefwch gerydd
adn. 8. — Eithr os heb gospedigaeth yddych	Eithr os heb gospedigaeth yr ydych	Eithr os heb gerydd yr ydych
adn. 9.—cael a wneym yn cospi canthynt wy	cawsom dadau ein cyrph yn gospedig-wŷr	ni a gawsom dadau yn y cnawd i'n ceryddu
adn. 10.--Can ys hwyntw yn wir tros ychydig ddyddiau an cospay ni	canys hwynt hwy yn wir tros ychydig ddyddiau a'n cospent ni	dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent
adn. 11. — Nid chwaith hyfrydwch y gedir pob rrhyw cospedigaeth	Ni welir chwaith yn hyfryd un gospedigaeth	Etto ni welir un cerydd dros yr amser presennol

Nid oes dadl nad ydyw Parry yn well yn yr enghreifftiau uchod. Ond yn y Testament Newydd, fel yn yr Hen, y mae yn gwneuthur y rhan fwyaf o'i gyfnewidiadau ar sail Beibl Seisonig 1611, ac fel y sylwa y Dr. T. C. Edwards, nid ydynt bob amser yn welliadau. Credwn y mae yn lled anaml y ceir ei fod yn dangos nemawr o wreiddioldeb. Pan y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y cyfieithiad Seisonig y mae yn dilyn naill ai Salesbury ai Morgan, yr olaf yn benaf. Fel yr ydym wedi sylwi, y mae y Dr. T. C. Edwards yn gosod y flaenoriaeth i Salesbury fel ysgolhaig hyd yn oed ar Morgan; ond credwn y dylid rhoddi y flaenoriaeth i Morgan ar Parry. Pa fodd bynag, pe gofynasid i ni pa un o'r tri a nodwyd a wnaeth fwyaf o wasanaeth i'w genedl, dywedasem mai Morgan. Nid oedd, ac nis gallai fod, cyfieithiad Salesbury, o herwydd ei iaith glogyrnaidd, yn boblogaidd. Ond y mae cyfieithiad Morgan bron gystal yn hyn a chyfieithiad diwygiedig Parry. Llwyddodd Parry i leddfu rhyw gymmaint ar erwindeb rhai brawddegau o eiddo ei ragflaenydd, mae'n wir. Ond ni fuasai yn rhaid i'n Cenedl gwyno llawer pe cawsai nifer digonol o Feiblau Morgan. Ond fel yr ydym eisoes wedi sylwi, Beibl Parry, gydag ychydig gyfnewidiad yn y llythyraeth, ydyw yr un a arferir yn bresennol gan y Cymry. Yn ei lyfr bychan ond tra rhagorol—"Ystyriaethau ar Ddiwygiad o'r Testament Cymraeg"—danghosir gan y Parch. W. Edwards, B.A., o Athrofa Pontypool, fod lle i ddiwygiadau pellach. Ac y mae y ffaith fod eraill wedi ymgymmeryd â chyfieithu, megys y

Parch. John Williams, yr hwn a gyhoeddodd y Testament Newydd ("*Yr Oraclau Bywiol*") yn 1842, a'r Parch. Owen Williams, yr hwn a gyhoeddodd "Testament yr Efrydydd" yn 1888, yng nghydag amryw eraill sydd wedi cyfieithu rhanau o'r Testament Newydd i golofnau ein misolion a'n chwarterolion, yn cadarnhau yr hyn a ddywedir gan Mr. Edwards. Ond wedi'r cyfan, y mae y Cymry yn ddyledus—yn dra dyledus—am y tair cyfrol gyntaf o Air Duw a ymddangosasant yn eu hiaith. Rhodder y parch dyledus i'r tri chyfieithydd a'u cynnorthwywyr; ac yr ydym yn sicr y gwneir hyny os rhoddir ystyriaeth briodol i'r mawr lafur a'r drafferth a gymmerasant. Gwnaeth pob un o honynt wasanaeth pwysig, gwasanaeth na ddylai deiliaid yr Ysgol Sabbothol ac aelodau Eglwys Dduw yng Nghymru, ym mhlith pob enwad, ei anghofio tra parhëir i ddarllen a siarad y Gymraeg. Pa ffaeleddau bynag a ddichon fod yn eu gwaith, hwynt hwy o bawb a deimlasant anghenion eu cydwladwyr i'r fath raddau fel ag i geisio eu cyflenwi. Dichon fod ychydig o rai eraill yn eu hamser yn *siarad* am y gwaith, ond darfu iddynt hwy *weithredu*. Cymmwynaswyr mwyaf eu cenedl a fuant, ac arhosed eu coffadwriaeth yn fendigedig.

PENNOD IX.

SYLWADAU AR LEDAENIAD YR YSGRYTHYRAU YNG NGHYMRU, A'U DYLANWAD AR Y GENEDL.

Adran I.—Y Derbyniad a gafodd y Beibl Cymraeg gan y Genedl. *Adran II.*—Ei Ddylanwad ar Iaith a Llenyddiaeth y Genedl. *Adran III.*—Ei Ddylanwad ar Foesau a Chrefydd y Genedl.

Fe ddichon y byddai hyn o draethodyn yn fwy cyflawn pe y gwnaem ychydig sylwadau er dangos y derbyniad a gafodd y Beibl Cymraeg gan y Cymry yng nghyda'r dylanwad a effeithiwyd trwy ei ledaeniad ym mhlith y genedl. Heb ychwanegu ond can lleied ag sydd bosibl at ysgrif ag sydd eisoes wedi myned yn feithach nag y meddylid ar y cyntaf, ceir ychydig o eiriau yn unig dan y tair adran a ganlyn :—

I.—Y Derbyniad a gafodd y Beibl Cymraeg gan y Genedl.

II.—Dylanwad y Beibl Cymraeg ar Iaith a Llenyddiaeth y Genedl.

III.—Dylanwad y Beibl Cymraeg ar Foesau a Chrefydd y Genedl.

Adran I. — Y Derbyniad a gafodd y Beibl Cymraeg gan y Genedl.

Ar gyfer eglwysi Cymru yn fwyaf neillduol y cyhoeddwyd Testament Salesbury, Beibl Morgan, a Beibl Parry, ac nid yn gymmaint i ddiwallu anghenion teuluol y Dywysogaeth. Fel hyn y dywed Josuah Thomas ar y mater :—

Plentyn. Mae'n debig fod y wlad, fel o'r blaen [sef ar ol cyhoeddi Bibl y Dr. Morgan ac un y Dr. Parry, megis cyn hyny], heb y Bibl ond yn yr Eglwysi.

Tad. Oeddent. Er mwyn yr Eglwysi yr oedd yr argraphiad hwn [yr eiddo y Dr. Parry] fel y llall [yr eiddo y Dr. Morgan].*

* Hanes y Bedyddwyr, tud. 17, dyfynedig yn Enwogion y Ffydd, i., 159.

Ond ym mhen deng mlynedd ar ol cyhoeddi Beibl y Dr. Parry, sef yn 1630, trwy haelioni Syr Thomas Myddleton, neu Middleton, yr hwn oedd frawd i Gwilym Ganoldref, a Rowland Heilyn, o blwyf Llanymynech, yng nghydag eraill nad yw eu henwau yn hysbys, dygwyd allan argraffiad o'r Beibl gogyfer a'r bobl gyffredin. Cyfrol fechan, hwylus, 8-plyg, mewn llythyren fân, a elwir bwrdeisen (*bourgeois*) yw hon; yn cynnwys y Llyfr Gweddi Gyffredin, anerchiad Lladin Richard, Esgob Llanelwy, at y Brenin Iago, anerchiad yr Esgob Morgan i'r Frenhines Elizabeth, llythyr Cymraeg "At y Darllenydd," yr Hen Destament, yr Apocrypha, y Testament Newydd, ac yn diweddu gyda Salmau Cân Edmwnd Prŷs.* Dywedir fod nifer y copïau a argraffwyd yn 1,500;† ac yr ydym yn cael pa faint oedd pris y gyfrol gan y Ficer Prichard yn y pennill canlynol:—

Mae'r Bibl bach yn awr yn gysson,
Yn iaith dy fam i'w gael er coron:
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw;
Mae'n well na thref dy dâd i'th gadw.‡

A ganlyn sydd daflen o'r gwahanol argraffiadau o'r Beibl, neu ranau o hono, a gyhoeddwyd ar ol yr un a nodir uchod hyd ddechreu y ganrif bresennol:—

1634. "Psalmau Dafydd o'r vn cyfieithiad â'r Bibl Cyffredin."

1641. "Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Jesu Grist." Nid oes enw lle nac argraffydd wrth hwn. Nid yw y dalenau na'r tudalenau yn cael eu rhifnodi, eithr arwyddion y lleni yn unig hyd G 92. Ei blygiad yw 18-plyg [8-plyg ?], ac y mae iddo ddwy golofn, a chynnwysiad o flaen pob pennod, ond heb y cyfryw ar ben uchaf y dail—dim yno ond enw y llyfr a rhif y bennod. Tybir mai argraffiad a ddygwyd allan yn ddirgelaidd gan yr Anghydffurfwyr yw hwn, gan nad oes enw argraffydd na lle arno. [Cymh. *Llyfr. y Cymry* a *Rees's Hist. Protest. Noncon.*]

1643.—Y Testament Newydd, &c. [8-plyg], a gyhoeddwyd gan William Wroth a Walter Cradoc. [Yn 1646 y mae y Dr. T. Rees yn amseru hwn; o leiaf y mae yn amseru un yn y flwyddyn hòno.]

1647.—Y Testament Newydd [Llundain, 12-plyg], yn cynnwys 1000 o gopiau, trwy offerynoliaeth Wroth a Cradoc. Yr oedd hwn yn gyffelyb i'r un yn 1630, ond gyda'r llinellau ar

* Dywedir mai Beibl 1630 ydyw y prinaf o'r holl argraffiadau Cymreig. Y mae cyfargraff o hono yn Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Llanelwy; un gan y Parch. J. Ll. James, March, Cambs.; dau gan Egerton Phillimore, Ysw., Tyn'rhos, Cemmaes Road; un gan yr Hybarch Archddiacon Thomas, Meifod; un gan Richard Williams, Ysw., F.R.H.S., Newtown (hen gopi Vavasor Powell); un tra ammherffaith gan Miss P. A. Fry, Tower House, Bristol; un yn Amgueddfa Caerdydd; ac un ym Mhrifysgol Aberystwyth.

† Rees's Hist. Protest. Noncon. in Wales (Edit. 1883), p. 509.

‡ Canwyll y Cymry (arg. 1714), tud. 8.

draws, yn lle yn golofnau, fel yn hwnw. Ymddengys fod dau argraffiad o hwn, gan fod yr *u* wedi ei chyfnewid am y *v* yn rhai o honynt.

1648.—Ail argraffiad o'r uchod, yng nghyda'r Psalmau ar gân, gan yr Archddiacon Prŷs. [*Y Gwalia*, Mai 16, 1888.]

1650.—Y Testament Newydd, mewn llythyren fras, 8-plyg, 1000 o gopiau. [*Y Gwalia*, Mai 16, 1888.]

1653.—Testament ein Harglwydd Iesu Grist, wedi ei gyfansoddi yn Benhillion Cymreig, trwy lafur Rice Jones, o Lanfair Caereinion.

1654.—"Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan James Flesher, ac a werthir gan Thomas Brewster, dan lun y tri Bibl yn ymmul Pauls." 8-plyg, 6000 o gopiau. Dygwyd yr argraffiad yma, yr hwn a adnabyddir weithiau dan yr enw "Beibl Cromwell," allan trwy offerynoliaeth Charles Edwards, Vavasor Powell, a Walter Cradoc. Dywedir mai yn hwn yr arferwyd y llythyren *J* gyntaf yn ein Beiblau Cymraeg, er fod y llythyren hòno o *ran y ffurf* o honi ym Meiblau Parry a Morgan, megys yn *Jsaac*, *Jsrael*, &c., yn gystal ag yn *Jacob* a *Joseph*.*

1654.—Y Testament Newydd, gan Vavasor Powell a Walter Cradoc; 1000 o gopiau, 8-plyg. [*Revue Celtique*, i., p. 377.]

1655.—Testun y Testament Newydd. Llundain. 8-plyg.

1671.—Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd; Llundain, trwy ymdrechion Thomas Gouge a Stephen Hughes; 6000 o gopiau, 8-plyg.

1672.—Y Testament Newydd, yng nghyda'r Psalmau yn adnodau ac ar fesur; 2000 o gopiau, 8-plyg. [Dywed y Dr. Thomas Llewelyn i argraffiad un-plyg ymddangos yn y flwyddyn hon hefyd.]

1677.—"Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan John Bill, Christopher Barker, Tho. Newcomb, a Henry Hills, Printwyr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin: ac a werthir gan John Hancock, tan lun y tri Bibl yn Popes-Head Alley, yn Cornhill." 8000 o gopiau, 8-plyg. Dygwyd hwn allan trwy ymdrechion Thomas Gouge, Stephen Hughes, ac eraill. Gwasgarwyd mil o gopiau yn rhad ym mysg y tlodion, a gwerthwyd y gweddill am bedwar swllt yr un, wedi ei rwymo yn dda.†

* Y mae cyfargraff o "Feibl Cromwell" ym meddiant y Parch. J. Lloyd James, March, Cambs.

† Y mae copiau o Feibl 1677 ym meddiant y personau canlynol:—Iarll Spencer, Althorpe; Llyfrgell Gyhoeddus, Abertawy; W. J. Griffith, Ysw., 29, Albert Street, Upper Bangor, sir Gaernarfon; Parch. J. Lloyd James, Gweinidog Cynnulleidfaol, March, Cambs.; a chopi o'r Hen Destament perthynol iddo, wedi ei gyd-rwymo gyda Thestament Newydd 1690, gan ysgrifenydd y traethawd hwn.

1678.—Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Llundain ; 8-plyg.

1690.—Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan Charles Bill a Thomas Newcomb. Cychwynwyd y gwaith hwn gan Stephen Hughes ; ond ar ol ei farwolaeth, ymaflwyd yn y gorchwyl gan David Jones, o Landysilio, Caerfyrddin. Cefnogydd y gwaith oedd Iarll Wharton, yr hwn a dalodd am nifer mawr i'w rhanu rhwng y tlodion. 10,000 o gopiau, 8-plyg. Argraffwyd nifer o Destamentau hefyd o hwn ar wahan.

1690.—" Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Rhydychain, printiedig yn y Theatr." Golygydd y gyfrol hon ydoedd un Pyrs Lewis, o Goleg Iesu, Rhydychain ; ond gelwir ef dan yr enw " Beibl yr Esgob Llwyd " am fod taflen amseryddol o waith yr Esgob William Lloyd, o Lanelwy, ar ei ddechreu. Hwn, mae'n debyg, oedd y cyntaf a argraffwyd yn Rhydychain. 10,000 o gopiau, un-plyg.*

1717, 1718.—Y Beibl† Cyssegr-lan, Llyfr Gweddi Gyffredin, Salmau Cân Edmwnd Prŷs, &c. Hwn oedd yr argraffiad cyntaf o'r Beibl Cymraeg a ddygwyd allan gan y Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Gristionogol. Y Beibl heb y Llyfr Gweddi a ddygwyd allan yn 1717, er mwyn yr Anghydffurfwyr. Y golygydd ydoedd y Parch. Moses Williams, ficer Defynog, sir Frycheiniog ; am y rheswm hwn gelwir ef yn Feibl Moses Williams. 10,000 o gopiau, 8-plyg ; argraffedig yn Llundain.

1727.--Y Beibl† Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd, o dan nawdd yr un Gymdeithas, a than olygiad yr un gŵr, a'r uchod. Argraffwyd yn Llundain gan Ioan Basged ac Asseins Harry Hills. 5,000 o gopiau, 8-plyg, y rhai a werthid am bedwar swllt y gyfrol.

1727.—Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Argraffwyd yn Llundain ; 8-plyg. Nid oedd hwn ond gwahaniad oddi wrth yr un blaenorol. [*Y Gwalia*, Mai 16, 1888.]

1728.—" Golwg ar Destament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist, sef crynhöad o swm a sylwedd pob Pennod, wedi ei gyfieithu o Esboniad Matthew Henry gan Joshua Thomas. Caerfyrddin : printiedig gan Nicholas Thomas dros Christmas Samuel." 8-plyg. Tebyg mai hwn ydoedd yr ymgais gyntaf i roddi un math o esboniad ar yr Ysgrythyrau yn Gymraeg.

* Y mae cyfargraff o " Feibl yr Esgob Llwyd," mewn cyflwr rhagorol, gan y Canon D. Silvan Evans, B.D., rheithordy Llanwrin, ger Machynlleth : ac un arall ammherffaith gan yr ysgrifenydd.

† Cofnoda rhai ef yn " Beibl," craill yn " Bibl " ; ond yr olaf ydyw y ffurf fwyaf cyffredin ar ol " Beibl " Morgan.

1741.—Y Testament Newydd; 8-plyg. Heb enw argraffydd na lle arno, dim ond y flwyddyn. [*Y Gwalia*, Mai 16, 1888.]

1746.—"Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newyddd. Caergrawnt, printiedig gan Joseph Bentham, Printiwr i'r Brif-ysgol." Cynnwysai y llyfr hwn hefyd y Llyfr Gweddi Gyffredin, y Salmau Cân, yr Apocrypha, parthleni o Deithiau Plant Israel yn yr Anialwch, Teithiau yr Apostolion, "Rhodd Wm. Jones, Ysw., F.R.S., i'r Cymru," a Mesurau a Thablau. Gelwir hwn yn "Feibl Rhisiart Morys," am mai efe oedd ei olygydd. Dygwyd ef allan ar draul y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, ar annogaeth y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Argraffwyd 15,000 o gopiau, 8-plyg. Ei bris oedd pum' swllt.*

1746.—Y Testament Newydd. Caergrawnt; 8-plyg. Wedi ei wahanu oddi wrth yr argraffiad uchod. [*Y Gwalia*, Mai 16, 1888]

1752.—Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Ail argraffiad yw hwn o Feibl 1746, a chan yr un golygydd. Llundain; 15,000 o gopiau, 8-plyg.

1752.—Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Llundain, un-plyg. Dywed rhai i argraffiad arall 8-plyg gael ei ddwyn allan y flwyddyn hon.

1756.—Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Nid oes enw argraffydd yn hwn, ond hysbysiad, tu fewn i'r clawr, am swyddfa "J. Eddowes, Gwerthwr Llyfrau ac Argraffydd, yn yr Heol a elwir High Street, yn y Mwythig." Cyfrol 12-plyg ydyw, heb gynnwysiad yn blaenori y pennodau.

1765.—"Cyssondeb y Pedair Efengyl," &c. Gan John Evans, M.A. Esboniad ydoedd hwn ar y pedair Efengyl, yng nghyda'r testyn. Yr oll yn cynnwys iv. + 508 = 512 o dudalenau 8-plyg.

1769.—"Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain, argraffwyd gan Mark Baskett, Printiwr i Ardderchoccaf Fawrhydi'r Brenin, a chan wrthrychiaid Robert Baskett." Cyhoeddwyd hwn gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a golygwyd ef gan y Parch. John Evans, awdwr "Cyssondeb y Pedair Efengyl." 20,000 o gopiau, 8-plyg, nifer helaeth o ba rai a ledaenwyd yn rhad yng Nghymru.

1769.—Testament Newydd, 8-plyg, wedi ei rwymo ar wahan o'r argraffiad uchod.

1770.—Y Bibl Sanctaidd: sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Nodau a Sylwadau ar bob Pennod. (Cynnwysa yr

* Y mae cyfargraff o hwn yn Llyfrgell Mynachlog Westminster; ac un arall gan yr ysgrifenydd. Pa fodd bynag, nis gellir ystyried yr argraffiad hwn mewn un modd yn brin.

argraffiad hwn y Salmau Cân, a'r Apocrypha.) Awdwr y nodiadau oedd y Parch. Peter Williams, ac argraffwyd ef gan Ioan Ross, yng Nghaerfyrddin. Hwn oedd y Beibl cyntaf a argraffwyd yng Nghymru, a'r ymgais gyntaf i roddi sylwadau eglurhaol ar yr *holl* Feibl Cymraeg. Dywed rhai fod yr argraffiad yn cynnwys 8,000 o gopiau, 4-plyg, a'u bod yn cael eu gwerthu am bunt yr un; eraill a ddywedant mai nifer y copiau oedd 3,600, a'r nifer olaf sydd gywir.

1779.—Y Psalter, neu Psalmau Dafydd, yn Gymraeg; gyda'r Catechism, &c. Argraffwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh.

1779.—Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. 8-plyg. Dywed Gwilym Lleyn mai "Testament bychan tew ydoedd hwn, a'r llinellau yn croesi y ddalen, ac nid yn golofnau. Nid oes enw argraffydd, am mai cyhoeddiad dirgelaidd ydoedd, gan rai o argraffwyr y Mwythig, tybygid, heb yn wybod i argraffwyr y Brenin na'r Prifysgolion, gan y rhai yr oedd trwydded i argraffu yr Ysgrythyrau heb esboniad na deongliad."

1779.—Bibl Peter Williams; 6,400 o gopiau, 4-plyg. Crybwyllir am yr argraffiad hwn gan y Dr. Thomas Rees, yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales.*

1781.—Y Bibl Sanctaidd, gyda sylwadau y Parch. Peter Williams. Caerfyrddin; 4-plyg. Dywed Gwilym Lleyn mai hwn oedd yr ail argraffiad o Feibl Peter Williams, ond os cywir yr hyn a ddywedir gan y Dr. Rees, hwn oedd y trydydd.

1788.—Y Bibl Sanctaidd, gyda sylwadau y Parch. Peter Williams. Argraffwyd yn Nhrefecca. Gelwir hwn yn drydydd argraffiad yn *Llyfryddiaeth y Cymry.**

1789.—Y Bibl Cyssegr-lan, appwyntiedig i'w ddarllen mewn eglwysi. Rhydychen: Printiedig yn Argraffdy Clarendon, tros y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol. Un-plyg. Golygwyd y gwaith gan y Parch. Henry Parry, ficer Llanasa, sir Fflint. A dywedir fod ynddo amryw wallau. Y mae yr Epistol at y Colossiaid yn cael ei alw yn "Ail Epistol Paul yr Apostol at y Colossiaid."

1790.—"Y Beibl Sangtaidd: sef yr Hen Destament a'r Newydd, a Nodau Ysgrythyrol ar ymyl y ddalen, wrth y rhai y gwelir mai'r ysgrythur yw Deonglydd cywiraf o'r Ysgrythur. Trefecca, Argraphwyd dros y Parchedig Gyhoeddwyr P. Williams a D. Jones." 4,000 o gopiau, 8-plyg. Gelwir hwn yn "Feibl John Canne," am mai cyfeiriadau ymyl-ddalenol a gyhoeddwyd ym Meibl Seisonig y gŵr hwnw a ddefnyddiwyd.

* Y mae yma ryw ddyryswch, oblegid yn "Llythyr y Cyhoeddwr at y Darllenydd," yn argraffiad 1823, dywedir i'r ail argraffiad ddyfod allan yn 1779, a'r trydydd yn 1796.

1796.—Y Bibl Sanctaidd, &c., yr un fath a'r blaenorol, gan John Canne. Caerfyrddin: Argraffwyd (ac ar werth yno) gan Ioan Daniel. 4,000 o gopiau, pedwar-plyg.

1796.—Y Testament Newydd, yn gyffelyb i'r uchod, gyda sylwadau ar odrau y dail, gan y Parch. William Romaine. Argraffwyd gan Ioan Daniel fel o'r blaen. 4-plyg; yn cynnwys yr un nifer o gopiau.

1797.—Y Bibl Sanctaidd, &c., gyda Sylwadau Peter Williams. Caerfyrddin. Gelwir hwn yn *Llyfryddiaeth y Cymry* yn bedwarydd argraffiad.

1799.—Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Rhydychain; un-plyg. Dygwyd ef allan at wasanaeth yr Eglwys, dan nawdd Esgob (Bagot) Rhydychain. Ac er fod y Parch. D. Davies, Penegoes; y Parch. E. Evans, Llanfihangel; y Parch. R. Hughes (Coleg Iesu), y Parch. E. Hughes, Caerwys; ac yn olaf, y Parch. John Roberts, Tremeirchion, a rhan yn y gwaith, dywedir fod cryn lawer o wallau ynddo. Dywed y Canon Silvan Evans (*Revue Celtique*, ii., p. 43) fod yn ymddangos iddo ef mai dysgrifiad ydyw hwn o gyfrol un-plyg a ddaeth allan yn 1801.

1799.—"Y Bibl Cyssegr-lan; sef yr Hen Destament a'r Newydd. Rhydychen: Printiedig yn Argraphdy Clarendon, gan W. Dawson, J. Bensley, a J. Cooke, Printwyr i'r Brif-ysgol. M.DCCXCIX." [8-plyg.] 10,000 o gopiau. Perthyna iddo y Llyfr Gweddi Gyffredin a Psalmau Edmwnd Prŷs. [*Revue Celtique*, ii., p. 43.]

1799.—Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Rhydychain, argraffwyd dros y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. 2,000 o gopiau, 8-plyg. [*Y Gwalia*, Mai 23, 1888.]

1800.—Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Rhydychain; 8-plyg.

1800.—Testament Newydd, &c., a argraffwyd yn yr Amwythig; yn cynnwys 10,000 o gopiau o amrywiol blygiadau.

1802.—Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist; gyda sylwadau ar odrau'r dail, Enwau a Threfn y Llyfrau'r Testament Newydd, a rhifedi y pennodau a'r adnodau. Caerfyrddin, cyhoeddwyd gan Titus Lewis. 12-plyg.

1802.—Esponiad ar y Testament Newydd gan G. Lewis, D.D., ac E. Davies. Saith cyfrol 8-plyg. Cyf. I., Caerlleon; Cyf. II.--VII., Gwrecsam. Yn 1802 y dechreuodd y gwaith dd'od allan; ond ni chyhoeddwyd y seithfed gyfrol hyd ychydig ar ol marwolaeth yr awdwr, yn 1822.

1804.—"Cyssondeb y Pedair Efengyl," &c. Argraffwyd yng Nghaerlleon gan J. Hemingway. Ail argraffiad ydyw hwn o un 1765. Cynnwysa 496 o dudalenau 8-plyg.

Yn y fan hon y mae ein rhestr yn terfynu.* Yr ydym, hyd y gwyddom ni, wedi nodi cynnifer o argraffiadau o'r Ysgrythyrau a gyhoeddwyd yn flaenorol i sefydliad y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Afreidiol fyddai i ni yma nodi ymdrechion canmoladwy y Parch. Thomas Charles i sefydlu y Gymdeithas hòno; yn hytrach gosodwn yma ychydig ffugyrau a dderbyniasom o'r swyddfa i ddangos y gwaith a wnaeth gyda golwg ar Gymru yn unig er amser ei sefydliad, yn y flwyddyn 1804 :—

Beiblau Cymraeg	958,525
Testamentau, a Thestamentau a'r Psalmau	1,387,494
Rhanau o'r Hen Destament	69,792
Rhanau o'r Testament Newydd	39,200
Testamentau Cymraeg a Saesoneg	103,694
Cyfanrif	2,558,705

Fe gydnabyddir fod yr uchod yn nifer lluosog o gopïau o wahanol ranau o'r Ysgrythyrau, y rhai oll a roddwyd mewn cylchrediad rhwng 1804 a 1888. Dywedir wrthym ym mhellach fod galwad am cynnifer a 33,000 o gopïau o'r Ysgrythyrau, neu ranau o'r Ysgrythyrau, yn Gymraeg, gogyfer a'r flwyddyn hon (1889). A hysbysir ni ym mhellach fod argraffiad newydd o'r Testament Cymraeg a Saesoneg, yn cynnwys 20,000 o gopïau, yn awr yn y wâsg. Methasom a chael ystadegau i ddangos gweithrediadau y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol yn y cyfeiriad hwn. Y mae yn ddiammeu pe llwyddasem, y buasai y canlyniad yn dangos cynnydd a gweithgarwch boddhäol. Ond ar wahan i weithrediadau y Cymdeithasau daionus uchod, y mae llawer o'r Ysgrythyrau wedi cael eu rhoddi i'r Cymry yn y ffurf o gyfieithiadau annibynol ac Esboniadau. Gan na fedrwn ni ar hyn o bryd alw yr oll o honynt i gof, ni cheisiwn

* Yr ydym wedi seilio y rhestr uchod ar y rhai a geir yn *Llyfryddiaeth y Cymry* (dan y gwahanol flynyddoedd); Erthyglau yn y *Revue Celtique* gan y Canon Silvan Evans; *Llyfr y Jubili*, tud. 57; *Hanes y Bibl Cymraeg* (gan y Parch. T. Levi), tud. 49: Rees's *History of Protestant Nonconformity in Wales*, p. 509; *The Sunday Schools of Wales* (gan y Parch. D. Evans, M.A.); yng nghyda chyfres o erthyglau rhagorol ar "Hanes Trosglwyddiad yr Ysgrythyrau o'r Amser Boreuaf hyd yn awr," a ymddangosasant yn y *Gwalia* yn 1888. Y mae peth gwahaniaeth rhwng yr awdurdodau uchod ar brydiau. Ond dilynasom y naill a'r llall o honynt, yn ol fel y byddem yn derbyn cadarnhad o fanau eraill, neu wrth gael y fantais o weled rhai o'r argraffiadau y cyfeirir atynt.

eu rhestru. Pa fodd bynag, amcan y sylwadau uchod ydyw profi fod y Beibl Cymraeg wedi cael derbyniad croesawgar gan genedl y Cymry. Ac y mae yn eithaf amlwg fod yr alwad am dano yn parhau i gynnyddu yn feunyddiol.

Adran II.—Y Dylanwad a gafodd y Beibl Cymraeg ar Iaith a Llenyddiaeth y Genedl.

Dymunem alw sylw y darllenydd at yr hyn a ddywedwyd genym yn y bennod gyntaf o'r traethodyn hwn. Dywedasom yno fod yr iaith Gymraeg, er yn fyw ac yn eang ei therfynau, ar y ffordd i golli. Dywedasom fod y tir yn yr hwn y siaredid hi ynddo y pryd hwnw yn hwy a lletach nag ydyw heddyw, ond dangosasom ar yr un pryd fod hadau y darfodedigaeth Seisonig wedi ymaflyd yn ei chyfansoddiad. Gan ein bod eisoes wedi dwyn profion digonol tros hyn, afreidiol fyddai ychwanegu atynt, er fod ychwaneg i'w cael. Ein dadl bresennol ydyw y buasai yr iaith erbyn hyn ar farw, os nad wedi marw, pe buasai yr Ysgrythyrau heb gael eu cyfieithu iddi. Yr ydym yn ymwybodol fod y gosodiad hwn yn wrthwynebol i sylwadau a geir yn nhraethawd galluog y Dr. Thomas Llewelyn. Dywed :—

Cadwodd y Brytaniaid yng Nghymru eu hiaith a'u nodweddion am gannoedd o flynyddoedd cyn y Diwygiad, heb y Beibl. Ni chafodd trigolion Ynys Manaw *erioed* mo'r Beibl yn eu hiaith gyssefin ; eto y maent wedi ei chadw trwy lawer o genedlaethau hyd yr amser presennol. Ac yn awr o'r diwedd, yn neunawfed ganrif Cristionogaeth, y maent yn debyg o gael *dechreu* darllen yr Ysgrythyrau yn eu hiaith eu hunain. Nid wyf yn cael allan fod mwy nag *un* argraffiad o'r llyfr hwn wedi cael ei argraffu at wasanaeth Ysgotland a'r Iwerddon : eto y mae preswylwyr Gwyddelig, neu Erse, y ddwy wlad yn cadw eu hiaith gyntefig. Y maent yn ei defnyddio yn gyffredin hyd y dydd hwn ; ac y mae llawer o honynt heb fedru gair o Saesoneg. Hyn a fuasai yn debygol, ai ni allaf ddyweyd, hyn a fuasai yn sicr ? gyda golwg ar sefyllfa preswylwyr Cymru, pe buasent erioed heb gael eu breintio â Gair Duw. Hwynthwy ydyw y corff cryfaf o'r Celtiaid hynafol ar wyneb y ddaear. Y maent yn llawer lluosocach na'r Erse yn Ysgotland, ac ne'u brodyr yn yr Iwerddon. Y maent yn fwy unol â'u gilydd, ac yn fwy ar wahan oddi wrth eu cymmydogion na'r un o'r ddau bobl a nodwyd ddiweddaf. Ac am y rheswm hwnw, yr wyf yn dyfod i'r casgliad y buasent yn cadw eu hiaith hyd y dydd hwn, hyd yn oed pe na chawsent erioed gyfieithiad Brytanaidd o'r Beibl.*

* Llewelyn's British Versions, pp. 80-82.

Nid ydyw y Dr. Llewelyn yn aros yn y fan hon. Ond ar ol priodoli diddymiad y Gernywaeg, nid i absennoldeb yr Ysgrythyrau yn yr iaith, ond yn hytrach i rifedi cymhariaethol fychan y boblogaeth, i ddirywiad yr iaith yn flaenorol i'r Diwygiad Protestanaidd, ac i agosrwydd daearyddol y Cernywiaid i Loegr, a'u hymdrafodaethau masnachol â'r Saeson. y mae yn sylwi :—" Y mae y Beibl wedi effeithio can lleied yn y mater hwn, fel y mae yr iaith wedi dirywio mwyaf yn y manau lle mae mwyaf o Feiblau Cymraeg.*" Dyna dystiolaeth y Dr. Llewelyn yn y flwyddyn 1768. Ac er nad ydym mewn un modd yn tybied ein hunain yn gymhwys i feirniadu ei sylwadau, nis gallwn lai na datgan ein syndod fod gŵr mor graff a dysgedig yn ysgrifenu yr hyn sydd yn ymddangos nid yn unig yn groes i ffeithiau, ond i synwyr cyffredin. Y mae yr haeriad fod y Gymraeg yn fwy dirywiedig yn y manau lle yr oedd mwyaf o Feiblau mewn cylchrediad yn yr iaith hòno, yn debyg fel pe y dywedasid fod ystafell lawn o ganwyllau goleuedig yn dywyllach nag un amddifad o bob math o oleuni, neu fod mwy o newyn mewn gwlad lawn o ymborth nag mewn un lom. Pa fodd yr oedd y Beibl Cymraeg yn Seisnigeiddio y wlad, sydd gwestiwn na atebir mo hono gan y Dr. Llewelyn. Ond yr unig ffordd i'w ateb, hyd y gwelwn ni, ydyw ei wadu yn bendant. Yr ydym yn barod i addef fod y ganrif ddiweddaf wedi gwneuthur ei rhan tuag at Seisnigeiddio Cymru. Ond y mae hyny i'w briodoli, nid i ledaeniad y Beibl Cymraeg yn y wlad, ond yn hytrach i benodiad Saeson i'r seddau esgobol; y rhai, trwy roddi y bywoliaethau brasaf i'w cyd-wladwyr, a osodent iaith y Cymry a'i phleidwyr o'r neilldu. Y mae y ganrif bresennol drachefn, gyda'i rheilffyrdd, ei masnach gynnyddol, a'i hysgolion dyddiol, yn tueddu i'r un cyfeiriad. Ond er gwaethaf y cwbl, y mae y Gymraeg yn fyw, ac nid oes nemawr o debygolrwydd, er amlder y proffwydoliaethau am ei thrancedigaeth, y bydd farw yn fuan. Ac un o'r prif resymau—yn wir *y prif* reswm—am hyny ydyw, fod y Beibl ganddi.

Y mae y Dr. Llewelyn, fel y gwelsom, yn cyfeirio at sefyllfa y Wyddelaeg a'r Erse yn ei amser ef. Diammeu pe buasai yn fyw yn awr, y tynasai y casgliad fod yr ieithoedd hyny wedi mawr ddirywio ar ol cyhoeddi yr Ysgrythyrau ynddynt. Hwy gawsant yr Ysgrythyrau, ac y mae yn rhaid addef eu bod wedi dirywio yn gyflym. Ond nid yr achos o'r dirywiad ydoedd cyfieithu a chyhoeddi yr Ysgrythyrau. Y rheswm yn hytrach ydoedd fod y feddyginaeth wedi ei chymhwyso yn rhy ddiweddar; ac ei bod,

* Llewelyn's British Versions, p. 86.

ar ol ei chymhwyso, yn annigonol i gyfarfod â'r dolur. Ni chyhoeddwyd y Beibl yn y Wyddelaeg hyd 1685, pryd y gwnaed hyny gan y Dr. Daniel a'r Esgob Bedell. Yn 1767 y dygwyd allan yr argraffiad cyntaf o'r Testament Newydd Gaelic, ac o'r holl Feibl yn 1802. Ac yn 1763, y dygwyd allan yr argraffiad cyntaf o'r Beibl yn y Manawaeg.* Y Cymry, mewn canlyniad, o holl Geltiaid Prydain, oedd y rhai cyntaf i gael y Beibl yn argraffedig yn eu hiaith. Yn yr Iwerddon, y mae y boblogaeth yn rhifo oddeutu pum' miliwn a hanner, ond nid yw nifer y copïau Gwyddelig o'r Ysgrythyrau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Beiblau o'i sefydliad hyd 1882 uwchlaw 120,000. Poblogaeth Ysgotland ydyw tair miliwn a hanner, a rhif y Beiblau a argraffwyd gan y Gymdeithas ar gyfer yr adran Geltaidd o honynt, yn yr amser uchod, ydoedd 160,000. Yn ol deiliadeb grefyddol a wnaed yn 1676, yr ydym yn cael nad oedd nifer y cydffurfwyr, yr anghydffurfwyr, a phabyddion y pedair Esgobaeth Gymreig uwchlaw 185,625.† Ond y mae poblogaeth bresennol Cymru a sir Fynwy yn 1,404,900 ;‡ a chyfrifir fod y rhai sydd yn alluog i siarad Cymraeg yn rhwydd yn rhifo yn agos i filiwn. A beth am yr holl Gymry sydd "ar wasgar" ym mhrif drefydd Lloegr ac ar hyd gyfandir yr Amerig ?

Ond i ddychwelyd at lenyddiaeth y Wyddelaeg a'r Erse. Y dalaeth fwyaf Gwyddelig yn yr Iwerddon ydyw Connaught, a'r sir fwyaf Gwyddelig yn y dalaeth hòno ydyw Galway. Y mae poblogaeth Galway oddeutu 240,000, allan o ba rai nid oes ond rhyw 9,000 yn siarad y Wyddelaeg. Ac y mae y dafodiaith hyd yn oed yn y rhan hon o'r wlad yn darfod yn gyflym. Dywedir fod Esgob Galway hyd yn ddiweddar yn pregethu yn yr iaith hòno ar foreu y Sabbothau, ond rhoddodd yr arferiad heibio am fod y gwrandawyr, er fod y mwyafrif o honynt yn perthyn i'r dosparth iselaf, yn fwy pleidiol i'r Saesoneg. Y mae y Wyddelaeg wedi colli tir lawer er 1861. Yn y flwyddyn hòno yr oedd y rhai a arferent y Wyddelaeg yn yr Ynys Werdd yn rhifo oddeutu 163,000, ond erbyn 1881 yr oedd y nifer wedi dyfod i lawr i 64,000. Yn yr un modd y gellir dyweyd am yr Erse. Nid oes ynddi fawr o fywyd hyd yn oed yn y parthau mwyaf gogleddol o'r Ysgotland, ac ychydig mewn cymhariaeth o'r rhai sydd yn ei siarad a fedrant ddarllen ac ysgrifenu. Y mae y ddwy dafodiaith a nodwyd yn dirywio o ddiffyg llenyddiaeth. Nid oes yr un newyddiadur yn perthyn i'r un o'r ddwy. Y mae yn wir fod

* Horne's Introduction to the Study of the Bible, p. 104.
† Bye-Gones, January 30th, 1878.
‡ Poblogaeth y deuddeg sir Gymreig yn ol deiliadeb 1881 ydoedd 1,359,900.

rhai o'r newyddiaduron Seisonig a gyhoeddir yn uchel-diroedd Ysgotland yn cynnwys colofn Gaelic; ond nid oes yr un o newyddiaduron yr Iwerddon yn rhoddi colofn at wasanaeth y Wyddelaeg. Felly nid oes gan y tafod-ieithoedd hyn ddim adnoddau—ddim ymborth—i'w cadw yn fyw. Y mae yn wir y gall iaith fyw heb lenyddiaeth. Ond os bydd y bobl ag sydd yn ei harfer ar y ffordd i fabwysiadu iaith a llenyddiaeth cenedl arall, y mae ei thynged wedi ei benderfynu, oni wneir rhyw ddarpariaeth ar ei chyfer. Yn oes Elizabeth y dechreuwyd teimlo grym llenyddiaeth Seisonig. Pe buasai y lenyddiaeth hòno wedi cael ei goddef i gylchredeg trwy Gymru heb unrhyw allu i'w gwrth-weithio, y mae yn hawdd dirnad beth a fuasai tynged y Gymraeg. Sylwasom yn barod fod y llyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd cyn ymddangosiad Beibl Morgan is-law ugain. Ond o'r adeg y cyhoeddwyd y Beibl hwnw, y mae ein llenyddiaeth wedi bod ar gynnydd parhaus. Cymmerasom y drafferth i gyfrif nifer y llyfrau a gofnodir yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, ac os na wnaethom gamgymmeriad, yr oedd rhif y rhai a gyhoeddwyd, ag oeddynt yn dal cyssylltiad â Chymru, o ran iaith, awduriaeth, neu hanesiaeth, o ymddangosiad Beibl Morgan hyd ddiwedd 1700, yn 495; sef 54 yn Lladin, 267 yn Saesoneg, a 173 yn Gymraeg. O 1701 hyd ddiwedd 1800, yr oedd y nifer a gyhoeddwyd, rhwng llyfrau newyddion ac ail argraffiadau, yn 1,674; sef 12 yn Lladin, 438 yn Saesoneg, a 1,224 yn Gymraeg. Ar ol i restr Rowlands gael ei chyhoeddi, y mae nifer luosog o lyfrau Cymraeg eraill, yn perthyn i'r cyfnodau uchod, wedi cael eu darganfod a'u cofnodi, yn benaf trwy ymchwiliadau y Canon Silvan Evans, Ioan Pedr, a Myrddin Fardd. Ond y mae rhestr Rowlands yn ddigonol i'n hamcan presennol. Yr ydym yn dra sicr pe buasai rhyw un wedi myned i'r drafferth i groniclo cynnyrch y wâsg Gymreig yn ystod y ganrif bresennol, y buasai y cynnydd yn dyfod yn amlycach drachefn. Dywedai y diweddar Mr. R. Hughes, y Cyhoeddwr o Wrecsam, er ys ychydig o flynyddoedd yn ol, fod y Cymry, yn ol cyfrifiad a wnaed ganddo ef, yn talu o leiaf £100,000 yn flynyddol am eu llenyddiaeth. Ac heb law y cyfrolau lluosog a ddygir allan ar wahanol faterion, y mae amryw o chwarterolion, pump ar hugain o fisolion, ac oddeutu ugain o newyddiaduron, yn cael eu troi allan o argraffdai y Dywysogaeth gogyfer a'r Cymry un-ieithog yn unig.

Yr oedd y Beibl a gyhoeddwyd gan Morgan yn tueddu i hyrwyddo yr iaith Gymraeg mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, efe oedd y llyfr Cymraeg cyntaf a ysgrifenwyd mewn iaith gyffelyb i

eiddo y bobl. Y mae rhyw anystwythdra yn perthyn i arddull pob llyfr Cymraeg a gyhoeddwyd o'i flaen ; ond y mae ei arddull ef yn naturiol, ac, oherwydd hyny, yn boblogaidd. Pe y dilynasai Morgan arddull Salesbury, yr ydym yn sicr na fuasai wedi cael y fath afael ag a gafodd ar y genedl. Dilynwyd Morgan gan Parry, a mabwysiadwyd eu harddull a'u horgraff gan ysgrifenwyr Cymreig yn gyffredinol. Yn yr ail le, rhaid cofio mai llyfr crefyddol ydyw y Beibl. Pe buasai Morgan wedi cyfieithu llyfr ar seryddiaeth neu fesuroniaeth i'r Gymraeg, ni buasai ei ddylanwad ond ychydig ar yr iaith. Ond gan ei fod yn cael ei arfer yn yr addoliad cyhoeddus, a chan i argraffiadau o hono gael eu dwyn allan i ddybenion teuluaidd, daeth y Beibl yn allu pwysig i adnoddi a chryfhau iaith y wlad. Achosodd darlleniad y Beibl ym mysg y Cymry i lawer o lyfrau crefyddol eraill gael eu cyhoeddi. Yn wir, gellir edrych ar lenyddiaeth y Cymry yn gyffredinol fel un grefyddol. Ac wrth ymwneyd â phethau crefyddol, y mae y genedl, er yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, wedi cael cyfleusdra i feithrin yr iaith ag oedd wedi dechreu myned ar gyfeiliorn. Dichon fod rhyw un yn barod i ofyn, pa fantais oedd mewn cadw bywyd yn iaith a llenyddiaeth y genedl ? Ai nid cystal a fuasai i'r Cymry fabwysiadu eiddo eu cymmydogion Seisonig ? Nid oes a fynom ni â'r cwestiwn hwn yn ein hymdrafodaeth bresennol, am hyny ni ai gadäwn yn ddisylw. Ond yr ydym yn credu pe buasai y Cymry yn y sefyllfa ddigrefydd yr oeddynt ynddi yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg yn anghofio eu hiaith, mai crefydd a fuasai un o'r pethau olaf a fuasent yn ei fenthyca gan y Saeson. Credwn fod sylwadaeth yn ein cyfiawnhau yn yr haeriad mai y rhanau mwyaf anwaraidd a digrefydd yng Nghymru yw y rhai hyny ag sydd wedi cael eu Seisnigeiddio yn gyflym. Fel rheol y mae Cymry digrefydd yn efelychu y pethau gwaelaf sydd gan y Saeson, ac felly y mae anfoesoldeb a meddwdod yn fwy cyffredinol yn eu plith nag ym mhlith y Saeson eu hunain.

Adran III.—Dylanwad y Beibl Cymraeg ar Foesau a Chrefydd y Genedl.

Mewn un ystyr, y mae unrhyw sylwadau a wneir ar y pen hwn yn hollol ddiangenrhaid. Y mae y Beibl ym mhob oes wedi dylanwadu ar grefydd a moes pob gwlad ag y cafodd ei ledaenu ynddi ; ac ńid ydyw Cymru wedi bod yn eithriad. Yr ydym

eisoes, yn y bennod gyntaf, wedi dwyn tystiolaeth o'r anwybodaeth, yr anwareidd-dra, a'r anfoesoldeb oedd yn ffynu yng Nghymru cyn i'r Ysgrythyrau gael eu cyhoeddi yn yr iaith; ac nid oes angen ychwanegu nemawr yn y ffordd hon. Ond nis gallwn ymattal rhag dyfynu rhan o gân (28 o bennillion a gyfansoddwyd gan Syr Thomas Jones,* yn y flwyddyn 1600 :—

O dra rhwysg llawenydd mawr
Yr wyf yn awr yn neidio,
Yn ol tywyllwch llyg a llen,
Wrth wel'd tynghedfen Cymro.

Heb ddysg, heb ddim o ddoniau syw,
Heb lyfyr Duw ein Hathro,
Heb ddysgeidiaeth wir gan neb,
Mawr oedd dallineb Cymro.

O Dduw ! hir bu'r Babaidd waith
Mewn estron iaith i'w dwyllo,
Trwy hudoliaeth blinaf blaid
Yn dallu llygaid Cymro.

O Dduw ! hir tros oesoedd trist
Bu'n Prynwr Crist yn digio,
Ac yn atal ei law'n swrth,
A'i *Air*, oddiwrth y Cymro.

Ond yn awr mewn cryfder ffydd,
Yr wyf yn prudd obeithio,
Yn ol hyn o hudol haint
Y cyfyd braint ar Gymro.

Os yn awr, trwy nerth Duw tri,
Mae'n oed i ni ddihuno,
Mae Llyfyr Duw, cynysgaeth dyn,
I'th iaith dy hun, y Cymro.

O hil Frutus, rywiog ryw,
Rhowch glod i Dduw am dano,
Llyma'r glennig ore ras
Erioed a gafas Cymro.

Llyma'r trysor gore gwir,
Fu er's dyddiau hir yng nghuddio,
Llyma'r maen, perl gwerthfawr swm
Croesawa hwn, y Cymro.

* Gweinidog Llanfair Dyffryn Clwyd oedd Syr Thomas Jones, yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620, yn ol Moses Williams; ond dywed eraill mai gweinidog Llanfair, yn sir Fynwy, ydoedd. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau barddonol i'w cael mewn llawysgrifau. Detholwyd y pennillion a roddir yma o "Gyngor Syr Tomos Jones" a ymddangosodd yn *Cymru Fydd*, 1889, tud. 404-6.

Mewn dau bennill yn agos i'r diwedd y mae yn cyfeirio at Morgan fel cyfieithydd yr Ysgrythyrau, ac yn gofyn i Dduw am gyflenwad helaethach o'r gyfrol Sanctaidd :—

Diolch, diolch, hyn nid cam
Y pennyd am gyfieithio,
Drwy wir nerth yr Yspryd Glân
I'r Doctor Morgan, Gymro.

. . . . . .
. . . . . .
O Dduw ! unig Arglwydd Ior,
Dihuna'n rhagor eto,
Drwy rym dysg a synwyr maith,
I harddu iaith y Cymro.

Yn ei lythyr Lladin, yr hwn a ddyfynwyd genym eisoes, y mae y Dr. Morgan yn tystiolaethu fod cyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd, er trwstaneiddied ei Gymreigiad, wedi gwneuthur llawer o les mewn ystyr grefyddol, yn y cyfnod byr o un mlynedd ar hugain. Ac yn y llythyr " At y Darllenydd " o flaen Beibl 1630, yr ydym yn cael cyfeiriad at y lles ychwanegol a ddeilliodd o argraffiadau Morgan a Parry :—

Ac felly yn nyddiau Brenhines Elizabeth o goffadvvriaeth envvog, fo brofwyd gvvneuthur hyn yn gyntaf yn y Testament newydd yn vnic, gan y rhai y mae eu taledigaeth a'u clod gyda'r Arglwydd. Eithr ar ol hyn fo gyfieuthvvd y Bibl ei gyd yn gyntaf trwy vvaith Dr. *Morgan*, ac yn ddivvaethaf fo'i hail-olygvvyd ac ei perffeithvvyd ef yn amser bendigavvl deirnasiad ein Brenhin dyscedic Iames trvvy waith Dr. *Parry*: Pob vn o'r ddau yn wyr grymmus, a gvvresoc mewn zel ac yn Escobion ol yn ol yn Llanelvvy. Ac er bod llavver mil yn ddyledus yn anrhydeddu eu coffadvvriaeth, ac yn bendithio yr Arglvvydd am eu gvvaith hvvynt ; Etto nid ydoedd na'r lles na'r arfer o air Duvv mo'r gyhoedd ac mor gyffredin, ac y chvvenychai lavver o Gristnogion bucheddol. Can's (ac yntef wedi ei brintio a'i rvvymmo mevvn Folum favvr o bris vchel) ni ellid cenhavvsed na'i ddanfon ar led, na'i gymain i dai a dvvylavv neilltuol, eithr yr oedd efe gan mvvyaf yn hollavvl yn perthyn i Liturgi a gvvasanaeth yr Eglvvys, fel yr oeddyd hefyd wedi ei amcanu ef yn bennaf ar y cyntaf.

Nis gellir cael cryfach tystiolaeth na'r uchod am y dylanwad a gafodd yr argraffiadau cyntaf o'r Beibl Cymraeg ar y genedl, sef eu bod wedi achosi i " lawer mil " fendithio yr Arglwydd o'u herwydd. Y mae yn wir mai yn araf yr oedd y Beibl yn cario ei ddylanwad yn y wlad. Y mae y Ficer Prichard yng *Nghanwyll y Cymry*, y rhan gyntaf o'r hwn a gyhoeddwyd yn 1646, yn rhoddi agwedd dywyll ar foesau a chrefydd y Cymry :—

Mae pob grâdd yn pechu'n rhigyl,
Ac heb wneuthur pris o'r fengyl,
Nac o gyfraith Dduw gorucha,
Yn addoli'r byd a'r bola.

Mae pob grâdd a rhaffau pechod,
Yn dirdynnu dial hynod,
Am eu penne heb dosturi
Oni thront oddiwrth eu brynti.

Mae'r fath feddwdod, mae'r fath dyngu
Mae'r fath gamwedd ynnot Cymru
Ar fath wangred a gau dduwiaeth
Na bu'nghred ei sut ysywaeth.*

Pe y Ficer Prichard fuasai yr unig dyst parthed i ddiffyg crefydd a moes yn y wlad, ni fuasem mor sicr. Oblegid ni wnaeth yr hen offeiriad da hwnw ond achwyn a beio ar hyd ei oes. Yr oedd yn ddiammeu yn meddwl ei fod yn dyweyd y gwir; ond yr oedd yn edrych ar yr ochr dywyllaf i bob peth. Ond nid y Ficer ydyw yr unig un sydd yn dwyn tystiolaeth i sefyllfa annymunol y Dywysogaeth. Mewn pamphledyn a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn a llyfr y Ficer Prichard, dywed Mr. John Lewis, o'r Glasgrug, sir Aberteifi, fel y canlyn :—

Ni raid i mi eich adgofio o'r haid o seremonïau dall, coelgrefyddol, sydd yn ein plith ; y rhai sydd yn cael eu galw yn hen arferion diniwed ; eu mynych alw ar y seintiau yn eu gweddiau a'u defosiynau ; eu pererindodau i ffynnonau a chapelau. Peidiwch a fy ngham-ddeall, nid wyf yn ymhyfrydu mewn dangos beiau fy ngwlad ; ond y mae amlygu afiechyd i'r meddyg yn dangos ewyllys da.†

Yr achos fod y wlad yn aros yn y fath gyflwr truenus a ddysgrifir uchod ydoedd, nad oedd y Beibl eto wedi cael lledaeniad digon eang, ac nad oedd y genedl wedi cael digon o fanteision addysgawl i'w ddefnyddio. Ond yr oedd yn dyfod yn oleuach yn raddol. Yr ydym yn gweled hyny oddi wrth yr hyn a ysgrifenodd Charles Edwards yn 1671. Dywed :—

Ond, er pan ddaeth yr ysgrythurau yn Gymraeg i'n plith, y mae'r helynt oreu ar ein cenedl ni ag a fu er's llawer o genhedlaethau. Rhoddes Duw iddi heddwch oddiamgylch. Ni wyr y tô presennol oddi wrth y cyfyngdra gofidus ydoedd gynefin i'n hynafiaid ni gynt. Y mae'r Saeson, oeddynt fleiddiaid rheibus, wedi myned i ni yn fugeiliaid ymgeleddgar, ac agos cyn hynawsed wrthym ni, ag ydym ni wrth ein gilydd. Mae gwybodaeth wedi amlhau, a'r cythreuliaid yn y coedydd wedi distewi. Mae ein moddion hefyd wedi rhywiogeiddio llawer.

* Canwyll y Cymru (arg. 1714), tud. 298.

† Contemplation on these Times, or the Parliament explained to Wales (pub. in 1646), p. 27.

Nid oes mo'r fath yspeilio, a threisio, a mwrdro, ag a glywsom ni gan ein hynafiaid ei fod yn ein mysg er's talm. Mae Powys yn weddus wrth fel y bu. Mae Lloegr yn agored i ni hefyd, a chyn hyfed i ni breswylio ynddi mewn cyfiawnder, ag oedd i'n rhïeni cyn ei cholli.

Ni bu ein cenedl ni yn yr lwerddon erioed amlach. A diammau pe cryfha ufudd-dod i Air Duw yn ein mysg ni, ychwanegid at ein trugareddau ni. "Canys gwyn fyd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt"— . . . . . Cyndyn yw'r anwybodaeth a'r drygioni sydd yn ein mysg ni etto. . . . . .*

Ym mhen tair blynedd (1674) ar ol i Charles Edwards ysgrifenu y geiriau uchod, sefydlodd y Parch. Thomas Gouge, yn cael ei gynnorthwyo gan amryw o wŷr da eraill, gymdeithas i hyrwyddo hyfforddiant yn yr iaith Saesoneg yng Nghymru, ac i ledaenu yr Ysgrythyrau a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, ac amryw o lyfrau buddiol eraill, yn yr iaith Gymraeg. Canlyniad sefydlu y Gymdeithas hon fu i filoedd o ieuenctyd Cymru dderbyn addysg, ac i'r wlad gael gwell cyflenwad o Feiblau. Ond yn anffodus, darfu am y Gymdeithas pan fu farw Mr. Gouge yn 1681. Y cymmwynaswr *mawr* nesaf a gododd yng Nghymru oedd y Parch. Griffith Jones, o Landdowror. Yn 1737 sefydlodd ei "ysgolion cylchynol," y rhai a barhaodd hyd ei farwolaeth yn 1761. Dilynwyd ef yn y gwaith da hwn gan Madam Bridget Bevan hyd ei marwolaeth hithau yn 1777. Prif amcan yr ysgolion hyn oedd dysgu plant a phobl mewn oed i ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr iaith Gymraeg. O'r flwyddyn 1737 hyd 1777, ni chynhaliwyd llai na 6,465 o'r ysgolion hyn; ac yr oedd y nifer a addysgwyd ynddynt yn ystod y deugain mlynedd uchod yn 314,051. Y mae yn ein meddiant gyfargraff o'r *Welch Piety* a gyhoeddwyd yn 1767† Ac yn hwn, fel mewn rhifynau eraill yn dwyn yr un enw, ceir amryw o lythyrau oddi wrth glerigwyr yn tystio i effeithioldeb yr ysgolion i addysgu y plant. Cyfeiriant at y gwaith mawr oedd wedi cael ei wneyd yn barod, ac at y ddygn anwybodaeth oedd eto heb ei symmud. Gwnaeth yr ysgolion hyn lawer at ddwyn y werin yn gydnabyddus â'r Ysgrythyrau. Eto nid oedd lledaeniad y Beibl wedi dyfod yn ddigon cyffredinol. Y mae yn debyg mai dysgrifiad o gyflwr moesol a chrefyddol Cymru yn y rhan olaf o'r ddeunawfed ganrif a geir gan Robert Jones, Rhoslan, er mai yn 1820 yr ysgrifenai. Dywed am y modd yr oedd y Cymry yn arfer treulio eu Sabbathau yn y geiriau canlynol:—

Mewn rhai mànau cyflogid cerddor dros y tymmor Hâf, i ganu i dorf

* Y Ffydd Ddi-ffuant (arg. Dolgelleu, 1811), tud. 235-6.

† Nid ydyw Gwilym Lleyn yn cofnodi hwn; nid oes ganddo grybwylliad am y *Welch Piety* o dan y flwyddyn 1767.

o ynfydion gwammal a ymdyrent i ryw lanerch deg, ar fynydd, neu ryw gyttir arall, i gynnal math o gyfarfod annuwiol, a elwid Twmpath chwareu, neu Chwareuyddfa gampau. Byddai yno, nid yn unig canu a dawnsio, ond amryw eraill o arferion gwageddol, yn cael eu cyflawni, a hyny tra parhâi goleu dydd iddynt. Ymgasglai eraill i'r pentrefi i chwareu y bêl â'u holl egni, hyd yn nôd ar yr annedd gyssegredig: ac eraill yn fawr eu lludded yn erlid y bêl droed, ac weithiau yn tori aelodau eu gilydd yn yr ymrysonfa. Treuliau eraill y Sabbathau yn y tafarndai, i ymdrybaeddu mewn meddwdod hyd dranoeth; ac yn fynych ni ddibenid y cyfarfodydd llygredig hyn heb ymladdfeydd gwaedlyd. Yr oedd mewn llawer o ardaloedd un Sul pennodol yn y flwyddyn a elwid gwylmabsant, ac yr oedd hwnw yn un o brif wyliau y diafol; casglai y'nghyd at eu cyfeillion luaws o ieuengctid gwammal o bell ac agos, i wledda, meddwi, canu, dawnsio, a phob gloddest. Parhâi y cyfarfod hwn yn gyffredin o brydnawn Sadwrn hyd nos Fawrth. Arferent hefyd weithiau gladdu y meirw ar y Sabbathau. Alaethus meddwl y dull gwâg ac anystyriol a fyddai ar y werin ar ôl danfon eu cymmydog i dŷ ei hir gartref. Heidient yn lluoedd i'r tafarndai i yfed dïod gadarn, i'r diben i ddiffodd pob ystyriaeth am farw a byd arall o'u meddyliau. Rai gweithiau cyrchent gerddor i'r cwmni i'w difyru, fel y cyrchwyd Samson gynt i beri chwerthin. Fel hyn y treuliodd y rhan fwyaf o'n hynafiaid eu dyddiau, ac mewn moment disgyn i'r bedd. Ond Och! na ba'i pobl yr oes hon, sydd mor helaeth eu breintiau, yn rhagori mwy arnynt mewn rhinwedd nag y maent.*

O bosibl nad oes olion o'r hyn a ddysgrifir uchod i'w gweled heddyw yn rhai parthau o Gymru, yn enwedig yn ardaloedd y gweithfeydd. Ond hollol afreidiol ydyw dyweyd fod sefyllfa foesol a chrefyddol y Dywysogaeth yn dra gwahanol, ac yn llawer mwy dymunol, na'r goreu o'r darluniadau a roddwyd o honi yn y tudalenau blaenorol. Ac y mae y cyfnewidiad wedi ei ddwyn oddi amgylch trwy ledaeniad mwy cyflawn o'r Ysgrythyrau yn y wlad. Fe allai mai y Parch. Thomas Charles oedd y Cymro a wnaeth fwyaf o bawb i ddwyn ei genedl a'r Beibl i gyffyrddiad â'u gilydd. Dywed mewn llythyr a ysgrifenodd at gyfaill yn 1808, mai prin y medrai un o bob ugain ddarllen yng Nghymru yn y flwyddyn 1785. Yn y flwyddyn hòno sefydlodd yr Ysgol Sabbathol, yng nghydag ysgolion dyddiol cyffelyb i rai Griffith Jones a Madam Bevan; ac yn 1804 bu yn brif offeryn i sefydlu y Feibl Gymdeithas. A gadael o'r neilldu lafur llenyddol Mr. Charles, sef yr *Hyfforddwr*, y *Geiriadur Ysgrythyrol*, a llyfrau eraill, credwn mai yr Ysgol Sabbathol sydd wedi bod o fwyaf o fendith i Gymru o bob sefydliad dynol. Y mae hon yn ennill nerth yn barhaus. Hon a fu unig ysgol miloedd o'n tadau, ac

* Drych yr Amseroedd (arg. 1820), tud. 45.

ynddi hi y derbyniasant gymmaint o addysg a gawsant. Y mae hon yn dwyn ei deiliaid yn wastad i gyffyrddiad uniongyrchol â'r Beibl. Y Beibl ydyw llyfr y sefydliad. Ac nid yn unig darllenir y llyfr hwn yn yr ysgol ar y Sabbath, ond gobeithiwn fod y rhan fwyaf o ddeiliaid yr Ysgolion yn gwneyd rhyw gymmaint o ymchwiliad i'w gynnwysiad ar hyd yr wythnos gogyfer â'r Dosparth. Y mae ei egwyddorion, trwy y pregethiad o'i wirioneddau a thrwy y darlleniad o hono yn yr Ysgol Sul, yn gwreiddio yn ddyfnach, ddyfnach ym mynwes y Cymro. Fel y mae ei egwyddorion ef yn myned yn fwy hysbys, y mae anfoesoldeb ac annuwiaeth yn cilio o'r wlad, a'r bobl yn dyfod yn fwy gweddaidd a chrefyddol. Nid unrhyw ddiffyg yn y Beibl oedd na fuasai Cymru yn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg mor waraidd a defosiynol ag ydyw yn y bedwaredd-ar-bymtheg. Yr achos o'r gwahaniaeth ydyw fod miloedd lawer yn y cyfnod blaenaf heb yr un Beibl, ac fod mwy heb fedru ei ddarllen. Mewn canlyniad, y mae y Cymry yn ddyledus i Dduw, nid yn unig am godi y fath ddynion a Salesbury, Morgan, a Parry i gyfieithu ei Air iddynt, ond hefyd am Thomas Gouge, Griffith Jones, Thomas Charles, yng nghyda phawb eraill a fuont yn foddion i ledaenu y gyfrol fendigedig, ac i ddysgu y werin i'w ddarllen.

Y mae rhai yn ddiweddar wedi bod yn ceisio ffurfio cyfres o Drïoedd Crefyddol Cymreig—ac y mae y Cymry bob amser yn hoff o drioedd. Un o'r cyfryw ydyw yr hwn a ganlyn :—"Tri chymmwynaswyr crefyddol penaf Cymru: y Dr. Morgan, Griffith Jones o Landdowror, a Thomas Charles o'r Bala."* Beth bynag a ellir ei ddyweyd am wirionedd ein trïoedd yn gyffredin, credwn nad all fod ammheuaeth am hwn. Y gŵr cyntaf a nodwyd a'i gwnaeth yn bosibl i'n cenedl gael Beibl o gwbl; yr ail a fu y prif offeryn i ddysgu y bobl i'w ddarllen; a'r trydydd, heb law myned rhagddo yn yr un llinellau a'r ail, a anfonodd y llyfr i'r bwthyn yn gystal ag i'r palas. Pe buasai Duw heb godi y gwŷr hyn, neu rai eraill cyffelyb iddynt, buasai agwedd ein gwlad yn lled wahanol heddyw i'r hyn ydyw. Buasai yr un golygfeydd a ddysgrifiai Robert Jones, Rhoslan, mewn cymmaint rhwysg ar ein Sabbathau ag oeddynt gynt. Llwon a rhegfeydd a fuasai ein pregethau, cyfeddach y dafarn yn lle y gymdeithas eglwysig, a champau llygredig yn lle rhinweddau Cristionogol. Buasai ein tadau yn treulio eu hen ddyddiau mewn anystyriaeth, ein mamau yn anwybodus ac ofergoelus, a'n hieuenctyd yn bla ar gymdeithas. Heb y Beibl ni allasai diwygwyr y ganrif ddiweddaf danio Cymru

* Enwogion y Ffydd, cyf. ii., tud. 155.

a'u sel grefyddol ; ac ni allasai eu holafiaid gadw y fflam i oleuo ein gwlad. Ond i ba ddyben y dywedir yr hyn sydd ddigon hysbys i bawb ? I ddim, ond yn unig i adgoffa y dylanwad a gafodd y Beibl Cymraeg ar foesau a chrefydd y genedl.

Pa faint bynag o ddiffygion sydd yng Nghymru ; o'i chymharu â'r hyn a fu, y mae yn baradwys. Yr ydym yn dra hoff o alw ein gwlad yn Walia Wen. Pa beth bynag am y priodoldeb o hyny, sicr ydym mai Gwalia *ddu* mewn ystyr addysgawl, foesol, a chrefyddol ydoedd dri chan' mlynedd yn ol. Ac nid oes ammheuaeth na fuasai yr un ansoddair yn gymhwys iddi heddyw oni bae iddi gael y Beibl. Y mae yr un mor sicr fod ei llwyddiant yn y dyfodol, ym mhob ystyr, yn ymddibynu ar y derbyniad a rydd i'r gwirioneddau a geir ynddo, a'r ymarferiad a wna o honynt. Mor brydferth, onide, y canodd y Parch. H. Elvet Lewis, yn ei bryddest ragorol—"Y Sabbath yng Nghymru"—ar roddiad y Beibl Cymraeg, a'i ddylanwad :—

O ! Foreu bythgofiadwy
(Byth, byth na chaffed gam)
Pan ddysgodd Bibl anfeidrol ras
Barablu iaith fy mam !
Mae tri chanmlynedd bellach
Er pan ddaeth yma i fyw ;
Ond mae mor ieuanc ag erioed,
Ai lon'd o gariad Duw.
Aeth allan fel y 'BYDDED,'
A'r heuliau gylch ei ben ;
Ac ar ei ol, o fro i fro,
Cerddodd y wawrddydd wen.*

* Transactions of the Wrexham Nat. Eisteddfod, 1888, p. 153.

ATTODIAD,

YN CYNNWYS RHESTR O RAI O BERCHENOGION PRESENNOL CYFARGRAFFIADAU O DESTAMENT SALESBURY, 1567; BEIBL MORGAN, 1588; A BEIBL PARRY, 1620.

Y mae rhai yn teimlo dyddordeb neillduol mewn hen lyfrau; a thybiwn fod y dyddordeb hwnw yn cynnyddu y dyddiau hyn. Credwn fod i'r tri argraffiad cyntaf o'r Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg ddyddordeb hynafiaethol, ar wahan i'w cynnwysiad fel Gair Duw; a thybiasom y buasai rhestrau o enwau y rhai sydd mor ffodus a meddu copïau o honynt yn bresennol yn werth edrych drostynt. I'r dyben o wneuthur y rhestr mor gyflawn ag yr oedd modd, gohebwyd ag oddeutu dau gant o lenorion, hynafiaethwyr, a llyfr-gasglwyr, yng Nghymru a Lloegr. Ffrwyth yr ymchwiliad a fydd cynnwysiad yr attodiad hwn. Wedi yr holl drafferth methwyd a chael hysbysrwydd boddhaol am fwy na 29 o Destamentau Salesbury (arg. 1567); 39 o Feiblau Morgan (arg. 1588); a 66 o Feiblau Parry (arg. 1620). A chredwn na fyddai yn ddiogel dyblu y ffugyrau uchod i gynnrychioli cynnifer o gopïau sydd yn awr mewn bodolaeth. Pan yn cario ym mlaen ein gohebiaeth, cymmerem yr hyfdra i ofyn i'r rhai yr ysgrifenem atynt fod mor garedig, nid yn unig i roddi hysbysrwydd yng nghylch y copïau a allai fod yn eu meddiant, ond i nodi hefyd unrhyw rai y gwyddent am danynt, fel y gallem ysgrifenu at eu perchenogion. A, chydag ond ychydig iawn o eithriadau, derbyniasom gynnorthwy parod.

Yn y rhestrau dilynol, ceir enwau Seisonig ar sefydliadau, ac yr un modd yr ysgrifenwyd cyfeiriadau y perchenogion, yn hytrach na'u rhoddi yn Gymraeg. Y mae Cymreigio enwau a chyfeiriadau Seisonig yn ymddangos i ni yn wrthun. Ond y mae y dysgrifiadau a gawsom o'r llyfrau gan eu perchenogion gan y mwyaf yn Gymraeg. Fe sylwir fod y nifer luosocaf o honynt heb unrhyw ddysgrifiad o gwbl mewn perthynas i berffeithrwydd neu ammherffeithrwydd y copïau; a hyny am y rheswm na chawsom y cyfryw hysbysrwydd. Pa fodd bynag, gellir cymmeryd yn ganiataol fod y nifer fwyaf o honynt yn

ammherffaith. Fe gydnabyddir fod Mr. Quaritch yn awdurdod uchel ar hen lyfrau. Mewn nodyn a dderbyniasom oddi wrtho yn ddiweddar, sylwa:—"Y mae Testament Cymraeg Salesbury, 1567, yn hynod o brin; y mae yn anhawdd d'od o hyd i gopïau ammherffaith o hono. Y mae copïau *cyflawn* o Feibl Morgan, 1588, yn agos mor brinion, er fod rhai ammherffaith yn dyfod i'r golwg yn fynych. Am Feibl Parry, 1620, y mae yn llyfr cymharol gyffredin; eto nid ydyw copïau mewn cyflwr da mewn un modd felly." Fe'n hysbysir i'r diweddar Mr. Edward Parry, y cyhoeddwr o Gaerlleon, gymmeryd taith trwy Gymru i brynu cynnifer ag a allai o gopïau o Feibl Morgan. Ac os na lwyddai i gael gan y perchenogion i'w gwerthu, ceisiai ganddynt werthu y wyneb-ddalen iddo. Dichon fod eraill wedi gwneuthur yr un modd a Mr. Parry, nid yn unig gyda Beibl Morgan, ond â Thestament Salesbury a Beibl yr Esgob Parry. Dichon mai i ryw gywreinrwydd o'r natur hwn y mae y wyneb-ddalen a'r addurniadau ar goll mewn cynnifer o gopïau.

Y mae wedi bod yn fater o syndod i ni fod can lleied o'r llyfrau hyn i'w cael yn Eglwysi Cymru; yn enwedig pan gofiwn mai ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus y bwriadwyd hwy. Buom hefyd yn ceisio gwneyd allan, ond yn aflwyddiannus, at ba amser y cyfeiria golygwyr y *Myvyrian Archaiology* pan y dywedant:—"*Why Welsh Bibles were taken out of churches, and burnt, as we have it recorded, and English ones ordered to be used in the room of them, cannot now be well known.*"* Hwn ydyw yr unig grybwylliad a welwyd genym ni am y trychineb a'r gormes tybiedig. Ond pe cywir yr haeriad, ni allasai eu habsennoldeb yn ein Heglwysi fod nemawr mwy amlwg nag ydyw. Oddigerth rhyw dri eithriad, y mae yr oll o'r copïau y llwyddasom gael eu hanes o'r tu allan i'r muriau y bwriadwyd hwynt ar y cyntaf, er fod prawf bod amryw o honynt wedi eu cymmeryd oddi yno. Yr oedd y Beiblau gynt, yn Gymraeg a Saesoneg, yn cael eu cyssylltu â chadwynau wrth y pulpud, neu'r ddarllenfa. Y mae olion y cadwynau i'w gweled yn fynych ar gloriau Beibl Parry. Cadwynid hwynt rhag i'r bobl eu lladrata. Ond na feddylied neb mai awydd darllen oedd yn gwneyd hyny yn angenrheidiol. Oblegid, os gwir y traddodiad a glywsom yn Llanymawddwy, cadwynid copi o Feibl Parry yn eglwys y plwyf hwnw rhag i'r plwyfolion ei gymmeryd i'w tai er mwyn arfer dewiniaeth gydag ef!

* Myv. Arch., p. x.

RHIF I.

Rhestr o rai o Berchenogion presennol Testament Salesbury.

(Argraffiad 1567.)

1.—Bodleian Library, *Oxford.*

2.—Bonnor, Col. Maurice, *Bryn-y-Gwalia, Llangedwyn, Oswestry.* Mewn cyflwr da.

3.—British and Foreign Bible Society, 146, *Queen Victoria Street, London, E.C.* Anrhegwyd y Gymdeithas â'r cyfargraff hwn gan y diweddar Dr. Lewis Edwards, o'r Bala, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 20fed, 1853. Ar ddalen wen yn y Testament ceir y nodiadau canlynol wedi eu hysgrifenu gan y diweddar Mr. Francis Fry, o Bristol :—

June 28th, 1872.

The first New Testament in Welsh. On the last leaf :—"London, Harry Denham 1567 Octob 7." This copy was very imperfect when given to the Bible Society, and parts in bad order. These I have had mended & the text copied in.

	leaves
I have added in correct facsimile	
The Title, Kalender & fol. 396	8
Genuine leaves before the text which are very rare	17
In the text	22
	39
	8
In all	47
This copy yet wants fol 373, misprinted 375 Bbb. 17 385, 389, 394, 397, 398 Tables & Imprint 2 leaves	8
The preliminary matter in this copy is now complete all but 4 leaves corrections, which are in my copy but not in the Museum copy	4
Wanting	12

Tower House
Cotham
Bristol

Francis Fry

4.—British and Foreign Bible Society (*eto*). Eiddo y diweddar Mr. Fry, o Bristol, oedd y cyfargraff y cyfeiriwn ato yn bresennol. Y mae casgliad Mr. Fry o hen Feiblau yn cael eu cadw yn Nhŷ y Feibl Gymdeithas, ac, fel ein hysbysir, bwriedir casglu digon o arian i'w prynu, a'u cadw yno. Y mae Testament Salesbury yn eu plith, ac, fel y gwelir oddi wrth nodiadau Mr. Fry (o dan rhif 3), y mae hwn yn gyfargraff lled werthfawr, gan ei fod yn cynnwys pedair dalen o "Gywiriadau."

5.—British Museum (The), *Bloomsbury, London.* Y mae yn cael ei nodi yn llyfr-restr yr Amgueddfa Brydeinig o dan y *Press Mark*—C. 36. d. 3. Bu y cyfargraff hwn ym meddiant y bar-gyfreithiwr, Matthew Skinner, aeth wedi hyny yn eiddo Richard Morris o Fôn; ar ol hyny aeth i'r Llyfrgell Frenhinol a ffurfiwyd gan Sior y Trydydd, a'r hon a symmudwyd i'r Amgueddfa yn 1823. Ar y rhan uchaf o'r wyneb-ddalen ceir "Llyfr Rhist Morris, o'r Nafi Offis, Llundain, 1761," yn ysgrifenedig; ac mewn man arall "Math. Skinner Esq. one of his Majest's Serjeants at Law, 1735." Y mae hwn yn gyfargraff cyflawn, ac mewn cyflwr rhagorol.

6.—Calvinistic Methodist Theological College, *Bala.* Y mae y wyneb-ddalen a'r holl fater rhagarweiniol ar goll yn y cyfargraff hwn. Dechreua yn yr "Argvment" i Matthew, ond credwn ei fod yn gyflawn oddi yno i'r diwedd. Ar ddalen wen yn ei ddechreu ceir y nodiadau canlynol yn ysgrifenedig:—"£3. 3. 0. Bought at Bristol. E Griffiths 1823."—— "David Charles, Trevecca College, April 1844."—— "Richd Morgans of Llangunllo, June 23rd 1652."

7.—Casson, Randal, Esq., *Solicitor, Portmadoc.* Cyfargraff ammherffaith.

8.—Davies, The Rev. John Evan, M.A., *Llangelynin Rectory, Llwyngwril, Merionethshire.* Y mae y cyfargraff hwn mewn cyflwr da, ac yn gyflawn gydag eithrio tair neu bedair pennod yn yr Epistol at y Rhufeiniaid.

9.—Dean and Chapter Library, *Bangor, Carnarvonshire.* Cyfargraff ammherffaith, yn gymmaint a'i fod yn dechreu gyda'r "Epistol at y Cembru," ac yn diweddu Dat. xiv. 6. Ar ddalen wen ar ei ddechreu dywedir:—"The gift of the Rev. Mr. John Roberts Archdiacon of Merioneth, in the Library of the Cathedral Church of Bangor. 13th Sept. 1796."

10.—Dean and Chapter Library, *St. Asaph, Flintshire.* Cyfargraff ammherffaith.

11.—Edwards, The Rev. Lleweyn, M.A., *Ardwyn, Aberystwyth.* Yr oedd y cyfargraff hwn yn y flwyddyn 1844 yn eiddo Edward Evans, Ty'nycelyn, Corwen; ar ol hyny bu yn eiddo i'r Dr. Edwards, o'r Bala, hyd ei farwolaeth. Y mae y rhanau canlynol ar goll ynddo:—Y Wyneb-ddalen; tair dalen o'r Kalendar; o'r ddalen 261 hyd 268 (1 Cor. diwedd pen. xv. hyd 2 Cor. vi.); ac o Dat. xiii. 11. hyd xxii. 21. Y mae y rhwymiad hefyd yn wael. Ond gyda'r eithriadau a nodwyd, y mae mewn cyflwr da ac yn lân. Hefyd, y mae amryw o nodiadau Cymraeg mewn hen law-ysgrif ar ymylon y dalenau.

12.—Edwards, The Rev. Thomas Charles, D.D., *The Principal of the University College of Wales, Aberystwyth.* Fe'n hysbysir fod hwn yn gyfargraff perffaith.

13.—Fry, Miss P. A., *Tower House, Bristol.* Y mae y cyfargraff hwn yn gyflawn o Matt. i. (dalen rhif 2) hyd y Datguddiad. Y mae y Datguddiad yn anghyflawn hyd pen. xiii. (dalen rhif 388). Y mae yn cynnwys wyth dalen o fater rhagarweiniol; ond y mae y wyneb-ddalen, saith dalen o'r Kalendar, a Dat. xx. mewn argraff cyfluniol (*facsimile*).

14.—Fry, Miss P. A., (*eto*). Cyfargraff tra ammherffaith, yn dechreu Matt. i. (dalen 2) hyd Epistol Cyffredinol Judas, gyda llawer o ddalenau yng ngholl rhyngddynt. Y mae yn cynnwys un ddalen o'r mater rhagarweiniol.

15.—Fry, Miss P. A., (*eto*). Cynnwysa y cyfargraff hwn bum' dalen o'r mater rhagarweiniol. Y mae y Testament yn dechreu yn Mathew (dalen rhif 9) ac yn diweddu 2 Petr, pen. ii.; ond y mae llawer o'r dail rhyngddynt ar goll. Y mae ôl llawer o draul ar hwn yn gystal a'r cyfargraff diweddaf; ond y mae yn perthyn iddynt amryw ddalenau mewn argraffiad cyfluniol (*facsimile*), yr un modd a'r cyfargraff rhif 13.

16.—Jesus College, *Oxford.* Cyfargraff perffaith.

17.—Jones, The Rev. Owen, B.A., 143, *Bedford Street South, Liverpool.* Cyfargraff ammherffaith.

18.—Memorial College Library, *Brecon.* Y mae y wyneb-ddalen ar goll; gyda'r eithriad hwn, y mae yn gyfargraff cyflawn.

19.—Mostyn, The Right Hon. Lord, *Mostyn, Flintshire.* Cyf-argraff ammherffaith.

20.—Nicholl, J. Cole, Esq., *Merthyr-mawr, Bridgend, Glamorganshire.* Prynwyd y cyfargraff hwn mewn arwerthiant ar lyfrau y Dr. Bliss, yn Rhydychain, 1858, am £63. Y mae y gyfrol mewn cyflwr rhagorol, yn berffaith, ac yn y rhwymiad cyntefig.*

21.—Owen, Edward Humphreys, Esq., F.S.A., *Ty Coch, Carnarvon.* Cyfargraff ammherffaith. Bu hwn yn eiddo i'r diweddar Barch. Howell Harris.

22.—Pamplin, William, Esq., *Llandderfel, Corwen, Merionethshire.* Cyfargraff ammherffaith; a fu yn eiddo i'r diweddar Mr. Robert Saunderson, argraffydd a chyhoeddwr, Bala.

23.—Quaritch, Bernard, Esq., 15, *Piccadilly, London.* Bu y cyfargraff hwn yn eiddo i'r Esgob Thirlwall, ac wedi hyny i'r diweddar Mr. Edward Breese, Porthmadog, hyd ei farwolaeth. Y mae y naw dalen gyntaf, a'r chwe' dalen olaf, mewn argraff cyfluniol. Gyda'r eithriadau hyn, y mae yn gyflawn; ac wedi ei rwymo yn ysplenydd. Yn wir, gellir ystyried hwn y cyfargraff perffeithiaf o Destament Salesbury ag sydd mewn bod yn bresennol. Y mae yn cynnwys, ym mhlith y pethau rhagarweiniol eraill, y "Cywiriadau" a nodwyd genym pan yn ceisio rhoddi cynnwysiad y Testament.† Ond fel yr ydym yn gweled mewn perthynas a chyfargraff rhif 4, nid yw Mr. Quaritch yn gywir pan y dywed yn ei lyfr-restr (*catalogue*) mai hwn ydyw yr unig gyfargraff sydd yn cynnwys y "Cywiriadau" hyny. Y mae Mr. Quaritch yn ei gynnyg ar werth am £72.‡

* Teg ydyw hysbysu i ni fethu a chael hysbysrwydd diweddar mewn perthynas i'r cyfargraff hwn. Yr ydym yn cael yr hyn a ddywedir uchod mewn nodyn a ymddangosodd yn y *Bye-Gones*, April 2nd, 1879. Ceir yn y *Bye-Gones* am y flwyddyn hòno restr yn cynnwys oddeutu deunaw o Destamentau Salesbury. Ond y maent gan y mwyaf erbyn hyn wedi newid eu perchenogion.

† Gwel uchod, tudal. 76.

‡ Yn ei Lyfr-restr, rhif 101 (January, 1890), y mae Mr. Quaritch wedi codi pris y cyfargraff hwn i £84. Ac y mae yn cynnyg cyfargraff arall, yr hwn gyda'r eithriad o ychydig ddalenau sydd mewn cyflwr da, am £20.

24. — Reference Library (The), *Swansea.* Cyfargraff ammherffaith.

25.—Roberts, Mr. W. J., (Gwilym Cowlyd), *Publisher, &c., Llanrwst, Denbighshire.* Cyfargraff tra ammherffaith; yn dechreu Marc viii., ac yn diweddu Philemon, gydag amryw ddalenau yn eisieu.

26.—Salisbury, E. R. G., Esq., (late of Glanaber, Chester), 3, *Little George Street, Westminster, London.** Cyfargraff mewn cyflwr rhagorol, gyda'r eithriad fod dernyn bychan o'r wynebddalen wedi ei rwygo ymaith. Y mae hwn yn cynnwys dalen yn dwyn y penawd:—"This famous Amathist Stone," yr hon sydd ar goll yng nghyfargraff y diweddar Mr. Edward Breese. Ond nid ymddengys fod y "Cywiriadau" sydd yn y cyfargraff hwnw yn hwn. Y mae rhywun, mewn llawysgrif yr hon sydd yn debyg i eiddo yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, wedi ysgrifenu yr englyn canlynol ynddo:—

Byd ffyddlon dynion yw dyw,—byd hyffordd,
Byd diffaith heb wirddyw,
Byd hwylddawn yw bod heb haelddyw,
A byd heb ddim yw bod heb ddyw.

27.—Society of Ancient Britons (The), 127, *St. George's Road, London, S.W.* Cyfargraff mewn cyflwr da.

28.—Verney, Capt. Edmund H., R.N., M.P., *Rhianva, Bangor, Carnarvonshire.* Cyfargraff ammherffaith.

29.—Wynne, W. R. M., Esq, *Peniarth, Towyn, Merionethshire.* Cyfargraff perffaith. Bu hwn ym meddiant Watkin Williams, Ysw., Penbedw, yr hwn oedd frawd i un o hynafiaid y perchenog presennol.

* Bellach rhaid cyssylltu y gair "diweddar" ag enw Mr. Salisbury. Bu farw Hydref 27, 1890; yn 71 mlwydd oed.

RHIF II.

Rhestr o Berchenogion presennol Beibl y Dr. Morgan.

(Argraffiad 1588.)

1.—Bodleian Library, *Oxford.*

2.—Briscoe, The Rev. Chancellor Thomas, D.D., *Holyhead.* Cyfargraff ammherffaith, gan fod ychydig ddalenau yn y dechreu a'r diwedd ar goll, ynghyda thair neu bedair yng nghorff y llyfr.

3.—British and Foreign Bible Society, 146, *Queen Victoria Street, London, E.C.* Cyfargraff mewn cyflwr rhagorol; yr hwn a anrhegwyd i'r Gymdeithas, Ebrill 4, 1814, gan Essex Bowen, Ysw.

4.—British Museum (The), *Bloomsbury, London.* (*Press Mark:* 1. b. 13). Yn llyfr-restr yr Amgueddfa ceir y nodiadau a ganlyn:

This copy wants the Title-page, 2 leaves of Calendar, one leaf of *Errata.* These are supplied in *facs.*, except *Errata*, which I can'tsee anywhere. There are also a few letters or words gone from margins at beginning and end of both. There is also a note in it to the effect that "this was Ld. Oxford's copy." It is in the Royal Library, was bound for G. III., and has his stamp in the corner, viz.:—Royal arms surmounted by a crown, and immediately above the crown G. III. R.

Gellir ychwanegu hefyd fod "David Xichols, his book, etc., 1713," yn ysgrifenedig ar ddalen 73 o'r gyfrol hon.

5.—Calvinistic Methodist Theological College, *Bala.* Cyfargraff ammherffaith, yn dechreu Genesis xii.; ond ar y cyfan mewn cyflwr lled dda.

6.—Davies, The Rev. John Evan, M.A., *Llangelynin Rectory, Llwyngwril, Merionethshire.* Cyfargraff ammherffaith, ond mewn cyflwr da ar y cyfan.

7.—Dean and Chapter Library, *Bangor.* Cyfargraff ammherffaith. Dechreua yn Genesis xxiv. 20, a diwedda yn Epistol Judas, adn. 9.

8.—Dean and Chapter Library, *Westminster.* Y mae hwn yn gyfargraff rhagorol. Dyma yr un a anrhegwyd i'r Llyfrgell hòno gan y Dr. Morgan ei hun yn y flwyddyn y cyhoeddwyd ef, fel y tystia nodiad a ysgrifenwyd ynddo gan Jasper Gruffydd, at yr hwn yr ydym eisoes wedi cyfeirio, yn gystal a'i ddyfynu.*

9.—Edwards, Mr. Peter, *Tabor Hill, Coedpoeth, Denbighshire.*

10.—Edwards, The Rev. Thomas Charles, D.D., *The Principal of the University College of Wales, Aberystwyth.* Fe'n hysbysir fod hwn yn gyfargraff da.

11.—Evans, The Rev. D. Charles, F.C.S., *Menai Bridge, Anglesey.* Anfonodd Mr. Evans y cyfargraff hwn er ys rhai blynyddau yn ol i'w gadw yn llyfrgell Coleg y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrefecca. Ac yno y mae eto, er nad ydyw Mr. Evans, fel ein hysbysa, wedi ymadael â'i hawl ynddo. Cyfargraff lled ammherffaith ydyw.†

12.—James, The Rev. Herbert A., B.D., *The Principal of Cheltenham College.*

13.—James, The Rev. J. Lloyd, *Congregational Minister, March, Cambs.*

14.—Jesus College, *Oxford.*

15.—Jones, Mr. John, (Myrddin Fardd), *Chwilog, Carnarvonshire.* Cyfargraff lled ammherffaith.

16.—Jones, The Rev. Michael D., *The Principal of the Congregational College, Bala.* Cyfargraff rhagorol, ond heb fod yn gwbl berffaith.

17.—Jones, The Rev. Owen, B.A., 143, *Bedford Street South, Liverpool.* Cyfargraff ammherffaith.

18.—Jones, Mr. William, *Cilfodau Terrace, Bethesda.* Hysbysir ni gan Mr. Enoch D. Roberts (Llwydfor) fod hwn yn gyfargraff da.

* Gwel uchod, tud. 138.

† Hysbysir ni gan Mr. Evans fod yn ei feddiant Hanes byr am yr Esgob Morgan mewn hen lawysgrif, yn gyffelyb i'r hyn a geir am dano yn y "Cambrian Plutarch," gan J. H. Parry.

19.—Lambeth Palace Library, *London.*

20.—Llanover, The Right Hon. Lady, *Llanover, Abergavenny.* Cyfargraff perffaith, ac mewn cadwraeth ragorol.

21.—Morgan, The Rev. David, *The Vicarage, Penrhyndeudraeth, Merionethshire.* Cyfargraff ammherffaith; rhan helaeth o'r Datguddiad ar goll.

22.—Owen, Edward Humphreys, Esq., F.S.A., *Ty Coch, Carnarvon.* Cyfargraff perffaith.

23.—Prichard, Mr. Richard, *Dyfnian-fawr, Llanfair P.G., Anglesey.* Y mae y cyfargraff hwn yn ammherffaith yn gymmaint a'i fod wedi ei yspeilio o'r wyneb-ddalen, y llythyr cyflwyn i'r Frenhines, a'r rhagarweinolion eraill. Dechreua Gen. v. 36, a diwedda yn Datguddiad ix. Ond y mae gwyneb-ddalen y Testament Newydd ar gael.

24.—Quaritch, Bernard, Esq., 15, *Piccadilly, London.* Y mae y wyneb-ddalen, un ddalen o'r Taflenau, a'r ddalen olaf yn y llyfr, mewn argraff gyfluniol (*facsimile*); ac eithrio hyny y mae yn gyfargraff rhagorol, ac wedi ei rwymo yn ysplenydd. Bu hwn yn eiddo yr Esgob Thirwall, ac wedi hyny i Mr. Edward Breese, Porthmadog, hyd ei farwolaeth; ac y mae Mr. Quaritch yn ei gynnyg ar werth am £63.

25.—Quaritch, Bernard, Esq., (*eto*). Dechreua y cyfargraff hwn yn dalen 11, ac y mae yn diweddu yn 472. Heblaw hyny, y mae y saith ddalen ar hugain canlynol ar goll ynddo:—181-6, 201-2, 205, 210, 229-34, 240, 247, 252, 259-60, 263-4, 271, 276, 309, a 327. Y mae amryw ddalenau wedi ammharu a difwyno; y gyfrol yn rhwymedig yn y byrddau cyntefig wedi eu gorchuddio â lledr. Gofyna Mr. Quaritch £2 10s. am y llyfr, yr hwn hefyd a fu ym meddiant Mr. Breese.

26.—Quaritch, Bernard, Esq., (*eto*). Y mae hwn eto o lyfrgell Mr. Breese, a chyda'r eithriad fod saith o'i ddalenau mewn argraff gyfluniol, gellir ei ystyried yn gyfargraff da. Ac y mae yn cael ei gynnyg gan Mr. Quaritch am £2 2s.*

* Yn ei Lyfr-restr rhif 101 (January, 1890) cynnygia Mr. Quaritch gyfargraff ychydig yn ammherffaith am £10. Nid ydyw hwn yn gynnwysedig yn y rhestr uchod.

27. — Reference Library (The), *Swansea.* Cyfargraff ammherffaith.

28.—Roberts, The Rev. Robert, *Calvinistic Methodist Minister, Dolgelley.* Dechreua y cyfargraff hwn yn Genesis iii.; ac y mae yr Apocrypha ar goll ynddo. [Bu farw Mr. Roberts ychydig ddyddiau cyn anfon y traethawd hwn i'r gystadleuaeth.]

29.—Roberts, The Rev. R. J., *The Vicarage, Pool Quay, Welshpool.* Cyfargraff lled ammherffaith.

30.—Roberts, Mr. William, *Pandy'r Treban, near Bryngwran, Anglesey.* Y mae hwn mewn cyflwr rhagorol. Hysbysir ni i gyhoeddwr o Gaerlleon (y diweddar Mr. Edward Parry, mae'n debyg) er ys llawer blwyddyn yn ol, gynnyg £100 i Mr. Roberts am dano; ond ni fynai, ac ni fŷn, ei werthu am unrhyw bris.

31.—Salisbury, P. H. B., Esq., (late Captain in the Cheshire Royal Militia), 3, *Little George Street, Westminster, London.* Cyfargraff mewn cyflwr da. Bu hwn yn eiddo'r Dr. Arthur Jones, Bangor, taid y perchenog presennol, a chyn hyny yn eiddo i'w ewythr yntau, sef John Ellis Morgan, o Benmachno, y seithfed mewn disgyniad o'r cyfieithydd clodwiw. Felly, y mae'n debyg ei fod wedi aros yn ddifwlch yn y teulu o amser ei gyhoeddiad.

32.—Society of Ancient Britons (The), 127, *St. George's Road, London, S.W.* Cyfargraff ammherffaith.

33.—Spencer, The Right Hon. the Earl, *Althorpe, Northamptonshire.*

34.—Thomas, Mrs. Sarah, (relict of the late Mr. David Thomas, *Dewi Wnion*, Dolgelley), *Llwynygrug, Dinas Mawddwy.* Y wyneb-ddalen a'r Llythyr Lladin ar goll; ac y mae y tair dalen olaf o'r mater rhagarweiniol mewn cyflwr drylliedig. Y mae yr addurniadau oedd ar ddiwedd llyfrau Job a Malachi wedi eu rhwygo ymaith. Y mae gwyneb-ddalen y Testament Newydd yn eisieu, ac y mae ymylon y dalenau mewn amryw fanau wedi eu trwsio. Gyda'r eithriadau a nodwyd, yn gystal a'i fod yn diweddu yn Dat. xviii. 23, y mae yn gyfargraff lled dda, ac wedi ei rwymo, fel y gellir tybied, yn gymharol ddiweddar. Y mae amryw o nodiadau Cymraeg wedi eu hysgrifenu ar ymylon y dalenau, ac ar ddiwedd Job, yn yr un llawysgrif, ceir "Edward Mathewes, 21 day of March, 1641."

35.—Thomas, The Ven. Archdeacon, M.A., F.S.A., *Meifod Vicarage, Montgomeryshire.* Prynodd yr Hybarch Archddiacon hwn, er ys oddeutu dwy flynedd yn ol, gan Mr. Ellis Thomas, Meifod, am £20. Nid oedd yn gyflawn y pryd hwnw; gan fod y wyneb-ddalen, y bennod olaf yn llyfr Job, a'r bennod olaf yn y Datguddiad, yn eisieu. Yn awr, y mae y diffygion hyn wedi eu gwneuthur i fyny, a'r gyfrol wedi cael ei hail-rwymo yn hardd.

36.—Thomas, The Rev. William, *Congregational Minister, Parkglas, Carmarthen.* Cyfargraff ammherffaith. Ond y mae yn un tra dyddorol ar gyfrif y cofnodion am enedigaethau, &c., a geir yn ysgrifenedig ynddo.

37.—University College of Wales, *Aberystwyth.* Cyfargraff ammherffaith. Rhodd y diweddar Mr. David Jehu, o'r Trallwm.

38.—University College of South Wales, *Cardiff.* Cyfargraff ammherffaith.

39.—Verney, Capt. Edmund H., R.N., M.P., *Rhianva, Bangor.* Cyfargraff perffaith, a berthynai i'r diweddar Barch. Robert Jones, o Rotherhithe.

RHIF III.

Rhestr o Berchenogion presennol Beibl y Dr. Parry.

(*Argraffiad* 1620.)

1.—Anglesey, The Most Noble the Marquis of, *Plas Newydd, Llanfair P.G., Anglesey.*

2.—Bennett, Nicholas, Esq., *Glanyrafon, Llanidloes, Montgomeryshire.* Cyfargraff mewn cyflwr rhagorol. Y mae hwn yn dra dyddorol yn gymmaint ag iddo fod yn eiddo i'r Dr. John Davies, o Fallwyd. Y mae oddeutu dwy ran o dair o ymylon y dalenau wedi cael eu llanw â geiriau Lladin a Chymraeg, a Chymraeg a Lladin, ac hefyd â Diarhebion Cymraeg, a'r oll yn llaw y Dr. Davies ei hun. Prynodd Mr. Bennett hwn gan Mr. Quaritch.

3.—Bodleian Library, *Oxford.*

4.—British and Foreign Bible Society, 146, *Queen Victoria Street, London, E.C.* Y mae y cyfargraff hwn mewn cyflwr da, ac y mae y nodiadau canlynol yn ysgrifenedig ynddo :—

Y Bibl.

This Bible was printed in 1620, & is the second edition of the Welsh Bible. It is called Parry's Bible, having been revised, or rather retranslated by Dr. Richard Parry, Bishop of St. Asaph. It differs considerably from the preceding and original edition of 1588, both in language & orthography, and is with very few exceptions the same with that now in use. The subsequent editions being only reprints of the translation. Dr. John Davies assisted in the Translation.

T. Price, 1817.

Oddi tan yr uchod ceir "Presented March 24, 1817, by Rev^d. T. Price of Llangenning," yn ysgrifenedig. Tybiwn mai Llangenny, sir Frycheiniog, yw y lle a elwir yma yn "Llangenning"; ac mai y T. Price uchod oedd yr hanesydd enwog, Carnhuanawc.

5.—British Museum (The), *Bloomsbury, London.* (*Press Mark:*

$\frac{C.23.e.1.}{1}$). Cyfargraff rhagorol, a'r dyddordeb ynddo yn cael ei ychwanegu yn y ffaith mai yr un ydyw a'r hwn a anrhegwyd i'r Brenin Iago I. gan y cyfieithydd ei hun. Wedi eu cydrwymo ag ef y mae dau gopi o bamphledyn bychan, yn dwyn y penawd:— "Some Omissions and Mistakes in the British Translation and Edition of the Bible, appointed to be had and read in the Churches in Wales, to be supplied and rectified." Yn ol nodiad llawysgrifol a geir ar un o honynt, gellir meddwl mai yr Esgob Griffith o Lanelwy oedd yr awdwr.* Bu un o'r copïau hyn yn eiddo i Robert Davies, Llanerch, a pherthynai y llall i "E.M." (Edward Mostyn, o Dalacre?). Y mae wedi ei chydrwymo â'r Beibl hwn hefyd ddalen yn cynnwys y nodiadau canlynol, *mewn llawysgrif*, yn dal perthynas â'r pamphledyn:—

October 29, 1847. I think the sheet fastened in the beautiful copy of Bp. Parry's Welsh Bible, printed London 1620, ought to be noticed in the Catalogue, as the corrections wh it contains are very important, and are incorporated in the edition of 1677-8 (that of Stephen Hughes) & I suppose in all subsequent editions.

In an account of Welsh versions and editions drawn up by Rev. Moses Williams Editor of Welsh Bible and Prayer Book in 1718, and transcribed by Mr. Richard Morris of the Navy Office, Editor of the Bible (Welsh) of 1746 and —52 (M.S. Addit. 14952 in Catalogue of 1844. Brit. Mus.) it is said that this sheet was issued about 1672 & the authorship ascribed, but not positively, to Charles Edwards, the Author of a well known Welsh book on Eccles. History called Hanes y Ffydd. It wd be desirable to know whether the sheet was issued with Episcopal, or other, authority.

For a Sheet of Corrections it is itself singularly incorrect, containing several errors of the Press. Moses Wms. says that the corrections are incorporated by Stephen Hughes, and I examined nearly half of them myself & found it to be so in their case.

CHARLES WILLIAMS.
Perp. Curate of Holyhead.

Yna y dilyna, yn llawysgrif Charles Williams, gyfieithiad o ranau o lythyr Stephen Hughes, "To some Ministery of Consideration in Wales. Prefixed to Gwaith Mr. Rees Prichard. London 1672:—'Some well-wisher to our Land (the Lord repay him for his labour) has put forth a sheet in print to shew some faults that have escaped in printing in the printing [sic] of the Church Welsh Bible, & there are the same faults in the small Bibles.'" Yna cyfeiria at rai enghreifftiau.

* Fel hyn:—"Sd by Bp Griffith of St A." Bu yr Esgob Griffith farw yn 1666, ond yn ol *Llyfryddiaeth y Cymry*, yn 1672 y cyhoeddwyd y pamphledyn. Os cywir Rowlands, rhaid mai ar ol marwolaeth yr Esgob yr argraffwyd ef.

6.—Calvinistic Methodist Theological College, *Bala*. Cyfargraff mewn cyflwr da.

7.—Calvinistic Methodist Theological College, *Bala*. Cyfargraff arall, wedi ei rwymo yn ddwy gyfrol.

8.—Congregational College, *Bangor*.
9.—Congregational College, *Bangor*.
} Y mae rhai dalenau yn ngholl yn y ddau.

10.—Davies, Mr. David, *Grocer, Bridge Street, Dolgelley*. Cyfargraff lled ammherffaith.

11.—Davies, The Rev. John, M.A., 16, *Belsize Square, South Hampstead, London*.* Cyfargraff ammherffaith. Y mae y wynebddalen, y ddalen gyntaf o Lythyr Lladin Morgan, a thair pennod yn agos i ddiwedd y Datguddiad, ar goll; ac y mae amryw o'r dalenau wedi derbyn peth niwed.

12.—Davies, Mr. Thomas (Tegwyn), *Tailor and Draper, Dinas Mawddwy*. Cyfargraff hynod o ammherffaith, yn y rhwymiad cyntefig. Dechreua yn Psalm lxxiv., a diwedda yn Phil. ii.; ond y mae rhai llyfrau cyfain ar goll rhyngddynt. Bu hwn ym meddiant y diweddar Mr. Rees Jones, o'r Cwm, Llanymawddwy (1836); a thybir mai hwn oedd y Beibl a arferid yn Eglwys plwyf Llanymawddwy, lle y bu y Dr. Davies o Fallwyd, un o'r cyfieithwyr, yn rheithor. Y mae yn eithaf posibl mai y Dr. Davies ei hun a'i rhoddodd yn yr eglwys hòno; o leiaf, y mae traddodiad felly. Os cywir hyny, y mae y cyfargraff yn un dyddorol.

13.—Davies, W. Cadwaladr, Esq., *The Registrar, University College of North Wales, Bangor*. Cyfargraff hardd a pherffaith, yn y rhwymiad cyntefig, gyda "Th. P." o'r tu allan. Ar ddalen wen o'i mewn ceir yn ysgrifenedig:—

Duw yn unic yw Fynghraig a nghadernid. — W.
Ex dono Amicissimi Gulielmi Lewisii,
Sac: Theo: Doctoris,
Cambro Britanni.

Saif "W" am yr Iarll o Westmoreland a fu yn ei feddu, a cheir hanes y Dr. William Lewis yn *Enwogion Cymru* (Foulkes).

* Bu farw Mr. Davies Medi 18, 1890.

14.—Dean and Chapter Library, *St. Asaph.*
15.—Dean and Chapter Library, *St. Asaph.*
16.—Dean and Chapter Library, *St. Asaph.*

Methasom a chael allan ym mha gyflwr y mae y cyfargraffiadau hyn.

17.—Dean and Chapter Library, *St. David's.* Y mae y cyfargraff hwn yn agos yn berffaith.

18.—Edwards, The Rev. Thomas Charles, D.D., *The Principal of the University College of Wales, Aberystwyth.* Cyfargraff mewn cyflwr da.

19.—Evans, The Rev. Canon D. Silvan, B. D., *Llanwrin Rectory, Machynlleth.* Y wyneb-ddalen yn eisieu. Gyda'r eithriad hwn, y mae yn gyfargraff lled gyflawn.

20.—Evans, The Rev. Canon D. Silvan, (*eto*). Cyfargraff arall llai perffaith.

21.—Evans, Rev. D. Charles, F. C. S., *Menai Bridge, Anglesey.* Y mae hwn yn gyfargraff da, ac yn un o greiriau teuluaidd y perchenog. Cyhoeddodd Mr. Evans ei hanes yn ei "Gofiant" o'r diweddar Barch. David Jones, Treborth.

22.—Evans, The Rev. Edward, B.A., *Llanfihangel Rectory, Llanfyllin.* Cyfargraff perffaith. Prynodd Mr. Evans hwn, er ys oddeutu deugain mlynedd yn ol, yn arwerthiant y Parch. Maurice Hughes, Rheithor Llanwyddelan; P. C. Dolwyddelen a'r Capel Curig. Y mae yn cynnwys y cofnodion ysgrifenedig a ganlyn, ym mhlith amryw o rai eraill:—"Rowland Williams was born the 29 of December about riceing of the son, in the year of Lord 1692. Griffith Williams was born the 14th of February in the year of our Lord 1732. Jane Williams was born the 6th of April in the year 1737." Tybia Mr. Evans fod y Williamsiaid hyn yn hynafiaid i'r dywededig Maurice Hughes.

23.—Evans, Mr. E. W., *Publisher, 'Goleuad' Office, Dolgelley.* Cyfargraff ammherffaith; y wyneb-ddalen a rhai dalenau eraill ar goll. Bu hwn yn eiddo i Jane Roberts, Rugog, Corris; ac hefyd i'r bardd "Clynog."

24.—Griffith, Edward, Esq., J. P., *Springfield, Dolgelley.* Cyfargraff da.

25.—Griffith, John, Esq., *Vronheulog, Bangor.* Cyfargraff ammherffaith.

26.—Hughes, Mr. David, *Shoemaker, Tanygrisiau, Blaenau Festiniog.*

27.—James, The Rev. A. O., M.A., *Long Buckby Vicarage, near Rugby.*

28.—Jones, Evan Parry, Esq., J.P., *Cefnfaes, Blaenau Festiniog.* Cyfargraff glân a pherffaith, gyda'r eithriad fod cornelau y wynebddalen, ac ymylon ychydig ddalenau ar ddiwedd y Testament Newydd wedi cael eu trwsio.

29.—Jones, Mr. John, *Caegwernog, Llanelltyd, near Dolgelley.* Nid yw hwn ond rhanau rhyddion o'r Beibl 1620, wedi ei ddryllio.

30.—Jones, Mr. D. L., *Garth Board Schools, Bangor.*

31.—Jones, Maurice Lewis, Esq., *Llanfyllin.* Cyfargraff perffaith, gyda'r eithriad fod y tair adnod olaf yn eisieu.

32.—Jones, Morris, Esq., J.P., *Plas Uchaf, Dolgelley.* Cyfargraff mewn cyflwr da.

33.—Jones, The Rev. Owen, B.A., 143, *Bedford Street South, Liverpool.* Cyfargraff ammherffaith.

34.—Jones, The Rev. Owen, B.A., (*eto*). Cyfargraff arall ammherffaith.

35.—Jones, Mr. Thomas, *Saddler*, 38, *Rhosmaen Street, Llandilo, Carmarthenshire.* Yn y rhwymiad cyntefig, ar yr hwn y mae olion y staplau gyda pha rai y cadwynid ef wrth y pulpud; a phlatiau prês ar bob cornel iddo. Y mae hanner dalen o'r Efengyl Matthew, a dwy bennod yn llyfr y Datguddiad, ar goll. Gyda'r eithriadau hyn, y mae yn berffaith, ac mewn cyflwr da.

36.—Lambeth Palace Library.

37.—Morgan, The Rev. David, *The Vicarage, Penrhyndeudraeth, Merionethshire,*

38.—Morgan, Mr. Richard, *Painter*, 11, *Castle Street, Carnarvon.* Y mae hwn yn gyfargraff lled dda, ond y mae dwy neu dair o bennodau ar goll tua diwedd llyfr y Datguddiad.

39.—Morris, Mr. Edward, *Pantysaer, Llanuwchllyn, Merionethshire.* Cyfargraff da, yn y rhwymiad cyntefig, ac yn cynnwys y wyneb-ddalen. Y mae "Edward Maurice a gladdwyd yn y flwyddyn hon 1795" yn ysgrifenedig ynddo.

40.—Museum (The), *Cardiff.*

41.—Owen, Edward Humphreys, Esq., F.S.A., *Ty Coch, Carnarvon.* Cyfargraff perffaith.

42.—Pamplin, William, Esq., *Llandderfel, Corwen, Merionethshire.* Cyfargraff ammherffaith, yr hwn unwaith a fu yn eiddo i'r diweddar Mr. R. Saunderson, Cyhoeddwr, &c., Bala.

43.—Parish Church (The), *Bodedern, Anglesey.*

44.—Parish Church (The), *Llanarth, Cardiganshire.*

45.—Parish Church (The), *Llanllwchaiarn, Newtown, Montgomeryshire.* Y mae y wyneb-ddalen, a rhan o Lythyr Lladin Morgan, ar goll; ac y mae rhai dalenau o'r Calendar wedi eu cam-osod. Gyda'r eithriadau hyn, y mae yn gyfargraff da; ond y mae mwy o draul ar y Testament Newydd nag sydd ar yr Hen. Y mae cryn lawer o nodiadau, wedi eu hysgrifenu yn dda, ond gan wahanol bersonau, ar ymylon y dalenau; wedi eu bwriadu, gallesid meddwl, fel cywiriadau.

46.—Phillimore, Egerton G. B., M.A., *Tŷ'nrhos, Cemmaes Road, Montgomeryshire.* Cyfargraff bron yn berffaith. Perthynai hwn i Eglwys Llangattoch-ar-Wysg, yn agos i Abergavenny; a gwerthwyd ef am £1 gan y plwyfolion i'r Parch. Mr. Francis (curad ?), o ddeutu'r flwyddyn 1760.

47.—Pugh, Mr. Robert, *Hafod-y-morfa, Llanelltyd, Dolgelley.* Cyfargraff ammherffaith.

48.—Quaritch, Bernard, Esq., 15, *Piccadilly, London.* Cyfargraff perffaith, gydag "R. Y." yn argraffedig ar y rhwymiad. Y mae y llythyrenau hyn yn sefyll am Syr Richard Yonge (1630), ac y mae amryw o nodiadau Seisonig o'i eiddo yn ysgrifenedig ar ymylon y dalenau. Cynnygir ef ar werth gan Mr. Quaritch am £25.*

49.—Reference Library (The), *Swansea.* Cyfargraff ammherffaith.

50.—Richards, Mrs., *Vronheulog, Llandderfel, Corwen, Merionethshire.* Cyfargraff ammherffaith. [Bu farw Mrs. Richards ar ol ysgrifenu y cofnodiad hwn.]

51.—Roberts, The Rev. R. J., *The Vicarage, Pool Quay, Welshpool.* Prynodd Mr. Roberts y cyfargraff hwn yn arwerthiant Syr Robert Vaughan, Rhug (Nannau ?), ac y mae mewn cadwraeth dda.

52.—Royle, Mrs., *Brynygroes, Bala, Merionethshire.*

53.—St. David's College Library, *Lampeter.* Cyfargraff perffaith.

54.—Stanley, The Right Hon. Lord, *Penrhos, Holyhead.*

55.—Thomas, Mr. Evan, *Coal Merchant, Dolgelley.* Cyfargraff mewn cadwraeth dda, ond y wyneb-ddalen yn eisieu.

56.—University College of Wales, *Aberystwyth.* Cyfargraff da.

57.—University College of North Wales, *Bangor.* Cyfargraff bron yn berffaith.

58.—University College of South Wales, *Cardiff.* Cyfargraff ammherffaith.

59.—University College of South Wales, *Cardiff.* Cyfargraff arall.

*Yn ei Lyfr-restr rhif 101 (January, 1890), cynnygia Mr. Quaritch y cyfargraff hwn am yr un pris; a dau gyfargraff arall—y naill am £20, a'r llall am £18 18s.

60.—VAUGHAN, JOHN, ESQ., J.P., *Nannau, Merionethshire.* Cyfargraff mewn cyflwr lled dda.

61.—VERNEY, CAPT. EDMUND H., R. N., M. P., *Rhianva, Bangor.* Cyfargraff perffaith.

62.—WILKINS, CHARLES, F. G. S., *Merthyr Tydfil.* Gyda'r eithriad o'r wyneb-ddalen, y mae hwn yn gyfargraff cyflawn. Ar gefn y wyneb ddalen i'r Testament Newydd, y mae yn ysgrifenedig:—"Daniel Rowlands, 1754," yn ei law ef ei hun; ac mewn man arall, mewn llaw ddiweddarach:—"Hen Feibl y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho.

63.—WILKINS, CHARLES, F.G.S., (*eto*). Cyfargraff arall.

64.—WILLIAMS, MR. GEORGE, 7, *Moriah Terrace, Carnarvon.* Cyfargraff mewn cadwraeth dda, ac yn cynnwys y wyneb-ddalen. Ond y mae y llythyrau Lladin, yr Apocrypha, ac ychydig ddalenau ar ddiwedd y gyfrol, yn eisieu.

65.—WILLIAMS, MR. HUGH, *Liverpool House, Dyffryn Ardudwy, Merionethshire.* Cyfargraff da.

66.—WILLIAMS, SAMUEL, ESQ., *New Cross House, St. David's.* Gyda'r eithriad o'r wyneb-ddalen, y mae yn gyfargraff perffaith, ac mewn cyflwr da.

RHESTR O'R TANYSGRIFWYR.

——:o:——

[Gan fod canolfur y gwahaniaeth rhwng yr *Ysw.* a'r *Mr.* mor deneu a bylchog mewn ambell fan, gadäwyd allan y naill deitl fel y llall. Gobeithiwn na thramgwyddwn neb trwy hyny; oblegid ein hamcan yn eu gadael allan oedd *peidio* rhoddi tramgwydd.]

——:o:——

Aberystwyth Free Library (C.M. Williams, *Hon. Sec.*), Aberystwyth.
Adams, Rev. D., B.A., Bethesda, Carnarvonshire.
Arthur, John, Tailor and Draper, Corris, R.S.O.
Ashton, John, C.C., Dolavon, Carno, Mont.
Ashton, R. W. J., 151, Ferguson St., Williamstown (North), Victoria, Australia.

Bangor, The Right Rev. The Lord Bishop of, The Palace, Bangor.
Bennett, Edgar, 2, Court Ash, Yeovil.
Bennett, Edward, Rural Postman, Cemmaes, Mont.
Bennett, Nicholas, J.P., Glanyrafon, Llanidloes.
Brees, John, Red Lion, Dinas Mawddwy.
Breese, John J., Sun River, Cascade, Montana.
Breese, Stephen, Rhydygwiail-isa', Cemmaes, Mont.
Breese, Thomas, Blaenycwm, Aberangell, Merioneth.
Breeze, Charles, Police Constable, Conglywal, Festiniog.
Browne, Rev. Canon, M.A., Bodvari, Trefnant, R.S.O.
Buckley, Sir Edmund, Bart., The Plâs, Dinas Mawddwy.

Cadwaladr, John R. 13, High St., Blaenau Festiniog.
Cardiff Free Library, Cardiff. (2 copies).
Casson, Randal, Bodawel, Portmadoc.

David, Evan, 46, Bute St., Treorky.
Davies, Alfred Owen, M.R.C.S., Machynlleth.
Davies, Rev. Anthony, Curate, Belle Vue Terrace, Festiniog.
Davies, Arthur, Commercial Traveller, Cemmaes, Mont.
Davies, Daniel, Quarry Agent, Ratgoed Quarries, Corris.

Davies, Daniel, 29, Ton Row, Pentre Ystrad, Pontypridd.
Davies, Rev. Daniel, The Vicarage, St. Asaph.
Davies, David, 127, Parr Stocks Road, St. Helens.
Davies, Rev. David Darley, Wesleyan Minister, Pontrhydygroes.
Davies, David E., Shop Uchaf, Cerrigydruidion.
Davies, David Griffith, Cefnbychan, Blaenau Festiniog.
Davies, Rev. D. W., M.A., Mostyn, Holywell.
Davies, Edward, Manager of Maesygamdda Quarry, Aberangell.
Davies, Edward, J.P., Plâs Dinam, Llandinam, Mont.
Davies, Rev. E. Cynffig, B.A., Grammar School, Menai Bridge.
Davies, Rev. Evan, Trefriw, R.S.O. [Dolgelley.
Davies, Rev. F. P. Watkin, B. A., The Rectory, Llanfachreth,
Davies, Rev. Prof. Gethin, B.A., D.D., Baptist College, Llangollen.
Davies, Hugh, Rhiwlas Office, Bala.
Davies, Humphrey, J.P., Abercorris, Corris,
Davies, H. Vaughan, Frondeg, Corris.
Davies, John, 171, Gelli Road, Pentre Ystrad, Pontypridd.
Davies, John, Graiglyn Terrace, Nantymoel, Bridgend.
Davies, John, Penygyrn, Cemmaes, Mont.
Davies, John, Police Constable, Penrhyndeudraeth.
Davies, John, Talyglanau, Dinas Mawddwy.
Davies, John, The Treasury, Whitehall, S.W.
Davies, J. B., Board School, Brithdir, Dolgelley.
Davies, J. B. Rock Foundry, Machynlleth.
Davies, Rev. J. Lewis, The Rectory, Llangynog, Oswestry.
Davies, J. R., Glanydon, Barmouth.
Davies, Jonathan, Pantglas, Dinas Mawddwy.
Davies, Lewis J., Post Office, Llanuwchllyn, Bala.
Davies, Richard, Bryndyfi, Cemmaes, Mont.
Davies, Richard, Cilwern, Llanymawddwy, Dinas Mawddwy.
Davies, Rev. Richard, Curate, Towyn, Merioneth.
Davies, Richard, Penrhos, Corris.
Davies, Richard (*Tafolog*), Oak Hill, Worthen, Salop.
Davies, Robert, The Criterion, Dolgelley.
Davies, Robert, Ty'nycoed, Dinas Mawddwy.
Davies, Robert J., Pensarn, Aberllefenny, Corris.
Davies, Rowland, Winllan, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Davies, Thomas, New Shop, Aberllefenny, Corris.
Davies, Thomas (*Tegwyn*), Dinas Mawddwy.
Davies, T. C., Ty Coch, Dinas Mawddwy.
Davies, William, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Davies, W. Cadwaladr (The Registrar of the University College of North Wales), Penybryn, Bangor.

Davies, W. H., 3, Glanywerydd Terrace, Barmouth.
Davies, W. R., Solicitor, Dolgelley.

Edmund, Henry, National School, Llanymawddwy.
Edwardes, Rev. David, M.A., Denstone College, Uttoxeter.
Edwardes, Rev. E., M.A., Trefeglwys Vicarage, Caersws, Mont.
Edwards, D., M.B., Bronygân, Cemmaes, Mont.
Edwards, Edward, Drwsynant Farm, Llanuwchllyn.
Edwards, Evan, The Laurels, Aberystwyth.
Edwards, Evan, Ty'nyberth Hall, Upper Corris.
Edwards, Rev. E. J., B.A., Tremeirchion Vicarage, St. Asaph.
Edwards, Frank, Knighton, Radnorshire.
Edwards, Rev. G., M.A., Llangadfan Rectory, Welshpool.
Edwards, Henry, Tanydderwen, Corris.
Edwards, John, Post Office, Llanbrynmair, Mont.
Edwards, Rev. J. C., M.A., Ingoldmells Rectory, Burgh-le-Marsh, Lincolnshire.
Edwards, Robert, Ty'nywern, Dinas Mawddwy.
Edwards, Rev. R. J., B.A., The Vicarage, Corris.
Edwards, Rev. T. (*Gwynedd*), Llanfihangel y Pennant Rectory, Abergynolwyn, Merioneth.
Edwards, Rev. T. C., M.A., D.D., The Principal of the University College of Wales, Aberystwyth.
Edwards. Rev. William, M.A., The Vicarage, Bangor.
Edwards, William, Ysgubor Ddegwm, Bodorgan, Anglesey.
Ellis, Evan, 3, John's Terrace, Clydach Vale, Pontypridd.
Ellis, John, The Lodge, Dinas Mawddwy.
Ellis, Rev. Ph. Constable, M. A., Llanfairfechan Rectory, Carnarvonshire.
Ellis, Rev. Robert, Llansannan Rectory, Abergele.
Ellis, W. Twigge, Solicitor, Bethesda.
Emanuel, Edward, Tyno House, Corris.
Evans, Charles (*Siarl Trannon*), Trefeglwys, Caersws, Mont.
Evans, David, Draper, &c., Cemmaes, Mont.
Evans, David. Gerddi, Llangadfan, Welshpool.
Evans, David, Glanafon, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Evans, David, Maesypandy, Dinas Mawddwy.
Evans, David, Solicitor, Machynlleth.
Evans, Rev. David, M.A., Talarfor, Barmouth.
Evans, David, Terrace, Llawryglyn, Llanidloes.
Evans, Rev. David, The Vicarage, Abergele, Denbighshire.
Evans, David, Ty'nypwll, Dinas Mawddwy.
Evans, David, Watchmaker, Aberystwyth.

Evans, Rev. David Charles, F.C.S., Menai Bridge.
Evans, Edward, Aberllefenny Farm, Corris.
Evans, Edward, Braichcoch Farm, Corris.
Evans, Edward, Idris Terrace, Upper Corris.
Evans, Rev. Edward, B.A., Llanfihangel Rectory, Llanfyllin.
Evans, Edward, Nantyrhedydd, Dinas Mawddwy.
Evans, Evan, Builder, Cemmaes, Mont.
Evans, Howell, Ceinan, Dinas Mawddwy.
Evans, Hugh, Tanyfoel, Dinas Mawddwy.
Evans, Rev. Ishmael, Frondeg, Bangor.
Evans, Rev. James, The Rectory, Talsarnau, Merioneth.
Evans, John, Aberhiwlech, Dinas Mawddwy.
Evans, Rev. John, C.M. Minister, Llanfaircaereinion, Welshpool.
Evans, John, Dugoed Mawr, Dinas Mawddwy.
Evans, Rev. John (*Eglwys Bach*), 47, Lonsdale Square, N.
Evans, John, Esgairgeiliog, Ceinws, Machynlleth.
Evans, John, Mount View, The Bulwark, Brecon.
Evans, John, Railway Station, Dinas Mawddwy.
Evans, John, Station Master, Trawsfynydd.
Evans, John, Tydu, Dinas Mawddwy.
Evans, John, Tymawr, Mallwyd, Dinas Mawddwy.
Evans, John, Quarryman, Station Road, Festiniog.
Evans, Rev. John D., Curate, Treherbert.
Evans, J. H., Silvan, M.A., Llanwrin Rectory, Machynlleth.
Evans, Rev. J. J., Coedmawr, Llanfachreth, Dolgelley.
Evans, Lewis, Shoe Warehouse, Dinas Mawddwy.
Evans, Lewis, Ty-uchaf, Llanymawddwy.
Evans, Miss, Brynhyfryd, Dinas Mawddwy.
Evans, Morris, Post Office, Dinas Mawddwy.
Evans, Rev. M. O., F.L.S., Avilion, Wrexham.
Evans, Robert, Ty'nllan, Garthbeibio, Welshpool.
Evans, Robert, Unicorn Inn, Dolgelley.
Evans, Rowland, Troedyfoel, Llanymawddwy.
Evans, Rev. Canon Silvan, B.D., Llanwrin, Rectory, Machynlleth.
Evans, Thomas, Perthyfelin, Dinas Mawddwy.
Evans, Thomas, Tydu, Dinas Mawddwy.
Evans, Rev. T. H., Minera Vicarage, Wrexham.
Evans, T. Llewelyn, National School, Ganllwyd, Dolgelley.
Evans, T. W., 63, Fellows Road, South Hampstead, N.W.
Evans, W. (*Artro*), Post Office, Dolgelley.
Evans, William, Police Constable, Llwyngwril, Merioneth.
Evans, William, Tŷ-uchaf, Llanymawddwy.
Evans, Rev. W. H., Wesleyan Minister, 9, Bold Terrace, Chester.

Evans, W. H., 145, Duke Street, Old Trafford, Manchester.

Felix, Rev. John, Wesleyan Minister, Caerwys, Holywell.
Foulkes-Jones, J. W., Bodhyfryd, Machynlleth.
Francis, William, Aberhiriaeth, Cemmaes, Mont.

Gardner. W. H., C.C., Llanerfyl, Welshpool.
Gillart, Richard, Llynlloedd, Machynlleth.
Grey-Edwards, Rev. A. H., M.A., 13, Paradise Row, Chester.
Griffith, Rev. David, Glan Arran, Dolgelley.
Griffith, Rev. David, Curate, Tyddyn, Pentraeth, Anglesey.
Griffith, Edward, J. P. Springfield, Dolgelley.
Griffith, Evan, Manager of Ratgoed Quarries, Corris.
Griffith, Henry, 37, High Street, Blaenau Festiniog.
Griffith, Robert, Wool Merchant, Dolgelley.
Griffiths, Rev. Edward, C. M. Minister, Meifod, Welshpool.
Griffiths, Ellis H., National School, Glasinfryn, Bangor.
Griffiths, Evan, Ffynnon Badarn, Aberllefenny, Corris.
Griffiths, Evan, Sun Inn, Llanymawddwy.
Griffiths, H. W., 7, College Green, Towyn, Merioneth.
Griffiths, George, J.P., Glendower, 24, Fitzjohn's Avenue, N.W.
Griffiths, James, Greenfields, Corris.
Griffiths, The Ven. Archdeacon, B.D., The Rectory, Neath.

Hall, W. R., Reporter, Aberystwyth.
Harding, Mrs., Cwmllecoediog, Cemmaes, Mont.
Harries, Rev. John, B.A., St. David's, Blaenau Festiniog.
Herbert, Rev. D., B.A., Curate, Dolgelley.
Hoskins, Rev. David, M.A., C.M. Minister, Festiniog
Howell, A., J.P., Rhiewpor, Berriew, Mont.
Howell, Daniel, Llanbrynmair, Mont.
Howell, Rev. E. Philip, M. A., Bottwnog Grammar School, Pwllheli.
Howell, The Ven. Archdeacon, B.D., The Vicarage, Wrexham.
Howells, David Henry, Dinmael, Corwen.
Howells, Humphrey, Brongamlan, Dinas Mawddwy.
Hughes, Arthur E., M.A., Brynhyfryd, Aberdovey.
Hughes, David, Cemmaes Bychan, Cemmaes, Mont.
Hughes, Rev. David, Cong. Minister, Crickhowell, Breconshire.
Hughes, David, Ty'r Capel, Aberllefenny, Corris.
Hughes, Rev. Edward, Llanbedr Rectory, Tal-y-bont, Conway.
Hughes, Evan, Mynydd-mwyn-mawr, Llanerchymedd, Anglesey.

Hughes, Rev. Henry, Brynkir Station, Garn, R.S.O., Carnarvonshire.
Hughes, John, Brynselwrn, Llandderfel, Corwen.
Hughes, Rev. John, B. A., Church View, Talysarn, R.S.O., Carnarvonshire.
Hughes, Rev. John, Congregational Minister, Dinas Mawddwy.
Hughes, John, Dovey View, Machynlleth.
Hughes, Rev. John, M.A., 17, Norwood Grove, Liverpool.
Hughes, John Charles, Plasgwyn, Dolgelley.
Hughes, John Owen, Bron Meirion, Upper Corris.
Hughes, Joshua, Rhos-y-gadair, Cardigan.
Hughes, Lewis, Garden Cottage, Cemmaes, Mont.
Hughes, Rev. Llewelyn R., B.A., The Vicarage, Portmadoc.
Hughes, The Misses, Glanafon, Cemmaes, Mont.
Hughes, Owen, Bryndedwydd, Corwen.
Hughes, Richard, Dolymaen, Garthbeibio, Welshpool.
Hughes, Robert, junr., Felin Newydd, Dolgelley.
Hughes, Robert (*Marian Môn*), Talwrn, Llangefni, Anglesey.
Hughes, R. W., Deputy Chief Constable, Dolgelley.
Hughes, Rev. T. J., M.A., The Rectory, Llanbedr D.C., Ruthin.
Hughes, Rev. Thomas, Wesleyan Minister, 13, Wellington Road, Wrexham.
Humphreys, John, Gesail, Dinas Mawddwy.
Humphreys, John, Penybont, Cemmaes Road.
Humphreys, John, Ty'nyrwtra, Llawryglyn, Llanidloes.
Humphreys, John, Typoeth, Cemmaes, Mont.
Humphreys, Richard, Tailor, Bridge Street, Corris.

Ingram, Richard, Penlan, Garthbeibio, Welshpool.

Jacob, T. Evan, M.A., 26, Sterne St., Shepherd's Bush, W.
James, Rev. D. Lloyd, D.D., Pont Robert Rectory, Welshpool.
James, Rev. Herbert A., M.A., B.D., The College, Cheltenham.
James, Rev. Thomas, M.A., C.M. Minister, Llandyssul, Cardiganshire.
Jenkins, David, Caerynwch, Dolgelley.
Jenkins, Rev. John, Llanymawddwy Rectory, Dinas Mawddwy.
Jenkins, Rev. John D., B.A., Penmaenmawr, Carnarvonshire.
Jenkyn, Richard, F.R.H.S. (*Iwan*), Moriah, Aberystwyth.
Jenkyns, Rev. J., Penmachno Rectory, Bettws-y-coed.
John, Thomas, Penwaun Skyfog, Solva, Pembrokeshire.
Jones, Benjamin, Llwyncelyn, Corris.
Jones, Rev. Cadwaladr, Meyrick Square, Dolgelley.

Jones, Rev. David, C.M. Mininster, Trefeglwys, Caersws, Mont.
Jones, David, Goat Inn, Dolgelley.
Jones, David, 15, Glynymynach St., Ynysybwl, Pontypridd.
Jones, David, Maesygamdda, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Jones, David, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Jones, David, C.C., Neuadd, Llawryglyn, Llanidloes.
Jones, David, Plasbach, Tregaron, R.S.O., Cardiganshire.
Jones, David, Rehoboth Chapel House, Corris.
Jones, David, The Lodge, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Jones, Rev. David, B.A., The Rectory, Llanfair P.G., Anglesey.
Jones, Rev. David, M.A., The Vicarage, Llandegai, Bangor.
Jones, Rev. David, The Vicarage, Llanrhaiadr, Oswestry.
Jones, Edward, M.D., J.P., Cae'rffynnon, Dolgelley.
Jones, Edward, Coal Merchant, Bryn Edwin, Corris.
Jones, Edward, Glandwyryd, Upper Corris.
Jones, Edward, The Mayor, Pwllheli.
Jones, Edward, Shop Newydd, Corris.
Jones, Edward Lloyd, 15, Miriam St., Clydach Vale, Pontypridd.
Jones, Edward R., Auctioneer, Cemmaes, Mont.
Jones, Mrs. Elizabeth, 27, Oxford St., Mardy, Pontypridd.
Jones, Ellis Pugh, C.C., Hendre, Llwyngwril, Meirioneth.
Jones, Evan, Boncyn, Dinas Mawddwy.
Jones, Rev. Evan, C.M. Minister, Blaengwenin, Llannon, Aberystwyth.
Jones, Evan, Caergof, Dinas Mawddwy.
Jones, Evan, Gloddfa Cottages, Dinas Mawddwy.
Jones, Rev. Evan, 47, Well St., Hackney, E.
Jones, Rev. Evan Foulkes, C.M. Minister, Glan-Conway.
Jones, E. Parry, J.P., Cefn-faes, Blaenau Festiniog.
Jones, H. Pughe, Tynyceunant, Dinas Mawddwy.
Jones, Humphrey, Pontarisgen, Dinas Mawddwy.
Jones, H. Ll., Board School, Corris.
Jones, Griffith (*Glan Menai*), Llanfairfechan, Carnarvonshire.
Jones, Gruffydd, Bronygadair, Dolgelley.
Jones, G. G., Bodlondeb, Dinmael, Corwen.
Jones, Henry, Dolyddcau, Upper Corris.
Jones, John, Bridge St., Corris.
Jones, John, Brynuchaf, Llanymawddwy.
Jones, John, Cerist Newydd, Dinas Mawddwy.
Jones, Rev. John, C.M. Minister, Pandy Mill, Penmachno.
Jones, John, Dolyfonddu, Cemmaes, Mont.
Jones, John, Erwbant, Dinas Mawddwy.
Jones, John, Ivy Bush, Aberangell, Cemmaes, Mont.

Jones, Rev. John, Llanbedr D.C., Ruthin.
Jones, Rev. John, B.A., Llannor Vicarage, Pwllheli.
Jones, John, C.C., Llwynygrug, Dinas Mawddwy.
Jones, John, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Jones, John, Penygraig, Dinas Mawddwy.
Jones, John, Rock Terrace, Aberllefenny, Corris.
Jones, Rev. John (F.), Wesleyan Minister, Bodhyfryd, Llanfyllin.
Jones, Rev. John (G), Wesleyan Minister, 16, Queen's Road, Aberystwyth.
Jones, Rev. J. Cynddylan, D.D., Cardiff.
Jones, John D., Bryngoronwy, Llanwrin, Machynlleth.
Jones, John Evans, Crosby Buildings, Dolgelley.
Jones, Rev. John Lloyd, The Rectory, Criccieth, Carnarvons.
Jones, John M., Caergai, Llanuwchllyn, Bala.
Jones, John M., County Surveyor, Trawsfynydd, Merioneth.
Jones, John M., Ratgoed Cottages, Corris.
Jones, John Meyrick, Meyrick House, Dolgelley.
Jones, John Morgan, Police Constable, Blaenau Festiniog.
Jones, Prof. J. Morris, M.A., University College of North Wales, Bangor.
Jones, John P. (*Ionfryn*), Corris.
Jones, John T., Surgeon, Bronygraig, Corris.
Jones, Rev. Josiah, Congregational Minister, Machynlleth.
Jones, L. D., Board Schools, Bangor.
Jones, Lewis, Bwlch, Dinas Mawddwy.
Jones, Miss, Post Office, Cemmaes, Mont.
Jones, Miss Ty'n Rhos, Cemmaes Road.
Jones, Morris, Creigfor, Dinas Mawddwy
Jones, Morris, Hafod Arthen, Trefriw, Carnarvons. (3 copies).
Jones, Morris, Minffordd, Upper Corris.
Jones, Morris, J.P., Plas-uchaf, Dolgelley.
Jones, Mrs., 1, Victoria Buildings, Dolgelley. (4 copies).
Jones, M. O., Board School, Treherbert.
Jones, Rev. O., Pentrevoelas Vicarage, Bettws-y-coed.
Jones, Rev. Owen, B.A., 143, Bedford St., Liverpool.
Jones, Owen, Corris House, Upper Corris.
Jones, Owen, Llanerch, Dinas Mawddwy.
Jones, Rev. Peter, (A.), Wesleyan Minister, Machynlleth.
Jones, R., Bryntirion, Newtown, Mont.
Jones, R. Bellis, Board School, Llanrhaiadr, Oswestry.
Jones, Rev. R. M., B.A., Curate, Llanllechid, Bangor.
Jones, Richard, Bookseller, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Jones, Richard, Cwmeidrol, Cemmaes, Mont.

Jones, Rev. Richard (*Glan Alaw*), Brynyrefail, Cwmyglo, Carnarvonshire.
Jones, Rev. Richard, M.A., Llandyfrydog Rectory, Llanerchymedd.
Jones, Richard, Nantyronog, Dinas Mawddwy.
Jones, Richard, Penygeulan, Llanymawddwy.
Jones, Robert, (Clerk of the Peace for Co. Merioneth), 5, Osmond Terrace, Portmadoc. (2 copies).
Jones, Robert, Gwerngae, Llanymawddwy.
Jones, Robert, Nantydugoed, Dinas Mawddwy.
Jones, Robert, junr., Ty'nllidiart, Brithdir, Dolgelley.
Jones, Robert, Ty'nybraich, Dinas Mawddwy.
Jones, Robert W., Berwyn House, Towyn, Meirioneth.
Jones, Rowland, Craigygronfa, Dinas Mawddwy.
Jones, Rowland, Garneddwen, Aberllefenny, Corris.
Jones, Rowland, Ty'nytwll, Dinas Mawddwy.
Jones, Samuel, Tymawr, Tafolog, Dinas Mawddwy.
Jones, Thomas, C.C., Brynmelyn, Llandderfel, Corwen.
Jones, Rev. Thomas, Ll. D., B. A., Curdworth Rectory, Birmingham.
Jones, Thomas, Foel Shop, Garthbeibio, Welshpool.
Jones, Thomas, 2, High Street, Dinas Mawddwy.
Jones, Thomas, Inspector of Police, Bala.
Jones, Thomas, Tannery, Llanuwchllyn Bala.
Jones, Thomas C., 2, Brynbedw, Cwmcewydd, Dinas Mawddwy.
Jones, T. D. (*Rhodwy*), Pont y Styllod, Mold.
Jones, Rev. T. O., F.R.H.S. (*Tryfan*), Llandudno.
Jones, William, Grocer, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Jones, William, Dolffanog Fawr, Corris.
Jones, William, Fronfelen, Corris.
Jones, William, 215, High Street, Bangor.
Jones, William F., J.P., The Terrace, Corwen.
Jones, Rev. W. Morgan, B.A. (Minor Canon of Bangor Cathedral), Bangor.
Jones, Rev. William S., M.A., C.M. Minister, Machynlleth.
Jones, Wm. Williams (*Gwilym o Fôn*), Brân House, Towyn, Merioneth.

Lewis, Rev. Canon, M.A., The Vicarage, St. David's, R.S.O.
Lewis, Rev. Canon, M.A., Trefnant Rectory, R.S.O., Denbighshire.
Lewis, C., Prudential Insurance Superintendent, Dolgelley.
Lewis, Rev. Daniel J., M.A., Llanfidan Vicarage, Llanfair P.G., Anglesey.

Lewis, Rev. Daniel R., B.A., Bontddu Vicarage, Dolgelley.
Lewis, Rev. David, Llangyniew Rectory, Welshpool.
Lewis, Edward, Gaewern Cottage, Corris.
Lewis, Edward, Pensarn, Aberllefenny, Corris.
Lewis, Francis, Pentre, Corris.
Lewis, Griffith J., Mynogau, Dinas Mawddwy.
Lewis, Griffith J. J., Llwyngwilym, Dinas Mawddwy.
Lewis, Hugh, Maescamlan, Dinas Mawddwy.
Lewis, Rev. H. Elvet, Avallon, Pryme Street, Hull.
Lewis, John, Manager of Abercwmeiddaw Quarries, Corris.
Lewis, L., Abereithy, St. David's, Pembrokeshire.
Lewis, Lewis, Cadoxton, Barry.
Lewis, Lewis, Ty'nyffridd, Upper Corris.
Lewis, Richard, Llwynderw, Llanerfyl. Welshpool.
Lewis, Rev. W. (*Gwilym Berw*), Snowdon Villa, Deganwy Street, Llandudno.
Lewis, Rev. W., Ystradyfodwg Vicarage, Pentre, Pontypridd.
Lewis, Rev. W. Dickens, M.A., D.D., Shrewsbury.
Lloyd, Henry, Minllyn School, Dinas Mawddwy.
Lloyd, John, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Lloyd, John, Veterinary Surgeon, Carno, Mont.
Lloyd, Prof. John E., M.A., Uni. Coll. of Wales, Aberystwyth.
Lloyd, John R., Tuhwntirafon, Dinas Mawddwy.
Lloyd, R., The Schools, Garthbeibio, Welshpool.
Lloyd, Rev. Thomas, Curate, Dinas, Rhondda.
Lloyd, Rev. Thos. H., M.A., Llansantffraid Vicarage, Oswestry.
Lloyd-Owen, D. C., F.R.C.S., 51, New Hall Street, Birmingham, (2 copies).

Manuel, Rev. T., Wesleyan Minister, Corris.
Marks, T. T., C.E., Plâs Myrddin, Abbey Road, Llandudno.
Marsh, Miss, Tybrith, Carno, Mont. (2 copies).
Miles, Henry, Grocer, Dolgelley.
Millard, Charles, Solicitor, Dolgelley.
Mills, D. R., Grocer, Dolgelley.
Mills, Richard, Brynllys, Llanidloes.
Morgan, Rev. David, B.D., Ysceifiog Rectory, Holywell.
Morgan, Rev. D. O., L.Th., Curate, Treorky.
Morgan, Rev. John, B.A., The Rectory, Llandudno.
Morgan, Rev. J. Parry, B.A., Llandyssil Rectory, Montgomery.
Morgan, Rev. M. Penrhyncoch, Bow Street, Cardiganshire.
Morgan, Rev. R. H., M.A., C.M. Minister, Menai Bridge.
Morgan, Rev. R. J., The Vicarage, Bryncoedifor, Dolgelley.

Morgan, Thomas, Brynteg, Cemmaes, Mont.
Morgan, Thomas, Victoria Buildings, Dolgelley.
Morgans, John, Blaenafon Terrace, Blaenau Festiniog.
Morris, David, Bryn, Cefncoch, Llanrhaiadr, Oswestry.
Morris, Rev. James, C.M. Minister, Llansawel, Llandilo.
Morris, Rees, 12, De Winton Field, Tonypandy, Pontypridd.
Morris, Richard, Drainllwydion, Cemmaes, Mont.
Morris, Richard, Grocer, Trawsfynydd, Merioneth.
Morris, Robert, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Morris, Thomas, Dovey Terrace, Dinas Mawddwy.
Morris, William, Station-master, Corris.
Moss, Thomas, Berwyn Station, Llangollen.

Owen, Arthur, Police Constable, Garthbeibio, Welshpool.
Owen, David, Cross Keys Inn, Dolgelley.
Owen, Edward H., F.S.A., J.P., Ty Coch, Carnarvon.
Owen, Rev. Elias, M.A., F.S.A., Efenechtyd Rectory, Ruthin.
Owen, Rev. Elijah, M.A., Llangoed Vicarage, Beaumaris.
Owen, Rev. George, Curate, Llangadfan, Welshpool.
Owen, Henry, Dolgoed, Aberllefenny, Corris.
Owen, Henry, Manager of Gartheiniog Quarry, Cemmaes, Mont.
Owen, Humphrey, Joiner, Dolgelley.
Owen, Rev. H. Davies, M.A., Penymynydd Vicarage, Llangefni, Anglesey.
Owen, Rev. J. Henlyn, Dinmael, Corwen.
Owen, Lewis, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Owen, Morgan, Cwmlline, Cemmaes, Mont.
Owen, Morris (*Isaled*), Solicitor, Carnarvon.
Owen, Owen Griffith, Mathafarn, Llanwrin, Machynlleth.
Owen, Rev. O. Lloyd, Cymdŷ, Llansilin, Oswestry.
Owen, Rev. Philip, Frongoch Vicarage, Bala.
Owen, Rhys, Bron Meirion, Upper Corris.
Owen, Rev. Richard, Llanfor Rectory, Bala.
Owen, Stephen, Police Station, Corris.
Owen, William, Braichcoch Inn, Corris.
Owen, Rev. William, Curate, Arthog, Dolgelley.
Owen, W. P., Solicitor, Aberystwyth.
Owens, John, India Office, Whitehall, S.W.

Parry, Rev. Griffith, D.D., Carno, Mont.
Parry, Gruffudd R. (*Nanmor Wyn*), Nantmor, Beddgelert.
Parry, John, Gartheiniog Quarry, Cemmaes, Mont.
Parry, John Thomas, 1, Gordon Terrace, Bethesda.

Parry, Rev. Thomas, Llys Aled, Colwyn Bay.
Pierce, Thomas, Bron-y-gân, Corris.
Platt, W. H., Nags Head, Dinas Mawddwy.
Price, Rev. Cadwgan P., M. A., The Rectory, Tanybwlch, Merioneth.
Price, Rev. James, 52, Portsmouth St., Oxford St., Manchester.
Price, Rev. Philip, Wesleyan Minister, Aberdovey.
Price, Thomas, Bylan, Dolgelley.
Price, Thomas, Coed, Dolgelley.
Price, Rev. Thomas, M.A., Prestatyn Vicarage, Rhyl.
Prichard, Rev. Rees, Llandyfodwg Vicarage, Bridgend.
Pryce, J. W., Gwastadgoed, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Prytherch, John, M.D., 77, Everton Road, Liverpool.
Pugh, Humphrey, Tailor and Draper, Dolgelley.
Pugh, John, Glyncaerig, Llanwrin, Machynlleth.
Pugh, Robert, Old Garden, Nannau, Dolgelley.
Pugh, William, Manufacturer, Maengwyn Street, Machynlleth.
Pugh, William, junr., Maengwyn Street, Machynlleth.

Rees, David, Penygraian, Llanymawddwy.
Rees, Edward, Chemist, Machynlleth.
Rees, Evan, Bwlch, Dinas Mawddwy.
Rees, Evan, Tanybwlch, Dinas Mawddwy.
Rees, Rev. Isaac, Curate of Penygraig, Pontypridd.
Rees, Rev. Morgan, Llangwyfan Rectory, Trefnant, Rhyl.
Rees, Richard, Glanyrafon, Aberllefenny, Corris.
Rees, Richard (*Maldwyn*), Paris House, Machynlleth.
Rees, Rev. T., The Rectory, Pentyrch, Cardiff.
Rees, Rev T. J., Congregational Minister, Carno, Mont.
Rees, William, Abergwybedyn, Cemmaes, Mont.
Rees, William, National School, Llanfachreth, Dolgelley.
Reese, J. O., The Schools, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Reese, Richard, Draper, &c., Llawryglyn, Llanidloes.
Richards, Rev. David (*Dewi Cynfab*), Llandysiliogogo Vicarage, New Quay, Cardiganshire.
Richards, David, The Willows, Whitchurch, Cardiff.
Richards, D. M., 9, Gadlys Terrace, Aberdare.
Richards, John, County Treasurer, Dolgelley.
Richards, John, Dovey Terrace, Dinas Mawddwy.
Richards, John, Maesygamdda, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Richards, R. T., Draper &c., Corris.
Richards, William (*Afonwyson*), Elm House, Cowbridge Road, Cardiff.

Richards, Rev. William, The Rectory, Cemmaes, Mont.
Richardson, Rev. Canon, M.A., The Rectory, Corwen.
Roberts, Edward, Dolcorsllwyn, Cemmaes, Mont.
Roberts, Rev. Ellis (*Elis Wyn o Wyrfai*), Llangwm Vicarage, Corwen. (2 copies).
Roberts, Enoch D. (*Llwydfor*), Talybont, Bangor.
Roberts, Rev. Evan, C.M. Minister, Dyffryn, Merioneth.
Roberts, Rev. Hugh, C.M. Minister, Brithdir, Dolgelley.
Roberts, Hugh, Oakhurst, Alderley Edge, Cheshire. (2 copies.)
Roberts, Hugh, Shop Newydd, Dolgelley.
Roberts, Rev G., C. M. Minister, Fron, Carneddi, Bethesda.
Roberts, Griffith, Post Office, Edeyrn, Pwllheli.
Roberts, Rev. John, C.M. Minister, Corris.
Roberts, John, Perfeddnant, Towyn, Merioneth.
Roberts, J. B., National School, Llanwrin, Machynlleth.
Roberts, Rev. J. J. (*Iolo Caernarfon*), Portmadoc.
Roberts, Rev. J. P., Wesleyan Minister, Towyn, Merioneth.
Roberts, Michael, Manager of Aberllefenny Quarries, Corris.
Roberts, Rev. Morris, Llanllyfni Rectory, Carnarvonshire.
Roberts, Owen, Minafon, Corris.
Roberts, O. Nicholls, Grammar School, Royston, Barnsley.
Roberts, O. O., Board Schools, Dolgelley.
Roberts, Richard, Solicitor, Pwllheli.
Roberts, Robert, Dôlawel, Blaenau Festiniog. (2 copies).
Roberts, Rev. Robert, Llanfechell Rectory, Rhosybol, Anglesey.
Roberts, Robert, Nantnodyn, Dinas Mawddwy.
Roberts, Robert, Brynffynnon, Camlan, Dinas Mawddwy.
Roberts, R. D., J.P., Bronygraig, Corwen.
Roberts, R. E., Chemist, Llanuwchllyn, Bala.
Roberts, R. R., Bryn Helen, Carnarvon. (2 copies).
Roberts, Thomas, Civil Engineer, Portmadoc.
Roberts, Rev. Thomas, 20, Ogwen Terrace, Bethesda.
Roberts, T. C., Rhosfawr, Penygarnedd, Oswestry.
Roberts, Rev. T. F., Fronheulog, Cemmaes, Mont.
Roberts, T. R., North Road, Carnarvon.
Roberts, William (*Ap Meurig*), Brynawel, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Roberts, William, Maesygroes, Bangor
Roberts, Sir William, M.D., F.R.S., 8, Manchester Square, W. (6 copies).
Roberts-Evans, Rev. J., 121, Astley Street, Tyldesley, Manchester.
Rosser, David, Solicitor, Pontypridd.
Rowlands, Rev. Principal Daniel, M.A., Normal College, Bangor.

Rowlands, John, Post Office, Bala.
Rowlands, John, Solicitor, Machynlleth.
Rowlands, William, Blacksmith, Dinas Mawddwy.
Ryder, Maurice, Ty-uchaf, Llanwrin, Machynlleth.

Salisbury, John, Signalman, G.W.R., Corwen.
Shankland, Rev. T., Baptist Minister, Mold.
Smith, E. H., Ffridd, Aberangell, Cemmaes, Mont.
St. David's, The Right Rev. The Lord Bishop of, The Palace. Abergwili, Carmarthenshire.
Swancott, R. Cae Du Cottage, Carno, Mont.
Swansea, The Right Rev. The Lord Bishop of, The Vicarage, Carmarthen.

Thomas, David, Penybont, Dinas Mawddwy.
Thomas, David, Tynewydd, Aberangell, Cemmaes, Mont.
Thomas, D. P., Frondeg, Festiniog.
Thomas, Rev. E. B., B. A., Heneglwys Rectory, Llangefni, Anglesey.
Thomas, George, Ely Farm, near Cardiff.
Thomas, Hugh, Quarryman, Dinas Mawddwy.
Thomas, Hugh S., Cattle Dealer, Llanerchymedd, Anglesey.
Thomas, John, 7, Court Colman, Nantymoel, Bridgend.
Thomas, John (*Eifionydd*), 11, Clark Terrace, Carnarvon.
Thomas, Rev. L. D., Curate, Tynewydd, Treherbert.
Thomas, Rev. Llewelyn, M.A., Fellow of Jesus College, Oxford.
Thomas, Miss, Llwyn Madoc, Garth, R.S.O., Breconshire.
Thomas, Morris, C.C., Chemist, &c., Corris.
Thomas, Rees, Bryngwyn, Dinas Mawddwy.
Thomas, Richard, Minllyn, Dinas Mawddwy.
Thomas, Rev. Robert, C.M. Minister, Llanerchymedd, Anglesey.
Thomas, Robert Owen, Dafarn Newydd, Upper Corris.
Thomas, Rowland, Police Constable, Festiniog.
Thomas, Rev. T., Mallwyd Rectory, Dinas Mawddwy.
Thomas, Thomas, Ty'n y Wern, Pontypridd.
Thomas, The Ven. Archdeacon, M.A., F.S.A., Meifod Vicarage, Welshpool.
Thomas, Rev. William, Park Glas, Carmarthen.
Tudor, H. (*Ap Maldwyn*), Penlan, Ceinws, Machynlleth.

University College of Wales, Aberystwyth.

Vaughan, Edward, Dugoed Bach, Dinas Mawddwy.

Vaughan, Edward, Staylittle, Llanbrynmair, Mont.
Vaughan, J. T., Mount Pleasant, Corris.
Vaughan, T. H., Hafodybeudy, Llanerfyl, Welshpool.
Vaughan, Rev. W. Gwynne, L. Th., Llanbrynmair, Mont.

Watkins, W. J., 56, North Parade, Aberystwyth.
Williams, Rev. B. (*Gwynionydd*), Rhydlewis, Llandyssil.
Williams, Rev. Canon, M.A., Llanfaelog Rectory, Tycroes, R.S.O., Anglesey.
Williams, C. M., Ex-Mayor, Aberystwyth.
Williams, Daniel, Lledr Villa, Dolwyddelen, Carnarvonshire.
Williams, Rev. David, Llandyrnog Rectory, Denbigh.
Williams, David, Rhydsarn, Llanuwchllyn, Bala.
Williams, Edward, Manager of Braichcoch Quarries, Corris.
Williams, E. R., Aberllefenny Board School, Corris.
Williams, E. T., National School, Festiniog.
Williams, E. Wynne, M.R C.V.S.E., Dolgelley.
Williams, E. Ylltyr, Bookseller, Dolgelley.
Williams, G. Owen, Jeweller, Dolgelley.
Williams, Henry, 4, Blaenogwr Row, Nantymoel, Bridgend.
Williams, Rev. Hugh, Baptist Minister, Nantyglo, Mon.
Williams, Rev. Prof. Hugh, M.A., C.M. College, Bala.
Williams, Hugh, London House, Llanerchymedd, Anglesey.
Williams, Rev. H. Cernyw, Baptist Minister, Corwen.
Williams, H. D., Superintendent of Police, Conway.
Williams, Mrs. Jane, Ton Row, Pentre Ystrad, Pontypridd.
Williams, John, Caerffynnon, Upper Corris.
Williams, Rev. J., M.A., Llanwddyn Vicarage, Oswestry.
Williams, John, 5, Osborne Terrace, Nantymoel, Bridgend.
Williams, Rev. John, Worth Matravers Vicarage, Wareham.
Williams, Rev. John Evan, M.A., Llanwenllwyfo Vicarage, Amlwch.
Williams, Rev J. O. (*Pedrog*), 63, Gladstone Road, Edge Hill, Liverpool.
Williams, Rev. John Titley, B.A., Penloyn, Llanrwst.
Williams, Lewis, Auctioneer, Dolgelley.
Williams, Rev. Lewis, B.D., Trelech Vicarage, Gelliwen, St. Clears.
Williams, Rev. Llewelyn M., The Rectory, Dowlais. (2 copies).
Williams, Moses, Maesypandy, Dinas Mawddwy.
Williams, Rev. O. F., Waunfawr, Carnarvon.
Williams, Peter, Penygareg St., Trawsfynydd.
Williams, Richard, F.R.H.S., Celynog, Newtown.

Williams, Richard, M.D., 82, Rodney St., Liverpool
Williams, Richard, Tanygader, Dolgelley.
Williams, Richard Jones, Bodgwilym, Barmouth.
Williams, Rev. Robert, B A., C.M. Minister, Dolgelley.
Williams, Robert (*Gwalia*), 22, Dinorwic St., Carnarvon.
Williams, Rev. R. A. (*Berw*), The Rectory, Llanfihangel y Pennant, Garn Dolbenmaen.
Williams, R. G., Shop Newydd, Dolgelley.
Williams, Rev. R. J., C.M. Minister, Blaenau Festiniog.
Williams, R. T., L.R.C.P., Dolbrawdmaeth, Dinas Mawddwy.
Williams, Mrs. S., Glangoegen, Cemmaes, Mont.
Williams, T. Johnes, Queen's Square, Dolgelley.
Williams, T. Owen, Bryndyfi Cottage, Dinas Mawddwy.
Williams, Rev. Watkin, Nannerch Rectory, Mold.
Williams, William, M.A., H.M.I.S., Bronheulog, St. David's Rd., Aberystwyth.
Williams, William, Bron Meirion, Upper Corris.
Williams, Rev. William, C.M. Minister, Dinas Mawddwy.
Williams, William, Frongaled, Dolgelley.
Williams, William, Gwengraig, Dolgelley.
Williams, William, Maesyffynnon, Dolgelley.
Williams, William, C.A. (*Northyn*), Corwen.
Williams, William, Old Caerynwch, Dolgelley.
Williams, Rev. William, B.A., The Rectory, Dolgelley.
Williams, William R., Police Constable, Dolgelley.
Wood, John, Manufacturer, Penegoes, Machynlleth.
Wooding, D. Lewis, Beulah, Garth, R.S.O., Breconshire.
Wynne, W. R. M., J.P., Peniarth, Towyn, Meirioneth.

ARGRAFFWYD GAN I. JONES, STATIONERS' HALL, TREHERBERT.